
THE LIBRARY OF CONGRESS

THE LIBRARY OF CONGRESS

The everlasting rest

of the saints

or

Treatise on the

blessed state of the saints

in the

enjoyment of God in

heaven.

By the Rev. Richard Baxter,

Pub. by the

Am. Tract Society

New-York

TRAGYWYDDOL

# ORPHWYSFA Y SAINT;

NEU

## DRAETHAWD

AR

## WYNFYDEDIG GYFLWR Y SAINT

YN Y

## MWYNHAD O DDUW YN Y NEFOEDD.

GAN Y PARCH. RICHARD BAXTER.

GYHOEDDWYD GAN

Y GYMDEITHAS DRAETHODOL AMERICANAIDD

150 Nassau-street, New-York.

1847

BV4831
.B43

Gift
[illegible]
[illegible]

# RHAGYMADRODD.

Mr. Richard Baxter, yr hwn sydd mor adnabyddus i'r byd fel awdwr "Gorphwysfa'r Saint," ynghyda llawer o ysgrifeniadau rhagorol a buddiol eraill, oedd dduwinydd hynod a sanctaidd, ac yn wr dysgedig a llafurus yn y weinidogaeth. Efe a aned, medd rhai hanesion, mewn lle a elwir Rowton, yn agos i High Ercal, yn sir Amwythig, y 12fed dydd o fis Tachwedd, 1615, ac a fu farw yn Llundain, yn 1691, yn 76 oed. Eraill a ddywedant mai Cymro oedd, a'i eni yn sir Drefaldwyn. Efe a gafodd ei ddwyn i fynu, ac a urddwyd i'r weinidogaeth, yn ol trefn Eglwys Loegr, ond a drodd allan wedi hynny yn un o'r Anghydffurfwyr, fel eu gelwid. Efe a fu amryw flynyddoedd yn ansefydlog, ond er hynny yr oedd yn llafurus yn y weinidogaeth, a chyda llwyddiant mawr, yn gystal yn Llundain ag mewn amryw fannau o'r wlad; ond ni fu efe mewn un man mor hir yn sefydlog, a chyda chymmaint boddlonrwydd iddo ei hun, a budd a llesâd i eraill, ag y bu yn Kidderminster, yn swydd Gaerwrangon, (*Worcestershire.*) Ond ei breswyliad yno (yr hyn oedd 16 mlynedd) ni fu yn gwbl olynol, neu ddidorriad; a hynny mewn rhan, o herwydd ei afiechyd corphorol, ond yn fwyaf pennodol, o achos y gwrthryfel a fu yn amser y Brenhin Siarls I. ac Oliver Cromwell. Ac nid o ran ei ddewisiad ei hun, na chwaith anewyllysgarwch trigolion y dref, y bu na ddychwelodd efe yno drachefn, ar ol ei ymadawiad yn y flwyddyn 1660. Cyn

iddo ddyfod i breswylio yno, yr oedd y lle yn llawn o anwybodaeth ac annuwioldeb; ond y Ddwyfol fendith ar ei lafur, a'i ddoeth a'i ffyddlon ymdrechiadau, a barodd i ffrwythau cyfiawnder darddu i fynu gyda chnwd toreithiog, a llwyddiant helaeth. Pan yr aeth efe yno gyntaf, nid oedd ond un teulu neu ddau, yn yr un heol, a fyddent yn ymarferu gweddi deuluaidd nos a boreu; a phan ymadawodd, nid oedd ond un teulu neu ddau, mewn heol, a fyddai'n *esgeuluso* offrymmu moliant a diolchgarwch ar allor deuluaidd. Ac ar ddydd yr Arglwydd, yn lle'r halogiad cyhoeddus a chyffredin o'r dydd hwnnw, gallasai rhyw un a fuasai'n myned trwy'r dref rhwng y ddau wasanaeth, glywed cannoedd o deuluoedd yn ddiwyd yn y gwaith hyfryd o ganu salmau, darllen yr ysgrythyrau, a llyfrau da eraill, neu'r pregethau a ysgrifennasent pan eu clywsant o'r areithfa. Yr oedd yn hynod o ran ei fawr ofal am yr eneidiau a ymddiriedwyd iddo, ac yr oedd ei weinidogaeth yn eu plith yn llwyddiannus anghyffredin. Lliosogodd rhifedi y cymmunwyr, fel ag yr aethant yn chwe' chant, ac nid oedd ond prin ddeuddeg yn eu mysg ag yr oedd dim amheuaeth yn ei feddyliau ynghylch eu ffydd diffuant a'u duwioldeb diragrith. A diolch fyddo i Dduw, y mae ychydig o weddillion yr yspryd o dduwioldeb, a gynnyddodd gymmaint yno y pryd hynny, i'w weled etto yn y dref a'r gymmydogaeth honno: (ac O na byddai iddo ledu a chwanegu'n fwy!) canys yn gyfattebol i'r mesur a'r yspryd hwnnw ag sy'n aros yn eu plith, felly hefyd y mae enw BAXTER mewn parch ac anrhydedd.

Yr oedd y gwr duwiol hwn mewn cymmeradwyaeth a pharch mawr megis awdwr ac ysgrifenydd ymysg ei gyfoedion dysgedig, y rhai a'i hadnabyddent yn dda, ac nid oedd ganddynt un achos na thueddiad i roddi iddo glod heb ei haeddu. Y Dr. Barrow a ddywedai am dano, "Nis rhagorodd neb arno yn ei ysgrifeniadau ymarferol, (sef y rhai hynny a berthynant i fuchedd sanctaidd,) ac am ei rai ymddadleuol ac ymryssonol, nis gwrthbrofwyd hwynt ond yn bur anfynych." Mewn perthynas i'w ysgrifeniadau, y rhai a elwid *Casuistical*, sef rhai yn dehongli amheu-

aethau, ac yn dattod cylymau crefyddol, Robert Boyle, Yswain, a ddywedai am dano "mai efe oedd yr un mwyaf addas yn ei oes, megis *Casuist*, o herwydd nad oedd yn ofni gwg na digofaint neb, na chwaith yn chwennychu sefyllfa un dyn." A'r Esgob Wilkins a ddywedai am dano, "ei fod wedi llwyr astudio a chyflawn ystyried pob testun a gymmerai mewn llaw i'w drin; a phe buasai yn byw yn y cynoesoedd, y buasai yn cael ei gyfrif yn un o deidiau'r Eglwys; ac mai digonol i un oes oedd rhoddi genedigaeth i ddyn o fath Baxter." Yr oedd gan yr Archesgob Usher y cyfryw feddyliau uchel am dano, fel ag y taer erfyniodd arno ymosod ynghylch ysgrifennu amryw o'i draethiadau bucheddol; ond yn enwedig yr un tra enwog hwnnw a gyfenwir "Galwad i'r Annychweledig." A Mr. Danton a gyfaddefai yn rhwydd am Mr. Baxter, "fod ei ysgrifeniadau yn fwy tebyg i'r rhai apostolaidd, nag eiddo yr un dyn arall yn ei oes." Ac y mae Dr. Bates yn ei ystyried megis awdwr a phregethwr, pan y mae yn dywedyd am dano, fel y canlyn, yn ei bregeth ar ol ei farwolaeth; "Yr oedd yn mhregethau Mr. Baxter gyfundeb anarferol o resymmau ac annogaethau i argyhoeddi'r meddwl, ac i ennill y galon. Yr oedd efe yn medru agor holl ffynhonnau rheswm âg annogaeth i lygad pob dyn deallus. Nid oedd dim modd gwrthwynebu awdurdod ei areithiau, heb wadu rheswm a Dwyfol ddatguddiad. Yr oedd yn wr o ffraethineb rhyfeddol, ac yn meddiannu rhwyddineb anghyffredin wrth lefaru. Yr oedd yn null ei gyfansoddiadau ryw glodfawr esgeulusdod o fanwl a rheolaidd osodiad geiriau; gan nas gellai ei feddylfryd uchel ymostwng i "odidawgrwydd ymadrodd, neu eiriau denu, o ddoethineb ddynol; (1 Cor. 11 : 1, 4;) nid oedd rhyw areithyddiaeth wageiriog ond dirmygedig yn ei olwg; ond ei ymadroddion oeddent eglur ac awdurdodol, yn argyhoeddi y deall, ac felly yn treiddio at yr enaid, ac yn ennill y serchiadau, fel ag yr oedd y rhai hynny mor fyddar a'r neidr, y rhai ni fynnent wrando ar lais rhinwr mor ddengar, a swynwr mor gyfarwydd. Salm 58 : 5. Yr oedd wedi ei gyflenwi â'r Yspryd

Glân, ac yn anadlu nefol dân, fel ag yr oedd yn chwythu gwres a bywyd i mewn i bechaduriaid meirwon, yn meddalhau calonnau caledion, ac yn toddi y rhai oeddent megis wedi rhewi yn eu beddau. Yr oedd ei lyfrau, o ran eu rhifedi, (canys yr oeddent yn chwaneg na chwech ugain,) ac amrywioldeb eu cynnwysiadau, yn ddigonol i wneuthur llyfrgell. Y maent yn cynnwys trysorau o amryfal dduwinyddiaeth ymddadleuol, cydwybodol, (*casuistical,*) ac ymarferol. Ei lyfrau duwinyddiaeth ymarferol, a bucheddol yn fwyaf pennodol, a fuont yn fwy effeithiol er troedigaeth lliaws o bechaduriaid at Dduw, nag unrhyw lyfrau eraill a argraffwyd yn ein hamser ni; ac a fyddant yn foddion parhaus, tra fyddo'r eglwys ar y ddaear, o adferu eneidiau colledig. Y mae'r fath ffrwd nerthol yn rhedeg trwy ei ysgrifeniadau, ac yn bywiogi ei holl waith, fel ag y mae'r darllenydd yn cael ei gadw yn effro, ac yn wyliadwrus." Gellir chwanegu at y dystiolaeth rhagflaenol, yr hyn a ddywedodd Cyhoeddwyr ei Waith ymarferol a chyflawniadol, mewn pedwar llyfr unplyg; lle y sylwant fel hyn yn y Rhagymadrodd: "Efallai nad oes nemawr o ysgrifeniadau yn ein plith, lle mae mwy o'r gwir yspryd Ciristionogol hwnnw i'w ganfod, a lle mae mwy o bwyll a gwybodaeth wedi eu cyd-dymheru â serchawgrwydd, neu fwy o ddymuniad a thueddrwydd i adnewyddu crefydd bur a dihalogedig, na chwaith rai a gawsant eu gwerthfawrogi gymmaint mewn gwledydd tramor, neu a gawsant eu bendithio'n helaethach yn ein gwlad ein hunain; trwy ddeffroi'r rhai difraw, addysgu'r anwybodus, cadarnhau'r ansefydlog, cyssuro'r rhai gwan eu meddwl, argyhoeddi'r rhai annuwiol, neu faethu ac adeiladu'r gwir dduwiolion yn y ffydd, nag ysgrifeniadau ymarferol (*practical works*) yr awdwr hwn." Dyma farn gwyr hynod a dysgedig am Mr. Baxter, y rhai oeddent yn ei adnabod ef yn hollol, ac yn gwybod yn dda am ei waith. Nid rhyfedd, gan hynny, fod yr awdwr derbyniol a dysgedig hwnnw, Mr. Addison, er nad oedd ganddo ond gwybodaeth amherffaith, mewn ystyr, am ei waith, etto yn rhoddi i ni'r hanes ganlynol mewn modd hawdd-

gar a diragfarn: "Fe ddigwyddodd i mi gyfarfod âg un wyneb dalen o waith Mr. Baxter; ac wedi i mi ddarllen hynny, meddyliais mor dda am dduwioldeb yr awdwr, fel ag yr anfonais am y rhan arall, ag y prynais yr holl lyfr." Pa achosion bynnag eraill oeddent yn cydweddu i hynny, etto rhaid cyfaddef, mai bri ac enw da Mr. Baxter, megis awdwr a phregethwr, a wnaeth i'r Brenhin Siarls II., yn fuan ar ol ei adferiad, ei ddewis ef yn un o'i gapelwyr; ac efe a bregethodd unwaith o'i flaen yn y sefyllfa honno: a'r Arglwydd Ganghellwr Clarendon hefyd a gynnygiodd iddo esgobaeth Henffordd, yr hon a farnodd yn addas ei gwrthod, gyda pharch a diolchgarwch.

Y mae *Gorphwysfa'r Saint*, yn haeddiannol, yn cael ei gyfrif yn un o'r rhanau mwyaf rhagorol o'i waith ymarferol ar dduwioldeb. Ac efe a'i hysgrifennodd pan yr oedd ymhell oddicartref, ac heb un llyfr arall i'w gynnorthwyo ond y Bibl; ac yr oedd hefyd yn y fath gyflwr gwael o ran ei iechyd, fel ag y bu amryw fisoedd mewn disgwyliad gwastadol o'i farwolaeth; ac o herwydd hynny, efe a drodd ei feddyliau at y testun nefolaidd hwn, yn fwyaf er budd a llesâd iddo ei hun; "A hyn (medd efe) a fu yn fwy buddiol i mi na'r holl bethau eraill a astudiais yn ystod fy holl fywyd." Ynghylch yr amser hwn, nis gallasai fod nemawr yn chwaneg na 30 oed. Gwedi hyn efe a bregethodd y cwbl o'r gwaith drosodd yn ei draethodau wythnosol (*weekly lectures*) yn Kidderminster, ac yn 1656, efe a'i hargraffodd; a hwn oedd y cyntaf a gyhoeddodd o'i holl waith ar grefydd ymarferol. "Y llyfr hwn (medd Dr. Bates) a ysgrifennodd pan yr oedd mewn clefyd nychlyd, a phan yr oedd mewn petrusder, ac yn amheus rhwng bywyd ac angeu; ond y mae ynddo arwyddion eglur o'i feddylfryd cryf a bywiog. I'r diben o *ddenu ein serchiadau*, y mae efe yn tynnu ymaith y llen, ac yn dangos i ni y cyssegr nefol uchod, ac yn datguddio i ni ogoniant a gorfoledd y gwaredigion, yn y nefol Bresennoldeb, a hynny gyda'r fath oleuni cryf a disglaer, fel ag y bydd holl wagedd hudol a thwyllodrus y byd hwn yn diflannu o'n gŵydd, mewn cyffelybiaeth

i ogoniant y gwynfyd hwnnw; ac fel ag y bydd y gwir gredinwyr yn diystyru'r cyfryw wael sothach, yr un fath ag y bydd dynion o gyflawn oed yn taflu ymaith deganau plant. Ac i *gynhyrfu dychryndod*, a chodi ofn arnom, y mae efe yn tynnu ymaith y gorchudd, ac yn dwyn llosgfeydd tragywyddol uffern mor eglur i'n golwg, ac yn darlunio poenau ac arteithiau'r damnedigion yn y fath fodd erchyll a dychrynllyd, fel ag y byddai i'r pechaduriaid mwyaf cyndyn (pe caent ras i'w iawn ystyried) droi ymaith oddiwrth eu trachwantau aflan, a'u hymarferion pechadurus."

Gorphwysfa dragywyddol sydd destun mor bwysfawr, ac o gymmaint canlyniad i bawb, a'r ystyriaeth o honi mor hyfryd a diddanus i'r gwir Gristion, fel nad ydyw'n beth mor rhyfedd (pan y meddyliom) fod y llyfr hwn wedi cael derbyniad mor fawr a chyffredinol trwy'r holl deyrnas; ond yn enwedig pan y cofiom ymhellach, yn y fath fodd rhagorol y bendithiodd ac y llwyddodd yr Arglwydd y gwaith hwn o eiddo Mr. Baxter, yn gystal o'r areithfa ag o'r wasg. Ac yr oedd efe wedi ystyried a thrin y testun hwn mor ddichlyn, mor synwyrol, ac mor rheolaidd, fel nad yw mor rhyfedd fod ei lafur wedi bod mor llwyddiannus; canys pa le y gellir disgwyl gweled effeithiau Dwyfol ras, a pha le yn wir y mae bendith Duw mor aml, ac mor eglur i'w chanfod, ag ydyw ar y moddion mwyaf doeth, a'r rhai mwyaf tebygol i atteb y diben, o ddwyn ymlaen ddiwygiad cyffredinol? Ac os ymddengys fod gwyr o fawr ddealltwriaeth a hynod dduwioldeb, yn cyfaddef iddynt dderbyn eu synniadau crefyddol cyntaf, wrth naill ai wrando ai ddarllen y pethau pwysfawr hynny ag sy'n gynnwysedig yn y llyfr hwn; ac hefyd bod yr hanes sydd ynddo o drueni'r annuwiolion, a chyssur y Cristion, yn ddarluniad cywir o'u profiad eu hunain; a'i fod hefyd wedi bod yn foddion o faethu ynddynt nefol fyfyrdod, a'u hannog i fuchedd dduwiol; os ydyw hyn oll (meddaf) yn wirionedd diamheuol, oni fydd y cyfryw dystiolaeth o'i fuddioldeb yn glod mawr i'r llyfr ac i'w awdwr?

Un o'r rhai hynny a gawsant wir dröedigaeth wrth glywed Mr. Baxter yn pregethu y tro cyntaf, ar sylwedd yr hyn sydd gynnwysdig yng Ngorphwysfa'r Saint, oedd y Parchedig Thomas Doolittle, G. C., yr hwn oedd wr genedigol o Kidderminster, ac y pryd hynny yn ysgolhaig, ynghylch dwy ar bymtheg oed; a'r hwn, gwedi hynny, a anfonodd Mr. Baxter i Neuadd Penfro, (*Pembroke Hall*,) yn Nghaergrawnt, (*Cambridge*,) lle y cymmerodd raddau yn y celfyddydau. Cyn iddo fyned i'r Athrofa (*University*) honno, yr oedd yn ysgrifennydd (*clerk*) i wr o'r gyfraith, a phan orchymmynodd ei feistr iddo ysgrifennu rhyw beth ar ddydd yr Arglwydd, efe a ufuddhaodd, ond etto yn bur anewyllysgar; a'r dydd nesaf efe a ddychwelodd adref, gyda chyflawn fwriad na chymmerai mewn llaw yr un gorchwyl arall tra fyddai byw, ond bod yn was i Grist yng weinidogaeth yr efengyl. Ac y mae ei glod etto yn yr eglwysi, o herwydd ei lafur buddiol a duwiol, megis gweinidog yr efengyl, fel athraw (*tutor*,) ac ysgrifenydd, neu awdwr.

Hyspysir yn hanes bywyd y Parchedig John Janeway, Aelod o Gymdeithas Coleg y Brenin, yn Nghaergrawnt, yr hwn a fu farw yn 1657, ei fod ef, mewn mesur mawr, wedi cael tröedigaeth trwy ddarllen amryw rannau o Orphwysfa'r Saint. Ac mewn llythyr a ysgrifennodd efe gwedi hynny at berthynas agos, gan arwyddoccau yn fwyaf enwedigol, y rhan honno o'r llyfr sy'n traethu ynghylch nefol fyfyrdod, y mae efe yn dywedyd,—"Y mae dyledswydd, yr hon pe cyflawnid hi yn iawn, a fyddai yn bur debygol o gymmeryd ymaith bob achos o wanobaith, neu iseldra yspryd (*melancholy;*) a'r peth yr ydwyf yn ei feddwl yw nefol fyfyrdod, neu aml ac iawn ystyriaeth ar y pyngciau pwysfawr hynny ag y mae'r grefydd Gristionogol yn eu dysgu i ni. Canys pe byddai i ni gael ein dwyn i *rodio* gyda Duw yn y ddyledswydd hon, ond un awr yn y dydd, O y fath effaith a gai hynny ar y rhan arall o'r diwrnod, a phe cyflawnid hi felly yn iawn beunydd, ar ein holl fywyd! Myfi a wyddwn ryw ychydig o'r blaen am fuddioldeb y ddyledswydd hon gyda'r

modd a'r cyfarwyddiadau i'w chyflawni; ond fe fu *Tragywyddol Orphwysfa'r Saint*, (o waith Mr. Baxter,) yn foddion tra hynod i'w chymhwyso'n ddyfnach, ac yn ddwysach ar fy meddyliau; llyfr ydyw hwn na's gellir yn hawdd ei werthfawrogi yn rhy fawr, ac am yr hwn y bydd gennyf achos byth i fod yn ddiolchgar i Dduw."—Y mae hanes bywyd y gweinidog ieuangc rhagorol hwn yn werth ei ddarllen, pe byddai ond yn unig er mwyn cael gweled yn y fath fodd hyfryd y byddai'n treulio ei amser, mewn nefol fyfyrdod, yn ol y cyfarwyddiadau ag sydd yng *Ngorphwysfa'r Saint.*

Fe fyddai'r Parchedig Mr. Joseph Allein, o Taunton, hefyd yn arferol o grybwyll yn fynych am y cynllun o nefol fyfyrdod sydd yn niwedd y llyfr hwn; a phan fyddai achos iddo son am Mr. Baxter yn ei ymddiddanion, efe a fyddai yn gwneuthur hynny gyda'r ymadroddion difrifol hyn, "Megis ag y dywedodd y tra duwiol wr Duw hwnnw, sef y sanctaidd Mr. Baxter."

Ac y mae'r Dr. Bates, ynghyflwyniad ei bregeth ar farwolaeth Mr. Baxter, at Syr Henry Ashurst, Bar., yn dywedyd wrth y gwr bonheddig duwiol hwnnw, yr hwn oedd gâr ffyddlon i Mr. Baxter, ac yn oruchwyliwr (*executor*) ei lythyr-cymmun,—"Yr oedd efe (sef Mr. Baxter) yn haeddiannol o'ch parch a'ch cariad; canys yr ydwyf yn deall mai wrth ddarllen y llyfr gwerthfawr hwnnw, sef *Gorphwysfa'r Saint*, y gwnaethpwyd yr argraffiadau cyntaf ar eich meddyliau ynghylch iachawdwriaeth eich enaid anfarwol, ac y'ch dygwyd i feddwl yn syn ac yn ddifrifol am ogoniant y byd sydd ar ddyfod."

Yn hanes bywyd y Parchedig Mr. Matthew Henry, yr ydym yn darllen fel y canlyn am Robert Warburton, Yswain, o'r Grange, (mab yr Ynad tra duwiol hwnnw o'r un enw, a thad ail wraig Mr. Matthew Henry)—"Yr oedd yn mawr hoffi dirgelwch, ac ymneillduo, ac ymdynnu allan o derfysg a swn y byd, yn enwedig tua'r rhan olaf o'i fywyd: a'r Bibl, a Gorphwysfa'r Saint o waith Mr. Baxter, oedd y ddau lyfr a fyddent arferol o orwedd beunydd ar ei fwrdd yn ei ystafell, ac efe a dreuliai y rhan fwyaf o'i amser mewn gweddi a darllen."

Ac yn mywyd y marchog duwiol a thra anrhydeddus hwnnw, Syr Nathaniel Barnadiston, yr hyspysir i ni, "Ei fod yn ddibaid mewn gweddi ddirgel, a darllen yr ysgrythyrau; ar ol hynny efe a ddarllenai ryw awdwyr dewisol eraill; ond o fewn ychydig amser cyn ei farwolaeth, efe a gymmerai hyfrydwch nid bychan yn darllen *Gorphwysfa'r Saint*, o waith Mr, Baxter, a'r parottoad a'r darpariadau tuag at hynny; yr hyn a ystyrid yn un o droion grasusol Dwyfol Ragluniaeth, yn anfon hwnnw megis arweinydd i'w ddwyn yn fwy uniawn a buan i'r orphwysfa honno."

Heblaw gwyr mawr ac anrhydeddus, i'r rhai y bu'r llyfr hwn yn werthfawr ac yn fuddiol, yr ydym yn cael hanes am fachgen bach, mewn llyfr a elwir "Arwydd i Blant," (*Token for Children*,) o waith y Parchedig Mr. Janeway, yr hwn a gyfrifai *Orphwysfa'r Saint* yn un o'r llyfrau mwyaf gwerthfawr, yn nesaf at y Bibl; ac wrth ei ddarllen yr eglurwyd ac y chwanegwyd ei dduwioldeb gymmaint, nes yr oedd ei feddyliau ynghylch ei orphwysfa dragywyddol, (hyd yn nod pan yr oedd yn ei iechyd,) yn llwyr orchfygu pob gofalon eraill, fel ag yr oedd efe yn byw mewn parottöad gwastadol at hynny; ac yr oedd yn fwy tebyg i un yn aeddfedu i'r gogoniant, nag i un o drigolion y byd hwn. A phan yr oedd ond deuddeng mlwydd oed, ac yn y clefyd o ba un y bu farw, efe a ddywedodd, "Dymunaf arnoch, gadewch i mi gael llyfr Mr. Baxter, fel y darllenwyf ychydig yn chwaneg ynghylch tragywyddoldeb, cyn i mi fyned yno."

Ac nid ydyw yn llai hynod, fod Mr. Baxter ei hun, mewn papyr a gafwyd yn ei lyfrgell (*study*) ar ol ei farwolaeth; gan gymmeryd sylw, gynnifer o bobl a gawsant eu hargyhoeddi wrth ddarllen ei lyfr, a gyfenwir *Galwad i'r Annychweledig*, ac ynghylch y rhai yr oedd efe yn derbyn llythyrau bob wythnos, yn chwanegu'r geiriau hynod hyn,—"Rhyngodd bodd i'r Arglwydd fendithio'r llyfr bychan hwn (*Galwad i'r Annychweledig*) â llwyddiant annisgwyliadwy, yn fwy nag un arall a ysgrifenais,

ond *Gorphwysfa'r Saint.*" A chyda golwg ar yr hyn sydd ysgrifennedig yr y llyfr hwn, a phan yr oedd ei awdwr yn fyw, y dywedodd y duwiol Mr. Flavel, yn y modd mwyaf hawddgar, am Mr. Baxter,—" Y mae efe yn awr yn bur agos i fyned i mewn i'r nefoedd, ac yn byw beunydd â'i olygon ar *orphwysfa'r saint*, a chyda chyssurlawn ddisgwyliad a sicr obaith o fyned i mewn iddi; ond y mae efe yn cael ei adael yn ein mysg, dros ychydig amser, megis un ag sy'n siampl ryfedd o fywyd ffydd." Ac y mae Mr. Baxter ei hun yn dywedyd, yn y rhagymadrodd o flaen ei *Draethawd ar Hunan-ymwadiad*, " Rhaid i mi gyfaddef, ymysg yr holl lyfrau a ysgrifenais, na fyddaf yn darllen yr un er lleshad i'm henaid fy hun, yn ei gwaith beunyddiol, mor aml a'r un a elwir *Bywyd Ffydd*, a *hwnw* ar *Hunan-ymwadiad*, ac hefyd y rhan ddiweddaf o *Orphwysfa'r Saint.*" Ar ol y cwbl, nid heb reswm da y dywedodd Dr. Calamy am y llyfr hwn,—" Dyma gyfansoddiad y bydd gan liaws mawr achos i fendithio Duw am dano yn dragywydd."

Y mae'r llyfr tra rhagorol a buddiol hwn yn gwneuthur ei ymddangosiad megis Talfyriad, ac o herwydd hynny yr ydys yn disgwyl y bydd yn fwy tebygol (gyda Dwyfol fendith) i ledaenu ei effeithiau iachusol ymysg y rhai hynny, y rhai, o ran diffyg cyfleusdra neu ewyllys, ni fuasent yn debygol o ddarllen drosodd y gwaith hwn yn ei faintioli cyntaf, sef yn llyfr mawr. Wrth ei dalfyrru, buwyd yn ofalus i beidio gwneuthur cam â'r awdwr, ac ar yr un pryd heb anghofio cynnydd, diddanwch, a buddioldeb y darllenydd ystyriol. A gobeithio y bydd i'r dibenion hyn, mewn rhyw fesur, gael eu hatteb, gan i mi geisio gwneuthur hynny, yn fwyaf neillduol, trwy adael allan bob pwngc ammherthynol a dadleugar, a phethau goruwch-naturiol ac anhawdd eu hamgyffred; ynghyd a rhagymadroddion, cyflwyniadau, a chrybwylliadau, am amryw arferion perthynol i'r oes ddiwedaf; ond yn fwyaf enwedigol trwy gyssylltu amryw bennodau yn un, fel y byddai i'r rhifedi o honynt gyfatteb yn well i faintioli'r llyfr; ac weithiau trwy gyfnewid *dull*, ond nid *ystyr*, yr ymad-

roddion er byrdra; a thrwy roddi geiriau mwy eglur a dealladwy yn lle hen rai anarferedig. Ac ni fuaswn yn ymgais â'r cyfryw waith, oni fuasai i eraill fy nghrybwyll a'm hannog i'w gymmeryd mewn llaw; a rhai o honynt o fawr gymmeradwyaeth, o ran dysgeidiaeth, gwybodaeth, a duwioldeb, ond nid wyf yn rhydd i'w henwi.

Ond pa mor ammherffaith bynnag y byddo'r gwaith hwn (os gwaith y gellir ei alw) yn ymddangos, gallaf ddywedyd am dano ei fod wedi bod yn un o'r gorchwylion mwyaf hyfryd o'm bywyd. Yn ddiau, geill y meddyliau am eu *tragywyddol orphwysfa* fod yn gwbl mor ddiddan i eneidiau yn y dyddiau presennol, ag y buont i eraill yn yr oesoedd blaenorol. Sicr yw gennyf, fod y cyfryw feddyliau mor gwbl angenrheidiol yn awr a chynt; canys nid ydyw'r profedigaethau i'w hesgeuluso nac yn wannach nac yn anamlach nag oeddent er ystalm. Yr achos nas canfyddir gwerth yr orphwysfa yw, o herwydd nad ydys yn ei hiawn ystyried; ac yr ydys yn ei hangofio o achos fod dynion mor anystyriol a dewis miloedd o deganau i'w diddanu yn lle'r gwaith nefol o *dduwiol fyfyrdod.* Ond pe iawn ystyrid y rhesymmau dwyfol ag sydd gynnwysedig yn y llyfr hwn, (ac, O bydded i ras ac Yspryd yr Iachawdwr eu gwneuthur yn fendithiol!) ynà y byddai i'r oes bechadurus gael ei dwyn i ystyried ei ffyrdd; a'r meddyliau hynny ag sydd wedi eu llesgâu gan drachwantau cnawdol a phleserau darfodedig, (wedi eu hadferu i reswm, a'u gosod ar wrthddrychau sylweddol,) fedru amgyffred harddwch y grefydd Gristionogol; ac felly fe fyddai i wagedd y byd, a dyfyrrwch cnawdol, gael eu dileu ymaith, a diflannu o flaen yr hyfrydwch sylweddol a'r gorfoledd nefol ag y mae'r gwir dduwiolion yn eu mwynhau hyd y nod ar y ddaear; ac yna hefyd y byddai i bob swydd a sefyllfa yn y byd gael eu chyflawni mewn modd gweddus, anrhydeddus, duwiol, a chydwybodol, a phob aelod, yn ei le a'i alwedigaeth, gyflawni ei ran i wneuthur i holl gorph y wladwriaeth, ddisgleirio ac ymddangos yn ogoneddus mewn harddwch sancteiddrwydd; ac fel hyn y

byddai pob enaid yn barod i fywyd neu angeu, ac yn ymostwng yn ewyllysgar i ewyllys Duw, naill ai i aros neu ynte i ymadael, gyda gobaith cyssurus o fwynhau'r *orphwysfa honno sydd etto yn ol i bobl Dduw.* AMEN.

---

## BEDD-ARGRAPH MR. BAXTER.

FFARWEL it' fyd o wagedd, a'th holl ynfydrwydd ffol,
Gadawaf dy deganau a'th gyfoeth gwael ar ol;
Gan i ti fod fel cysgod a llwch y llawr i mi,
Y rhai'n yn rhwydd drachefn a ro'f yn hawdd i ti;
A'r enaid sydd sylweddol, a roddaf i fy Nuw,
Can's iddo sylwedd wywyd—goleuni, cariad yw;
Y dail a ffrwyth y coedydd a syrthiant oll i lawr,
I fod yn faeth a lluniaeth i blant y Brenin mawr;
Ac er i'r byd eu herlid, a cheisio dwyn eu braint,
Ni ddichon fyth eu rhwystro i gael GORPHWYSFA'R SAINT.

# CYNNWYSIAD.

Tu dal.

Pen. I. Hyfforddiadau i'r gwaith, gydag ychydig hanes am natur ac ansawdd Gorphwysfa'r Saint . . . . 17

Pen. II. Y pethau rhagflaenol ag ydynt megis yn parottoi'r ffordd i Orphwysfa'r Saint . . : . . . . . . 41

Pen. III. Urddas a godidawgrwydd Gorphwysfa'r Saint . 53

Pen. IV. Pa fath yw'r dynion hynny, i ba rai y trefnwyd yr Orphwysfa honno . . . . . . . . . . 78

Pen. V. Mawr drueni y rhai hynny ag sydd yn colli Gorphwysfa'r Saint . . . . . . . . . . . 103

Pen. VI. Trueni y rhai hynny ag sydd yn colli, nid yn unig tragywyddol Orphwysfa'r Saint, ond hefyd mwyniant amserol, ac yn dioddef poenau Uffern . 125

Pen. VII. Yr angenrheidrwydd o ddyfal-geisio Gorphwysfa'r Saint . . . . . . . . . . . . 146

Pen. VIII. Pa fodd i ganfod ein hawl i Orphwysfa'r Saint . . . . . . . . . . . . . . . . 176

Pen. IX. Dyledswydd pobl Dduw i annog eraill i geisio yr Orphwysfa hon . . . . . . . . . . . 204

Pen. X. Nid yw Gorphwysfa'r Saint i'w disgwyl ar y ddaear . . . . . . . . . . . . . . . 235

Pen. XI. Yr angenrheidrwydd, a'r canlyniad pwysfawr, o fywyd nefolaidd ar y ddaear . . . . . . . . 264

Tu dal.

Pen. XII. Cyfarwyddiadau i arwain bywyd nefol ar y ddaear . . . . . . . . . . . . . . . . 294

Pen. XIII. Natur nefol fyfyrdod; ynghyd a'r amser, y lle a'r dymher fwyaf addas at hynny . . . . . . 324

Pen. XIV. Y defnydd y mae nefol fyfyrdod yn ei wneuthur o Ystyriaeth, Serchiadau, Hunan-ymddiddaniad, a Gweddi . . . . . . . . . . 343

Pen. XV. Nefol fyfyrdod yn cael ei chynnorthwyo gan wrthddrychau gweledig, ac yn cael ei hamddiffyn rhag calon dwyllodrus . . . . . . . . . . 366

Pen. XVI. Siamplau, neu enghraifftiau, yn cael eu rhoddi yn gynnorthwyon tuag at gyflawni'r ddyledswydd o nefol fyfyrdod; a'r holl waith yn cael ei orphen . . . . . . . . . . . . . . . . 394

## TRAGYWYDDOL

# ORPHWYSFA'R SAINT.

"Y mae gan hynny orphwysfa etto yn ol i bobl Dduw." Heb. 4 : 9.

## PENNOD I.

### HYFFORDDIAD I'R GWAITH, GYD AG YCHYDIG HANES AM NATUR AC ANSAWDD GORPHWYSFA'R SAINT.

§ 1. Diben pwysfawr yr apostol yn y testun, ac at ba un y mae'r awdwr yn dymuno difrifol ystyriaeth y darllenydd. § 2. Eglurhad o orphwysfa'r saint, ynghyd ag esponiad helaeth o'r gwaith. § 3. Pa beth y mae'r orphwysfa yma yn arwyddocau. § 4. Cyfaddefiad gostyngedig yr awdwr o'i hollol anghymmwysder i ddangos yr hyn oll a gynnwysir yn yr orphwysfa hon. § 5. Y mae yn arwyddocau yn gyntaf, Darfod â moddion gras. § 6. Ac yn ail, Rhyddid cyflawn oddiwrth bob drwg. § 7. Yn drydydd, Y grâdd uchaf o berffeithrwydd personol y saint, yn gystal mewn enaid a chorph. § 8. Yn bedwerydd, Y mwyniant mwyaf o Dduw, pen pob daioni. § 9–14. Yn bummed, Mwyniant melus a pharhaus o bresenoldeb Duw, yn meddiannu holl alluoedd yr enaid a'r corph; megis teimlad corphorol, gwybodaeth; cof, cariad, llawenydd, ynghyd a chydgyfranniad o gariad a gorfoledd. § 15. Yr awdwr yn cydnabod yn ostyngedig mor amherffaith yw'r hanes.

§ 1. Yn ein cwymp yn Adda y collasom, nid yn unig ein rhan yn Nuw, a chyflawn fwyniant o hono, ond hefyd pob gwybodaeth ysbrydol am dano, ac iawn dueddiad tuag at y fath ddedwyddwch. A phan y mae Mab Duw yn dyfod gyd â grâs i'n hachub, a chyd â dadguddiad, o ddedwyddwch a gogoniant ysbrydol a thragywyddol; nid ydyw yn cael ffydd mewn dyn, i gredu hyn. Fel y gwr

tlawd, yr hwn ni choeliai fod gan neb y fath swm a channpunt, am fod hyny gymmaint yn fwy nag a feddai ef ei hun, felly ni fyn rhai dynion gredu bod y fath happusrwydd ag yr oeddynt unwaith yn ei fwynhau, nag yn sicr y fath ag y mae Crist wedi ei bwrcasu. Pan addawodd yr Arglwydd orphwysfa Sabbothol i'r Israeliaid mewn gwlad o orphwysfa, dygwyddodd fod yn fwy gorchwyl i gael ganddynt gredu hynny, nâ chongcwerio eu holl elynion, ac ynnill iddynt y wlad; a phan gawsant honno, megis *ernes*, neu ychydig flaen-brawf o orphwysfa lawer mwy rhagorol trwy Grist, etto ni fynnent gredu, am fwy nac oedd yn eu meddiant, gan ddywedyd (yn eu meddyliau) gyd â'r glwth hwnnw, yn y wledd, "*Yn ddiau nid oes nefoedd well nâ hon.*" Neu os ydynt yn disgwyl ychwaneg trwy'r Messia, nid yw hynny ond ychwanegiad o'u dedwyddwch daearol. Yn erbyn y cyfryw dwyll y mae'r apostol yn traethu yn y rhan fwyaf o'r epistol hwn, ac yn profi yn eglur ac yn helaeth mai diben yr holl seremoniau a'r cysgodau oedd eu cyfarwyddo at Grist Iesu, y sylwedd o honynt oll; a bod diwedd eu pererindod trwy'r anialwch yng wlad Canäan, a'u gorphwysfa sabbothol yno, yn eu dysgu, i edrych am orphwysfa sydd well yn y nefoedd. A chyd â geiriau'r testun, sef fod *gorphwysfa etto'n ôl* i bobl Dduw, y mae'r apostol yn diweddu ei holl resymau; a'r ystyriaeth o hyn sydd yn cynnwys sylfaen holl gyssur y credadyn, a'r hyn y mae yn ei olygu yn ei ddyledswyddau a'i holl ddioddefiadau;—a hyn yw swm a sylwedd holl addewidion yr efengyl, a holl freintiau'r Cristion. Pa beth sydd yn fwy dymunol gan ddynion na chael gorphwysfa, ar ol blin gystuddiau, a dyledswyddau trymion, ac aml flinderau? Mae'r ystyriaeth o hyn, nid yn unig yn ein cyssuro, ond yn ein sefydlu. Hyn sydd yn ysgafnhau ein dyledswyddau —fel hyn yr ydym yn cael cymmorth i ddioddef trallod, ac i anrhydeddu Duw—hyn sydd yn cryfhau ein cariad, yn ychwanegu ein diolchgarwch, ac yn gwneuthur i'n

holl rasusau flaguro; ac ar feddyliau syml ac iawn grediniaeth ynghylch yr orphwysfa honno, y mae'r cwbl o'n crefydd a'n duwioldeb yn sefyll—ac bellach, ddarllenydd, pa fath bynnag 'wyt; pa un ai hên ai ieuangc, cyfoethog neu dlawd, yr ydwyf yn erfyn arnat, ac yn dy dynghedu yn enw'r Arglwydd, yr hwn ar fyrder a'th alw i gyfrif, ac a'th farn ac a benderfyna dy gyflwr tragywyddol ac anghyfnewidiol, na fo i ti ddarllen y pethau hyn yn unig, ac felly eu gollwng ymaith, gydâ chyfaddef eu gwirionedd; ond hefyd, bod i ti ymosod yn ddioed ynghylch y gwaith yma; ac felly cymmeryd Duw yn Nghrist, megis dy unig orphwysfa, a gosod dy galon arno, uwchlaw pob dim. A bydded i'r Duw byw, yr hwn yw rhan a gorphwysfa ei saint, wneuthur ein meddyliau cnawdol mor ysprydol, a'n calonau daearol mor nefol, fel y byddo i ni felly ei garu ef, ac ymhyfrydu ynddo; ac fel y bo hynny yn unig waith ein bywyd, ac fel na byddo i *mi*, sydd yn ysgrifenu, na *chwithau* sydd yn darllen y llyfr hwn, un amser droi'n ôl o lwybr y bywyd, *"Rhag bod neb o honom yn debyg i fod yn ôl, ac addewid wedi ei gadael i ni i fyned i mewn* i'w orphwysfa ef." Heb. 4: 1. a hynny o herwydd ein difrâwch a'n hanghrediniaeth.

§ 2. Gorphwysfa'r saint yw cyflwr mwyaf happus y Cristion, neu ynte mwyniant perffaith a diddiwedd o Dduw, gan y seintiau gorfoleddus, yn ol mesur y gwynfyd y mae eu heneidiau yn ei fwynhau gwedi angau; neu'r corph a'r enaid yn eu cyflawn wynfyd ar ôl yr adgyfodiad a'r farn olaf. Ac yn gyfattebol i'r esponiad yma o orphwysfa'r saint, yr ydwyf yn bwriadu rhoddi hanes mwy helaeth o'i natur, yn y dosparth hwn;—y pethau rhagddarparedig, pen. 2; ei ragoriaethau, pen. 3; y rhai y rhagddarparwyd yr orphwysfa iddynt, pen. 4. Ac i'r diben o eglurhau'r pwngc yn helaethach, fe roddir ychydig hanes yn pen. 5 o drueni y rhai hynny ag sydd yn colli'r orphwysfa hon; ac yn pen. 6 o'r rhai hynny ag sydd yn colli mwyniant amserol, ac yn dioddef poenau uffern;

ac yn nesaf, yn pen. 7, y dangosir yr anghenrheidrwydd o ddiwyd-geisio'r orphwysfa hon;—ac yn pen. 8, pa fodd y canfyddir ein hawl iddi; yn pen. 9, y profir y dylai y rhai hynny ag sydd yn gweled eu hawl, gymorth a chynhorthwyo y rhai ag sydd yn methu: ac yn pen. 10, nad yw'r orphwysfa yma i'w disgwyl ar y ddaear. Yn nesaf, pen. 11, bydd yn iawn ystyried mor anhepgorol anghenrheidiol yw buchedd sanctaidd, neu nefol ymarweddiad ar y ddaear. Yn pen. 12, pa fodd i arwain bywyd nefol ar y ddaear. Yn pen. 13, dangos anian myfyrdodau nefolaidd, ynghyd â'r amser, y lle, a'r dymer fwyaf addas i hynny. Yn pen. 14, ceir gweled pa ddefnydd y mae nefol fyfyrdod yn ei wneuthur—o ystyriaeth, serchiadau, hunanymholiad, gweddi, &c.; ac yn pen. 15, y dangosir pa fodd y mae gwrthrychau gweledig yn cynnorthwyo myfyrdodau nefolaidd, gyd ag addysg i wylio rhag calon dwyllodrus. Yn pen. 16, y rhoddir siamplau o synniad nefolaidd, ac y diweddir y cyfan.

§ 3. Anghenrheidiol yw cymeryd rhai pethau yn ganiattäol wrth ystyried natur yr orphwysfa hon, sef *mai dynion marwol sydd yn ei cheisio;* canys y mae angylion ac ysprydion gogoneddus yn ei mwynhau; a'r diafol ac ysbrydion drwg, neu y rhai damnedig, heb obaith. Yn ail, eu bod yn dewis Duw megis eu hunig wrthrych a'u happusrwydd; canys yr hwn sydd yn ceisio dedwyddwch mewn unpeth arall, a gyfeiliornodd y cam cyntaf. Yn drydydd, bod pawb ymhell oddiwrth y gwynfyd hyn. Dyma gyflwr galarus holl ddynolryw ar ôl y cwymp. Pan y mae Crist yn dyfod gyd ag adgenhedledig ras, nid yw efe yn cael neb yn eistedd yn llonydd, ond pawb yn rhedeg i ddinystr, ac yn pryssuro tuag uffern, hyd onis dygo efe hwy trwy argyhoeddiad i sefyll ac ystyried; ac wedi hynny cyfnewid eu calonnau a'u bucheddau, a'u dwyn yn wirioneddol atto ei hun, trwy droedigaeth hollol. Disgwylir fod dynion yn gwybod ac yn ceisio'r diben yma a'i ganlyniadau daionus; canys y daioni hwnnw

ni's adnabyddir, nis annog neb i'w ddymuno na'i geisio. Disgwylir i ni wybod, nid yn unig ein bod ymhell oddiwrth yr orphwysfa, ond hefyd ein bod yn iawn amgyffred ein pellder oddiwrthi, a meithdra'r ffordd. Y rhai ni synniasant erioed eu bod heb Dduw ac ar y ffordd i uffern, ni's gwybuant ychwaith y ffordd i'r nefoedd. A ddichon dyn wybod ei fod wedi colli Duw a'i enaid heb waeddi allan "*Darfu am danaf*?" Yr achos paham y mae mor ychydig yn cael yr orphwysfa hon ydyw, o herwydd nad ydynt yn deall eu bod hwy cyn belled oddiwrthi o ran hawl, ac o ran eu buchedd yn byw yn wrthwyneb iddi. Pwy erioed a geisiodd yr hyn ni wybu ei fod wedi ei golli? "*Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion.*" Mat. 9 : 12. Rhaid i ddyn hefyd gael ei ddwyn i gydnabod anghenrheidrwydd gweithrediadau effeithiol rhyw allu anweledig; os amgen, efe a saif yn llonydd, ac ni symmuda tua, i orphwysfa; canys onis bywhâ Duw ni, nis gallwn symmud. Doethineb pennaf y Cristion yw cydnabod Duw yn ei holl ffyrdd, gan osod ei holl ymddibyniad arno—"*Nid ydym ni ddigonol o honom ein hunain, i feddwl dim megis o honom ein hunain; eithr ein digonedd ni sydd o Dduw.*" 2 Cor. 3 : 5. "*Hebof fi,* medd Crist, *ni ellwch chwi wneuthur dim.*" Ioan, 15 : 5. Disgwylir hefyd, yn y lle nesaf, fod yn y rhai hynny a geisiant yr orphwysfa hon gynnyrch tufewnol o fywyd ysprydol. Nid yw Duw yn symmud dynion megis cerrig, ond y mae efe yn eu cynnysgaeddu â bywyd; nid i'r diben iddynt allu symmud hebddo, ond mewn ufudd-dod iddo ef, yr hwn yw'r Pen Rheolwr. Ymhellach, y mae'r orphwysfa hon yn dangos yr anghenrheidrwydd bod elfen yr enaid tuag atti, fel ag y mae yn dynfa barhaus, egniol, a llafurus: yr hwn a guddia ei dalentau a dderbyn gyflog y gwas diog. Crist yw'r drws, neu'r unig ffordd i'r orphwysfa yma; "*Oblegid cyfyng yw'r porth, a chul yw'r ffordd,*" Mat. 7 : 14. ag rhaid i ni *ymdrechu* os ewyllysiwn "*fyned i mewn.*" "*Canys llawer a geisiant fyned i mewn*

*ac nis gallant,*" (Luc 13 : 24,) yr hyn sydd yn arwyddocâu y byddir yn treisio teyrnas nefoedd, (Mat. 11 : 12;) ac nid awn i orphwysfa 'r saint, os *dechreuwn yn yr Ysbryd a diweddu yn y cnawd.* Gal. 3 : 3. Hwnnw yn unig, *yr hwn a barhao hyd y diwedd, a fydd cadwedig.* Mat. 24 : 13. Ac ni chyrhaeddodd un enaid erioed orphwysfa gyda Duw, yr hwn nid oedd wedi gosod ei serch arno ef uwchlaw pobpeth arall yn y byd : " Canys lle *y mae eich trysor, yno y bydd eich calon hefyd.*" Mat. 6 : 21. Gweddillion yr hen anian a wanhânt, ac mewn rhan a rwystrant y dymuniadau hyn, ond nis gorchfygant. A chan ystyried y rhwystrau sydd i'n dymuniadau, oddiwrth yr egwyddorion gwrthwynebol yn ein natur, ac oddiwrth wendid ein grasusau, yn nghyda'n pellder parhäol oddiwrth ben y daith, rhaid i'n hymdrech i gyrhaedd yno fod yn llafurus, ac â'n holl egni. Rhagddychymygir yr holl bethau hyn, mewn trefn i'r Cristion gael hawl yn yr orphwysfa nefol.

§ 4. Bellach, wedi esgyn hyd y grisiau hyn i'r cyntedd oddiallan, gadewch i ni edrych tu mewn i'r llén ; neu, a gawn ni ystyried pa bethau sydd gynnwysedig yn yr orphwysfa hon, yn gystal a'r hyn sydd ragddarparol iddi ? Ond, oh ! pa gyn lleied a wn i am y gogoniant hwnw. Yr oedd y gip-olwg a gafodd St. Paul yn cynnwys pethau annhraethadwy, neu ynte yr oedd yn anghaniatâol eu mynegu. Pe llefarasai am bethau nefol yn iaith y nefoedd, a neb yn deall yr iaith hono, pa leshâd a fuasai ? Yr Arglwydd a ddatguddio i mi yr hyn a fedrwyf ei ddadguddio i chwithau. Bydded i'r Arglwydd agor lle i'r goleuni, a dangos i mi a chwithau ein hetifeddiaeth ; nid yn unig megys ag y gwnaeth i Balaam, llygaid yr hwn a agorwyd i ganfod prydferthwch pebyll Jacob, a chyfanneddau Israel, yn mysg y rhai nid oedd iddo etifeddiaeth, ac oddiwrth y rhai yr oedd yn rhaid dyfod ei ddinystr ; ac nid megis y gwnaeth i Moses ychwaith, yr hwn a gafodd olwg yn unig o'r wlad heb ei meddiannu—ond

megis i'r marchnattäwr yn y ddameg, yr hwn a werthodd gymaint oll ag a feddai, ac a brynodd y perl gwerthfawr; ac hefyd, megis yr agorwyd y nefoedd i Stephan ferthyr, i mewn i ba un yr oedd efe ar fyned, ac y dangoswyd iddo'r gogoniant hwnw yr oedd efe yn barod i'w feddianu. Y pethau cynnwysedig yn yr orphwysfa nefol ydynt y rhai canlynol a'r cyffelyb, sef, darfod â moddion grâs; cyflawn ollyngdod oddiwrth bob gofid; y gradd mwyaf o berffeithrwydd y saint, yn gystal mewn corph ac enaid; mwynhâd agos o Dduw, y *Pen Daioni;* a hyny yn waith melus a pharhaus holl alluoedd yr enaid a'r corph mewn gwynfyd.

§ 5. Un peth cynnwysedig yn yr orphwysfa nefol, ydyw darfod â moddion grâs. Wedi cael y porthladd nid rhaid hwylio mwyach. Pan dderbynio'r gweithiwr ei gyflog, bernir fod y gwaith wedi ei orphen. Pan y cyrhaeddom ben y daith, nid rhaid myned hyd y ffordd mwyach. "*Pa un bynnag ai prophwydoliaethau hwy a ballant, ai tafodau hwy a beidiant, ai gwybodaeth* (cyn belled ag y mae yn arwyddocau moddion) *hi a ddiflanna,*" 1 Cor. 13 : 8. Ni bydd gweddi mwyach; canys ni fydd arnom eisiau dim ond cyflawn fwynhâd o'r pethau ac yr oeddem yn gweddio am danynt. Ni bydd ychwaith eisiau wylo ac ymprydio, na chwaith wylio mwyach, canys nyni a fyddwn allan o gyrhaedd pob temptasiynau a phechod. Darfu pregethu hefyd, canys gweinidogaeth dyn sydd wedi dibenu; sacramentau ac ordinhadau sydd hefyd yn afreidol; y gweithwyr a elwir i mewn, canys darfu'r cynhauaf; yr efrau a losgwyd, a'r gwaith a orphenwyd; yr annuwolion heb obaith, a'r saint heb ofn mwyach yn dragywydd.

§ 6. (2) Yn yr orphwysfa nefol, y mae cyflawn ollyngdod oddiwrth bob drygioni—yr holl ddrygau a'n canlynasant ar ein taith, ac ydynt megis o anghenrheidrwydd ynglŷn â'n habsenoldeb oddiwrth y pen daioni; a hyn hefyd, heblaw cael ein gwared allan o'r tân tragywyddol, a'r poenau annioddefol y mae y rhai hynny yn eu dioddef,

y rhai a esgeulusant Grist a moddion gras—etifeddiaeth druenus ag oedd ddyledus i ni cystal a hwythau wrth naturiaeth, ac yn ol haeddiant hefyd. Yn y nefoedd, *nid oes dim aflan,* nac sydd *yn halogi:* y pethau hyny oddiallan y maent. Dat. 21 : 27; 22 : 15. Ac yn ddiammeu nis adnabyddir yno y fath bethau a phoen a gofid, ac nis gwelir yno un gwyneb trist, corph egwan, cymmalau gweiniaid, gwael fabanod, hen methiannllyd, anardymmerau corphorol, clefydau nychlyd a phoenus, ofnau dychrynllyd, neu pa bethau bynnag sydd yn haeddu dywedyd am dano *drwg ydyw.* "Nyni a wylasom ac a alarasom pan yr oedd y byd yn gorfoleddu; ond ein galar bellach a drowyd yn llawenydd, a'n gorfoledd ni ddwg neb oddi arnom." Ioan, 16 : 20, 22.

§ 7. (3) Un peth arall ag sydd yn perthyn i'r orphwysfa hon, ydyw y graddau uchaf o berffeithrwydd corph ac enaid. Er cymaint fyddai'r gogoniant, (oni bai i ddyn gael ei addasu i fod yn gyfrannog o hono,) ni byddai o ddim lleshad iddo: "Nis gwelodd llygad, ac nis clywodd clust, ac nid aeth i galon dyn i amgyffred y pethau hynny a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef." 1 Cor. 2 : 9. Canys y llygad hwn o gnawd nis dichon eu gweled, na'r glust eu gwrando, na'r galon eu hamgyffred: ond yno y mae'r llygad, a'r glust, a'r galon, yn cael eu haddasu at hynny; neu ynte, pa fodd y maent yn eu mwynhau? Po mwyaf perffaith y golwg, mwyaf hyfryd y gwrthrychau hardd-dlws. Po mwyaf awchlym yr archwaeth, mwy melus y bwyd. Po mwyaf perffaith y glust, mwyaf hyfryd y gân. Felly hefyd, po mwyaf perffaith yr enaid, mwyaf gogoneddus y gorfoledd; ac mwy ardderchog mewn gogoniant.

§ 8. (4) Y rhan fwyaf o'r orphwysfa hon, ydyw cyflawn fwynhad o Dduw, y pen daioni: ac yma, ddarllenydd, na ryfedda os ydwyf yn methu, a'm bod yn amgyffred, ond mewn modd cwbl amherffaith, y pethau yr ydwyf yn ceisio eu traethu. Os *nad amlygwyd* i'r disgybl, yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu, pa *beth a fyddwn,* ond yn unig cyn

belled a hyn, sef, *pan ymddangoso efe y byddwn gyffelyb iddo*, (1 Ioan 3: 2,) nid rhyfedd fy mod yn gwybod cyn lleied. A chan fy mod yn gwybod cyn lleied am Dduw, nis gallaf wybod yn iawn pa beth ydyw 'r mwynhad o hono; a chan fy mod yn gwybod cyn lleied am natur a chyflwr ysprydion, pa fodd y mae i mi wybod am Dad yr ysprydion, neu gyflwr fy enaid fy hun, wedi fy nyrchafu i'r mwyniant o hono! Gallaf fi sefyll ac edrych ar bentwr o forgrug, a'u gweled oll ar yr un golwg: nis gwyddant hwy ddim am danaf fi, fy môd, fy natur, neu fy meddyliau: pa gan lleied gan hyny a raid i *ni* wybod am y Creawdwr mawr, er ei fod *ef* yn ein canfod *ni* oll ar unwaith! Mae 'r saint (medd Paul, 2 Cor. 3: 18) yn y byd hwn yn *edrych ar ogoniant yr Arglwydd megis mewn drych*, yr hyn sydd yn rhoddi i ni ryw wybodaeth anmherffaith o'r hyn a gawn weled mewn gogoniant. Pe b'ai i mi lefaru wrth ddyn annuwiol yn nghylch sanct-eiddrwydd, llawenydd a diddanwch ysbrydol y saint, hyd yn nod ar y ddaear, ni fedrai efe fy amgyffred; canys heb ras nis iawn adnabyddir gras; pa faint mwy anhawdd iddo amgyffred dim yn nghylch y gogoniant yma! Ond gallaf fod ychydig yn fwy hyderus i draethu am dano i'r saint; canys gras a rydd iddynt hwy beth gwybodaeth tywyll, ac ychydig flaenbrawf o'r gogoniant hwnw.

Pe byddai i ddynion ac angelion ymegnïo i osod allan ddedwyddwch y gwynfyd hwnnw mewn un gair, beth a fedrent ddywedyd yn fwy am dano na hyn, sef, mai y mwynhâd agosaf a mwyaf cyflawn o Dduw ydyw. Oh! y cyflawn lawenydd a gynnygir i'r credadyn yn y geiriau hynny o eiddo Crist: "*Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi; fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi.*" Ioan 17: 24. Os cafodd Brenines Seba achos i ddywedyd am ogoniant Solomon: "*Gwyn fyd dy wyr di, gwyn fyd dy weision hyn*, y rhai ydynt yn sefyll yn wastadol ger dy fron di, yn clywed dy ddoethineb, (1 Bren. x. 8;) yna,

yn ddiau, y rhai ydynt yn sefyll gerbron Duw yn wastadol, ac yn gweled ei ogoniant, a gogoniant yr Oen, ydynt lawer mwy dedwydd. Canys iddynt hwy y rhydd Duw fwyta o bren y bywyd, a bwyta o'r manna cuddiedig, ïe, efe a'u gwna hwy yn golofnau yn nheml Dduw, ac nid ânt allan mwyach; ac efe a ysgrifena arnynt enw ei Dduw, ac enw dinas ei Dduw, sef y Jerusalem Newydd, yr hon sydd yn dyfod i lawr oddiwrth Dduw o'r nefoedd; ac efe a ysgrifena arnynt ei enw newydd; ïe, mwy na hyn, os mwy a ddichon fod, efe a ganiatâ iddynt eistedd gydag ef ar ei orseddfaingc. "Dyma y rhai a ddaethant allan o'r cystudd mawr, ac a olchasant eu gynau, ac a'u cánasant yn ngwaed yr Oen. O herwydd hynny y maent o flaen gorseddfaingc Duw, ac y maent yn ei wasanaethu ef ddydd a nos yn ei deml: a'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc a drig yn eu plith hwynt. Yr Oen, yr hwn sydd yn nghanol yr orseddfaingc, a'u portha hwynt, ac a'u harwain at ffynnonau 'r dyfroedd byw; a Duw a sych ymaith bob deigryn oddiar bob wyneb" Dat. 2: 7, 17; 3: 12, 21; 7: 14, 17. O fyd tywyll, anwybodus! O chwi 'r annuwiolion, y rhai a hudir ac a dwyllir beunydd, a ellwch chwi ddangos i ni y fath ogoniant? Dyma ddinas ein Duw ni, lle mae pabell Duw yn mhlith dynion, ac efe a breswylia ynddynt, a hwy a fyddant iddo ef yn bobl, a Duw ei hun a fydd yn eu mysg hwynt, ac a fydd yn Dduw iddynt. A gogoniant Duw a'u goleua hwynt, a'r Oen a fydd llewyrch y lle. Ac ni fydd melldith mwyach; ond gorseddfaingc Duw a'r Oen a fydd ynddi; a'i weision a'i gwasanaethant, ac a gant weled ei wynebpryd, a'i enw fydd yn eu talcenau. Y geiriau hyn ydynt gywir a ffyddlon, a'r pethau hyn a ddeuant i ben ar fyrder. Dat. 21: 3–6. A ninau a ddywedwn, megis Mephiboseth, cymmered y byd y cwbl o'i wagedd a'i deganau, gan fod ein Harglwydd ni yn dyfod mewn heddwch. 2 Sam. 19: 30. Gorfoleddwch yn yr Arglwydd gan hynny, O chwychwi y rhai cyfiawn, a dywedwch gyda

Dafydd ei was ef, "Duw yw fy rhan a'm hetifeddiaeth: y llinynau a syrthiasant i mi mewn lleoedd hyfryd; ïe, y mae i mi etifeddiaeth deg. Gosodais yr Arglwydd ger fy mron yn wastad; ac o herwydd ei fod ar fy neheulaw ni'm hysgogir, o herwydd hyny llawenychodd fy nghalon, ac ymhyfrydodd fy ngogoniant; fy nghnawd hefyd a orphwys mewn gobaith; canys ni adewi fy enaid yn uffern, ac ni oddefi i'th sanct weled llygredigaeth. Dangosi i mi lwybr y bywyd; digonoifrwydd llawenydd sydd ger dy fron; ac ar dy ddeheulaw y mae digrifwch yn dragywydd." Salm 16: 5–8. Pa ryfyg a fuasai i ni feddwl neu siarad am y cyfryw beth, oni buasai i Dduw lefaru am hynny yn gyntaf. Ni feiddiaswn feddwl am oruchafiaeth ac anrhydedd y saint yn y bywyd hwn, fel y mae yr Ysgrythyr yn ei osod allan, oni buasai ei fod yn wirionedd eglur gair Duw. Pa mór rhyfygus dywedyd ein bod yn blant i Dduw—ymddiddan âg ef, a mwynhau ei gymundeb—preswylio yn Nghrist, ac yntau ynom ninnau, (1 Ioan 3: 1,) oni buasai bod y rhai hyn yn ymadroddion Duw? Ac os rhyfygus a fuasai hyn, pa faint mwy i feddwl am ddysgleirio fel yr haul, a bod yn gydetifeddion â Christ—barnu y byd—ac eistedd ar orseddfaingc Crist—a bod yn un âg ef a'r Tad,) Mat. 13: 43. Rhuf. 8: 17. 1 Cor. 6: 2. Dat. 3: 21,) oni buasai ein bod ni wedi cael hyn o enau Duw, ac megys odditan ei law; gan hyny, a lefarodd efe ac onis cywira? ac a ddywedodd efe, ac onis cyflawna? Numeri 23: 19. Ië, mór sicr a bod yr Arglwydd Dduw yn eirwir, felly y gwneir i'r gwr y mae efe yn mynu ei anrhydeddu. Esther 6: 11. Cymmer gyssur gan hyny, O Gristion, canys y mae yr amser yn dyfod, pan fydd Duw a thithau yn agos; ïe, mór agos ag y gelli di yn iawn ddymuno; ïe, tydi a gei aros yn ei dŷ, a bod yn un o'i deulu! A ydyw hynny yn ddigon gennyt? Dewisiwn gadw y drws yn nhŷ fy Nuw, o flaen trigo yn mhebyll annuwioldeb. Salm 84: 1. Ti a gei sefyll yn ei wydd bob amser, o gylch yr

orseddfaingc, yn ei gyntedd, yn ei ystafell: a ewyllysi di etto fod yn fwy agos? Tydi a gei fod yn blentyn iddo, ac yntau yn Dad i ti. Tydi a fyddi yn etifedd ei deyrnas: ïe, mwy nâ hynny, yn ddyweddi ei Fab: a pha beth yn ychwaneg a elli di ewyllysio? Tydi a gei fod yn aelod o gorph ei Fab, ac yntau yn ben; tydi a fyddi yn un â'r hwn sydd yn un â'r Tad; megis ac y mae efe wedi deisyf drosot, gan y Tad; *Fel y byddont hwy* yn un; megis yr wyt ti, O Dad, ynof fi, a minnau ynot tithau; fel y byddont hwythau *un* ynom ni. A'r gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy; fel y byddont un, megis yr ydym ni yn un: myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi; fel y byddont wedi eu perffeithio yn un, ac fel y gwypo'r byd mai tydi a'm hanfonaist i, a charu o honot hwynt, megis y ceraist fi. Ioan, 17 : 21–23.

§ 9. (5) Gellir ychwanegu, at yr hyn a ddywedpwyd, y bydd holl alluoedd yr enaid a'r corph yn yr orphwysfa hon, yn wastad mewn cyflawn waith, ac mewn llawn hwyl i fwynhau a chlodfori Duw. Ni fyddwn yn gorphwys yno, megis carreg wedi syrthio i'r ddaear; canys y corph hwn a gyfnewidir fel na byddo gig a gwaed mwyach, (y rhai ni ddichon etifeddu teyrnas Dduw,) ac felly efe a gyfodir yn gorph ysprydol: canys "nid y corph a fydd yr ydym yn ei hau; ond Duw sydd yn rhoddi iddo gorph fel y mynnodd efe; ac i bob hedyn ei gorph ei hun. 1 Cor. 15 : 37. Os ydyw grâs yn gwneuthur i'r Cristion wahaniaethu cymmaint oddiwrth yr hyn ag oedd efe o'r blaen, fel y gall efe ddywedyd, "*Nid ydwyf bellach yr un ag oeddwn gynt;*" pa faint mwy y byddwn yn rhagori mewn gogoniant ar yr hyn ag ydyw'r Cristion goreu yn y byd hwn; ïe, gymmaint ac y mae corph ysprydol, yr hwn sydd yn fwy gogoneddus nâ'r haul, yn rhagori ar y burgynod gwael, ffiaidd, afiach hyn, ym mha rai yr ydym yn awr yn preswylio; felly hefyd y bydd ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth yn rhagori hefyd ar ein synwyrau presennol; ac yn ddiau megis ac y bydd i Dduw dra-dyrchafu ein synwyrau, ac

helaethu ein gwybodaeth; felly hefyd yn yr un modd y bydd iddo ychwanegu ein dedwyddwch, a llenwi ein holl swydd-gynheddfau âg ef ei hun: ac yn ddiau ni fyddai'n anghenrheidiol ail-gyfodi'r corph, oni bai iddo fod yn gyd-gyfrannog o'r gogoniant. Megis gan hynny ac y bu efe yn gyd-gyfrannog yn y dioddefiadau a'r gostyngeidd-rwydd, felly y bydd hefyd o'r gwynfyd; ac megis y pwrcasodd Crist yr holl ddyn, felly y bydd y ddau yn gyd-gyfrannogion o ffrwythau'r prynedigaeth. O! gyflwr happus a gwaith bendigedig y corph gogoneddus; sef, sefyll o flaen gorseddfaingc Duw a'r Oen, a chyhoeddi'n wastad—"Teilwng wyt ti, O Arglwydd, i dderbyn go-goniant, ac anrhydedd, a gallu. Teilwng yw'r Oen a laddwyd, i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a nerth, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith;" canys ti a'n pryn-aist ni i Dduw â'th waed, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenhedl; ac a'n gwnaethost yn frenhinoedd ac yn offeiriadau i'n Duw ni. Aleluia, iechawdwriaeth, a gogoniant, ac anrhydedd, a gallu, a fyddo i'r Arglwydd ein Duw ni. Aleluia, canys yr Arglwydd Dduw Hollalluog sydd yn teyrnasu. O Grist'nogion, dyma'r orphwysfa fen-digedig; gorphwysfa *heb orphwyso;* canys nid ydynt yn gorphwys na dydd na nos, gan ddywedyd, "Sanct, sanct, sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog, yr hwn oeddit, yr hwn wyt, a'r hwn a fyddi." Dat. 4 : 11; 5 : 9, 10; 19 : 1–6. Ac os hyn a fydd gwaith y corph, pa faint mwy hyfryd a dymunol a fydd y cyfryw orchwyl i'r enaid; canys fel ag y mae'r doniau a'r galluoedd yn fwy, felly hefyd y mae'r gweithrediadau'n gryfach, a'r mwynhad yn fwy melus ac hyfryd; fel ag y mae gan bob un o alluoedd y corph eu priodol orchwyl, ac yn derbyn ac yn mwynhau eu priodol swyddau, felly hefyd y mae gan yr enaid fwyniant a gwaith neillduol a rhagorol, gan adnabod, a chofio, a charu, a chael felly anrhaethol fwynhad. Dyma hyfryd waith yr enaid; dyma'r llygaid ysprydol hynny trwy ba rai y mae'n gweled, a'r breichiau hynny â pha rai y mae yn derbyn ac yn cofleidio.

§ 10. Gwybodaeth o'i rhan ei hun sydd dra dymunol; a chan belled ag y mae 'r enaid rhesymol yn rhagori ar y natur anianol, cymmaint a hynny y mae difyrwch y doethion (yn chwilio dyfnderoedd anian, yn dysgu dirgeledigaethau y celfyddydau) yn rhagori ar fwyniant gwael y gloddestwr, y meddwyn, yr aflan, a holl weithredwyr anwiredd. Pa mór rhagorol gan hynny yw gwirionedd, a pha mór fawr yw hyfrydwch y rhai hynny sydd yn adnabod Duw'r gwirionedd? Y fath gynneddf werthfawr a godidog yw synwyr! Canys gall dyn, trwy wybodaeth, amgylchu'r ddaear, mesur yr haul, y lloer a'r ser, ac hyd yn nod yr wybren faith! Medr ragfynegu y diffygiadau ar yr haul a'r lleuad lawer o flynyddoedd cyn iddynt ddigwydd! Ond y wybodaeth fwyaf rhagorol o'r cwbl oll, yw medru adnabod Duw, y Bôd tragywyddol, yr hwn a grëodd bob peth; ïe, gwybod peth am dano yn y byd hwn, a llawer mwy yn yr hwn sydd ar ddyfod. O ryfeddol ddoethineb a daioni y Duw bendigedig! Mae efe wedi cynnysgaeddu dyn â gwybodaeth, yr hyn sydd yn naturiol yn tueddu at y gwirionedd, ac yn chwennych nesâu at y Duw byw, yr hwn yw Ffynnon pob gwirionedd. Dywed i mi, O Gristion, wedi i ti fod yn hir sefyll yn syllu tua 'r nefoedd, ac megis wedi cael trem-olwg ar Grist, a ydwyt ti ddim yn barod i feddwl dy fod wedi bod gyda Phaul yn y drydedd nef—pa un ai yn y corph ai allan o'r corph—ac wedi gweled pethau annhraethadwy. 2 Cor. 12: 2, 4. Neu, onid ydwyt ti barod gyda Phedr i ddywedyd, "Arglwydd, da yw i ni fod yma." Marc 9: 5. O na chawn drigo yn y mynydd hwn. O na chawn bob amser weled y pethau yr ydwyf fi yr awrhon yn eu gweled. A fuost ti erioed yn edrych cyhyd ar Haul cyfiawnder, hyd onid oedd dy lygaid yn serenu gan dra-ardderchog belydr y gogoniant? Ac onid oedd disgleirdeb y goleuni yn peri i bob peth yn y byd ymddangos yn dywyll, yn ddû, ac yn annymunol, yn enwedig y dydd hwnnw pan yr oeddit, ysgatfydd, yn dioddef erlid

dros Grist, pryd y bydd efe arferol o ymddangos yn fwyaf eglur i'w bobl? Oni welaist ti erioed un yn cerdded gyd â thi, trwy'r *ffwrn danllyd, boeth*, a'i wynebpryd yn gyffelyb i Fab Duw? Dan. 3 : 25. Cred fi, O Gristion; ïe, coelwch Dduw, chwi y rhai ydych yn gwybod fwyaf am Dduw yn Nghrist; nid yw'r hyn yr ydych yn ei wybod am dano yma ddim i'w gyffelybu i'r hyn a gewch ei wybod; ïe, mewn cymhariaeth i hwnnw, nid yw yn haeddu'r enw *gwybodaeth*. Canys megis ag y bydd i'r cyrph hyn ddarfod i roddi lle i rai gwell, felly y bydd i'n gwybodaeth ballu, gan gael ei lyngcu gan un rhagorach a pherffeithiach. "*A'i gwybodaeth hi a ddiflanna.*" Canys o ràn y gwyddom; eithr pan ddelo'r hyn sydd berffaith, yna yr hyn sydd o ràn a ddilëir. Pan oeddwn fachgen, fel bachgen y llafarwn, fel bachgen y deallwn, fel bachgen y meddyliwn; ond pan aethum yn wr, mi a roddais heibio bethau bachgenaidd. Canys gweled yr ydym yr awrhon trwy ddrych, mewn dammeg, ond yna wyneb yn wyneb; yn awr yr adwaen o ràn, ond yna yr adnabyddaf megis y'm hadwaenir. 1 Cor. 13 : 8–12. Na ryfedda gan hynny, O Gristion, mai hyn yw bywyd tragywyddol, sef adnabod Duw a Iesu Grist: Ioan, 18 : 3. Canys y mwynhad o Dduw a Iesu Grist yw bywyd tragywyddol; a lle y mae'r enaid yn cael mwynhau, yno y mae'n cael gwybodaeth. Ond y rhai hynny ag sydd yn synied pethau daearol yn unig, y rhai hynny ag sydd yn ymgynghori â chig a gwaed, nid ydyw'r cyfryw rai yn credu fod gwybodaeth o Dduw yn wir happusrwydd. Ond nyni a wyddom ein bod o Dduw, ac y mae'r holl fyd yn gorwedd mewn drygioni; ac a wyddom ddyfod mab Duw; ac a roddes i ni feddwl, fel yr adnabyddom yr hwn sydd gywir; ac yr ydym ni yn y cywir hwnnw, sef yn ei Fab ef Iesu Grist; hwn yw y gwir Dduw a bywyd tragywyddol: 1 Ioan, 5 : 19, 20.

§ 11. Ni fydd y cof ychwaith yn segur, nac yn anfuddiol yn y gwaith bendigedig hwn; o'r uchelder hwnnw y gall y saint edrych o'u hol ac o'u blaen; a'r gwaith o gymharu'r

pethau a aethant heibio â phethau presennol, a fydd yn sicr o wneuthur i'r enaid cadwedig hoffi'r lle, ac ymhyfrydu yn ei gyflwr. Canys wrth sefyll ar y mynydd hwnnw, o ba un y gall weled yr anialwch mawr ar y naill law, ac o'r tu arall hyfryd wlad Canaan—sefyll yn y nefoedd, ac edrych yn ol ar y ddaear, a chydbwyso'r ddau le, yn y cloriannau diragfarn, deall a gwybodaeth, pa fodd na fydd i hyn dra-gorfoleddu'r enaid, a pheri iddo waeddi allan, "Onid hon yw'r etifeddiaeth hyfryd a bwrcasodd Crist â'i werthfawr waed?" Nid rhyfedd hynny, ac etto y mae'n rhyfeddod. O bris amhrisiadwy! O werth digyffelyb! O gariad digymhar, yr Hwn a ymddarostyngodd ei hun mor isel, ac a gafodd allan ffordd i achub pechaduriaid! Ai dyma ddiwedd ein ffydd? ai hyn oedd dyben gweithrediadau'r Yspryd? ai gwyntoedd cariad ac awelon rhad râs a'm chwythasant i'r fath borthladd dymunol? Ai dyma'r orphwysfa hyfryd i ba un y tynnodd cariad Crist fi? O ffordd fendigedig! O gyflwr tra gogoneddus! Ai hwn yw'r gogoniant hwnnw am ba un yr oedd yr ysgrythyrau'n llefaru, a gweinidogion yn pregethu? Myfi a welaf yn wir yn awr, pa fath newyddion da yw'r efengyl? newyddion o heddwch a phethau daionus; newyddion o lawenydd mawr i'r holl genhedloedd? Ai dyma ddiwedd fy holl alar, fy ymprydiau, fy narostyngiadau, fy rhodiad galarus; ai hyn oedd diwedd hyfryd y cwbl oll? Ai yn y modd happus hwn y gorphenwyd fy holl weddiau, fy holl wyliadwriaethau, fy holl ofnau i droseddu? Ai felly y dybennodd fy holl helbulon, holl brofedigaethau Satan, pob wawd, a gwatwar, a dirmyg y byd? O anian bechadurus, yr hon a wrthwynebaist cyn gymmaint a chyhyd y cyfryw fendithion tra mawr a gwerthfawr! O enaid anheilwng, mor anewyllysgar oeddit i ddyfod i'r fath le gogoneddus. A oedd dyledswydd mor hyfryd yn faich gennyt? Ai rhy dda oedd y byd gwael gennyt i'w golli? Ai gormod oedd gennyt i ymadael a'r cwbl oll, ymwadu â'r cwbl oll, a dioddef pob

peth er mwyn y fath wynfyd â hwn? Mor amharod ac anewyllysgar oeddit i farw er mwyn hyn! O galon dwyllodrus, buost agos i'm bradychu a'm hanfon i losgfeydd tragywyddol, a cholli i mi'r gogoniant hwn; ai nid ydwyt yn cywilyddio, fy enaid, i ti erioed ammeu'r cariad a'th ddygodd yma? dy fod yn gwàn-gredu'r ffyddlondeb hwnnw a'th ddygodd yma; dy fod yn ammeu cariad Crist, pryd y dylasit ffieiddio dy hun, o herwydd i ti ddiffoddi cymhelliadau'r yspryd, ac i ti gamystyried a chamddeall y Rhagluniaeth honno, ac i ti anfoddloni i'r ffyrdd hynny, a'r drefn honno, a'th ddygasant i'r cyfryw wynfyd a hwn? Ond yn awr yr ydwyt yn gweled yn eglur, ac yn hollol gydnabod, fod dy Waredwr yn dy achub, yn gystal pan yr oedd efe yn croesi dy ddymuniadau; a phan yr oedd efe yn caniattau yr hyn yr oeddit yn ei ofyn, yn gystal pan yr oedd efe yn briwo dy galon a phan yr oedd efe yn rhwymo dy archollion. Nid i ti y mae i mi ddiolch, o *hunan* anheilwng, canys yr oeddit yn llwyr anhaeddiannol i dderbyn y cyfryw ddisglair goron. I'r Jehofah gogoneddus, gan hynny, y byddo'r diolch, ac i'r Oen y byddo'r gogoniant yn dragywydd.

§ 12. Ond oh! *Y Cariad!* hwn yw'r cyflawn, yr agos a'r melus fwynhad. Canys Duw Cariad yw, a'r hwn sydd yn aros mewn cariad sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau. Ac yn awr y mae'r enaid gwàn yn cwyno, gan ddywedyd, Oh, na fedrwn garu Crist yn fwy. Ond yno ti a elli wneuthur hynny â'th holl galon, a thi a gei dy gyflenwi â'i gariad anrhaethol. Ychydig a wyddost ti yn awr am ei hawddgarwch, ac o herwydd hynny ychydig yr ydwyt yn ei garu. Ond y pryd hynny yr olwg arno a fydd yn effeithio dy galon; a thra fyddi yn canfod ei ddisglair wedd a'i wynebpryd siriol, ti á fyddi yn cael dy ddylenwi â gorfoledd ei gariad. O chwy-chwi, Grist'nogion, oni fydd eich cariad chwi yn ennynu peth pan fyddoch yn cofio ei ryfeddol a'i anhaeddiannol gariad ef tuag attoch chwi? Oni fydd yr adgoffa o'i anfeidrol

ddaioni yn ennyn eich serch tuag atto, a llewyrch disgleirdeb ei wynebpryd, ac arwyddion ei ewyllys da, yn toddi eich calonnau o'ch mewn? Pa beth a wna, a pha faint mwy a fydd y pryd hynny, pan y byddwch byw mewn cariad, a chael o honoch bob peth ynddo ef, yr hwn yw pob cyflawnder? Yn ddiau y mae'r cariad yma yn *waith* ac yn *gyflog* hefyd. Duwioldeb sydd elw yn y byd hwn, a pha faint mwy yn yr hwn sydd ar ddyfod! Pa fath fraint werthfawr yw hyn, sef bod Duw yn caniattâu i ni ei garu; ei fod yn dioddef i'r rhai hynny ei dderbyn i'w mynwes, y rhai a fuasent o'r blaen yn caru pechod, ac yn cofleidio anlladrwydd ac aflendid: ïe, mwy nâ hyn, y mae efe yn talu'n ôl iddynt gariad am gariad; ïe, mil mwy. O Gristion, tydi a fyddi y pryd hynny yn llawn o gariad; ac etto, er i ti ei garu gymmaint a fedrech ac a allech, ti a gei dy garu ganddo ef ddeng mil mwy. A gafodd breichiau Mab Duw eu lledu ar y groes? ac a wnaethpwyd, gan y waywffon, ffordd at ei galon? ac oni fydd ei freichiau wedi eu lledu, a'i galon yn agored i ti mewn gogoniant? A ddarfu iddo ef dy garu di yn gyntaf, cyn i ti ei garu ef; ac oni fydd iddo dy garu hyd y diwedd? A ddarfu iddo ef dy garu di, pan oeddit yn elyn iddo, pan yr oeddyt yn bechadur mawr, a phan yr oeddit yn dy ffieiddio dy hun; ïe, a'th arddel a'th gymmeryd yn eiddo iddo ei hun, pan yr oedd pawb yn dy wrthod, a thithau hefyd yn ymwadu ac yn ymwrthod â thi dy hun? Ac oni fydd iddo'n awr dy garu â chariad anfeidrol a thragywyddol, a thithau yn fab iddo—a thithau y pryd hynny yn un o'r seintiau gogoneddus—a phan y byddi yn medru talu'n ôl iddo beth cariad am gariad? Ac oni fydd iddo efe, yr hwn a wylodd mewn cariad uwchben Jerusalem pan yr oedd ei dinystr yn agoshau, lawenychu gan gariad uwchben y Jerusalem newydd mewn gogoniant? Cred hyn o wirionedd, O Gristion, a myfyria arno; ac os yw ei freichiau tragywyddol am danat yn y byd hwn, pa faint mwy y bydd i

ti gael dy gofleidio yn y nefoedd gan y cariad hwnnw, yr hwn oedd o dragywyddoldeb, ac a bery yn dragywydd? Y cariad hwnnw, yr hwn a wnaeth i Fab Duw ddyfod o'r nefoedd i'r ddaear, o'r ddaear i'r groes, o'r groes i'r bedd, ac o'r bedd i ogoniant;—y cariad hwnnw, yr hwn a fu yn lluddedig, a newynodd, a gafodd ei demptio, ei ddiystyru, ei fflangellu, ei gernodio, a phoeri arno, a groeshoeliwyd, ac a drywanwyd â'r waywffon; yr hwn a fu yn ymprydio, yn gweddio, yn dysgu, yn iachâu, yn wylo, yn chwysu, yn gwaedu, yn marw: dyma'r cariad a'th gofleidia di yn dragywydd. Pan fyddo perffaith gariad crëedig, a pherffaith gariad digrëedig, wedi ymgyfarfod ynghyd, ni fyddant megis Joseph a'i frodyr, y rhai oeddent yn gorwedd ar yddfau eu gilydd, yn wylo; ond hwy a fyddant yn caru ac yn gorfoleddu, ac nid yn caru ac yn wylo; etto fe wna'r newydd hyn i deyrnas Satan siglo, sef, fod brodyr Joseph wedi dyfod, a bod y saint wedi eu derbyn yn ddiogel i fynwes Crist, allan o gyrhaedd uffern yn dragywydd. Ac nid ydyw hwn ychwaith yn gyfryw gariad, a'r un ag oedd rhwng Dafydd a Jonathan, yn griddfan allan eu galarnad trwm o herwydd eu bod yn gorfod ymadael y naill oddiwrth y llall. Ond gwybydd hyn, O gredadyn, er dy gyssur tragywyddol, nad all na phechod, na daear, nac uffern na dim arall dy wahanu oddiwrth gariad Crist, tra yr ydwyt yn ymddibynnu arno trwy ffydd, yn credu ynddo, ac yn ymddiried iddo. Canys dyma'r Cyfaill a lŷn wrthyt yn well nâ brawd, ac y mae efe yn gadarn i achub, ac uwchlaw pob gelyn: *A chyd âg ef nid oes gyfnewidiad, na chysgod troedigaeth:* Iago, 1 : 17. Ac ni fydd ei gariad ef tuag attat ti, yr un fath a'th gariad ti tuag atto ef pan yr oeddit ar y ddaear, yn oeraidd, yn anwadal, weithiau'n gryf, ac weithiau'n wan. Efe, yr hwn ni pheidiodd a'th garu pan yr oeddit mewn gelyniaeth i'w erbyn, ac hefyd er gwaethaf dy holl anffyddlondeb a'th ddiystyrwch o hono; ïe, ac er i ti mor wargaled ei

ddiystyru, a ddichon y cyfryw un beidio a'th garu wedi iddo'th wneuthur *oll yn hawddgar?* Efe, yr hwn sydd yn dy gynnal mor ddianwadal yn ei gariad, fel y gelli ofyn yn hyderus gyd â'r apostol, pa beth a ddichon fy ngwahanu oddiwrth gariad Crist, "*Ai gorthrymder, neu ing, neu ymlid, neu newyn, neu noethni, neu enbydrwydd, neu gleddyf?*" Rhuf. 8 : 35. Ac oni fydd efe ei hun gan hynny yn ffyddlon? Yn ddiau ti a elli fod yn hyderus, a dywedyd yn hyf, "*Y mae'n ddiogel gennyf, na all nac angau*, nac einioes, nac angylion, na thywysogaethau, na meddiannau, na phethau presennol, na phethau i ddyfod, nac uchder, na dyfnder, nac un creadur arall, ein gwahanu ni oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd." Rhuf. 8 : 38, 39. Ac onid ydym ni, bellach, megis yr apostol, yn llawn syndod a rhyfeddod, ac yn barod i ofyn fel yntau, "Beth *gan hynny a ddywedwn ni wrth* y pethau hyn?" Rhuf. 8 : 31. Cariad o'r fath hyn ag sydd uwchlaw pob deall dyn, sydd yn ddirgelwch mawr i'n gwybodaeth a'n synwyrau amherffaith ni. Nid rhyfedd gan hynny fod yr angylion yn chwennych edrych ar y dirgelwch yma. 1 Pedr, 1 : 12. Ac os gwaith ac hyfrydwch y duwiolion yn y byd hwn ydyw "*ceisio amgyffred gyd â'r holl saint, beth yw'r lled, a'r hyd, a'r dyfnder, a'r uchder, gwybod cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth,*" Eph. 3 : 18. gellir deall yn ddiammeu oddiwrth hyn, mai gwaith tragywyddol orphwysfa'r saint fydd mwynhau cariad Duw yn Nghrist.

§ 13. Yn y lle nesaf, y mae i ni ystyried fod *llawenydd* yn helaeth gyfrannogi yn y mwynhad hwn. Dyma'r diben gogoneddus, i'r hwn y mae'r holl bethau eraill yn tywys iddo, ac yn diweddu ynddo; sef yr anrhaethol ddedwyddwch ag y mae'r seintiau bendigedig yn ei fwynhau wrth weled, ac adnabod, a charu Duw, a hwythau yn cael eu caru ganddo yntau. Dyma'r "*garreg wen yr hon nid edwyn neb, ond yr hwn sydd yn ei derbyn.*" Dat. 2 : 17. Yn ddiau dyma'r *llawenydd*, "ni bydd *y dieithr yn gyfrannog*

*o hono.*" Diar. 14 : 10. Mae holl ffyrdd yr Arglwydd a'i holl drugareddau yn tywys tuag at, ac yn diweddu yn y llawenydd yma. Ein Iachawdwr bendigedig a wylodd, a ofidiodd, ac a ddioddefodd, fel y byddai i'r saint gael gorfoleddu. Y mae efe yn anfon yr Yspryd Glân, y Diddanydd, attynt; y mae efe yn cyflawni ei addewidion iddynt; y mae efe yn dangos iddynt yr happusrwydd hwnnw ag sydd ar ddyfod, *fel y byddo eu llawenydd yn gyflawn:*" Ioan, 16 : 24. Y mae efe yn agor iddynt ffynnon y dyfroedd byw, fel na byddo iddynt sychedu mwyach, ac fel y byddai ynddynt yn tarddu i fynu i fywyd tragywyddol. Ioan, 4 : 14. Y mae efe yn eu *ceryddu*, a thrwy hynny yn eu haddasu i'r orphwysfa. Salm 94 : 12, 13. Y mae efe yn gwneuthur hyn yn rhan o'u gwaith a'u dyledswydd, sef llawenhau; "*Llawenhewch yn yr Arglwydd yn wastadol, a thrachefn, meddaf, llawenhewch.*" Eph. 4 : 4. Nid yw efe un amser yn eu dwyn i'r fath gyflwr isel, nad oes iddynt fwy o achos gorfoledd na thristwch. Ac os yw'r Arglwydd yn gofalu felly am ein cyssur a'n diddanwch yn y byd hwn, Oh! pa gymmaint fydd y llawenydd hwnnw a barottowyd gan Grist i'r saint; a'r enaid hefyd wedi ei wneuthur yn addas iddo, ei hunig waith a'i hyfrydwch fydd llawenhau yn wastadol. Mae'n debygol y bydd llawenydd y saint yn fwy o lawer na phoenau'r damnedigion, canys *poenau* creaduriaid ydynt a *barottowyd i ddiafol ac i'w angylion,* Mat. 25 : 41, ond y llawenydd ydyw "*llawenydd ein Harglwydd.*" Mat. 25 : 21. A'r un gogoniant ac a roddodd y Tad i'r Mab, y *mae'r Mab yn ei roddi iddynt hwy,* Ioan, 17 : 22, a hynny yw "*eistedd gyd ag ef, ar ei orseddfaingc: megis yr eisteddodd yntau gyd â'i Dad, ar ei orseddfaingc.* Ioan, 17 : 22. Oh! tydi enaid gwan, yr hwn wyt yn gweddio am lawenydd, yn disgwyl am lawenydd, yn cwyno o eisiau llawenydd, a'r hwn wyt yn hiraethu am lawenydd, y pryd hynny y cei fwynhau cyflawnder llawenydd, gymmaint a fedr dy galon gynnwys;

ïe, mwy nag a feddyliaist erioed am dano, nac a ellaist un amser ei ddymuno: a thra yr ydwyt ar dy daith tuag yno, bydded i ti *rodio yn ddïesgeulus, a gwylio bob amser;* ac yna gad i Dduw ranu i ti yr amser a'r graddau o lawenydd a fyddo da yn ei olwg. Efallai ei fod yn eu cadw hyd yr amser y bydd arnat fwy o'u heisiau. Gwell i ti golli dy gyssur na 'th ddïogelwch; ïe, pe gwelai ef yn dda i ti farw yn llawn ofnau a gofidiau, ni bydd hynny ond am fynyd awr, ac yna diflannant, a gorphenir hwynt oll mewn annhraethol lawenydd. Nid ydyw ofnau y cyfiawn ond, *megis llawenydd y rhagrithiwr, dros fynyd awr,* (Job 20 : 5,) ac nid yw digofaint Duw tuag at ei bobl ychwaith ond byr: "Canys *ennyd fechan y bydd yn ei lid; yn ei foddlonrwydd y mae bywyd; dros brydnawn yr erys wylofain, ac erbyn y boreu y bydd gorfoledd.*" Salm 30 : 5. O ddedwydd foreu! O enaid tlawd, gostyngedig, ac amheus, pa fodd y llamai dy galon o lawenydd pe ba'i llais o'r nef yn hysbysu i ti gariad Duw tuag attat, a maddeuant dy bechodau, a'th sicrhau o'th ran yn y gorfoledd hwnnw? Pa faint mwy gan hynny a fydd dy lawenydd wedi i ti fyned i mewn i'r tragywyddol fwynhad, ac wedi i ti gael dy dderbyn, mewn gwirionedd, i lawenydd dy Arglwydd, a hynny cyn i ti goelio yn iawn fod hyn wedi digwydd?

§ 14. Yn y lle nesaf, ystyria nad dy *lawenydd* dy hun yn unig a fydd hwn, ond y cyfryw ag y bydd llawer ereill yn gyd-gyfranogion o hono, yn gystal ag o'r cariad. A oes llawenydd yn y nef am dy edifeirwch, ac oni fydd y gorfoledd yn llawer mwy pan fyddych yn cael dy dderbyn i'r gogoniant? Oni fydd yr angelion yn dy roesawu ac yn llawenychu oherwydd dy ddyfodiad? Byddant yn ddiammeu: ac nid hyn yn unig, ond fe fydd hwn hefyd yn llawenydd Crist Iesu; canys y pryd hynny y bydd yn derbyn gwobr, a dyben ei holl waith a'i lafur, a'i boen, a'i ofid, a'i ddioddefaint. Dyna y pryd y bydd efe yn gweled o lafur ei enaid, sef pan y byddom ni yn

myned i mewn i'w orfoledd. Dyna 'r pryd, am ba un y mae yr Apostol yn llefaru, (2 Thes. 1: 10,) "Pan ddel efe i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu." Dyna amser ei gynhauaf pan y bydd Crist Iesu yn derbyn o ffrwyth ei lafur; ac ni bydd edifar ganddo ei ddioddefaint, ond efe a lawenycha dros ei etifeddiaeth, yr hon a bwrcasodd â'i briod waed; a'i bobl hefyd a lawenychant ynddo ef; ïe, y Tad ei hunan hefyd a wisg lawenydd gyda 'n llawenydd ni. Canys megis yr ydym yn *tristâu ei Ysbryd*, (Eph. 4: 30,) ac yn ei *flino* â'n hanwireddau a'n pechodau, (Esa. 42: 24, a 7: 13,) felly hefyd y mae efe yn llawenhau yn ein daioni; canys y mae efe yn dywedyd, "Ië, myfi a lawenychaf ynddynt, gan wneuthur lles iddynt." Jer. 32: 41. O! pa mór fuan y bydd efe yn canfod unrhyw fab afradlon tra y mae efe eto yn mhell oddiwrtho; ïe, fel y bydd efe yn rhedeg i'w gyfarfod, a chyda'r fath dosturi y mae efe yn syrthio ar ei wddf, ac yn ei gysanu—yn ei ddilladu â'r wisg oreu—yn rhoddi modrwy ar ei law, ac esgidiau am ei draed—ac yn lladd y llô pasgedig i'w fwyta, a bod yn llawen! Luc 15: 20–23. Cyfarfod llawen yn ddiau ydyw hwn: ond nid yw ddim i'w gyffelybu i'r cofleidio a'r llawenydd a fydd yn y cyfarfod mawr a diweddaf hwnnw; ïe, yn ychwaneg na hyn—megis ag y mae Duw yn ein caru fel hyn, ac yn llawenhau o'n herwydd, felly hefyd y mae efe yn gwneuthur hynny yn orphwysfa iddo ei hun ac i ninau hefyd. Y fath Sabboth tragywyddol a fydd hwnnw, wedi gorphen gwaith mawr ein hiechydwriaeth, ein sancteiddhad a'n cadwraeth, ac felly gorphen a pherffeithio y cwbl oll, gan ein derbyn i mewn i'r gogoniant tragywyddol! "Yr Arglwydd dy Dduw yn dy ganol di sydd gadarn; efe a achub, efe a lawenycha o'th blegid, gan lawenydd; efe a lonydda (orphwys) yn ei gariad, efe a ymddigrifa ynot dan ganu." Zeph. 3: 17. Da y gallwn ni, gan hynny, lawenychu yn Nuw gyda llawenydd, ac ymlonyddu neu orphwys yn ei gariad, ac ymddigrifo ynddo dan ganu.

§ 15. Ond och! och! fy nghalon wan sydd yn ofni myned yn mlaen yn mhellach! Tebygwn fy mod yn clywed llais yr Arglwydd yn dywedyd wrthyf, "Pwy yw hwn sydd yn tywyllu cynghor âg ymadroddion?" Job 38: 2. Ond, O Arglwydd, maddeu i'th was! Nid ydwyf, yn rhyfygus, yn ceisio edrych i mewn i bethau na ddatguddiwyd. Yr ydwyf yn galaru fod fy nealltwriaeth mór wan, fy meddyliau mór isel, fy serchiadau mòr ddaearol, a'm hymadroddion mòr wael ac anaddas i ddadgan y cyfryw ryfeddol ogoniant! Nid ydwyf ond yn unig wedi clywed â'm clustiau son am danat. Job 42: 5. O! caniatâ i'th was dy weled, a mwynhau y llawenydd hwnnw; ac yna y caf gyflawn wybodaeth, y rhoddaf i ti fwy o barch ac anrhydedd, ac y clodforaf di yn well. Yna hefyd y ffieiddiaf yr hyn ydwyf yn bresennol, ac yr ymddiosgaf fy ngwendid, ac y caf ymadael â phob anmherffeithrwydd. "Ond yn awr y *llefarais yr hyn nis deallais; pethau rhy ryfedd i mi, y rhai nis gwyddwn!*" Job 42: 3. "*Etto mi a gredais, ac am hynny y llefarais.*" 2 Cor. 4: 13. Pa beth ellir ddysgwyl oddiwrth lwch ond ysgafnder, nac oddiwrth lygredigaeth ond halogrwydd! Ffrwythau fy llygredigaeth yw fy ngwendid a'm hannheilyngdod; etto mae y tân oddiar dy allor di, a'r gwaith a orchymynwyd gennyt. Nid edrychais i mewn i'th Arch, ac nid estynais fy llaw atti, heb dy gennad di! O Arglwydd, golch ymaith fy holl aflendid a'm halogrwydd yn ngwaed yr Oen. Pob gwaith a wnaf yn y byd hwn fydd yn anmherffaith. Bydded gwiw gennyt ei dderbyn fel ag y mae, canys nis gallaf ddim gwell. "*Yr ysbryd sydd barod, ond y cnawd sydd wan.*" Mat. 26: 41.

# PEN. II.

## Y PETHAU RHAGFLAENOL AG YDYNT MEGIS YN PAROTOI Y FFORDD I ORPHWYSFA 'R SAINT.

§ 1. Dedwyddwch y Cristion yw fod y ffordd etto yn rhydd i Baradwys. Y mae pedwar peth, yn fwyaf pennodol, yn parotoi y ffordd i fyned i mewn yno, § 2, 3, yn enwedig—yn (1.) Gogoneddus ymddangosiad Crist; § 4. (2.) Yn ail, Yr adgyfodiad cyffredinol; § 5—8. (3.) Yn drydydd, Y farn olaf; § 9, 10. (4.) Ac, yn bedwerydd, Coroni y Saint. § 11. Myned yn mlaen at gynnwysiad y pen nesaf.

§ 1. Nid yw y ffordd i Baradwys yn awr mór gauedig ag oedd pan yr oedd y ddeddf a'r felldith mewn grym; canys yn awr hysbyswyd *i ni*, O Gristionogion anwyl, fod ffordd newydd a bywiol wedi ei chyssegru i ni trwy 'r llén, sef ei gnawd (Heb. 10: 19, 20, 22) ef (Crist,) trwy ba un y gallwn fyned i mewn yn hyderus i'r sanctaidd sancteiddiolaf. Minnau hefyd a nesâf yn hyfach: a chan ddeall fod y cleddyf tanllyd ysgwydedig wedi ei gymmeryd ymaith, myfi a anturiaf etto edrych i mewn i Baradwys ein Duw. A chan fy mod yn gwybod nad yw hwn yn ffrwyth gwaharddedig, ac hefyd ei fod yn dda yn fwyd, ac yn hyfryd i'r olwg ysbrydol, ac yn bren dymunol i wneuthur dyn yn hapus, ac yn ddoeth i iechydwriaeth, myfi a gaf, trwy gymhorth Glan Ysbryd Duw, gymmeryd o'i ffrwyth fy hunan, ac hefyd roddi i chwithau, yn ol fy ngallu, fel y byddo i chwi fwyta. Y mae cyntedd y deml yn dra gogoneddus, a'r porth a elwir y *Porth Prydferth*. Y mae yma bedwar peth i'w hystyried, y rhai ydynt bedair congl y porth: ac yn gyntaf, tra gogoneddus ddyfodiad ac ymddangosiad Mab Duw; y gwaith mawr hwnnw o eiddo Crist, sef cyfodi ein cyrph o'r llwch, a'u cyssylltu drachefn â'r enaid; trefn fawr ac ardderchog dydd y farn, lle y bydd y seintiau yn gyntaf yn cael eu barnu yn gywir, ac yn cael eu cyhoeddi eu bod yn gyfiawn-

ion, ac wedi hynny yn cael y fraint o farnu 'r byd gyda Christ; ac yn ddiweddaf, eu hanrhydeddus goroniad, a derbyniad y deyrnas.

§ 2. (1.) Yn gyntaf, gellir cyfrif ardderchog ddyfodiad ac ymddangosiad Mab Duw yn ogoniant i'w bobl; canys er eu mwyn hwy y daeth efe i'r byd, y dioddefodd, y bu farw, y cyfododd, ac yr esgynnodd, ac er eu mwyn hwy y daw efe drachefn. Ac i'r dyben hyn y daw Crist yr ail waith i gymmeryd ei bobl atto ei hun, *fel lle y mae ef y byddont hwythau hefyd.* Ioan 14: 3. Pan ymadawodd y Priodfab, ni roddodd efe i ni lythyr ysgar, ac nis gadawodd ni ychwaith heb un bwriad i ddychwelyd; ond y mae efe wedi gadael, a rhoddi i ni brawf digonol i'r gwrthwyneb. Y mae gennym ni ei air, ei addewidion tra mawr a gwerthfawr, a'i sacramentau y rhai a ddangosant ei farwolaeth, hyd oni ddelo, (1 Cor. 11: 26;) ac y mae efe hefyd yn rhoddi ei Ysbryd i'n cyfarwyddo, i'n sancteiddio, a'n diddanu, hyd oni ddelo efe. Yr ydym hefyd yn cael arwyddion digonol o'i gariad, i ddangos nad yw efe yn anghofio ei addewidion na ninnau ychwaith. Ië, yr ydym beunydd yn canfod arwyddion o'i ddyfodiad, y rhai a ragfynegodd efe. Yr ydym yn gweled y *ffigysbren yn deilio,* ac o herwydd hynny yr ydym yn gwybod *bod yr hâf yn agos.* Mat. 24: 30, 32. Ac er bod y byd annuwiol yn dywedyd, Y mae 'r Arglwydd yn oedi ei ddyfodiad, (Mat. 24: 48,) etto bydded i'r duwiolion *gyfodi eu penau, canys y mae eu hymwared yn agoshau.* Luc 21: 28. O! fy nghyd Gristionogion, pa beth a wnaem ni pe na ddychwelai ein Harglwydd! Ymha gyflwr gresynus y byddem, *wedi ein gadael yn mysg bleiddiaid,* (Mat. 10: 16,) ac yn mysg llewod, (Salm 57: 4,) ynghanol *cenhedlaeth gwiberod.* Mat. 3: 7. A fydd iddo ef wneuthur fel hyn, a'n hanghofio felly? A brynodd efe ni mor ddrud, ac a âd efe i ni bechu, i ddioddef, i riddfan, i *farw beunydd,* ac oni ddychwel efe attom mwy? Nis dichon hyn fod. Mae hyn yn bur debyg i'n hymddygiad anniolchgar ni tuag at Grist; canys pan

y mae genym helaethrwydd o bethau y byd, nid ydym yn gofalu nemawr am ddyfod at Grist; ond nid felly y mae efe yn ymddwyn tuag attom ni. Ac fe fydd efe, yr hwn a ddaeth i ddioddef, yn sicr o ddyfod i fuddygoliaethu; a'r hwn a ddaeth i bwrcasu, a ddaw yn ddiammeu i feddiannu. A pha le arall y mae ein holl obaith ond yn hyn? Oni b'ai hyn, pa beth a ddeuai o'n ffydd, o'n gweddïau, o'n dagrau, a'n gwastadol ddisgwyliad? ac oni b'ai hyn, o ba leshad y byddai holl amynedd y saint? ac oni fyddem ni, o'r *holl ddynion, y rhai truenusaf?* 1 Cor. 15: 19. Dywedwch i mi, y rhai ydych yn ofni Duw, a wnaeth Crist i ni ymadael â'r holl fyd, a chael ein diarddelu hefyd gan yr holl fyd? ymwadu â'r cwbl oll, a bod o honom yn gâs gan bawb—a hyn i gyd er mwyn Crist a'r efengyl, ac fel y byddai i ni ei fwynhau fel ein hunig drysor? Ac a wna efe, debygech chwi, ein hanghofio a'n gwadu wedi 'r cwbl? Pell fyddo 'r fath feddyliau oddiwrth ein calonnau. Ond paham na buasai efe yn aros gyda 'i bobl, pan y bu efe byw yn y byd? Paham? Oni orphenodd efe ei waith ar y ddaear? Onid oedd raid iddo gymeryd meddiant o'r gogoniant ar ein rhan ni? Onid oedd raid iddo eiriol gyda'r Tad, dadleu ei ddioddefaint, cael ei lenwi â'r Ysbryd, anfon allan, derbyn awdurdod, a darostwng ei elynion? Nid yw ein pererindod yma ond byr. Pe buasai efe yn aros ar y ddaear, ni buasai neb yn cael ei fwynhau ond am ychydig ddyddiau, ac wedi hyny marw. Mae ganddo yn y nefoedd fwy o rifedi i drigo yn eu plith, sef ysbrydion llawer o genhedlaethau. Y mae efe yn ewyllysio i ni fyw trwy ffydd, ac nid wrth olwg.

§ 3. O fy nghyd Gristionogion! y fath ddiwrnod a fydd hwnw, pan gawn ni, y rhai a gawsom ein cadw yn garcharorion gan bechod a phechaduriaid, a chan y bedd, ein cyfodi allan gan Dduw ei hun! Canys ni fydd hwn yn gyffelyb i'w ddyfodiad cyntaf, mewn tlodi a diystyrwch, i boeri arno, ac i'w gernodio, a'i groeshoelio drachefn! Ni ddaw efe, O fyd anystyriol! i gael ei ddiystyru

a'i esgeuluso gennych chwi mwyach! Etto nid oedd ei ddyfodiad cyntaf hwnnw yn gwbl ddiogoniant. Ac os oedd yn rhaid i'r llu nefolaidd *glodfori Duw* (Luc 2 : 13, 14) o lawenydd am ei enedigaeth, gyda 'r fath orfoledd a sain cân y bydd i angelion a seintiau yn y dydd mawr hwnnw gyhoeddi, "*Gogoniant i Dduw! tangnefedd ac ewyllys da i ddynion!*" Ac os arweiniwyd y doethion o barthau pell y byd, i ddyfod i addoli bachgen bach mewn preseb, (Mat. 2 : 2,) oni fydd i ogoniant ei ail ymddangosiad wneuthur i'r holl fyd gydnabod ei oruchafiaeth? Ac os gwaeddasant Hosanna pan yr oedd efe yn myned i mewn i Jerusalem, mewn modd mór ostyngedig, gan eistedd ar asyn, (Mat. 21 : 5–9,) â'r fath ogoniant a thangnefedd y bydd iddo ddyfod i mewn i'r Jerusalem Newydd? Ac os oeddynt, pan oedd efe *mewn agwedd gwas*, (Phil. 2 : 7,) yn gofyn gyda syndod, "*Pa fath ddyn yw hwn, gan fod y gwyntoedd hefyd a'r môr* yn ufyddhau iddo," (Mat. 8 : 27,) beth a ddywedant pan welant ef yn dyfod yn ei ogoniant, a'r nefoedd a'r ddaear yn ufyddhau iddo? "Ac *yna y galara holl lwythau y ddaear.*" Mat. 24 : 30. Nid rhyfedd fod y pechadur anedifeiriol yn son am y dydd hwnnw gyda braw a syndod; ond nid gweddus hynny i'r saint. Ac os bydd i'r annuwiolion ddywedyd wrth ei weled, "Wele yr Iesu hwnnw, gwaed yr hwn a ddïystyrasom, gras ac Ysbryd yr hwn a wrthwynebasom, cyngor yr hwn a wrthodasom, a llywodraeth yr hwn a daflasom ymaith!" oni fydd i'r gwaredigion orfoleddu gan ddywedyd, "Wele ein Hiachawdwr bendigedig, gwaed yr hwn a'n prynodd, Ysbryd yr hwn a'n sancteiddiodd, a chyfraith yr hwn a'n llywodraethodd—yn yr hwn yr ymddiriedasom, ac nis gwaradwyddodd ni, ac am ddyfodiad yr hwn yr hir ddisgwyliasom; ac yr ydym yn awr yn gweled nas disgwyliasom yn ofer!" O lygredd melldigedig! yr hwn a fynnai i ni droi yn ol at y byd a phethau presennol, a dywedyd, Paham y dysgwyliem yn hwy am ddyfodiad yr Arglwydd? 2 Bren. 7 : 33. Yn awr y gwelwn

mai "gwyn eu byd y rhai oll a ddisgwyliant wrtho." Esa. 20: 18. Ac yn awr, gyd-Gristionogion, oni ddylem ni osod i fyny y dymuniad hwnnw, a dywedyd o'n calonnau "Deued dy deyrnas." "Ac y mae 'r Ysbryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred; a'r hwn sydd yn clywed, ac yn darllen, dyweded, Tyred; a'r Arglwydd ei hun sydd yn dywedyd, Yn wir yr wyf yn dyfod ar frys. Amen: felly, tyred, Arglwydd Iesu." Dat. 22: 17, 20.

§ 4. (2) Un peth arall ag sydd yn tywys i Baradwys ydyw gwaith mawr Iesu Grist yn cyfodi ein cyrph o'r llwch, ac yn eu cyssylltu drachefn â'r enaid—gweithred ryfeddol ei anfeidrol allu a'i gariad. Ië, rhyfeddol yn ddiau, medd anghrediniaeth, os gwir yw hyn. Pa beth! a fydd i'r holl esgyrn gwasgaredig, a'r lludw hyn, fod yn ddyn? Gadewch i mi, gyda pharch ddadleu dros yr Hollalluog, a rhyfeddu y gallu hwnnw, drwy ba un yr ydwyf yn gobeithio cyfodi. Pa beth, neu pwy, sydd yn cynnal anfeidrol bwys colofnau 'r ddaear? Beth sydd yn attal y cefnfor eang rhag gorlifo ei derfynau? Pa beth yw'r achos o'r llanw a'r trai? ac o ba le, a pha fodd, y maent yn dyfod ac yn dychwelyd yn wastadol? Pa gynnifer gwaith mwy na'r ddaear yw'r haul—y corph (neu'r byd) disglaer hwnnw o oleuni? Onid ydyw mor hawdd i Dduw gyfodi 'r meirw ag oedd iddo greu 'r nef a'r ddaear, a phobpeth, o ddiddim ddefnydd? Nac edrychwch ar yr esgyrn meirw, a'r llwch, a'r anhawsdra, ond ar yr addewid. Byddwch foddlon, i osod eich cyrph marwol yn y carchar hwnnw lle ni chânt aros yn hir. Gadewch i ni orwedd i lawr mewn heddwch, a gorphwys yno; nid nos dragywyddol a fydd, na chwsg heb ddiwedd. Os dy *ddiosg* yr ydwyt yn ei ofni, gwneir hynny fel y byddo i ti gael dy *arwisgo*, (2 Cor. 5: 4,) a chael gwisg fwy gogoneddus. Os dy droi allan a'th ddifeddiannu o'r corph yw'r peth yt ydwyt yn ei ofni, cofia eiriau 'r apostol, "Canys ni a wyddom, os ein daearol dŷ o'r babell hon a ddattodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ, nid o waith llaw,

tragywyddol yn y nefoedd." 2 Cor. 5: 1. Gosod i lawr gan hynny yn llawen y corph llygredig hwn, a thi a fyddi yn sicr o'i dderbyn drachefn yn anllygredig. Gosod i lawr yn ewyllysgar y daearol dŷ o'r babell hon, a thi a'i derbyni drachefn yn adeilad nefol ac ysbrydol. Ac er i ti ei osod i lawr mewn anmharch, ti a'i derbyni mewn gogoniant; er i ti ymadael oddiwrtho mewn gwendid, etto efe a gyfodir drachefn, trwy nerthol weithrediad Duw; mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf; "Canys yr udgorn a gân, a'r meirw a gyfodir yn anllygredig, a ninau a newidir." 1 Cor. 15: 42, 44, 52. "A'r meirw yn Nghrist a gyfodir yn gyntaf: yna y rhai byw, y rhai a adawyd, a gipir i fyny gyda hwynt, i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr." 1 Thes. 3: 16. Gorfoledda gan hynny, O Gristion, yn yr addewidion hyn; canys byddi yn fuan yn llawenychu yn eu cyflawniad. Dyma y dydd a wna yr Arglwydd; a nyni a gawn orfoleddu a llawenychu ynddo. Salm 118: 24. Y bedd, yr hwn nis gallasai attal ein Harglwydd, nis ceidw ninau chwaith. Efe a gyfododd yn ein lle ni, a thrwy yr un gallu cyfyd ninau hefyd. "Canys os ydym yn credu farw Iesu, a'i adgyfodi, felly hefyd, y rhai a hunasant yn yr Iesu, a ddwg Duw gydag ef." 1 Thes. 4: 14. Na fydded i ni edrych ar y bedd, ond gadewch i ni osod ein golygon ar yr adgyfodiad sydd tu draw iddo. Ië, gadewch i ni fod yn sicr a diymod (diysgog,) a helaethion yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, gan wybod na fydd ein llafur yn ofer yn yr Arglwydd. 1 Cor. 15: 58.

§ 5. (3) Rhan arall o'r rhagbarotoad tuag at orphwysfa'r saint a fydd y gwaith mawr cyhoeddus hwnnw o gynnal dydd barn yn gyntaf arnynt hwy, a'u cyhoeddi yn ddïeuog, ac yn fendigedigion eu Tad, ac, wedi hynny, hwythau hefyd yn eistedd gyda Christ i farnu y byd. Hen ac ieuangc, o bob cyflwr a sefyllfa, ac o bob cenedl, a fu erioed er dechreuad y byd, a fydd raid ymddangos y pryd hynny i dderbyn eu dedfryd. O ddydd ofnadwy! O foreu

dedwydd! Ofnadwy i'r rhai hynny a anghofiasant ddyfodiad eu Harglwydd! dedwydd i'r saint, disgwyliad a gobaith pa rai oedd gweled y dydd hwn! Yna y cenfydd y byd ddaioni a thoster Duw; i'r rhai colledig, toster; ond i'w etholedigion, daioni. Rhuf. 1 : 22. "Bydd raid i bob un roddi cyfrif o'i oruchwyliaeth." Luc 16 : 2. Pob *talent* o amser, iechyd, synwyr, trugareddau, ceryddon, ymweliadau yr Hollalluog, moddion gras, rhybuddion, &c., a fydd raid atteb am danynt oll. Pechodau ieuengctyd, y rhai yr oeddent wedi eu hanghofio, a'u pechodau dirgel hefyd, a ddygir oll i'r amlwg yn ngŵydd angelion a dynion. Hwy a gant weled yr Arglwydd Iesu, yr hwn a ddirmygasant, i air yr hwn yr anufyddhasant, gweinidogion yr hwn a ddïystyrasant, a gweision yr hwn a gasasant, yn awr yn eistedd i'w barnu. Eu cydwybodau eu hunain a fyddant yn gwaeddi allan, ac yn galw i goffadwriaeth eu holl droseddiadau. Pa ffordd yr edrych y pechadur truenus? Pwy a ddichon ddirnad ofnau a dychrynfeydd ei galon? Nid oes iddo yn awr ddim cymmorth yn y byd; ei hen gyfeillion ydynt yn cilio; y saint ni fynant ac ni allant ei wared. Nid oes neb ond yr Arglwydd Iesu yn unig a fedr ei achub; ond nid yw efe yn ewyllysio; a hyn sydd ofid calon i'r pechadur. Bu amser pan yr oedd efe yn chwennych, a thithau yn gwrthod; ond yn awr yr wyt ti yn barod, ac yntau ni wrendy. Ofer bellach yw gwaeddi ar y mynyddoedd a'r creigiau, a dywedyd, "*Syrthiwch arnom ni, a chuddiwch ni o wydd yr hwn* sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc," (Dat. 6 : 16;) canys y mae Arglwydd y mynyddoedd a'r creigiau yn elyn i ti, a hwy a wrandawant arno ef, ac nid arnat ti. Yr ydwyf gan hynny yn gorchymyn i ti gerbron Duw a'r Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a farna y byw a'r meirw yn ei ymddangosiad, a'i Deyrnas, (2 Tim. 4 : 1,) ar i ti ystyried y pethau hyn yn ddifrifol.

§ 6. Ond, O! tydi enaid gwan, addfwyn a gostyngedig, paham yr ofni? A fydd i'r hwn a ofalodd am *un* Noah

dduwiol yn nghanol y dylif, a'r hwn nid anghofiodd *un* Lot gyfiawn, ïe, yr hwn nid ellai wneuthur dim hyd onid elai efe allan o'r ddinas, dy anghofio di yn y dydd hwnnw? Yr Arglwydd a fedr wared y rhai duwiol rhag profedigaeth, a chadw y rhai anghyfiawn hyd ddydd y farn i'w poeni. 2 Pedr 2: 9. Efe a fedr wneuthur yr un dydd yn ofnadwy iawn i'w elynion, ac yn orfoleddus i'w bobl. Nid oes gan hynny ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu, y rhai sydd yn rhodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd. Rhuf. 8: 1. "Pwy a rydd *ddim yn erbyn etholedigion Duw?*" A ddichon y ddeddf? Rhuf. 8: 33. Deddf Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu a'u rhyddhaodd oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth. A wna cydwybod roddi dim yn eu herbyn? "Y mae 'r ysbryd hwn yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni, (medd yr Apostol, Rhuf. 8: 16,) ein bod ni yn blant i Dduw." "Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau; pwy yw yr hwn sydd yn damnio?" Rhuf. 8: 33, 34. Os na fydd ein Barnwr yn ein condemnio, pwy gan hynny a fydd? Yr hwn a ddywedodd wrth y wraig a ddaliwyd mewn godineb, Oni chondemniodd neb di? Nid wyf finau yn dy gondemnio, (Ioan 8: 10, 11,) a ddywed wrthym ninnau mewn modd ffyddlonach na Phedr, Pe gwadai pawb di, (Mat. 26: 33, 35,) a'th gondemnio, etto nis gwnawn i dy wadu. Gan i ti fy nghyffesu i *yn ngwydd dynion, minau a'th gyffesaf dithau gerbron fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.* Mat. 10: 32.

§ 7. Y fath lawenydd annhraethol yw hwn i'r Cristion, sef ystyried mai ein Harglwydd bendigedig, yr hwn sydd yn caru ein heneidiau, ac a gerir genym ninau, a fydd ein Barnwr! A oes achos i ddyn ofni cael ei farnu gan ei gyfaill anwylaf? neu i wraig ofni cael ei barnu gan ei gwr addfwyn a charedig? Gristion anwyl, a ddaeth Crist i lawr i ddioddef, ac i wylo, ac i waedu, ac i farw drosot, ac a wna efe dy gondemnio wedi 'r cwbl? A gafodd efe ei farnu, ei gondemnio, a'i roddi i farwolaeth yn dy le di, ac yn awr a wna efe dy gondemnio di ei hunan?

A ydyw efe wedi cyflawni y rhan fwyaf o waith dy brynedigaeth, wedi dy gyfnewid yn y dyn oddimewn, yn rhoddi i ti ei Ysbryd i'th buro a'th sancteiddio, fel y byddo i ti gynnyddu mewn ffydd, mewn gras a duwioldeb, ac yn dy gynnal a'th gysuro beunydd, ac a wna efe'r holl bethau hyn yn ofer? A ddiddymma efe ei waith ei hun? Pa mor ofnadwy bynnag y byddo dydd y farn gan hynny i'r annuwiolion, yn ddiau ni ddaw dim niwed i'r rhai sydd yn credu yn Nghrist Iesu. Ac os bydd y cythreuliaid a'r annuwiolion yn crynu, bydd y saint yn llammu o lawenydd! Rhaid yr effeithia y teimlad o'n rhagorfraint a'n dedwyddwch arnom yn ddwys, wrth weled cynnifer yn crynu gan ofn, a ninnau yn llawenhau! clywed yr anffyddloniaid yn cael eu condemnio i'r llosgfeydd tragywyddol, a ninnau yn cael ein galw yn etifeddion y deyrnas! gweled, efallai, rai o'n cymmydogion ag oeddent yn byw yn yr un dref, yn dyfod i'r un lle o addoliad, yn byw yn agos attom, ac yn fwy anrhydeddus yn y byd, yn awr, yn cael eu cau allan gan Chwiliwr y calonnau. A chan ystyried y pethau hyn, a dyfodiad y dydd mawr ac ofnadwy hwnnw, y mae 'r apostol yn dywedyd: "Canys cyfiawn yw ger bron Duw, dalu cystudd i'r rhai sydd yn eich cystuddio chwi; ac i chwithau, y rhai a gystuddir, esmwythdra gyda ni; yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef, gyda'i angelion nerthol, a thân fflamllyd, gan roddi dïal i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist: y rhai a ddioddefant yn gospedigaeth, ddinystr tragywyddol oddiger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef: pan ddel efe i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn y rhai oll sydd yn credu yn y dydd hwnnw." 2 Thes. 1: 6–10.

§ 8. Ond yn nesaf, ac yn hollol wrthwyneb i hyn, nyni a fyddwn mòr bell oddiwrth ofni dyfodiad y dydd hwnnw, fel ag y byddwn ni ein hunain yn farnwyr. Crist Iesu a gymmer ei bobl i fod yn gydfarnwyr âg ef, a hwy a gânt eistedd, a gweled, a rhyfeddu ei farnau cyfiawn. "*Oni*

*wyddoch chwi y barna* y saint y byd? Oni wyddoch chwi y barnwn ni angelion?" 1 Cor. 6: 2, 3. Oni buasai geiriau Crist fe fuasai hyn yn ymddangos yn beth anghredadwy, a'r ymadroddion megis ymffrost. "Ië, ac Enoch hefyd y seithfed o Adda, a brophwydodd am hyn, gan ddywedyd, Wele, y mae yr Arglwydd yn dyfod gyda myrddiwn o'i saint, i wneuthur barn yn erbyn pawb, ac i lwyr argyhoeddi yr holl rai annuwiol o honynt, am holl weithredoedd eu hannuwioldeb, y rhai a wnaethant hwy yn annuwiol; ac am yr holl eiriau caledion, y rhai a lafarodd pechaduriaid annuwiol *yn ei* erbyn ef." Judas 14, 15. Fel hyn yr anrhydeddir y saint. "A'r rhai cyfiawn a lywodraetha y boreu." Salm 49: 14. O y byd drwg, annuwiol! O bechaduriaid anystyriol! O na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd. Deut. 32: 29. O na baent o'r un feddwl yn awr ag y byddant pan welant y nefoedd yn myned heibio gyda thwrf, a'r defnyddiau gan wir wres yn toddi, a'r ddaear, a'r gwaith a fydd ynddi yn llosgi, (2 Pedr 3: 10;) pan y bydd pob peth oddiamgylch iddynt ar dân, a phob gogoniant daearol yn diflannu. Canys y nefoedd a'r ddaear sydd yr awr hon a gedwir i dân, erbyn dydd y farn, a dinystr yr anwir ddynion: "A chan *fod yn rhaid i hyn i gyd ymollwng, pa rywfath ddynion a ddylech chwi fod mewn sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb,* yn disgwyl ac yn brysio at *ddyfodiad dydd Duw, yn yr hwn y nefoedd gan losgi a ymollyngant, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant?*" 2 Pedr 3: 11.

§ 9. (4) Y parotöad diweddaf tuag at orphwysfa'r saint, yw eu hanrhydeddus goroniad, a derbyniad y deyrnas. Megis ag y mae Crist eu Pen wedi cael ei eneinnio i fod yn Frenin ac yn Offeiriad, felly hefyd y mae ei bobl dano ef, wedi cael eu gwneuthur i fod yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw, i deyrnasu ac i offrymmu moliant iddo yn dragywydd, (Dat. 5: 10;) a *choron cyfiawnder, yr hon a roddwyd* i'w chadw iddynt, a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, iddynt yn y dydd hwnnw. 2 Tim. 4: 8. Y maent

wedi bod yn *ffyddlon hyd angau, am hynny efe a rydd iddynt goron y bywyd.* Dat. 2: 10. Ac yn ol y modd y defnyddiasant eu talentau yma, felly y bydd eu sefyllfa (awdurdod) a'u goruchafiaeth yn cael eu helaethu a'u chwanegu. Mat. 25: 21–23. Nid ydynt yn cael eu cynnysgaeddu âg enwau gwag, ond goruchafiaeth sylweddol. Crist a rydd iddynt eistedd gydag ef ar ei orsedd, (Dat. 3: 21;) ac efe a rydd iddynt awdurdod ar y cenhedloedd megis y derbyniodd efe gan y Tad. "Ac efe a rydd iddynt y seren foreu." Dat. 2: 26–28. Yr Arglwydd a fydd yn rhoddi iddynt feddiant gyda'r ymadroddion canmoladwy hyn: "Da was da a ffyddlon; buost ffyddlon ar ychydig, myfi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd." Mat. 25: 23.

§ 10. A chyda'r geiriau hyfryd a bendigedig hynny y gesyd efe hwy ar orseddfeingciau: "Deuwch chwi, fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barotöwyd i chwi er seiliad y byd." Mat. 25: 34. Pob gair sydd yn llawn bywyd a llawenydd. DEUWCH! Estyn allan y deyrnwialen aur ydyw hyn, i sicrhau ein dyfodiad at y gogoniant hwn. Deuwch bellach mor agos ag yr ydych yn ewyllysio, (at yr arch;) nac ofnwch bellach farn y *Bethsemesiad*, (1 Sam. 6: 18, 19;) canys *yr elyniaeth a ddirymmwyd.* Ephes. 2: 15. Nid yr un fath alwad yw hwn a'r *deuwch* gynt; sef, Deuwch, cymmerwch i fyny eich croes, a chanlynwch fi. Mat. 16: 24. Er bod hynny yn fraint werthfawr, a'r alwad iddo yn gysurus, etto mil mwy hyfryd y llais hawddgar ag sydd yn ein galw allan o bob gofid a thrallod y byd hwn, i fyned i mewn i fysg hardd gynnulleidfa 'r nef. *Deuwch* chwi, y rhai oeddech mewn tlodi; chwi, y rhai a fuoch mewn clefyd, mewn profedigaeth, mewn erlidiau; chwi ag oeddech yn ddarostyngedig i angau, ac yn dwyn croes Crist; chwi, y rhai a'm cyfaddefasoch i o flaen dynion a chythreuliaid, ac nid oedd cywilydd arnoch fy enw; chwi, y rhai a ynnillasoch y fuddugoliaeth ar bechod a'r diafol; y rhai a

wrthryfelasoch yn erbyn profedigaethau y byd, y cnawd, a'r diafol; y rhai a fuoch gadarn yn y ffydd; y rhai a ddïystyrasoch bleserau, anrhydedd a golud y byd, ac a osodasoch eich calonnau arnaf fi a'm ffyrdd; chwi, y rhai a gyfrifwyd yn ysgubion pob peth, ac a gasawyd gan ddynion; chwi, y rhai y cyfrifwyd eich bywyd yn *ynfydrwydd, a'ch diwedd heb anrhydedd:* deuwch i mewn i'm gwydd, i'm gorseddfaingc, ac i'm teyrnas! Deuwch i breswylio gyda mi, a'm Tad, a'i angelion. Deuwch i wisgo coron, ac i ddwyn palmwydd yn eich dwylaw, ac i ganfod fy ngogoniant! Deuwch chwi, fendigedigion!Ië, bendigedig yn wir! Y fath fendith anfeidrol! Cael ein hachub o gyffiniau uffern! Cael ein golchi oddiwrth halogrwydd pechod, trwy ffydd yn ngwaed Crist! Cael ein gwared o gaethiwed Satan, a chael ein gwneuthur yn blant rhyddion i Dduw! Bendigedig oeddech yn eich bywyd, gan eich bod yn mwynhau ei addewidion, ac ymgeledd Duw, ac yn cael cymmorth ei Lân Ysbryd. Ac nid *bendigedig* yn unig *yn* eich bywyd, ond hefyd trwy holl ystod eich bywyd; canys pob peth oedd yn cyd-weithio er daioni i chwi. Bendigedig *yn* a *thrwy* angau! *Bendigedig* mewn adgyfodiad llawen! *Bendigedig* yn ngwydd dynion, angelion a chythreuliaid! Yn mwynhau ffafr a gwynebpryd siriol eich Duw! Deuwch chwi, fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas. O! rhyfeddol! Teyrnas a *barotöwyd* i chwi!

§ 11. Fel hyn y gwelsom y Cristion wedi dyfod i Baradwys Duw yn ddiogel ac yn llwyddiannus, ac wedi ei ddwyn yn anrhydeddus i'w orphwysfa. Gadewch i ni bellach, yn y pen nesaf, edrych y trigfannau hyfryd, ystyried eu breintiau, a gweled a oes gogoniant megis y gogoniant hwn.

# PEN. III.

## URDDAS A GODIDOWGRWYDD GORPHWYSFA'R SAINT.

§ 1. Cyfrifir rhagoriaethau Gorphwysfa 'r Saint. § 2. (1) Meddiant yr hyn a bwr caswyd. § 3, 4. (2) Rhad rodd. § 5. (3) Priodoriaeth y Saint. § 6. (4) Cymdeithas gyda 'r Saint a'r Angelion. § 7. (5) Y llawenydd a'r gorfoledd yn dyfod yn ddigyfrwng oddiwrth Dduw. § 8. (6) Hon a fydd yn gyfamserol, § 9. (7) Yn addas, § 10—12. (8) Yn berffaith, heb bechod, ac heb ddioddef poen na gofid, § 13. (9) Yn dragywyddol. § 14. Y pen yn diweddu gydag anerchiad a chyfarchiad at y darllenydd.

§ 1. Gadewch i ni nesâu yn fwy agos, ac ystyried pa ragorfreintiau ereill y mae yr orphwysfa hon yn eu cynnwys. Yr Arglwydd a'n cuddio ni yn holltau y graig, ac a'n cysgodo â chledr ei law, sef tynerwch ei gariad, tra y byddom yn nesâu i edrych i mewn. Mae yr orphwysfa hon yn rhagorol, o herwydd ei bod yn etifeddiaeth a bwrcaswyd; yn rhad rodd; yn briodol i'r saint; yn gymdeithasfa gyda saint ac angelion; etto y llawenydd sydd yn dyfod yn ddigyfrwng oddiwrth Dduw; ac oherwydd hynny bydd yn orphwysfa ddymunol, brydlawn, addas, berffaith, a thragywyddol.

§ 2 (1) Un o ragorfreintiau anrhydeddus y deyrnas hon yw ei bod yn cael ei galw yn *feddiant pwrcasol*, neu etifeddiaeth a bwrcaswyd; neu, yn ngeiriau yr Apostol, *pryniad y pwrcas*, (Eph. 1: 14;) hynny yw, ffrwyth neu werth gwaed Mab Duw; ïe, y ffrwyth *penaf, dyben* a pherffeithrwydd holl ffrwythau a rhinwedd ei waed. Mwy cariad na hwn nid oes gan neb, sef rhoddi o un ei fywyd dros ei anwylyd. A chael yr Iachawdwr hwnnw bob amser o flaen ein llygaid, a ninau â'r ymsyniad mwyaf bywiol o'i ryfeddol gariad, yn gwaedu ac yn marw drosom, ar ein meddyliau, a'r coffadwriaeth o hono yn newydd ac yn barhaus ar ein heneidiau! Fel y llenwir ein heneid-

iau â llawenydd gwastadol, wrth feddwl ein bod wedi nofio yn nerth ffrydiau y gwaed hwn, trwy brofedigaethau Satan, hudoliaeth y cnawd, melldithion y ddeddf, a digofaint Duw, cyhuddiadau cydwybod euog, ac ofnau ac amheuon calon ddrwg lawn o anghrediniaeth, ac wedi cyrhaedd yn ddiangol i bresennoldeb Duw! Yn awr yn y byd hwn y mae efe yn gwaeddi ac yn dywedyd wrthym, "*Onid gwaeth gennych chwi y fforddolion oll? gwelwch ac edrychwch, a oes y fath ofid a'm gofid i?*" (Galar. 1 : 12;) ac etto nid ydym yn gwrando dim ar y llais galarus, nac ychwaith yn troi i edrych ar ei archollion! Ond yna fe fydd ein heneidiau perffaith yn cydymdeimlo, ac yn ennynu o gariad at gariad. A'r fath ryfeddol hoffder, synnedigaeth, a diolchgarwch, y bydd y gwaredigion yn traserchu, ac yn edrych ar eu Gwaredwr bendigedig, yr hwn ei hun yn unig yw y Pwrcaswr, y Pris a'r Pwrcas! Ac ni fydd i'r olwg ar ei archollion adnewyddu ein gofid a'n galar o herwydd ei ddioddefaint; canys yr hwn a ddywedodd wrth y bechadures fawr honno, yn fuan ar ol ei adgyfodiad, "O wraig, paham yr wyt ti yn wylo?" (Ioan 20 : 15,) a wyr pa fodd i gyfrannu i ni gariad a llawenydd, heb un cwmmwl o dristwch na llifeiriant o ddagrau. Pe buasai rhyw gâr neu gyfaill wedi prynu un peth ag sydd yn ein meddiant, trwy roddi i lawr ei fywyd am dano, oni fuasem ni yn mawr hoffi ac yn gwerthfawrogi y peth hwnnw er ei fwyn? Os bydd rhyw gyfaill yn gadael i ni rywbeth ar ei wely angau, megis arwydd o'i gariad, pa mòr ofalus y byddwn yn ei gadw, ac yn meddwl am dano, pan yr edrychom ar y peth, megis pe buasai ei enw yn ysgrifenedig arno? Ac oni fydd i farwolaeth a gwaed ein Harglwydd felysu, yn dragywyddol, feddiant y gogoniant? Megis yr ydym yn arferol o ysgrifenu ar y pethau fyddom yn brynu y pris a a delir gennym am danynt; felly, yr un modd, bydded i ni ysgrifenu "*Gwerthfawr waed Crist*" ar ein cyf-

iawnder a'r gogoniant hwnnw. Ei ddioddefaint ef a wnaeth iawn i'r cyfiawnder hwnnw oedd yn gofyn gwaed, ac efe a ddioddefodd yr hyn oedd ddyledus i bechaduriaid, i'r dyben o roddi iddynt drachefn y bywyd a gollasant, a'r dedwyddwch o'r hwn y syrthiasant. Gwaith Crist, yn ein hiachawdwriaeth, a ryngodd felly fodd i'r Tad, fel y rhoddodd efe iddo awdurdod i ddyrchafu ei etholedigion, ac i roddi iddynt y gogoniant a roddwyd iddo yntau; a hyn oll yn ol arfaeth yr hwn sydd yn *gweithio pob peth yn ol cyngor ei ewyllys ei hun.* Ephes. 1: 9–11.

§ 3. (2) Un arall o'r gemmau yn nghoron y saint, yw ei bod yn *rhad rodd.* Y ddau hyn, sef ei bod wedi ei *phwrcasu* ac yn *rhad,* yw'r *ddwy gadwyn* aur sydd yn gwneuthur y dorch-bleth ar *bennau 'r colofnau* yn nheml Dduw! 1 Bren. 7: 17. Yr oedd yr etifeddiaeth yn ddrud i Grist, ond yn rhad i ni. Pan yr oedd Crist Iesu yn myned ynghylch y gwaith o brynu 'r orphwysfa, nid oedd aur ac arian o ddim gwerth, nid oedd gweddiau na dagrau ychwaith o ddim lleshad; na dim arall, ond ei werthfawr waed ei hun. Ond yn lle *prynu,* nid oes i ni ond derbyn; yr ydym ni yn ei chael *heb arian ac heb werth.* Esa. 55: 1. Nis gellir ystyried derbyniad gostyngedig o faddeuant a gollyngdod yn daledigaeth o'r ddyled. Yma y mae pob peth yn rhad; os y Tad sydd yn rhoddi 'r Mab yn rhad, a'r Mab yn talu 'r ddyled yn rhad; ac os yw'r Tad yn foddlon i gymmeryd taledigaeth gan y Mab, pan y gallasai ofyn hynny gennym ni; ac os ydyw 'r Tad a'r Mab yn cynnyg y bywyd a bwrcaswyd yn rhad i ni, ond yn unig i ni ei dderbyn gyda chalon ddiolchgar; ac os ydynt hwy hefyd yn anfon yn rhad yr Ysbryd Glân i'n cynnorthwyo i dderbyn y rhodd; pa beth sydd yma nad yw yn rhad? O, yr anfeidrol a'r tragywyddol ryfeddod a fydd yn meddiannu 'r saint, pan feddyliont fod Duw yn rhoddi iddynt y fath ddigyffelyb rodd mor rhad! "Pa beth a welodd yr Arglwydd ynof fi, fel y barnai fi yn deilwng

o'r cyfryw anrhydedd? Fy mod i, yr hwn oeddwn greadur gwael, aflan, a dirmygedig, yn cael fel hyn fy ngwisgo â disgleirdeb y gogoniant hwn! Fy mod i, yr hwn oeddwn bryfyn ffiaidd o lwch y llawr, yn cael fy nyrchafu i'r fath ragorfraint! Fy mod i, yr hwn oeddwn yn ddiweddar yn ocheneidio, yn wylo, yn marw, yn awr môr llawn o lawenydd ag a ddichon fy nghalon ddymuno! Fy mod i wedi fy nghyfodi o'r bedd lle yr oeddwn yn pydru, ac o'r llwch a'r tywyllwch yn nhir anghof, a chael fy ngosod yma o flaen yr orseddfaingc; a'm cymmeryd, megis Mordecai, o gaethiwed, i'm gosod o flaen y brenin; ac megis Daniel, allan o ffau 'r llewod, i fod yn llywodraethwr tywysogion a thaleithau! Pwy a ddichon amgyffred y fath gariad anfeidrol!" Pe teilyngdod a fuasai 'r ammod i fyned i mewn i'r bywyd, nyni a allasem eistedd i lawr, ac wylo gyda Ioan, o herwydd na chafwyd neb yn deilwng. Ond etto *y llew o lwyth Juda* sydd deilwng, ac a lwyddodd, (Dat. 5: 4, 5;) a dyma ein hawl ninnau i'r etifeddiaeth. Nyni a gawn offrymmu poeth-offrymmau rhad, yr hyn nid oedd Dafydd yn ewyllysio ei wneuthur, (2 Sam. 24: 24,) sef clod, a moliant, a diolchgarwch i'r Arglwydd. Gorchymyn Crist Iesu i'r apostolion oedd, "*Derbyniasoch yn rhad, rhoddwch yn rhad.*" Ond efe ei hun a brynodd yn ddrud, ac etto y mae efe yn cyfrannu 'n rhad

§ 4. Yn nesaf, pe buasai hyn oll yn rhad, ac heb ddim o'n haeddiant ni, fe fuasai hynny yn rhyfeddod mawr. Ond yr oeddem ni mor bell oddiwrth deilyngdod, fel yr oeddem yn haeddu cospedigaeth; canys yr oeddem wedi ein heuogfarnu, ac wedi bod yn hir yn gwrthsefyll ein daioni, ac yn ceisio ein dinystrio ein hunain. Y fath ryfeddod mawr fydd i ni feddwl, cymmaint o wahaniaeth a rhagoriaeth anfeidrol sydd rhwng ein haeddiant ni a'r gwobr a'r taledigaeth yr ydym yn eu derbyn! rhwng y cyflwr happus yr ydym ynddo, a'r cyflwr truenus y gallasem syrthio iddo, oni buasai i'r Arglwydd ein hachub! i edrych i lawr ar uffern, a gweled yr anfeidrol

ragoriaeth a wnaeth gras rhyngom ni a'r rhai sydd yno! gweled yno etifeddiaeth i ba un y'n ganed, ac ar y llaw arall, ardderchowgrwydd yr un a dderbyniasom trwy y mabwysiad! oni fydd ein calonnau yn llosgi o'n mewn gan dra rhagorol gariad wrth feddwl, Daccw'r lle y buaswn yn cael fy nwyn iddo gan bechod; ond hwn yw'r gwynfyd y dygodd Crist fi iddo! Marwolaeth a fuasai accw yn gyflog i mi am fy mhechod, ond yma yn awr rhodd (dawn) Duw i mi yw bywyd tragywyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd! Rhuf. 6: 23. Pwy a wnaeth ragor rhyngof fi ac arall! 1 Cor. 4: 7. Oni fuaswn i yn awr yn y llosgfeydd accw, pe buasai'r Arglwydd yn gadael i mi ddilyn fy ffyrdd fy hun, a chanlyn ewyllys fy nghalon ddrwg? Oni fuaswn i yn oedi yn Sodom, ac yn cael fy llosgi yn y tân, oni buasai i'r Arglwydd, yn ei drugaredd, dosturio wrthyf *a'm dwyn allan!*" Gen. 19: 16. Yn ddiau hyn a fydd yn rhyfeddod i ni i bob tragywyddoldeb, sef bod coron mór ogoneddus yn addurno pen pechadur mór aflan! bod un ag a fu yn hir mór anffrwythlon yn ngwasanaeth yr Arglwydd, ac mór anniolchgar iddo, wedi cael ei ddyrchafu i'r fath ryfeddol anrhydedd! a bod un a fu yn euog o'r fath wrthryfelgarwch gwaradwyddus, wedi cael ei dderbyn i mewn i'r cyfryw lawenydd annrhaethol! Ond nid oes diolch i ni am hyn oll, na chwaith i'r un o'n dyledswyddau na'n gweithredoedd, a llai o lawer i'n hesgeulusdra, a'n diogi, a'n hoerfelgarwch. Nyni a wyddom i bwy y mae y clod yn ddyledus, ac y rhaid ei roddi yn dragywydd. Yn wir, i'r dyben hyn y trefnodd anfeidrol ddoethineb ddwyn i ben waith ein hiechydwriaeth yn y ffordd yma, sef trwy *bwrcas,* ac felly yn gwbl rad i bechaduriaid; fel y byddai cariad a llawenydd y gwaredigion yn gyflawn, ac anrhydedd a rhinwedd gras yn cael eu dyrchafu; ac fel na byddai i ddim o haeddiant dyn gael lle i ddyfod i mewn i leihau y parch a'r llawenydd, nac i gymmeryd un rhan o'r clod; ac felly mewn modd gostyngedig, ac iaith ddynol, yn ol ein hamgyffred ni, y gellir dywedyd mai ar

y ddau begwn yma y mae pyrth y nefoedd yn troi; ac felly hefyd y gallwn ddywedyd, yn yr un modd, y dylasai y geiriau hyn fod yn ysgrifenedig ar ddôr uffern, "*Y lle y dylasem fod ynddo yn ol ein haeddiant;*" ond ar borth y nefoedd, "*Rhad Rodd.*"

§ 5. (3) Mae yr orphwysfa yma yn briodol ac yn gymmwys i'r saint yn unig, ac nid yw yn perthyn i un arall o feibion dynion. Pe buasai holl wlad yr Aipht yn llawn goleuni, ni fuasai rhan yr Israeliaid yn llai; ond yr oeddynt yn gwerthfawrogi eu braint yn fwy o lawer, oherwydd eu bod hwy yn mwynhau goleuni, tra yr ydoedd eu cymmydogion yn byw mewn tywyllwch. Y mae trugaredd o'r fath hyn, ag sydd yn gwahaniaethu ac yn fy arbed i pan y mae ereill yn cael eu torri i lawr, neu yn rhoddi i *mi* yn helaeth pan y mae ereill mewn eisiau, yn achos o fwy o ddiolchgarwch nac un drugaredd arall. Pe buasai Pharaoh a'i lu yn gallu myned trwodd yn ddiogel cystal a'r Israeliaid, ni fuasem yn coffa cymmaint am y Môr Coch. Oni buasai achub Noah a'i deulu yn unig yn yr arch, ni fuasai cymmaint rhyfeddod am y dylif. Ac oni buasai gwared Lot allan o'r dinystr, ni fuasai cymmaint o son am Sodoma a Gomorrah. Pan y mae *un* yn cael ei oleuo, a'r llall ei adael mewn tywyllwch—un yn cael ei droi a'i gyfnewid, a'r llall yn cael ei adael yn gaethwas i'w drachwantau—y mae hyn yn peri i'r saint waeddi allan, "*Arglwydd, pa beth yw 'r achos dy fod yn eglurhau dy hun i ni,* ac nid i'r byd?" Ioan 14: 22. Pan anfonwyd y prophwyd at un wraig weddw yn unig o'r holl rai oedd yn Israel, ac i lanhau *un* Naaman o'r holl rai gwahanglwyfus, (Luc 4: 25–27,) yr oedd hyn yn gwneuthur y weithred o drugaredd yn fwy hynod a rhagorol. Ac yn ddiau fe fydd hwnnw yn ddydd o farn ar y naill law a thrugaredd ar y llaw arall, o wae i un a llawenydd i'r llall, pan fydd dau yn yr un gwely, *a'r naill a gymmerir, a'r llall a adewir; a dau a fyddant yn y maes, y naill a gymmerir, a'r llall a adewir.* Luc 17: 34–36. Y saint a gant

edrych i lawr ar y llŷn sydd yn llosgi, a chant weled eu dedwyddwch eu hunain, a chydnabod cyfiawn farn Duw ar bechaduriaid: a hwy a fyddant yn gorfoleddu ac yn canu, "Cyfiawn, O Arglwydd, ydwyt ti! yr hwn wyt, a'r hwn oeddit, a'r hwn a fyddi, o blegid barnu o honot fel hyn." Dat. 16: 5.

§ 6. (4) Ac er fod yr orphwysfa yma yn *briodol* i'r saint, ac yn perthyn iddynt hwy yn unig, etto mae yr holl seintiau yn gyd-gyfranogion o honi; canys cyd-gymdeithas ydyw hon o eneidiau yr holl ffyddloniaid: cymdeithas o angelion a seintiau gogoneddus; corph o'r seintiau a berffeithiwyd, o ba un y mae Crist yn ben. Hon yw *cymmun* (neu gymmundeb) y saint wedi eu perffeithio. Megis yr ydym wedi bod yn nghyd mewn helbul, ac yn gyd-gyfranogion o'r trallodion, a'r llafur, a'r ddyledswydd, a'r perygl, a'r enbydrwydd; felly hefyd y cawn fod o'r waredigaeth a *thaledigaeth y gwobrwy*. Megis y buom yn gyd-gyfranogion o'r gwaradwydd, a'r anmharch, a'r dïystyrwch; felly hefyd y cawn fod o'r gogoniant a'r anrhydedd. Nyni, y rhai a fuom yn nghyd mewn dydd o alar a thristwch, a gawn hefyd fwynhau yn nghyd ddydd o gyssur, a llawenydd, a gorfoledd. Y rhai a fuont gyda ni mewn erlidigaethau a charcharau, a gant hefyd fod gyda ni yn y lle hwnnw o heddwch a diddanwch. Pa cyn amled y bu ein griddfanau yn gwneuthur ond megis un sŵn! ein dagrau un afon! ein deisyfiadau un weddi! Ond yn awr ein hamrywiol leisiau o glod a diolchgarwch a fyddant yn gwneuthur un gân; ein holl eglwysi un eglwys; a nyni ein hunain oll *un corph*: canys nyni oll a fyddwn un yn Nghrist, megis y mae yntau a'r Tad yn un. Ioan 17: 21. Ond yn ddiau, nyni a ddylem fod yn ofalus i beidio disgwyl am y rhinweddau hynny yn y saint ag sydd yn unig yn Nghrist. Ac os ydyw y meddwl neu y disgwyliad o gael eistedd i lawr gydag Abraham, Isaac a Jacob yn nheyrnas nefoedd, (Mat. 8: 11,) yn achos o lawenydd i'r saint, pa faint mwy fydd y golwg a'r mwynhad o'r or-

phwysfa nefol? Ac yn ddiammeu, mae yn gyssur mawr i ni feddwl am y dydd hwnnw, pan y cawn gyduno â Moses yn ei gân, ac â Dafydd yn ei salmau o ddiolchgarwch, ac â'r holl waredigion yn nghân yr Oen, yn oes oesoedd; (Dat. 15 : 3;) pan y cawn weled *Enoch yn rhodio* gyda Duw, (Gen. 5 : 24;) Noah yn mwynhau diwedd ei neillduolrwydd a'i ufudd-dod; Joseph am ei ddiweirdeb; Job am ei amynedd; Hezeciah am ei uniondeb; a'r holl seintiau yn mwynhau diwedd (gwrthddrych) eu ffydd. 1 Pedr 1: 9. Nyni a gawn yno weled, nid yn unig ein hen gydnabod, ond hefyd yr holl seintiau o bob oes; ac er na welsom erioed mo'u gwynebau yn ol y cnawd, etto nyni a gawn yno eu hadnabod, ac ymddiddan â hwynt.Ië, angelion yn gystal a seintiau a fyddant yn gyfeillion i ni; a'r rhai hynny ag sydd yn awr yn ysbrydion gwasanaethgar, (Heb. 1: 14,) a fyddant y pryd hynny ein cyfeillion mewn llawenydd; a'r rhai hynny a gawsant gymmaint *llawenydd yn ein tröedigaeth,* (Luc 15 : 7,) a gydorfoleddant gyda ni mewn gogoniant. Yna y cawn ddywedyd mewn gwirionedd gyda Dafydd, "Cyfaill ydwyf fi i'r rhai oll a'th ofnant." Salm 119: 63. Pan y cawn ni ddyfod i fynydd Seion, dinas y Duw byw, y Jerusalem nefol, at ac fyrddiwn o angelion; i gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at Dduw Barnwr pawb, ac at ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, ac at Iesu Cyfryngwr y Testament Newydd." Heb. 12: 22. Braint ac anrhydedd yr orphwysfa nefol, yw ein bod yn gyd-ddinasyddion â'r saint, ac yn deulu Duw. Eph. 2: 19.

§ 7. (5) Un arall o ragoriaethau a rhinweddau yr orphwysfa ydyw hyn, sef y byddwn yn mwynhau ein llawenydd yn ddigyfrwng oddiwrth Dduw ei hun. Ond yn awr nid ydym yn mwynhau dim ond trwy ryw *beth,* neu ryw *un* arall, megis yr ail neu 'r drydedd law, sef moddion; megis trwy 'r ddaear, trwy ddyn, trwy 'r haul neu 'r lloer, trwy wasanaeth angelion, trwy weinidogaeth yr Ysbryd,

ac yn bennaf oll, trwy Grist Iesu. Er nad ydyw y ffrydiau trwy wasanaeth angelion yn dangos dim o anmhuredd pechaduriaid, etto y maent yn arwyddion o anmherffeithrwydd y creaduriaid; a thrwy weinidogaeth dynion y maent yn llawn o'r ddau. Ystyriwn mór *llym* a *miniog* yw 'r *gair*, megis YNDDO ac o *hono* ei hun, (Heb. 4 : 12 ;) etto, yn aml iawn, nid ydyw yn treiddio trwodd, oherwydd ei fod yn cael ei drin gan fraich o gnawd—gan ddyn gwan, pechadurus, anghelfydd. Y fath bwys a gwerth sydd yn mhob un o ymadroddion y Testament Newydd, yn yr efengyl sanctaidd! Ië digon, fel y gellai un feddwl, i dreiddio drwy y galon galetaf, ac i gwbl feddiannu ei holl feddyliau a'i ddymuniadau, ac etto pa mór aml y mae 'r geiriau hyn yn syrthio megis dwfr ar garreg. Y pethau a'r ymadroddion sydd o Dduw, ond etto rhaid i ni ystyried mai dynion sydd yn eu trin. Nid oes nemmawr beth ag ydym yn ei drin, nad ydym yn gadael ôl ein bysedd megis arno. Ond os Duw ei hun a lefara y gair, fe fydd yn sicr o dreiddio trwodd a meddalhau y galon. Ac y mae 'r Cristion yn gwybod trwy brofiad fod ei ddiddanwch a'i lawenydd pennaf yn dyfod yn union, neu yn ddigyfrwng, oddiwrth Dduw; y rhai nid ydynt o ddynion, ond o'r Ysbryd. Y Cristion hwnnw ag sydd yn myfyrio fwyaf ar air Duw, ac sydd amlaf mewn gweddi ddirgel, hwnnw sydd â mwyaf o fywyd, ac yn cael mwyaf o lawenydd, oherwydd ei fod yn cael y cwbl oll yn ddigyfrwng oddiwrth Dduw. Ond nid ydwyf yn meddwl ychwaith y dylem adael heibio, nac esgeuluso gwrando a darllen gair Duw, na pheidio myned i'r ordinhadau, ac ymddiddan yn nghylch pethau nefol; ond hyn yr ydwyf yn ei feddwl, y dylem fyw uwchlaw y pethau hyn tra yr ydym yn eu harfer, heb ymddibynu arnynt—a hyn yw dyledswydd pob Cristion. Yn ddiammeu, y mae llawenydd wrth dderbyn budd a llesâd i'n heneidiau, trwy foddion neu gyfryngau ereill; ond y *digonolrwydd o lawenydd*, (Salm 16 : 11,) sydd yn dyfod oddiwrth bresennoldeb Duw, neu

gymmundeb âg ef. Nyni a gawn yno oleuni heb ganwyll, a dydd tragywyddol heb haul; a'r ddinas nis rhaid iddi wrth yr haul na 'r lleuad i oleuo ynddi; canys gogoniant Duw a'i goleua hi, a'i goleuni hi ydyw 'r Oen, (Dat. 21: 23;) ac ni bydd nos yno, ac nis rhaid iddynt wrth ganwyll na goleuni haul; oblegid y mae 'r Arglwydd Dduw yn goleuo iddynt: a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd. Dat. 22: 5. Fe fydd ein dealltwriaeth yno wedi ei goleuo heb yr Ysgrythyr, a nyni a gyfarwyddir heb gyfraith ysgrifenedig; canys yr Arglwydd a wna ei gyfraith yn berffaith yn ein calonnau, a nyni a fyddwn wedi cael ein cyflawn ddysgu gan Dduw. Nyni a fyddwn yn cael llawenydd heb ei dderbyn oddiwrth yr addewidion, nac ychwaith oddiwrth ffydd na gobaith. Nyni a gawn gymmundeb heb y sacramentau neu yr ordinhadau, ac hefyd heb y y *ffrwyth hwn o'r eiddo y winwydden, pan y bydd i Grist ei yfed gyda ni yn newydd* yn nheyrnas ei Dad, (Mat. 26: 29,) a'n llonni â gwin cyssurus ei gariad a'i bresennoldeb. Cyflwr truenus y rhai hynny a boenir yn uffern yw eu bod mewn eisiau, ond heb gael eu diwallu. Cael cyfrannu tuag at ein hanghenreidiau trwy weinidogaeth creaduriaid, ydyw ein sefyllfa ninau ar y ddaear. Ond yn y nefoedd y mae Duw ei hun yn cyflawni holl anghenreidiau ei saint. Ac, yn ddiweddaf, un o briodoliaethau yr Hollalluog ei hun, yw bod heb eisiau dim, ac heb anghereidiau.

§ 8. (6) Un arall o rinweddau 'r orphwysfa yma yw hyn, sef ei bod yn *brydlawn* neu yn *gyfamserol.* Hi a ddaw, neu nyni a gawn ei mwynhau, yn ei phryd, neu yn yr amser nodedig. Yn ddiau, fe fydd y Duw hwnnw, yr hwn sydd yn disgwyl derbyn o ffrwyth ei winllan mewn pryd, (Marc 12: 2,) a'r hwn sydd yn gwneuthur ei bobl megis pren wedi ei blannu ar làn afonydd dyfroedd, yr hwn sydd yn dwyn ffrwyth yn ei bryd, (Salm 1: 3,) yn sicr hefyd o roddi iddynt y goron yn ei hamser. A'r hwn sydd yn chwennych llefaru gair mewn pryd wrth y diffygiol, (Esa. 1: 4,) a fydd yn sicr o beri i ddydd llawen-

ydd ddyfod yn ei amser; a'r rhai hynny nid ydynt yn diffygio yn gwneuthur *daioni, a gant hefyd fedi yn ei iawn bryd, os na ddiffygiant.* Gal. 6 : 9. Ac os yw Duw yn rhoddi y cynnar a'r diweddar wlaw yn ei amser, hyd yn nod i'w elynion, ac yn cadw iddynt *ddefodol wythnosau y cynhauaf,* (Jer. 5 : 24,) ac wedi gwneuthur *cyfammod y bydd dydd a nos yn eu hamser,* (Jer. 33 : 20,) yn ddiau ni phaid a phrysuro amser cynhauaf gogoneddus ei saint. Ac yn ddiammeu, ni fydd i'r hwn a ddygodd Israel allan o'r Aipht, heb oedi yr un diwrnod yn hwy na'r addewid—ond yn mhen y deng mlynedd ar hugain a phedwar can' mlynedd, ïe, o fewn corph y dydd hwnnw yr aeth holl luoedd yr Arglwydd allan o wlad yr Aiph, (Exod. 12 : 40, 41,) nid oeda un dydd nac awr i gyflawni yr amser y bydd i'w saint gael eu gogoneddu. Wedi i ni gael hir nos o dywyllwch yn y byd hwn, onid ymddengys torriad y dydd a chyfodiad Haul Cyfiawnder i ni yn ei amser? Wedi i ni orphen taith hir a lluddiedig, a thrwy lawer o beryglon, oni fydd yn hyfryd gennym weled yr amser i fyned adref. Wedi diweddu rhyfel hir a pheryglus, ac wedi i ni gael llawer o archollion, onid dymunol fydd gennym gael heddwch gyda 'r fuddygoliaeth? Y mae dynion yn byw mewn blinder gwastadol; yn enwedig y saint, y rhai sydd yn blino ar y pethau hynny ag y mae plant y byd yn eu hoffi, ac yn blino hefyd ar y pethau nid ydynt yn peri dim blinder i blant y byd; rhai yn blino ar dywyllwch eu meddyliau; rhai ar eu calonnau celyd; rhai yn flin oherwydd eu hofnau a'u hammeuon; rhai yn cŵyno o eisiau cael mwy o lawenydd ysbrydol; a rhai yn ofni eu bod dan ddigofaint Duw, neu ei fod wedi troi oddiwrthynt mewn sorriant. A phan y mae 'r Cristion gwan wedi bod yn hiraethu, ac yn gweddio, ac yn dysgwyl, lawer blwyddyn, am waredigaeth, onid ymddengys amser ei ymadawiad yn brydlon ac yn ddymunol? Os ydym ni gan hynny yn disgwyl am Ganaan yn nghanol y diffaethwch, neu am ganiadau

Seion mewn gwlad ddieithr; os ydym yn cŵyno oherwydd nad oes porthladd ynghanol y môr, neu yn disgwyl am orphwysfa yn ngwres y dydd, neu am weled y nefoedd yn y byd hwn; onid yw ein hymddygiad yn afresymmol? canys hyn a fyddai yn anmrhydlon, ac allan o iawn drefn.

§ 9. (7) Yn nesaf, megis ag y mae 'r orphwysfa hon yn brydlon ac yn gyfamserol, felly hefyd y mae hi yn *addas ac yn weddus.* Y mae anian newydd y saint yn addasu eu hysbrydoedd i'r orphwysfa hon; ac yn wir, nid yw eu sancteiddrwydd ddim ond gwreichionen o'r anian yma, a ennynir yn eu calonnau gan Ysbryd Crist; a'r fflam hon sydd bob amser a'i thynfa uchod tua 'r lle y daeth. Ni allasai coronau daearol a theyrnasoedd y byd hwn, wneuthur gorphwysfa addas i'r saint; ac megis na's *prynwyd hwy â phris gwael,* (1 Pedr 1: 18,) felly hefyd nis cynnysgaeddwyd hwy â natur mór isel. Ac megis y mae Duw yn gofyn addoliad ysbrydol, addas a gweddus iddo ef megis Ysbryd neu Fôd ysbrydol, felly hefyd y mae efe yn parotoi i'r gwir addolwyr orphwysfa ysbrydol, addas i'w hanian ysbrydol hwy. Gan hynny, nefoedd y saint yw adnabyddiaeth o Dduw yn ei Fab Iesu Grist, annhraethol dangnefedd yn y mwynhad o'i gariad, gorfoledd, a llawenydd dros bob tragywyddoldeb yn mhresennoldeb Duw, yn nghyda chanu mawl i'w enw gogoneddus yn oes oesoedd. Hyn a leinw i fyny holl hiraethlawn ocheneidiau a dymuniadau calon y gwir Gristion. Yna y cawn fyw yn ein priodol elfen. Yr ydym yn awr megis pysgod mewn llestr bychan ac ychydig o ddwfr, a hynny yn ddim ychwaneg na digon i'w cadw yn fyw; ond beth yw hyn at eigion y môr? Y mae ychydig bach o wynt yn cael ei ollwng i mewn attom yma, sef hynny ag sydd yn anghenreidiol tuag at anadlu ynddo; ond beth yw hyn i'w gyffelybu i'r awelon pur, hyfryd, a pheraroglaidd sydd yn chwythu oddiar fynydd Seion? Yr ydym yma yn cael ychydig bach o wres yr haul, rhyw faint i oleuo ein tywyllwch, ac hefyd belydr weithiau i'n cynnesu a'n

cadw rhag rhewi; ond yno y cawn fyw yn ei oleuni, ac y cawn ein cynnesu â'i wres yn dragywydd. Ac megis y mae natur y saint, felly hefyd y mae eu dymuniadau. Ac y mae 'r orphwysfa hon yn addas i gyflawni 'r hyn a gollasom yn ein cwymp, ac i foddloni holl ddymuniadau ein hanian newydd. Ond tra y mae ein hanian yn ddrwg, ein dymuniadau yn gyfeiliornus, ein serchiadau yn ddaearol, a'n hewyllys yn llygredig, y mae yn llawer mwy trugaredd i w hattal a'u darostwng, ïe, eu llwyr ddinystrio, neu yn hytrach iddynt gael eu cyfnewid gan Dduw, nac iddynt gael eu porthi a'u cyflawni. Ond y mae'r anian nefol a'r serchiadau ysbrydol wedi eu plannu ynom gan Dduw ei hun; a'r hwn a blanodd, yn ddiau, a ddwfrha hefyd, ac a rydd y cynnydd. Y mae efe yn ychwanegu ein newyn a'n syched am gyfiawnder, i'r diben o'n gwneuthur yn happus, gan gyflawni ein holl eisiau. O Gristion anwyl! dyma orphwysfa i ti yn ol holl ddymuniad dy galon. Y mae hon yn cynnwys pob peth a all dy galon ddymuno; a'r hyn yr wyt ti yn hiraethu, yn gweddio, ac yn llafurio am dano, tydi a fyddi yn sicr o'i gael yno. Ac onid wyt yn dewis cael Duw yn Nghrist yn fwy na'r holl fyd? Yno y cei di ei fwynhau. Pa beth a roddit am gael tystiolaeth o'i gariad? Yno y cei, nid yn unig lawn hyder ffydd heb ddim amheuaeth, ond hefyd ei weled fel y mae, a bod yn gyffelyb iddo. Dymuna yr hyn a elli, a gofyn yr hyn a fynni, megis Cristion, a hynny a roddir i ti, nid yn unig at hanner ei deyrnas, ond ti a gei feddiant o'r deyrnas ac o'r Brenin hefyd. Nid yw'r bywyd hwn ddim ond bywyd o weddi a dymuniad, ond bywyd yw hwnnw o foddlonrwydd a mwynhad. Y mae 'r orphwysfa honno hefyd yn cynnwys pob peth tuag at anghenreidiau'r saint, yn gystal a'r hyn sydd yn addas i'w hanian a'u dymuniadau. Y mae'n cynnwys pob peth ag sydd yn eisiau arnynt, ond nid yw yn cyfrannu iddynt yr un mwyniant daearol; canys ni fyddai' r cyfryw ond megis arfau Saul ar Ddafydd, yn faich yn lle bendith. A'r hyn ag oedd yn fwyaf anghen-

reidiol arnynt, sef Crist a pherffaith sancteiddrwydd, hynny a gânt eu mwynhau yn ol dymuniad eu calon.

§ 10. (8) Yn nesaf, ac uwchlaw 'r cwbl oll, fe fydd yr orphwysfa hon yn *gyflawn berffaith.* Nyni a gawn yno lawenydd heb dristwch, a gorphwysfa heb flinder. Ni fydd yno ddim cymmysgedd o lygredd gyda 'n grasusau, nac o ddioddef gyda 'n cysur; nid oes yr un o'r tonnau yn y porthladd hwnnw ag sydd yma yn ein taflu i fyny ac i lawr. Yn y byd hwn yr ydym heddyw yn iach, y fory yn salw; heddyw mewn anrhydedd, y fory mewn anmharch; heddyw y mae gennym gyfeillion, y fory heb yr un; ïe, yr ydym yn cael gwin a finegr yn gymmysg yn yr un gwppan. Pe b'ai modd i ni gael ein dyrchafu gyda Phaul, trwy weledigaethau i'r drydedd nef, etto, yn fuan iawn, cennad Satan a fyddai 'n sicr o'n cernodio, a'r draen (swmbwl) yn y cnawd a'n darostyngai oddiyno. 2 Cor. 12 : 2–7. Ond nid oes dim o'r anwadalwch yma yn y nefoedd. Ac os ydyw *perffaith gariad yn bwrw allan* ofn, (1 Ioan 4 : 18,) yna yn ddiammeu perffaith lawenydd a fwrw allan dristwch, a pherffaith happusrwydd a gau allan holl weddillion gofid a thrueni. Yno nyni a gawn orphwys oddiwrth ein holl drallodion a'n blinderau, ac oddiwrth ganlyniadau drwg pechod.

§ 11. Nid oes dim ag y mae 'r nefoedd yn ei gau allan mòr gyflawn ac mór hollol a phechod, sef pechod o bob math, gwreiddiol a gweithredol, ac o ba le bynnag y byddo yn tarddu, oddiwrth lygredd ein natur neu ymddiddanion drwg. "Ac nid â i mewn iddi ddim sydd yn halogedig, ac yn gwneuthur ffieidd-dra a chelwydd." Dat. 21 ; 27. Pa leshad i Grist farw pe buasai modd i'r nefoedd gynnwys eneidiau anmherffaith? "I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dattodai weithredoedd y diafol." 1 Ioan 3: 8. Ni wnaeth ei waed a'i Ysbryd hyn oll i'n gadael ni yn aflan yn y diwedd, canys *pa gymmundeb sydd rhwng goleuni a thywyllwch, a pha gyssondeb sydd rhwng Crist a Belial?* 2 Cor. 6: 14. O Gristion, gan hynny, os cei

unwaith fyned i'r nefoedd, ni phechi mwyach. Onid yw hyn yn newydd da i ti, wedi i ti fod mòr hir yn gwylio ac yn gweddio yn ei erbyn? Mi a wn yn dda pe ceit ti dy ddewis, y byddai yn well gennyt gael ymadael â'th bechodau nac ennill yr holl fyd. Gan hynny tydi a gei yno dy ddymuniad. Y galon galed yna, y meddyliau gwammal, drwg, llygredig, y rhai a fyddai yn dy ganlyn i bob lle; cei ymadael â'r rhai hyn oll dros byth. Ni fydd dy ddeall bellach yn dywyll, na 'th wybodaeth yn wan. Pob rhan o'r Ysgrythyrau ag sydd yr awrhon yn ymddangos yn dywyll, a fyddant y pryd hwnnw yn eglur; a'r mannau sydd megis yn groes neu wrthwyneb i'w gilydd, a fyddant yn hawdd eu deall, ac i'w gweled mewn cyssondeb. Bydd y Cristion gwanaf, yn union wedi yr êl yno, yn well duwinydd nac un sydd yn y byd hwn. O ddedwydd ddydd, pan y bydd i bob cyfeiliornad ddiflanu dros byth! pan y bydd i Dduw wneuthur ein deall yn gyflawn o oleuni, fel nad aroso dim tywyllwch ynom; ïe, ei wynebpryd ei hun a fydd yn lle Ysgrythyr, lle y cawn ddarllen y gwirionedd. Llawer dyn duwiol, a chanddo fwy o zêl na gwybodaeth, a fu yn foddion lawer gwaith i ŵyr-droi, a thwyllo ei frodyr yn y byd hwn; ac wedi iddo gael ei ddwyn i ganfod ei gyfeiliornad, ni wyddai yn iawn pa fodd i'w dwyn yn eu hol i'r iawn allan o'r amryfysedd hwnnw; ond yno nyni a fyddwn oll wedi ein sefydlu yn y gwirionedd ynddo ef, yr hwn ei hun yw y *gwirionedd*. Nyni a gawn hefyd yno orphwysfa oddiwrth holl bechodau ein hewyllys, ein serchiadau, ein hymadroddion, a'n hymddiddanion. Ni chawn byth mwyach ein poeni gan yr elfen ddrwg, a'n hanian lygredig a gwrthryfelgar, y rhai yn wastad sydd yn ein tynu a'n denu oddiwrth Dduw. Ni chawn byth mwyach ein gorthrymmu dan rym a nerth ein llygredigaethau, na 'n blino ychwaith dan deimlad o honynt. Ni cha dim pechod, nac anwydau drwg, na thrachwantau y cnawd, na meddyliau aflan, na llesgedd, na difrawch, nac anystyriaeth, na dim arall, fyned i mewn

yno i'n poeni a'n haflonyddu. Ni fydd yno ddim dieithrwch ac anwybodaeth o Dduw, ac o bethau ysbrydol; dim oerfelgarwch yn ein serchiadau, nac anmherffeithrwydd yn ein cariad; dim byw a rhodio yn anwastad ac yn anwadal; dim gwrthryfela yn erbyn Duw, na thristâu ei Ysbryd, na'r un weithred ddrwg i roddi tramgwydd i'n brodyr; dim ymddiddanion bydol ac annuwiol. Nyni a gawn orphwys oddiwrth y rhai hyn oll yn dragywydd. Yna y bydd ein dymuniadau yn cyfatteb i'r ewyllys dwyfol, mal yr ettyb gwyneb i wyneb mewn drych, oddiwrth yr hyn, fel ein deddf a'n rhëol, nid ysgogwn byth. Ac yno nyni a gawn ei weled wyneb yn wyneb, a bod yn gyffelyb iddo. "Canys yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef, hwnnw hefyd a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ei hun, megis y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau." Heb. 4 : 10.

§ 12. Ein dioddefiadau a'n cystuddiau ydynt ganlyniadau ein trosedd a'n pechodau, ac yn y nefoedd hwy a ddarfyddant yn nghyd. Nyni o gawn orphwys yno hefyd oddiwrth ein holl amheuaeth yn nghylch cariad Duw; ac ni fydd achos dywedyd mwyach "Bod amheuon, megys ysgall, yn chwyn drwg, ond yn tyfu mewn tir da." *(Dr. Preston.)* Hwy a gant eu chwynu allan cyn myned yno, ac ni chant flino yr enaid grasol mwyach. Ni chawn chwaith glywed y geiriau hyn mwyach, "Pa beth a wnaf fel y caffwyf dystiolaeth yn nghylch sicrwydd fy nghyflwr? Pa fodd y caf wybod fod Duw yn Dad i mi? fod fy nghalon yn uniawn? fod fy nhröedigaeth yn hollol? fy ngalwedigaeth oddiwrth Dduw? a'm ffydd yn wirioneddol? Ofni yr ydwyf fod fy mhechodau heb eu maddeu; nad yw fy mhroffes ond rhagrith; y gwna 'r Arglwydd fy ngwrthod; ac nad yw efe yn gwrando fy ngweddi." Yno y mae 'r holl amheuon hyn yn cael eu troi yn ddiolchgarwch. Nyni a gawn orphwys yno oddiwrth ein holl ofnau yn nghylch

digofaint Duw. Ni fydd ofn uffern yn gymmysg â happusrwydd y nefoedd. Ar rai amserau, yn y byd hwn, y mae 'r enaid grasol, megis Dafydd, yn barod i ddywedyd, "Cofiais Dduw, ac a'm cythryblwyd: cwynais, a therfysgwyd fy ysbryd; fy enaid a wrthododd ei ddiddanu." Salm 77 : 2, 3. "Y mae dy ddigofaint yn pwyso arnaf; ac â'th holl donnau y'm cystuddiaist." Salm 88 : 7. Ond nyni a gawn weled a chydnabod yn y dydd hwnnw ffyddlondeb y geiriau hynny: "Mewn ychydig soriant y cuddiais fy wyneb oddiwrthyt ennyd awr; ond â thrugaredd dragywyddol y trugarhaf wrthyt, medd yr Arglwydd dy waredydd," (Esa. 54 : 8;) ac mai felly gwnaeth efe â ni; ïe, nyni a gawn orphwys oddiwrth holl brofedigaethau Satan. Y fath ofid i'r gwir Gristion ei fod yn cael ei demtio i wadu ei Arglwydd, er iddo gael ei gynnal rhag syrthio! Y fath boen a blinder iddo fod y cyfryw demtasiynau arswydus, y fath feddyliau cableddus, yn dyfod i mewn i'w enaid! meddyliau anmharchus am Dduw, ac yn dianrhydeddu Crist! amheuaeth ynghylch gwirionedd yr Ysgrythyrau, a barnu yn galed ynghylch ffyrdd Rhagluniaeth! ei fod yn cael ei demtio ar rai amserau i droi at bethau tymhorol, i edrych ar wagedd, i chwareu megis âg abwyd pechod, i feddwl am bleserau cig a gwaed, ac weithiau yn agos a chael ei hudo gan y gelyn i ddidduwiaeth! yn enwedig wedi i ni gael ein dwyn i weled twyll ein calonnau, y rhai sydd megis dylwyfyn, yn barod i dderbyn gwreichion drygioni a phechod, ac i gynneu yn fflam dân. Y mae gan Satan ganiattâd i'n temtio yma yn y diffaethwch, ond nis caniatteir iddo fyned i mewn i'r *ddinas sanctaidd.* Efe a ddichon ein cymmeryd i ryw binacl o deml y Jerusalem ddaearol, ond nis gall efe nesâu at y Jerusalem Newydd sydd uchod. Efe a all ein cymmeryd i fyny i ben mynydd tra uchel, ond nis gall ddyfod yn agos at fynydd Seion; a phe byddai bosibl iddo roddi i ni holl deyrnasoedd y byd, a'u gogoniant, (Mat. 4 : 1, 5, 8,) ni fyddai hynny oll ond ysgafnach

na gwegi i'w cyffelybu i deyrnas ein Harglwydd. Gwaith ofer gan hynny fydd i Satan geisio temtio mwyach. Ein holl brofedigaethau oddiwrth y byd a'r cnawd a ddarfyddant hefyd. O! y peryglon yr ydym yn rhodio ynddynt yma bob awr. Mae pob un o'n synwyrau a'n haelodau; ïe, pob creadur, a phob trugaredd, a phob dyledswydd yn gosod maglau a hoenynnau i'n dàl a'n difetha. Prin y medrwn agor ein llygaid heb genfigennu wrth y rhai sydd mewn uwch sefyllfa na ni, neu ddiystyru rhai o isel radd, heb naill ai dymuno am gyfoeth ac anrhydedd y mawrion, neu ynte edrych ar y tlodion gyda balchder a dirmyg. Os edrychwch ar lendid, mae hynny yn aml yn achos o feddyliau anllad; os gwelwn wrthuni a hagrwch, yr ydym yn barod i'w ffieiddio a'i ddiystyru. Mór dueddol ydym i wrando ar dafod athrodgar, drwg absen, ac enllib, neu i hoffi ymddiddanion ofer, gwegi, a thrythyllwch! Mór ofalus y dylem fod rhag chwennych a blysio y pethau nid ydynt weddus! Mór barod ydym i ymfalchïo o herwydd harddwch corph, neu lendid pryd a gwedd; neu i rwgnach ac anfoddloni, o herwydd cloffni, neu fethiantwch, neu ryw beth anolygus neu anffurfiol arall, ar wneuthuriad ein cyrph! Pa mór barod ydym i ymfalchïo ac ymffrostio o herwydd ein gwybodaeth neu ein dysgeidiaeth? i garu clod, a pharch, ac anrhydedd? ac i ddiystyru 'r pethau hynny mewn eraill nad ydym ni yn feddiannol o honynt? Pan f'om mewn rhyw swydd, neu oruchwyliaeth, mór dueddol ydym i gymmeryd ein ffordd ein hunain, ac i osod i fyny ein hewyllys ein hunain, megis cyfraith a rhëol, i bawb sydd danom, gan ddisgwyl iddynt fod yn ufudd ac yn ostyngedig i ni yn mhob peth! Os ydym mewn isel radd, pa mòr dueddol ydym i genfigennu wrth eraill sydd uwch na ni, a barnu eu hymddygiad yn ol ein mympwy ein hunain! Os yn gyfoethog, yr ydym yn rhy barod i ymddyrchafu; os yn dlodion, yr ydym yn anfoddlon i'n cyflwr. Yr ydym naill ai yn ddïog yn ein dyledswyddau, neu, os ydym yn

eu cyflawni mewn rhyw fodd anmherffaith, onid ydym yn gwneuthur Crist o honynt? Etto nid oes le i ni feddwl fod Duw wedi gwneuthur yr holl bethau hyn yn faglau, neu yn rhwyd i ni, ond yn hytrach ein bod ni, trwy lygredigaeth ein natur, yn eu gwneuthur fel hyn yn dramgwyddiadau i ni ein hunain, ac i eraill. Ond hyn yw ein cysur, y cawn ein rhyddhau yn yr orphwysfa honno, oddiwrth yr holl bethau hyn, gan nad oes dim modd i Satan ddyfod i mewn yno; felly hefyd ni ddaw yno chwaith ddim ag a fydd yn wasanaethgar i'w lid a'i genfigen; ond pob peth yno a gydunant â ni i ganu mawl i'r Gwaredwr; ac megis ag y cawn orphwys yno oddiwrth holl brofedigaethau 'r byd, felly y cawn hefyd oddiwrth ei holl lygredigaethau a'i erlidigaethau. *Gweddiau 'r eneidiau dan yr allor* a gânt eu hatteb y pryd hynny, a Duw a ddïal eu *gwaed hwynt ar y rhai sydd yn trigo ar y ddaear.* Dat. 6: 9, 10. Yn y byd hwn, megis ein Hiachawdwr bendigedig, y mae 'r saint yn cael eu coroni â choron o ddrain, ond yno âg un ddiddiflannedig y gogoniant. Yma y mae pawb ag sydd yn ewyllysio byw yn dduwiol yn Nghrist Iesu yn dioddef erlidigaeth, (2 Tim. 3 : 12;) ond yno y rhai hynny a gyd-ddioddefasant âg ef, a gyd-ogoneddir hefyd gydag ef. Rhuf. 8: 17. Yma y byddant yn gas gan bawb er mwyn enw Crist, (Mat. 10: 22;) ond yno efe a ogoneddir yn ei saint, y rhai a gawsant eu diystyru yma. 2 Thes. 1: 10. Y mae 'r saint yn y byd hwn yn cael eu gwneuthur yn ddrych i'r byd, ac i angelion, ac i ddynion. Y maent yn cael eu cyfrif fel ysgubion y byd, a sorod pob dim. 2 Cor. 4: 9–13.Ië, y mae plant y byd yn cilio oddiwrthynt, yn eu drwgliwio, ac yn eu henllibio, ac yn bwrw eu henwau allan megis drwg, (Mat. 6: 22;) ond y pryd hynny fe fyddir yn edrych ar y gwaredigion oherwydd eu rhyfeddol ogoniant; a'r drwg-ddynion a geuir allan a fysg cynnulleidfa 'r saint, ac a ddidolir oddwrthynt, pa un bynag ai boddlon ai anfoddlon fyddant. Ond yn awr prin y medrwn ni gadw dyledswydd ein

teuluoedd, ... hanu mawl i Dduw, nad yw ein llais yn peri blinder ac aflonyddwch iddynt; ond pa mór fawr fydd eu poen a'u gofid i weled y saint yn llawenychu ac yn gorfoleddu, a hwythau yn galaru ac yn llefain mewn arteithiau! Chwithau, frodyr, y rhai ni fedrwch yn awr gymmeryd un gwaith mewn llaw, gan olygu gogoniant Duw, heb golli cariad ac ewyllys da plant y byd hwn, cofiwch, er eich cysur, y bydd pawb yn yr orphwysfa honno, yn cyduno â chwi â'u genau, ac o lwyrfryd calon, i orfoleddu ac i ganu mawl i bob tragywyddoldeb. Yn eich *hamynedd gan hynny meddiennwch eich heneidiau*, (Luc 21: 19,) hyd oni ddel eich Arglwydd. Cyfrifwch bob gwaradwydd ac erlid yn anrhydedd, a rhwymwch hwynt megis coron o amgylch eich pen; ïe, cyfrifwch hwynt yn fwy golud na thrysorau'r byd. Canys cyfiawn yw ger bron Duw dalu cystudd i'r rhai sydd yn eich cystuddio chwi; ac i chwithau, y rhai a gystuddir, esmwythdra gyda Christ. 2 Thes. 1: 6, 7. Nyni a gawn y pryd hynny hefyd orphwys oddiwrth ein holl ymrafaelion, a'r dadleuon, a'r ymraniadau, a'r ymbleidiau, ag sydd ymysg Cristionogion, ac yn achosi cymmaint gofid a blinder i'r rhai sydd yn caru Crist a'r efengyl. Mór garedig y mae miloedd yn byw ynghyd yn y nefoedd, ymhlith y rhai yr oedd amrafaelion ac anghydfod yn y byd! Nid oes yno ymrysonau, oherwydd nad oes na balchder, nac anwybodaeth, na dim llygredigaeth yn cael myned i mewn yno. Nid oes yno ychwaith ddim trefnu rhyw foddion i gadarnhau ein plaid ein hunain, neu ddychymmygu rhyw ffordd i waradwyddo ein gwrthwynebwyr, megis y gwelir yn aml yn y byd. Ac os oes y fath beth a gofid a chywilydd yn y nefoedd, nyni a fyddwn yn gwrido ac yn galaru wrth gofio am y fath ymddygiad anweddus; megis brodyr Joseph wrth gofio am eu triniad anmharchus o'u brawd. Ai nid digon fod yr holl fyd yn ein herbyn? A raid i ni hefyd ymrafaelio â'n gilydd? Gan hynny, O ddedwydd ddyddiau erlidigaeth, gan iddynt fod yn achos i'n cyssylltu ynghyd mewn cariad; a chan fod brawd-

garwch hefyd yn diflannu'n fuan iawn, mewn amser rhyddid a llwyddiant, o achos ein hanghydfod a'n hymrysonau. O ddedwydd ddydd! gorphwysfa'r saint mewn gogoniant; canys yno y cawn fod o un galon, a chyduno megis un eglwys, yn yr un gwaith o glodfori'n dragywydd yr un Duw, yr un Crist, a'r un Ysbryd. Canys yno y bydd un gorlan dan yr un Bugail mawr Crist Iesu. Yno hefyd y cawn gyd-orphwys gyda'n brodyr oddiwrth ein holl lafur, a diangc oddiwrth ein holl ddioddefiadau a phob erledigaeth. Mae'r Eglwys filwriaethus ar y ddaear megis ty'r cleifion *(hospital,)* rhai yn griddfan o herwydd eu tywyllwch, rhai o herwydd caledwch eu calonnau, rhai dan wendidau a digalondid, rhai o herwydd eu hanffrwythlondeb, a'u bod wedi syrthio i brofedigaeth; rhai mewn poen, a gofid, a blinder ysbryd; rhai eraill dan amryw brofedigaethau, a chroesau, a chystuddiau. Ond y gofid a'r blinder mwyaf oll, yw gweled ein perthynasau a'n cyfeillion mwyaf anwyl, yn troi ymaith oddiwrth y gwirionedd, megis y mae yn Nghrist Iesu, ac yn parhau i fyw mewn anystyriaeth a diystyrwch o'r efengyl, ac felly yn gwneuthur cam â'u heneidiau eu hun, ac heb ddim yn ffynnu i'w deffroi o'u hanystyriaeth, a'u gwrthgiliadau gwaradwyddus a gresynus. Pa mor drwm yw edrych ar dad neu fam, brawd neu chwaer, gwr neu wraig, plentyn neu gyfaill annuwiol, a meddwl y byddant yn uffern dros byth, os byddant feirw mewn cyflwr annychweledig! Meddwl bod yr efengyl yn ymadael, a'r gogoniant yn cael ei gymeryd ymaith oddiwrth ein Israel ni, a bod yr eneidiau truain hyn yn cael eu gadael mewn tywyllwch gwirfoddol, ac megis yn diffoddi y goleuni ag a fuasai yn eu tywys i iechydwriaeth. Dydd ein gorphwysfa a'n gwared ni oddiwrth y pethau hyn oll, a *dyddiau ein galar a ddarfyddant; yna dy holl bobl, O Arglwydd, a fyddant gyfiawn; etifeddant* y tir byth, sef blaguryn dy blanhigion, gwaith dy ddwylaw, fel y'th ogonedder. Esa. 60: 20, 21. Yna y cawn orphwys oddiwrth

ein holl ddioddefiadau. Ond mae'n debygol nad yw hyn yn ymddengos ond peth bychan i'r rhai hynny ag sydd yn byw mewn llonyddwch a llwyddiant, ond i'r enaid lludd-iedig y mae meddwl am orphwysfa'r saint yn beth hyfryd a dymunol iawn. Yn y byd hwn yr ydym yn marw beu-nydd, ac mewn peryglon bob awr; ac y mae ein bywyd mor llawn o ddioddefiadau, fel nad oes dydd nac awr yn gwbl rydd oddiwrthynt. Fel hyn y mae ein Harglwydd bendigedig yn trefnu i ni y cyfryw ran o drallod a gofid ag a fyddo yn ddigonol i'n marweiddio ni i'r byd, ac i beri i ni feddwl am bethau nefol ac anweledig, y rhai yr ydym yn rhy barod i'w hanghofio. Y mae profedigaethau'r byd, a cheryddon ein Tad nefol, fel hyn yn atteb ei ddoeth ddibenion, ac yn fuddiol i ni tuag at ein cynnydd mewn gras, a'n haddasu i'r gogoniant hwnnw. Mae'r saint naill ai yn gweled neu yn clywed rhyw beth beunydd i'w blino; ac megis Lot, yn Sodom, y maent yn poeni eu heneidiau, ïe, y mae'r corph a'r ysbryd yn llawn o flin-der yn wastadol, canys y mae eu holl synwyrau yn pallu. Pa aelod o'n cyrph, neu pa un o'n synwyrau sydd mewn poen, nad yw'r lleill yn cyd-ddioddef? Ond yn y dydd hwnnw y cawn ddiangfa oddiwrth y corph a phechod, a chan ddiosg y wisg o gnawd, nyni a gawn ein gwneuthur yn rhyddion oddiwrth boen a gofid. O fendigaid dang-nefedd y wlad honno, lle nid oes dim ond heddwch hyfryd yn wastadol! O wlad iach, lle nid oes neb yn gleifion! O wlad hyfryd, lle y mae pawb yn freninoedd! O gym-manfa sanctaidd, lle y mae pawb yn offeiriaid! O wlad rydd, lle nid oes un caeth, na llywodraeth chwaith gan neb ond y Brenin Tragywyddol! Ni fydd y dyn tlawd yn flin mwyach ar ol ei waith; ac ni fydd yn yr or-phwysfa honno na newyn, na syched, nac oerfel, na noethni, na gwres i'n llosgi, na rhew i'n rhynnu; ac ni fydd ein gwynebau mwyach yn llwydion nac yn athrist; ni fydd yno dòri cyfeillgarwch, na chyfeillion yn gorfod ymadael y naill oddiwrth y llall; dim trallod, na blinder,

na gofid, oherwydd ein perthynasau, ac ni chlywir chwaith lais cwynfan yn ein trigfanau; canys Duw a sych ymaith bob deigryn oddiar bob wyneb. O fy enaid! cais gydddwyn, gan hynny, dros ychydig amser â gwendidau dy ddaearol babell! Ni phery hyn ddim yn hir; mae swn traed dy Waredwr wrth y drws. Nyni a gawn hefyd orphwys oddiwrth holl lafur ein dyledswyddau. Yn awr y mae pob swyddog cydwybodol, pob rhïeni duwiol, pob gweinidog ffyddlon, yn barod i waeddi allan: "O bwys y baich a'r gofal sydd arnaf!" Mae gan bob cyflwr ac oedran o bobl ryw ddyledswyddau i'w cyflawni, fel ag y mae pob Cristion cydwybodol yn griddfan dan y baich o herwydd ei wendid; ond y mae gorphwysfa etto yn ol, yr hon a gymmer ymaith ein beichiau. Yn mhellach: nyni a gawn orphwys oddiwrth yr holl flinderau, i ba rai y mae pob Cristion yn ddarostyngedig yn ei bererindod trwy y byd. Yr holl drallodau sydd yn gymmysg â'n dymuniadau, ein gobaith a'n hiraeth a'n disgwyliad, a ddarfyddant oll y pryd hwnnw; ac ni chawn mwyach edrych i'n coffrau, a cholli ein trysor, nac i'n calonnau, a cholli Crist; ac ni bydd raid ei geisio o un ordinhad i'r llall, neu mewn moddion, ac heb ei gael; ond, yn hytrach, gorphenir y cwbl yno mewn cyflawn a dedwydd fwynhad. Dat. 7: 16, 17.

§ 13. (9) Y tlws diweddaf yn ein coron yw hyn, sef y bydd hi yn orphwysfa dragywyddol: heb hyn, ni fyddai 'r cwbl oll ond megis dyddim mewn cyffelybiaeth; canys yr ystyriaeth y byddai darfod iddi, neu y byddai raid i ni ymadael o honi, a fyddai yn chwerwi ein holl lawenydd a'n dedwyddwch; canys uffern yn y nefoedd (pe b'ai bosibl i hynny fod) fyddai meddwl ymadael o honi, megis ag y byddai yn fath o nefoedd i'r damnedigion gael rhyw obaith dyfod allan o'r lle hwnnw o boenau. Breuolder ac ansicrwydd holl bleserau y byd sydd yn dangos eu gwagedd, a'r ynfydrwydd o honynt. Onid yw hyn yn anurddo ein holl ddifyrwch a'n gwynfyd daearol, sef gweled eu bod yn diflannu dan ein dwylaw? Ond, O ddedwydd

dragywyddoldeb, lle na byddwn yn cael ein poeni â'r cyfryw feddyliau, na'n dedwyddwch yn cael ei aflonyddu â'r cyfryw ofnau; lle cawn fod yn golofnau yn nheml Dduw, ac nid awn allan mwyach. Cyhyd ag yr oeddem yn weision, yr oeddem yn cynnal dan ammod-weithred *(lease,)* a hynny ddim ond dros amser byr ein bywyd; ond y Mab sydd yn aros yn y tŷ byth. Ioan 8: 15. O fy enaid, bydded i ti ymollwng oddiwrth dy ddychymmygion ofer, oddiwrth bethau presennol, pleserau darfodedig; gollwng dy afael a bydd rydd oddiwrth bob peth daearol a chnawdol. Meddwl yn aml, ac ystyria'n ddwys, pa faint sydd gynnwysedig yn y gair hwn—*Tragywyddoldeb!* Pa beth! byw dros byth, ac heb farw mwyach! Llawenhaech —ac etto yr wyf yn dywedyd, llawenhaech dros byth, chwi eneidiau colledig, yn uffern; canys dedwydd fyddech pe caech chwi ddiangc ar ol oesoedd maith, ïe, gwedi myrdd myrddiwn o flynyddoedd, allan o'r lle poenus hwnnw; a chwithau a fyddech druenus, chwi seintiau yn y nefoedd, pe caech eich difeddiannu, gwedi oesoedd myrddiynau o fydoedd. Y gair hwn, *Tragywyddoldeb!* sydd yn cynnwys eithaf dirdra eu poenau hwy, a pherffeithrwydd ein gogoniant ninnau. O na b'ai 'r pechadur yn ystyried y gair hwn, ac yn myfyrio arno, canys myfi a feddyliwn y byddai'n ddigon i'w ddeffroi o'i drymgwsg. Ac hefyd, ar y llaw arall, pe b'ai'r enaid grasol yn ei ystyried yn iawn, myfi a feddyliwn y byddai'n ddigon i'w adfywio yn ei gyfyngder mwyaf. Ac a gaf fi fyw yn y fath happusrwydd dros byth! Yna y caf finnau dy garu di, O Arglwydd, yn dragywydd! A fydd fy ngorfoledd yn dragywyddol, ac oni fydd fy niolchgarwch hefyd yn ddiddiwedd! Yn ddiau, os na chollaf fy ngorfoledd byth, ni pheidiaf chwaith dy glodfori yn dragywydd. Os bydd i ti, O Arglwydd, fy mherffeithio a'm tragywyddoli i â gogoniant, ac megis ag y byddaf yn eiddo ti, ac nid yr eiddo fy hun, felly fy ngogoniant i a fydd yn eiddo ti; ac megis ag yr oeddit yn golygu dy ogoniant dy hun yn fy ngo-

goniant i, felly hefyd fy ngwaith innau fydd dy ogoneddu di, wedi i ti fy nghoroni â'r gogoniant hwnnw sydd heb ddiwedd. "Eithr i'r Brenhin tragywyddol, anfarwol, anweledig, i'r Duw unig ddoeth, y byddo anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd. 1 Tim. 1 : 17.

§ 14. Fel hyn y ceisiais ddangos i chwi dippyn o lewyrch y gogoniant hwnnw sydd ar ddyfod: ond pa mor fyr a diffygiol yw'r ymadroddion i osod allan ei ardderchowgrwydd! Ddarllenydd, os wyt ti yn gredadyn ffyddlon a gostyngedig, ac yn disgwyl, gydâ llafur ac hiraeth, am yr orphwysfa honno, tydi a gai weled a phrofi yn fuan wirionedd yr holl bethau hyn; a thydi a fyddi yn canfod ac yn deall cymmaint ynghylch y gwynfyd hwnnw, fel ag y byddi yn barod i dosturio wrth anwybodaeth dynion; a thi a ganfyddi hefyd, fod yr hyn oll a ddywedpwyd yma, yn fil o weithiau yn fyr o'r gwirionedd; ond yn y cyfamser gad i gymmaint a hyn gynnyrfu dy ddymuniadau, ac ychwanegu dy ymdrechiadau. Cyfod gan hynny, ac ymosod ynghylch y gwaith; rhêd, ac ymdrecha, ac ymladd, a dilyn ymlaen; canys y mae gennyt gamp uchel, a gogoneddus, a sicr o'th flaen. Gwybydd hyn, na fydd i Dduw dy siommi na'th dwyllo; gan hynny, na fydded i tithau dy siommi dy hun, na bradychu dy enaid dy hun, trwy oedi; ac os gwnai fel hyn, y cwbl oll a fyddant eiddot ti. Pa fath ddynion a feddylit ti, a fyddai'r Crist'nogion oll, yn eu buchеddau a'u dyledswyddau, pe ba'i 'r gogoniant hwn yn eu meddyliau'n wastadol? Ymha fath gyflwr y byddai eu hysprydoedd, pe baent yn fywiog ac yn hyderus, yn eu meddyliau am y nefoedd? A fyddai eu calonnau mor drymion, a'u golygon mor drist, neu a fyddent hwy yn barod i gymmeryd eu cyssuron (debygech chwi) oddi isod? A fyddent hwy mor anewyllysgar i ddioddef, a chymmaint o ofn arnynt i farw; neu, yn hytrach, oni feddylient fod pob dydd yn flwyddyn, hyd oni chaent ei fwynhau. Cyfnewidied yr Arglwydd ein calonnau cnawdol ni, rhag i ni fod yn ôl, ac felly na allom fyned i mewn i'r orphwysfa honno, o herwydd ein hanghrediniaeth. Heb. 3 : 19.

# PEN. IV.

## PA FATH YW'R DYNION HYNNY, I BA RAI Y TREFNWYD YR ORPHWYSFA HONNO.

§ 1. Mae'n rhyfeddol fod y cyfryw orphwysfa wedi ei threfnu i ddynion. § 2. Y mae pobl Dduw y rhai a gânt fwynhau'r orphwysfa hon, (1) Wedi eu hethol gan Dduw. § 3. (2) Wedi eu rhoddi i Grist. § 4. (3) Wedi eu geni drachefn. § 5–8. (4) Y mae ganddynt synniadau dwys o fawr-ddrwg pechod; o'u trueni trwy bechod; gwagedd y Creadur; ac o ddigonolrwydd Crist Iesu. § 9. (5) Mae eu ewyllys wedi ei gyfnewid mewn modd cyfattebol. § 10. (6) Y maent yn ymrwymo mewn cyfammod â Christ. § 11. ac (7) Y maent yn cael eu cynnal, ac o herwydd hynny yn parhau yn y cyfammod. § 12. Y darllenydd yn cael ei wahodd i holi ei hun wrth nodau ac arwyddion pobl Dduw. § 13. Tystiolaeth ychwanegol allan o air Duw, y bydd i'w bobl ef gael mwynhau'r orphwysfa honno. § 14. Hefyd, na fydd i neb arall gael ei mwynhau. § 15, 16. A bod yr orphwysfa honno etto'n ôl iddynt; ac na chant ei mwynhau hyd onis elont i fyd arall. § 17. Y bennod yn diweddu gyd â dangos y bydd i'w eneidiau fwynhau'r orphwysfa honno; pan y maent wedi eu gollwng yn rhyddion oddiwrth eu cyrph.

§ 1. Tra yr oeddwn yn y mynydd yn ceisio gosod allan ragoriaethau Gorphwysfa'r Saint, yr oeddwn yn profi mai da oedd bod yno; ac am hynny yr oedais yno yn hwy; a phe na buasai cymmaint o ddiffyg rhwng fy amgyffrediadau a godidowgrwydd y gwrthrych, myfi a fuaswn yn aros yn hwy; canys a ddichon golwg ar y wlad hyfryd honno, fod yn boenus, neu yn flinderus? Wedi darllain am y cyfryw uchel, ac anrhaethol ogoniant, fe fyddai rhyw ddieithr ddyn anwybodus yn barod i ryfeddu, at wasanaeth pa fath greaduriaid, y mae'r cyfryw ryfeddol barottoad yn cael ei wneuthur, ac efe a ddisgwyliai i ryw haul ardderchog dorri allan, a thywynnu. Ond yn lle hynny, wele! nid oes dim ond llonaid cragen o lwch wedi ei fywhau, ac enaid rhesymmol ac anweledig, a hwnnw wedi ei buro a'i adferu trwy allu anweledig grâs; a dyma'r creadur ag

a fydd yn meddiannu'r gogoniant hwnnw. Meddyliasai rhyw un mai peth o fawr werth, neu ryw un o fawr haeddiant, a fuasai yn cael y fraint o fwynhau'r cyfryw ddedwyddwch; ond wele un heb feddu dim, ac heb haeddu dim, ond yn hytrach, yn y gwrthwyneb, yn haeddiannol o gospedigaeth, ac un a fuasai yn myned ymlaen yn ei ddrygioni, oni buasai iddo gael ei attal, a'i ddwyn trwy drugaredd at Grist Iesu, yr hwn sydd yn *bob peth.* Col. 3 : 11. Ac wedi i'r enaid dychweledig ei dderbyn ef, megis ei unig drysor, ac ymddiried iddo a gorphwys arno, yna y mae efe trwy Grist Iesu, yn derbyn yr holl drysorau, a'r breintiau gwerthfawr hyn. Ond mewn ystyr mwy *priodol*, y mae y rhai hynny y parottowyd yr orphwysfa yma iddynt, yn bobl *sanctaidd*, wedi eu *rhoddi i Grist* megis eu Gwaredwr. Y maent wedi eu *geni oddiuchod;* y maent wedi cael eu hargyhoeddi o fawr ddrwg pechod, ac wedi cael eu dwyn i weled eu truenus gyflwr wrth naturiaeth, a gwagedd pob peth gweledig. Y maent wedi canfod a phrofi holl-ddigonolrwydd Crist; mae eu hewyllys wedi ei gyfnewid; y maent wedi ymrwymo mewn cyfammod â Christ; ac y maent yn parhau yn y cyfammod hwnnw hyd y diwedd.

§ 2. (1) Y mae'r bobl hynny hefyd, y rhai y parottowyd yr orphwysfa hon iddynt, a'r rhai a elwir yn y testun yn bobl i Dduw, wedi eu hethol ganddo ef cyn seiliad y byd, fel y byddent yn sanctaidd ac yn ddifeius ger ei fron ef mewn cariad. Eph. 1 : 4, 5. Ac y mae'n eglur oddiwrth yr Ysgrythyr a phrofiad hefyd, nad ydynt hwy ond rhan fechan o ddynolryw. Hwy ydyw'r praidd bychan y rhyngodd bodd i'r Tad roddi iddynt y deyrnas; (Luc 12 : 32;) y maent yn llai nifer nac y myn y byd gredu; ond nid cyn lleied ychwaith ag y mae rhai ysbrydoedd egwan yn ei feddwl, y rhai sydd yn ammeu fod Duw mor drugarog, ac yn anewyllysgar i gredu y bydd efe yn Dduw iddynt, pan y maent yn gwybod ar yr un pryd, eu bod hwy yn ewyllysio bod yn bobl iddo ef.

§ 3. (2) Mae'r bobl hyn wedi eu rhoddi gan Dduw i'w Fab, fel y byddai iddynt gael eu gwared ganddo ef, o'u cyflwr colledig, a'u dyrchafu i'w ogoniant. Canys Duw a roddodd bob peth i'w Fab; megis ag y rhoddodd iddo awdurdod ar bob cnawd, fel am y cwbl a roddodd y Tad iddo, y rhoddai efe iddynt fywyd tragywyddol. Ioan, 17: 2. Ac y mae'r Tad wedi rhoddi iddo bob un ag sydd yn edifarhau ac yn credu. Mae'r gwahaniaeth yn cael ei osod allan yn eglur gan yr apostol—"Ac a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef, ac a'i rhoddes ef yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys." Eph. 1 : 22. Ac er fod Crist mewn rhyw ystyr wedi rhoddi ei hun yn *bridwerth dros bawb*, etto nid yn yr un modd priodol a thros ei bobl.

§ 4. (3) Un o ragoriaethau'r bobl hyn, yw eu bod wedi eu geni drachefn, Ioan, 3 : 3; ac y mae mor amhossibl i fod yn bobl i Dduw heb yr adenedigaeth, ag yw i fod yn blant dynion heb enedigaeth. Gan ein bod ni yn cael ein geni yn elynion i Dduw, mae'n rhaid i ni gael ein geni o newydd yn blant iddo, neu aros felly yn elynion; ac ni ddichon y diwygiad mwyaf yn ein buchedd heb gyfnewidiad y galon, a bywyd newydd yn yr enaid, fod yn foddion o'n hiechydwriaeth, ond yn hytrach yn siommedigaeth i ni.

§ 5. (4) Mae'r bywyd newydd yma ymhobl Dduw yn egluro ei hun, mewn argyhoeddiad neu ddwfn ymsynniad o bethau nefol. Megis, yn gyntaf, y maent yn cael eu hargyhoeddi o fawr-ddrwg pechod; mae'r pechadur yn cael ei ddwyn i gydnabod ac i brofi, fod y pechod *ymha un* yr oedd efe yn ymhyfrydu, yn fwy ffiaidd ac atgas, na'r llyffant dû codennog neu sarph, ac yn farn fwy na'r pla neu newyn, o herwydd ei fod yn droseddiad o'r ddeddf, neu gyfraith gyfiawn y Duw Goruchaf; ac felly yn dianrhydeddu Duw, ac yn dinystrio'r pechadur. Yn awr, nid yw'r pechadur mwyach yn gwrando ar geryddon, o herwydd ei droseddiadau, megis geiriau gwag; ond y mae adgoffa o'r pechod yn treiddio megis cyllell at ei galon; ac etto y mae efe yn ewyllysio i chwi dorri at wraidd y drwg. Yr

oedd efe yn arfer rhyfeddu am ba achos yr oedd dynion yn cadw cymmaint o helynt ynghylch pechod, ac yn dywedyd cymmaint yn ei erbyn; canys nid oedd efe yn gweled dim llawer o ddrwg i ddyn brofi peth o'r ffrwyth gwaharddedig, a'r pechod yr oedd efe yn ei garu; nid oedd efe yn gweled dim cymmaint o ddrwg mewn pechod a bod hynny yn achos o farwolaeth Crist, ac i'r byd heb Grist fod yn golledig, a chael eu poeni yn uffern dros oesoedd tragywyddol; ond yn awr y mae efe wedi cael cyfnewidiad, ac y mae Duw wedi agor ei lygaid i ganfod annrhaethol ffieidd-dra pechod.

§ 6. Y maent yn gweled ac yn cydnabod eu trueni eu hunain o herwydd pechod, a hwythau, y rhai oeddent o'r blaen yn darllen bygythion cyfraith Duw yn erbyn pechod, megys hanes rhyfeloedd mewn gwledydd tramor, ydynt yn gweled bod yr holl bethau hyn yn perthyn iddynt hwy, a'u bod hwy yn darllen eu barn a'u condemniad eu hunain mor eglur a phe buasai eu henwau hwy yn ysgrifenedig yn y melldithion, neu fel pe buasent yn clywed y gyfraith yn dywedyd wrthynt, megis Nathan gynt wrth Ddafydd, "*Tydi yw'r gwr.*" 2 Sam. 12 : 7. Nid oedd digofaint Duw yn ymddangos iddo o'r blaen ond megis tymhestl i ddyn mewn tŷ clyd, neu wayw a phoenau'r salw i un yn ei lawn iechyd, pan yn ymweled ag ef; ond yn awr y mae efe yn canfod ac yn gwybod ei fod ef ei hun mewn trwm glefyd; y mae efe yn cydnabod ei fod dan gondemniad, a'i fod yn farw, ac wedi ei ddamnio'n ol y ddeddf, ac nad oedd dim yn ddiffygiol ond cyflawni'r farn honno arno i'w wneuthur yn hollol ac yn dragywyddol druenus. Dyma waith yr Ysbryd, wedi ei gyflawni mewn mesur, ynghalon pob un o'r rhai adgenhedledig. Canys pa fodd y daw hwnnw at Grist am faddeuant, yr hwn nid yw yn gyntaf wedi ei weled ei hun yn euog a than gondemniad? neu am fywyd, yr hwn nid yw yn ei gydnabod ei hun yn farw mewn ystyr ysbrydol? "*Nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion.*" Luc 5 : 31. Dyfod

i geisio meddyginiaeth yn fuan, wedi cael gwybodaeth o'r clefyd, a fyddai'n foddion o ragflaenu llawer o ddrwg ganlyniadau; ac efallai y byddai i'r disgwyliad hyfryd o gael trugaredd wneuthur iddo anghofio ei drueni yn gynt.

§ 7. Y mae pobl Dduw wedi cael eu dwyn i weled gwagedd y creadur, ac ynfydrwydd pob gwynfyd daearol. Y mae pob dyn wrth naturiaeth yn eilunaddolwr. Ein calonnau a gawsant eu troi oddiwrth Dduw yn ein cwymp cyntaf; ac ar ol hynny y mae'r creadur wedi bod yn Dduw i ni. Dyma bechod pennaf ein natur. Y mae pob dyn annychweledig yn ymddwyn yr un modd a phe bae'r creadur yn feddiannol o briodoliaethau nefol, ac yn rhoddi iddo'r lle uchaf a mwyaf anrhydeddus yn ei galon; neu os digwydd fod ganddo ryw fath o feddwl ei fod yn druenus, y mae efe yn myned at y creadur, megis gwaredwr. Ysgatfydd y bydd Duw a'i Grist yn cael eu galw yn Arglwydd ac yn Iachawdwr: ond ei ddisgwyliad am ymwared sydd oddiwrth y creadur; a gwaith Duw a gyfrifir yn eiddo hwnnw. Pleser, elw, ac anrhydedd, yw trindod y dyn daearol; ac efe ei hun yn ei gyflwr hollol gnawdol, yw'r tri hyn yn undod. Ein pechod cyntaf ni oedd chwennych bod megis Duw, a dyma'r pechod mwyaf sydd yn parhau ynglŷn yn ein natur, o genhedlaeth i genhedlaeth. Pan y mae'n angenrheidiol i Dduw ein tywys, yr ydym ni yn ceisio ein tywys ein hunain. Pan y mae yn angenrheidiol i Dduw ein llywodraethu, yr ydym ni yn ceisio ein llywodraethu ein hunain; ac yr ydym yn gweled bai ar yr ordinhadau hynny, ac yn ceisio diwygio'r cyfriethiau hynny, y rhai y mae efe wedi eu rhoddi i ni; a phe buasai hynny ar ein llaw ni, nyni a fuasem yn eu gwneuthur yn amgen nac y gwnaeth Duw hwynt. A phan y mae'n angenrheidiol i'r Arglwydd ofalu drosom, (ac onis gwna, darfu am danom,) yna y mae dyn yn ewyllysio gofalu am dano ei hun, pan y dylem ni fod yn ymddibynnol arno ef, am ein trugareddau a'n bara beunyddiol. Yna yr ydym yn ewyllysio cadw ein rhan yn ein dwylaw ein hunain;

ac yn lle ymostwng yn ewyllysgar i ragluniaeth Duw, yr ydym yn rhy dueddol i feio arno, ac yn barod i feddwl y medrem ni drefnu pethau yn well, yn lle meddwl am Dduw a'i garu, ac ymddiried iddo a'i anrhydeddu. Yr ydym ni yn meddwl am danom ein hunain, pa fodd i borthi ein chwantau cnawdol, a'n gwyniau pechadurus, ac felly yn anrhydeddu ac yn caru ein hunain yn fwy na Duw; yn lle ewyllysio i bawb droi eu llygaid at yr Arglwydd, ac ymddiried ynddo ef yn unig, yr ydym yn chwennych i bod dyn ein hanrhydeddu *ni*, a'n clodfori *ni*, a bod yn ddiolchgar i *ni*, ac ni ewyllysiwn i neb arall gael rhan o'r clod; ac felly yr ydym ni bawb fel hyn yn eilunaddolwyr neu yn hytrach yn hunan-addolwyr. Ond cyn gynted ac y byddo Duw yn adnewyddu'r enaid, yna y mae'r Dagon yma yn syrthio i lawr; a diben pennaf y gwaith mawr hwn ydyw adnewyddu'r galon a'i dwyn yn ol at Dduw. Y mae efe yn argyhoeddi'r pechadur, ac yn dangos iddo nad all y creadur fod yn Dduw iddo i'w wneuthur yn happus, nac yn Grist iddo 'chwaith i'w wared o'i drueni, a'i adferu at Dduw, yr hwn yw ei unig happusrwydd. Mae Duw yn gwneuthur hyn, nid yn unig trwy ei air, ond hefyd trwy ei ragluniaeth. Dyma'r achos paham y mae cystudd yn effeithio mor llesol yn y gwaith o droedigaeth; canys y mae'r hyn sydd yn effeithio mor gadarn, yn ein rhwymo i wrando, pan y mae'n ofer arfer geiriau, a chyngor yn ddiles. Pan y mae dyn yn meddwl yn fawr am ei anrhydedd a'i ddyrchafiad yn y byd, a Duw yn ei ddarostwng, ac yn ei dynnu i lawr, trwy ryw foddion, i ddiystyrwch, neu pan y mae'r Arglwydd yn dwyn yr hwn sydd yn gwneuthur eilun o'i gyfoeth, i'r fath sefyllfa, lle nad yw ei gyfoeth o ddim lleshad iddo; sef yn ei osod ar wely cystudd a chlefyd, ac yn ei ddwyn yn agos megis at byrth angau; neu yn ei ddifeddiannu o'i holl gyfoeth, megis Job; ac felly yn peri iddynt gymmeryd adenydd ac ehedeg ymaith: oni fyddai hyn yn foddion mawr tuag at ei droedigaeth? Neu pe b'ai dyn yn gwneuthur pleserau yn

Dduw iddo ; sef, pa beth bynnag a fedrai llygad gwammal, clust ferwinllyd, trachwantau cnawdol, a chalon aflan eu dymuno; a phe b'ai Duw yn cymmeryd y rhai hyn oll ymaith oddiwrtho, neu eu troi yn fustl ac yn chwerwedd, oni fyddai hynny yn debygol i weithio argyhoeddiad? Neu pan y mae dyn ar ei glaf wely, a'r Arglwydd yn dwys-bigo ei galon, ac yn cyffroi ei gydwybod i'w erbyn, gan ei euog-farnu, ac megis yn gofyn iddo,—A ddichon dy anrhydedd, neu dy gyfoeth, neu dy bleserau, wneuthur dim lleshad i ti? A fedr yr un o'r rhai hyn iachau dy gydwybod euog? A ddichon rhyw un o honynt gynnal y babell adfeiliedig hon o gnawd? A fedrant hwy gadw dy enaid yn dy gorph? Neu dy achub rhag digofaint Duw; neu rhag y tân tragywyddol? Gwaedda yn uchel arnynt, i edrych a fyddant hwy i ti yn lle Duw—yn lle Crist. Ac oni fyddai i'r fath ystyriaethau a hyn, gan hynny, effeithio'n ddymunol iawn, ar ddyn yn y cyfryw amgylchiad, sef ar ei glaf-wely? Mae rheswm yn cyfaddef y gwirioneddau hyn; ac y mae'r cnawd hefyd yn cael ei ddwyn i gydnabod oferedd y creadur; ac hyd yn nod y *Twyllwr* yn cael ei *ddi-dwyllo.*

§ 8. Y mae pobl Dduw hefyd yn cael eu dwyn i weled yr angenrheidrwydd o gael Crist Iesu yn Waredwr iddynt; a'i fod ef yn berffaith, ac yn ddigonol aberth, ac iawn dros eu holl bechodau. Y maent yn gweled yr angenrheidrwydd o hyn, mewn ystyr, yn gyffelyb i ddyn mewn mawr newyn, ac eisiau ymborth; neu un dan farn marwolaeth, yn cael gollyngdod; neu ddyledwr, mewn carchar, yn clywed y newydd fod un yn myned yn feichiau drosto, i dalu ei holl ddyled. Felly hefyd y mae'r pechadur dan ryw faich annioddefol, ac yn gweled nad oes neb ond Crist a ddichon ei wared. Mae yn gweled y ddeddf yn ei gyhoeddi yn wrthryfelwr, ac nad oes neb ond Crist a fedr wneuthur ei heddwch â Duw. Y mae fel dyn yn cael ei ddilyn gan lew, yr hwn sydd barod i'w lyngcu; nid oes ganddo le i ddiangc, na neb all ei achub ond Crist yn unig.

Ar fyr eiriau, y mae efe wedi ei ddwyn i'r cyfryw gyfyngdra, fel ag y mae'n rhaid iddo gael Crist i'w gyfiawnhau, neu fod yn golledig yn dragywydd; cael Crist i'w achub, neu fyn'd i losgfeydd tân uffern dros byth; cael Crist i'w ddwyn at Dduw, neu gael ei gau allan o'i bresenoldeb dros oesoedd tragywyddoldeb. Gan hynny nid rhyfedd ei fod yn gwaeddi allan, megis y merthyr hwnnw, "Neb ond Crist! neb ond Crist!" Nid aur ond bara a ddiwalla'r newynog; ac nid oes dim ond maddeuant a gollyngdod a all foddloni yr hwn a gondemniwyd i farwolaeth: ïe, y mae efe yn awr yn cyfrif pob peth yn dom fel yr ynnillai Grist; a'r pethau hynny ag oeddent elw, y mae efe yn gyfrif yn golled. Phil. 3 : 7, 8. Fel ag y mae'r pechadur yn dyfod i ganfod ei drueni, ac mor analluog yw efe i achub ei hunan, ac nad oes dim arall a ddichon wneuthur hynny; felly hefyd y mae efe yn gweled nad oes dim trugaredd i'w gael ond yn Nghrist Iesu yn unig, na neb arall a ddichon ei achub. Ac y mae efe yn canfod hefyd, er na fedr un creadur ei achub, nac ef ei hunan ychwaith, etto bod Crist yn abl; ac er fod dail ffigys ein cyfiawnder anghyfiawn ein hunain, yn rhy fyrion i guddio ein noethni, etto bod cyfiawnder Crist yn holl-ddigonol. Y mae ein cyfiawnder amherffaith ni yn anghyfattebol i ofynion cyfiawnder y ddeddf; ond y mae cyfiawnder Crist yn cyfatteb i bob tippyn o honi. Os bydd efe yn eiriol, nid oes nag na gommedd; y mae ardderchowgrwydd ei berson mor fawr, a gwerth ei haeddiant cyn gymmaint, fel ag y mae'r Tad yn caniattäu ei holl ddymuniadau. O'r blaen nid oedd y pechadur yn medru amgyffred ardderchowgrwydd Crist ddim gwell nac y mae dyn dall yn gallu canfod goleuni'r haul, ond yn awr y mae efe yn gweled ei ogoniant.

§ 9. (5) Wedi'r argyhoeddiad dwfn hwn o bechod, yna y mae'r ewyllys hefyd yn dangos arwyddion o'r cyfnewidiad, sef yn y cyfryw fodd a hyn, canys y pechod hwnnw, yr hwn y mae'r deall yn ei farnu'n ddrwg, y mae'r

ewyllys hefyd yn troi oddiwrtho megis peth atgas. Ond nid ydym i feddwl ychwaith fod yr hen anian lygredig wedi ei hollol ddiwreiddio a'i dileu ymaith, fel nad ydyw hi mwyach yn rhyfela yn erbyn yr Ysbryd, ond ei bod hi bellach, trwy ras, dan lywodraeth yr ewyllys, fel ag y mae y credadyn yn ymegnio i wneuthur yr Ysgrythyr Lân yn rheol iddo, a bod rheswm a deall yn llywodraethu, a'r anian lygredig yn ufuddhau; ac felly y mae'r ewyllys yn ffieiddio pob cnawdol a phechadurus afreolaeth. Y mae'r credadyn hefyd, nid yn unig yn canfod, ond yn galaru, o herwydd y trueni hwnnw ag sydd ynglŷn wrth bechod. Ac nid yw bosibl mwyach i'r enaid edrych ar un trosedd yn erbyn Duw, nac ar y trueni a ddygodd arno ei hun, heb ofid a blinder; canys yn ddiammeu yr hwn sydd yn canfod yn iawn ei fod wedi ail-groeshoelio Crist Iesu, ac wedi dinystrio ei hun, a fydd yn sicr o gael ei ddwysbigo yn ei galon. Act. 2: 37. Ac os na fedr wylo, efe a fydd yn dwfn-ocheneidio, ac yn teimlo yn ei galon y peth y mae ei ddeall yn ei ganfod; ac felly y mae efe yn hollol ymwrthod â'r creadur, ac yn ei droi allan o'i galon gyda diystyrwch; nid o ran nad ydyw yn gweled ei werth a'r doethineb o'r iawn ymarferiad o hono, ond y peth y mae efe yn ei ffieiddio ydyw'r cam-arfer o hono, a'i eilunaddoli, a'i osod i fyny yn ein calonnau megis Duw. Pa fodd y dichon Crist fod yn ffordd, pan yr ydym yn ystyried y *creadur* megis y diben a'r gwrthddrych penaf? A allwn ni geisio Crist mewn gwirionedd i'n cymmodi â Duw, pan yr ydym, ar yr un pryd, yn dewis y creadur yn ein calonnau o'i flaen ef? Mae'n eglur gan hynny mai'r creadur sydd yn Dduw ac yn Grist ynghalon pob dyn diedifeiriol. Ac felly megis nad yw rhyw ymddangosiad o droi oddiwrth y creadur at Dduw (ond nid trwy Grist) yn iawn dröedigaeth; felly hefyd, nid yw rhyw fath o gredu yn Nghrist, tra y mae y creadur yn ein calonnau, ddim yn wir ffydd. Nid yw casineb at bechod, ymwadu âg eilunod, a derbyn Crist i'n calonnau, ond megis *un*

*weithred*, yr hon, lle mae Duw yn ei dechreu, y mae efe yn sicr o'i dwyn i ben; ac felly y mae'r ewyllys yn dewis Duw yn Dad, ac yn derbyn Crist y Mab megis rhodd werthfawr. Ac fel hyn y mae'r credadyn wedi deall a chanfod nad oes dim happusrwydd i'w gael ond yn Nuw yn unig, a chan hynny y mae yn ei geisio yno; ac y mae efe yn cydnabod nad oes neb ond Crist yn abl ac yn ewyllysgar i wneuthur ei heddwch â Duw; ac o herwydd hynny, y mae efe yn derbyn Crist yn llawen, megis ei Arglwydd a'i unig Iachawdwr. Sylwedd pregeth Paul oedd edifeirwch tuag at Dduw, a ffydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist. Act. 20. 21. A bywyd tragywyddol yw, yn gyntaf, adnabod yr unig wir Dduw, ac yna ei fab ef Iesu Grist yr hwn a anfonodd efe. Ioan 17: 3. Y rhan naturiol o'r cyfammod yw cymmeryd yr Arglwydd yn Dduw i ni; a'r un uwchlaw natur yw cymmeryd Crist yn Iachawdwr. Mae'r cyntaf yn angenrheidiol, ac yn gynnwysedig yn yr olaf; canys nid yw derbyn Crist, heb roddi ein serch arno gyda chariad tuag atto, yn ffydd gyfiawnhaol, o herwydd nid yw cariad yn canlyn megis ffrwyth, ond y mae'r dymuniad yma wedi ei weithio, neu wedi cymeryd lle eisoes yn y galon; canys hyn yw gwir ffydd, sef derbyn Crist â'n holl enaid; canys yr hwn sydd yn caru tad neu fam yn fwy na Christ, nid yw deilwng o hono, (Mat. 10: 37,) ac nid yw wedi ei gyfiawnhau ganddo. Canys y mae ffydd yn ei dderbyn ef yn Arglwydd ac yn Iachawdwr: canys yn y ddau ystyr yma y derbynir ef, neu nis derbynir mo hono. Mae ffydd hefyd, nid yn unig yn cydnabod ei ddioddefaint, ac yn derbyn maddeuant a gogoniant, ond hefyd yn cydnabod ei oruchafiaeth, ac yn ymostwng i'w lywodraeth, a'r ffordd o iechydwriaeth a drefnodd efe.

§ 10. (6) Yn nesaf, megis rhan anghenrheidiol o'r gwaith, a nôd anhebgorol pobl Dduw, y maent o'u calonnau yn dyfod i gyfammod â Christ; ac ni fu'r pechadur erioed cyn hyn, mewn cyfammod cysurus â Christ. Y

mae efe yn hyderus bellach, ac yn gwybod drwy'r cynnygion rhâd, fod Crist yn ewyllysio ei dderbyn; ac y mae efe ei hun hefyd yn barod i'w dderbyn yntau gydâ llawenydd; ac felly y mae'r cyttundeb wedi ei hollol gyflawni o'r ddeutu. Yn y cyfammod hwn, y mae Crist yn rhoddi ei hun mewn pob perthynas anwyl a dymunol i'r pechadur; ac y mae'r pechadur yntau yn rhoddi ei hunan i Grist, i gael ei achub a'i lywodraethu ganddo. Ac felly y mae'r enaid yn penderfynu fel y canlyn; yr ydwyf wedi cael fy nhywys hyd yn hyn, megis dall, gan y cnawd a'i drachwantau, gan y byd a'r diafol; ac yr ydwyf wedi bod yn gaethwas iddynt yn rhy hir, fel ag y bu'm yn agos a thynnu dinystr arnaf fy hun; ond trwy gymmorth, myfi a ymroddaf yn hollol o hyn allan i ewyllys a gwasanaeth yr Arglwydd, yr hwn a'm prynodd â'i waed, ac a'm dwg i'w ogoniant.

§ 11. (7) Gallaf 'chwanegu ymhellach, fod pobl Dduw yn parhau yn y cyfammod hwn hyd y diwedd. Er y gall y credadyn gael ei demptio, etto nid yw efe yn gwadu ei Arglwydd, nac yn ceisio tynnu ei hun o dan ei lywodraeth, na chwaith yn edifarhau o'r cyfammod; ac nis gellir dywedyd yn iawn, ei fod yn torri'r cyfammod hwnnw, tra y mae efe yn feddiannol o'r ffydd yr hon yw un o'r ammodau. Ond ar y llaw arall, mae'n ddiammeu y geill y rhai hynny sydd wedi gwneuthur cyfammod â'u tafodau, ond nid o'u calonnau, *Fathru Mab Duw, a barnu'n aflan waed y cyfammod.* Heb. 10 : 29. Y mae'r parhad yma yn sicr i'r gwir gredinwyr, tra y maent yn credu; ac felly y mae ffydd nid yn unig yn un o ammodau eu hiechydwriaeth, ond hefyd o'u ffrwythlondeb yngwasanaeth yr Arglwydd, ac o barhad eu bywyd ysprydol. Ac ymhellach hefyd, o barhad eu cyfiawnhad, ond nid o'u cyfiawnhad *cyntaf*, Ioan, 15 : 4, 6, 9; 8 : 31; Dat. 2 : 25, 26; 3 : 11, 12; Col. 1 : 23; Rhuf. 11 : 22; ond bendigedig yn dragywydd a fyddo'r llaw honno o gariad, yr hon a roddodd i ni y weithred o'r addewid râd; a'r hon a gadarnhäodd ac a sêliodd *air y gwirionedd* hwnnw ag sydd

yn ein sicrhau ni o'r grâs, yr hwn yw'r ammod, ac o'r deyrnas nefol honno ag sydd yn cael ei chynnyg ar yr ammodau hynny.

§ 12. Dyma rai onodau anhepgorol pobl Dduw. Canys nid yw hyn yn gyflawn ddarluniad o honynt yn eu holl ragoriaethau, na chwaith yn cynnwys yr holl arwyddion trwy ba rai yr adwaenir hwynt. Yr ydwyf yn deisyfu arnat, O ddarllenydd, fel ag y mae gennyt obaith Cristion a rheswm dyn, i holi a barnu dy hun, megis un ag a fydd raid ymddangos ar fyrder ger bron y Duw cyfiawn, a chael dy farnu ganddo. Ac yr ydwyf yn erfyn arnat i atteb y gofyniadau hyn,—ond ni ofynnaf ychwaith, a wyt ti yn cofio'r amser a'r modd y dechreuwyd y gwaith o weithrediadau'r Yspryd ar dy galon; canys geill fod ansicrwydd a chamgymmeriad mawr yn hyn. Ar y llaw arall, os ydyw'r cyfnewidiad yma wedi cymmeryd lle yn dy galon, nid ydyw mor angenrheidiol gwybod pa bryd, neu pa fodd y'i gwnaethpwyd: ond bydded i ti fod yn ofalus iawn i holi a chwilio, a wyt ti wedi cael dy gwbl argyhoeddi o aflendid dy galon, a'r cyflwr truenus yr oeddit ti ynddo wrth naturiaeth? A wyt ti wedi cael dy ddwyn i weled ynfydrwydd, ffolineb, ac annuwioldeb dy fuchedd? a pha mor ffiaidd ac atgas yw pob pechod? a chan hynny, bod y pechod lleiaf yn droseddiad o'r cyfammod, ac, yn ganlynol, yn haeddiannol o angau a thrueni tragywyddol. A wyt ti yn cydsynnio â'r ddeddf ei bod hi yn gyfiawn, ac yn dda, a'th fod di yn cael dy gondemnio ganddi i'r farwolaeth hon? A wyt ti wedi cael dy ddwyn i weled mor hollol annigonol yw pob creadur i fod yn happusrwydd i ti, ynddo ei hunan, neu i fod yn foddion i symmud ymaith dy drueni? A wyt ti wedi cael dy ddwyn i lwyr gydnabod mai Duw yw'r unig happusrwydd megis gwrthrych, a bod yn rhaid i ti gael dy ddwyn atto megis y ffordd at y Tad, neu ynte ddarfod am danat yn dragywydd? A wyt ti wedi cael dy ddwyn i weled y llwyr angenrheidrwydd o gael Crist, a'r holl-

ddigonolrwydd sydd ynddo ef, i wneuthur i ti ac i gyflawni ynot, pa beth bynnag sydd yn angenrheidiol arnat? A gefaist ti dy ddwyn i weled mor hollol ddymunol a gwerthfawr yw'r perl yma, fel ag yr wyt yn mawr ewyllysio gwerthu'r cwbl oll, a'i brynu ef? Mat. 13 : 46. Ac a fu dy argyhoeddiadau mor ddwys a dyfnion, fel ag yr oeddit yn debyg i ddyn â mawr syched arno, ac nid bod hyn wedi cael ei ddwyn i ben, trwy gyfnewidiad dy feddyliau a'th farn wrth ddarllen, neu dy fod wedi cael dy addysgu yn yr egwyddorion hyn? A gefaist di dy ddwyn i gasâu dy bechodau â châs cyflawn, ac i'w gweled, megis baich trwm yn blino dy enaid? Ac os nad oeddit yn wylo, a oeddit ti yn ocheneidio yn llwythog, gan faint dy bechodau, a chymmaint dy drueni a'th aflendid? A wyt ti wedi ymwadu ac ymwrthod â'th gyfiawnder dy hun? A wyt ti wedi troi dy eilunod allan o'th galon, fel nad ydyw'r creadur mwyach yn dy feddiannu ac yn llywodraethu ynot, ond yn hytrach ei fod yn wâs, ac felly yn ddarostyngedig i Dduw ac i'w Grist ef? A wyt ti yn derbyn Crist megis dy unig Iachawdwr, ac yn disgwyl cael dy achub a'th gyfiawnhau ganddo ef, a'th dderbyn i mewn i'w ogoniant, trwy ei haeddiant ef yn unig? A wyt ti yn ewyllysgar i'w lywodraeth ef, fel ag yr wyt yn cymmeryd ei orchymynion a'i ordinhadau yn rheol dy fuchedd, ac yn gyssur dy fywyd? A ydynt yn dy arfogi yn erbyn trachwantau'r cnawd? Ac a ydyw deddfau a thystiolaethau'r Arglwydd yn fwy gwerthfawr yn dy olwg na'th gymmeradwyaeth a'th oruchafiaeth yn y byd, a'th olud, a'th elw, a'th bleserau; ïe, na'th fywyd dy hun hefyd? A ydyw Crist yn cael y lle uchaf yn dy galon ac yn dy serchiadau, fel nad ydwyt yn dy weled dy hun yn ei garu gymmaint ac yr ydwyt yn ei ewyllysio, ac etto nad ydwyt yn caru un peth arall yn gyffelyb iddo? Ac a ydwyt ti, i'r diben hynny, wedi gwneuthur cyfammod ffyddlon âg ef, ac wedi rhoddi dy hunan yn hollol iddo ef? Ai dy holl ofal a'th wyliadwrus ymegnïad ydyw

hyn; sef ar dy gael ganddo ef, yn ffyddlon yn y cyfammod hwnnw? Ac er i ti syrthio i bechod; etto nid ydwyt yn ewyllysio ymwrthod â'th obaith, na chyfnewid dy Arglwydd, na rhoddi dy hun i fynu 'chwaith, i fod dan un llywodraeth arall, pe b'ai bossibl i ti ynnill yr holl fyd? Os hyn yw dy gyflwr, a gallu o honot, yn gydwybodol, dystiolaethu hyn oll am danat dy hun, yn ddiau yr ydwyt yn un o bobl Dduw, y sonir am danynt yn y testun; ac mor sicr a bod addewidion Duw yn wir, y mae'r orphwysfa fendigedig yma etto'n ôl i ti; yn unig, edrych ar fod i ti *aros yn Nghrist*, Ioan, 15 : 4, a pharhau hyd y diwedd Mat. 24 : 13; eithr os tyn neb yn ôl, nid yw ei enaid yn ymfoddloni ynddo. Heb. 10 : 38. Ond os na fydd y cyfryw waith wedi ei wneuthur ynot, pa beth bynnag yw meddyliau dy galon dwyllodrus; neu pa mor gadarn bynnag yw dy obaith, tydi a gai brofi er dy waradwydd (os na fydd i ti gael tröedigaeth yn y cyfamser) nad yw gorphwysfa'r saint yn perthyn i ti. "Oh! na baet ddoeth, na ddeallit hyn, nad ystyrit dy ddiwedd." Deut. 32 : 29. Gan hynny, tra y mae *gwerth yn dy law*, Diar. 17 : 16, a chyfleusdra gennyt, a gobaith o'th flaen, bydded i ti weddio ar i'r Arglwydd ostwng dy glustiau i wrando, a'th galon i dderbyn yr impiedig air, yr hwn a ddichon gadw yn fyw dy enaid, fel y byddo i ti gael gorphwysfa ymhlith ei bobl, a mwynhau etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Col. 1 : 12.

§ 13. A'r gwirionedd hyn a ymddengys yn eglur oddiwrth air Duw, os ydyw yn angenrheidiol ychwanegu'r cyfryw dystiolaeth, sef y bydd i bobl Dduw *fwynhau* a meddiannu'r orphwysfa nefol honno, megis yn y geiriau canlynol:—O achos paham nid yw gywilydd gan Dduw, ei alw yn Dduw iddynt hwy; oblegid efe a barottodd ddinas iddynt. Heb. 11 : 16. Y maent yn cael eu galw yn llestri trugaredd, y rhai a ragbarottodd efe i ogoniant, Rhuf. 9 : 23: ac yn Nghrist y maent wedi derbyn ernes yr etifeddiaeth. Eph. 1 : 14. Pwy gan hynny a ddichon siommi'r Cristion o'r orphwysfa honno a ddarparwyd iddo

gan Dduw? Y mae'r Ysgrythyr yn ein sicrhau bod yr orphwysfa ynghadw i'r gwaredigion; hynny yw, bod Crist Iesu wedi pwrcasu iddynt yr etifeddiaeth â'i werthfawr waed; fel y tystia'r apostol am hynny—"*Frodyr, gan fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r cyssegr trwy waed Crist*, Heb. 10 : 19; wrth y geiriau, *myned i mewn*, y meddylir, naill ai trwy ffydd a gweddi yma, neu trwy gyflawn fwynhad yn y byd sydd ar ddyfod. Am hynny y mae'r seintiau yn y nefoedd yn canu cân newydd i'r hwn a'i prynodd i Dduw â'i waed, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl a chenedl; ac a'u gwnaeth yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw. Dat. 5 : 9, 10. Mae'n rhaid i Grist, gan hynny, naill ai colli gwerth ei waed a'i ddioddefaint, ac felly bod heb weled o lafur ei enaid, neu ynteu yn ddiau, y mae gorphwysfa etto yn ôl i bobl Dduw; ac y mae'r orphwysfa hon wedi ei sicrhau iddynt yngair Duw. Ac megis ag y mae'r wybren wedi ei haddurno â'r sêr a'r planedau; felly hefyd y mae'r Ysgrythyr Lân yn llawn o addewidion gwerthfawr. Crist sydd yn dywedyd, Nac ofna braidd bychan, canys rhyngodd bod i'ch tad roddi i chwi y deyrnas. Luc, 12 : 32. Ac yr wyf yn ordeinio i chwi deyrnas, megis yr ordeiniodd fy nhad i minnau; fel y bwytäoch ac yr yfoch ar fy mwrdd, yn fy nheyrnas, &c. Luc, 22 : 29, 30. Y mae holl foddion grâs; holl weithrediadau'r Yspryd ar yr enaid; grasol ymddygiad y saint; pob gorchymmyn i edifarhau, a chredu; i ymprydio a gweddio; i guro, ac i geisio; i ymdrechu, ac i weithio; i redeg, ac i ryfela. Y mae'r holl bethau hyn yn dangos fod gorphwysfa etto'n ol i bobl Dduw. Ni wnai'r Yspryd ennyn ynom y fath ddymuniadau cryfion am y nefoedd, y cyfryw gariad tuag at Iesu Grist, heb i ni gael derbyn o ffrwyth ein cariad a'n dymuniad; a'r hwn sydd yn cyfarwyddo ein traed i ffordd tangnefedd, a fydd yn sicr o'n dwyn ni i ben ein taith—canys pa mor agos y mae'r moddion a'r dyben wedi eu cyd-gyssylltu. Yr ydys yn treisio teyrnas nefoedd, a threiswyr sydd yn ei chipio hi,

Mat. 11 : 12, y rhai sydd yn canlyn yr Iesu yn yr adenedigaeth, a gânt eistedd ar orseddfeingciau o ogoniant. Mat. 19 : 28. Y mae'r Ysgrythyr yn ein sicrhau ni fod gan y saint y *dechreu*, y blaenbrofiad, yr ernes, a'r sêl, o'r orphwysfa hon. Canys wele teyrnas Dduw ynoch chwi y mae, Luc, 17 : 21; ac er nas gwelsant Grist, etto er hyn y maent yn ei garu, ac yn credu ynddo; ac felly y maent yn mawr-lawenhau â llawenydd anrhaethadwy a gogoneddus, gan dderbyn diwedd eu ffydd, sef iechawdwriaeth eu heneidiau, 1 Pedr, 1 : 8, 9: ac y maent yn gorfoleddu, dan obaith gogoniant Duw, Rhuf. 5 : 2: ac a ydyw Duw yn eu selio â'r Yspryd Glân a addawodd; a'r hwn yw ernes eu hetifeddiaeth; ac a fydd iddo ommedd iddynt y mwynhad? Ephes. 1 : 13, 14. Ac y mae'r Ysgrythyr hefyd yn enwi llawer o'r rhai hynny a aethant i mewn i'r orphwysfa, megis Enoch, Abraham, Lazarus, y lleidr a groeshoeliwyd gyd â Christ, &c. Ac os oedd gorphwysfa i'r rhai hyn, yn ddiammeu, y mae hefyd i'r holl gredinwyr; ond nid yw yn angenrheidiol ychwanegu ysgrythyrau i brofi hyn; canys diben yr Ysgrythyr yw bod yn gyfarwyddyd i ni, i'n tywys i'r gwynfyd hwnnw, ac yn sail a sylfaen ein hawl i'r orphwysfa honno. Canys dyma *siarter* neu fraint-rodd ein hetifeddiaeth.

§ 14. Y mae'r Ysgrythyr Lân yn dangos, nid yn unig bod yr orphwysfa yma etto yn ôl i bobl Dduw, ond hefyd nad yw hi yn perthyn i neb arall, fel na bydd i'r rhan arall o'r byd gael cyfran ynddi. "*Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd.*" Heb. 12 : 14. Oddieithr geni dyn drachefn, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw;—a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef. Ioan, 3 : 3, 36. Canys yr ydych chwi yn gwybod hyn; am bob putteiniwr, neu aflan, neu gybydd, yr hwn sydd ddelw-addolwr, nad oes iddynt etifeddiaeth yn nheyrnas Crist a Duw, Ephes. 5 : 5; y rhai drygionus a ymchwelant i uffern; a'r holl genedloedd a anghofiant Dduw. Salm 9 : 17. Canys bernir yr

holl rai nid ydynt yn credu i'r gwirionedd, ond yn ymfoddloni mewn anghyfiawnder, 2 Thess. 2 : 12, yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef, gyd ag angylion ei nerth a thân fflamllyd, yn rhoddi dial i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, y rhai a ddioddefant yn gospedigaeth, ddinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef. 2 Thess. 1 : 7–9. Pe buasai yr annuwiol yn troi cyn diwedd eu bywyd, ac yn ewyllysgar o'u calon i dderbyn Crist yn Iachawdwr ac yn Frenhin, ac i gael eu hachub ganddo, yn ei ffordd ei hun; ac ar ei ammodau rhesymmol, hwy a allasent fod yn gadwedig? Duw a gynnygiodd iddynt fywyd yn rhâd; ond ni fynnent ei dderbyn. Pleserau'r cnawd oeddent yn ymddangos yn fwy dymunol iddynt hwy, nâ gogoniant y saint. Satan oedd yn cynnyg iddynt y naill, a Duw'r llall; ac yr oedd iddynt ryddid i ddewis yr un a fynnent; ac hwy a ddewisasant fwyniant pechod tros amser, yn hytrach nâ thragywyddol orphwysfa gyd â Christ. Ac onid peth cyfiawn ydyw, gommedd iddynt yr hyn ni fynnent ei dderbyn? Pan yr oedd Duw yn eu cymmell mor daer; ac yn erfyn arnynt yn y modd mwyaf difrifol a charedig, i ddyfod i mewn, a hwythau yn gwrthod, ymha le y disgwylir eu bod, ond ymlith *y cwn oddi allan.* Ac er fod dyn mor ddrygionus, fel na fyn efe ymostwng, hyd onis gorchfyger ef trwy nerthol weithrediad grâs, etto gellir dywedyd yn wirioneddol, y dichon efe fod yn gadwedig, pe b'ai yn ewyllysio, ar yr ammodau a drefnwyd gan Dduw. Nid yw dywedyd ei fod yn farwol ac yn gorwedd mewn trueni, ac o herwydd hynny yn analluog; nid yw'r cyfryw esgusodion ddim gwell na'r godinebwr sydd yn dywedyd nad all efe *garu ei wraig;* neu'r dyn maleisus yr hwn sydd yn haeru na fedr efe beidio a *chasâu ei frawd.* Ac onid ydyw hyn yn ei wneuthur yn waeth; ac felly yn haeddiannol o gospedigaeth fwy? Ac yn ddiammeu, ni fydd un pechadur yn uffern yn rhoddi'r bai ar Dduw; ond ar

eu hewyllys a'u cyndynrwydd eu hunain. Ac fe fydd poenau uffern yn ymddangos yn gyfiawn, yn ol cydwybod, ac yn ol natur dyn, yr hwn sydd wedi ei gynnysgaeddu â rheswm. Canys pe byddai modd i bechaduriaid ddywedyd, "Duw oedd yr achos o hyn, ac nid nyni." Hynny a allai lonyddu eu cydwybodau, a lleihau eu harteithiau; a chyfnewid uffern iddynt, fel na byddai yn uffern mwyach; ond cofio eu hynfydrwydd a'u cyndynrwydd, a fydd yn ail-ennyn y tân, fel na *byddo y pryf* (sef pryf eu cydwybod) *marw, na'r tân yn diffodd.* Marc, 9 : 44.

§ 15. Ewyllys Duw ydyw bod yr orphwysfa yma etto yn ol, fel na byddo i'w bobl ei mwynhau, hyd oni ddelont i fyd arall;—ac ym meddiant pwy y mae trefnu pob peth ag sydd yn perthyn i'w greaduriaid, ond yr hwn a'u gwnaeth? Yr un peth fyddai gofyn pa ham na baem yn cael gwanwyn a chynhauaf heb auaf? Neu pa ham y mae'r ddaear yn isaf, a'r wybren uwchben? Byddai gofyn hyn mor annoeth, a disgwyl cael gorphwysfa ar y ddaear. Rhaid i bob peth gynnyddu, a dyfod yn raddol i berffeithrwydd;—bu y dyn cryfaf, yn ei amser, yn blentyn gwàn. Rhaid i'r ysgolhaig ddechreu yn yr egwyddor;—a'r dderwen fwyaf, a fu gynt yn fesen. Y bywyd hwn yw ein mebyd; ac a ddisgwyliem ni fod o gyflawn gorpholaeth megis o'r bru, a chael ein geni o lawn faintioli? Pe byddai ein gorphwysfa yma, ni byddai rhàn fawr o Ragluniaeth Dduw o ddim lleshad. A ydyw yn iawn i Dduw fod yn ol o'r clod a'r gogoniant ag sydd yn ddyledus iddo, am ryfeddol waredigaethau ei eglwys; ac o herwydd iddo ddarostwng ei elynion dano?—a hyn oll, i ddim arall, ond er mwyn i ddynion gael eu gwynfyd yma yn y byd. Pe buasem ni, i gyd oll, yn happus, yn ddieuog, ac yn berffaith; hollol afreidiol a diles a fuasai gwaith gogoneddus ein sancteiddhad, cyfiawnhad, a'n iachawdwriaeth yn y byd a ddaw. Pe na buasai dim yn angenrheidiol arnom, ni buasem yn ymddibynnu mor wastadol ar Dduw, nac yn galw arno mor ddifrifol, ac â'n holl egni. Pa mor

anaml y buasem yn galw arno, pe buasem yn feddiannol o'r holl bethau sydd yn anghenrheidiol arnom? Ni fuasai'r Arglwydd yn cael y fath ganiadau o glôd a diolchgarwch gan Moses, wrth y Môr Coch ac yn yr anialwch, na chwaith gan Deborah ac Hannah, a chan Dafydd ac Hezeciah, pe buasai pob un o honynt yn cael dewis ei sefyllfa a'i gyflwr yn y byd. Hola dy hun, O ddarllenydd, pa bryd y rhoddaist fwyaf o glôd i Dduw; onid pan yr oeddit mewn peryglon, mewn profedigaeth, mewn gwasgfa a chaledi? Y clôd, a'r mawl, a'r gogoniant mwyaf y mae Duw yn ei gael yn y byd, sydd am ein prynedigaeth, ac am ein hiechawdwriaeth trwy Grist, am ein cymmodi âg ef ei hun, trwy farwolaeth ei Fab. Ac onid trueni dyn oedd yr achos o hyn oll? A pha bryd bynnag y mae Duw heb gael lle i egluro ei drugareddau, yn ddiau dynion hefyd a fyddant yn ol o'r happusrwydd o gael eu mwynhau; a pha bryd bynnag y mae Duw yn colli'r clôd, y mae dyn hefyd yn colli'r cyssur. O y cyssuron melus y mae y saint yn eu mwynhau mewn atebiad i'w gweddiau! Pa fodd y gallasem wybod pa fath Dad trugarog sydd gennym, oni buasem wedi bod, megis y mab afradlon, yn ceisio ymborthi ar gibau'r moch, sef elw a phleserau darfodedig y byd a'r bywyd hwn? A pha fodd y buasem yn cael profi mawr gariad, a thynerwch, a thosturi Crist Iesu, oni buasem wedi bod yn llwythog ac yn flinderog, yn newynog ac yn sychedig, yn dlodion ac yn gystuddiedig? Y mae'n ddiddanwch mawr i'r milwr a'r pererin edrych yn ol ar y peryglon a'r cyfyngderau, allan o ba rai y dihangasant; felly, yn yr un modd, pan fyddo y seintiau yn y nefoedd yn edrych yn ol, ac yn ystyried y cyflwr truenus allan o ba un y maent wedi diangc; pan y byddo y credadyn yn gweled y gofidiau, yr ofnau, y dagrau, y profedigaethau, yr oedd efe wedi bod ynddynt ar y ddaear; yn meddwl am y gelynion, y peryglon, y cyfyngderau, a'r trallodau, a'r helbulon, ag oeddent yn ei amgylchynu yn byd: y wybodaeth o'r holl bethau hyn, a'r

ystyriaeth am danynt, a fawr ychwanega eu llawenydd. Ac felly y mae y gwaredigion yn clodfori'r Oen, gan ddywedyd, ei fod wedi eu prynu hwy allan o bob llwyth ac iaith, a phobl a chenedl; ac felly hefyd, allan o'u trueni a'u cyfyngderau, a'u pechodau, a'u profedigaethau, gan eu gwneuthur hwy yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw. Ond pe buasent hwy heb gael dim ond esmwythdra ar y ddaear, pa achos, neu pa anghenrheidrwydd, fuasai iddynt orfoleddu o herwydd eu gwaredigaethau?

§ 16. Heblaw hyn, nid ydym yn addas i gael gorphwysdra yma ar y ddaear. A oes modd i'r enaid, sydd mor wàn mewn grâs, mor dueddol i bechu, ac sydd wedi ei gyd-gyssylltu mor agos â'r corph hwn o gnawd, gael cyflawn foddlonrwydd a gorphwysfa yma ar y ddaear? Canys pa beth yw iawn orphwysfa'r enaid, onid ein dihangfa rhag pechod? bod yn rhydd oddiwrth wendid ac amherffeithrwydd? a bod allan o gyrhaedd ein holl elynion? Canys pa fodd y gall yr enaid hwnnw gael gorphwysfa, yr hwn sydd yn cael ei flino a'i aflonyddu gan yr holl bethau hyn, a hynny yn wastadol? A phaham y mae'r Cristion yn gwaeddi allan mor aml yngeiriau Paul, *Ys truan o ddyn wyf fi, pwy a'm gwared oddiwrth gorph y farwolaeth hon?* Rhuf. 7 : 24. Pa beth sydd yn peri iddo *gyrchu at y nôd*, Phil. 3 : 14, ac i redeg, *fel y caffo afael, ac ymdrechu i fyned i mewn*, pe b'ai yn medru cael gorphwysfa yma, yn ei gyflwr presennol? Ac nid yw ein cyrph ychwaith yn addas i'r nefoedd fel y maent. Nid ydynt yn awr yn gyrph gogoneddus megis ag y byddant wedi i'r llygradwy hwn wisgo anllygredigaeth, ac i'r marwol hwn wisgo anfarwoldeb. Ond ein *carcharau, ein beichiau* ydynt. Ac y maent mor llawn o wallau a gwendidau, fel ag y mae y rhan fwyaf o'u hamser yn cael ei gymmeryd i fynu i ddiwallu eu haml angenrheidiau. A ydyw'n beth tebygol, neu ddichonadwy, i enaid anfarwol gael gorphwysfa yn y fath drigfan adfaeledig ac afiachus? Yn ddiau, mae'n rhaid

i'r cyrph marwol, afiach, blinedig, ffiaidd, a llygradwy hyn, gael eu puro a'u sancteiddio cyn y byddont yn addas i fwynhau'r orphwysfa nefol. Ac y mae pob gwrthrych daearol yn analluog ac yn annigonol i gyfrannu happusrwydd ac i roddi gorphwysfa. Och! Och! pa beth sydd yn y byd hwn a ddichon roddi i ni orphwysfa? Onid y rhai hynny ag sydd yn cael mwyaf o bethau'r byd, sydd yn cael mwyaf o drallod a blinder? Y rhai hynny ag sydd yn meddwl fwyaf am bethau'r byd, yn gosod eu serch arnynt, ac yn llawenychu fwyaf ynddynt dros dro, sydd yn y diwedd yn gwaeddi allan fwyaf ynghylch eu gwagedd a'u hynfydrwydd. Mae dynion yn gyffredin yn addaw iddynt eu hunain nefoedd yma ar y ddaear; ond pan y maent yn disgwyl cael mwynhau happusrwydd, yna y mae yr holl wynfyd hwnnw yn ffoi ymaith oddiwrthynt. Pwy bynnag sydd yn iawn ystyried gweithredoedd yr Arglwydd, a ddichon weled yn hawdd mai ei ddiben ynddynt oll, yw tynnu i lawr ein heilunod, gwneuthur i ni flino ar y byd, a'n dwyn i geisio gorphwysfa yn Nuw yn unig. Ymha beth y bydd efe yn ein croesi yn fwy nac yn y peth hwnnw, ymha un yr ydym ni yn addaw i ni ein hunain, y boddlonrwydd a'r happusrwydd mwyaf? Os bydd gennych blentyn yr hwn yr ydych yn ei fawr hoffi, oddiwrth hwn y byddwch yn debyg o gael mawr ofid a thristwch. Os bydd gennych gyfaill yr hwn yr ydych yn ymddiried iddo ac yn barnu ei fod yn ffyddlon, hwnnw, fe allai, a dry yn elyn, ac a'ch bradycha. A ddichon y byd hwn, gan hynny, fod yn orphwysfa i ni? Ac megis ag y mae'r gwrthrychau ag yr ydym ni yn eu mwynhau yma, yn annigonol i roddi i ni orphwysfa, felly hefyd nid ydym yn cael y fraint o gael mwynhau ond ychydig o Dduw yr hwn sydd holl-ddigonol. Nid yma y mae efe wedi parottoi ystafell ei bresenoldeb a'i ogoniant. Y mae efe wedi gosod llén rhyngddo ef ei hun a ni. Yr ydym ymhell oddiwrtho megis creaduriaid, ymhellach megis marwolion gweiniaid, ac ymhellaf oll megis pech-

aduriad. Yr ydym, yn awr ac yn y man, sef ar rai troiau, yn clywed gair o gyssur oddiwrtho, ac yn derbyn rhai arwyddion o'i gariad, i gynnal i fynu ein gobaith a'n calonnau; ond nid hwn yw y cyflawn fwynhad. Ond a ddichon un enaid, yr hwn sydd wedi cymmeryd Duw yn rhàn ac yn gynnysgaeth, (megis ag y mae pob un ag a fydd gadwedig trwyddo ef,) gael gorphwysfa mewn cyflwr a sefyllfa mor anfeidrol bell oddiwrtho, a lle nad yw yn mwynhau ei gymdeithas ond yn brin ac yn anaml? Ac nid ydym ychwaith yn awr yn ADDAS; canys y mae parottöad a theilyngdod yn angenrheidiol. Canys ni rydd Crist y goron i neb ond y rhai sydd deilwng. A ydyw'n iawn i ni dderbyn y goron cyn ynnill y fuddugoliaeth? neu gael y gamp cyn rhedeg yr yrfa? neu i dderbyn y cyflog cyn gweithio yn y winllan? neu fod yn golygu ar ddeg dinas cyn defnyddio ein deg talent? neu i fyned i mewn i lawenydd ein Harglwydd cyn i ni brofi ein hunaiu yn weision da a ffyddlon. Canys yn sicr ni wna Duw gyfnewid ffordd ei gyfiawnder, i roddi i chwi orphwysfa cyn llafurio, neu goron y gogoniant cyn i chwi orchfygu! Mae achos a rhesymmau ddigon i ddangos nad yw yn iawn i ni gael gorphwysfa yn y bywyd hwn, ond bod "*gorphwysfa etto'n ol i bobl Dduw*" mewn byd arall. Cymmer ofal, gan hynny, ddarllenydd a Christion anwyl, na fyddo i ti fod mor rhyfygus a meddwl, neu ofalu, am orphwysfa yma ar y ddaear, nac i rwgnach ychwaith yn erbyn Duw o herwydd dy boen a'th drallod, a'th angenrheidiau yn y cnawd. A ydyw dy dlodi yn dy ofidio?—dy aml afiechyd, dy elynion chwerwon, a'th gyfeillion angharedig? Fel hyn y mae'n weddus, ac y gorfyddir bod, tra yr ydym ar ein pererindod trwy'r byd. A ydyw ffieidd-dra'r amseroedd, pechodau proffeswyr, drygioni a chaledrwydd calonnau yr annuwiolion yn dy boeni ac yn dy flino? Fel hyn y mae'n rhaid i'r pethau hyn fod, tra yr ydwyt yn absennol oddiwrth yr orphwysfa nefol. A ydyw dy wendidau, dy bechodau, a'th galon

ddrwg, yn dy aflonyddu? Bydded i ti gael dy flino fwy fwy o herwydd hyn. Ond a ydwyt ti, dan yr holl drallodion hyn, yn ewyllysgar i fyned at Dduw lle mae dy orphwysfa?—a chyflawni dy filwriaeth—a gorphen dy lafur a'th yrfa? Ac os nad ydwyt yn dy glywed dy hun yn barod i fyned at dy Dduw, yna cwyna ychwaneg o herwydd drygioni dy galon, fel y byddo i ti fod yn fwy blin a lluddedig; ac felly yn fwy parod i'r orphwysfa, ac yn fwy hiraethus am dani?

§ 17. Nid oes gennyf ond un peth etto i'w ychwanegu cyn dybennu y benod hon; sef bod eneidiau'r seintiau a'r gwir gredinwyr yn mwynhau anrhaethol wynfyd a gogoniant, cyn i'w cyrph gael eu cyfodi a'u hadgyssylltu â'u heneidiau. Pa beth a all fod yn fwy eglur nâ'r geiriau hyn o eiddo Paul: "Am hynny yr ydym yn hyderus bob amser, ac yn gwybod tra'r ydym yn gartrefol yn y corph, ein bod oddicartref oddiwrth yr Arglwydd. Canys wrth ffydd yr ydym yn rhodio, ac nid wrth olwg;—ond yr ydym yn hŷ, ac yn gweled yn dda, yn hytrach fod oddi cartref o'r corph, a chartrefu gydâ'r Arglwydd," 2 Cor. 5 : 6, 8; neu, y rhai canlynol: "Canys *y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeutu; gan fod arnaf chwant i'm dattod a bod gydâ Christ, canys gwell yw o lawer iawn.*" Phil. 1 : 23. Pe buasai Paul heb obaith o gael mwynhau Crist hyd yr adgyfodiad, pa achos ei bod hi yn gyfyng arno o'r ddeutu? Yn hytrach, oni buasai yn anewyllysgar i ymadael o'r corph; canys tra yr ydoedd ar y ddaear, yr oedd mewn rhàn yn mwynhau Crist. Ac onid ydyw geiriau ein Iachawdwr wrth y lleidr hefyd yn profi hyn yn eglur, *Heddyw y byddi gydâ mi ym Mharadwys*". Luc, 23 : 43. Ac yn y ddammeg ynghylch Deifes a Lazarus, nid yw yn debygol y buasai Crist yn sôn am happusrwydd yr enaid, ar y naill law, neu'r trueni ar yr ochr arall, a hynny i fod mor fuan ar ol angau, oni buasai y peth yn sicr ac yn wirioneddol. Luc, 16 : 19, 31. Ac y mae ein Harglwydd hefyd yn profi'r adgyfodiad, gan ddywedyd, Nid yw Duw

yn Dduw y rhai meirw, ond y rhai byw, Mat. 22 : 32; a thrwy hynny yn dangos fod eneidiau Abraham, Isaac, a Jacob, yn fyw yn y nefoedd. Pe buasai gwynfyd y meirw, y rhai sydd yn *marw yn yr Arglwydd* (Dat. 14 : 13) yn sefyll yn unig mewn gorphwysfa yn y bedd, yna y buasai carreg neu anifail mor wynfydedig a hwythau; ond y mae'n eglur na fuasai hynny ond melldith yn lle bendith. Canys onid oedd cael bywyd yn fendith fawr? Ac onid oedd yn fwy bendith i wasanaethu Duw, ac i wneuthur daioni yn eu dydd a'u cenedlaeth, mwynhau holl gyssuron bywyd, cymmun y saint (sef cymdeithas y duwiolion,) buddioldeb a diddanwch yr ordinhadau, a chael hefyd ryw ychydig o gymmundeb â Christ ym mhob un o honynt, nâ gorwedd a phydru yn y bedd? Yn ddiammeu, gan hynny, meddylir rhyw wynfyd arall heblaw hyn; canys paham ynte y dywedir,—Eithr chwi a ddaethoch i ddinas y Duw byw, at ysprydoedd y cyfiawnion, y rhai a berffeithiwyd. Heb. 12 : 22, 23. Ac yn ddiau, yn yr adgyfodiad perffeithir y corph yn gystal a'r enaid. Onid ydyw'r Ysgrythyr yn sicrhau fod Enoch ac Elias wedi eu cymmeryd i fynu i'r nefoedd? ac a allwn ni feddwl mai hwy yn unig sydd yn feddiannol o'r gwynfyd hwnnw? Ac oni welodd Pedr, ac Iago, ac Ioan, Moses hefyd gydâ Christ ar y mynydd, er fod yr Ysgrythyr yn dywedyd fod Moses wedi marw? Ac a ydyw'n rhesymmol meddwl fod Crist wedi twyllo eu synwyrau, gan ddangos Moses iddynt, os nad oedd ef i g'ael mwynhau'r gogoniant hwnnw hyd ddydd yr adgyfodiad? Ac onid ydyw geiriau Stephen mor eglur ag y gallai neb ewyllysio?—Arglwydd Iesu derbyn fy yspryd. Act. 7 : 59. Canys, yn ddiammeu, os oedd yr Arglwydd yn ei dderbyn, nid oedd nac yn cysgu, nac yn farw, nac wedi ei ddiddymmu; ond y mae ei enaid gydâ Duw, ac yn gweled ei ogoniant. A geiriau'r gwr doeth sydd hefyd yn profi yr un peth,—Yna y dychwel yr yspryd at Dduw yr hwn a'i rhoddes ef. Preg. 12 : 7. Paham y

dywedir hefyd ein bod yn derbyn bywyd tragywyddol, a bod yr hwn sydd yn credu yn y Mab yn cael bywyd tragywyddol, ac mai *adnabod Duw yw bywyd tragywyddol?* Neu, pa fodd y *mae teyrnas Dduw o'n mewn?* Canys os ydyw ein bywyd yn darfod ym marwolaeth, ac yn cysgu hyd ddydd yr adgyfodiad, yn ddiammeu nid yw hyn yn fywyd tragywyddol, nac yn deyrnas dragywyddol. Dywedir hefyd fod dinasoedd Sodom a Gomorrah *yn dioddef dialedd tân* tragywyddol. Judas, 5, 7. Ac os oedd y rhai drygionus yn dioddef tân tragywyddol, yn ddigyfrwng neu yn union, ar ol eu marwolaeth, yna yn ddiammeu y mae'r duwiolion yn mwynhau gwynfyd tragywyddol. Dywedir hefyd am Ioan, pon yr oedd efe yn gweled ei ogoneddus ddadguddiadau, ei *fod yn yr Yspryd*, ac yn cael ei ddwyn ymaith yn yr Yspryd. Dat. 1 : 10; 4 : 2. A phan gipiwyd Paul hyd y drydedd nef, nis gwyddai pa un ai yn y corph, neu allan o'r corph. 2 Cor. 12 : 2. Ac y mae hyn yn dangos y gallasai'r enaid fyned yno heb y corph. Ac onid ydyw tystiolaeth Ioan yn profi'r un peth? Canys efe *a welodd dan yr allor eneidiau y rhai a laddesid am air Duw.* Dat. 6 : 9. A phan y mae Crist yn dywedyd, Nac *ofnwch y rhai a laddant y corph, ac nid allant ladd yr enaid*, (Mat. 10 : 28,) onid ydyw hyn yn dangos yn eglur, pan y mae dynion drwg yn lladd ein cyrph, h. y. yn ysgar yr enaid oddiwrth y corph, bod yr enaid, er hynny, yn byw yn wastadol? Yr oedd enaid Crist yn fyw pan yr oedd ei gorph yn farw; ac felly hefyd y bydd ein heneidiau ninnau. A hyn sydd eglur oddiwrth ei eiriau wrth y lleidr ar y groes—Heddyw y byddi gydâ mi ym Mharadwys. Ac hefyd, oddiwrth ei eiriau hynny—*O Dad, i'th ddwylaw di y gorchymynaf fy Yspryd.* Luc, 23 : 43, 46. Ac os oedd ysprydion y rhai hynny, a fuant anufudd yn nyddiau Noah, *yngharchar*, hynny yw, yn byw mewn cyflwr truenus; yna yn ddiammau y mae eneidiau y rhai cyfiawn, ar y llaw arall, mewn stât o ddedwyddwch. Gan hynny cyn gynted ag y mae

eneidiau'r ffyddloniaid yn cael eu rhyddhau o garchar y cnawd, y maent yn cael eu dwyn gan angylion i fynwes Abraham, sef i'r nefoedd. Y mae Crist Iesu, ac eneidiau y rhai cyfiawn a berffeithiwyd, yn gymdeithasau iddynt; y nefoedd yn breswylfod, a Duw yn happusrwydd iddynt. Pan y mae'r ffyddloniaid yn marw, hwy a allant ddywedyd yn hyf, gan gredu, megis Stephan—Arglwydd Iesu derbyn fy yspryd;—ac hefyd, gorchymmyn eu heneidiau, megis Crist Iesu, i ddwylaw eu Tad nefol.

## PENNOD V.

### MAWR DRUENI Y RHAI HYNNY AG SYDD YN COLLI GORPHWYSFA'R SAINT.

§ 1. Y Darllenydd, yr hwn sydd heb ei adgenhedlu, yn cael ei annog i ystyried y fawr golled o golli'r Nefoedd. § 2. (1) Y mae colli'r Nefoedd yn fwyaf pennodol yn cynnwys, colli, § 3. (2) Perffeithrwydd personol y Seintiau; § 4. (4) Colli Duw ei hun; § 5. (3) Colli pob Serchiadau hyfryd tuag at Dduw; § 6. (4) Colli Cymdeithas fendigedig Angylion ac Ysprydion gogoneddus. § 7. (11) Y pethau ag sydd yn ychwanegu'r golled o'r Nefoedd. § 8. (1) Deall yr Annuwiolion a fydd yn cael ei oleuo, § 9. (2) Ac hefyd, yn cael ei helaethu; § 10. (3) Eu cydwybodau a fyddant yn eu heuogfarnu, ac yn cymmhwyso ac yn addasu pob ystyriaeth chwerw, yn llym ac yn effeithiol, i ychwanegu eu trueni; § 11. (4) Eu Serchiadau a fyddant yn fwy bywiog; § 12–18. (5) Eu cof a fydd yn gryfach ac yn helaethach. § 19. Diwedd y Pen hwn.

§ 1. Ddarllenydd anwyl, os ydwyt yn ddieithr i Grist, ac i anian a bywyd sanctaidd ei bobl, y rhai yr ydym wedi eu darlunio: ac os byddi byw a marw yn y cyflwr yma, gad

i mi ddywedyd wrthyt, na chai di byth fod yn gyfrannog o lawenydd y nefoedd, na chwaith mewn un modd fyned i mewn i dragywyddol orphwysfa'r saint. Gallaf ddywedyd wrthyt, megis Ehwd wrth Eglon—*Gair oddiwrth Dduw sydd gennyf attat ti*, Barn. 3 : 20; canys megis ac y mae gair Duw yn wir, ni chai di byth weled ei wyneb gydâ chyssur. Gorchymmynnir i mi roddi'r farn hon arnat ti; cymmer hynny, fel y mynnech, a diangc rhag y llid a fydd, os doeth ydwyt. Etto dilys yw hyn gennyf, y byddai dy hollol ymostyngiad o'r galon i Grist Iesu gael i ti ddihangfa; canys yna efe a'th arddelai megis un o'i blant, ac efe a roddai i ti ran o etifeddiaeth ei etholedigion. Pe byddai fy nghennadwri yn cael y fath effaith arnat, a'r cyfryw gyfnewidiad dedwydd a hyn yn canlyn, yna y buaswn cyn belled oddiwrth ymddigio, megys Jona gynt, oherwydd na chyflawnodd Duw ei fygythion yn dy erbyn, fel ag y buaswn yn bendithio'r dydd y gwnaeth Duw fi yn gennadwr dedwydd. Ond os bydd i ti orphen dy ddyddiau yn dy gyflwr annychweledig, mòr sicr a bod y nefoedd uwch dy ben, a'r ddaear dan dy draed, ceuir di allan o orphwysfa'r saint, a'th gyfran a fydd yn y tân tragywyddol. Dysgwyliaf yn awr i ti droi attaf, a gofyn —Pa bryd y dangosodd Duw i ti lyfr y bywyd? neu, ofyn i mi ddywedyd wrthyt ti, Pwy yw y rhai hynny a fyddant gadwedig, a phwy yw y rhai a geuir allan? Yr ydwyf yn atteb, nad ydwyf yn dy enwi di, na neb arall; ond yn unig yn penderfynu hyny am yr annychweledig yn gyffredinol, ac am danat tithau, os ydwyt yn un o honynt. Ac nid ydwyf fi ychwaith yn sicrhau, pwy a fydd yn debyg o edifarhau, a pha rai ni wnant hyny, chwaethach dywedyd am danat ti, na wnei di byth droi a dychwelyd. Gwell gennyf ddangos i ti pa fath obaith sydd o'th flaen, os peidi ag eistedd yn llónydd a cholli hynny. Dewiswn yn hytrach dy annog i wrando ar lais Duw mewn amser, cyn i ddrws trugaredd gael ei gau i'th erbyn; gwell gennyf hyn, na dywedyd wrthyt nad oes dim gobaith y bydd

i ti edifarhau, na dychwelyd. Ond os nad ydyw'r hanes neu'r darluniad rhagflaenol o bobl Dduw yn cyttuno â chyflwr dy enaid, a ydyw mòr anhawdd atteb pa un a fyddi gadwedig ai na fyddi? Ai angenrheidiol yw i ni esgyn i'r nefoedd i wybod hyn, sef, "*Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd?*" Heb. 12 : 14, ac ni chaiff neb ond y rhai "*pur o galon weled Duw?*" Mat. 5 : 8, neu, onis genir dyn drachefn, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw? Ioan, 3 : 8. Ai angenrheidiol yw i mi fyned i'r nefoedd i ofyn hynny i Grist, yr hyn y daeth ef i lawr o'r nef i'w ddatguddio, ac yr anfonodd ei Yspryd i'w apostolion i ddywedyd wrthym, a'r hyn a adawodd efe a hwythau yn ysgrifenedig i'r byd yn ei Air sanctaidd? Ac er nas medraf wybod dirgelion dy galon, ac nas gallaf ddywedyd wrthyt erbyn dy enw pa fath yw dy gyflwr; etto, os byddi ewyllysgar a diwyd, tydi a elli yn hawdd wybod dy hun, pa un a wyt ti yn etifedd y deyrnas ai nad ydwyt. Ond y peth yr wyf yn ei ewyllysio yn fawr ydyw hyn, sef, os ydwyt ti etto yn dy gyflwr truenus, i ti gael gweled hynny a diangc mewn pryd. Ond pa fodd y diengi os esgeulusi Grist ac iachawdwriaeth dy enaid? Mae hyn mòr amhossibl ag i'r cythreuliaid eu hunain fod yn gadwedig. Ië, y mae Duw wedi dywedyd hynny yn fwy eglur, ac yn amlach yn yr Ysgrythyr Lân, am y cyfryw bechaduriaid ag ydwyt ti, nac am y cythreuliaid. Myfi a feddyliwn y byddai i olwg ar dy gyflwr dy daro â syndod ac â dychryndod. Pan welodd y brenin Belsassar *fysedd llaw dyn yn ysgrifenu ar y pared, yna y newidiodd gwedd y brenin; a'i feddyliau a'i cyffroisant, fel y datitododd rhwymau ei lwynau ef; ac y curodd ei liniau ef y naill wrth y llall.* Dan. 5 : 5, 6. Pa gryndod gan hynny a ddylai dy feddiannu di, pan y mae llaw Duw ei hun yn dy erbyn, nid mewn un neu ddau o ymadroddion, ond trwy holl ystod yr ysgrythyrau, yn cyhoeddi gwae yn erbyn pechaduriaid cyndyn, ac yn dangos y bydd iddynt golli'r deyrnas nefol honno trwy eu hanufydd-dod, ac o

herwydd eu bod yn parhau yn ddiedifeiriol. Ac o herwydd fy mod yn ewyllysio i ti osod hynny at dy galon, myfi a ddanghosaf i ti natur y golled, neu pa fath ydyw, a'r hyn sydd yn gynnwysedig yn hynny;—a'r hyn hefyd ag sydd yn ei gwneuthur yn fwy chwerw ac annioddefol.

§ 2. (1) Wrth golli'r nefoedd, y mae'r annuwiol yn colli perffeithrwydd personol y saint, ac hefyd yn colli'r mwynhad o Dduw ei hun; yn colli hefyd yr holl serchiadau hyfryd tuag at Dduw; a chymdeithas wynfydedig angylion a seintiau.

§ 3. (1) Pan ystyriom berffeithrwydd personol y seintiau yn y nefoedd, pa mor fawr a fydd y golled o hynny i'r annuwiolion? Hwy a gollant hefyd ddisgleirdeb ysplenydd y corph, yr hwn a fydd yn rhagori ar lewyrch yr haul ganol dydd. Ac er i gyrph yr annuwiolion gael eu cyfodi yn fwy ysprydol nac oeddent yma ar y ddaear, etto ni wna hynny ond eu gwneuthur yn fwy cymmwys i ddioddef poenau, ac arteithiau mwy echryslon. Yna y byddai yn dda ganddynt pe b'ai pob aelod o'u corph yn aelod marw, fel na fyddai iddynt ddioddef y gospedigaeth, â pha un yr ymwelir â hwynt; neu pe b'ai eu holl gorph yn gelain, wedi pydru; neu pe baent yn cael gorwedd i lawr drachefn yn llwch y ddaear. Mwy o lawer y maent yn fyr o'r perffeithrwydd moesol ac ysprydol hwnw, o ba un y mae'r gwaredigion yn feddiannol; sef ewyllysiau a thueddiadau sanctaidd y meddwl a'r yspryd; a'r parodrwydd hyfryd i wneuthur ewyllys Duw, a chanfod perffaith uniondeb ei holl weithredoedd. Ond yn lle y cynneddfau a'r rhinnweddau hyn, y maent yn meddiannu cyndynrwydd cyflawn yr ewyllys, y casineb mwyaf tuag at bob daioni, a'r tueddiad i bob drwg, a'r un gwylltineb natur ag oedd ganddynt ar y ddaear. Gwir yw y bydd eu deall yn fwy pur ac yn fwy cyflym, gan fod y temtasiynau gynt wedi darfod; ac o herwydd eu bod wedi gweled a phrofi y twyll a'r anwiredd o'r hudoliaethau yn y byd. Ac y mae ynddynt yr un tueddiadau etto; a dir yw, pe

medrent, byddent yn euog o'r unrhyw bechodau; ond nid oes ganddynt mo'r cyfleusdra. Ac fe fydd mwy o wahaniaeth rhwng y trueiniaid hyn a'r seintiau gogoneddus, hag sydd rhwng llyffant dû a'r haul yn y ffurfafen. Ac nid oedd y gwr cyfoethog, yr hwn oedd yn gwisgo porphor a lliain main, wedi ei ddyrchafu gymmaint uwchlaw Lazarus, yr hwn oedd wrth ei borth yn gornwydlyd, ag y byddant hwy yn rhagori mewn gogoniant ar y rhai hyny a fyddant golledig.

§ 4. (2) Ni fydd dim perthynas gyssurus rhyngddynt â Duw, na chymdeithas âg ef. Ac megis nad oeddent hwy yn chwennych cadw Duw yn eu meddyliau; ond yn dywedyd wrtho, Cilia oddi wrthym; canys nid ydym yn chwennych gwybod dy ffyrdd. Job, 21 : 14. Felly, câs hefyd fydd ganddo yntau eu derbyn hwythau i fysg ei deulu, a'u cynnwys yn ei dŷ. Ni chant byth eu derbyn i mewn i orphwysfa ei saint, ac ni chant aros ger ei fron; efe a addefa wrthynt, Nis adnabum chwi erioed; ewch oddiwrthyf chwi weithredwyr anwiredd. Y maent yn barod iawn yn awr i honi eu bod hwy yn eiddo Crist; ac yn son am eu hawl i'r nefoedd, yr un fath a phe baent yn wir gredinwyr, ac yn seintiau ffyddlon. Y mae'r tyngwr a'r rhegwr, y meddwyn, y putteiniwr, y godinebwr, a'r dyn bydol—y maent oll yn medru dywedyd, Onid ydyw Duw yn Dad *i ni* yn gystal a chwithau? Ond pan fydd Crist yn didoli ei ddilynwyr oddiwrth ei elynion, a'i gyfeillion ffyddlon oddiwrth y rhagrithwyr twyllodrus, pa fath a fydd eu hyder? Pa le y bydd eu hawl rhyfygus i'r nefoedd y pryd hynny? Canys yr amser hwnnw y cant wybod nad yw Duw yn Dad iddynt, o herwydd na fynent hwy fod yn bobl iddo; ac megis nad oeddent hwy yn ewyllysio i Dduw drigo ynddynt trwy ei Yspryd, felly ni bydd dim cyfeillach rhyngddo yntau a phebyll annuwioldeb; a gweithredwyr anwiredd ni ddeuant i mewn i ddinas Duw. Y rhai hyny yn unig, a rodiasant yma gyda Duw, a gant fyw a bod yn happus gydag ef yn y nefoedd,

Bychan a wyr y byd pa golled y mae'r enaid hwnnw yn ei gael, yr hwn sydd yn colli Duw! Pa fath bydew neu garchar-dŷ tywyll a fyddai'r ddaear, pe b'ai wedi colli'r haul? Pa fath furgyn drewedig a fyddai'r corph heb yr enaid? Ond nid yw hyn i gyd ddim i'w gyffelybu i'r golled o Dduw. Megis ag mai'r *mwynhad* o Dduw *yw nefoedd y saint*, felly hefyd y *golled* o hono yw *uffern* yr annuwiol. Ac megis ag y mae'r mwynhad o Dduw yn fwynhad o bob peth, felly hefyd y mae'r golled o hono yn golled o bob peth.

§ 5. (3) Y maent hefyd yn colli'r holl serchiadau hyfryd tuag at Dduw; sef cael cyflawn wybodaeth o hono, ac am dano, yr hyn sydd yn awr uwchlaw gwybodaeth; cael gweled ei wynebpryd hyfryd, a'u llawn ddigoni â'i bresenoldeb; cael yr hyfrydwch anrhaethadwy o'i garu, a chael ein gwneuthur yn hyspys o'i anfeidrol gariad ef tuag attom ni, gorfoledd parhaus ei saint, a'r afonydd o hyfrydwch a diddanwch â pha rai y mae efe yn eu llawn-ddigoni hwynt. Ai bychan colli'r holl bethau hyn yn eich barn chwi? Nid yw swydd brenhin, yn llywodraethu teyrnas, yn rhagori cymmaint ar gyflwr distadlaf ei gaethweision, ag ydyw'r gwaith nefol hwn, o garu a moliannu Duw, yn rhagori ar sefyllfa'r brenhin mwyaf ardderchog ar y ddaear. Mae Duw yn rhoddi i bawb waith yn ol ei elfen. Ni fu eich calonnau chwi, O bechaduriaid, erioed wedi eu gosod ar Dduw yn eich bywyd; ni fuont erioed yn wresog o'i gariad; ac ni fuoch chwi erioed yn hiraethu am y mwynhad o hono; nid oedd genych ddim hyfrydwch i ymddiddan, neu i glywed am dano; a gwell a fuasai gennych aros ar y ddaear, pe buasech yn gwybod pa fodd, na chael eich rhân ymysg y rhai hynny ag sydd yn clodfori Duw. A ydyw yn iawn ac yn addas, gan hynny, i'r cyfryw rai ag ydych chwi fod yn aelodau o'r gymdeithas nefol, a chael eich derbyn i'r eglwys orfoleddus yn y gogoniant?

§ 6. (4) Hwy a gollant hefyd gymdeithas fendigedig yr

angylion a'r seintiau gogoneddus; ac yn lle bod yn gyfeillion i'r ysprydion gwynfydedig hynny, a bod yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw, hwy a fyddant yn aelodau o'r gymdeithas uffernol, mewn poenau annioddefadwy, a'r cythreuliaid yn gyfeillion iddynt. Eu gwaith a'u hyfrydwch ar y ddaear oedd diystyru ac amharchu pobl Dduw, gan eu mawr gashau a'u ffieiddio; a gorfoleddu yn eu hadfyd, eu blinder, a'u trallod. Ond, yn ddiau, nid felly yr oedd iddynt ddisgwyl mwynhau y gwynfyd hwnnw yn y nefoedd. Gan hynny, yr ydych chwi, yr annuwiolion, yn awr yn cael eich cau allan o'r gymdeithas honno, oddiwrth ba un y buoch chwi eich hunain, yn gyntaf, yn foddion i gau eich hunain allan; ag felly yr ydych chwithau yn awr yn cael eich didoli oddiwrth y rhai hynny, gyda pha rai ni fynnech ymgyfeillachu yn y byd. Ni fynnech eu cynnwys yn eich tai, ac ni fedrech eu dioddef yn eich trefydd, na phrin yn y deyrnas. Chwi a gymmerasoch bobl Dduw megis y cymerodd y brenhin Ahab Elias; sef megis y rhai ag oeddent yn blino ac yn aflonyddu'r wlad; 1 Bren. 18 : 17; ac fel y cyfrifwyd yr apostolion yn rhai ag oeddent yn *aflonyddu'r* **byd*. Act. 17 : 6. Os byddai rhywbeth yn anhwylio, neu yn troi allan yn afllwyddianus, chwychwi a fyddech yn barnu fod hynny yn digwydd o achos y duwiolion. A phan fyddent yn cael eu rhoddi i farwolaeth, neu eu hymlid o'r deyrnas, chwi a fyddech yn gorfoleddu, ac yn meddwl bod y wlad felly yn cael ymwared da o honynt. Ond yr achos yr oeddent yn eich blino gymmaint oedd, o herwydd eu bod yn eich ceryddu yn ffyddlon am eich pechodau. Yr oedd eu sanctaidd ymarweddiad yn aflonyddu eich cydwybodau, gan eich bod yn gweled gymmaint yr oeddent yn rhagori arnoch chwi. Blinder oedd i chwi eu clywed yn gweddio, neu yn canu mawl i Dduw, yn eu teuluoedd. Ac a fydd

---

* Neu, el y mae'r gair yn arwyddocau yn yr iaith wreiddiol—yn ei droi y tu chwith allan, neu y tu uchaf yn isaf.

yn rhyfedd os bydd i chwi gael eich didoli oddiwrthynt yn y byd sydd ar ddyfod? Y mae'r dydd yn agosâu pan na fydd iddynt eich haflonyddu mwyach, ac rhyngoch chwi a hwythau y bydd gagendor mawr wedi ei osod. Hyd yn nod yn y bywyd hwn, lle yr oeddent yn cael *profedigaeth trwy watwar, yn ddiddim, yn gystuddiol, yn ddrwg eu cyflwr; a lle nad oeddent* yn rhydd oddiwrth wendidau ac amherffeithrwydd; etto, er hyn i gyd, yn ol tystiolaeth yr Yspryd Glân, yr oeddent yn *gyfryw nad oedd y byd yn deilwng o honynt;* Heb. 11 : 36, 37, 38; a mwy anheilwng o lawer y bydd y byd o'u cymdeithas mewn gogoniant.

§ 7. (11) Y mae yn ddiammeu bod llawer yn barnu, y medrant fyw yn burion, heb grefydd a duwioldeb yn y byd hwn; a phaham (meddant yn eu calonnau) na fedrwn ni fyw hebddynt yn y byd a ddaw? Gan hynny, i'r diben o ddangos i'r cyfryw y byddant y pryd hynny yn gweled y golled o'r nefoedd yn fawr, ac na's gellir dirnad pa mòr flin, gofidus, a galarus, y byddant o'r achos: canys rhaid iddynt ystyried y bydd eu dealltwriaeth y pryd hynny wedi cael ei agor, a'u gwybodaeth wedi cael ei helaethu, i amgyffred a chanfod eu colled. Hwy a fyddant yn gweled pob peth yn fwy eglur; eu cydwybodau a fyddant yn fwy tyner a bywiog, ac yn eu dwysbigo yn llym, ac yn eu poeni yn ddirfawr. Ni fydd eu serchiadau a'u tymherau mwyach yn swrth ac yn gysglyd, ac ni fydd eu cof mwyach yn wan ac yn dwyllodrus.

§ 8. (1) Fe fydd dealltwriaeth yr annuwiolion y pryd hynny yn cael ei loywi a'i agor, i wybod a gweled y golled o'r nefoedd. Yn awr, yn y byd hwn, nid ydynt yn gofidio, o herwydd ni wyddant y golled o Dduw; canys nis gwelsant ei odidowgrwydd, ac nis cawsant erioed fwynhau ei gymdeithas. Canys y dyn hwnnw, yr hwn oedd yr ganddo berl gwerthfawr, ond a'i diystyrodd, yr a'i collodd, gan dybied mai rhyw raeanyn diwerth ydoedd, nid yw yn gofidio o herwydd ei golled, canys nis gwyddai

ei werth. Ond wedi iddo gael gwybod y fath drysor a gollodd, yna y mae yn flin ac yn ofidus o herwydd y golled. Felly hefyd, er na fydd dealltwriaeth y rhai colledig wedi ei sancteiddio, etto fe fydd wedi ei buro a'i loywi oddiwrth lawer iawn o gamsynniadau a chyfeiliornadau. Y maent yrwan yn meddwl bod eu hanrhydedd, eu bri, eu tiroedd, eu cyfoeth, eu pleserau, eu hiechyd, eu bywyd, yn fwy haeddiannol o'u llafur a'u gofal, na'r pethau sydd yn perthyn i fyd a bywyd arall. Pan ymadawo pethau'r byd hwn oddiwrthynt, a phan y cânt eu gadael mewn poen a gofid, a phan y byddont yn canu yn iach i bob peth dan haul, ac yn myned i'r byd tragywyddol, a phan y cânt weled a phrofi y trueni a'r gospedigaeth nid oeddent o'r blaen ond yn darllen ac yn clywed am danynt, yna y bydd eu meddyliau ynghylch y pethau hyn wedi cyfnewid. Yr oeddent o'r blaen megis dynion y rhai ni chredent fod dwfr yn boddi na'r tân yn llosgi, hyd onis bwrir hwy i'r môr, neu y teflir hwy i'r tân; ond wedi teimlo a phrofi, bydd yn rhaid credu. Ac fe fydd cyfeiliornad y meddwl, yr hwn a wnaeth iddynt o'r blaen anghofio Duw, casâu ei wasanaeth, a diystyru ei bobl, wedi cael ei symmyd ymaith. Bydd eu hanghrediniaeth a'u hamheuaeth wedi cael eu troi yn olwg ac yn brofiad; ïe, yn brofiad galarus iawn. Bydd eu gwybodaeth wedi cael ei helaethu fel y byddo i'w gofid a'u tristwch gael eu hychwanegu. Oh! eneidiau truenus! hwy a fyddent, mewn ystyr, yn llawer mwy happus, pe b'ai eu gwybodaeth yn cael ei gymmeryd ymaith oddiwrthynt, fel na byddai ganddynt fwy deall na dyn gwirion, neu ynfyd, neu'r creaduriaid direswm; neu pe baent heb wybod mwy yn uffern nac oeddent yma ar y ddaear; yna y byddai eu colled yn eu blino yn llai. Pa mor ddedwydy barnent hwy eu hunain y pryd hynny pe baent heb wybod fod y cyfryw le a'r nefoedd? Ond yn awr, pan y mae eu gwybodaeth yn gymmorth iddynt i ragflaenu eu trueni, naill ai ni fynant wybod, neu ni wnant ddarllen, gwrando ac ystyried fel y delont i

wybod; gan hynny pan fydd eu gwybodaeth yn ychwanegu eu poenau, hwy a gânt wybod, pa un ai ewyllysiont hynny ai peidio. Y maent yrwan megis mewn trwmgwsg yn dych'mygu ac yn breuddwydio mai hwy yw y dynion mwyaf happus yn y byd; ond pan ddaw angau i'w deffro, pa fodd y cyfnewidiant eu barn mewn moment! a'r rhai hynny ni fynnent weled, a gânt weled a chywilyddio!

§ 9. (2) Megis ag y bydd eu deall yn cael ei buro a'i oleuo, felly hefyd y bydd yn cael ei ychwanegu a'i helaethu, ac yn cael ei wneuthur yn fwy cynnwysfawr i amgyffred gwerth y gogoniant hwnnw a gollasant; ac fe fydd cryfder, yn gystal a gwirionedd eu dealltwriaethau, yn cael eu hychwanegu y pryd hynny. Pa mor ddyfnion yw'r dychryniadau a'r dealltwriaethau hynny ynghylch digofaint Duw, a'r ynfydrwydd a'r ffolineb o bechu yn ei erbyn, ac o drueni pechaduriaid, sydd gan yr eneidiau hynny ag sydd yn awr mewn poenau, mewn cyffelybiaeth i'r hyn ag oedd ganddynt, pan yr oeddent yma ar y ddaear! lle nid oeddent ond yn unig yn clywed sôn am y poenau hynny? Pa mòr ddwys yw synniadau y dyn hwnnw am werth ei fywyd, sydd yn cael ei ddwyn i'w ddienyddio megis drwg-weithredwr, mewn cyffelybiaeth i'r hyn yr oedd yn ei feddwl am hynny yn amser ei lwyddiant, ac yn nydd ei anystyriaeth? Mwy o lawer y bydd colli tragywyddol ddedwyddwch yn ychwanegu synniadau'r damniol ynghylch colled mòr anfeidrol. Ac megis y mae llestr mawr yn cynnwys mwy o ddwfr na chragen fechan, felly yn yr un modd y bydd eu gwybodaeth helaethfawr y pryd hynny, yn cynnwys mwy o sylwedd tuag at gynnyddu eu poenau, nag a fedr eu gwybodaeth amherffaith ei amgyffred yn y byd hwn.

§ 10. (3) Ymhellach: fe fydd eu cydwybodau y pryd hynny hefyd yn cymmwyso yr ystyriaethau hyn, mewn modd eglurach, amlyccach, a mwy gwirioneddol tuag at eu meddyliau, yr hyn a fydd yn foddion tra hynod i ychwanegu eu poenau. Hwy a allant hefyd ddywedyd, yn

wirioneddol y pryd hynny, er mor drwm y bydd iddynt feddwl hynny, "Dyma fy ngholled anfeidrol, a dyma y poenau tragywyddol, ac anwaredigol y clywais gymmaint o son am danynt!" Eisiau cymmwyso ac addasu'r ystyriaethau hyn yn iawn at eu cydwybodau, yw'r achos fod pechaduriaid mor ddifeddwl ac anystyriol yn awr yn y byd; canys prin y maent yn cael eu dwyn i gredu fod y fath le o drueni; a mwy anhawdd o lawer yw eu hargyhoeddi y byddant hwy eu hunain yn y cyflwr hwnnw onid edifarhânt. Dyma yr hyn sydd yn peri fod cynnifer o bregethau mor ddiles iddynt, a bod yr holl fygythion a'r rhybuddion yn cael cyn lleied o effaith ar eu calonnau. Canys er i weinidogion Crist ddangos iddynt eu truenus gyflwr, mor eglur a ffyddlon ac y medront, etto ni fynnant gredu eu bod mor druenus. Gadewch iddo ddywedyd wrthwyt, yn ffyddlon, am y gogoniant y maent yn debyg o'i golli, a'r poenau hynny y byddant yn debyg o gael eu dyoddef; etto ni fynnant gredu ei fod yn llefaru hyn am danynt hwy, ond am ryw rai sydd fwy pechaduriaid. Un o'r pethau mwyaf anhawdd yn y byd yw dwyn dyn annuwiol i gydnabod ei hun yn bechadur mawr, ac i weled ei hun mewn cyflwr colledig, a than ddigofaint Duw. Ac er y gallent yn hawdd wybod, gan eu bod yn ddieithr o'r adenedigaeth, ac o herwydd eu casineb i sancteiddrwydd, nas buont hwy erioed yn gyfrannogion o'r un o'r ddau, etto, er hyn i gyd, y maent mor hyderus yn gobeithio bod yn gadwedig, a chael gweled Duw, a phe baent y dynion mwyaf sanctaidd yn y byd. Canys wedi gosod allan o'u blaen, yn y modd mwyaf eglur, eu cyflwr truenus a pheryglus, pa mor anaml y bydd neb yn gweiddi allan, Myfi yw'r dyn? neu gyfaddef, os byddant feirw yn y cyflwr y maent ynddo, mai colledig a fyddant yn dragywydd? Ond wedi iddynt ddyfod mor ddisymmwth i drigfannau tywyllwch, a dyrchafu eu golygon mewn llosgfeydd anoddefadwy, a gweled eu hunain wedi eu cau allan o bresenoldeb Duw yn dragywydd, yna y gwelant ac y cydnabydd-

ant hefyd, gyda galar a gofid, a thristwch calon, eu bod yn haeddiannol o'r gosp, a bod cyfiawn farn wedi disgyn arnynt; ac yna y cyffesant, ac y gwaeddant allan mewn chwerwedd cydwybod, O fy nhrueni! O fy ynfydrwydd! O mor anrhaethol fawr yw fy ngholled! Mor boenus, mor ddiymwared, yw fy nghyflwr truenus am byth!

§ 11. (4) Yna y bydd eu serchiadau, a'u tymherau hefyd, yn fwy cyflym a bywiog: ac ni fyddant mwyach yn swrth ac yn galedion. Calon galed yw'r achos bod nefoedd ac uffern yn awr yn ymddangos megis pethau gweigion a disylw. Canys wedi i ni ddangos i bechaduriaid y tragywyddol ogoniant sydd o'u blaen ar y naill law, a'r trueni ar y llaw arall, y maent etto, er hyn i gyd, megis dynion mewn trwmgwsg. Y mae ein geiriau megis cerrig wedi eu taflu at y mur, y rhai a fyddant yn neidio yn ol attom drachefn. Nyni a fyddwn yn llefaru pethau dychrynadwy; ond nid yw hynny ond wrth ddynion meirwon. Nyni a fyddwn yn chwilio'r archollion, ond ni fyddant yn gwingo nac yn teimlo. Yr ydym yn llefaru wrth y creigau yn hytrach nac wrth ddynion; canys y ddaear ei hun a grynai yn gynt na hwy. Ond pan fydd yr eneidiau meirwon hyn wedi adfywio, pa fath deimlad bywiol, pa fath gynhwrf fydd yn eu meddyliau, pa fath loes a gwasgfa ddychrynadwy, pa fath alar, pa fath dristwch dwfn, a fydd y pryd hwnnw yn llenwi eu calonnau? Pa mor chwyrn y daw cywilydd i'w hwynebau? Pa mor ofnadwy y bydd eu cydwybodau yn eu cyhuddo? Pa fodd y byddant yn ymgynddeiriogi o herwydd eu ffolineb gynt? Ni fydd galar y wraig fwyaf serchog a charedig am farwolaeth ei gwr, na thristwch y fam fwyaf hawddgar wedi colli ei phlant, ddim i'w gyffelybu i ddirfawr ing a gofid y rhai hyn, wedi colli'r nefoedd. O mor anniodd-efol a fydd hunan-gyhuddiad y creaduriaid truenus, di-obaith hyn! ac mor erchyll y byddant yn dirboeni eu meddyliau mewn gwallgofrwydd anrhaethadwy! Pa fodd y byddant yn arteithio eu hunain, ac yn rhwygo eu calon-

nau gan wir ofid, ac yn cyflawni barn a digofaint Duw arnynt eu hunain? A chan mai hwy eu hunain oedd yr achos gwreiddiol a dechreuol o'r dioddefiadau hyn, felly hefyd hwy eu hunain a fyddant megis dienyddwyr arnynt eu hunain i gyflawni'r farn a'r gospedigaeth yr oeddent mor gyfiawn yn ei haeddu. Ië, hyd yn nod Satan ei hun, o herwydd nad oedd efe yn gymmaint achos o'u pechodau ac oeddent hwy eu hunain—felly ni bydd efe ychwaith yn gymmaint offeryn i gyflawni'r farn a'r gospedigaeth ag a fyddant hwy eu hunain. Pa mor happus gan hynny y cyfrifent eu hunain pe baent yn cael eu hollol gyfnewid a'u troi i fod yn gerrig neu yn greigiau, neu yn rhywbeth dideimlad a disynwyr? Pa mor happus y byddent y pryd hynny pe medrent deimlo a chlywed cyn lleied ag a fyddent arferol gynt, wrth wrando'r gair, pe medrent gysgu gydol amser eu poenedigaeth, fel y gwnaent gynt dan y pregethau oeddent yn eu rhybyddio o'r canlydiad arswydus hwn? Ond y mae eu syrthni a'u cysgadrwydd wedi ymadael â hwynt, ac ni ddeuant yn ol mwyach; ac ni chant seibiant o'u poenau.

§ 12. (5) Heblaw hyn, fe fydd eu cof mor gryf a helaeth a'u deall a'u serchiadau. Pe byddai bossibl iddynt golli eu cof, yna hwy a anghofient y nefoedd, ac felly ni fyddai'r golled yn poeni eu meddyliau. Er y cyfrifent eu llwyr ddiddymiad, a chael eu hollol ddileu ymaith yn fendith neillduol y pryd hwnnw, etto ni bydd bossibl iddynt gael bod yn ol o gymmaint ag un o'u synwyrau. Fe fydd eu gwybodaeth, eu cydwybod, eu serchiadau, a'u cof, wedi eu helaethu a'u hychwanegu, ac heb un diffyg arnynt, ac felly yn fwy cadarn i'w poeni, yn lle bod yn fuddiol tuag at eu happusrwydd. Canys gallasai yr holl gynneddfau hyn fod megis yn ymhyfrydu yn Nuw, ac yn ymborthi ar ei gariad, ac yn mwynhau llawenydd a hyfrydwch ei bresenoldeb. Ond yn lle hyn, hwy a fyddant yn foddion i wneuthur i'r trueiniaid ymborthi ar ei ddigofaint, ac ychwanegu eu poenau, o herwydd eu

bod wedi cael eu hysgaru oddiwrtho. Yn awr, yn y byd hwn, y maent yn cymmeryd arnynt nad oes ganddynt ddim hammdden nac amser i feddwl am eu heneidiau, na dim lle yn eu cof na'u meddyliau i bethau ag sydd yn perthyn i'r byd sydd ar ddyfod: ond y pryd hwnnw fe fydd tragywyddoldeb o'u blaen i fyfyrio, ac ni fydd ganddynt yr un gwaith arall i'w wneuthur ond cofio eu hynfydrwydd a'u ffolineb. Yr oedd Duw wedi gorchymyn iddynt yn ei air, i ysgrifenu yr athrawiaeth hon, ynghylch eu cyflwr tragywyddol, ar byst eu tai, ar eu dwylaw, ac ar eu colonnau. Yr oedd efe wedi gorchymyn am i hyn fod yn ofal pennaf iddynt—sef crybwyll am ei air a'i ordinhadau, a phethau tragywyddol, pan eisteddent i lawr, a phan gyfodent i fynu, a phan eisteddent yn eu tai, a phan gerddent ar y ffordd; a chan iddynt wrthod y cyngor hwn o eiddo'r Arglwydd, bydd wedi ei ysgrifenu bob amser yn eu carchardy, fel pa le bynnag yr edrychont y y gwelont hynny o'u blaen. A pha mor ddirfawr fydd eu poenedigaeth i feddwl am y rhagorol ogoniant a gollasant? Pe buasai dim amgen nac iechyd, neu gyfoeth, neu gyfeillion, neu eu hoedl, ni fuasai'r pethau hyn oll ond llai na dim mewn cyffelybiaeth. Ond, O! meddwl eu bod hwy wedi colli tra-gogoneddus a thragywyddol bwys gogoniant! A pha fodd y bydd yr ystyriaeth o'r possiblrwydd a fu gynt ganddynt i'w fwynhau, yn ychwanegu eu poenedigaeth! Yna y cofiant ac y dywedant, "Bu'r amser pan yr oedd cystal gobaith i mi ac eraill i gael myned i mewn i'r deyrnas nefol honno!" Myfi a gefais fy ngosod ar chwareufwrdd y byd—neu yn hytrach, cefais fy anfon i'r winllan; a phe buaswn yn cyflawni fy rhàn a'm dyledswydd yn ffyddlon, ac yn iawn ddefnyddio y dalent a roddwyd i mi, gallaswn fod yn awr yn meddiannu'r etifeddiaeth! Gallaswn fod ymysg y seintiau gogoneddus fry, yn lle cael fy mhoeni gan y cythreuliaid uffernol hyn. Yr Arglwydd a osododd o'm blaen fywyd ac angau; a chan i mi ddewis angau, yr ydwyf yn haeddu

ei ddioddef. Y gamp uchel a osodwyd o'm blaen; a phe buaswn yn rhedeg yn llwyddiannus myfi a allaswn ei hynnill; a phe buaswn yn ymdrechu yn deg, myfi a allaswn gael y fuddugoliaeth: a phe buaswn yn ymladd yn wrol, myfi a allaswn dderbyn y goron. Ac ymhellach, bydd yr ystyriaeth hon yn eu poenidio, sef bod, nid yn unig yn bossibl iddynt ynnill y goron, ond y buasent hefyd yn bur debygol o lwyddo pe buasent yn ceisio â'u holl egni. Fe fydd hyn hefyd yn ychwanegu'r archoll; sef meddwl bod awelon yr Yspryd yn barod, y pryd hynny, i'w cynnorthwyo. "Myfi a lawn fwriedais unwaith (meddai rhyw un o'r trueiniaid hyn) y byddwn yn ddyn newydd. Yr oeddwn yn meddwl glynu wrth Grist, ac ymwrthod â'r byd. Yr oeddwn yn barod ryw dro i addunedu, i ymroddi fy hun i Dduw, ac i fod yn eiddo ef yn hollol. Yr oeddwn unwaith bron a throi, ac yn dechreu ymwadu â'm chwantau twyllodrus. Yr oeddwn wedi ymadael â fy hên gyfeillion, ac yn dechreu cymdeithasu â'r duwiolion. Er hynny myfi a droais yn ol, myfi a gollais fy ngafael, ac a dorrais fy addunedau. Yr oeddwn unwaith yn agos i gael fy ynnill i fod yn Gristion yn wir; ac etto, er hyn i gyd, myfi a orchfygais yr argyhoeddiadau hyn. Pa fath weithrediadau fyddai yn fy nghalon, pan fyddai rhyw weinidog ffyddlon yn gwasgu'r gwirionedd hyd adref. O mor deg, mor debyg, yr ymddangoswn unwaith i gael y nefoedd. Yr oeddwn ymron a'i chael; ac er hynny yn ei cholli. Pe buaswn yn canlyn ymlaen i geisio'r Arglwydd, buaswn yn awr ymhlith y seintiau bendigedig.

§ 13. Hyn hefyd a fydd yn ychwanegu eu gofid a'u poenau yn fawr; sef cofio'r amser, yr adeg, yr hamdden, a'r cyfleusdra a gollasant. Pa sawl wythnos, pa sawl mis, ië, pa sawl blwyddyn, meddai'r dyn truenus a gollais am byth, y rhai, pe buaswn yn eu hiawn ddefnyddio, gallaswn yn awr fod yn happus! Ys truan o ddyn ydwyf a allaswn i gael dim amser i gyflawni'r gwaith, at wneuthur yr hwn y rhoddwyd i mi fy holl amser! A fedrwn i gael

dim amser, gan ryw waith ofer a diles, i lafurio am dragywyddoldeb—am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol? A oedd gennyf ddigon o amser i fwyta, i yfed, ac i gysgu, a dim amser i achub fy enaid? A oedd gennyf amser at lawenydd a difyrwch cnawdol, ac i ymddiddanion ofer, a dim at weddio ar Dduw? A fedrwn i gymmeryd amser i drysori pethau'r byd, a dim hamdden i wybod fy hawl i'r nefoedd? O amser gwerthfawr a aeth heibio! Yr oedd gennyf unwaith gymmaint o hono; ond bellach, ni châf ddim yn ychwaneg! Yr oedd gennyf unwaith gymmaint o hono nas gwyddwn pa beth i wneyd âg ef, ond yn awr y mae wedi myned heibio, ac nis gellir ei alw'n ol. O na buasai gennyf un o'r blynyddoedd hynny i fyw drosodd drachefn! pa mor ddioedi yr edifarhawn! pa mor ddibaid, mor daer y gweddiwn! pa mor ofalus, mor ddiwyd y gwrandawn! pa mor fanwl yr holwn, ac y chwiliwn fy nghyflwr! pa mor ddichlyn, mor wiliadwrus y byddwn byw! Ond y mae hi yrwan yn rhy ddiweddar! Darfu hynny am byth.

§ 14. Bydd hefyd yn ychwanegiad mawr at eu trueni i gofio pa cyn amled y cawsant eu cynghori i droi. "Onid oedd y gweinidog yn ewyllysio'n fawr i mi gael diangc rhag y poenau hyn? Gyda pha fath gariad a mwyneidddra yr erfyniodd arnaf! ac etto, er hyn i gyd, onid oeddwn yn barod i gellwair ac i ddiystyru'r cwbl oll! Pa mor aml y cefais fy neffroi a'm hargyhoeddi ganddo? etto, mi a fygais ac a ddiffoddais y rhai hyn i gyd! Pa fodd yr agorodd ac y dynoethodd i mi ddrygioni fy nghalon, ac etto mor anewyllysgar oeddwn i wybod a gweled fy nhruenus gyflwr! O pa mor hyfryd y buasai ganddo fy ngweled yn troi o'r galon at Grist! Fy nghyfeillion duwiol hefyd a'm rhybuddient; hwy a ddywedent wrthyf pa beth fyddai y canlyniad o'm cyndynrwydd a'm hanystyriaeth o'r diwedd; ond nid oeddwn yn credu, nac yn gofalu dim yn yr hyn a ddywedent wrthyf. Pa mor hir yr ymostyngodd Duw i'm cymhell, i ddeisyf, ac erfyn arnaf ymgymmodi

âg ef! Pa fodd yr oedd ei Yspryd yn ymdrechu â'm calon, fel pe buasai yn anewyllysgar i gael ei naccau! Pa fodd yr oedd Crist yn sefyll ac yn curo Sabbath ar ol Sabbath, ac yn galw arnaf, gan ddywedyd, 'Agor, O bechadur! agor dy galon i dy Waredwr, ac mi a ddeuaf i mewn ac a swpperaf gyda thi, a thithau gyda minau? Paham yr ydwyt yn oedi? Pa hyd y bydd i wag feddyliau gael llettya o'th fewn? Oni fynni dderbyn maddeuant, a chael dy sancteiddio a'th wneuthur yn happus? Pa bryd y caiff hyn fod?'" O pa fodd y bydd i'r adgof o'r cyfryw gynnorthwyon ac annogaethau, a'r fath ddwyfol erfyniadau, gynnyrfu y rhai damniedig â hunan-gondemniad, a chynddaredd, ac euogrwydd! "A oedd raid i mi," medd rhyw un o honynt, "flino amynedd Crist? A oedd achos i mi wneuthur i Dduw'r nefoedd fy nghanlyn yn ddiles, hyd onid oeddwn wedi blino ei amynedd, yn gwaeddi ar fy ol, Dychwel! edifarha! O mor gyfiawn y mae'r amynedd hwnnw yn awr wedi troi'n ddigofaint, yr hwn sydd wedi syrthio arnaf gydag angerdd anocheladwy! Pan oedd yr Arglwydd yn galw arnaf, ac yn gofyn, 'Oni fynni dy lanhau? Pa bryd y caf wneuthur hyn i ti?' Yna yr attebais yn fy nghalon, neu o'r hyn lleiaf danghosais hynny yn fy mywyd, '*Nis mynnaf; nid ydwyf yn chwennych wneuthur o honot hynny byth i mi!*' Ac yn awr, pan y byddwyf yn gofyn, pa hyd y bydd cyn y caf fy ngollwng o'r poenau hyn? mor gyfiawn yr wyf yn derbyn yr un atteb, Nis cai byth bythol!"

§ 15. Pa mor llym a phigog i'r gydwybod hefyd fydd adgof o'r ammodau esmwyth, ar ba rai y gallasent ddiangc rhag y trueni hwnnw? Nid oedd hwn yn waith cyffelyb i symmud mynyddoedd, neu ddarostwng teyrnasoedd, neu gyflawni'r ddeddf i'r tippyn lleiaf, neu i foddloni cyfiawnder am eu holl droseddiadau, "Ond yr oedd yr iau yn esmwyth a'r baich yn ysgafn," y rhai y chwennychai Crist eu rhoddi arnynt. Nid oedd onid edifarhau, a'i dderbyn ef â'u holl galon megis Gwaredwr; ymwrthod

â phob happusrwydd arall, a chymmeryd yr Arglwydd yn ben daioni iddynt; ymwadu â'r byd a'r cnawd, ac ymostwng i'w lywodraeth addfwyn a graslawn ef; ac ymadael â'r ffyrdd a ddychymmygasant hwy eu hunain, a rhodio yn ei ffordd sanctaidd a hyfryd ef. "O," medd yr adyn tlawd sydd mewn poenau, "pa mor gyfiawn yr ydwyf yn dioddef hyn, gan na fynnwn gymmeryd y gofal lleiaf i beidio dyfod yma! Pa le yr oedd fy rheswm pan y gwrthodais y fath gynnyg graslawn, pan oeddwn yn galw'r Arglwydd yn 'Feistr tost,' ac yn barnu ei wasanaeth hyfryd ef yn gaethiwed, a gwasanaeth y diafol a'r cnawd yr unig ryddid! Onid oeddwn fil o weithiau yn waeth nac ynfyd, pan yr oeddwn yn beio ar ffordd sanctaidd Duw, ac yn tybied ei bod yn fwy dichlyn a ffurfiol nac oedd yn angenrheidiol? Pan yr oeddwn yn barnu gorchymynion Crist yn rhy gaethion, a phob peth a allwn ei wneuthur, tuag at fyd arall yn afreidiol? Pa beth a fuasai fy holl ddioddefiadau dros Grist, a'r hyn o ddaioni a allaswn wneuthur, i'w cymharu â'r poenau y rhai a raid i mi eu dioddef am byth? Oni fuasai'r nefoedd a gollais yn ddigon o daledigaeth am yr holl gam, y dirmyg a'r amharch a allaswn gael? A pha mor fuan y buaswn yno yn anghofio yr hyn oll a allaswn ei ddioddef yn y byd? A phe buasai Crist yn gorchymyn i mi wneuthur rhyw beth mawr,—byw mewn ofnau a thristwch gwastadol, neu ddioddef angau ganwaith drosodd, oni ddylaswn wneuthur hynny yn llawen? Pa faint mwy pan nad oedd ond dywedyd, 'Cred, a bydd gadwedig: cais fy wyneb, a'th enaid a fydd byw. Cymmer i fynu dy groes, a chanlyn fi, ac mi a roddaf i ti fywyd tragywyddol.' O gynnyg graslawn! O ammodau esmwyth! O adyn melldigedig, yr hwn ni fynnwn gymmeryd fy nghynghori i'w derbyn!"

§ 16. Hyn hefyd fydd yn ystyriaeth boenus, sef cofio am leied peth y gwerthasant fywyd tragywyddol. Pan y byddant yn cymharu gwerth mwyniant pechod, gydag anfeidrol werth taledigaeth y gwobrwy, pa fodd y bydd yr

anferth ragoriaeth yn eu llenwi â braw a synedigaeth! Meddwl am wael goeg-ddigrifwch y cnawd, neu glôd, neu barch marwolion, yr hwn sydd yn diflannu fel mŵg, neu feddiannu pentwr o aur yr hwn nid yw ond gwir sothach, ac wedi hynny meddwl am dragywyddol wynfyd y gogoniant! Yna y dywed y creadur colledig, "Ai dyma'r cwbl a gefais am fy enaid, am fy Nuw, ac am fy ngobaith o wynfyd yn y nefoedd!" Nid oes dim modd datgan na gosod allan y modd y bydd y meddyliau hyn yn briwo ac yn dryllio eu calonnau. Yna y bydd yr adyn truenus yn gwaeddi yn erbyn ei ynfydrwydd, gan ddywedyd, "O ynfyd colledig! a osodais i fy enaid ar werth am gan lleied pris a hyn! A wedais i fy Nuw am ychydig dom a llaid! A werthais i fy Iachawdwr, megis Judas, am ychydig arian! Nid oedd gennyf ond breuddwyd o wynfyd yn lle gobaith am y nefoedd. Ac yr awrhon, wedi i mi ddeffroi, y mae'r cwbl oll wedi diflannu! Y mae fy nhammaid wedi troi yn fustl, a'm cwppan yn wermod! Wedi i mi flino ar eu blâs, y pleser a ddarfu. Ai dyma'r hyn a gefais am y fath drysor gwerthfawr! Pa fath gyfnewid ynfyd a wnaethum! Pa elw a fuasai i mi, pe buaswn yn ynnill yr holl fyd, ac yn colli fy enaid? Ond, O, am gan lleied rhàn o'r byd hwn y gollyngais, megis o'm llaw, fy rhàn yn y gogoniant!" O na b'ai pechaduriaid yn cofio am hyn pan y maent yn nofio yn nigrifwch y cnawd, ac yn dychymmygu rhyw ffordd i fod yn oludog ac yn barchus yn y byd! pan y maent yn rhyfygus yn rhuthro i droseddiadau cyhoeddus a gwaradwyddus, ac yn pechu yn erbyn cerydd a llais eu cydwybod.

§ 17. Fe fydd hyn hefyd yn ychwanegu'n fawr at eu poenedigaeth, sef iddynt yn fyfyriol ac yn wirfoddol geisio eu dinystr eu hunain. Pe buasai arnynt ryw angenrheidrwydd i bechu, buasai hynny yn dyhuddo llawer ar euogrwydd annioddefol eu cydwybodau; neu pe buasent yn cael eu cospi am drosedd un arall; neu pe buasai rhyw un arall heblaw hwy eu hunain yn achos o'u dinystr. Ond

wrth feddwl mai eu dewisiad hwy eu hunain ydoedd hyn, ac nad oedd neb yn y byd a allasai eu cymmhell i bechu yn erbyn eu hewyllys: yr ystyriaeth o hyn a fydd yn ychwanegu at gnofeydd eu cydwybod. "Onid oedd gennyf ddigon o elynion yn y byd," meddai'r creadur truenus, "ac a oedd raid i mi fod yn elyn i mi fy hun? Ni buasai Duw yn rhoddi cymmaint o ryddid i'r gelyn diafol, nac i'r byd, a gadael iddo gael cymmaint llywodraeth arnaf, a'm cymmell i wneuthur y trosedd lleiaf yn erbyn fy ewyllys. Nid oedd iddynt hwy ond cennad i geisio twyllo a hudo, ond myfi fy hun a ymollyngais iddynt, ac a ymroddais i wneuthur y drwg. Ond a oedd angenrheidrwydd i mi godi fy llaw yn erbyn fy enaid fy hun, i dywallt gwaed fy einioes? Ni bu gennyf erioed y fath elyn a mi fy hun. Ni chynnygiodd Duw un amser ddaioni i'm henaid, na ddarfu i mi ei wrthod. Efe a'm llwythodd megis â thrugareddau, ac a adnewyddodd ei waredigaethau y naill ar ol y llall, i dynnu fy nghalon atto; ïe, efe a'm ceryddodd yn garedig, ac a wnaeth i mi riddfan dan faich fy anufudd-dod; ac er i mi addaw'n helaeth yn fy nghystudd, etto, er hyn i gyd, nid oeddwn yn ewyllysgar o'm calon i ufuddhau iddo." Fel hyn y bydd y pechaduriaid truenus hynny yn galw i gof pa fodd y buont yn achos o'u dinystr eu hunain; a'r ystyriaeth o hynny a fydd yn trywanu eu calonnau, gan feddwl hefyd am y modd y buont yn gwrthryfela mor gyndyn a rhyfygus yn erbyn Duw, ac yn ymostwng mor ewyllysgar i wasanaeth y diafol.

§ 18. Yr archoll hon yn eu cydwybodau a fydd etto yn ddyfnach, pan ystyriont, nid yn unig mai eu gwaith eu hun ydoedd, ond hefyd eu bod hwy wedi cymmeryd cymmaint poen a llafur i gyflawni eu damnedigaeth, fel ag y cymmerasant y gorchwyl yn eu llaw i weithio allan eu dinystr eu hunain, i wrthwynebu Yspryd Duw, i ddiddymmu effeithiau ei drugareddau ar y naill law, a'i farnedigaethau ar y llaw arall, ac hyd yn nod i leihau awdurdod ei air, i ddarostwng llywodraeth rheswm, ac i ddystewi

eu cydwybod! Hyn oll a ddeallasant ac a gyflawnasant. Er eu bod yn rhodio mewn perygl gwastadol o ddigofaint Duw, ac yn gwybod y gallai ef eu gosod yn y llwch, a'u taflu mewn mynyd i uffern, etto yr oeddent yn anturio hyn oll. O, y mawr boen a'r drafferth y mae pechaduriaid yn gymmeryd i'w damnio eu hunain! Gallasent yn hawdd fwynhau sobrwydd, ac iechyd, a heddwch ar ammodau îs ac esmwythach, ond yr oeddent yn dewis yn hytrach lodd-est a meddwdod, gyda thlodi, gwaradwydd ac afiechyd. Boddlonrwydd a allasent gael gydag esmwythdra a hyf-rydwch, er hynny hwy a ddewisasant gybydd-dod, mawr-edd, a goruchafiaeth, er iddynt eu ceisio gyda gofalon ac ofnau, lludded y corph, a blinder yspryd. Er i'w digof-aint eu poeni, a dial a chynfigen ysu eu hysprydoedd; er i halogrwydd ac aflendid ddinystrio eu cyrph, eu meddian-nau, a'u henw da; etto hwy a wnant ac a ddioddefant hyn oll yn hytrach na chaniatau i'w heneidiau fod yn gadwedig. Gyda pha fath wallgofrwydd a gwylltineb, y byddant yn cwyno o herwydd eu ffolineb, gan ddywedyd, "A oedd damnedigaeth yn werth fy holl boen a'm llafur? Onid allaswn fod yn golledig yn rhâd, heb ddim cost? A oedd yn rhaid i mi ei brynu mor ddrud? Meddyliais y gallaswn fod yn gadwedig heb drafferth na helbul, ac onid allaswn fod yn golledig hefyd heb gymmeryd cymmaint o boen? A oedd raid i mi fod mor llafurus i weithio allan fy nam-nedigaeth, pan ag yr oedd Duw wedi gorchymmyn i mi weithio allan fy iachawdwriaeth? Pe llafuriaswn gym-maint am y nefoedd ag a wnaethum am uffern, myfi a fu-aswn, mae'n debygol, wedi ei chael. Yr oeddwn yn gwaeddi allan yn erbyn trymder ffordd duwioldeb, ac mor flin ac anhyfryd oedd y gwaith o hunan-ymwadiad; ac er hyn oll, cymmerais lawer mwy o boen a blinder dros Sat-tan, fel y cawn farwolaeth yn daledigaeth. Pe buaswn yn caru Crist mor gryf ag y cerais fy mhleserau ac elw byd-ol ac anrhydedd, ac yn meddwl cyn amled am dano, ac yn ei geisio mor daer ac egniol, O mor ddedwydd y gall-

aswn fod yn awr! Ond yn gyfiawn yr ydwyf yn dioddef fflamau uffern, o herwydd i mi eu prynu mor ddrud, yn hytrach na derbyn y nefoedd pan yr oedd wedi ei phwrcasu at fy nwylaw."

§ 19. O na b'ai Duw yn dy ddeffroi, O ddarllenydd, i gymmeryd attat y meddyliau hyn, yn awr, rhag y trueni anrhaethol hwnnw, sef eu cymmeryd attat dy hun yn uffern, ac felly bod yn ddialwr ac yn boenidiwr arnat dy hun. Na ddywed nad ydynt ond pethau dychymmygol. Darllen yr hyn a feddyliodd Difes pan yr oedd mewn poenau. Luc, 16. Megis y mae'r enaid hwnnw yn unig yn mwynhau tangnefedd a chyssuron y nef, yr hwn sydd yn byw mewn cymmundeb â Duw, ac yngwasanaeth yr Arglwydd, ac felly yn ymddwyn megis creadur rhesymmol, felly hefyd y bydd raid i'r annuwiolion ddioddef poenau uffern, o herwydd eu bod wedi gwerthu eu hunain i wneuthur drwg, ac yn byw yngwasanaeth Satan a phechod. Ac megis y byddant yn ddynion, neu yn greaduriaid rhesymmol, mewn byd arall, felly hefyd y byddant yn dioddef neu yn mwynhau, yn ymddwyn ac yn ymresymmu megis dynion.

# PENNOD VI.

## TRUENI Y RHAI HYNNY AG SYDD YN COLLI, NID YN UNIG TRAGYWYDDOL ORPHWYSFA'R SAINT, OND HEFYD MWYNIANT AMSEROL, AC YN Y DIWEDD YN DIODDEF POENAU UFFERN.

§ 1. Cyttundeb a chyssondeb y bennod hon â'r un flaenorol. § 2. (1) Y mwyniant a'r hyfrydwch amserol y mae y rhai damniol yn eu colli. § 3. (1) Eu meddyliau rhyfygus am eu hawl yn Nghrist a Duw. § 4. (2) Eu gobaith, a'r pethau y maent yn ymddiried ynddynt. § 5. (3) Eu holl sail am heddwch cydwybod. § 6. (4) Eu holl ddifyrwch cnawdol. § 7. (5) Eu holl fawredd a'u pleserau darfodedig. § 8. (11) Poenau'r damnedigion sydd fawr iawn. § 9. (1) Yr awdwr o honynt yn fwyaf pennodol yw Duw ei hun. § 10. (2) Lle neu gyflwr y rhai damniol. § 11. (3) Y poenau hynny ydynt effeithiau dwyfol ddialedd. § 12. (4) Bydd yn hyfrydwch gan Dduw eu cyflawni. § 13.(5) Satan a gyflawna'r farn arnynt, a phechaduriaid a fyddant yn ymddialwyr arnynt eu hunain. § 14. (6) Y poenau hyn a fyddant yn gyflawn ar yr holl ddyn, gorph ac enaid. § 15. (7) Heb doliant na seibiant; § 16. (8) ac yn dragywyddol. § 17. Y pechadur rhyfygus yn cael ei argyhoeddi o'i ynfydrwydd gan ei fod yn rhuthro i'r poenau hyn. § 18. Yn cael ei gynghori i ffoi am ddiogelwch at Grist.

§ 1. Megis y mae i dduwioldeb addewid o'r byd sydd yr awr hon a'r hwn sydd i ddyfod; ac os bydd i ni geisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, bydd i'r holl bethau eraill ag sydd yn angenrheidiol arnom (ond o lai gwerth) gael eu rhoddi i ni yn ychwaneg; felly hefyd y bygythir difreinnio yr annuwiolion, o'u trugareddau tymhorol ac ysprydol; ac o herwydd na cheisiasant deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef yn gyntaf, hwy a gollant deyrnas nefoedd a'r pethau hynny hefyd yr oeddent yn eu ceisio; a'r ychydig hynny sydd ganddynt a gymmerir oddiarnynt Pe buasent yn medru dàl gafael yn eu mwyniant daearol, ac yn cael mwynhau eu pleserau yn y byd, ni buasent yn

gofalu nemawr am golli'r nefoedd; a phe buasent yn *colli* y cwbl oll, ac yn ymadael â phobpeth er mwyn Crist, hwy a fuasent yn *cael* pobpeth drachefn ynddo ef, canys efe a fuasai yn bobpeth iddynt. Ond yn awr y maent wedi gadael Crist er mwyn pethau eraill, ac o herwydd hynny hwy a gollant Grist, ac hefyd y pethau hynny, er mwyn pa rai y gadawsant ef, hyd yn nod mwyniant amserol, heblaw dioddef poenau uffern.

§ 2. (I.) *Am eu mwyniant daearol.* Ymhlith pethau eraill, hwy a gollant, yn fwyaf pennodol, eu rhyfygus, a'u hyderus grediniaeth o'u rhan yn ffafr Duw a haeddiant Crist; eu holl obaith; eu holl dwyllodrus heddwch cydwybod; eu holl lawenydd cnawdol; a'u holl anianol ddifyrwch.

§ 3. (1) Hwy a gollant eu rhyfygus grediniaeth o'u rhán yn ffafr Duw a haeddiant Crist. Y grediniaeth dwyllodrus, ddisail yma sydd yn awr yn cynnal eu hysprydoedd, sydd yn eu cadw rhag yr ofnau a'r dychryniadau hynny, a fyddant yn sicr o'u meddiannu, oni ba'i hyn. Ond pa beth a ysgafnhâ eu blinder, pan na allant gredu mwyach, na llawenhau yn hwy? Er i ddyn fod yn agos i'r perygl mwyaf a'r drygfyd mwyaf a all fod, etto, os bydd efe yn barnu ei hun mewn lle diogel, geill fod mor llawen ag eraill sydd heb fod yn y cyfryw sefyllfa ofnadwy. Pe na b'ai dim yn angenrheidiol tuag at ein gwneuthur yn happus, ond yn unig ein bod, neu y cawn fod felly, fe fyddai dedwyddwch yn fwy cyffredin nac y mae'n debyg o fod. Megis y mae gwir ffydd yn un o'r grasusau mwyaf hynod yn y rhai a adgenhedlwyd, felly hefyd y mae ffydd farw, neu ffugiol, yn un o'r beiau mwyaf cyffredin yn y rhai diadgenedledig, neu'r annuwiolion. Paham y mae'r fath luoedd etto yn eistedd yn llonydd ac yn ddifraw pan y gallent gael maddeuant, oni b'ai eu bod yn credu yn sicr eu bod hwy eisoes wedi cael trugaredd. Pe b'ai modd i chwi ofyn i filoedd yn uffern pa wallgofiad a'u dygoddd hwy yno, y rhàn fwyaf o honynt a attebent,—Yr oeddem

yn barnu yn sicr y byddem gadwedig, hyd oni wybuom ein bod wedi ein damnio. Nyni a fuasem yn fwy diwyd yn taer-geisio'r adenedigaeth a grym duwioldeb, oni buasai ein bod yn credu ein bod yn wir dduwiolion ac yn wir Grist'nogion o'r blaen. Yr oeddem yn twyllo ein hunain, ac yn gwênieithio i ni ein hunain, hyd oni ddaethom o'r diwedd i'r lle poenus hwn, ac yn awr nid oes waredigaeth i'w chael. Ddarllenydd, rhaid i mi fod yn ffyddlon, a dywedyd wrthyt y bydd y gobaith twyllodrus a'r grediniaeth ryfygus sydd gan luaws o annuwiolion, sef y rhai difraw, halogedig, a'r rhai sydd heb erioed gael eu darostwng, eu plygu a'u cyfnewid ynghylch eu cyflwr, ei fod yn dda, na fydd hyn oll, yn y diwedd, ond amryfusedd cadarn i ddinystrio eu heneidiau. Nid oes yn uffern ddim o'r fath grediniaeth a hyn. Nid oedd hynny ond dichell Satan, fel y byddai iddynt, yn gibddall, ei ganlyn ef yn fwy hyfion i uffern : ond y pryd hynny, efe a dynn ymaith y gorchudd, a hwy a gant weled pa le y maent.

§ 4. (2) Hwy a gollant hefyd eu holl obeithion, neu, yn hytrach, yr holl bethau hynny ag yr oeddent yn gobeitho ynddynt. Yn y bywyd yma, er eu bod yn cael eu bygwth â digofaint Duw, etto y mae y gobaith y diangant yn cynnal eu calonnau. Prin y medrwn ymddiddan â'r meddwyn, neu'r tyngwr a'r rhegwr mwyaf anystyriol, neu'r erlidiwr a'r cellweiriwr pennaf, nad ydyw yn gobeithio bod yn gadwedig yn y diwedd. O fyd dedwydd, pe buasai iachawdwriaeth mor hawdd a chyffredin a'r gobaith yma; ïe, mae lle i feddwl y bydd y gobaith yma mor gryf, fel y bydd i ddynion ddadleu o'r achos gyda Christ ei hun yn nydd y farn, a haeru eu bod wedi bwyta ac yfed yn ei wydd, ac wedi prophwydo a bwrw allan gythreuliaid yn ei enw. Hwy a wadant yn gadarn na ddarfu iddynt erioed esgeuluso Crist pan yr oedd yn newynog, neu yn noeth, neu yngharchar, hyd onis gwrthbrofir eu honniadau anwireddus ganddo, drwy ddatgan eu barn a'u condemniad. Oh! gyflwr gresynnus y dynion

hynny, pan fydd raid iddynt ymadael â'u holl obaith. "*Pan fyddo marw dyn drygionus, fe ddarfu am ei obaith ef, a gobaith y traws a gyfrgollir.*" Diar. 11 : 6. Llygaid yr annuwiolion a ddiffygiant, metha ganddynt ffoi, a'u gobaith fydd fel ymadawiad yr enaid. Job, 11 : 20. Y mae ymadawiad yr enaid, neu roddi i fynu'r yspryd (fel y mae'r geiriau'n arwyddocau,) yn ddarlun pur gymmwys, ond dychrynadwy iawn, o'r modd y mae dyn drwg yn rhoddi i fynu ei obaith. Megis nad ydyw'r enaid yn ymadael â'r corph heb ddirfawr boen, felly hefyd y mae gobaith yr annuwiol yn ymadael. Y mae'r enaid yn ymadael â'r corph yn ddisymmwth, wedi bod yn lletteua yno yn hyfryd efallai lawer o flynyddoedd; ac yn y cyfryw fodd y mae gobaith y drygionus yn diflanu. Ni ddychwel yr enaid mwyach i feddiannu'r corph yn y byd hwn; felly hefyd y mae gobaith yr annuwiol yn ymadael â'i enaid dros byth. Trwy wyrthiau'r adgyfodiad y cydunir y corph â'r enaid drachefn, ond nis adnewyddir gobaith y rhai colledig trwy'r fath wyrthiau mwyach yn dragywydd. Myfi a feddyliwn mai'r olwg fwyaf truenus yn y byd yw gweled dyn annuwiol yn marw, a'i holl obaith yn diflannu gydag ymadawiad yr enaid. A chyda pha fath gyfnewidiad y mae efe yn ymddangos mewn byd arall! Yna pe b'ai dyn yn gallu gofyn i'r enaid diobaith hwnnw, A ydych chwi yn awr mor hyderus ynghylch eich hiachawdwriaeth ag yr oeddech gynt? pa fath atteb galarusa dderbyniai! Oh! na b'ai pechaduriaid difraw yn cael eu deffroi i ystyried y pethau hyn mewn pryd. Ddarllenydd, na fydded i ti orphwys hyd onis gelli roddi rheswm am dy holl obaith, a'i fod wedi ei sylfaenu ar addewidion ysgrythyrol; a bod y cyfryw obaith hefyd yn foddion i buro dy galon, yn adfywio dy ymegniadau a'th ymdrechiadau mewn duwioldeb; ac fel y mae dy obaith yn cynnyddu, felly dy fod yn pechu llai, a'th fod yn fwy dichlyn yn dy ymarweddiad, ac yn fwy ffyddlon a gofalus yn dy ufudd-dod. Os ydyw dy obaith y cyfryw a hyn, dos rhagot yn enw yr

Arglwydd : dal afael yn dy obaith, ac nis gwaradwyddir mo honot yn dragywyddol. Ond os nad oes gennyt un arwydd eglur o waith grâs ar dy galon, bwrw ymaith dy obaith am fod yn gadwedig heb dy ail-eni, neu weled teyrnas Dduw heb sancteiddrwydd, neu gael rhàn yn Nghrist onid ydwyt yn ei garu yn fwy na thad na mam, ïe, na dy einioes dy hun hefyd. Ofni, neu anobeithio fel hyn, nad oes modd i ti fod yn gadwedig heb y cyfryw ffydd a gobaith a hyn yw'r cam cyntaf tua'r nefoedd. Os bydd dyn allan o'r iawn ffordd, pa beth sydd iddo i'w wneuthur i ddyfod yn ei ôl? pa foddion a raid iddo arfer tuag at ddychwelyd? Onid ofni neu anobeithio na ddaw ef byth i ben ei daith yn y ffordd y mae efe ynddi, sef wedi iddo golli yr iawn ffordd? Os bydd ei artref tua'r dwyrain, ac yntau yn cerdded tua'r gorllewin; tra y mae efe yn meddwl ei fod ar yr iawn ffordd, efe a â ymlaen, a thra y mae efe yn myned ymlaen, y mae efe yn myned ymhellach allan o'r iawn ffordd; a phan y mae efe yn dechreu anobeithio myned adref, oni fydd iddo droi yn ei ol? Yna y dychwel efe; ac wedi hynny y gall ddechreu gobeithio. Yn union yr un dull a hyn y mae gyda dy enaid dithau, O bechadur. Yr ydwyt wedi cael dy eni allan o'r ffordd i'r nefoedd, ac yr ydwyt wedi myned ymlaen yn hollol wrthwyneb i'r iawn ffordd er ys llawer blwyddyn. Yr ydwyt yn myned ymlaen, gan obeithio y byddi gadwedig, o herwydd nad ydwyt cyn waethed a llawer o ddynion eraill. Gan hynny, oni fydd i ti fwrw ymaith y cyfryw obaith twyllodrus, a chael dy ddwyn i weled dy fod yr holl amser hyn wedi bod yn crwydro allan o'r iawn ffordd i'r nefoedd; oni fydd i ti ganfod hyn, meddaf, ni ddychweli byth yn ol, fel y byddot gadwedig. Nid oes un peth yn y byd mor debygol i gadw dy enaid allan o'r nefoedd a'th obaith twyllodrus o fod yn gadwedig, a thithau allan yn hollol o ffordd iachawdwriaeth. Gwelwch gan hynny gymmaint y bydd hyn yn ychwanegu trueni y damnedigion, gan y bydd iddynt golli, heblaw y nefoedd, eu holl obaith hefyd o

6*

gael myned yno, yr hwn sydd yn awr yn eu cynnal.

§ 5. (3) Yn nesaf, hwy a gollant yr heddwch cydwybod twyllodrus hwnnw ag sydd yn gwneuthur eu bywyd presennol mor esmwyth. Pwy a feddyliai (gan weled mor anystyriol y mae'r byd o bechaduriaid yn byw) y byddai raid iddynt ar fyrder orwedd i lawr yn y fflamau tragywyddol! Y maent mor rhydd oddiwrth ofn uffern a'r credadyn mwyaf ufudd, a llawer o honynt a llai o anesmwythder meddwl na'r rhai a fyddant gadwedig; a pha fath ddynion dedwydd a fyddent pe parhëai'r heddwch yma? Ond pan ddywedant tangnefedd a diogelwch, yna y mae dinystr disymmwth yn dyfod ar eu gwarthaf, megis gwewyr esgor ar un a fo beichiog, ac ni ddiangant hwy ddim. 1 Thes. 5 : 3. O dangnefedd creulon, yr hwn a fydd yn diweddu yn y fath ryfel marwol! Y mae enaid pob dyn wrth naturiaeth yn deml Satan, neu, yn hytrach, ei gastell byddinog; ac y mae pob peth mewn heddwch gyda'r cyfryw un, hyd oni ddel Crist a dwyn yno ddychryniadau barn ac uffern, ac yn ei guro a'i ysgwydo âg ofnau ac â bygythion, ac yn ei gymmell i ymostwng iddo, fel nad oes ganddo un ffordd arall i ddiangc ond drwy ymbil am drugaredd a maddeuant, a'i gymmeryd ef yn llywodraethwr. Yna y mae efe yn bwrw allan Satan, yn ei orchfygu, ac yn cymmeryd oddiwrtho yr holl arfogaeth yr oedd yn ymddiried ynddo, ac yn rhannu ei yspail. Luc, 11 : 22 Yna y mae efe yn sefydlu heddwch gwirioneddol a pharhaus. Os ydwyt gan hynny yn aros yn yr heddwch twyllodrus cyntaf hwnnw, na ddisgwyl iddo fod yn sefydlog. A ddichon dy enaid gael heddwch parhaus, a thithau mewn gelyniaeth yn erbyn Duw? A ddichon pechadur gael heddwch â Duw wedi cyhoeddi rhyfel yn ei erbyn? Nis gallaf ddymuno i ti fwy daioni nac i Dduw ddryllio dy galon ddifraw, a'th ysgwydo di allan o'r heddwch twyllodrus hyn, a gwneuthur i ti orwedd i lawr wrth draed yr Iesu, gan ddywedyd, Arglwydd, beth a fynni di i mi ei wneuthur? ac yna bod i ti dderbyn ganddo ef well a sicr-

ach heddwch, yr hwn nis cwbl dorir un amser, ond a fydd i ti yn ddechreuad heddwch tragywyddol, yr hwn ni ddiwedda yn dy ddiwedd di, megis heddwch y byd yr hwn sydd yn ddisylfaen.

§ 6. (4) Hwy a gollant eu holl ddifyrwch cnawdol: a hwy eu hunain a ddywedant am chwerthin, ynfyd yw; ac am lawenydd, pa beth a wna? Preg. 2 : 2. Nid oedd ond megis clindarddach drain dan grochan; Preg. 7 : 6; yr oedd yn cynneu yn ddisglaer dros dro, ac yna yn diflannu yn ddisymmwth, ac ni ddychwelai mwyach. Yr oedd ymddiddan am angau a'r farn a fydd yn gâs ganddynt, o herwydd ei fod yn rhwystro eu difyrrwch. Nis gallent ddioddef meddwl am eu pechodau a'u perygl, am fod y cyfryw feddyliau yn gostwng eu hysprydoedd. Nis gwyddent pa beth oedd wylo am eu pechodau, nac ymostwng eu hunain dan alluog law Duw. Hwy a fedrent chwerthin ymaith dristwch, a chanu ymaith eu gofalon—a gyrru i ffordd y fath feddyliau pruddion, trymion, isel; hwy a feddylient y buasai myfyrio a gweddio yn ddigon i'w gwneuthur yn druenus, neu i'w gyrru yn ynfyd. Eneidiau tlodion! pa mor druenus fydd y bywyd hwnnw, lle na bydd i chwi gael dim ond tristwch dwfn, parhaus, torrgalonnus! ïe tristwch ar dristwch! a lle na chewch lawenydd y saint, na'ch llawenydd eich hunain a'ch gwag ddigrifwch gynt? A ydych chwi yn tybied fod un galon lawen yn uffern? neu un wyneb siriol, neu dafod cellweirus? Yr ydych yn haeru yn awr fod ychydig o lawenydd yn werth llawer o dristwch; ond, yn ddiau, fe fuasai ychydig o dduwiol-dristwch (a hynny dros fyr amser, a'r hwn a fuasai yn terfynu mewn llawenydd tragywyddol) yn werth llawer mwy na'ch holl lawenydd ynfyd, canys diwedd y cyfryw lawenydd yw tristwch.

§ 7. (5) Hwy a gollant eu holl ddifyrrwch cnawdol, a'u holl wynfyd daearol, yr hyn a gyfrifent eu daioni pennaf; ïe, eu *nefoedd!* eu *Duw!* Y rhai hyn a gollant yn gystal a cholli Duw ei hun. Pa fath gwymp a fydd i'r dyn sydd

wedi ei ddyrchafu mewn anrhydedd daearol? Y dyn balch, y rheolwr a'r gorthrymwr, yn colli ei holl oruchafiaeth! Ac wedi ei ddarostwng i'r pridd, ni bydd neb yn gwybod dim gwahaniaeth rhwng ei lwch a'i esgyrn ef a llwch ac esgyrn y cardottyn tlottaf, ac ni bydd mwy o barch i'w enaid ef na'u heneidiau hwythau. Pa fath nifer o'r mawrion, a'r pendefigion, a'r dysgedigion, a gânt eu cau allan o bresenoldeb Crist, y rhai ni chant fwynhau yn hwy eu palasau gwychion, eu gwelyau esmwyth, a'u clustogau sidanaidd? Ni chânt ganfod mwyach eu gerddi hyfryd, eu dolydd têg, eu cynhauaf ffrwythlon, a'u hysguboriau llawnion. Ni bydd yno ddanteithion ar eu byrddau, na mawrion yn cydeistedd i lawr, a gweision yn gweini iddynt bob peth angenrheidiol. Nid yw'r glwth cyfoethog yno yn cael ei ddilladu â phorphor ac a lliain main, nac yn cael byd da yn helaethwych beunydd. Yno ni bydd disgwyl am glod, a pharch, a syndod, a rhyfeddod yr edrychwyr. Hwy a fyddant yn treulio eu hamser mewn tristwch a galar, ac nid mewn campau, a chwareuyddiaeth, a difyrrwch cnawdol. Pa mor fawr fydd y cyfnewidiad a gânt weled yno? Fe fydd gwŷn, trachwant, a gwres anlladrwydd wedi darfod y pryd hwnnw! Y fath dorr-calon fydd iddynt edrych y naill yn wyneb y llall! Pa fath gyfarfod a fydd rhyngddynt y pryd hwnnw, pan fyddant yn melldithio'r diwrnod y gwelsant eu gilydd gyntaf! Oh! na b'ai pechaduriaid yn cofio hyn, ac yn gofyn iddynt eu hunain, a ddaw'r danteithion, y moethau, a'r pleserau hyn i'm canlyn i fyd arall? ac oni fydd meddwl am danynt y pryd hwnnw yn ein poeni? neu, a fyddwn ni y pryd hynny yn barnu bod pechaduriaid yn gydgyfrannogion mewn drygioni, yn gyfeillgarwch caredig? A phaham y gwnawn ni werthu ac ymadael â'r cyfryw lawenydd anrhaethadwy a thragywyddol am fwyniant mor fyr ac ansicr o bleserau darfodedig? Deuwch, a chan ein bod wedi pechu ynghyd, gadewch i ni weddio hefyd gyda'n gilydd am i Dduw faddeu i ni. Gadewch i ni gyn-

horthwyo y naill y llall tua'r nefoedd, yn lle gwneuthur hynny a fedrom i dwyllo a dinystrio ein gilydd. Oh! na b'ai dynion yn gwybod pa fath, a pha mor ddrwg er eu lles, yw llawer o'r pethau y maent yn eu dymuno, yn enwedig pan y maent yn ewyllysio cael peth tuag at borthi eu blys, a thuag at wasanaethu chwantau'r cnawd. Nid yw hyn ddim amgen nac ewyllysio i'w profedigaethau gael eu hychwanegu, ac i rwydau a maglau'r diafol gael eu lliosogi.

§ 8. (11) Megis ag y bydd y golled o orphwysfa'r saint yn ymddangos yn fwy chwerw a gofidus, o herwydd eu bod hwy wedi colli pleserau'r byd a phob mwyniant daearol, felly hefyd y bydd eu poenau yn cael eu chwanegu'n fwy o lawer, wrth ystyried hyn. Gellir deall, mewn rhan, doster y poenau, ac mor fawr ac annioddefol ydynt, os gwnawn ystyried yr Awdwr o honynt, sef Duw ei hun —y lle o boenau, neu gyflwr y rhai colledig—mai ffrwythau, neu arwyddion o ddial dwyfol, yw'r poenau hynny —bod yr Hollalluog yn cymmeryd hyfrydwch neu blesser ynddynt, (sef ynghospedigaeth yr annuwiolion)—mai Satan a phechaduraid eu hunain fydd yr offerynau yn llaw Duw i gyflawni'r gosp, ac felly yn ymddialwyr arnynt eu hunain—y bydd y poenau hynny yn gyflawn, yn cyrhaedd i bob rhan o'r corph a'r enaid, yn ddiseibiant, yn ddiorphwys, ac yn ddiddiwedd.

§ 9. (1) Y *pen Awdwr* o boenau uffern yw Duw ei hun. Ac megis nad oedd yr hwn y troseddodd pechaduriaid yn ei erbyn ddim llai nâ Duw ei hun, felly hefyd nid llai nâ Duw fydd yr un a'u cospa hwynt am eu troseddiadau. Y mae efe wedi parottoi'r poenau hynny ar fedr ei elynion. Ei ddigofaint parhaus a fydd bob amser yn eu hyssu hwynt. Anadl ei lid, ac angerdd ei ddigllonrwydd a fyddant yn ennyn y fflammau. Ei ddigofaint ef a fydd yn faich annioddefol i'w heneidiau. Pe buasai hyn ddim ond rhyw beth rhyngddynt hwy a rhyw greadur arall, fe fuasai yn hawsach iddynt ei ddioddef: ond gwae'r hwn

a syrthio dan wïalennodiau'r Hollalluog! Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw, Heb. 10 : 31; canys pe buasai'r holl fyd yn eu herbyn, a phe buasai nerth, a grym, a chryfder yr holl greaduriaid wedi ei gydgyssylltu i'w poeni a'u cospi, ni fuasai hyn oll ddim i'w gyffelybu i ddigofaint Duw. Etto gwell ganddynt yn awr droseddu yn erbyn Duw na digio eu meistr tir, neu un o'u cwsmeriaid, neu eu meistr, neu gyfaill, neu ryw gymmydog, neu wneuthur unrhyw beth a fyddai yn groes i'w natur, neu farweiddio trachwant, neu ymwadu â'u pechod mynwesol. Ond y pryd hynny, hwy a ddymunant fil o weithiau (etto yn ofer a diles) pe digwyddasai iddynt eu bod yn gâs gan yr holl fyd yn hytrach nac iddynt golli ffafr Duw. Y fath dân yssol yw ei ddigofaint! Os ennynir ef yma, ïe, ond ychydig, yr ydym yn gwywo fel glaswellt! Mor fuan y mae ein nerth yn pallu, ac yn troi yn wendid, a'n tegwch yn wrthuni! Nid cyn gyflymmed yr yssa'r ffagl dân y sofl ac y dinystria digofaint Duw bechaduriaid anhydyn. Y rhai hynny ni fedrent ddioddef na charchar na merthyrdod yma er mwyn Crist, ïe, na phrin erlidigaeth, na gogan, na gwatwor, pa fodd y bydd i'r cyfryw rai y pryd hynny ddioddef angerdd fflammau a ffaglau tân digofaint Duw?

§ 10. (2) Y lle, neu'r cyflwr poenedig hwnnw, sydd hefyd wedi ei ordeinio i ddangos ac i ddyrchafu cyfiawnder Duw. Pan yr oedd Duw yn chwennych gogoneddu ei nerth a'i allu anfeidrol, efe a wnaeth y bydoedd. Ac y mae pob peth a greodd yn eglurhau ei ddoethineb, gan eu bod wedi eu gwneuthur mor hardd, mor drefnus, ac mor rheolaidd, ac yn atteb y diben i ba un y gwnaed hwynt oll: ac y mae ei Ragluniaeth yn ymddangos yn hyn, sef, o herwydd ei fod yn cynnal ac yn goruwch-lywodraethu pobpeth. Pan yr ennynodd gwreichionnen o'i lidiawgrwydd gynt ar y ddaear, yna y boddodd yr holl fyd oddyeithr wyth dyn; Sodom a Gomorrah hefyd, ac Admah a Zeboim, a losgwyd â thân o'r nefoedd; y môr

a gauodd o amgylch rhai, a'r ddaear a ymagorodd ac a lyngcodd eraill; a'r plâ yn dinystrio miloedd. Pa fath dyst safadwy a pharhaus o ddigofaint Duw yw cyflwr truenus yr Iuddewon yn bresennol? Ond etto, er hyn i gyd, fe ogonneddir Duw yn fwy, a'i drugaredd a'i gyfiawnder a ymddangosant yn fwy eglur, yn o byd y ddaw; ac megis ag y bydd iddo y pryd hynny ogoneddu ei drugaredd mewn ffordd ag a fydd uwchlaw amgyffred y seintiau hynny ag sydd yn ei fwynhau fwyaf, felly hefyd yr eglurha efe ei gyfiawnder yn y cyfryw fodd ag yr ymddengys ei fod yn gyfiawnder Duw. Ac ni thybia efe fflammau uffern yn rhy boeth i'r pechaduriaid cyndyn a gwrthryfelgar; ac wedi iddynt losgi yno, dros fyrddiwn o flynyddau, nis edifarha efe o'r drwg a syrthiodd arnynt. A gwae i'r enaid hwnnw a fyddo fel hyn wedi ei osod i fynu yn nôd i saethau'r Hollalluog, neu megis yn berth i'w llosgi gan ffaglau ei eiddigedd, a fflammau cynddaredd ei lidiawgrwydd, ac etto heb eu difa.

§ 11. (3) Poenau'r damnedigion fyddant, yn ddiau, yn ddirfawr, yn erchyll, ac yn anfeidrol, o herwydd effeithiau dwyfol ddialedd ydynt. Digofaint sydd ofnadwy, eithr y mae dialedd yn anghymmodol, yn ddiwala, ac yn ddiarbed. Pan fydd i'r Hollalluog ddywedyd yn ei lid: "Yn awr fy nghreaduriaid gwrthryfelgar a gant ddioddef, o herwydd eu diystyrwch o'm hamynedd a'm dioddefgarwch. Cofiwch fel y disgwyliais wrthych yn ofer, fel yr ymostyngais i'ch rhybuddio, i'ch cynghori, ïe, i erfyn arnoch. A oeddech chwi yn tybied y buaswn yn cymmeryd fy niystyru felly yr holl amser?" Yna y bydd efe yn dial am bob camddefnydd ac esgeulusdra o'i drugaredd, am eu holl ddiystyrwch o Grist a moddion grâs. Oh! na b'ai dynion yn gweled ac yn ystyried hyn mewn amser, ac yn ceisio ymostwng a boddio Duw yn well, ac felly yn rhagflaenu'r farn a'r gospedigaeth.

§ 12. (4) Ystyriwch hefyd, er fod Duw yn ewyllysio yn hytrach i ddynion dderbyn Crist, a thrugaredd, a

maddeuant, etto pan y maent yn dal i barhau yn gyndyn ac yn gildynnus yn eu gwrthryfelgarwch, efe a gymmer hyfrydwch yn eu dinystr a'u cospedigaeth. Ac er ei fod yn dywedyd "Nid oes *lidiawgrwydd ynof*," etto y mae efe yn llefaru drachefn fel hyn, "Pwy a osodai fieri a drain yn fy erbyn mewn rhyfel? Myfi a awn drwyddynt, myfi a'u llosgwn hwynt ynghyd." Esaia, 27 : 4. a 27 : 11. Oh! greaduriaid truenus gan hynny, canys y mae efe yn dywedyd ymhellach: "Am hynny yr hwn a'u gwnaeth ni thosturia wrthynt, a'r hwn a'u lluniodd ni thrugarha wrthynt. Ac megis y llawenychodd yr Arglwydd ynddynt i wneuthur iddynt ddaioni; felly y llawenycha efe hefyd i'w dinystrio a'u difetha," Deut. 28 : 63, megis y gwnaeth efe i'r Israeliaid gynt; a gwae fydd i'r eneidiau hynny, y rhai y mae yr Arglwydd yn llawenychu i'w cospi a'u poeni. Canys y mae efe yn dywedyd yn y Diarhebion, Minnau hefyd a chwarddaf yn eich dialedd chwi, mi a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei ofni. Diar. 1 : 26, 27. A pha mor ofnadwy a fydd hyn, pan na fedr neb yn y nef na'r ddaear roddi cymmorth iddynt, ond Duw yn unig, ac efe a lawenycha yn eu dinystr, ac a chwardd yn eu dialedd. Etto, er bod yr Ysgrythyr yn dywedyd am Dduw, ei fod yn *chwerthin* ac yn *gwawdio*, nid ydym i ddeall y geiriau hyn yn ol y llythyren, ond mewn ffordd ddynol o siarad, gan ei fod yn ymddarostwng i'n gwendidau ni, ac yn gosod hynny allan yn ol ein dealltwriaeth ni, ac wrth hyn y mae i ni ddeall y bydd cospedigaeth pechaduriaid mor ofnadwy, fel na ellir ei osod allan mewn unrhyw eiriau eraill, fel y byddo i ddynion amgyffred y peth yn iawn.

§ 13. (5) Ystyriwch ymhellach, mai Satan a phechaduriaid eu hunain fydd y swyddogion a fyddant yn cyflawni'r farn; a'r un a fu mor llwyddiannus yn eu hudo a'u denu oddiwrth Grist fydd y pryd hynny yn eu cospi am ymollwng i'r brofedigaeth a syrthio i'w rwyd. Hyn a fydd y daledigaeth a rydd efe iddynt am eu holl wasan-

aeth ; am wrthod gorchymynion Duw, a gwadu Crist, ac esgeuluso eu heneidiau trwy annogiad a dichellion y diafol. Ond pe buasent hwy wedi gwasanaethu Crist mor ffyddlon ag y gwnaethant y cythraul, efe a fuasai yn rho'i iddynt well taledigaeth. Cyfiawn iawn hefyd yw iddynt fod yn boenidwyr arnynt eu hunain, a chael o honynt weled fod eu dinystr o honynt eu hunain ; a chan hynny ni fedrant achwyn ar neb ond arnynt eu hunain yn unig:

14. (6) Ystyriwch hefyd ymhellach, fod eu poenau yn cyflawn feddiannu'r holl ddyn, gorph ac enaid. Megis y mae pob rhàn ac aelod o'r corph wedi cytuno i bechu, felly hefyd y bydd yn rhaid iddynt oll fod yn gyfrannogion o'r poenau a'r gospedigaeth. A chan fod yr enaid yn llywodraethu, ac wedi bod yn bennaf yn y pechod, felly hefyd y bydd yn dioddef yn bennaf;—a chan ei fod yn uwch, ac a natur fwy rhinweddol nâ'r corph, felly hefyd y bydd poenau a chospedigaeth yr enaid yn rhagori ar ddioddefiadau'r corph ;—ac megis y mae llawenydd yr enaid yn rhagori ar bob llawenydd anianol, felly hefyd y mae poenau a thrueni'r enaid yn fwy dirfawr nâ phoenau corphorol. Nid yn unig yr enaid a raid ddioddef, ond hefyd *enaid pechadurus*. Ni losg tân oni bydd y tanwydd yn sychion ; ond os golosg sychion a fydd y coed, pa mor angerddol y bydd fflam a gwres y tanllwyth ! Fe fydd euogrwydd eu pechodau, i'r eneidiau damnedig, megis golosg, neu bylor *(gun powder,)* i wneuthur i fflammau uffern afael ynddynt a'u difa yn fwy ofnadwy ac angerddol. Bydd raid i'r corph hefyd ddioddef ei ràn : y corph hwnnw yr oeddent mor ofalus am dano, yn ei besci mór foethus a danteithiol, ac yn ei ddilladu mor hardd a thrwsiadus, pa gymmaint a fydd yn rhaid iddo yn awr ddioddef? Pa fodd y mae ei ucheldrem wedi ei thynnu i lawr! Pa gyn lleied yr edrych y fflammau ar ei degwch a'i harddwch! Y llygaid hynny, y rhai a fyddent arferol o gael gweled pob peth ag oedd hyfryd a gwych i'r olwg,

ni chânt y pryd hynny ganfod dim ond pethau ofnadwy a dychrynadwy; a'r Duw hwnnw, yr hwn a ddigiasant, uwch eu pennau; a'r seintiau hynny, y rhai a ddiystyrasant, yn mwynhau'r gogoniant hwnnw a gollasant hwy; ac o'u hamgylch hwy ni bydd neb ond cythreuliaid ac eneidiau colledig. Pa fodd yr edrychant yn ol ac y dywedant, "*A ddaeth ein holl wleddoedd,* a'n campau, a'n gwyl-mabsantau, a'n llawenydd, a'n digrifwch i'r fath ddiwedd a hyn!" Y clustiau hynny, y rhai a fyddent arferol o glywed peroriaeth a chanu, ni chant wrando ar ddim mwyach ond oergri, nadau, a llefain eu cyfeillion colledig! Y plant yn gwaeddi allan yn erbyn eu rhieni, y rhai a osodasant siamplau drwg o'u blaen, ac a'u hannogasant mewn drygioni a phechod! Gwyr a gwragedd, meistriaid a gweision, gweinidogion a gwrandawyr y gair, swyddogion a deiliaid, yn achwyn ar eu gilydd, ac yn cyhuddo'r naill y llall, o herwydd eu bod wedi dyfod i'r poenau annioddefol hynny, ac o herwydd eu bod hwy gynt yn rhwystr i'w gilydd i gyflawni eu dyledswydd; yn cydddwyn â'u gilydd, ac yn cyd-annog y naill y llall i bechu, ac yn tewi ac yn peidio a cheryddu eu cyfeillion, pan y dylasent eu cynghori a'u rhybuddio o'u perygl. Fel hyn y bydd y corph a'r enaid yn gyd-gyfeillion mewn gwae a thrueni.

§ 15. (7) Ymhellach, fe fydd y poenau hyn yn fwy o lawer o herwydd y byddant yn ddidoliant, ac yn ddiseibiant. Yn y byd hwn, pan y byddid yn sôn wrthynt am uffern, neu pan y byddai eu cydwybôd yn eu cyhuddo ac yn eu haflonyddu, yr oedd ganddynt ryw gyssurwyr yn agos; eu cyfeillion ofer, eu gwaith a'u galwedigaeth, eu cymdeithion, a'u llawenydd, a'u difyrrwch. Hwy a allasent y pryd hynny yfed, neu chwareu, neu gysgu ymaith eu gofalon a'u gôfidiau; ond yn awr y mae'r holl feddyginiaethau hyn wedi diflannu. Yr oedd eu calon galed, ryfygus, ac anghrediniol y pryd hyn megis mur o'u hamgylch, ac yn gastell i'w hamddiffyn yn erbyn blinder ys-

pryd. Satan neu'r Diafol ei hun oedd eu cynghorwr a'u cyssurwr, yr un fath ac y bu i ein mam gyntaf, Efa: "*Ai diau ddywedyd o Dduw, Na fwyttewch o hono?* ni byddwch feirw ddim! A ydyw Duw yn dywedyd wrthych y cewch chwi orwedd yn uffern? Ni fydd i hyn fod: mae Duw yn fwy trugarog. Neu, os oes y fath le ag uffern, pa achos i chwi ofni y cewch fyned yno? Onid ydych chwi yn Gristionogion? Oni chollodd Crist ei waed drosoch chwi!" Felly, megis ag y mae Yspryd Crist yn ddiddanydd y seintiau, felly hefyd y mae Satan yn gyssurwr y rhai annuwiol. Nid oes yr un lleidr yn fwy gofalus rhag iddo ddeffroi pobl y tŷ y mae efe yn ei dorri ac yn ei yspeilio, nag y mae'r diafol i beidio dihuno'r pechadur. Ond wedi iddo farw, yna y mae Satan yn darfod gwenieithio iddo a'i gyssuro. Pa ffordd gan hynny yr edrych y pechadur truan a cholledig hwn am gyssur? Y rhai hynny a'i tynnasant ef i'r rhwyd, ac a addawasant iddo ddiogelwch, sydd yn awr yn ei adael ef, ac yn cael eu gadael gan eraill. Mae ei gyssuron wedi ymadael; a'r Duw cyfiawn (rhybuddion yr hwn a ddistyrodd efe) a fydd yn awr yn sicr o gyflawni ei air yn ei erbyn hyd at y tippyn lleiaf.

§ 16. (8) Ond yr hyn a fydd yn ychwanegu creulonder a thoster y poenau yn fwyaf dim, fydd yr ystyriaeth o'u parhad, sef y byddant yn dragywydd. Pan y bydd myrdd myrddiwn o oesoedd wedi myned heibio, hwy a fyddant mor newydd yn dechreu a'r diwrnod cyntaf. Pe buasai rhyw obaith o ddiwedd arnynt, fe fuasai yn gyssur i'r damnedigion ragweled hynny: ond am byth! neu yn dragywydd! Mae'r meddwl am hyn yn ddigon i dorri eu calonnau, ac felly yn annioddefol. Ni fyddent hwy yn blino'n pechu, ac ni flina Duw yn eu cospi hwythau. Ni fynnent hwy edifarhau â'u holl galon am eu pechodau, ac ni bydd edifar gan Dduw eu cospi hwythau. Hwy a dorrasant gyfraith, ac a droseddasant orchymynion y tragywyddol Dduw, ac am hynny hwy a gânt ddioddef

cospedigaeth dragywyddol. Hwy a wyddent eu bod yn gwrthod teyrnas dragywyddol, a pha ryfeddod os bydd iddynt hwy gael eu cau allan yn dragywydd! Yr oedd eu heneidiau anfarwol yn euog o'r trosedd, a chan hynny rhaid iddynt ddioddef poenau tragywyddol. Pa ryw fath ddynion dedwydd y cyfrifasent eu hunain pe buasent yn cael aros yn llonydd yn eu beddau, neu yn cael caniattad i fyned i orwedd yno drachefn? Pa fodd y byddant yn galw ac yn gwaeddi, "O angau, i ba le yr aethost? Tyred yr awr hon, a chymmer oddiwrthyf y bywyd truenus hwn. Oh! na b'ai y poenau hyn yn torri fy nghalon, ac yn diweddu fy hoedl! Oh! na bawn yn cael marw unwaith etto! Oh! na buaswn heb erioed gael fy ngeni i'r byd." Y cyfryw riddfannau a hyn fydd i'r meddyliau am dragywyddoldeb wasgu o'u calonnau. Yr oeddent yn arferol o weled pregethau a gweddiau yn hirion; ond pa mor hir y meddyliant yr arteithiau a'r dialeddau diddiwedd hyn! Pa mor anfeidrol gan hynny y gwahaniaeth, a'r rhagoriaeth rhwng parhad eu pleserau yn y byd, y rhai nid oeddent ond am funud awr, a'r poenau annioddefol hyn! y rhai a barhant yn ddiseibiant i bob tragywyddoldeb. Cofia, O bechadur, fod dy amser yn y byd yn bur agos a dirwyn i fynu. Yr ydwyt yn sefyll megis wrth ddrws tragywyddoldeb; ac y mae angau yn barod i agor y drws, a'th ollwng di i mewn. Dos a chysga ychydig nosweithiau yn ychwaneg, a cherdd oddiamgylch ychydig ddyddiau yn ychwaneg ar y ddaear, ac wedi hynny y derfydd dy holl nosweithiau a'th ddyddiau yn y byd hwn —dy feddyliau, dy ofalon, dy bleserau, a fyddant i gyd oll yn cael eu llyngcu i fynu yn nhragywyddoldeb! rhaid i ti fyned i mewn a dechreu ar y bywyd, a'r cyflwr truenus ac anghyfnewidiol hwnnw, na fydd byth ddiwedd iddo. Megis ag y mae llawenydd a hyfrydwch y nef uwchlaw amgyffred dyn, felly hefyd y mae poenau uffern. Y mae poenau tragywyddol a diderfyn uwchlaw dealltwriaeth ac amgyffred plant dynion.

§ 17. Ond myfi a feddyliwn fy mod yn gweled y pechadur cyndyn yn penderfynu, mewn anobaith, ac yn dywedyd, "Os rhaid i mi gael fy *namnio*, nid oes meddyginiaeth—nid oes modd diangc gan hynny. Yn hytrach na byw fel y mae yr Ysgrythyr yn gorchymyn, myfi a âf yn mlaen ar antur. Ni bydd waeth arnaf fi na'r rhan fwyaf o'm cymmydogion—*A nyni a wnawn ei dioddef cyn gystal ac y medrom.*" Och! och! greadur gwael ac ynfyd, y fath ag ydwyt, gad i mi ddymuno arnat, cyn i ti benderfynu myned ymlaen yn dy yrfa wallgofus; gad i mi erfyn arnat roddi i mi wrandawiad pwyllog ac ystyriol, tra y gofynwyf i ti, Pwy, neu pa beth, ydwyt ti fel y medrit ddioddef digofaint Duw? Pa un ai Duw ai dyn ydwyt? Pa beth, neu pa faint yw'th nerth, a'th allu, a'th gryfder? Ni fydd dy holl gadernid yn erbyn Duw ond gwaelach na chŵyr neu sofl o flaen y tân yssol, neu megis ûs o flaen y gwynt, neu lŵch yr heolydd o flaen y corwynt nerthol. Pe b'ai dy gadernid megis haiarn, a'th esgyrn fel prês; pe wedi dy sylfaenu fel y ddaear, a'th gadernid megis colofnau'r nefoedd; etto tydi a ddiflennit gydag anadl ei lidiawgrwydd. A pha faint mwy ynte pan nad ydwyt ond telpyn o glai anadledig, ac yn cael dy gadw dros ychydig ddyddiau rhag cael dy yssu gan bryfaid trwy ei drugaredd a'i dosturi ef, yr hwn yr ydwyt yn ei wrthsefyll ac yn gwrthryfela yn ei erbyn? Paham yr ydwyt yn crynu o flaen arwyddion nerth ac argoelion digofaint yr Hollalluog? Paham y byddi yn dychrynu wrth glywed taranau, neu wrth weled mellt yn goleuo, y rhai sydd yn hysbysu ei gadernid, a'r rhai a eilw'r Salmydd "*Llef yr Arglwydd,*" y rhai sydd yn rhwygo'r coedydd, ac yn dryllio yn ysgyrion y derw cadarnaf—yn dadymchwel yn llwyr yr adeiladau gwychaf a godidocaf; neu, paham yr ydwyt yn ofni y plâ dinystriol, pan y mae yn anrheithio o'th amgylch? Pe buasit yn canfod plâau yr *Aipht,* neu'r ddaear yn agor ei safn i lyngcu Dathan ac Abiram, neu yn gweled Elias yn galw am dân o'r nefoedd i ddinystrio'r capteiniaid a'u

cynnulleidfaoedd—oni fuasai'r olwg ar *un* o'r rhai hyn yn dy ddychrynu? Oni fuasit yn delwi yn y fan, a'th enaid yn darfod ynot? Pa fodd gan hynny y gelli di ddioddef y plâau uffernol hynny? Paham yr ydwyt yn edwi ac yn dihoeni dan y poen a'r gofid lleiaf a distadlaf—rhyw ddoluriau ysgafn, y rhai a ddigwyddant i ti yma—sef y ddannodd, sangiad o'r gymmalwst (*gout*,) neu'r garreg, bod yn ol o ryw aelod; syrthio i dlodi; neu fod dan ryw adfyd, neu waradwydd? Ac etto, ti a gyfrifit y rhai hyn i gyd yn gyssylltiedig (ryw amser sydd i ddyfod) lawer yn ysgafnach; ïe, y boen o honynt yn gyflwr o ddedwyddwch mewn cyffelybiaeth i'r hyn a ddioddefi yn uffern. A phaham y mae meddwl am angau, a'r ystyriaeth ei fod yn agos attat, yn dy frawychu cyn gymmaint? Oh! pa mor oeraidd y mae hynny yn treiddio at dy galon! Ac oni chyfrifit y bedd yn baradwys mewn cymmhariaeth i'r lle hwnnw o boenau, yr hwn yr ydwyt yn cymmeryd arnat ei ddiystyru? Ai anoddefadwy i ti losgi un aelod o'th gorph trwy ei ddal yn y tân? Pa fodd y medri ddioddef ddengmilwaith cymmaint yn uffern dros oesoedd tragywyddoldeb? A phaham y bydd y meddwl, neu sôn am uffern, yn peri cymmaint o aflonyddwch a chythrwfl yn dy yspryd? Ac a elli di ddioddef y poenau anrhaethol hynny? A phaham yr oedd y glwth cyfoethog hwnnw yn y ddammeg, yn cwyno wrth Abraham o herwydd y poenau hynny yn uffern? A phaham y bydd dy gyfeillion, wrth glywed son am y cyfryw le, yn colli eu calondid, ac yn troi, ac yn cyfnewid eu hiaith falch a'u hymddiddanion ymffrostgar? A phaham na fedr y rhai hyn ddiystyru uffern yn gystadl a thithau? Ac oni welaist ti, neu oni fuost ti erioed yn ymddiddan â dyn mewn cyflwr anobeithiol, neu mewn blinder yspryd? Mor ddigyssur yr oedd ei ymadrodd, a'i fywyd yn faich trwm iddo! Nid oedd dim o'i holl feddiannau, nac un o'i holl berthynasau, yn gwneuthur dim lleshâd, nac yn rhoddi dim cyssur iddo. Nid oedd ganddo ddim blas mewn na bwyd na diod. Yr

oedd golwg ar ei hen gyfeillion yn ei gythryblu a'i aflonyddu. Yr oedd yn flin ganddo fyw, ac etto yn ofni marw. Os gellir dioddef trueni'r damnedigion, paham nad allai dyn ddioddef yn hawddach y rhagbrofion bychain hyn o uffern? Pa beth a ddigwyddai pe byddit yn gweled y cythraul yn ymddangos i ti mewn rhyw lun dychrynadwy? Oni fyddai dy galon yn darfod o'th fewn, a'th wallt yn sefyll gan fraw a synnedigaeth? A pha fodd y gelli ddioddef dros dragywyddoldeb yn y fan lle na bydd i ti ddim cyfeillion ond cythreuliaid a damnedigion? Ac nid yn unig eu gweled, ond cael cyd-ddioddef â hwynt, a hwythau yn dialeddu arnat ac yn dy ddirboeni? A gad i mi unwaith etto ofyn i ti, os ydyw digofaint Duw mor fychan o beth, paham yr oedd Mab Duw ei hun yn gwneuthur cymmaint o hono, ac yn ei weled mor fawr? Onid oedd yn gwneuthur iddo chwysu megis dafnau mawr o waed, yn syrthio i'r ddaear? Ac Arglwydd y bywyd a waeddodd allan, "*Trist iawn yw fy enaid hyd angau;*" ac ar y groes, "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" Yn ddiau, pe buasai rhywun yn gallu dioddef digofaint Duw, a'r holl waradwydd a'r poenau hyn, yn hawdd, onid Iesu Grist a fuasai yn abl i wneuthur hynny? Yr oedd efe yn meddiannu mwy o allu a chadernid i ddioddef y cyfryw bethau nag sydd gennyt ti. Gwae a fydd i ti, O bechadur cyndyn, o herwydd dy fod mor ynfyd a meddwl dy fod mewn diogelwch! A ydwyt ti mor ffol a disgwyl mai hawdd i ti fydd yr hyn oedd mor galed a phwysfawr i Grist! Ie, yr oedd Mab Duw mewn chwerw ing, ac mewn chwys gwaedlyd, dan *felldith y gyfraith yn unig;* ac etto yr wyt ti, greadur gwael, ynfyd, yn ei farnu yn beth ysgafn, i ddioddef, hefyd, felldith yr efengyl, yr hon sydd yn gofyn cymmaint *mwy cospedigaeth.* Heb. 10 : 29. Y Duw graslawn a thrugarog a'th ddygo i edifeirwch, rhag i ti, yn y diwedd, brynu dy edifeirwch yn rhy ddrud.

§ 18. Ac yn awr, ddarllenydd, yr ydwyf yn gofyn dy fwriad? Pa ddefnydd a wnei o hyn oll? A gaiff y cwbl

fod yn ofer, yn ddifudd, ac yn ddileshad? neu, a wyt ti yn bwriadu ystyried y pethau hyn yn ddifrifol? Yr ydwyt wedi bwrw heibio lawer rhybudd oddiwrth Dduw, ac a wnei di felly â hwn hefyd? Cymmer ofal, gwylia; canys ni wna Duw sefyll bob amser yn dy rybuddio ac yn dy fygythio! Mae llaw dialedd yn barod i gael ei dyrchafu, a'r dyrnod ymron disgyn ar dy ben, a gwae i'r dyn hwnnw ar ba un y syrthia! A ydwyt ti yn barod i droi heibio'r llyfr, a dywedyd, "Nid yw hwn yn sôn am ddim ond am uffern a damnedigaeth." Fel hyn hefyd yr oeddit yn achwyn ar y pregethwr. Ac onid ydwyt yn ewyllysio i ni ddywedyd i ti am y pethau hyn? A fynnit ti i ni fod yn euog, neu orfod atteb am waed dy enaid, trwy dewi a pheidio dywedyd yr hyn a orchymynodd Duw i ni ei hyspysu i ti? A ewyllysit ti ddarfod am danat mewn llonyddwch a distawrwydd, ac i ninnau gael ein dinystrio gyda thi, yn hytrach na'th ddigio trwy ddywedyd y gwirionedd? Os ydwyt ti yn ewyllysio bod yn euog o'r cyfryw annynol greulondeb, na atto Duw i ninnau hefyd fod yn euog o'r fath anferth ynfydrwydd. Nyni a wyddom mai dyma'r union ffordd i ni gael ein casâu, sef ysgrifenu neu bregethu fel hyn. A chan fod y rhàn fwyaf yn caru parch ac anrhydedd, ychydig iawn, ysywaeth, sydd mor ffyddlon a dywedyd y câs-wir wrth eu cydnabod a'u cyfeillion annuwiol. Ond yr wyf yn gofyn i ti, ac yn dymuno arnat ystyried, a ydyw'r pethau hyn yn wir ai nad ydynt? Ac oni buasent yn wir, myfi a fuaswn yn cydymuno â thi o'm calon yn erbyn pawb a fuasai yn ceisio dychrynu pobl fel hyn heb achos. Ond os gwirioneddau gair Duw yw'r bygythion hyn, pa fath ddyn truenus, pa fath adyn ynfyd wyt ti, na fynnit wrando arnynt na'u hystyried? Os ydwyt yn un o bobl Dduw, fe fydd yr athrawiaeth hon yn gyssur ac nid yn ddychryndod i ti. Os ydwyt ti etto heb dy ail eni, ac heb edifarhau am dy bechodau, myfi a feddyliwn y dylai fod arnat gymmaint o ofn clywed am nefoedd ac am uffern, onid ydwyt yn tybied fod y geiriau yn

unig, a sôn am nefoedd ac iachawdwriaeth, yn ddigonol i'th achub. Dyben ac ystyr pregethu i ti am y nefoedd a thrugaredd yw, dy gael i'w ceisio â'th holl galon, ac nid eu gwrthod;—a hyn yr ydwyf yn ei erfyn arnat er mwyn Crist Iesu;—ac yr ydym yn traethu ac yn pregethu ynghylch uffern, gan ddymuno arnat ei gochel, ffoi oddiwrthi, a diangc i'r noddfa. Pe na buasai dim dichon i ti ddiangc, nac yr un modd i ti ffoi, ni buasai ond gwaith ofer dy rybuddio rhag myned i uffern. Ond tra yr ydwyt yn fyw y mae pob gobaith am danat, ac y mae'n angenrheidiol arfer pob moddion i'th gyffroi o'th anystyriaeth. Oh! pa galon a ddichon byth amgyffred, na thafod draethu, y fath boenau ofnadwy y mae'r eneidiau hynny yn eu dioddef ag sydd dan ddigofaint Duw. Y pryd hynny y byddwch chwi, O bechaduriaid anystyriol, yn llefain ar Grist Iesu, "*Oh! trugaredd! Oh! tosturi! Oh! cymmer drugaredd ar fy enaid tlawd.*" Ond, Oh! ddyn ystyria mewn amser, a gwel fy mod i yn erfyn arnat yn enw'r Arglwydd Iesu, i dosturio wrthyt dy hun, i gymmeryd trugaredd ar dy enaid dy hun. A ydwyt ti yn tybied y trugarha Duw wrthyt ti pan nad ydwyt yn medru tosturio wrthyt dy hun? Pan fydd dy geffyl yn gweled rhyw dwll neu bydew o'i flaen, nid hawdd y gelli ei yrru i mewn iddo; ac a fyddi di mor ynfyd a diddeall a thaflu dy hun i uffern pan yr ydwyt yn cael dy ragrybuddio o'r perygl? Canys *pwy a saif o flaen ei lid ef, a phwy a gyfyd ynghynddaredd digofaint yr Hollalluog.* Nah. 1 : 6. Myfi a feddyliwn y byddai hyn yn ddigon, ac na byddai yn angenrheidiol ychwanegu geiriau, ac y byddit ti yn barod i fwrw ymaith dy bechodau damniol a dinystriol yn ddioed, a'th roddi dy hun i fynu yn hollol i Grist. Cymmer y cyfryw fwriad attat, a gwna hynny yn ddioed, fel y caffwyf weled dy wyneb ymhlith y saint yn yr orphwysfa nefol honno. A Duw a ddarostyngo dy galon i *daro* y cyfammod hwn âg ef heb oedi yn hwy! Ond os ydwyt wedi caledu i farwolaeth, ac nad oes gobaith na disgwyliad mwy, nag un feddyginiaeth i'th ach-

ub, na ddywed etto ryw amser i ddyfod, neu ryw dro ar ol hyn, na chefaist ti erioed dy gynghori na'th rybuddio, ond bydded i ti gofio fod genyt gynt gyfaill ffyddlon a fynnasai ragflaenu a rhwystro dy ddamnedigaeth.

# PENNOD VII.

## YR ANGENRHEIDRWYDD O DDYFAL-GEISIO GORPHWYSFA'R SAINT.

§ 1. Gorphwysfa'r Saint yn cael ei hesgeuluso'n hynod, yn enwedig § 2. Gan y rhai â meddyliau bydol, § 3. A chan y werinos aflan; § 4. Gan y proffesswr ffurfiol, § 5–8. A chan y rhai duwiol eu hunain, pa un ai swyddogion, gweinidogion, neu y cyhoeddus. § 9. Y mae'r awdwr yn galaru'r esgeulusdra, ac yn annog y darllenydd i ddiwydrwydd, trwy ystyried—§ 10. Y dyben yr ydym yn ei olygu; y gwaith sydd gennym i'w wneuthur; byrdra ac ansicrwydd ein hamser, a diwydrwydd ein gelynion; § 11. Ein talentau, ein trugareddau, ein perthynas i Dduw, ein cystuddiau. § 12. Pa gynnorthwyon sydd gennym; pa ddaliadau yr ydym yn eu proffessu; a'i bod yn eglur na fedrwn ni byth wneuthur digon. § 13. Bod pob gras yn tueddu i ddiwydrwydd; ac mai gwaith ofer yw bod yn anystyriol; bod llawer o'n hamser yn cael ei gamdreulio; ac y bydd y taledigaeth yn gyfattebol i'r llafur a'r diwydrwydd. § 14. Mai trefn a gorchymyn Duw yw ymdrechu; ac y mae pawb yn cymmeradwyo hynny, neu hwy a wnant ryw dro; ac y mae'r Cristinon goreu, yn amser ei farwolaeth, yn galaru o eisiau hynny—ac o eisiau hynny y mae'r nefoedd yn cael ei cholli yn fynych, ac nid yw byth i'w chael heb hynny. § 15. Y mae Duw, a Christ, a'r Yspryd Glân, o wir ddifrifwch, yn disgwyl wrthym—mae Duw yn dangos hynny trwy wrando ac atteb gweddiau. Mae gweinidogion yr efengyl yn ddiwyd ac yn bryssur yn eu cynghorion a'u haddysgiadau, a'r holl greaduriaid yn ddiwyd yn ein gwasanaeth. Yr annuwiolion yn ddiwyd yn gwasanaethu'r diafol, megis ag yr oeddem ninnau gynt, ac yr ydym etto yn rhy dueddol i fod mewn pethau bydol; ac yn y nefoedd, ac yn uffern, y mae pawb yn ddiwyd ac yn bryssur. § 16. Y mae'r pen hwn yn diweddu gyda rhai gofyniadau deffrous i'r annuwiolion, ac—§ 17. Hefyd, i'r rhai duwiol.

§ 1. Os oes gorphwysfa mor sicr a gogoneddus i'r seintiau, pa fodd na fyddai mwy o ddyfal ymdrechu am dani?

Ac fe feddyliai rhywun, pe b'ai dyn ond unwaith yn clywed am y fath annhraethol ogoniant ag sydd i'w gael, ac yn credu yr hyn a glywodd, y byddai yn barod i dragorfoleddu a llawenychu, gan y mawr ddymuniad o hono; ac felly ni byddai iddo ond prin iawn gymmeryd amser i fwyta nac i yfed, na meddwl, na siarad am ddim arall, ond pa fodd y byddai iddo fwynhau y cyfryw drysor; ac eto y mae pobl ag sydd yn clywed beunydd am hyn, ac yn proffesu credu hynny megis un o byngciau sylfaenol eu ffydd, yn gofalu ac yn llafurio cyn lleied yn nghylch hynny a phe buasent heb erioed glywed son am y fath le, neu heb gredu un gair ag oeddent yn ei glywed. Mae'r bai a'r diffyg yma yn perthyn, yn fwyaf pennodol, i'r rhai â meddyliau bydol, i'r werin aflan ac anystyriol, i'r proffeswyr ffurfiol, ac hyd yn nôd i'r duwiolion eu hunain.

§ 2. Mae'r dynion bydol a'u meddyliau gymmaint ar bethau isod, fel nad oes ganddynt na chalon nac amser i geisio'r orphwysfa hon. O bechaduriaid ynfyd, pwy a'ch llygad-dynnodd chwi? Mae'r byd yn cyfnewid dynion, ac yn eu gwneuthur megis anifeiliaid direswm, ac yn eu gyrru ymlaen amryw raddau tu hwnt i wallgofrwydd. Gwelwch y fath farchogaeth, rhedeg, ymrysson ac ymgrybinio y sydd am ryw beth gwael, distadl, tra y mae'r orphwyafa dragywyddol yn cael ei hesgeuluso! Pa gymmaint o drefnu ac arfaethu y modd i ddyrchafu eu hunain ryw ychydig raddau yn uwch yn y byd na'u brodyr, tra y maent yn diystyru brenhinol oruchafiaeth y seintau! Y fath ymlid diwala ar ol pleserau cnawdol, tra y maent yn edrych ar y gwaith o foliannu Duw, yr hyn yw llawenydd angylion, megis baich blin! Y fath ddiwydrwydd diflino i ddyrchafu eu plant a'u hiliogaeth, i helaethu eu meddiannau, (ïe, fe allai, am ryw fywoliaeth wael, o'r llaw i'r genau, fel y dywedir,) tra y mae dydd y farn yn agoshau! ond nid ydynt yn ystyried dros un awr pa fodd yr ymdarawant, ac yr attebant hwy yn y dydd mawr ac ofnadwy

hwnnw! Y fath godi yn foreu a myned yn hwyr i gysgu, a llafurio o flwyddyn i flwyddyn, i gynnal eu hunain a'u plant mewn parch a bri tra y byddont byw yn y byd! ond nid ydynt yn gofalu pa beth a ddigwydd iddynt ar ol y bywyd hwn! Ac etto y mae'r dynion hyn yn gwaeddi, Onid allwn ni fod yn gadwedig heb gymmaint o drafferth a hyn? Pa mor foreu y byddant yn galw eu gweision at eu gwaith, ond pa mor anaml y byddant yn eu gwahodd i weddi, neu yn eu cymmell i ddarllen yr ysgrythyrau? Pa beth a wnaeth y byd hwn i'w gyfeillion ac i'r rhai hynny sydd yn ei garu, pan y maent mor awyddus yn canlyn ar ei ol, ac yn ei geisio mor ofalus, tra y mae Crist a'r nefoedd yn cael sefyll megis o'r neilltu, ac ychydig yn eu hystyried? neu pa beth a wna'r byd iddynt rhagllaw? Y ffordd i mewn iddo sydd trwy boen gofid, a thristwch; y ffordd trwyddo sydd trwy helbul trallod, gofal a llafur; a'r mynediad allan o hono sydd gyfyngach nâ'r cwbl oll. O ddynion afresymol, y rhai a lygad-dynnwyd, a wna llawenydd a hyfrydwch lynu wrthych a'ch canlyn yn wastadol? A fydd aur ac arian ac anrhydedd y byd, yn gyfeillion ffyddlon ac yn gynnorthwyon digonol i chwi yn nydd trallod, ac yn amser eich hymweliad mwyaf cyfyng? A wrandawant hwy eich llais mewn cyfyngder? A fedrant hwy eich hatteb neu eich cymmorth yn awr angau? A ânt hwy gyda chwi i'r byd arall, a rhoddi gwobr i'r Barnwr fel y gollynger chwi yn rhyddion, neu bwrcasu i chwi sefyllfa ymysg y rhai bendigedig? Os felly, paham ynte yr oedd y gwr goludog yn ceisio dafn o ddwfr i oeri ei dafod? Neu a ydyw'r tammeidiau melus o barch ac anrhydedd, a mwyniant daearol, o fwy gwerth nâ'r orphwysfa dragywyddol? Neu, a fyddant hwy yn daledigaeth ddigonol am y fath drysor parhaus? Neu, yn hytrach, a oes gennych chwi y gobaith lleiaf y bydd y cyfryw wagedd disylwedd yn gyssur i chwi? Och! fyd gwael twyllodrus! pa mor aml y clywsom dy weision mwyaf ufudd a ffyddlon yn cwyno: "Och!

y mae'r byd wedi fy nhwyllo, a fy siommi yn fawr! ïe, wedi fy andwyo. Yr oedd yn gwenu arnaf, ac yn gwenieithio i mi yn fy llwyddiant, ond yn awr yn fy niystyru a'm gwrthod yn fy nghyfyngder. Pe buaswn wedi gwasanaethu Crist mor ffyddon ac y gwasanaethais y byd, ni fuasai yn fy ngadael fel hyn mor ddigyssur, diymgeledd a diobaith." Dyma fel y maent yn cwyno, ac etto ni chymmer pechaduriaid eraill ddim rhybudd.

§ 3. Ond am y lliaws halogedig, ni fynnant eu cynghori i gymmeryd cymmaint o boen am eu hiachawdwriaeth a chyflawni dyledswyddau allanol cyffredin crefydd a duwioldeb. Os bydd yr efengyl yn cael ei phregethu yn y dref lle y maent yn byw, fe allai yr ânt i wrando un rhàn o'r diwrnod, ac aros gartref y rhàn arall; neu os daw y meistr i'r cyfarfod, bydd raid i rai o'r tylwyth aros gartref. Ac os na fydd yr efengyl yn cael ei phregethu yno yn ei phurdeb, a chydag awdurdod, ac yn cael ei gwneuthur yn effeithiol, cyn lleied o nifer a geir yn yr holl dref, y rhai a gerddant filldir neu ddwy i wrando yn y wlad, neu i ryw gwrr arall, er y byddant yn ewyllysgar iawn i fyned lawer milldir i'r farchnad i brynu lluniaeth tuag at gynhaliaeth y corph! Hwy a wyddant mai yr Ysgrythyr Lân yw cyfraith yr Arglwydd, wrth ba un y bydd yn rhaid iddynt gael eu barnu, a'u condemnio neu eu rhyddhau o flaen y frawdle fawr, ac mai dedwydd yw'r dyn sydd yn ymhyfrydu ynghyfraith yr Arglwydd, ac yn myfyrio ynddi ddydd a nos, etto ni chymmerant gymmaint poen a darllen un bennod yn y dydd. Os cymmerant Fibl i'r eglwys, ac wedi hynny ei esgeuluso trwy'r wythnos, dyna'r defnydd mwyaf y maent yn ei wneuthur o hono. Er y gorchymynnir iddynt weddio'n ddibaid, a gweddio yn wastadol, etto ni fynnant weddio yn feunyddiol yn eu teuluoedd nac yn y dirgel. Er i Daniel ddewis ei daflu i ffau'r llewod yn hytrach na pheidio a gweddio dair gwaith yn y dydd yn ei dŷ ei hun, lle y byddai ei elynion yn ei glywed, etto gwell gan y dynion hyn ruthro ymlaen, a bod yn

ysglyfaeth tragywyddol i Satan, (y llew rhuadwy,) na cheisio diogelwch y ffordd hon. Neu, y mae eu gweddiau oeraidd a difywyd, yn temptio Duw i'w naccau; canys ymysg dynion yr ydys yn ystyried fod yr hwn sydd yn gofyn yn anaml ac yn oeraidd, mor ddiofal ag esgeulus fel nad yw efe yn gofalu llawer pa un a wnelo ai llwyddo ai peidio. Ac y mae'n ymddangos fod y rhai hynny yn barnu eu hunain yn anheilwng o'r nefoedd, y rhai nid ydynt yn meddwl eu bod yn haeddiannol o'u dymuniad a'u gweddiau gwastadol. Pe b'ai pob tŷ neu ddrws wedi ei nodi, lle nad ydyw'r teuluoedd yn taer geisio'r Arglwydd foreu a hwyr mewn gweddi, a phe b'ai ei ddigofaint yn cael ei dywallt allan yn erbyn y cyfryw deuluoedd diweddi, fe fyddai ein trefydd megis lleoedd wedi eu dymchwelyd a'u dinystrio gan ryw blâ echryslon, a'r trigolion yn feirw oddifewn, ac arwyddion o'r farn oddiallan. Ac yr ydwyf yn ofni, am bob *un* a fyddai yn diangc, y byddai *deg* o dai yn cael eu nodi allan i ddinystr, ac yna gallent ddysgu'r drysau i weddio, "Arglwydd, trugarha wrthym;" canys y trigolion eu hunain ni fynnent weddio: yn enwedig pe baech yn medru gweled pa beth y mae dynion yn ei wneuthur yn eu hystafelloedd dirgel, pa ryw ychydig o rifedi a gaech yn treulio un chwarter awr foreu a hwyr mewn dyfal erfyniadau ar Dduw dros eu heneidiau. Och! pa gyn lleied y mae'r cyfryw ddynion yn ei feddwl am y dragywyddol orphwysfa, a pha mor ddiystyr y maent o honi; ac mewn syrthni o'r fath hyn, y maent yn esgeuluso pob ymröad ac ymdrechiadau am iachawdwriaeth eu heneidiau, ond yn unig rhyw ddyledswydd gyhoeddus yn y gynnulleidfa, yr hon y mae arfer, neu eu bri a'u cymmeriad yn y byd, yn eu rhwymo i'w chyflawni. Ceisiwch eu hannog i ddarllen llyfrau da ac i ddysgu egwyddorion eu crefydd yn y *catecism*, a chadw yn sanctaidd ddydd yr Arglwydd mewn gweddi a duwiol fyfyrdodau, a gwrando'r gair, ac ymgroesi ac ymgadw rhag pob meddyliau ac ymddiddanion bydol, pa mor drym

llyd y cyfrifent y fath fywyd a hyn! fel pe baent yn meddwl nad ydyw'r nefoedd yn werth cymmaint poen, na gwneuthur cymmaint er mwyn ei chael.

§ 4. Math arall ydyw'r proffeswyr ffurfiol, y rhai y gellir eu dwyn i'r ddyledswydd allanol, ond nis ceir hwynt mewn un modd i waith tufewnol ac ysprydol crefydd. Hwy a bregethant, a wrandawant, a ddarllenant, neu a ymddiddanant am y nefoedd, ac a weddiant yn eu teuluoedd, ac a safant o blaid y duwiolion a phob daioni, ac a ewyllysiant gael eu cyfrif ymysg y rhai ag sydd yn ofni Duw; ond ni fedrwch mewn un modd gael ganddynt ddyfod i'r dyledswyddau mwyaf ysprydol, megis i fod yn ddyfal ac yn wresog mewn gweddi ddirgel a myfyrdod; yn gydwybodol mewn hunan-ymholiad, ac o feddyliau nefolaidd; ac yn wyliadwrus ar eu calonnau, eu geiriau, a'u ffyrdd; i farweiddio'r cnawd, ac i beidio gwneuthur rhagddarbod er mwyn cyflawni eu chwantau; i garu gelyn, ac i faddeu iddo o'u calonnau; yn parchu eraill, ac yn blaenori y naill y llall; gosod yr hyn oll a feddant ac a wnelont wrth draed yr Iesu, a dewis a gwerthfawrogi ei wasanaeth a'i ffafr o flaen pob dim; parottoi erbyn marwolaeth, a gadael pob peth yn ewyllysgar i fyned ar ol Crist. Y rhagrithwyr ni fynnant eu troi i gyflawni yr un o'r rhai hyn. Os bydd un rhagrithiwr yn ymddangos fel pe byddai yn croesawu'r efengyl, etto nid yw yn cael derbyniad i'w enaid; nid yw'r hâd yn cael dim dyfnder daear. Y mae yn peri iddo gyfnewid ei farn a'i feddyliau, ond nid yw yn meddalhau, nac yn adnewyddu ei galon, nac yn gwneuthur iddo osod Crist i fynu yno mewn gallu ac awdurdod. A chan fod ei grefydd yn sefyll mewn daliadau, rhyw feddyliau neillduol, a *phroffes* allanol, felly hefyd, ymddiddan a *dadleu* yn ei chylch yw ei waith a'i hyfrydwch pennaf. Ac y mae, fel y rhan fwyaf o ddadleuwyr, yn hyf, ac yn hunan-dybus, etto yn bur annysgedig ac anwybodus; ac felly nid yw'r cyfryw yn garwr y gwirionedd, nac yn dderbyniwr gostyngedig o'r hyn a

ddatguddiwyd yn eglur yn ngair Duw. A chan ei fod yn iselu dynion eraill, ac yn diystyru eu barn, ac, yn anaml iawn, yn ymddiddan gyda symlrwydd, a pharch, a gostyngeiddrwydd, am y pethau hyuny a berthynant i Grist Iesu, mae efe yn dangos yn eglur fod ei grefydd yn sefyll yn fwy yn ei *ben* neu ei ymmennydd nac yn ei *galon*. Ac y mae gwirioneddau mawrion yr efengyl yn cael eu dwyn ymaith gyda phob awel profedigaeth neu amheuaeth, o o herwydd nad ydynt wedi eu cyd-dymheru â grâs yn y galon, a'i ffydd heb ei sylfaenu yn Nghrist. Ni fydd y cyfryw ddyn un amser (mewn ymddiddanion cyfrinachol) yn galaru o herwydd anmherffeithrwydd ac aflendid ei enaid, nac yn cyfaddef yn ostyngedig ei anniolchgarwch i Grist, a'i oerfelgarwch a'i anffrwythlondeb yn ei wasanaeth, ond ei foddlonrwydd a'i gyssuron mwyaf sydd yn dyfod oddiwrth yr ystyriaeth ei fod o ryw enw neu *sect* o bobl, ac felly o'r un farn a hwythau mewn crefydd. Gellir dywedyd yr un peth am y rhagrithiwr bydol, yr hwn sydd yn tagu'r efengyl gyda drain gofalon a chwant i bethau'r byd hwn. Y mae efe yn gwybod bod yn rhaid iddo fod yn grefyddol cyn y gallo fod yn gadwedig, ac o herwydd hynny y mae efe yn darllen yn gwrando, ac yn gadael ei hen ffyrdd a'i gyfeillion; ond er hyn i gyd, y mae efe yn meddwl am wneuthur ei oreu i ddal gafael ym mhethau'r byd hwn. Y mae ei farn a'i gydwybod yn dywedyd mai Duw yw'r unig ddaioni, ond nid yw ei galon na'i serchiadau yn cydsynnio â hyn. Y mae'r byd yn meddiannu mwy o'i serchiadau nâ Duw, ac am hynny, mae'n eglur mai hwnnw yw ei dduw. Er nad ydyw efe yn rhedeg ar ol *opiniynau* a dychymmygion, a phethau newyddion fel o'r blaen, etto y mae efe yn sicr o fod o'r meddyliau a'r farn honno mewn pob peth fyddo yn debyg o hwylio ymlaen ei lwyddiant a'i elw bydol; ac megis dyn a'i ysbrydoedd wedi cael eu meddiannu a'u hanmharu gan ryw afiechyd nychlyd a dihoenllyd, felly hefyd y mae ysbrydoedd y dyn hwnnw yn cael eu meddiannu gan y plâ

hwn, sef *yspryd bydol.* Mor wan, mor oeraidd, yw efe mewn gweddi ddirgel; mor fâs, mor groen-deneu mewn hunan-ymholiad a myfyrdod ar bethau ysbrydol; mor dlawd y mae efe mewn calon-wyliadwriaethau; ac yn llai na dim, mewn *rhodio gyda Duw* a chariad tuag atto, gorfoleddu ynddo, a hoffi a dymuno ei gymdeithas. Ac felly y ddwy rywogaeth hyn o ragrithwyr, a llawer eraill, er iddynt fyned gyda chwi trwy'r hyn sydd hawdd ac allanol o grefydd, etto ni chymmerant byth arnynt boen o'r dyledswyddau ysprydol a thufewnol.

§ 5. Ac y mae'r duwiolion eu hunain yn rhy oeraidd, diog a diymadferth yn eu hymdrechiadau am yr orphwysfa dragywyddol. Och! pa mor anghyfattebol yw ein gwres i'n goleuni, ein zêl i'n gwybodaeth a'n proffes, ein cyflawniadau i'r enw a'r ymddangosiad o dduwioldeb! Pwy sydd yn brysio fel pe y disgwylai ymddangosiad Mab y Dyn? Pwy sydd yn prysuro fel ped ymdrechai am deyrnas nefoedd? Mor llonydd yr ydym yn sefyll! Mor segur yr ydym yn gweithio! Yn y fath fodd yr ydym yn siarad, yn cellwair, ac yn treulio ein hamser yn ofer! Mor dwyllodrus yr ydym yn cyflawni gwaith Duw! Onid ydym yn gwrando fel pe baem heb glywed? ac yn gweddio fel pe baem heb ddymuno? ac yn holi ein hunain, ac yn myfyrio, ac yn ceryddu pechod, fel pe baem heb wneuthur hynny? ac yn mwynhau Crist megis heb ei fwynhau? ac fel pe baem wedi dysgu arfer pethau nefol yn y cyfryw fodd ag y mae'r apostol wedi ein dysgu i arfer pethau'r byd hyn. Pa fath ddifrawch rhewllyd sydd wedi ein fferru? Yr ydym ar drangcedigaeth, ac yr ydym yn gwybod hynny, ac etto nid ydym yn chwimio nac yn ymwroli! Mae tragywyddol drueni neu happusrwydd wrth y drws, ac etto nid ydym yn ystyried hyn! Y mae angau yn curo wrth y drws, ac etto nid ydym yn ei glywed! Y mae Duw a Christ yn galw ac yn gwaeddi arnom: "*Heddyw, os gwrandewch ar fy lleferydd, na chaledwch eich calonnau.*" "Gweithiwch tra yr ydyw hi yn

ddydd; canys y mae'r nos yn dyfod, pan na ddichon neb weithio." "Yn awr gweithiwch am eich bywyd; yn awr ymdrechwch am eich heinioes; gosodwch eich hunain ynghylch yr un peth anghenrheidiol; treuliwch eich holl nerth a'ch hamser, yn fwyaf oll, ar y gwaith mawr hwnnw yrwan neu byth!" Ac etto, er ein bod yn cael ein cymmell a'n hannog fel hyn, nid ydym yn ymwroli, ac nid oes dim mwy cyffro ynom na phe baem mewn trwmgwsg. Ystyriwch pa mor ddiymaros y mae angau yn agosâu, a dydd y farn yn nesâu attom! Pa mor fuan y maent yn pryssuro! Y maent agos a'n goddiwes, ac er hynny pa cyn lleied brys sydd arnom! Arglwydd, y fath beth dideimlad, daearol, cythreulig, yw calon galed! Pa le y mae'r dyn sydd yn Gristion o ddifrif, a'i holl fryd a'i feddwl ar bethau nefol, a'i holl galon ar waith Duw yn unig! Tybied yr ydwyf, os gellir barnu oddiwrth eu hymddygiad, mai gwaelbeth a gwegi yw eu cyflwr tragywyddol yngolwg plant dynion, ac nad ydynt yn ystyried iachawdwriaeth eu heneidiau anfarwol ond o ychydig werth! Nid ydynt yn ei olygu megis y peth mwyaf angenrheidiol—y peth *cyntaf*—ond yr hyn a ddylai gael ond yr ail neu'r trydydd lle yn eu meddyliau. Ac nid ydynt mewn un modd yn ystyried hyn megis y gwaith *mwyaf pwysfawr*, a'r mwyaf angenrheidiol o'r cwbl oll. Ac oni b'ai fy mod i fy hun yn glaf o'r un afiechyd, gyda pha gymmaint dagrau y cymmysgwn i yr *ingc* hwn, a chyda pha fath ocheneidiau y traethwn y cŵyn a'r alarnad hon, ac â'r fath ofid calon y galarwn oblegid y difrawch a'r marweidd-dra cyffredinol hwn.

§ 6. A ydyw ynadon a swyddogion ein gwlad y cyflawni eu dyledswyddau yn gydwybodol ac yn ddidderbyn wyneb? A ydynt hwy yn llawn o *zel* dros Dduw? A ydynt hwy yn adeiladu ei dŷ? A ydynt hwy yn dyner o'i anrhydedd? A fyddant hwy yn cefnogi ei air, ac yn cynnal ei achos? A ydynt hwy yn gwrthwynebu, ac yn gwrthsefyll pechod a phechaduriaid, ac aflonyddwyr ein

heddwch, y rhai ydynt unig achos ein holl drallodion? A fyddant hwy yn defnyddio eu holl allu, eu cyfoeth, eu hanrhydedd a'u hawdurdod er lles, daioni, a llwyddiant teyrnas Crist, megis dynion a fydd raid iddynt ar fyrder roddi cyfrif o'u goruchwyliaeth?

§ 7. Pa mor anaml yw'r gweinidogion ag sydd â'u holl feddylfryd ar eu gwaith, ac yn egniol ynddo? neu yn hytrach, pa mor fyr y mae'r goreu, a pha gymmaint y maent yn methu yn hyn o orchwyl pwysfawr? A ydym ni yn gwaeddi allan, o herwydd anufudd-dod dynion i'r efengyl, yn *eglurhad* yr yspryd? neu, a ydym ni yn gwrthwynebu pechod megis tân dinystriol yn ein trefydd, a thrwy drais yn llusgo dynion allan o hono? A ydym ni yn *perswadio* dynion, megis y dylai rhai yn gwybod ofn yr Arglwydd? A ydym ni, megis gweinidogion ffyddlon, yn gosod yn eglur o'u blaen, ac yn dangos yr anghenrheidrwydd o wir a bywiol ffydd yn Nghrist, ac o'r adenedigaeth, sancteiddrwydd a buched dduwiol, gan gwbl gredu nas gall neb fod yn gadwedig heb y rhai hyn? A fydd ein hymysgaroedd yn cynhesu o dosturi tuag at y rhai anwybodus, difraw, ac anystyriol, a'r gwerinos gwar-galed? Pan yr edrychom ar eu wynebau, a fydd ein calonnau yn toddi o'n mewn rhag na welom eu wynebau byth yn yr orphwysfa nefol? neu, a fyddwn ni yn dywedyd wrthynt, megis Paul, dan wylo, fod eu synnaid yn gnawdol ac yn ddaearol? A ydym ni yn eu dysgu yn gyhoeddus, ac o dŷ i dŷ, trwy bob tymhorau, a chyda llawer a ddagrau? A ydym ni yn erfyn arnynt, megis am iachawdwriaeth eu heneidiau? yn hytrarch, a ydym ni yn chwennych boddhau a chael clôd gan wrandawyr berniadol a dysgedig, megis pe na b'ai gan weinidog un ddyledswydd arall, neu ddim arall yn angenrheidiol arno ond adrodd rhyw hanes lyfndêg dros yn agos i awr o amser, ac heb edrych ar ol y bobl, neu ofalu yn ychwaneg am danynt, hyd y bregeth nesaf! Onid ydyw doethineb cnawdol yn rheoli ein serchiadau a'n zêl yn achos Duw, ac yn gwneuthur ein

hymadroddion a'n pregethau yn farwaidd ac yn ddifywyd ar yr achosion a'r ystyriaethau mwyaf pwysfawr? Pa mor ysgafn ac arafaidd yr ydym yn ceryddu'r pechodau, y rhai a fyddant yn debygol o ddinystrio eneidiau'r bobl? Mewn gair, y mae ein byrdra yn hyn o waith, a'r eisiau o ddifrifwch perthynol i bethau nefol, yn süo cydwybodau dynion, ac felly y maent yn ymollwng yn eu heneidiau, ac yn myned yn ffurfiol, ac yn eu dwyn i ymarfer â gwrando mewn modd anystyriol yr hyn sydd yn eu handwyo a'u difetha. Yr Arglwydd a faddeuo fawr bechod y weinidogaeth yn y peth hyn, yn enwedig yr eiddo fy hun.

§ 8. A ydyw'r bobl yn fwy syml a difrifol nâ swyddogion neu weinidogion? Pa fodd y gellir disgwyl hyn? Ddarllenydd, bwrw olwg arnat dy hun, ac atteb y gofyniad. Gofyn i'th gydwybod, ac arch iddi dy atteb yn ffyddlon. A osodaist ti erioed dy dragywyddol orphwysfa o flaen dy lygaid, fel y neges fawr, a'r unig waith sydd gennyt yn y byd? A ydywt ti wedi bod yn gwylio ac yn llafurio â'th holl egni, rhag i neb ddwyn dy goron? A ydwyt ti wedi brysio rhag dy ddyfod yn rhy hwyr, a marw cyn i ti orphen dy waith? A ydwyt ti wedi bod yn ymestyn trwy luoedd o rwystrau tuag at nôd y gamp uchel o alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu, ac felly yn ymgyrhaeddyd yn barhaus tuag at y pethau nefol hynny sydd o'th flaen? A all dy gydwybod gyd-dystiolaethu ynghylch dy ddirgel wäeddiadau, a'th ocheneidiau trymion, a'th ddagrau chwerwon? A ddichon dy deulu dystiolaethu dy fod wedi eu dysgu a'u hyfforddi yn ofn yr Arglwydd ac wedi eu rhagrybuddio rhag myned o honynt i'r lle poenus hwnnw? A ddichon eich gweinidog dysttiolaethu ei fod wedi eich clywed yn gwaeddi allan, "Pa beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?" a'ch bod wedi bod yn ei ganlyn gydag achwynion trymion yn erbyn eich llygredigaethau, a chydag ymofyniadau difrifol am yr Arglwydd? A all eich cymmydogion o'ch hamgylch dystiolaethu eich bod yn ceryddu'r annuwiol, ac yn cymmeryd

poen i achub eneidiau eich brodyr? Gadewch i'r holl dystion hyn farnu, rhwng Duw a chwithau, pa un a ydych chwi yn meddwl o ddifrif calon am eich gorphwysfa nefol! Gellwch wybod oddiwrth ei waith a fu eich gwas yn segura, er nad oeddech yn ei weled; felly hefyd y gellwch, yn yr un modd, wrth edrych ar eich gwaith eich hun. A ydyw eich cariad tuag at Grist—eich ffydd a'ch zêl, a'ch grasusau ereill, yn gryfion neu yn weiniaid? Pa beth, a pha fath, yw eich gorfoledd? Pa beth yw eich hyder? A ydyw pob peth yn drefnus gyda chwi? A ydych chwi yn barod i farw pe gofynnid hynny heddyw? A ydyw'r eneidiau, ymysg pa rai y bu eich ymarweddiad, yn eich bendithio? Bernwch wrth hyn, ac yna yr ymddengys yn fuan pa un ai gweithwyr ai segurwyr a fuoch?

§ 9. O orphwysfa fendigedig! mor anhaeddiannol y'th esgeulusir! O deyrnas ogoneddus! fel yr wyt yn cael dy ddibrisio! Ychydig y mae plant dynion anystyriol yn wybod pa fath gyflwr gogoneddus y maent yn ei ddiystyru! Canys, yn ddiammeu, pe baent unwaith yn gwybod ei werth, ni wnant ei ddiystyru felly. Yr ydwyf yn gobeithio, ddarllenydd anwyl, dy fod yn cydnabod y fath beth ofnadwy yw esgeuluso a dirmygu'r gyfryw orphwysfa nefol, a'th fod yn gofidio dy fod yn euog o'r cyfryw ymddygiad gwarthus a phechadurus; ac yr ydwyf yn gobeithio hefyd na adewi i'r argyhoeddiad sydd ar dy feddyliau ddarfod a diflannu. Pe byddit mewn clefyd, a'r meddyg yn dywedyd wrthyt, "*Os gwnai un peth, nid ydym yn ammeu na fedrem dy iachau o'th glefyd.*" Oni fyddit yn bur barod i wneuthur hynny? Felly, yr un modd, yr ydwyf finnau yn dywedyd wrthyt, Os cymmeri ofal i wneuthur yr *un* peth hwn, er mwyn dy enaid, nid oes ynof yr amheuaeth lleiaf na byddi di gadwedig. Ymysgwyd ymaith dy syrthni, ymâd a'th ddiogi, ac ymosod ynghylch y gwaith â'th holl nerth a'th egni, a bydd yn Gristion yn wir; ac nid ydwyf yn gwybod am ddim a all luddias dy happusrwydd. Er pelled yr ydwyt wedi ym-

adael oddiwrth Dduw, ceisia ef â'th holl galon, ac nid oes amheuaeth na fydd i ti ei gael. A pha mor angharedig ac anniolchgar bynnag y buost i Iesu Grist, cais ef â'th holl feddwl, ac ufuddha iddo o'r galon; ac yna fe fydd dy iachawdwriaeth mor sicr a phe byddit wedi ei chael. Eithr os na fydd i ti ond ymddiddan a dadleu yn unig ynghylch gwirioneddau'r efengyl, yn lle eu derbyn yn groesawus, er mor gyflawn oedd yr iawn a wnaeth Crist, er mor rhâd yw'r addewid, ac er mor helaeth yw trugaredd Duw, etto tydi a fyddi yn debyg o golli'r goron, o herwydd dy fod yn ymdroi ac yn diogi pan y dylesit fod yn gweithio ac yn llafurio. Ymosod gan hynny ynghylch y gwaith yn ddioed â'th holl egni, a hynny yn y modd mwyaf difrifol, a diolch i Dduw am fod gennyt ti etto amser i weithio. Ac i ddangos i ti nad ydwyf yn dy annog yn ddiachos, myfi a osodaf yma o'th flaen amryw ystyriaethau pwysfawr i'th ynnill a'th gefnogi. Deffro gyn hynny, a chyfod dy yspryd, ac, megis y dywedodd Moses wrth feibion yr Israeliaid, "*Meddyliwch yn eich calonnau am yr holl eiriau yr ydwyf fi yn eu tystiolaethu wrthych heddyw, canys nid gair ofer yw hwn i chwi.*" Deut. 32 : 46, 47. A'r Arglwydd a agoro dy galon, ac a blanno ei ofn o'th fewn, ac a sicrhao ei gyngor tuag attat, ac a gyflawno dy ddymuniadau.

§ 10. Ystyria mor resymmol ydyw i'n diwydrwydd fod yn gyfattebol i'r dibenion sydd yn ein golwg, a'r amcanion sydd gennym mewn llaw, ac hefyd, mewn rhyw fesur, i'r gwaith sydd genym i'w wneuthur, a byrdra ac ansicrwydd ein hamser; gan ystyried hefyd ddiwydrwydd ein gelynion a'n gwrthwynebwyr. Mae dibenion, dymuniadau, ac ymdrechiadau'r Cristion mor fawr nad oes un deall dyn ar y ddaear a ddichon eu hamgyffred. Pa beth sydd mor rhagorol, mor bwysfawr, mor angenrheidiol a gogoneddu Duw, golygu ein hiachawdwriaeth ein hunain, a cheisio achub eneidiau ein cyd-greaduriaid, gan ddiangc rhag poenau uffern, a mwynhau gogoniant y nefoedd? A ddichon un dyn feddwl gormod, neu fod yn rhy ofalus,

ynghylch pethau o gymmaint pwys? A ddichon efe eu dymuno yn rhy ddifrifol, eu ceisio yn rhy daer, eu caru yn ormodol, neu ymdrechu yn rhy ddyfal, neu lafurio am danynt yn rhy ddiwyd? Onid ydym yn gwybod, os na fydd ein gweddiau yn llwyddiannus a'n llafur yn effeithiol, y y derfydd am danom dros byth? Mae gwaith y Cristion yn y byd hwn yn fawr ac yn helaeth iawn. Rhaid i'r enaid gael ei adnewyddu, ein llygredigaethau eu marweiddio—rhaid i arferion drwg, temptasiynau, profedigaethau, a thueddiadau bydol, gael eu gorchfygu a'u darostwng; y cnawd ei gaethiwo, bywyd, cyfeillion, bri, enw da, cymmeriad, anrhydedd, eu diystyru; cydwybod ei lonyddu, a'i gosod ar iawn sylfaen, a chael hefyd sail sicr i gredu fod ein pechodau wedi eu maddeu, a lle i hyderus obeithio y bydd i ni fod yn gadwedig. Er bod Duw yn arferol o roddi yr holl bethau i ni heb ein haeddiant ein hunain, etto ni rydd efe mo'nynt heb i ni eu dyfal-geisio, ac ymdrechu am danynt. Heblaw hyn, mae'n ofynnol i ni, ac yn angenrheidiol arnom, ychwanegu ein gwybodaeth, ymarfer âg amryw ordinhadau, a chyflawni llawer o ddyledswyddau; ac y mae hefyd bob oed, pob blwyddyn, pob diwrnod, pob lle yr ydym yn dyfod iddo, pob dyn y byddom yn cydfasnachu âg ef, pob cyfnewidiad yn ein sefyllfa; y mae pob un o'r rhai hyn yn gofyn genym adnewyddiad ein hymdrech a'n llafur; gwragedd, plant, gweision, cymmydogion, cyfeillion, gelynion—mae y rhai hyn oll yn gofyn rhyw ddyledswydd gennym. Bernwch gan hynny, onid yw yn angenrheidiol i rai sydd a chymmaint o waith fod yn ddiwyd ac yn llafurus, a pha un ai doeth ydyw iddynt oedi a diogi? Mae amser yn myned heibio yn gyflym: etto ychydig ddyddiau, neu flynyddoedd, ac ni fydd un o honom yma yn y byd. Y mae llawer o glefydau yn barod megis i afael ynom i'n dinystrio. Nyni, sydd yn awr yn pregethu, yn gwrando, yn ymddiddan, yn cerdded, bydd raid i ni oll gael ein dwyn ymaith, a'n gosod i orwedd yn llwch y bedd, a'n gadael yno i'r pryfaid i

ymborthi arnom, mewn tywyllwch a llygredigaeth. Yr ydym yn agos iawn at hynny eisoes; ac nis gwyddom a gawn ni un bregeth, neu Sabboth, neu awr yn ychwaneg ar dir y rhai byw! Pa mor ddiwyd y dylent hwy fod, y rhai a wyddant nad oes ganddynt ond byr amser at y fath waith mawr! Ac y mae gennym elynion y rhai sydd bob amser yn wyliadwrus, yn cyd-fradwrio ac yn cyd-weithio er ein dinystr. Pa mor ddiwyd y mae Satan yn ei holl demptasiynau! *Gan hynny byddwch sobr a gwyliadwrus; oblegid fod eich gelyn diafol, megis llew rhuadwy, yn cerdded oddiamgylch, gan geisio'r neb a allo ei lyngcu; yr hwn gwrthwynebwch yn gadarn yn y ffydd.* 1 Pedr, 5: 8, 9. Pa mor ddiwyd ymae holl weision Satan! gau-athrawon, gwatwarwyr, erlidwyr, a'n llygredigaethau tu-fewnol, y rhai sydd yn fwy aflonydd a diwyd na'r cwbl? Ai tybied gan hynny yr ydych y gwna gwrthwynebiad egwan y tro yn eu herbyn? Ac oni ddylem ni fod yn fwy diwyd a llafurus i *achub* ein hunain nag y mae ein gelynion i'n dinystrio?

§ 11. Peth arall a ddylai ein hannog i ddiwydrwydd, sef ystyriaeth o'r talentau a'r trugareddau a dderbyniasom oddiar law Duw, ein perthynas agos iddo, a'r cystuddiau y mae efe yn eu hanfon arnom. Y mae'r talentau a dderbyniasom yn fawr ac yn lluosog. Pa bobl yn anadlu ar y ddaear a gawsant hyfforddiadau mwy eglur, annogaethau mwy cryfion, neu gynghorion a rhybuddion mwy parhaus a gwastadol, mewn amser ac allan o amser? pregethau hyd onid oeddem yn blino arnynt; Sabbothau hyd onid oeddem yn eu halogi; y fath nifer o lyfrau rhagorol nas gwyddem pa un i'w ddarllen? Pa bobl a gawsant Dduw mor agos attynt? neu a welsant Grist croeshoeliedig yn cael ei osod allan mor eglur o flaen eu llygaid? neu nefoedd ac uffern mor agored o'u blaen? A'r fath frys y dylai y fath bobl brysuro tua'r nefoedd! Fel y dylent hwy, sydd a'r cyfryw esgyll, ehedeg! Pa mor gyflym y dylent hwy *hwylio*, y rhai sydd a'r gwynt a'r llanw fel hyn o'u tu

yn eu cynnorthwyo! Nid yw mesur bychan o râs yn weddus i'r cyfryw bobl, ac ni wna rhyw ddiwydrwydd cyffredin yngwaith Duw eu hesgusodi! Y mae Duw yn ei drugaredd wedi tywallt hefyd arnom ni, holl gyfoeth y môr a'r tir, ïe, a'r nefoedd a'r ddaear. Yr ydym yn cael ein porthi a'n dilladu â thrugareddau. Y mae genym ni drugareddau oddifewn ac oddiallan. Eu cyfrif hwynt fyddai cyfrif y sêr neu'r tywod ar fin y môr. Os oes rhyw ragoriaeth rhwng uffern a'r ddaear, ïe, neu ryw wahaniaeth rhwng y nef a'r ddaear, yna, yn ddiamheu, yr ydym ni wedi derbyn trugareddau. Ac os oedd rhoddi i ni ei unig-anedig Fab, yr hwn a dywalltodd drosom ei werthfawr waed yn drugaredd, yna, yn ddiau, yr ydym yn rhwymedig i Dduw am y drugaredd hon, ac aneirif drugareddau eraill. Ac os nad yw Duw (i arfer ffordd ddynol o lefaru) yn gweled dim yn ormod neu yn rhy dda i *ni*, a gawn ni farnu pob peth a wnelom iddo *ef* yn ormod? Pan yr ystyriwyf fy mywyd syrthlyd ac anfuddiol fy hun, a'r aml a'r rhyfeddol drugareddau a dderbyniais, y mae hyn yn fy nghywilyddio, yn peri i mi dewi, ac yn fy ngadael yn ddiesgus. Ac heblaw'r talentau a'r trugareddau a dderbyniasom, y mae'r berthynas sydd rhyngom a Duw yn dra hoff ac anwyl. Od ydym ni yn blant iddo, onid ydyw ein serchiadau anwylaf, a'n hufudd-dod parottaf ac ewyllysgaraf, yn ddyledus iddo? Od ydym ni yn ddyweddi i Grist, oni ddylem ni ei garu ac ufuddhau iddo? *Os ydwyf fi Dad, pa le mae fy anrhydedd? Os ydwyf fi Feistr, pa le y mae fy ofn?* Mal. 1 : 6. Yr ydych chwi yn fy ngalw i, yr *Athraw*, a'r *Arglwydd; a da y dywedwch; canys felly yr ydwyf.* Ioan, 13 : 13. Ond os na fydd ein diwydrwydd yn gyfattebol i'r gyfryw berthynas, yr ydym yn ein condemnio ein hunain trwy ddywedyd ein bod ni yn blant neu yn weision iddo. Pa fodd y bydd i'r gwaith caled a'r llafur beunyddiol y mae gweision yn ei gyflawni i foddio eu meistriaid, farnu a chondemnio y rhai hynny ni chymmerant y boen leiaf dros eu Meistr mawr? Yn

ddiau nid oes meistr arall yn debyg iddo ef; ac nis geill neb gweinidogion ddisgwyl y cyfryw ffrwyth oddiwrth eu llafur a'i weision ef. Ac os awn ni ar gyfeiliorn allan o ffyrdd Duw, onid ydyw pob creadur yn barod i fod yn wialen yn llaw Duw i'n dwyn yn ol a'n gosod ar ein gwaith? Pan fyddom yn troseddu fel hyn, oni fydd ein trugareddau mwyaf melus yn troi'n achlysur o alar? Rhag eisiau gwialen, fe fedr Duw ein gwneuthur ni yn fflangell i ni ein hunain; ein cyrph afiach a wnat i ni riddfan; ein meddyliau dyryslyd a'n gwnant yn aflonydd; ein cydwybod a fydd megis ysgorpion yn ein mynwes. Ac onid ydyw yn haws dioddef y llafur na'r ysbardyn neu'r swmbwl? Ai gwell genym gael ein cystuddio na chyfodi i fynu a gweithio? Ac er y bydd y rhai a weithiant fwyaf yn cyfarfod â chystuddiau, etto, yn sicr, chwerwedd eu cwppan a leiheir mewn ystyr gyfattebol i heddwch eu cydwybod a'u ffyddlondeb i Grist.

§ 12. Ac i fywiogi ein diwydrwydd yn y gwaith, nyni a ddylem ystyried hefyd pa ryw gynnorthwyon yr ydym yn eu cael, pa fath ddaliadau yr ydym yn eu proffesu, ac heblaw hyn, ein bod yn gwybod yn sicr na fedrwn byth wneuthur gormod. Ac i'n cynnorthwyo yngwasanaeth Duw, y mae'r holl fyd yn gweini i ni. Y mae'r haul, a'r lleuad, a'r sêr yn cyfrannu i ni eu goleuni a'u heffeithiau; a'r ddaear, ynghyd â'r drysorau o blanhigion, blodau, ffrwythau, adar, ac anifeiliaid; y môr a'i holl drigolion; yr awyr, y gwynt, y rhew a'i holl eira, y gwres a'r tân, y cymmylau, a'r gwlaw, oll yn gweini arnom tra yr ydym yn gwneuthur ein gwaith; ïe, yr *angylion oll ydynt ysprydion gwasanaethgar i ni*, Heb. 1 : 14, a mwy na hyn, y mae amynedd Duw yn disgwyl wrthym, ac yn cydddwyn â ni. Y mae Iesu Grist yn disgwyl wrthym, gan gynnyg i ni aberth ei werthfawr waed. Y mae'r Yspryd Glân yn disgwyl, gan gydymdrechu â'n calonnau anewyllysgar ni; heblaw gweinidogion yr efengyl, y rhai sydd yn ddyfal yn eu gwaith, yn disgwyl wrthym, gan bregethu,

a disgwyl, a gweddio, ac aros wrth bechaduriaid difraw. Ac onid ydyw yn gamymddygiad annioddefol ein bod ni, yn ddiystyr, yn treulio ein hamser yn ofer, tra y mae angylion a dynion, ïe, Duw ei hun, yn sefyll yn ein hymyl, yn edrych arnom, ac megis yn dal canwyll i ni, a ninnau heb wneuthur dim? Erfyniaf arnoch, O Gristionogion, pa bryd bynnag y byddoch yn gweddio, neu yn ceryddu troseddwyr, neu yn cyflawni unrhyw ddyledswydd, gofio pa gynnorthwyon sydd gennych at y gwaith, ac yna farnu o honoch pa fodd y dylech ei gyflawni. Y pyngciau ffydd yr ydym yn eu proffesu ydynt y rhai canlynol, sef mai Duw yw y *Pen Daioni;* ac mai yn ei gariad ef y mae ein holl happusrwydd yn sefyll; ac am hynny y dylem ei iawn brisio a'i geisio o flaen pob peth; mai efe yw ein hunig Arglwydd, ac am hynny i'w wasanaethu yn bennaf oll: bod yn rhaid i ni ei garu â'n holl galon, â'n holl enaid, ac â'n holl nerth; mai ein gwaith pennaf yn y byd yw gogoneddu Duw a cheisio iachawdwriaeth i'n heneidiau. A ydyw'r athrawiaethau hyn i'w gweled yn ein bucheddau? neu, yn hytrach, onid ydym yn gwadu yn ein gweithredoedd y peth yr ydym yn ei broffesu mewn geiriau? Ond pa fodd bynnag y mae ein cynnorthwyon a'n hegwyddorion yn ein hannog yn ein gwaith, *sicr yw na fedrwn ni byth wneuthur gormod.* A phe gallem wneuthur *y cwbl oll, ni fyddem ond "gweision anfuddiol,"* Luc, 16 : 10; mwy o lawer, pan fyddom yn sicr o fethu yn y cwbl oll. Nis dichon un dyn ufuddhau na gwasanaethu Duw yn ormodol. Ac er y gellir dywedyd ein bod yn goelgrefyddol, neu ein bod yn ceisio bod yn *rhy-gyfiawn* pan y byddom yn gwasanaethu yn ol ein dyfais a'n dychymmygion ffol ein hunain, etto tra yr ydym yn canlyn rheol gair Duw nid oes modd i ni fod yn rhy dduwiol. Yn sicr, y mae'r byb wedi ynfydu gan falais a chenfigen, pan y mae dynion yn barnu mai gwiriondeb ffol yw bod yn ffyddlon ac yn ddiwyd yngwasanaeth Crist. Dyma fel yr oeddent gynt yn cyfrif yr apostolion *yn ysgubion* y

byd; ond y mae'r amser yn agoshau, pan y bydd yn hawdd ganddynt gyfaddef na's gall neb garu na gwasanaethu Duw yn ormod, na bod yn rhy brysur a diwyd ynghylch iachawdwriaeth ei enaid. Gallwn yn hawdd wneuthur gormod dros y byd, ond nid dros Dduw.

§ 13. Gadewch i ni, yn y lle nesaf, ystyried mai natur pob gras yw annog diwydrwydd, ac nad ydyw segura ar ein ffordd tua'r nefoedd ond gwaith ofer, a bod llawer o'n hamser gwerthfawr eisoes wedi ei gamdreulio, ac mai yn ol ein llafur, ac yn gyfattebol i'r boen a gymmerasom, y bydd ein gwobr. Gwel, gan hynny, natur a thueddiad pob gras. Pe byddech yn ofni Duw, ni feddyliech chwi ddim yn ormod a fedrech mewn un modd ei wneuthur iddo ac erddo ef, i'r diben i'w wasanaethu a'i foddloni etto yn fwy. Y mae cariad yn fywiog ac yn ddiymaros, ac felly yn weithgar ac yn ofalus. Pe carech Grist, chwi a gadwech ei orchymynion, ac ni achwynech yn eu herbyn eu bod yn rhy drymion. Pe byddai gennych *ffydd*, adfywiai a grymusai chwi, ac annogai chwi yn y blaen. Pe byddai genych *obaith* y gogoniant, byddai megis ysgogydd (*spring*) oriawr yn gosod holl olwynion eich henaid i droi. Pe b'ai ynoch ofn Duw, deffröai chwi o'ch marweidd-dra. Pe b'ai gennych zêl, ennynai ac yssai chwi. Ac i ba radd bynnag yr ydwyt wedi dy sancteiddio, yn gyfattebol i hynny y byddi yn syml ac yn llafurus yngwaith yr Arglwydd. Ond y rhai sydd yn segura a gollant eu gwaith, y maent yn ol o'r cwbl oll. A llawer, megis Agrippa, y rhai nid oeddent *ond o fewn ychydig i fod yn Gristionogion*, a gânt wybod yn y diwedd na fyddant chwaith ond o fewn ychydig i fod yn gadwedig. Os bydd dau yn rhedeg gyrfa, y mae'r olaf yn colli ei lafur a'r gwobrwy. A'r hwn a fyddo yn codi rhyw bwysau, os na wna hynny gyda nerth digonol, ni waeth iddo heb wneuthur dim. Pa gynnifer o ddyledswyddau y mae Cristionogion wedi eu colli o eisiau eu hollol gyflawni? *Llawer a geisiant fyned i mewn ac nis gallant*, (Luc. 13 : 24,) y

rhai ped *ymdrechasent* a *allasent* fyned i mewn. Gan hynny, arferwch fwy o ddiwydrwydd ac ymdrechiad, fel na byddo i'r hyn oll a wnaethoch hyd yma fyned yn ofer. Heblaw hyn, onid oes llawer o amser gwerthfawr wedi ei golli yn barod? Gyda rhai o honom y mae mebyd a ieuengctyd wedi myned heibio; gydag eraill, eu canol oed hefyd; a'r amser i ddyfod sydd yn bur ansicr. Ystyriwch pa gymmaint o amser a ddarfu i ni dreulio'n cysgu, yn ymddiddan, yn chwareu, neu mewn amcanion a gofalon bydol! pa gyn lleied o'n gwaith sydd wedi ei orphen! Yr amser a gollasom, nid allwn ei alw'n ol; ac oni ddylem ni brynu, a defnyddio'r ychydig hynny sydd gennym etto'n ol? Pe digwyddai i ymdeithydd gysgu neu segura hyd lawer o'r dydd, oni fyddai'n angenrheidiol iddo deithio'n gynt gwedi hynny y prydnhawn, neu fethu gorphen ei daith? Nac amheuwch na fydd *taledigaeth a gwobrwy* yn gyfattebol i'ch llafur. Yr had a gladdwyd, ag sydd wedi marw, a fydd yn sicr o ddwyn cynhauaf helaeth. Pa beth bynnag a wneloch neu a ddioddefoch, y *dragywyddol orphwysfa* honno a dâl am y cwbl oll. Nid oes dim edifeirwch am ein llafur a'n dioddefiadau yn y nefoedd. Ni fydd neb yno yn dywedyd, "*Buasai'n dda gennyf pe buaswn heb gymmeryd cymaint o boen, a phe buaswn yn gweddio llai, ac heb fod mor ddiwyd, syml, a gofalus, ac yn byw fel y lleill o'm cymmydogion.*" Ond, yn llwyr wrthwyneb i hyn, eu hyfrydwch fydd edrych yn ol ar eu poen, eu llafur, eu helbulon a'u trallodion, a myfyrio ar fawr allu Duw a'u dygodd hwynt allan o honynt oll. Gall pawb o honom ddywedyd y pryd hynny gyda Phaul: "Oblegid *yr ydwyf yn cyfrif nad yw dioddefiadau'r amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddatguddir i ni.*" Rhuf. 8 : 18. Nid yw ein llafur ond am funud awr, ond ein gorphwysfa sydd dragywyddol. Pwy nad ymegniai â'i holl nerth am un awr, os am hynny o waith y cai ei wneuthur yn dywysog tra byddai byw? "Canys nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofiai ein

gwaith, a llafur y cariad." Heb. 6 : 10. Oni fydd i'n holl ddagrau gael eu sychu ymaith? ac oni fydd i holl dristwch ein dyledswyddau gael eu hanghofio y pryd hynny?

§ 14. Ac nid yw yn haeddu llai ystyriaeth, mai *ymdrechu* yw'r ffordd a drefnwyd er iachawdwriaeth; fod pob dyn yn cyfaddef hynny, neu ynte, efe a *wna* hynny ryw dro; fod y Cristionogion goreu, yn awr angau, yn galaru o herwydd eu hesgeulusdra; fod y nefoedd ei hun yn cael ei *cholli* yn aml o eisiau *ymdrechu*, ac nid yw fyth i'w chael ar ammodau esmwythach. Y mae doethineb anffaeledig Duw wedi gwneuthur *ymdrechu* yn angenrheidiol tuag at iachawdwriaeth. Pwy a wyr y ffordd i'r nefoedd yn well nâ Duw'r nefoedd. Pan y mae dynion yn dywedyd wrthym ein bod yn rhy ofalus, pwy y maent yn ei farnu, Duw ai ni? Pe buasai hyn yn fai, buasai yn sefyll wrth ddrws yr hwn a orchymynnodd yn hytrach nac arnom ni sydd yn ufuddhau. Dyma'r dynion sydd yn gofyn i ni a ydym yn ddoethach nâ'r holl fyd, ac etto y maent hwy yn cymmeryd arnynt fod yn ddoethach nâ Duw. Canys pa fodd y gallant ddangos fod y cyfryw iaith yn gyttunol â chyfreithiau Duw? "*Yr ydys yn treisio teyrnas nefoedd, â threiswyr sydd yn ei chipio hi.*" Mat. 11 : 12. "*Ymdrechwch am fyned i mewn trwy'r porth cyfyng; canys llawer meddaf i chwi, a geisiant fyned i mewn, ac nis gallant.*" Luc, 13 : 24. "*Beth bynnag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni; canys nid oes na gwaith, na dychymmyg, na gwybodaeth, na doethineb yn y bedd lle yr wyt ti yn myned.*" Preg. 9 : 24. "*Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain, gydag ofn a dychryn.*" Phil. 2 : 12. "*Byddwch ddiwyd i wneuthur eich galwedigiaeth a'ch etholedigaeth yn sicr.*" 2 Pedr, 1 : 12. "*Ac os braidd y mae'r cyfiawn yn gadwedig, pa le yr ymddengys yr annuwiol a'r pechadur?*" 1 Pedr, 4 : 18. Gadewch iddynt ddwyn ymlaen eu rhesymmau cadarnaf yn erbyn y taerni a'r trais duwiol yma, y mae hyn yn ddigon, yn fy marn i, i'w gwrthwynebu oll, sef mai fel arall y mae

meddwl Duw, a'i fod wedi gorchymmyn i mi wneuthur llawer mwy nac ydwyf; a phe na fedrwn weled un rheswm arall am hynny, y mae ei ewyllys ef yn rheswm digonol. Pwy a ddylai wneuthur deddfau a chyfreithiau i ni, ond yr hwn a'n gwnaeth? a phwy a ddylai ddangos i ni'r ffordd i'r nefoedd, ond yr hwn sydd i'n dwyn yno? ac i bwy y gweddai sefydlu ammodau iachawdwriaeth, ond i'r hwn sydd yn ei chyfrannu yn rhâd? Felly gadewch i'r byd, y cnawd, a'r diafol, ddywedyd yn erbyn buchedd sanctaidd a llafurus, hyn yw fy atteb, "*Y mae Duw wedi gorchymmyn hynny.*" Ië, ni bu erioed, ac ni fydd ychwaith, un dyn na ddaw i *gymmeradwyo* y cyfryw fywyd, ac i gyfiawnhau diwydrwydd y saint. A phwy nad elai yn y ffordd honno a gyfrifid yn oreu gan bob dyn yn y diwedd? Gwir yw *am y ffordd hon, fod ymhob man ddywedyd yn ei herbyn.* Act. 28 : 22. Ond gadewch i mi ddywedyd wrthych fod y rhan fwyaf sydd yn dywedyd yn ei herbyn, yn ei chymmeradwyo yn eu barn a'u meddwl; a'r rhai hynny sydd yn awr yn ei herbyn, a fyddant ar fyr dro o feddwl arall. Ac os deuant hwy fyth i'r nefoedd, bydd raid i'w meddwl gael ei gyfnewid cyn y deuont yno; ac os i uffern yr ânt, bydd raid iddynt newid eu barn, pa un bynnag ai boddlon ai anfoddlon a fyddont. Cofiwch hyn, chwi y rhai ydych yn caru myned gyda'r lluaws i wneuthur drwg. Paham, gan hynny, na byddwch chwi o'r un farn a phawb? A phaham yr ydych yrwan o farn yr hon y bydd yr oll o honoch yn sicr o'i chyfnewid yn fuan? Oh! na baech chwi mor ddoethion yn hyn ag yw y rhai hynny ag sydd yn uffern! Hyd yn nod y Cristionogion goreu, yn awr angau, a fyddant yn mawr alaru eu hesgeulusdod. Y pryd hynny y dymunant, ac y dywedant, "Oh! na buaswn fil o weithiau yn fwy sanctaidd, yn fwy nefol, ac yn fwy llafurus am fy enaid! Y mae'r byd yn fy nghyhuddo am wneuthur gormod, ond y mae fy nghydwybod yn fy euogfarnu am wnaud rhy chydig. Y mae yn llawer iawn haws dioddef gwarad-

wydd y byd na chnofeydd cydwybod euog. Dewiswn yn hytrach gael fy nghyhuddo gan y diafol am geisio iachawdwriaeth, na chael fy marnu gan Dduw am esgeuluso hynny." Dyma fel y bydd eu gwendidau a'u diffygion yn aflonyddu y duwiolion hynny, y rhai a fuant yn rhyfeddodau'r byd am eu hymarweddiad nefolaidd; ac yn ddiammeu mai o eisiau mwy o ddiwydrwydd y bydd llawer yn colli'r nefoedd. Pan y mae y rhai hynny a *glywsant y gair, ac yn y man a'i derbyniasant gydâ llawenydd*, (Mat. 13 : 20,) a'r rhai hynny hefyd a *wnaethant lawer o bethau, ac a wrandawsant weinidogion Crist yn ewyllysgar*, (Marc, 6 : 20,) ond er hynny yn golledig, oni ddylai'r ystyriaeth ein deffroi ni o'n difrawch a'n diogelwch twyllodrus? Pa mor bell y mae llawer *un* wedi bod yn canlyn Crist, ac er hynny yn troi'n ol, ac yn ymadael oddiwrtho pan welsant fod yn rhaid iddynt ymwadu â holl fawredd y byd, a phob disgwyliad o elw a golud daearol. Y mae Duw wedi penderfynu na cheir y nefoedd ar ammodau esmwythach. Anghenrheidiol yw i orphwysfa ganlyn llafur a lludded. "*Heb sancteiddrwydd ni chaiff neb weled yr Arglwydd.*" Heb. 12 : 14. Symlrwydd yw'r unig beth y mae ein cywirdeb yn sefyll arno. Os nad ydwyt yn syml, nid ydwyt yn Gristion. Nid yw hyn yn unig yn beth mawr acuchel mewn cristionogrwydd, ond hyn yw'r bywyd a'r sylwedd o honi. Megis y gwahaniaetha ffug-gleddyfwyr ar chwareufwrdd oddiwrth filwyr yn ymladd am eu bywydau, y gwahaniaetha y rhagrithiwr oddiwrth y Cristion difrifol. Pe byddai bossibl i ddynion fod yn gadwedig heb y cyfryw ddiwydrwydd syml, ni ofalent fawr am dano, ac ni wnai holl ragoriaethau ffyrdd Duw ychwaith fyth eu hynnill i fod yn sanctaidd. Ond pan y mae Duw wedi sefydlu na chaiff neb orphwys ar ol hyn heb ddiwydrwydd syml a diragrith yn y byd hwn, onid ein doethineb ni yw ymwroli ac ymdrechu hyd eithaf ein gallu?

§ 15. Ond i'r diben i'th ynnill di, os yw bossibl, ddar-

llenydd anwyl, i fod yn syml yn dy ymdrechiadau am y nefoedd, gâd i mi ychwanegu ychydig ystyriaethau eraill at y rhai hyn, megis y rhai canlynol. Y mae Duw *o ddifrif*, yn dy alw yn daer, ac yn dy wahodd yn garedig, a phaham na byddit tithau yn gwrando *o ddifrif*, ac yn ymdrechu yn daer? Y mae Duw, yn *ddigellwair*, yn cynnyg i ti fendithion tra mawr a gwerthfawr yn ei orchymynion, ei fygythion, a'i addewidion. Y mae efe yn meddwl yr hyn y mae yn ei lefaru. Efe yw'r digelwyddog Dduw, ac a lefarra efe, ac oni chywira?* Yn ei farnedigaethau y mae efe yn ddigellwair, ac o ddifrif; ac onid oedd efe felly pan foddodd efe yr hen fyd? a phan losgodd efe Sodom a Gomorrah? a phan wasgarodd efe yr Iuddewon? Ai amser ydyw hi, gan hynny, i gellwair â Duw? Yr oedd Iesu Grist yn syml ac yn ddifrifol pan bwrcasodd efe ein prynedigaeth. Wrth athrawiaethu, efe a anghofiodd fwyta ac yfed: efe a barhaodd drwy'r nos mewn gweddi. Yr oedd yn gwneuthur daioni, yn y fath fodd, fel yr oedd ei gyfeillion yn taeru ei fod yn ynfydu. Yr oedd ei ddioddefiadau yn fawrion: ymprydiodd ddeugain niwrnod, temptiwyd, bradychwyd, poerwyd arno, cernodiwyd, a choronwyd ef a drain! Efe a chwysodd ddafnau o waed: efe a groeshoeliwyd, a draywanwyd, ac a fu farw. Nid oedd dim cellwair yn yr holl amgylchiadau hyn; ac oni ddylem ni fod yn daer, ac o ddifrif, yn ceisio iachawdwriaeth ein heneidiau? Y mae'r Yspryd Glân, *o ddifrif*, yn ein cymell i fod yn happus. Y mae ei ysgogiadau yn aml, yn daer, yn ymbilgar, ac yn ymdrechgar. "Y mae efe yn ymdrechu â'n hyspryd ni." Yr ydym yn ei dristau yn fawr pan y y byddom yn ei wrthwynebu; ac oni ddylem ni fod yn syml, ac o ddifrif, yn ufuddhau iddo, ac yn ymroddi iddo, ac yn cydymdrechu â'i gynnhyrfiadau sanctaidd? Y mae

---

* Y mae'r cyfieithydd wedi cymmeryd rhydd-did i ychwannegu yma ryw ychydig eiriau er eglurhad, y rhai nad ydynt yn y Saesoneg; ac hefyd, mewn rhai mannau eraill: ond ni chyfnewidiwyd yr ystyr.

Duw yn syml, ac mewn modd difrifol, yn gwrando ein gweddiau, ac yn cyfrannu i ni lawer o drugareddau. Y mae efe megis yn cyd-ddioddef â ni yn ein cystuddiau. "Yn eu holl gystudd hwynt, efe a gystuddiwyd," medd y prophwyd. Esaiah, 63 : 9. Y mae efe yn gweled ein tristwch, yn clywed ein hocheneidiau, ac yn rhoddi ein holl ddagrau yn ei gostrel. Y tro nesaf y byddi mewn helbul a thrallod, tydi a ddymuni ar Dduw wrando yn drugarog dy weddiau. Ac a allwn ni ddisgwyl trugaredd dra mawr a gwerthfawr tra yr ydym mor ysgfn, oeraidd, ffurfiol, a diymgais yngwaith yr Arglwydd? Yn y lle nesaf, mae gweinidogion Iesu Grist yn syml, ac o ddifrif, yn eich cynghori ac yn eich dysgu. Ac y maent yn daer yn ei herfyniadau ar Dduw drosoch, ac yn erfyn arnoch chwithau, ac yn hiraethu mwy am iachawdwriaeth eich heneidiau nac am un elw bydol. Pe baent yn lladd eu hunain trwy eu mawr lafur, neu yn dioddef merthyrdod am bregethu'r efengyl, hwy a gydnabyddant fod eu bywydau wedi eu rhoddi mewn achos da, os gwelant eu bod wedi llwyddo i ynnill rhai, ac i gael ganddynt fod yn daer er iachawdwriath eu heneidiau anfarwol. Ac a gaiff dynion eraill fod mor llafurus a phoenus am eich iachawdwriaeth, a chwithau eich hunain mor ddifraw, diofal, ac anystyriol ynghylch eich heneidiau? Pa mor ddiwyd a difrifol y mae'r holl greaduriaid yn eich gwasanaethu? Pa mor rhyfeddol y mae'r haul yn prysuro yn ei gylch gwastadol a beunyddiol, y ffynnonnau yn tarddu yn ddibaid at dy wasanaeth, yr afonydd yn rhedeg, a'r gwanwyn a'r cynhauaf yn cadw eu hamserau? Pa mor galed y mae dy ychain yn gweithio er dy fwyn o ddydd i ddydd? Pa mor gyflym y mae dy farch yn teithio danat? Ac a fyddi di yn unig yn segur? A gaiff y rhai hyn oll fod mor syml a diwyd yn dy wasanaeth di, a thithau mor ddiofal yngwasanaeth Duw? Y mae gweision y byd a'r diafol yn ddiwyd ac yn ddifrifol: y maent yn gweithio fel pe na fedrent byth wneuthur digon: y maent mewn cymmaint brŷs fel

pe b'ai arnynt ofn dyfod yn rhy hwyr i uffern! Y maent yn dwyn ymaith o'u blaen weinidogion, pregethau a phob peth. Ac a gant hwy fod yn fwy diwyd er damnedigaeth plant dynion nac wyt ti er dy iachawdwriaeth? Onid oes gennyt ti well meistr, gwaith mwy melus, mwy o annogaethau, a gwell gwobr? Yr amser a fu pan yr oeddit yn brysur iawn yn gwasanaethu'r cnawd a Satan, os nad wyt felly etto. Pa mor awyddus yr oeddit yn canlyn dy gampau, dy gymdeithion ofer, a'th ddifyrrwch pechadurus? Ac oni fyddi di yn awr mor awyddus ac mor ymdrechgar dros Dduw a'i achos? Yr ydych chwi yn egniol iawn ynghylch pethau'r byd hwn. Pan y byddoch chwi mewn poen, neu glefyd, pa fath yw eich cŵynfanau galarus a'ch hachwyniadau trymion? Os ydych yn dlawd, pa mor galed yr ydych yn gweithio am eich bywioliaeth? Ac onid ydyw gwaith mawr iachawdwriaeth yn llawer mwy pwysfawr? Nid oes dim cellwair yn y nef nac yn uffern. Mae y seintiau yn mwynhau gwir a sylweddol happusrwydd, a'r damnedigion mewn gwir boenau annioddefol. Nid oes y fath beth a chlodfori yn oeraidd yn y nefoedd, na griddfanau esgeulus a chwynfan ysmala yn uffern. Mae pawb yno yn syml ac yn bur ddifrifol; a phan ddeui di, ddarllenydd, i angau ac i farn, O! y fath feddyliau dwys fydd yn trywanu dy galon wrth feddwl am dragywyddoldeb. Ac mi debygwn fy mod yn awr yn rhagweled fel y byddi yn synnu wrth ystyried mor esgeulus ac ysmala y buost ti gynt ynghylch y pethau hyn. Myfi a feddyliwn fy mod yn dy glywed yn gwaeddi allan o herwydd dy fawr ynfydrwydd a'th anystyriaeth.

§ 16. Ac yn awr, ddarllenydd, wedi i mi osod i lawr y rhesymmau cedyrn ac anwadadwy hyn, yr ydwyf, yn enw Duw, yn gofyn dy fwriad: a ydwyt ti yn barod i dalu pob ufudd-dod iddynt, ai nid ydwyt? Y mae yn ddiammeu gennyf fodd dy gydwybod yn cydnabod mai hynny yw dy ddyledswydd. Ac a feiddi di etto fyned ymlaen yn dy hên yrfa anystyriol, yn llwyr wrthwyneb i oleuni

rheswm a gorchymynion Duw, ac yn erbyn dwysbigiadau dy gydwybod? A elli di feiddio byw mor anystyriol, pechu mor wynebgaled, a gweddio mor anaml ag o'r blaen? A feiddi di halogi'r Sabboth, diystyru gwasanaeth Duw, a meddwl am dy gyflwr tragywyddol mewn modd mor anystyriol ag o'r blaen? Neu, yn hytrach, onid ydwyt yn bwriadu gwregsu dy lwynau, sef deffroi dy feddylfryd, ac felly ymosod dy hun yn hollol ynghylch gwaith mawr dy iachawdwriaeth, a thorri trwy bob rhwystrau, diystyru gwawd, gogan ac erledigaethau plant y byd hwn, "*gan roi heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'th amgylchu; a thrwy amynedd, rhedeg yr yrfa a osodwyd o'th flaen?*" Heb. 12 : 1. Ac yr ydwyf yn gobeithio mai hyn yw dy bwrpas a'th gyflawn fwriad. Etto, o herwydd fy mod yn gwybod cyndynrwydd calon dyn, a'm bod yn mawr ewyllysio dy wynfyd, ac yn llafurio fel *y byddo byw dy enaid*, yr ydwyf unwaith yn ychwaneg yn deisyf dy feddylfryd difrifol ar y gofyniadau a'r ystyriaethau canlynol; ac yr ydwyf yn dy dynghedu, o flaen Duw, na wnelych fygu dy gydwybod na gwrthwynebu argyhoeddiadau, ond bydded i ti eu hatteb yn gydwybodol, a rhoddi iddynt ufudd-dod ewyllysgar fel y maent yn gofyn. Pe byddai yn hawdd i chwi, trwy fod yn ddiwyd mewn duwioldeb, dyrru golud, a chael anrhydedd a dyrchafiaeth yn y byd, gwellhau o glefyd, a byw yn dragywyddol mewn llwyddiant ar y ddaear, y fath fucheddau heirdd a arweiniech, a'r fath boen a gymmerech yngwasanaeth Duw? Ac onid ydyw *gorphwysfa'r saint* yn ddedwyddwch mwy rhagorol nag un o'r rhai hyn? Pe byddai tori y Sabboth, esgeuluso gweddi ddirgel ac addoliad teuluaidd, neu fod yn anfucheddol yn eich bywyd, yn gyfryw droseddau* ag a gospid yn ol y gyfraith âg angau, pa ryw fath ddynion dichlyn a gofalus a fyddech yn eich hymar-

---

* Y gair yn y Saesoneg ydyw *felony;* ond gan nad oedd yn hawdd ei gyfieithu yn ddaelladwy, arferwyd yr ymadrodd uchod.

weddiad? Ac onid ydyw marwolaeth dragywyddol yn fwy dychrynadwy nac un dymhorol? a marwolaeth y corph yn llai nâ marwolaeth yr enaid? Neu pe byddai'r Arglwydd yn arferol o ymweled â phob gweithred bechadurus â rhyw farn bresennol, megis *anwiredd* Annanias a Sapphira, yna pa mor wyliadwrus a diesgeulus y byddech yn eich bucheddau? Ac onid ydyw llid, bâr, a digofaint yr Hollalluog yn llawer mwy ofnadwy? A phe b'ai modd i un o'ch cyfeillion, o fysg y meirw, ddyfod, a dywedyd wrthych ei fod ef yn dioddef poenau uffern am y pechodau hynny yr wyt ti yn euog o honynt, pa fath ddynion a fyddech gwedi hynny? Pa faint mwy y dylai rhybuddion a barnedigaethau Duw eich dychrynu? Pe gwybyddech mai heddyw fyddai'r diwrnod diweddaf a gaech chwi fyw yn y byd, pa fodd y treuliech chwi ef? ac etto yr ydych yn gwybod y *geill* hwn fod felly, ac yn sicr hefyd fod eich diweddaf yn agos? Pe gwelsech ddiwedd a dinystr yr holl fyd a'i holl rodres, a'i ogoniant, ei urddas, a'i harddwch yn cael eu llosgi yn ulw gan dân, pa beth a wnelai'r gyfryw olwgfa dy annog i'w wneuthur? a'r gyfryw olwgfa a fyddi di yn sicr o weled! Pe gwelsit orseddfaingc barn, a'r llyfrau'n agored, a'r annuwiolion yn sefyll gan grynu ar law aswy'r Barnwr, a'r seintiau mewn llawenydd ar ei ddeheulaw, a chlywed y farn ofnadwy yn cael ei chyhoeddi ar y rhai drygionus, a'r duwiolion yn cael eu croesawu gyda "*Deuwch chwi fendigedigion fy Nhad,*" pa fath ddynion a fyddech chwi ar ol y fath olygfa? A dyma'r hyn a gewch chwi oll ei weled ryw ddydd. Pe gwelsech uffern yn noeth, a'r holl ddamnedigion yn eu poenau parhaus a diddiwedd,—ac ar y llaw arall, y nefoedd yn agored, megis y gwelodd Stephan hi, a'r holl seintiau yn gorfoleddu mewn gogoniant, pa fath fywyd a arweiniech ar ol hynny? A chwi a gewch weled hyn oll cyn bo hir. Pe byddech wedi cael eich gosod i orwedd yn uffern am un flwyddyn, neu *un dydd*, neu awr, ac yno dioddef y poenau yr ydych yn clywed

am danynt, pa mor ddifrifol y byddai eich ymadroddion ynghylch y cyfryw le, a pha mor ddyfal y gweddiech rhag myned yno? Ac oni chymmerwch chwi air Duw am y gwirionedd o hyn? neu, a fydd raid i chwi deimlo a dioddef eirias y tân cyn credu? Neu pe buasech wedi bod yn y mwynhâd o ogoniant y nefoedd onid am *un flwyddyn*, pa faint o boen a gymmerech yn hytrach nâ chael eich difeddiannu o'r fath ddigyffelyb lawenydd a hyfrydwch! Ac fel hyn yr ydwyf wedi dywedyd digon, os nid i gyffroi'r pechadur i ddifrifol weithio allan ei iachawdwriaeth, etto, o'r hyn lleiaf, i'w ddistewi, a'i adael yn ddiesgus ger bron gorseddfaingc Duw; ac fel ag y byddwn arferol o wneuthur pan fyddo rhai o'n cyfeillion wedi meirw, pan na fydd ein geiriau na'n gweithredoedd o ddim lleshad iddynt, i'r diben o dystiolaethu ein caredigrwydd tuag attynt, nyni a fyddwn yn wylo ac yn galaru. Felly hefyd y gwnaf finnau dros yr eneidiau truain hyn. Y mae yn gwneuthur i'm calon grynu wrth feddwl pa fodd y bydd iddynt sefyll yngŵydd yr Arglwydd, yn fud, ac yn gythruddedig! pan y dywed efe wrthynt, a oedd y byd, neu Satan, yn well cyfaill i chwi na myfi? Neu, a wnaethant hwy fwy eroch a throsoch nac a wnaethum i? Edrychwch yn awr a wnant hwy eich hachub, neu wneuthur i chwi daledigaeth ddigonol am eich colled o'r nefoedd, neu fod cyn gystal i chwi ag y buaswn i? A pha beth a ettyb y pechadur euog i'r holl bethau hyn! Ond er na wna dyn wrando, etto y mae gobaith wrth ddadleu â Duw. "Oh! gan hynny, tydi yr hwn a wylaist, ac a riddfenaist uwchben Lazarus farw, tosturia wrth yr eneidiau meirwon, diddeall, a dideimlad hyn, a dwg hwynt i wylo a griddfan o dosturi tuag attynt eu hunain! Ac megis ag y gorchymynaist i'th was lefaru, felly llefara dithau yn awr, fel y byddo iddynt glywed dy lais yn treiddio at eu calonnau, o herwydd ni wnant wrando ar fy llais i yn llefaru wrth eu clustiau. Arglwydd, ti a fuost yn hir yn curo yn ofer wrth ddrysau eu calon-

nau yr awr, gan hynny, dryllia'r drysau a dos i mewn!"

§ 17. Ond i ddangos i'r duwiolion paham y dylent hwy yn anad neb fod yn llafurus am y nefoedd. Dymunaf ofyn iddynt pa ryw fath ddynion a ddylent hwy fod, y rhai y mae Duw wedi eu dewis i fod yn llestri o drugaredd? y rhai sydd wedi teimlo doluriau eu diofalwch a'u hesgeulustra yn amser eu hadenedigaeth, yn aflonyddwch eu cydwybod, yn eu hamheuaeth a'u hofnau, ac yn eu blin gystuddiau? y rhai sydd wedi cyffesu eu pechodau o esgeulusdod yn eu gweddiau i Dduw? y rhai ydynt wedi ymrwymo eu hunain i Dduw trwy gyfammodau lawer? Pa fath ddynion a ddylent hwy fod, y rhai ydynt mor agos at Dduw, megis plant ei deulu? y rhai ydynt wedi profi cymmaint hyfrydwch mewn ufudd-dod ffyddlon? y rhai ydynt (lawer o honynt) yn ammeu, neu yn ansicr pa beth a ddaw o honynt, neu pa beth a ddigwydd i'w heneidiau dros bob tragywyddoldeb! Pa fath ddynion a ddylent hwy fod mewn sancteiddrwydd, y rhai y mae eu sancteiddhad mor amherffaith, y rhai y mae eu bucheddau a'u dyledswyddau o gymmaint pwys tuag at ennill neu ddinystrio lluaws o eneidiau, ac ar ymarweddiad pa rai y mae gogoniant y Duw mawr yn pwyso cymmaint! A chan fod y pethau hyn felly, yr ydwyf yn dy dynghedu di, O Gristion, yn enw dy Arglwydd, i ystyried ac atteb y cwestiwn, *Pa fath ddynion a ddylem ni fod ymhob sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb?* a bydded i'th fuchedd atteb y gofyniad yn gystal a'th dafod.

## PENNOD VIII.

### PA FODD I GANFOD EIN HAWL I ORPHWYSFA'R SAINT.

§ 1. Annoethineb y dynion nad ydynt yn ymholi am eu hawl i orphwysfa'r saint. § 2. Yr achos sydd ganddynt i ofni, tra y maent yn fyr o'r happusrwydd yma, ynghylch eu hawl. § 3, Hunan-ymholiad yn cael ei chymmell arnynt; § 4. (1) O achos y tebygolrwydd o gael dyfod i ryw radd o sicrwydd ynghylch hynny; § 5--9. (2) O achos y rhwystrau a fyddant yn cael eu gosod ar y ffordd gan Satan, gan bechaduriaid, ein calonnau ein hunain, a llawer o achosion eraill § 10. (3) Oddiwrth yr ystyriaeth, mor hawdd, mor gyffredin a pheryglus, yw cam-gymmeryd yn hyn, ac na fydd ymchwilio mor boenus a'r esgeulusdod o hynny. Y bydd i Dduw ar fyrder ein profi, ac am hynny y byddai'n fuddiol i ni holi a phrofi ein hunain: § 11. Ac o herwydd hynny yr ydys yn erfyn ar y darllenydd beidio oedi y profiad hwn yn hwy. § 12. Yna (4) y rhoddir cyfarwyddiadau i gynnyg gwneuthur hynny. § 13. (5) Ychwannegir nodau, ac arwyddion, tuag at y profiad, yn enwedig § 14. A ydym ni yn gwneuthur (neu yn ceisio) Duw megis y *Pen Daioni;* § 15. A ydym, o'n calonnau, yn derbyn Crist megis ein Harglwydd a'n Hiachawdwr? § 16, 17. Y mae'r pen hwn yn diweddu gyda gosod allan ac amlygu mawr bwys y ddau nod yma, a'r angenrheidrwydd o'u cael arnom ni.

§ 1. A ydyw y fath orphwysfa ogoneddus gerllaw? ac a gaiff neb ei mwynhau ond pobl Dduw? Pa beth ydyw'r achos gan hynny fod yr holl fyd yn byw mor ddiofal heb gael yr hyder yma o'u rhàn yn Nghrist a'u hawl i'r orphwysfa honno, ac yn esgeuluso profi a holi eu hunain ynghylch sylfaen eu gobaith? Pan y mae'r Arglwydd wedi dadguddio dedwyddwch ei deyrnas mor gyflawn, gan fynegi yn eglur na chaiff neb fyned i mewn iddi ond ufudd a gwir gredinwyr; ac ar y llaw arall, wedi rhagddangos i ni y poenau hynny, y rhai y bydd i'r rhan arall o'r byd eu dioddef dros byth, myfi a feddyliwn na fyddai

dim modd i'r rhai sydd yn credu fod hyn yn wirionedd diamheuol gael dim heddwch na llonyddwch yn eu meddyliau, hyd onis caffont ryw foddlonrwydd, rhyw obaith rhesymmol a hyder duwiol, eu bod hwy yn etifeddion y deyrnas honno. Arglwydd, pa ryw fath ynfydrwydd rhyfedd ydyw hyn, fod dynion, y rhai sydd yn gwybod y bydd raid iddynt ar fyrder ymadael oddiyma i fyd arall o wynfyd neu drueni tragywyddol, yn byw yn ddiofal, heb wybod ymha un o'r ddau le y bydd eu trigfan? ïe, y maent mor ddiystyr a phe buasent heb erioed glywed son am fyd arall, ac y maent mor llawen ac anystyriol yn y cyflwr hwn o ansicrwydd ac anniogelwch, a phe b'ai pob peth yn dda, ac yr un fath a phe na buasai ganddynt ddim amheuaeth na dim perygl! Pa un ai byw ai meirw yw'r dynion hyn? A ydynt hwy yn effro, ai cysgu y maent? Am ba beth y maent yn meddwl? Ymha le y mae eu calonnau? Os digwydd fod ganddynt ryw fatter pwysfawr mewn cyfraith, pa mor ofalus fyddant i gael gwybodaeth sicr pa un ai yn eu herbyn neu o'u tu hwy y bydd yr achos yn debyg o gael ei sefydlu: a phe gorfyddai iddynt sefyll i gael eu barnu am eu bywyd o flaen rhyw frawdle ddaearol, pa mor awyddus y byddent i gael gwybod pa un a fyddent yn debygol o gael eu bwrw i'w colli, neu ynte eu rhyddhau, yn enwedig pe buasent trwy y gofal hwn yn medru gwneuthur rhywbeth tuag at eu hachub eu hunain? A phe byddent yn bur seilion, hwy a ofynnent i'r meddyg, "Pa beth yw eich barn chwi ynghylch y clefyd hwn? a wellhaf ai nis gwnaf?" Ond ynghylch matter eu hiachawdwriaeth y maent yn foddlon i fod yn ansicr. Os gofynwch i'r rhan fwyaf o bobl reswm am y gobaith sydd ynddynt, hwy a ddywedant, o herwydd fod Duw yn drugarog, a Christ wedi marw dros bechaduriaid; a'r cyfryw resymmau cyffredinol, y rhai a allasai unrhyw ddyn arall eu rhoddi yn gystal a hwythau; ond dygwch hwy at y prawf o'u rhan yn Nghrist, ac yn nhrugaredd Duw, ac ni fedrant hwy ddywedyd dim i iawn

ddyben. Pe b'ai Duw neu ddyn yn gofyn iddynt, ymha gyflwr y mae dy enaid di, O ddyn? A ydyw dy enaid wedi ei adgenhedlu a'i sancteiddio? A ydwyt ti wedi cael maddeuant ai nid ydwyt? fe a fyddai yn barod i atteb fel Cain am ei frawd Abel—"*Nis gwn i; ai* ceidwad fy enaid ydwyf fi? Yr ydwyf yn gobeithio'r goreu; yr ydwyf yn ymddiried i Dduw o ran fy enaid; myfi a lwyddaf yn gystal a llawer; ni fydd hi ddim gwaeth arnaf fi na phobl eraill! yr ydwyf yn diolch i Dduw, ni fu dim amheuaeth ar fy meddwl ynghylch iachawdwriaeth fy enaid?" Ond gwybydd, O ddyn, fod gennyt ti achos mawr i ddechreu *ammeu* yn awr, o herwydd na ddarfu i ti ammeu o'r blaen, ac hefyd, o achos dy fod wedi bod mor ddiofal yn dy hyder ddisail. A pha beth y mae'r ymadroddion hyn yn eu dangos ond esgeulusdra beius a gwirfoddol o'th iachawdwriaeth dy hun? Yr un fath a phe b'ai rhyw lywydd llong yn gollwng y llestr yn rhydd, ac yn dywedyd, "Myfi a'i gollyngaf hi ymysg y creigiau, a'r tonnau, a'r gwyntoedd; myfi a ymddiriedaf i Dduw am dani; hi a â ac a lwydda cystal a llongau erai' Pa gam-arfer ofnadwy yw hyn o ddaioni Duw? Cymmeryd arnynt ymddiried yn Nuw er mwyn cuddio eu hesgeulusdra gwirfoddol eu hunain! Canys pe buasit ti yn gwir ymddiried yn Nuw, tydi a fuasit yn cymmeryd dy lywodraethu ganddo, ac yn ymddiried iddo yn ei ffordd drefnedig ei hun. Y mae efe yn gofyn gennyt "*roddi cwbl-ddiwydrwydd i wneuthur dy alwedigaeth a'th etholedigaeth yn sicr,*" (2 Pedr, 1 : 10,) ac felly i ymddiried ynddo. Y mae efe wedi gysod allan ffordd yn yr Ysgrythyr, ym mha un y mae yn gorchymyn i ti chwilio, holi, a phrofi dy hun, fel y byddo i ti ddyfod at ryw sicrwydd ynghylch hyn. Onid ymdeithydd ffol a fyddai hwnnw, yr hwn a fyddai mor annoeth a myned ymlaen yn hyderus, heb wybod pa un a oedd ar yr iawn ffordd ai peidio, gan ddywedyd "*Yr ydwyf yn gobeithio fy mod yn iawn; myfi a af ymlaen, ac a ymddiriedaf yn Nuw!*" Ac onid ydwyt ti yn

euog o'r ffolineb yma ar dy ffordd tua thragywyddoldeb, heb ystyried y gallai ychydig o holi ac ymofyn pa un a wyt ar y iawn ffordd ai nad ydwyt, fod yn foddion i'th ddiogelu rhag llawer o drafferth anfuddiol, yr hyn yr ydwyt yn ei gymmeryd yn ddiles, ac y bydd yn rhaid i ti ei ddadwneuthur etto, neu fod yn fyr o iachawdwriaeth, a'th ddinystrio dy hun yn y diwedd ?

§ 2. Pa fodd y gelli feddwl neu siarad am y Duw mawr heb ddychryn, tra yr ydwyt yn anhyspys pa un ai Tad ai gelyn yw efe i ti, ac na wyddost na fydd iddo ddefnyddio ei holl briodoliaethau yn dy erbyn ? neu feddwl am Iesu Grist, pan na wyddost pa un a ydyw ei waed wedi puro dy enaid; pa un a fydd iddo dy gondemnio, neu dy rhyddhau yn y farn; neu pa un a fydd efe yn sylfaen dy happusrwydd, neu faen tramgwydd i'th ddryllio a'th falu yn chwilfriw ? Pa fodd y medri agor y Beibl a darllen pennod heb ddychrynu ? Tebygaf y dylai pob dalen fod i ti megis ysgrifen Belsassar ar y pared, ond yn unig y rhan sydd yn dy annog i geisio diwygio. Pan fyddi yn darllen yr addewidion, nis gwyddost a gyflawnir hwy i ti; os byddi yn darllen y bygythion, am ddim a wyddost i'r gwrthwyneb, yr ydwyt yn adrodd dy farnedigaeth dy hun. Nid rhyfedd ynte dy fod yn elyniaethol i'r gweinidog hwnnw sydd yn pregethu'r gwirionedd yn llym, ac yn dywedyd am dano, megis Ahab am y prophwyd gynt, "*Cas yw gynnyf fi ef, canys ni phrophwyda efe i mi ddaioni, namyn drygioni.*" 1 Bren. 22 : 8. Pa fod y gelli, heb ddychryn, gyduno mewn gweddi! Pan fyddi yn derbyn yr ordinhad, nis gwyddost pa un ai bywyd ai angau a fydd i ti ? Pa gyssur a elli di gael oddiwrth dy gyfeillion, a'th anrhydedd, a'th dai, a'th diroedd, heb wybod dy fod yn mwynhau cariad Duw hefyd, ac y cei di orphwysfa gydag ef pan y bydd i ti ymadael oddiwrthynt ? Cynnygiwch i garcharwr, cyn iddo wybod ei ddedfryd, offer-dannau, neu wisgoedd, neu anrhydedd, pa mor wael a fyddant yn ei olwg hyd onis gwypo a gaiff achub ei hoedl ? Canys

os gwyr y bydd raid iddo farw'r diwrnod nesaf, bychan iawn fydd y cyssur ei fod yn gyfoethog, neu yn anrhydeddus yn y byd; ac felly, mi a feddyliwn, y dylai fod gyda thithau, hyd onis gwybyddi pa fath a fydd dy gyflwr tragywyddol. Pan fyddi yn gorwedd i lawr i orphwyso'r nos, meddyliwyf y bydd yr ansicrwydd o'th iachawdwriaeth yn ddigon i'th gadw'n effro a'th gythryblu yn dy freuddwydion, a'th frawychu yn dy gwsg! Onid ydyw yn flin gennyt weled pobl Dduw mor gyssurus ar eu ffordd i'r gogoniant, pan nad oes i ti'r un gobaith (ar iawn sail) i gael mwynhau'r gwynfyd hwnnw? Pa fod y medri feddwl am awr angau! Ti a wyddost ei bod yn agos, ac nad oes dim modd ei hepgor, na'r un feddyginiaeth a ddichon ei throi ymaith! Pe gorfyddai i ti farw heddyw, (ac nis gwyddost pa beth a eill ddigwydd mewn diwrnod,) nis gwyddost yn iawn pa un ai i'r nefoedd ai i uffern y byddai'n rhaid i ti fyned! Ac a fedri di fod yn llawen tra yr ydwyt yn y cyfryw gyflwr peryglus? Pa ryw ddichellion sydd gennyt i gadw dy galon rhag braw, pan y byddi yn meddwl am ddydd mawr y cyfrif, ac am y fflammau tragywyddol! Pan y byddi yn clywed am danynt, oni fyddi yn crynu fel Ffelics? Os crynodd y ceidwaid, ac os aethant megis yn feirw wrth weled yr angel yn treiglo'r maen ymaith oddiar fedd ein Hiachawdwr, pa fodd y gelli feddwl am fyw yn uffern gyda chythreuliaid, heb gael rhyw dystiolaeth y diengi rhag myned yno? Y mae naill ai dy wely yn bur esmwyth neu dy galon yn bur galed, os medri gysgu yn drwm a thithau yn y fath gyflwr ofnadwy!

§ 3. Pe byddai'r cyflwr hwn o ansicrwydd, y mae y rhan fwyaf o'r byd ynddo, yn anfeddyginiaethol, yna y byddai yn rhaid ei ddioddef megis pob aflwydd anbebgorol arall! Ond, Och! y rhan amlaf, esgeulusdra gwirfoddol ydyw! Ni chymmer dynion eu cyhghori i ddefnyddio'r feddyginiaeth. Y moddion goreu i orchfygu'r ansicrwydd yma ydyw hunan-ymholiad, neu ddifrifol a

dyfal chwilio ein calonnau, a'r cyflwr yr ydym ni ynddo, wrth reol gair Duw. Ond naill ai nid yw dynion yn deall natur a diben y ddyledswydd hon, neu nid ydynt yn cymmeryd poen i brofi ei heffaith. Cerddwch trwy gynnulleidfa o fil o bobl, a pha mor ychydig a gewch chwi gyfarfod, y rhai a dreuliasant un awr, yn eu holl fywyd, yn manwl chwilio eu hawl i'r nefoedd? Gofyn i'th gydwybod, O ddarllenydd, pa bryd, ac ymha le, y darfu i ti chwilio dy galon yn ddifrifol, megis yngolwg Duw, ag ai profaist wrth yr ysgrythyrau pa un a oedd hi wedi ei chyfnewid ai nad oedd? pa un a ydyw hi wedi ei sancteiddio, ai nid ydyw? Ar ba un y mae dy serch fwyaf, ar Dduw ai ar y creadur; ar y nefoedd, ai ar bethau sydd ar y ddaear? a pha bryd y canlynaist ar yr ymofyniad yma hyd onis cefaist wybod dy gyflwr, ac yr iawn fernaist dy hun? Ond o herwydd fod hyn yn waith o gymmaint canlyniad, ac yn cael ei esgeuluso mor gyffredin, myfi a ddangosaf ei fod yn beth dichonadwy, trwy chwilio a phrofi ein hunain, i ddyfod at ryw sicrwydd;—hefyd, dangosaf pa beth sydd yn rhwystro dynion rhag chwilio a gwybod eu cyflwr; ac yna cynnygiaf rai cymhelliadau i wneuthur hynny, a chyfarwyddiadau, ynghyd â rhai nodau allan o'r ysgrythyrau, wrth ba rai y gellwch chwilio eich hunain, a bod yn sicr, pa un a ydych bobl Dduw mewn gwirionedd ai peidio.

§ 4. Y mae'r Ysgrythyr yn dangos fod modd i ni gael sicrwydd ynghylch ein hiachawdwriaeth, ac y dylem lafurio am hynny, pan y mae yn dywedyd cyn amled am y seintiau o'n blaen, eu bod hwy yn gwybod ynghylch eu cyfiawnhad, a'u cyflwr yn y byd a ddaw; pan y mae yn ein sicrhau, ac yn dywedyd, *na chollir pwy bynnag a gredo yn Nghrist, ond cael o hono fywyd tragywyddol*, yr hyn ni fuasai ond ofer ei ddywedyd pe na buasai modd i ni wybod pa un a ydym yn wir gredinwyr ai peidio; pan y mae yn gwneuthur cymmaint rhagoriaeth rhwng plant Duw a phlant y diafol; pan y mae yn gorchymyn i ni

roddi cwbl ddiwydrwydd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr, gan ein hannog yn ddyfal i *chwilio a phrofi ein hunain*, ac i wybod *a ydym ni yn y ffydd, a pha un a ydyw Iesu Grist ynom, oddieithr ein bod ni yn anghymmeradwy*. 2 Cor. 13 : 5. Hefyd, pan y mae ei addysgiadau yn gofyn i ni lawenhau yn wastadol, galw Duw yn dad, byw yn y gwaith o'i foliannu, caru ymddangosiad Crist, ewyllysio iddo ddyfod ar frys, a diddanu ein hunain â'r cyfryw ymadroddion. Ond pwy a fedr wneuthur un o'r rhai hyn o'r galon heb fod, mewn rhyw fesur, yn sicr ei fod yn blentyn i Dduw?

§ 5. (2) Ymysg yr holl rwystrau sydd yn lluddias dynion rhag iawn holi eu hunain, nid oes lle i ammeu nad yw Satan yn gwneuthur ei ràn. Os dichon yr holl awdurdod sydd ganddo, neu'r holl foddion a'r offerynau a fedr ef eu defnyddio, rwystro dynion rhag gwneuthur hynny, efe a fyn, yn ddigon sicr, yn anad un ddyledswydd arall, eu cadw rhag *hunan-ymholiad*. Y mae efe yn anewyllysgar iawn i'r duwiolion gael cymmaint o orfoledd, hyder, a buddioldeb, ag a roddai hunan-brofiad iddynt yn erbyn eu llygredigaethau. Ac am yr annuwiolion, y mae efe yn gwybod, pe baent unwaith yn iawn chwilio a holi eu hunain, hwy a fyddant yn sicr o weled ei ddichellion a chanfod eu perygl, ac felly yn debygol o ddiangc oddiwrtho. Canys pa fodd y medrai efe dywys cynnifer o filoedd yn ewyllysgar i uffern, pe baent yn gwybod eu bod yn myned yno? A chan fod ganddynt y fath oleuni eglur, a'r fath reol anffaeledig yn yr Ysgrythyr Lân, pa fodd y byddai iddynt fethu cael gwybod hynny pe baent yn chwilio yn iawn? Os na chuddir y fagl, yr aderyn a ddiangc. Y diafol a ŵyr yn well pa fodd i enweirio am eneidiau nac y dengys y bach iddynt i'w dychrynu ymaith, trwy wneuthur trwst, neu ymddangos iddynt yn ei liw a'i lun. Gan hynny, y mae efe yn ddiwyd ac yn ofalus i'w cadw rhag gweinidogaeth ffyddlon; neu y mae yn ceisio rhwystro'r gweinidog i'w cynnorthwyo i chwilio a holi eu

hunain; neu y mae efe yn ceisio gwneuthur y gair yn aneffeithiol, fel nad ydyw mwyach yn finiog, i gyrhaeddyd y galon, a gwahaniad yr *enaid, a'r yspryd, a'r cymmalau, a'r mer*, ac fel na byddo iddo droi eu meddyliau ymaith oddiwrth bethau'r byd, nac oeri eu cariad tuag attynt. Mae'r gelyn yn gwybod pa bryd y bydd y gweinidog wedi parottoi pregeth lem, wedi ei haddasu at gyflwr ac angen y gwrandawyr, ac o'r achos efe a'u ceidw rhag myned i wrando y diwrnod hwnnw, os bydd modd yn y byd, neu efe a'u tafla i drwmgwsg, neu efe a ddwg ymaith y gair trwy ofalon ac ymddiddanion bydol, neu efe a'u rhwystra ryw ffordd arall rhag cael o hono ddim effaith.

§ 6. Rhwystr mawr arall ar ffordd hunan-ymholiad sydd yn dyfod oddiwrth ddynion drwg. Eu siamplau drwg; eu cyfeillach ddifyr; eu hymadroddion; eu gwaith yn ymdrin â phethau bydol yn wastadol; eu gogan, a'u gwawd am ben dynion duwiol; ac hefyd, eu deisyfiadau, eu cynghorion, eu hannogiad, eu llithiad i'w canlyn hwy ryw ffordd arall, eu bygythion, ydynt oll yn annogaethau mawrion iddynt fyw mewn diofalwch a diogelwch twyllodrus. Cyn gynted ag y byddo Duw yn agor llygaid pechadur tlawd i weled fod ei ffordd yn ddrwg, yna yn union y mae mintai o giwdawd Satan yn barod i'w dwyllo yn ol drachefn, a'i sefydlu yn ei hen arferion, ac yngwasanaeth tywysog yr awyr. Pa beth! meddant, a oes achos i chwi ammeu ynghylch eich iachawdwriaeth, a chwithau wedi bod yn byw mor dda, ac heb wneuthur drwg i neb? Y mae Duw yn drugarog; ac os na fydd eich bath chwi yn gadwedig—Duw a gymmero drugaredd ar lawer —pa beth a ddaw o honynt! Pa beth yr ydych yn ei feddwl am eich holl hynafiaid? a pha beth a ddaw o'ch cyfeillion a'ch cymmydogion y rhai sydd yn byw megis chwithau? A fyddant *hwy* oll yn golledig? *Deuwch, deuwch*, os gwrandewch ar y pregethwyr yma, hwy a'ch gyrrant allan o'ch synnwyrau! Onid ydyw pawb yn bechaduriaid? Na flinwch eich pennau ynghylch y pethau

hyn, a chwi a wnewch yn burion. Oh! gynnifer o filoedd y mae'r cyfryw hudoliaeth, a'r fath iaith ddichellgar yn eu twyllo i gysgu, mewn anwybodaeth a diogelwch, hyd onis deffroir hwy gan angau ac uffern! Y mae'r Arglwydd yn galw ar y pechadur, ac yn dywedyd wrtho, "*Cyfyng yw y porth, a chul yw y ffordd; ac ychydig sydd yn ei chael hi.*" "*Profwch, a holwch eich hunain; rhoddwch gwbl-ddiwydrwydd*; ac y mae'r byd, ar y llaw arall, yn dywedyd, "Nac amheuwch, nac aflonyddwch eich hunain â'r cyfryw feddyliau." Yn y cyfyngdra yma, ystyria, O bechadur, mai Crist Iesu, ac nid dy hynafiaid, na'th gymmydogion, na'th gyfeillion, a fydd dy Farnwr yn y diwedd; ac os Crist a'th *gondemnia*, ni ddichon y rhai hyn dy achub; gan hynny dy synwyr dy hun a ddylai ddangos i ti, mai nid yn ol geiriau *dynion ffolion*, ond allan o air Duw, y mae i ti geisio sylfaen dy obaith o iachawdwriaeth. Pan fynnai Ahab gynt ymgynghori â lliaws o'i brophwydi gwenieithgar, buont yn achlysur o'i ddinystr. Y cyfryw bobl ddrygionus a fedrant hudo dynion i mewn i'r fagl; ond ni wyddant pa fodd i'w dwyn allan o honi. "*Na thwylled neb chwi a geiriau ofer, canys oblegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudddod; na fyddwch, gan hynny, gyfrannogion a hwynt.*" Ephes. 5 : 6, 7.

§ 7. Ond y rhwystrau *mwyaf* ydynt *ynghalonnau* dynion. Y mae rhai mor anwybodus fel na wyddant pa beth yw *hunan-ymholiad*, na pha beth y mae'r gweinidog yn ei feddwl pan y mae efe yn eu cynghori i brofi a chwilio eu hunain; neu, nis gwyddant fod dim angenrheidwydd i wneuthur hynny, ond yn meddwl fod yn rhaid i bob dyn gredu fod ei bechodau wedi eu maddeu pa un ai byddo hynny yn wir ai peidio, ac mai bai mawr yw ammeu dim ynghylch hynny, neu nid ydynt yn credu fod y fath beth yn bod a chael tystiolaeth neu sicrwydd ynghylch eu cyflwr, neu nid ydynt yn credu fod fawr o wahaniaeth rhwng y naill ddyn a'r llall, ond ein bod ni oll yn Gristionogion,

a chan hynny na ddylem ni mo'r trafferthu ein hunain ymhellach; neu, o'r hyn lleiaf, nis gwyddant ymha beth y mae y rhagoriaeth yn sefyll. Y mae ganddynt yr unrhyw feddyliau cnawdol am adenedigaeth ag oedd gan Nicodemus. Ni fyn rhai goelio y gwna Duw gymmaint gwahaniaeth rhwng dynion yn y byd a ddaw, ac o'r achos hynny ni fynnant chwilio eu hunain a oes rhyw ragoriaeth rhyngddynt yn y byd hwn. Rhai sydd mor anystyriol (dywedwn a fedrwn wrthynt) fel na fynnant osod hynny at eu calonnau, ond yn unig ein gwrando, a dyna ddiwedd. Rhai sydd wedi eu meddiannu mor bell â hunan-gariad a balchder, fel na fynnant gymmaint ag ammeu y gallant hwy fod mewn perygl; megis rhyw fasnachwr balch, yr hwn nid yw yn ewyllysio edrych dros ei lyfrau, ac yn diystyru cynghorion ei gyfeillion i chwilio ei gyfrion, neu megis tadau a mammau ffol, y rhai ni fynnant goelio na gwrando dim yn erbyn eu plant. Rhai eraill sydd mor euog fel ag y mae arnynt *ofn* holi eu hunain, ac etto y maent yn rhyfygu rhuthro at ddydd ymha un y bydd arnynt brawf llawer mwy ofnadwy. Rhai a garant bechod cyn gymmaint, (ac felly yn casâu ffyrdd Duw,) fel nad ydynt yn ewyllysio chwilio eu ffyrdd, rhag iddynt gael eu troi o'r ffordd y maent yn ei charu i un arall y maent yn ei chasâu. Rhai eraill sydd wedi cyflawn fwriadu i beidio cyfnewid eu cyflwr, fel yr esgeulusant hunan-ymholiad megis peth afreidiol; ac felly, *cyn ceisio* o honynt *ffordd newydd*, wedi iddynt fyw mor hir, a myned mor bell, hwy a ryfygant osod eu cyflwr tragywyddol megis ar antur, deued a ddêl. Llawer o ddynion eraill sydd mor bryssur yn y byd fel nad oes ganddynt amser (yn eu barn eu hunain) i brofi eu hawl i'r nefoedd. Eraill sydd mor ddifraw a syrthlyd yn eu hysprydoedd fal na chymmerant y boen i chwilio eu calonnau hyd yn nod am un awr. Ond y rhwystr mwyaf cyfferdin a pheryglus ydyw rhyw ffydd farw a gobaith disail, y rhai a gyfenwir yn gyfferdin *rhyfyg*, yr hyn sydd yn cynnal i fynu galonnau

y rhan fwyaf o'r byd, ac yn eu cadw rhag meddwl am y perygl y maent ynddo.

§ 8. Ond pe medrai dyn dorri drwy'r holl rwystrau hyn, ac ymosod ynghylch y ddyledswydd o hunan-ymholiad, etto ni chyrhaeddir sicrwydd yn bresennol. Y mae llawer yn eu twyllo eu hunain yn eu hymofyniadau am dano, trwy rai o'r achosion canlynol:—Y mae llawer o afreolaeth a thywyllwch yn enaid dyn, yn enwedig mewn un heb ei adgenhedlu, fel na fedr wybod yn iawn, pa beth y mae yn ei wneuthur, na pha beth sydd ynddo. Megis mewn tŷ lle nad oes dim yn ei iawn le, ac felly yn anhawdd iawn cael allan ryw beth a fyddir yn ei geisio, a'r un modd y mae yn y galon lle y mae pob peth yn afreolus. Y mae y rhan fwyaf o bobl yn arfer eu hunain i fod yn ddieithriaid gartref, a phur anaml y maent yn edrych i mewn iddynt eu hunain i wybod tymmer a thueddiadau eu calonnau. Y mae llawer wedi penderfynu pa fodd y barnant cyn dechreu ymholi; yr un fath a barnwr anghyfiawn, wedi derbyn gwobr, yr hwn a fydd yn holi, megis pe b'ai yn ewyllysio barnu yn ddiduedd, tra, ar yr un pryd, y mae wedi sefydlu eisoes gyda pha blaid y rhydd efe ei ddedfryd. Anaml iawn y mae neb yn ddiduedd yn ei achos ei hun; canys y mae y rhan fwyaf o ddynion yn barod iawn i weled eu pechodau mawrion eu hunain yn *fychain*, a'u pechodau bychain nid ydynt (yn eu tyb hwy) bechod yn y byd; a'r hyn o ddaioni a ddaeth i'w rhan o naturiaeth, y maent yn ei gyfrif yn waith gras; ac y maent yn barod i ddywedyd, *yr holl bethau hyn a gedwais o'm hieuengctyd;* neu, *yr ydwyf yn gyfoethog, a'm golud a amlhaodd, ac nid oes arnaf eisiau dim.* Nid yw y rhan fwyaf yn chwilio dim ychwaneg na'r hanner, neu yn bur amherffaith. Os na fydd y peth yn hawdd, ac yn gyfryw ag a fedrant ei orphen yn fuan, y maent yn digalonni ac yn ei roddi heibio. Y maent yn profi eu hunain wrth reolau anghywir a nodau twyllodrus, gan na wyddant yn iawn ymha beth y mae gwirionedd y grefydd Gristion-

ogol yn sefyll; rhai yn edrych yn *uwch*, a rhai yn *îs*, nâ'r *rheol* neu'r profaen ysgrythyrol. Ac yn aml y maent yn methu yn y gwaith mawr hwn, gan gynnyg ei gyflawni yn eu nerth eu hunain. Ac megis ag y mae llawer yn disgwyl i'r Yspryd ei gyflawni hebddynt, felly y mae eraill, ar y llaw arall, yn ei gymmeryd yn eu llaw eu hunain, heb *geisio* na *disgwyl* cymmorth yr Yspryd Glân. Y ddau fath hyn a fyddant yn sicr o fethu yn eu rhyfyg a'u hyfdra.

§ 9. Rhai rhwystrau eraill sydd yn dàl yn ol lawer o wir Gristionogion rhag myned rhagddynt i gael tystiolaeth foddhaol a sicrwydd cyssurus, megis gwendid ein gras yn bennodol. Rhai pethau bychain sydd yn anhawdd eu canfod. Y rhan fwyaf o Gristionogion sydd yn boddloni eu hunain â mesur bychan o ras, ac nid ydynt yn canlyn ymlaen i gyrhaeddyd llawn oed a chorpholaeth mewn ystyr ysprydol: y feddyginiaeth i'r cyfrwy rai fyddai canlyn ymlaen yn eu dyledswydd, fel y byddai iddynt gynnyddu mewn gras. Disgwyliwch wrth Dduw yn yr ymarferiad o'r moddion hynny a drefnodd efe, ac yn ddiau efe a'ch bendithia â chynnydd mewn gras. Oh! na fyddai i Gristionogion dreulio yr amser hynny yn ymdrechu am ychwaneg o ras, yr hwn y maent yn ei wario yn ddiles, mewn amheuaeth gofidus, pa un a gawsant hwy ras ai nis cawsant; ac yn lle galaru yn anfuddiol, a chwyno'n ddiles, dymunol iawn fyddai iddynt roddi allan eu serchiadau, mewn gweddiau dyfal a gwresog, am ychwaneg o ras. Yr ydwyf yn deisyf arnat, O Gristion, cymmer y cynghor hwn megis oddiwrth Dduw, ac yna, pan fyddi yn hyderus gredu, ac yn caru a'th holl galon, ni fedri ammeu mwyach ynghylch dy ffydd a'th gariad mwy nag y gall y dyn sydd yn boeth ammeu ynghylch ei wresogrwydd, neu ddyn cryf a heinyf ammeu ei fod yn fyw ac yn iach. Y mae credinwyr yn lleihau eu cyssuron, trwy edrych mwy ar yr arwyddion a'r nodau, y rhai a ddywedant wrthynt pa beth ydynt, yn hytrach nac ar yr

addysgiadau sydd yn eu cyfarwyddo pa beth i'w wneuthur, yr un fath a phe b'ai eu cyflwr presennol i barhau yn sefydlog neu anghyfnewidiol; ac os nad ydynt wedi cael meddeuant eisoes, nad oes dim gobaith na meddyginiaeth iddynt rhagllaw. Onid ynfyd y cyfrifid y dyn a orweddai i lawr dan wylo o herwydd nad oedd wedi cael maddeuant, pan ar yr un pryd, yr oedd y Tywysog yn sefyll yn ei ymyl yn *cynnyg* iddo feddeuant, ac yn ei *gymmell* i'w dderbyn? Nid hyn (O Gristion) yw ffydd gyfiawnhaol, sef dy fod yn credu am gariad Duw tuag attat, ond yn hytrach, dy fod yn ewyllysgar, ac â'th holl galon yn *derbyn* Crist i'th wneuthur oll yn hawddgar. Onid yw yn llawer iawn gwell i dderbyn Crist megis y mae'n cael ei gynnyg, na threulio cymmaint o amser yn ammeu pa un a ydyw Crist ynom ai nid ydyw? Un achos arall o drallod i Gristionogion yw hyn, eu bod rai prydiau yn cymeryd sicrwydd yn lle y llawenydd sydd yn ei ganlyn; yr un fath a rhyw blentyn, yr hwn ni chyfrifai ei hun yn fab i'w dad yn hwy nag y gwela wyneb siriol ei dad yn gwenu arno, neu yn clywa ymadroddion cyssurus yn dyfod allan o'i enau, yr un fath a phe na buasai i'w gyfrif yn dad ond tra fyddai yn y cyfryw dymher hawddgar. Y mae helbul llawer o enaidau hefyd yn cael ei ychwanegu o herwydd na wyddant y ffordd gyffredin ymha un y mae Duw yn cyfrannu cyssur i'w bobl. Y maent yn tybied nad oes ganddynt ddim arall i'w wneuthur ond yn unig *disgwyl* yr *amser* y gwelo Duw yn dda i *roddi* iddynt ddiddanwch. Ond gwybydded y cyfryw rai, mai ar *addewidion* Duw y mae eu holl obaith yn sefyll, ac mai oddiyno yn unig y mae iddynt ddisgwyl cael cyssur a diddanwch; a chan hynny, rhaid iddynt ddarllen ei air yn ddyfal, myfyrio arno, a *phledio* ei *addewidion*, gan hyderus *gredu* y bydd iddo eu *cyflawni* iddynt. Yn y ffordd hon gallant ddisgwyl i'w yspryd sanctaidd gyfrannu cyssur a diddanwch i'w heneidiau. Gorfoledd yr addewidion, a llawenydd yr Yspryd Glan, ydynt

un. Heblaw hyn y mae llawer yn disgwyl *mwy* o sicrwydd ffydd a thystiolaeth o'u heddwch nac y mae Duw yn gweled yn dda i'w roddi yn gyfferdin. Nid ydynt yn ystyried fod llawer *gradd* o sicrwydd neu hyder dduwiol, a thra y mae ynddynt y gradd lleiaf o amheuaeth, ni chredant y gall fod ganddynt ddim sicrwydd. Ond cyhyd ag y byddant yn y byd hwn, ni chânt wybod ond mewn rhàn. Y mae camgymmeriad arall hefyd heblaw hyn; sef fod rhai yn cymmeryd cyssur, ond nid oddiar iawn sylfaen. Geill hyn ddigwydd i lawer enaid gwerthfawr, yr hwn y mae ganddo well sail, ond etto heb *wybod* hynny. Megis y mae bywyd mewn baban cyn iddo wybod, ac er ei fod yn camamgyffred llawer peth am dano ei hun, ac ynghylch pethau eraill hefyd, etto nid yw hyn yn profi *nad oes einioes* ynddo. Felly pan y mae y Cristion yn cael allan ryw beth heb fod yn iawn yn ei gyssuron cyntaf, nid yw efe i farnu oddiwrth hynny bod achos iddo ammeu neu ofni ynghylch ei ddioglewch, canys y mae llawer yn *parhau* dan *ofnau* ac amheuaeth o herwydd *gwendid* eu natur. Y mae gan lawer calon onest ben lled wàn, ac nis gwyr pa fodd i gymmeryd yn llaw y gwaith o hunan-brofiad. Hwy a gyfaddefant y rhan gyntaf o'r ymresymiad, ond a wadant y canlyniad eglur, ac a haerant fyth nad oes dim gobaith lle y byddo'r ychydig lleiaf o amheuaeth. Oni wel Duw yn dda, ryw ffordd arall, wneuthur i fynu eu byrdra o wybodaeth, nid ydwyf yn gweled pa fodd y gallant gael heddwch eglur a sefydlog. Un achos mawr a rhy gyffredin, o helbul a gofid, ydyw fod llawer yn dirgel-borthi rhyw bechod adnabyddus. Y mae hyn yn lleihau ein grasusau i raddau mawr—cuddio yr hyn nid yw yn ei ddinystrio; canys y mae'r pechod felly yn cael cymmaint o rwysg fel nad yw *grasusau* neu *rinweddau* y Cristion yn cael lle i weithio, na phrin i ymddangos; ac ni chlywir prin mo'i lais gan ddadwrydd y llygredigaeth yma. Y mae'r cyfryw bechod mynwesol hefyd yn tynnu allan, (megis,) neu yn pylu llygaid yr enaid, fel nad ydyw

y Cristion yn gweled nac yn gwybod ei gyflwr yn iawn. Ond yn enwedig, y mae yn annog Duw i gymmeryd ymaith gyssuron a chymmorth ei Lân Yspryd, heb ba un, nyni a allwn fod yn hir-chwilio, heb gael tystiolaeth o'n mabwysiad. Y mae Duw wedi gwneuthur ysgariad, ac wedi gosod megis agendor fawr rhwng pechod a thangnefedd. Tra yr ydwyt yn porthi dy falchder, neu yn cynnwys yn dy galon *gariad* i'r *byd,* neu yn ymollwng dy hun i *chwantau'r cnawd,* neu unrhyw weithred ddrwg ac anghristionogol, nid yw ond ofer i ti ddisgwyl am *gyssur.* Ac felly os bydd i ddyn *ddyrchafu ei eilunod yn ei galon, a rhoddi tramgwydd ei anwiredd ar gyfer ei wyneb,* ac yna dyfod at ryw weinidog, neu fyned at Dduw, i geisio *cyssur a diddanwch, yn lle rhoddi iddo gyssur, Duw a'i hettyb* yn ol amlder ei eilunod. Ezec. 14 : 3–9. Achos mawr arall nad ydyw'r Cristion yn cael diddanwch yw, nad ydyw gras yn cael ei chadw mewn cyflawn waith yn wastadol. *Ffordd dyledswydd dygn a dibaid, yw ffordd y diddanwch* mwyaf helaeth. Heddwch a diddanwch ydyw'r annogaethau mwyaf y mae Crist Iesu yn eu rhoddi megis taledigaeth i'r rhai hynny ag sydd fwyaf ufudd a ffyddlon yn ei wasanaeth. Ac o herwydd hynny, er nad ydyw ein *hufudd-dod* yn eu *haeddu,* etto y maent yn codi neu yn gostwng, yn ychwanagu neu yn lleihau, yn ol ein diwydrwydd ni yn ein dyledswydd. Megis y rhaid i weddi gael ffydd a bywiogrwydd i fod yn llwyddiannus, yn nghyda gwaed ac eiriolaeth Crist, felly y rhaid i bob rhan o'n hufudd-dod. Os ydwyt yn dechreu cyflawni dy ddyledswyddau yn anamlach, yn fwy ffurfiol, ac mewn modd mwy oeraidd nac o'r blaen, yn enwedig, yn dy weddiau dirgel, ac etto heb ganfod dy lawenydd yn lleihau, ni fedraf lai nac ofni fod dy orfoledd naill ai yn gnawdol neu yn ddieflig. Heblaw hyn, nid yw gras byth yn amlwg a theimladwy i'r enaid ond pan y mae mewn gweithrediad, gan hynny rhaid i eisiau gweithredu achosi eisiau sicrwydd. Canys y mae gweithrediadau yr enaid ar y

cyfryw wrthrychau rhagorol o naturiaeth yn dwyn diddanwch gyda hi, o herwydd y mae'r weithred o garu Duw yn Nghrist yn anrhaethol felus a chyssurus. Y mae'r enaid a gynnysgaeddwyd â gras yn y modd mwyaf helaeth, os na fydd yn dangos ei heffeithiau, yn debyg i delyn mewn cywair a thôn dda, yr hon, tra y mae yn cael ei gadael yn llonydd, nid yw yn rhoddi mwy o sŵn na rhyw ddarn arall o bren; ond pan ei trinir gan ddywlaw rhyw delyniwr celfydd, yna y mae yn canu yn hyfryd. Y mae rhyw radd o gyssur yn canlyn pob gweithred dda, megis ag y mae tân yn rhoddi gwres, a chynnesrwydd yn deilliaw oddiwrth yr haul. Fe ddylai pob dyn sydd ag anwyd arno weithio hyd oni byddo yn clywed ei hun yn cynnesu; felly, yn yr un modd, yr hwn sydd yn ewyllysio cael tystiolaeth dufewnol, a ddylai ymwroli, ac nid bod yn segur, ond arferu ac ymgynnefino ei rasusau hyd onis diflanno pob amheuaeth. Y mae'r byrdra o ddiddanwch yn yr enaid hefyd weithiau yn tarddu oddiwrth afiechyd corphorol, trymder meddwl neu'r pruddglwyf. Ac nid yw yn fwy rhyfeddod fod dyn cydwybodol, *dan bwys trymder yspryd* ac anhwyldeb, yn *ammeu*, yn *ofni*, ac yn gwanobeithio, nâ bod dyn sâlw yn griddfan, neu blentyn yn wylo pan ei ceryddir. Ac yn y cyfryw amgylchiad, ni fydd ymdrechiadau'r gweinidog o fawr les heb gynnorthwy'r meddyg. Chwi a ellwch ddistewi'r cyfryw ddynion, ond nid eu diddanu. Chwi a fedrwch wneuthur iddynt gyfaddef eu bod yn meddu rhyw ychydig ras, ond nid ellwch eu dwyn i ddyben cyssurus: ac ni fedrwch, trwy fodd yn y byd, beri iddynt ddwyn ar gof ddim a ddyru iddynt feddyliau da am eu cyflwr, ond yn unig rhyw beth a ddigwyddodd ddeuddydd neu dri yn ol. Y maent yn gwaeddi allan o herwydd pechod a digofaint Duw, pan mai'r achos mwyaf yw eu hafiechyd corphorol.

§ 10. (3) Ynghylch annogaethau i'n cymmell i'r ddyledswydd o hunan-ymholiad, yr ydwyf yn dymuno arnoch ystyried y rhai canlynol. Y mae'n hawdd iawn cael ein

twyllo ynghylch ein hawl i'r nefoedd. Y mae llawer yn awr yn uffern, y rhai ni feddyliasant erioed fod dim twyll yn eu calonnau, y rhai oeddent yn rhagori yn noethineb y byd, y rhai oeddent yn byw yn ngoleuni disglaer yr efengyl, ac hefyd yn pregethu yn erbyn esgeulusdra eraill. Camgymeriad yn y pwngc mawr yma sydd bur gyffredin. Dyma gyflwr y rhan fwyaf o'r byd. Yn yr hên fyd, cyn y dylif, ac yn Sodom, nid ydym yn cael hanes ond am ychydig ag oeddent yn ofni'r farn oedd ar ddyfod. Y mae agos i bawb, yn ein mysg ni, yn dysgwyl bod yn gadwedig; ac etto y mae Crist yn dywedyd wrthym, mai "*ychydig sydd yn cael y porth cyfyng a'r ffordd gul sydd yn arwain i'r bywyd.*" Mat. 7 : 14. Ac os ydyw'r fath liaws yn cael eu twyllo, oni ddylem ni holi ein hunain yn fanylach, rhag i ninnau gael ein twyllo yn gystal a hwythau? Nid oes dim yn fwy peryglus na chael ein twyllo fel hyn. Pe digwyddai i'r duwiolion farnu eu cyflwr yn waeth nac ydyw, fe fyddai y canlyniad yn alarus; ond y drwg-ganlyniad o gamgymmeriad yr annuwiolion a fyddai yn anrhaethol ofnadwy. Fe fyddai'r cyfryw dwyll yn sicr o'u caledu yn ngwasanaeth Satan, a gwneyd y moddion hynny yn ddiles ac yn aneffeithiol, y rhai a arferid er budd a lleshad iddynt. Hynny hefyd a rwystrai ddyn rhag tostturso wrth ei enaid ei hun. Y gwaith mwyaf pwysfawr o'r cwbl oll ydyw hwn, ar ba un y mae ein iachawdwriaeth neu ein damnedigaeth drag'wyddol yn sefyll. Ac os bydd i chwi gamsynied hyd angau, chwi a fyddwch wedi eich dinystrio eich hunain am byth. O herwydd paham, gan weled fod y perygl mor fawr, pa ddyn doeth na pharhëai yn olrhain ei galon ddydd a nos, hyd onis caffai gyflawn foddlonrwydd ynghylch diogelwch ei gyflwr? Ystyriwch mor fychan yw poen y ddyledswydd mewn cyffelybiaeth i'r gofid a fydd yn sicr o ganlyn yr esgeulusdra! Chwi a fedrwch ddal allan i chwysu ac ymdrafferthu o flwyddyn i flwyddyn i ymochelyd rhag tlodi, a phaham na threuliwch ychydig amser mewn hunan-ymholiad i ddiangc

rhag trueni tragywyddol? Ac ni fedrwch wneuthur gwell cymmwynas i Satan, na mwy o ddrwg i chwi eich hunain, na thrwy esgeuluso'r ddyledswydd hon. Un o ddichellion mwyaf y diafol, yn ei holl demptasiynau, ydyw eich cadw mewn anwybodaeth o'ch cyflwr a'r perygl yr ydych ynddo hyd onid eloch i'r poenau tragywyddol; ac a gyd-unwch chwi âg ef i'ch twyllo eich hunain? Os gwnewch hyn drosto, neu yn ei le, chwi a gyflawnwch y rhan fwyaf o'i waith. Neu, a ydyw'r gelyn yn haeddu cyn gystal a hyn ar eich llaw, fel y cynnorthwyech chwi ef i ddwyn ymlaen eich damnedigaeth eich hunain? Y mae'r amser yn nesâu pan fydd i Dduw ein chwilio; ac os, yn y byd hwn, y gwna efe hynny trwy gystudd, hynny a wna i chwi ofidio na buasech wedi eich profi a'ch barnu eich hunain fel y buasai i chwi ddiangc rhag barn Duw. Llais dychrynadwy iawn oedd hwnnw i Adda, "*Pa le yr wyt ti? A fwyteaist ti o'r pren?*" Ac wrth Cain, "*Pa le y mae dy frawd?*" "*Ac nid yw dynion chwaith yn meddwl, yn eu calonnau, fy mod i, medd yr Arglwydd, yn cofio eu holl ddrygioni hwynt; weithian eu gweithredoedd eu hun a'u hamgylchynodd; y maent ger bron fy wyneb.*" Hos. 7 : 2. Ystyria hefyd pa faint a fyddai'r canlyniadau dymunol o'r cyfryw hunan-ymholiad. Os ydwyt yn uniawn ac yn dduwiol, hyn a'th dywys, yn ddioed, tuag at *gyflawn hyder* yn ngariad Duw. Ac os nad ydwyt felly, er i hyn dy ofidio dros ychydig, etto efe a hwylia ymlaen dy happusrwydd, ac yn y diwedd a'th dywys i gael tystiolaeth fynwesol o'r happusrwydd hwnnw. Onid ydyw'n beth dymunol i ni gael gwybodaeth o'r hyn a ddigwydd i ni ar ol hyn; yn enwedig pa beth a ddigwydd i'n heneidiau; ac ymha le, ac ymha gyflwr, y byddwn ni dros byth? Ac fel y mae'r wybodaeth o hyn yn ddymunol, pa faint mwy cyssurus a fydd y sicrwydd o'n hiachawdwriaeth! Pa fath feddyliau hawddgar a fydd gennyt am Dduw! Yr holl fawredd a'r cyfiawnder sydd yn ddychryn i eraill, a fyddant i ti yn llawenydd. Pa mor

felus a fydd dy feddyliau am Grist, am y gwaed a gollodd, a'r bendithion a ennillodd ? Pa mor dderbyniol a fydd gair Duw gennyt, ac *mor weddaidd yr ymddengys traed y rhai sydd yn efengylu tangnefedd !* Esaia, 52 : 7. Pa mor felus a fydd yr addewidion pan fyddi yn sicr eu bod yn perthyn i ti ! Ië, hyd yn nod y bygythion a fyddant yn achos o *gyssur*, o herwydd dy fod wedi diangc rhagddynt. Y fath hyfdra a chyssur a gei di y pryd hynny mewn gweddi, pan y gelli ddywedyd, "*Ein Tad*," gyda llawn hyder ! Hyn hefyd a wna'r derbyniad o'r ordinhad yn wledd gyssurus i'th enaid. Ac fel hyn yr ymddengys pob trugaredd arall yn llawer mwy gwerthfawr ; a pha mor foddlon y byddi, y pryd hynny, yn ymddarostwng dan bob cystuddiau ! Ac fel y bydd i hyn ragfelusu dy feddyliau am angau a barn, nefoedd ac uffern, pa mor fywiog y bydd i hyn dy wneuthur yn ngwaith yr Arglwydd, ac yn fuddiol i bawb o'th amgylch ! Ymha fath fodd y bydd i hyn adnewyddu a chyfnerthu dy holl rasusau a'th serchiadau, ail-enyn dy edifeirwch a gwresogi dy gariad, bywiogi dy ddymuniadau a chadarnhau dy ffydd ! a hyn a fydd i ti yn ffynnon o orfoledd gwastadol, ac a ddylenwa dy galon â diolchgarwch. Hyn a'th gyfyd yn uchel yn y gwaith hyfryd o foliant, a'th gynnorthwya i fod yn fwy nefol-fryd, ac a'th wna yn fwy dyfal-barhaus ymhob peth. A'r holl ganlyniadau hyfryd hyn, o dystiolaeth a sicrwydd dy ffydd, a wnai dy fywyd yn nefoedd ar y ddaear.

§ 11. Ac er fy mod yn sicr fod yn yr annogaethau hyn resymmau pwysfawr, etto yr ydwyf yn petruso, O ddarllenydd, rhag i ti droi heibio fy llyfr fel pe byddit wedi dybenu, ac felly heb fwriadu ymosod ynghylch cyflawni y ddyledswydd. Un o'r ystyriaethau pwysicaf all fod ydyw yr hyn sydd genym mewn llaw, sef dy annog i geisio gwybod pa un ai yn y nefoedd ai yn uffern y bydd dy drigfan i bob tragywyddoldeb. Yr ydwyf fi yma yn erfyn arnat, er mwyn dy enaid, ïe, yn dy dynghedu yn enw Duw, na fyddo i ti oedi yn hwy, ond dyfal chwilio dy galon, a hyn-

ny yn y modd mwyaf difrifol; ac ystyria ynot dy hun a ydyw camgymmeriad yn y peth hyn, mor hawdd, mor gyffredin, ac mor beryglus? A oes cynnifer o ffyrdd cyfeiliornus? Ac onid ydyw yn angenrheidiol i mi chwilio pob congl o'm calon, hyd onis caffwyf wybod fy nghyflwr? A fydd raid i mi, mor fuan, sefyll i gael fy marnu o flaen brawdle Crist; ac oni wnaf fi yn ddioed ddyfal chwilio fy hun; canys pa beth a ddeuai o honof pe digwyddai i mi fod yn ol? A allaf fi gael gwybod yn awr, drwy gymmeryd ychydig o boen i chwilio? ac a ydyw hynny yn ormod poen gennyf? Ond fe allai yr attebi, "Nis gwn pa fodd i ymosod ynghylch y gwaith." Yn hyn o orchwyl yr ydwyf yn awr yn myned i roddi i ti gyfarwyddyd. Ond, Och! ni bydd hyn ond ofer, onid ydwyt yn llwyr fwriadu gwneuthur yn ol fy nghyngor. A wnei di gan hynny, cyn myned ymhellach, addaw yma, o flaen yr Arglwydd, ymosod dy hun yn fuan ynghylch cyflawniad y ddyledswydd hon, yn ol y cyfarwyddiadau a roddaf i ti allan o air Duw? Nid wyf yn gofyn dim afresymmol neu amhossibl gennyt, ond yn unig treulio ychydig o oriau i'r diben o gael gwybod pa beth a ddaw o honot am byth! Pe byddai i ryw gymmydog neu gyfaill ofyn gennyt un awr o amser i ymddiddan, neu at ryw *fusnes*, neu i ryw ddyben arall, a thithau yn meddwl y gellit fod yn fuddiol iddo, yn ddiau ni ewyllysit ei naccau; llai o lawer ynte y dylit wneuthur càm â thi dy hun mewn gorchwyl mor fawr! Yr ydwyf yn deisyf arnat gymmeryd y dymuniad hwn gennyf, megis yn enw Crist, ac megis pe buaswn yn ei gynnyg i ti ar fy ngliniau; ac myfi a blygaf fy ngliniau ger bron Crist etto i ddeisyfu arno ostwng dy galon i'r ddyledswydd.

§ 12. (4) Y cyfarwyddiadau i ti holi dy hun ydynt y rhai canlynol a'u cyffelyb. Bwrw allan o'th feddyliau bob gofalon a dychymygion, fel na byddo iddynt rannu na dyrysu dy feddwl, (fe fydd y gwaith hwn yn ddigon ar unwaith, heb ychwanegu eraill atto,) ac yna syrthia i lawr o flaen Duw, mewn gweddi, o'r galon, gan ddymuno cym

morth ei Lân Yspryd i ddangos i ti dy wir gyflwr, ac i'th gyfarwyddo ymhob rhân o'r gwaith. Dewis gan hynny yr amser a'r lle mwyaf cyfaddas. Bydded y lle yn ddirgel, a'r amser pan na bydd dim i'th rwystro; ac os dichonadwy, bydded y pryd presenol. A bydded gennyt mewn parodrwydd, naill ai yn gofadwy neu ysgrifenedig, amryw ysgrythyrau, yn cynnwys darluniad y seintiau, ac ammodau iachawdwriaeth yn yr efengyl; ac ymdrecha yn dy feddwl, fel na byddo gennyt yr amheuaeth lleiaf ynghylch eu gwirionedd anffaeledig. Na ddechreu trwy ymholi, a oes ynot ti *ddim* da yn trigo, neu, a oes gennyt y cyfryw *raddau* o ras? ond pa un a oes ynot y cyfryw ras *cadwedigol*, mewn gwirionedd a symlrwydd, ai nad oes? Ac, os bydd dy galon yn tynnu yn ol oddiwrth y gwaith, yna cymmell hi ymlaen. Gorchymyn hi yn gaeth. Gwnaed *rheswm* hefyd ei briodol waith, ac arfered ei awdurdod, ïe, tyngheda ef yn enw Duw, a gorchymyn iddo ufuddhau dan boen ei ddigofaint. Gadewch i'r *gydwybod* hefyd gyflawni ei swydd hyd oni byddo dy galon wedi ei hiawn gynhyrfu i ymosod ynghylch y gwaith, ac na adawed dy galon i ti dreulio dy amser yn ddiles pan ddylesit fod ynghylch y gwaith. Gwna yr un modd a'r Salmydd, "*Fy yspryd sydd yn chwilio yn ddyfal:*" Salm 77 : 6, a'r hwn a lwydda gyda'i galon ei hun, a lwydda hefyd gyda Duw; ac os, ar ol dy holl boen, ni fedri gael boddlonrwydd, yna cais gymmorth, a dos at ryw un profiadol, pwyllus, dysgedig, a ffyddlon, a dywed dy gŵyn, a gofyn ei gyngor, a chanlyn ei addysg megis cyfarwyddyd meddyg at y corph; ac er (fe allai) na fedr hwn chwaith roddi i ti gyflawn foddlonrwydd, neu sicrwydd yn y peth, etto dichon fod o fawr leshad i'th gynnal a'th gyfarwyddo. Ond na fydded i ti arfer hyn megis lliw i esgeuluso hunan-ymholiad, ond yn unig arfer hon megis y feddyginiaeth olaf, pan fetho dy ymdrechiadau dy hun. Ac ar ol i ti gael allan dy gyflwr yn iawn, yna bwrw farn arnat dy hun, yn ol yr hyn a ganfyddaist ynot, naill ai dy fod yn

Gristion mewn gwirionedd, neu nad ydwyt. Ond na fwrw farn yn fyrbwyll, na chwaith gan wenieithio i ti dy hun, na chydag ofnau trymllyd, ond yn bwyllog, yn arafaidd, mewn gwirionedd a symlrwydd ; ac hefyd yn gydwybodol, ac yn argyhoeddedig, yn ol rheswm a'r ysgrythyrau. Ymegnia hefyd, dy fod yn cydnabod o'th galon y cyflwr yr ydwyt ynddo, yn ol y farn a fwriaist arnat dy hun. Ac os heb ras yr ydwyt, yna meddwl am dy drueni; ac os wedi dy adnewyddu a'th sancteiddio yr ydwyt, yna ystyria i ba fath gyflwr bendigedig y mae'r Arglwydd wedi dy ddwyn. Dilyn y meddyliau hyn hyd oni byddont wedi gwneuthur argraph ddofn ar dy galon. Ac o'r hyn lleiaf ysgrifena'r geiriau hyn ar dy gof: "*Y pryd a'r pryd, wedi dyfalchwilio, y cefais allan fod fy nghyflwr y fath a'r fath;*" ac fe fydd y gyfryw dystiolaeth yn bur ddefnyddiol i ti rhagllaw. Nac ymddiried ychwaith i un ymofyniad o'r fath hyn heb ymchwilio drachefn, ac na fydded i hyn dy rwystro rhag profi o honot dy ffyrdd yn feunyddiol, ac na fydded i ti ddigalonni er gweled o honot yr angenrheidrwydd o *ail*, ïe, *mynych* ymholi. Yn enwedig cymmer ofal, os ydwyt yn ddi-adgenedledig, i benderfynu am dy gyflwr tragywyddol oddiwrth dy gyflwr presennol, ac na ddywed ynot dy hun, "O herwydd fy mod yn awr yn annuwiol, felly y byddaf farw," ac "o herwydd fy mod yn awr yn rhagrithiwr, felly y parhaf." Nac ymollwng fel hyn ; canys nid oes dim a ddichon dy rwystro at Grist ond dy *anewyllysgarwch* dy hun, er dy fod di, hyd yn hyn, wedi bod yn rhagrithio iddo ac yn ei ddiystyru.

§ 13. (5) Yn awr gadewch i ni roddi ychydig nodau, wrth ba rai y gellwch wybod am eich hawl i orphwysfa'r saint. Ni chaf enwi ond y ddau yma, sef, *cymmeryd Duw megis dy unig ddaioni, a derbyn Crist, o'r galon,* megis dy unig Arglwydd a'th Iachawdwr.

§ 14. Y mae pob enaid sydd â hawl ganddo i'r orphwys hon, yn gosod ei happusrwydd pennaf yn Nuw. Yr orphwysfa hon sydd yn cynnwys y mwynhad mwyaf cyflawn

a gogoneddus o Dduw; a'r hwn nid yw yn ystyried Duw megis y *Pen Daioni, a'r unig wrthrych a chwenychai*, sydd (yn ei galon) yn bagan ac yn eilun-addolwr atgas. Gad i mi ofyn i ti, a ydwyt ti, mewn gwirionedd, yn ystyried y mwynhad o Dduw mewn gogoniant megis dy ddedwyddwch pennaf, ai nid ydwyt? A elli di ddywedyd mewn gwirionedd, yr Arglwydd yw fy rhan? *Pwy sydd gennyf fi yn y nefoedd ond tydi? Ac nid oes neb ar y ddaear a ewyllysiwn gyda thydi.* Os ydwyt yn etifedd i'r orphwysfa, fel hyn y mae gyda thydi. Er y bydd y *cnawd* yn dadleu am gael ei fwyniant, ac y bydd y *byd* yn ceisio dyfod i mewn i'th serchiadau; etto, er hyn, dy farn a'th feddylfryd gwastadol, beunyddiol, a pharhaus, ydyw dy fod yn dewis Duw o flaen yr holl bethau sydd yn y byd. Ymhellach, os Cristion mewn gwirionedd ydwyt, yr ydwyt yn gwneuthur Duw yn nôd ac yn wrthrych dy holl ddymuniadau a'th ymdrechiadau, a'r unig achos yr wyt yn gwrando, yn gweddio, ac yn ewyllysio byw ar y ddaear, yn bennaf, ydyw hyn, sef fel y byddo i ti geisio'r Arglwydd, a gwneuthur o honot yr orphwysfa hon yn sicr. Ac er nad wyt yn ei cheisio mor egniol ag y dylit, etto hon sydd yn dwyn y rhan fwyaf o'th ddymuniadau a'th ymdrechiadau, fel nad ydwyt yn ewyllysio nac yn dewis dim arall o'i blaen; ac nid ydwyt yn cyfrif un *gorchwyl* yn rhy fawr, nag *un peth* ac yr ydwyt yn ei ddioddef, yn ormod, fel yr ennillit y gamp. Ac er fod y cnawd yn wan, ac yn barod i ddiffygio, etto yr ydwyt yn ymfoddloni, ac yn llawn fwriadu myned trwy'r cwbl oll er mwyu cael yr orphwysfa hon. Ac fe fydd dy ddymuniad i'w chael cyn gymmaint, a'th serch tuag atti mor fawr, fel na chyfnewidiet dy hawl iddi, na'th obaith o honi, am un elw neu fwyniant daearol yn y byd. A phe b'ai Duw yn gosod o'th flaen di dragywyddoldeb o bleserau daearol ar y naill law, a gorphwysfa'r saint ar y llaw arall, ac yn gorchymyn i ti gymmeryd dy ddewis, tydi a wrthodit y byd, ac a ddewisit yr orphwysfa. Ond os heb dy sancteiddio yr ydwyt

hyd yn hyn, yna yr ydwyt, yn dy galon, yn dewis happusrwydd y byd hwn yn hytrach nâ Duw. Ac er i'th dafod ddywedyd mai Duw yw dy ddaioni pennaf, etto nid yw dy galon felly yn ei barchu; canys y byd yw dyben dy holl ddymuniad a'th ymdrechiadau: y mae dy holl galon wedi ei gosod arno. Dy ofal a'th boen mwyaf yw cynnal i fynu dy enw da, neu gael mwynhau digrifwch cnawdol; ond nid yw bywyd y byd sydd ar ddyfod yn cael fawr o'th boen na'th ofal. Ni chanfuaist erioed gymmaint o ardderchawgrwydd yn yr anweledig ogoniant sydd mewn byd arall, fel y tynnai dy galon ar ei ol, ac y gosodai di i weithio yn egniol am dano. A'r ychydig boen wyt yn gymmeryd y ffordd honno, nid yw hynny ond ar ol pethau eraill, ac megis yn ddiweddaf oll. Nid yw Duw yn cael ond gweddillion y byd—dim ond yr amser a'r boen a fedri di hebgor oddiwrth y byd, neu'r ychydig feddyliau oeraidd, anystyriol, y rhai sydd yn canlyn ar ol dy barhaus, dy ddiwyd, dy egniol, a'th hyfryd feddyliau am bethau daearol. Ac ni wnelit yr ychydig lleiaf i geisio'r nefoedd, pe medrit wybod ymha fodd y gellit ddal gafael ar y byd. Ond rhag i ti gael dy daflu i uffern pan na elli gael y byd yn hwy, yna yr ydwyt yn ewyllysio gwneuthur rhyw ychydig. Ac o herwydd yr un achos, yr ydwyt yn barnu ffordd Duw yn rhy galed, ac ni fynni gymmeryd dy gynghori i ymostwng i'r llafur parhäus o rodio yn ol rheol yr efengyl; a phan ddaw y matter i'r prawf pa un a wnei, gwadu Crist neu ymadael a'th wynfyd daearol, tydi a anturi roddi i fynu y nefoedd yn hytrach na'r byd; ac felly y byddi yn gwrthod yn wirfoddol roddi ufudd-dod i Dduw. Ac, yn ddiau, pe caniatâi Duw i ti fyw mewn iechyd a golud yn dragywydd ar y ddaear, tydi a feddyliet hynny yn rhagorach cyflwr na gorphwysfa. A cheisied y sawl a ewyllysient y nefoedd, tydi a fernit y cyfryw fywyd yn y byd dy happusrwydd pennaf. Dyma dy gyflwr di os ydwyt etto heb dy adgenhedlu ac heb un hawl i orphwysfa'r saint.

§ 15. Ond os bydd i ti gymmeryd Duw megis *dy ddaioni pennaf,* felly hefyd y bydd i ti *dderbyn Crist o'r galon,* megis dy unig Iachawdwr a'th Arglwydd, i'th ddwyn di i'r orphwysfa honno. Y nôd cyntaf oedd sylwedd y cyntaf a'r gorchymyn mawr o'r gyfraith, sef, "*Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon.*" Yr ail yw swm gorchymyn yr efengyl, "*Cred yn yr Arglwydd Iesu Crist, a chadwedig a fyddi.*" A chyflawniad o'r ddau hyn yw'r cwbl o dduwioldeb a'r efengyl. Ac nid yw'r nôd hwn ddim amgen na dehongliad o ffydd. A ydwyt ti yn ymfoddloni o'th galon i Grist yn unig fod yn Iachawdwr i ti, a hynny yn y cyfryw fodd fel na byddo i ti mwyach ymddiried yn dy weithredoedd a'th ddyledswyddau, ond yn unig megis moddion a drefnwyd, mewn ufudd-dod i'w orchymyn, ac megis *ffrwythau ein ffydd* ynddo; heb edrych arnynt, yn y mesur lleiaf, yn ddigon i foddloni melldith y ddeddf, neu fel cyfiawnder deddfol, na chwaith yn rhàn o hynny, ond dy fod yn ymfoddloni i ymddiried dy iachawdwriaeth i'r brynedigaeth a wnaethpwyd gan Grist Iesu yn unig. Ac a ydwyt hefyd yn foddlon i'w gymmeryd ef yn Arglwydd ac yn Frenhin, i'th arwain â'i Yspryd, ac i'th lywodraethu wrth ei gyfreithiau cyfiawn, ac i ufuddhau iddo, hyd yn oed pan y mae efe yn gorchymyn y dyledswyddau mwyaf trymion, a'r rhai hynny ag a fyddo yn tynnu'n fwyaf croes i chwantau'r cnawd? Ac a fydd hynny yn peri mawr ofid i ti, pan fyddi yn torri'r cyfryw adduned? neu yn dwyn i ti fawr gyssur a llawenydd, pan fyddi yn medru cadw mewn ufudd-dod i'r cyfryw dduwiol ymroad? Ac ni fynnit er dim, ïe, er ennill yr holl fyd, gyfnewid dy Arglwydd a'th feistr trugarog. Fel hyn y mae gyda phob Cristion. Ond os rhagrithiwr ydwyt, yn llwyr groes i hyn y mae. Fe allai dy fod yn galw Crist yn Arglwydd ac yn Iachawdwr; ond mae'n debygol na chanfyddaist m'o honot dy hun mor golledig hebddo ag y gorfu arnat ei geisio, ac ymddiried iddo, a gosod dy holl iachawdwriaeth ynddo ef yn unig. O'r hyn lleiaf, ni

ddarfu i ti erioed ymfoddloni, o'r galon, iddo ef lywodraethu arnat megis dy Arglwydd, na chwaith rhoddi i fynu dy enaid a'th fywyd i'w rheoli ganddo, na chymmeryd ei air megis cyfraith dy feddyliau a'th weithredoedd. Y mae yn debygol dy fod yn ewyllysio i Grist dy achub rhag myned o honot i uffern pan fyddi farw; ond yn y cyfamser, nid ymostyngi i gael dy lywodraethu ganddo, ond yn unig cyn belled ag y mae yn cydsefyll â'th air da yn y byd, a'th bleser, a'th amcanion bydol. A phe caniattëai yr Arglwydd hynny i ti, dewisach o lawer fyddai gennyt fyw yn ol helynt y byd a'r cnawd, nac yn ol ei air a'i Yspryd ef. Ac er fod ynot weithiau (efallai) ryw dueddiad neu fwriad fel arall, etto, fel y soniais, hynny yw dymuniad a dewisiad parhäus dy galon. Nid ydwyt gan hynny yn wir grediniwr yn Nghrist. *Canys er dy fod yn ei gyffesu mewn geiriau, etto mewn gweithredoedd ei wadu yr wyt: gan fod yn ffiaidd, ac yn anufudd, ac at bob gweithred dda yn anghymmeradwy.* Tit. 1 : 16.

§ 16. Sylwch, yr hyn a osodaf i lawr i ymholi yn eu cylch, yn enwedig, yw cydsyniad, neu ewyllysiadau, y galon. Nid ydwyf yn gofyn a ydwyt ti yn gwbl *hyderus o iachawdwriaeth,* na chwaith a ydwyt ti yn *sicr gredu* fod dy *bechodau* wedi eu *maddeu,* a'th fod yn anwyl ac yn dderbyniol gan Dduw yn Nghrist? Nid yw y rhai hyn yn rhannau o ffydd gyfiawnhaol a chadwedigol, ond yn hytrach y ffrwythau tra rhagorol o honi; a'r rhai a'u *derbyniant a ddiddenir* â *hwynt:* ac *ysgatfydd* na chei di eu derbyn, ac er hynny fod o honot yn wir aer neu etifedd yr orphwysfa. Gan hynny, na fydded i ti ddywedyd, "Ni fedraf gredu fod fy mhechodau wedi eu maddeu, na chwaith fy mod mewn ffafr gyda Duw," ac am hynny nid ydwyf yn wir gredadyn. Penderfyniad camsyniol iawn ydyw hyn. Y cwestiwn ydyw hyn: a ydwyt ti, *o'th galon, yn derbyn Crist,* fel y byddo i'th bechodau gael eu maddeu, a thithau gael dy gymmodi â Duw, ac felly bod o honot yn gadwedig? A ydwyt ti yn ewyllysio ei

dderbyn ef megis dy Arglwydd, a'r hwn a'th brynodd, ac yn ymfoddloni i gael dy ddwyn ganddo i'r nefoedd yn ei ffordd ef ei hun? Hyn yw achubol a chadwedigol ffydd, a'r nôd wrth ba un y mae i ti brofi dy hun. Ymhellach, rhaid i ti ddaell fod yn angenrheidiol i'r *dymuniad yma ddyfod o'r galon*, ac felly yn wirioneddol, heb na thwyll na hocced, na meddwl deublyg. Ac ni wasanaetha i ti fod yn gyffelyb i'r mab ieuangc ffuantus hwnnw yn yr efengyl, gan ddywedyd, "Mi a âf," ac etto nid aeth. Ac od oes dim arall yn llywodraethu arnat yn fwy nâ Christ, nid ydwyt yd ddisgybl iddo. Diammeu gennyf fod y ddau nôd yma yn gyfryw ag sydd gan bob gwir Gristion; ac nid ydynt i'w gweled ar neb ond gwir Gristionogion. Oh! na welai'r Arglwydd yn dda dy berswadio i ddyfal gyflawni'r hunan-brofiad hwn, fel na byddo i ti grynu gan ddychryndod yn dy enaid, pan fyddo Barnwr y byd yn dy farnu; ond gallu o honot brofi dy hawl i'r orphwysfa honno, yn y cyfryw fodd ag a wnelo i'th ysprydoedd lonni, a thithau gael dy lenwi â llawenydd, wrth weled angau wrth y drws, ac ystyried fod dydd y farn yn agos.

§ 17. Ar y cwbl, os ydyw Cristionogion yn disgwyl cael cyssuron y rhai ni wnant eu siommi, bydded iddynt wneuthur hyn yn waith pennaf eu bywyd, sef cynnyddu mewn gras, cadarnhau ac helaethu teyrnas Crist yn eu heneidiau, a lleihau a darostwng llywodraeth y cnawd. Ac na fydded i chwi dwyllo eich hunain, gan feddwl fod Crist wedi cyflawni'r cwbl oll yn eich lle, ac na adawodd efe ddim i chwi i'w wneuthur. Gorchfygu'r byd, y cnawd, a'r diafol, ac i wneyd hynny, sefyll o honom bob amser, yn gwbl-arfog, sydd o'r pwys a'r canlyniad mwyaf tuag at *lawn-hyder ffydd, a sicrwydd ein gobaith*, ac iachadwriaeth ein heneidiau. Mewn gwirionedd, hyn sydd ràn mor fawr o'n hadduned yn ein bedydd, fel nad ydyw'r hwn nis cyflawno hyn ond Cristion mewn enw yn unig. Nid i bob un sydd yn *rhyfygus gredu, ond i'r hwn sydd yn gorchfygu, y rhydd Duw fwyta a'r manna cuddiedig,*

*ac a rydd iddo garreg wenn,* ac ar y garreg enw *newydd wedi ei ysgrifenu, yr hwn nid edwyn neb ond yr hwn sydd yn ei derbyn. Efe a fwytty hefyd o bren y bywyd, yr hwn sydd ynghanol paradwys Duw; ac ni chaiff ddim niwed gan yr ail-farwolaeth. A Christ a gyffesa ei enw ef ger bron ei Dad, a cher bron ei angylion, ac a'i gwna yn golofn yn nheml Dduw; ac allan nid â efe mwyach; ac ysgrifenna arno enw ei Dduw, ac enw dinas ei Dduw, yr hon ydyw Jerusalem newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddiwrth Dduw; ac efe a ysgrifenna arno ef ei enw newydd.Ië, efe a rydd iddo eistedd gydag ef, ar ei orseddfaingc; megis y gorchfygodd yntau, ac yr eisteddodd gyda'i Dad ar ei orseddfaingc. Yr hwn sydd ganddo glust, gwrandawed beth mae'r Yspryd yn ei ddywedyd wrth yr eglwysi.* Dat. 2 : 7, 11, 17; 3 : 5, 12, 21, 22.

# PENNOD IX.

## DYLEDSWYDD POBL DDUW I ANNOG ERAILL I GEISIO YR ORPHWYSFA HON.

§ 1. Mae yr awdwr yn cwyno o herwydd fod Cristionogion yn gwneuthur cyn lleied er cynnorthwyo eraill i gael gorphwysfa'r saint. § 2. (I.) Dangosir natur y ddyledswydd; yn enwedig § 3. (1) Drwy ystyried truenus gyflwr eneidiau ein cyd-frodyr, hyd oni byddo hynny yn bwys ar ein calonnau; § 4, 6. (2) Gan gymmeryd pob cyfleusdra i'w hyfforddi yn ffordd iachawdwriaeth; § 7. (3) Gan ymegnio i fod er budd iddynt, drwy eu dwyn i fod yn gyfrannogion o'r ordinhadau cyhoeddus. § 8. (II.) Y mae yn rhoddi amryw resymau paham y mae'r ddyledswydd hon yn cael ei hesgeuluso gymmaint, § 9. Ac yn atteb rhai gwrthddadl-euon yn ei herbyn. § 10, 13. Yna (III.) yn annog i'w cyflawni drwy amryw ystyriaethau. § 14. Hyn a gyfeirir at y rhai gwybodus, dysg-edig, ac ymadroddus; § 15. At y rhai hynny sydd yn gydnabyddus â phechaduriaid; § 16. At y meddygon sydd yn gweinyddu i'r rhai ydynt ar drangcedigaeth; § 17. At y rhai goludog, a'r rhai sydd mewn awdurdod; § 18. At weinidogion yr efengyl; § 19. At y rhai yr ym-ddiriedwyd iddynt ofal plant neu weision. § 20. Y pen hwn sydd yn diweddu gyda thaer erfyniad ar rieni Cristionogol i fod yn ffyddlon mewn addysgiadau i'r rhai a ymddiriedwyd i'w gofal.

§ 1. A ydyw Duw wedi gosod o'n blaen ni y fath gamp ogoneddus a gorphwysfa'r saint, ac a addasodd efe ni i fwynhau'r cyfryw anrhaethol ddedwyddwch? Pa beth ydyw'r achos gan hynny nad ydyw plant y deyrnas yn fwy diwyd i gynnorthwyo eraill i'w mwynhau? Och! dan ba cyn lleied rhwymau i'r rhan fwyaf o honom y mae'r eneidiau ag sydd o'n hamgylch! Yr ydym *ni* yn canfod *gogoniant* y deyrnas, a hwythau heb ei gweled; yr ydym *ni* yn gweled *trueni* y rhai sydd allan o honni, a hwythau yn anwybodus o hynny; yr ydym ni yn canfod rhai yn crwydro yn hollol allan o'r ffordd, ac yn gwybod, os ânt ymlaen, nas gallant hwy byth ddyfod yno, a hwythau eu hunain heb wybod hynny; ac etto ni fynnwn

ni ddangos yn ddifrifol iddynt y perygl a'r amryfusedd y maent ynddo, a'u cyfarwyddo i ddyfod i'r ffordd fel y byddont byw. Och! pa mór lleied nifer O Gristionogion sydd yn ymegnio â'u holl allu i achub eneidiau! Nid i ni y mae'r diolch os na bydd y nefoedd yn wag, ac os na fydd eneidiau ein cyd-frodyr yn golledig am byth. Gan ystyried pa mor angenrheidiol yw'r ddyledswydd hon o ogoniant Duw a dedwyddwch dynion, myfi a ddangosaf ymha fodd y mae ei chyflawni;—paham yr esgeulusir hi gymmaint;—ac yna cynnygiaf rai annogaethau i'w chyflawni.

§ 2. (1) Ni feddylir wrth y ddyledswydd o annog a chymmorth eraill i gyrhaeddyd gorphwysfa'r saint, fod yn angenrheidiol i bob dyn droi'n bergethwr, nac i unrhyw ddyn fyned dros derfynau ei alwedigaeth; llai o lawer y deallir wrth hynny ryw ddiwyd ymroad i feithrin yspryd pleidgar, neu grybwyll am feiau dynion tu cefn iddynt, a thewi rhag dywedyd dim wrthynt yn eu gwydd. Ond y mae'r ddyledswydd hon o ystyr arall, ac yn sefyll yn y pethau canlynol: teimlo ein calonnau yn merwino o herwydd truenus gyflwr eneidiau ein cyd-frodyr, gan ddefnyddio yn awyddus bob cyfleusdra i'w haddysgu yn ffordd iachawduriaeth, a bod o ryw leshad iddynt, drwy eu dwyn (os medrir) dan yr ordinhadau.

§ 3. (1) Rhaid i'n calonnau fod yn merwino, a ninnau yn teimlo rhyw bwys neillduol ar ein meddyliau, o herwydd truenus gyflwr eneidiau ein brodyr yn ol y cnawd. Rhaid i ni fod yn llawn tosturi tuag attynt, ac yn mawr chwennych eu hadferiad a'u hiachawdwriaeth. Os ydym yn difrifol chwennych eu troedigaeth, a'n calonnau yn toddi o'n mewn gan fawr ddymuniad i wneuthur iddynt ddaioni, gwnai hyn i ni ymosod ynghylch y gwaith; a Duw yn ddiau a fendithiai ein hymdrechiadau gan droi, llawer pechadur o gyfeiliorni ei ffordd.

§ 4. (2) Rhaid i ni gymmeryd pob achlysur a fedrom, i'w hyfforddi pa fodd i gael iachawdwriaeth; ac os y

pechadur a fydd anwybodus, ymegnia i wneuthur iddo ddeall pa beth yw dedwyddwch pennaf dyn; pa cyn belled yr oedd efe unwaith yn feddiannol o hono; y cyfammod a wnaeth Duw y pryd hynny ag ef; pa fodd y torrodd efe hwnnw; a pha gospedigaeth yr aeth efe yn ddarostyngedig iddi; ac i ba fath gyflwr truenus y dygodd efe ei hun. Dangos iddo'r angenrheidrwydd o Waredwr; ymha fath fodd trugarog yr ymgyfryngodd Crist Iesu, ac y dioddefodd y gospedigaeth; natur ac ystyr y cyfammod newydd; pa fodd y mae pechaduriaid yn cael eu tynnu at Grist; a pha fath yw'r cyfoeth a'r breintiau y mae'r credinwyr yn eu mwynhau yn Nghrist. Ac os na fedrwch ei gyffroi â'r pethau hyn, yna dangoswch iddo ragoroldeb y gogoniant y mae efe yn ei esgeuluso; toster, dirdra a meithdra diddiwedd poenau'r damnedigion; ac mor gyfiawn ac haeddiannol y maent yn eu dioddef, o herwydd iddynt yn *wirfoddol wrthod gras*; hefyd, gosodwch o'u blaen sicrwydd a dychryniadau angau, a'r farn, ac mor agos y maent; gwagedd pob peth dan haul; mawr ddrygioni pechod; mor werthfawr yw Crist; yr angenrheidrwydd o'r adenedigaeth, ffydd, a sancteiddrwydd; a'r gwir natur o honynt. Ac os gwedi'r cwbl oll y gwelwch ei fod yn cynnwys gobaith twyllodrus, yna pwyswch arno i chwilio ei gyflwr, dangoswch iddo'r angenrheidrwydd o wneuthur hynny, a chynnorthwywch ef yn y gwaith, ac nac ymadewch oddiwrtho, hyd oni byddo wedi ei argyhoeddi o'i drueni, a gweled y fyddyginiaeth. Dangoswch iddo mor ofer a dinystriol yw cyssylltu Crist â'i ddyledswyddau ei hun i *wneuthur i fynu* gyfiawnder cyfiawnhäol (derbynol.) Ac er hyn i gyd, byddwch sicr o'i ddwyn i arfer pob moddion, megis gwrando a darllen y gair, galw ar Dduw, ac ymgyfrinachu â'r rhai duwiol. Perswadiwch ef i ymwadu â phechod, i ochelyd pob profedigaeth i bechod, yn enwedig cymdeithion drwg, ac i ddisgwyl wrth Dduw yn amyneddgar, yn yr ymarferiad o'r moddion, fel y ffordd y ceir Duw ynddi.

§ 5. Ond gan fod y *drefn* o gyflawni'r gwaith o bwys mawr, gan hynny, canlynwch y rheolau hyn: Cymmerwch y gwaith mewn llaw gyda dybenion cywir; golygwch ogoniant Duw yn iachawdwriaeth y pechadur; a gwnewch hyn, nid er mwyn ennill enw da, neu glod, neu i ddwyn dynion i ymddiried ynoch, neu er mwyn cael o honoch ddilynwyr, ond mewn ufudd-dod i Grist, ac i ganlyn ei esiampl ef, ac o ràn tyner gariad tuag at eneidiau dynion. Ond na wnewch fel y rhai sydd yn ddiwyd ac yn ofalus i geryddu eu plant a'u gweinidogion, rhag gwneuthur dim a fyddo yn anfanteisiol iddynt hwy, neu yn groes i'w meddyliau a'u hewyllysiau, ond heb geisio bod yn offerynol i achub eu heneidiau yn y ffordd a drefnodd Duw. Gwnewch hyn ar frys. Gan nad ewyllysiech iddynt hwy oedi dychwelyd, nac oedwch chwithau chwaith i geisio eu troedigaeth. Tra yr ydych chwi yn *bwriadu* addysgu a chynnorthwyo y pechadur, y mae efe yn soddi yn ddyfnach mewn dyled; a digofaint yn cael ei drysori yn ei erbyn; pechod yn gwreiddio; yr ymarferiad â drwg yn glynu wrtho yn fwy; profedigaethau i bechod yn ychwanegu; cydwybod yn cael ei serio; y galon yn caledu; y diafol yn rheoli; Crist yn cael ei gau allan; yr Yspryd yn cael ei wrthwynebu; Duw yn cael ei ddianrhydeddu beunydd; ei gyfraith yn cael ei throseddu; y mae efe heb wasanaethwr, ac heb y gwasanaeth hwnnw ag sydd yn ddyledus iddo; mae amser yn rhedeg ymlaen; angau a barn wrth y drws. A pha beth? pe b'ai y dyn yn marw, ac yn disgyn i uffern, tra yr ydych chwi yn bwriadu ei luddias; ac os nad yw'n ganiatäol i chwi ddywedyd mewn perthynas i'w angenrheidiau corphorol, "*Cerdda ymaith a thyred amser arall, ac y fory mi a'i rhoddaf, a chennyt beth yn awr;*" (Diar. 3 : 28;) pa faint llai y dylech *oedi* rhoddi cymmorth i'w enaid! Nid yw'r meddyg hwnnw fawr amgenach nâ llofrydd, yr hwn, yn ddiofal, a oedai'r feddyginiaeth hyd onis byddai'r dyn wedi marw, neu yn rhy bell i gael gwellhad. Rho heibio, gan hynny, esgusod-

ion, a phob *busnes* o lai pwys, "*a chynghorwch eich gilydd bob dydd, tra y gelwir hi heddyw; fel na chaleder neb o honnoch trwy dwyll pechod.*" Heb. 3 : 13. Bydded eich cyngor yn tarddu oddiar dosturi a chariad. Nid ydyw gwawdio, goganu, difenwi, a rhoi drwg-dafod yn foddion tebygol i adferu, diwygio, argyhoeddi, neu droi unrhyw ddyn at Dduw. Ond ewch at bechaduriaid truain, â dagrau yn eich llygaid, fel y gwelont eich bod chwi yn credu eu bod hwy mewn cyflwr truenus, a'ch bod, o ddifrif calon, yn tosturio wrthynt. Ymddygwch tuag attynt yn garedig, gyda thaer a dyfal ymbiliau. Gadewch iddynt weled mai dymuniad eich calonnau yw gwneuthur iddynt ddaioni, ac nad oes gennych un dyben arall mewn golwg namyn eu dedwyddwch tragywyddol hwy; ac mai eich gwybodaeth o'u perygl, a'ch cariad tuag at eu heneidiau, sydd yn eich cymmell i lefaru, o herwydd eich bod yn *gwybod ofn yr Arglwydd*, ac rhag ofn i chwi gael eu gweled mewn poenau tragywyddol. Dywedwch wrthynt, "Y cyfaill, chwi a wyddoch nad ydwyf yn ceisio dim elw i mi fy hun: y ffordd i gael eich ewyllys da, ac i ennill eich cymdeithas, fyddai gadael i chwi fyned ymlaen fel yr ydych yn ewyllysio, ond cariad tuag at eich enaid ni âd i mi edrych arnoch yn dinystrio eich hun heb ymegnio i'ch luddias. Nid ydwyf yn gofyn dim ar eich llaw ond yr hyn ag sydd yn angenrheidiol i'ch dedwyddwch. Chwi eich hun a dderbyn y budd a'r cyssur os deuwch at Grist."

Pe byddai i ni fyned fel hyn at bob cymmydog annuwiol ac anwybodus, y fath ffrwythau bendigedig a gaem ni yn fuan eu gweled? Gwnewch hyn hefyd yn y modd mwyaf caredig a dihocced, a chydag eithaf ffyddlondeb a thiriondeb. Na wnewch eu pechodau yn llai nac ydynt, ac na chalonnogwch hwynt mewn gobaith twyllodrus.—Os gwelwch fod eu perygl yn fawr, dywedwch, yn ddiderbyn wyneb, "Gymmydog, ofni yr ydwyf nad ydyw Duw wedi adnewyddu eich enaid; ammeus gennyf a ydych chwi wedi cael eich dwyn o feddiant Satan at Dduw;

yr wyf yn ammeu a ydych chwi wedi dewis Crist o flaen pob peth arall, neu a dderbyniasoch ef o'r galon megis eich pen a'ch hunig Arglwydd. Canys pe buasech wedi gwneuthur felly, ni fuasai mor hawdd gennych anufuddhau iddo, neu esgeuluso ei wasanaeth yn eich teulu, ac ymysg ei gynnulleidfa; ac ni fedrech chwaith ganlyn y byd mor awyddus, neu ymddiddan am ddim arall, ond am bethau'r byd. Pe byddech yn Nghrist, chwi a fyddech yn *greadur newydd; hên bethau a aethent heibio, a phob peth a wnaethid yn newydd;* (2 Cor. 5 : 17;) fe fyddai ynoch feddyliau newyddion; chwi a garech ymddiddanion newyddion, a chyfeillion newyddion; fe fyddai ynoch ymdrechiadau newyddion; a chwi a arferech ymadroddion newyddion. Ac yn ddiammeu heb y pethau angenrheidiol hyn, nis gellwch fod yn gadwedig. Chwi a ellwch feddwl yn y gwrthwyneb, a gobeithio fel arall, cyhyd ac y mynnoch; ond eich holl obaith a'ch twylla ac a balla, ac a dderfydd gyda chwi. Fel hyn y mae'n angenrheidiol i chwi ymddwyn yn ffyddlon tuag at ddynion, os ydych yn ewyllysio gwneuthur iddynt ddaioni. Nid yr un fath ydyw mewn perthynas i eneidiau dynion a'u cyrph, lle y mae'n angenrheidiol weithiau i gelu'r perygl rhag eu digalonni, ac i hyny rwystro'r gwellhad. Canys yma y maent yn weithredwyr yn eu meddyginiaeth eu hunain, ac os na chanfyddant eu trueni, ni ofidiant o'i blegid, ac ni welant eisiau Iachawdwr. Gwnewch hyn hefyd gyda symlrwydd, *zel*, a diwydrwydd, ac yn effeithiol. Ymegniwch hefyd i wneuthur i ddynion ddeall nad yw y nefoedd ac uffern yn bethau i gellwair â hwy, neu i'w gollwng ymaith gydag ychydig feddyliau ysgafn ac esgeulus; canys, "y mae hyn yn wirionedd tra sicr y byddi di, un o'r dyddiau hyn, naill ai mewn tragywyddol *drueni* neu *orfoledd*. Ac oni wna hyn dy ddeffroi? Ai ychydig sydd yn cael ffordd y bywyd? Ac onid llawer sydd yn myned hyd ffordd marwolaeth? A ydyw mor anhawdd diangc? mor hawdd methu? ac er

hyn oll, a fedri di eistedd yn llonydd a chellwair? Pa beth wyt yn ei feddwl? Mae'r byd yn myned heibio; mae ei bleserau, ei anrhydedd, ei olud, ei rwysg, ei rodres, a'i fawredd oll yn diflannu ac yn dy adael; nid yw tragwyddoldeb neppell o'th flaen; Duw sydd gyfiawn ac eiddigus; ei fygythion sydd wirioneddol; y dydd mawr a fydd ofnadwy; y mae amser yn rhedeg ymlaen; eich bywyd sydd ansicr; yr ydych ymhell yn ol llaw; eich cyflwr sydd beryglus; pe byddech farw y fory, pa mor amharod y byddech! â pha fath ddychryn yr ài eich heneidiau allan o'ch cyrph! Ac a ydych chwi etto yn yn oedi? Ystyriwch fod Duw yn disgwyl wrthych yr holl amser hyn; ei amynedd sydd yn cyd-ddwyn, ei hirymarosiad yn dioddef wrthych: ei drugaredd yn ymbil â chwi: Crist yn cynnyg i chwi ei waed a'i haeddiant: yr Yspryd yn eich cymmell: cydwybod yn eich cyhuddo: Satan yn disgwyl eich cael. Gan hynny, yn awr yw eich amser; yr awr hon neu byth. Ai mwy dewisol gennych losgi yn uffern nac edifarhau ar y ddaear? cael cythreuliaid i'ch poenidio, na chymmeryd Crist i lywodraethu arnoch? A roddwch chwi i fynu eich rhan yn Nuw yn hytrach nac ymwrthod â'ch pechodau? O fy nghyfeillion, beth a feddyliwch am y pethau hyn? Gan fod Duw wedi eich gwneuthur yn ddynion, nac ymwadwch â'ch rheswm yn y peth y mae yn fwyaf angenrheidiol i chwi wneuthur ymarfer o hono." Och! nid rhyw ychydig eiriau anystyriol rhwng cellwair a difrif, rhwng cwsg ac effro, a a ddichon gyffroi y pechadur calon galed ac anystyriol. Pe byddai rhyw dŷ ar dân, nid yw debygol y dechreuech wneuthur araith oer, ddideimlad ynghylch effaith a pherygl tân, ond yn hytrach chwi a redech ac a waeddech, *Tân! tân!* Os dywedwn w h ddyn am ei bechodau mor ddifraw ac mor araf-dêg ac y gwnaeth *Eli* wrth ei feibion, (1 Sam. 2 : 23,) neu ei geryddu mor addfwyn ac y gwnaeth Jehosaphat y brenhin Ahab, "*Na ddyweded y brenhin felly;*" (1 Bren. 22 : 8;) fe fydd hyn

mor debygol o wneuthur cymmaint o ddrwg ac o ddaioni. Anewyllysgarwch i anfoddio dynion sydd yn gwneuthur i ni eu dinystrio.

§ 6. Etto, rhag i chwi redeg yn rhy bell i'r gwrthwyneb, cynghoraf chwi i'w wneuthur gyda *phwyll* ac *ystyriaeth*. Dewiswch yr amser mwyaf cyfaddas. Na cheisiwch ymddiddan â dynion ynghylch peth mor bwysfawr pan fo'nt wedi eu cyffroi i wylltineb, neu y pryd y meddylient y byddai y cyfryw gyngor yn anweddus neu yn waradwydd iddynt. Pan fyddo y ddaear wedi ei meddalhäu yr â yr aradr i mewn iddi; felly cymmerwch y dyn pan fyddo dan gystudd, neu pan fyddo pregeth wedi cael rhyw effaith arno. Mae ffyddlondeb cristionogol yn gofyn i ni, nid yn unig i wneuthur daioni pan fyddo hynny yn digwydd yn ein ffordd, ond hefyd i ddisgwyl am bob cyfleusdra i'r perwyl hwnnw. Addaswch eich hymadrodd hefyd at sefyllfa a thymer y dyn. Gyda'r rhai gwybodus a deallus rhaid arfer rhesymmau yn fwy nac annogaeth, ond gyda'r anwybodus, y mae'r ddau yn angenrheidiol. Gyda'r rhai sydd wedi eu deffroi, ac mewn rhàn wedi eu hargyhoeddi o fawr-ddrwg pechod, buddiol fyddai gweithio ar eu serchiadau, ond am y cyndyn a'r rhyfygus, rhaid eu ceryddu yn llym. Wrth y rhai ofnus byddwch addfwyn a chareddig. Caredigrwydd, symlrwydd, addfwynder, a thiriondeb, sydd dda gan bawb: ond geiriau dychrynadwy nid all rhai ond prin eu goddef. Ymarferwch hefyd yr ymadroddion mwyaf addas. Iaith anweddus, a geiriau isel a wna i rhai gwrandawyr ffieiddio'r bwyd y dylent fyw arno, yn enwedig os byddant ddynion o glustiau merwinllyd a chalonnau cnawdol: a chadarnhewch eich ceryddon, a'ch cynghorion, a'ch hannogaethu, â rhanau o air Duw; canys felly y gall pechaduriaid weled yn eglur nad ydych yn llefaru'r pethau hyn o'ch pennau eich hunain. Dangoswch iddynt y bennod a'r adnod, lle y mae eu pechod yn cael ei *gondemnio*, a'r ddyledswydd yn cael ei chymmell. Llais dyn sydd ddirmygedig, ond llais Duw

sydd arswydus ac ofnadwy. Dichon dynion wrth-ddywedyd a gwrthsefyll eich geiriau chwi pan nad allant wrthod geiriau'r Hollalluog. Byddwch yn fynych yn y ddyledswydd hon o gynghori dynion. Os ydyw yn angenrheidiol i ni weddio yn ddibaid ac heb ddiffygio, o herwydd fod Duw yn chwennych i ni fod yn daer am y fendith; felly, yn ddiammeu, rhaid i ni yma ganlyn yr un llwybr, a bod yn daer gyda dynion; a chan hynny, yr ydym yn cael gorchymyn i *gynghori ein gilydd bob dydd tra y gelwir hi heddyw;* (Heb. 3 : 13;) ac hefyd *i annog gyda phob hir-ymaros ac athrawiaeth.* 2 Tim. 4 : 2. Nid ellir taro tân allan o'r garreg-gallestr bob amser âg un ergyd, felly nis gellir chwaith gyffroi serchiadau dynion â'r cyngor cyntaf. A phe medrech wneuthur hynny, etto, os nas canlynir hwy ymlaen, hwy a oerant ac a ddiffygiant yn fuan iawn. Canlynwch bechaduriaid, ac ymosodwch arnynt gyda hir, caredig a dyfal erfyniau, ac na adewch iddynt lonyddwch yn eu pechodau. Gwir gariad brawdol ydyw hyn, a dyma'r ffordd, i ennill eneidiau, a rydd i chwi gyssur ar yr adolygiad o hono. Ymdrechwch hefyd i ddwyn eich cynghorion i ryw ben da; canys er i ni arferu'r ymadroddion mwyaf effeithiol a dêngar, os derfydd ein holl ofal gyda'r geiriau, ni fyddwn debygol i ffynnu, ond yn bur anaml, yn ein hymdrechiadau: ond y mae'r Arglwydd yn arferol o lwyddo gwaith y rhai sydd â'u calonnau a'u meddyliau *yn* y gwaith o droi ac argyhoeddi eu gwrandawyr, ac yn edrych ac yn holi ynghylch llwyddiant eu gwaith. Wedi i chwi ddechreu ceryddu dyn am bechod, na ymollyngwch hyd oni byddo yn addaw ymadael â'r pechod, a cheisio ymwrthod âg achos y brofedigaeth. Ac os byddwch yn annog i ryw ddyledswydd, canlynwch hyd oni chaffoch addewid y gwna efe ddechreu arni yn ddioed. Os ewyllysiech dynnu dynion at Grist, nac ymadewch â hwynt hyd oni chyfaddefont y tröant o'r cyflwr diadgenhedledig y maent ynddo, a'u bod yn gweled yr angenrheidrwydd o gael Crist, a'u bod yn cydnabod fod

arnynt eisiau cyfnewidiad, ac yn bwriadu arfer pob moddion tuag at hynny. Oh! na b'ai Cristionogion yn cymmeryd y ffordd hon gyda'u cymmydogion, y rhai sydd yn gaethweision i bechod, ac yn ddieithriaid i Grist. Unwaith yn ychwaneg; cymmerwch ofal fod eich *ymddygaid* yn annog yn gystal a'ch geiriau. Gadewch iddynt eich gweled yn ddiwyd yn yr holl ddyledswyddau yr ydych yn eu hannog iddynt. Gadewch iddynt weled yn eich bucheddau, y cyfryw oruchafiaeth ar y byd, ag y mae eich genau yn ei ganmol. Gadewch iddynt weled, oddiwrth eich ymdrechiadau gwastadol am y nefoedd, eich bod chwi yn credu, mewn gwirionedd, y peth yr ewyllysiech iddynt hwy ei gredu. Canfod eich bucheddau sanctaidd a nefol fyddai yn boen parhäus i gydwybodau pechaduriaid o'ch hamgylch, ac yn eu cymmell yn wastadol i gyfnewid eu ffyrdd.

§ 7. (3) Heblaw'r ddyledswydd o roddi cynghorion neillduol, rhaid i chwi geisio cynnorthwyo dynion i gael budd a lleshâd oddiwrth yr ordinhadau, neu'r moddion cyhoeddus. Ac i'r dyben hynny, ymegniwch i fynnu cael gweinidogion ffyddlon lle y maent yn eisiau. *Pa fodd y clywant heb bregethwr.* Rhuf. 10 : 14. Defnyddiwch eich awdurdod a'ch diwydrwydd i'r perwyl yma, hyd oni lwyddoch. Lledwch eich pyrsau i'r eithaf tuag at hynny. Pa sawl enaid a all fod yn gadwedig trwy'r weinidogaeth a ddarparasoch! Y mae hyn yn rhagorach, ac yn odidoccach elusen, nac ymgeleddu eu cyrph. Pa cyn gymmaint o ddaioni a allai gwyr mawr wneuthur pe cynnalient, mewn athrofeydd, y cyfryw wyr ieuaingc a ddewisid ganddynt o ràn eu huniondeb, hyd oni byddent yn addas i'r weinidogaeth! ac wedi iddynt gael gweinidogaeth ffyddlon, cymmorth eneidiau truain i dderbyn y ffrwyth o honi? Cymmerwch hwynt gyda chwi yn wastad i wrando; adgofiwch iddynt y pethau a glywsant; ac os yw bossibl, gadewch iddynt gael clywed eu hadrodd drachefn yn eu teuluoedd, neu ryw le arall. Annogwch hwynt

i gyfarfod ynghyd yn aml, nid yn unig ymysg y gynnulleidfa, ond hefyd ar eu pennau eu hunain; nid megis cynnulleidfa neillduol, wedi ymrannu oddiwrth eraill, ond megis cangen o'r un eglwys, yn fwy diwyd nâ'r lleill am *brynu'r amser*, a chymmorth eneidiau eu gilydd tua'r nefoedd. Ymegniwch hefyd i gadw'r ordinhadau a'r weinidogaeth mewn cymmeradwyaeth. Ni fydd neb yn debyg o dderbyn nemawr leshad oddiwrth yr hyn y mae efe neu eraill yn ei ddiystyru. Y mae'r apostol yn dywedyd: "*Yr ydym yn attolwg i chwi, frodyr, adnabod y rhai sydd yn llafurio yn eich mysg, ac yn eich llywodraethu chwi, yn yr Arglwydd, ac yn eich rhybuddio, a gwneuthur cyfrif mawr ohonynt, mewn cariad, er mwyn eu gwaith.*" 1 Thes. 5 : 12, 13.

§ 8. (11) Gadewch i ni yn awr holi ychydig, pa beth eill fod yr achosion o'r mawr esgeulusiad o'r ddyledswydd hon, fel, gwedi gwybod y rhwystrau, y byddo yn fwy hawdd eu symmud. Un rhwystr i ddynion wneuthur hyn ydyw eu pechod a'u heuogrwydd. Ni chawsant hwy eu hunain erioed eu mawrlonni â diddanwch, hyfrydwch, ac â chyssuron nefol, pa fodd, gan hynny, y disgwylir iddynt hwy dynnu eraill mor egniol i'w ceisio? Ni fuont hwy erioed yn deimladwy o'u cyflwr colledig, ac ni chawsant erioed eu dwyn i weled eisiau Crist a gwaith yr Yspryd yn eu hadnewyddu, pa fodd gan hynny y gallant ddangos y pethau hyn i eraill? Y maent hwy eu hunain yn euog o'r pechodau y dylent eu condemnio, ac am hynny y mae arnynt gywilydd eu ceryddu. Achos arall ydyw hyn; sef, o herwydd fod dirgel anghrediniaeth yn meddiannu calonnau rhai. Canys pe byddem yn credu yn sicr y byddai i'r holl rai halogedig a diadgenhedledig fyned i'r tragywyddol boenau, pa fodd y gallem attal ein tafodau, neu dorri allan mewn dagrau, pan yr edrychom yn eu wynebau, yn enwedig pan fyddont yn gyfeillion agos ac anwyl gennym? Fel hyn y mae dirgel anghrediniaeth yn yssu grym pob dyledswydd a grasusau sanctaidd. Oh! Gristionogion, pe baech chwi yn credu mewn gwirionedd y byddai eich

cymmydogion annuwiol, eich gwraig, eich gwr, neu un o'ch plant, yn sicr o fyned i orwedd yn dragywydd yn uffern, oni fydd iddynt gael eu hollol gyfnewid cyn i angau eu cipio ymaith, oni wnai hyn i chwi ymresymmu â hwy ddydd a nos hyd oni byddent yn argyhoeddedig? Ac oni b'ai'r anghrediniaeth felldigedig hon, fe fyddai ein heneidiau ni, a'n cymmydogion, yn fwy tebygol o gynnyddu mewn gras a phob daioni. Y mae'r cyfryw gynnygiadau hefyd yn cael eu rhwystro o eisiau cariad a thosturi tuag at eneidiau ein cyd-greaduriaid. Yr ydym yn arferol o edrych ar eneidiau truain, wedi hynny myned heibio megis yr offeiriad a'r Lefiad yn myned heibio i'r gwr archolledig a syrthiasai ym mysg lladron. Pa waeth, er nad ydyw'r pechadur ei hun, (efallai,) er ei fod yn archolledig gan bechod, ac mewn caethiwed i Satan, yn gofyn cymmorth gennyt, etto y mae ei gyflwr truenus yn gwaeddi yn uchel. A phe buasai Duw heb glywed gwaedd ein trueni, cyn iddo glywed llef ein gweddiau, a chael ei dueddu, gan ei dosturi ei hun, cyn iddo gael ei gymmell gan ein taerni ni, nyni a allasem hir-barhau yn gaethweision i Satan. Yr ydych yn *gweddio* (efallai) ar i Dduw agor eu llygaid, a throi eu calonnau, a phaham nad ymdrechwch am eu troedigaeth os ydych yn ewyllysio hynny? Ac os nad ydych yn ewyllysio hynny, paham yr ydych yn ei ofyn? Paham nad erfyniwch arnynt hwy ystyried a dychwelyd, yn gystal a gweddio ar Dduw am eu hargyhoeddi a'u troi? Pe baech yn gweled eich cymmydog wedi syrthio i bydew, ac yn gweddio ar Dduw am ei helpu allan, ac etto, ar yr un pryd, heb estyn allan eich llaw i roddi cymmorth iddo, na chwaith ei ddysgu ymha ffordd i achub ei hun, oni wnai pob dyn feio arnoch am eich creulondeb a'ch rhagrith? Ac felly y mae hyn, yn wir, yr un fath, am yr enaid a'r corph. "*Os gwêl neb frawd mewn eisiau, a chau ei dosturi oddiwrthio, pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef?*" (1 Ioan, 3 : 17;) neu, pa gariad sydd ganddo tuag at enaid ei frawd? Yr

ydym hefyd yn cael ein rhwystro, gan ryw wael a dirmygus duedd-fryd i dderbyn wyneb dyn, ac i beidio anfoddio neb. Yr ydym mor chwannog i fod mewn cymmeradwyaeth a *ffafr* gyda dynion, fel ag y mae hyn yn peri i ni (mewn modd anghydwybodol) esgeuluso ein dyledswydd. Yn ddiau, meddyg annoeth ac anffyddlon yw'r hwn a adawai i ddyn sâlw farw yn hytrach nâ bod yn achos o ddim poen neu aflonyddwch iddo. Pan fyddo ein cyfeillion wedi anhwylio yn eu synhwyrau, ni fydd dim yn eu boddloni, a fyddo yn achos o boen neu ddolur iddynt, ac etto nyni a fyddwn yn eu hattal a'u caethiwo: ond pan y mae dynion allan o'u hiawn bwyll mewn perthynas i iechydwriaeth eu heneidiau, ac yn eu hynfydrwydd yn pryssuro i golledigaeth, ni fynnwn eu hattal rhag peri iddynt flinder neu anfoddlonrwydd. Pa fodd y gallwn ni fod yn wir Gristionogion tra yr ydym "*yn caru clod dynion yn fwy na gogoniant Duw?*" Ioan, 12 : 43. Canys tra yr ydym yn ceisio rhyngu bodd dynion nid ydym yn weision i Grist. Peth rhy gyffredin yw cymmeryd ein rhwystro gan ryw gywilydd, gwyleidd-dra, neu ofn pechadurus. Y pryd y dylem ni *gywilyddio* dynion allan o'u pechodau, y mae arnom ni *gywilydd* i wneuthur ein dyledswydd. Onid all y cyfryw bechaduriaid, y rhai nid ydynt yn rhusio nac yn gwridio wrth dyngu, rhegu, meddwi, ac esgeuluso addoliad Duw, ein condemnio ni o herwydd fod arnom ni *gywilydd* eu cynghori a'u hargyhoeddi, na dywedyd dim wrthynt? Y mae gŵylder a chywilydd yn anweddus lle y mae angenrheidrwydd y peth yn gofyn hyfdra duwiol. Nid peth i fod arnom gywilydd o'i blegid ydyw ufuddhau i Dduw, trwy geisio troi dynion oddiwrth eu pechodau at Grist. Ddarllenydd, oni ddarfu i'th gydwybod lawer tro dy adgofio o'th ddyledswydd, a'th annog i lefaru wrth bechaduriaid truain? ac er hynny yr oedd arnat gywilydd i agor dy enau; ac felly y gadewaist iddynt soddi neu nofio; hynny yw, myned ymlaen yn eu pechodau. Oh! darllen

y geiriau hyn, ac arswyda hefyd: "*Canys pwy bynnag a fyddo cywilydd ganddo fi, a'm geiriau, yn yr ordinebus a'r bechadurus genhedlaeth hon, bydd cywilydd gan Fab y dyn yntau hefyd, pan ddel yngogoniant ei Dad, gyda'r angylion sanctaidd.*" Marc, 8 : 38. Rhwystr arall ydyw tymmer segurllyd, ac yspryd annioddefgar; ac, yn ddiammeu, gwaith anniolchgar ydyw hyn, ac y mae weithiau yn gwneuthur dynion yn elyniaethol i ni. Heblaw hyn, anfynych y llwydda yn y dechreu, oni chanlynir arno. Y mae'n angenrheidiol cael hir amser i ddysgu'r anwybodus, ac i blygu a darostwng y rhai ystyfnig a gwrthnysig. Nid ydym yn ystyried amynedd Duw tuag attom ni pan oeddem yn ein pechodau; a gwae fuasai i ni pe buasai Duw wedi bod mor ddiamynedd tuag attom *ni* ag ydym *ni* tuag at ein cyd-frodyr. Rhwystr arall ydyw hyn, sef fod pawb yn chwannog i geisio eu budd a'u lleshad eu hunain: "*Canys pawb sydd yn ceisio yr eiddynt eu hunain, nid yr eiddo Crist Iesu,*" (Philip. 2 : 21,) na chwaith yr eiddo, neu ddaioni eu brodyr. Gyda llawer, y mae balchder yn rhwystr mawr. Pe caent siarad â gwr mawr, ac heb ei ddigio, hwy a fyddent yn bur ewyllysgar; ond i fyned i fysg y tlodion, a chymmeryd poen gydâ hwynt yn eu hanneddau gwael, pa le y mae'r dynion a wnant hyn? Llawer a lawenychant o herwydd iddynt fod yn foddion o ddychweliad gwr bonheddig, (ac y mae iddynt achos,) ond a esgeulusant y cyffredin neu'r gwerinos, fel pe na byddai eneidiau pawb yn werthfawr ger bron Duw. Och! nid ydyw'r dynion hyn yn ystyried pa mor isel yr ymostyngodd Crist er ein mwyn ni! "*Nid llawer o rai goludog, nid llawer o rai galluog, nid llawer o foneddigion a alwyd.*" 1 Cor. 1 : 16. Y tlodion (yn fwyaf cyffredin) yw y rhai sydd yn derbyn newyddion da yr efengyl. A chyda rhai, eu hanwybodaeth o'r ddyledswydd sydd yn rhwystro iddynt ei chyflawni. Naill ai ni *wyddant* ei bod yn *ddyledswydd*, neu ynte y maent yn meddwl nad ydyw yn *ddyledswydd* arnynt *hwy*. Os hyn yw dy amgylchiad

di, O ddarllenydd, gobeithiaf dy fod bellach yn gwybod dy ddyledswydd, ac yn barod i ymosod yn ei chylch i'w gwneuthur.

§ 9. Na fydded i ti godi gwrthddadleu yn erbyn y ddyledswydd, "eich bod yn analluog i roddi gair o gyngor;" ond naill ai ceisiwch osod eraill ynghylch y gwaith, y rhai ydynt yn fwy cyfaddas, neu ynte defnyddia hynny o dalent a ymddiriedwyd i ti, mewn modd ffyddlon a gostyngedig, a thraetha iddynt, megis dyn gwan, pechadurus, yr hyn y mae Duw yn ei lefaru yn ei air. Nac ymwrthod â'r gwaith o herwydd mai un o uwch grâdd nâ thi sydd yn angenrheidiol iddo gael cyngor ac addysg. Y mae yn rhaid rhoddi heibio oruchafiaeth pan fyddo *angenrheidrwydd* yn gofyn. Er iddo fod yn wr, tad, mam, neu weinidog, etto nac ymattal rhag dywedyd wrtho y gwirionedd. Pan y mae *rhieni* mewn *eisiau*, y mae'n rhwymedig ar y *plant* eu cynnorthwyo. Os bydd gwr y tŷ yn salw, rhaid i'r wraig geisio cyflawni yn ei le, a llywodraethu ei achosion. Pe dygwyddai i'r cyfoethogion gael eu dwyn i dlodi, byddai raid iddynt ofyn elusen. Os y meddyg a fydd mewn clefyd, rhaid i ryw un ofalu am dano. Felly hefyd, yr un modd, mae'n rhaid i'r gwas mwyaf distadl gynghori ei feistr, a'r plentyn ei dad neu ei fam, a'r wraig ei gwr, a'r gynnulleidfa eu gweinidog. Ond, ar yr un pryd, bydder yn ofalus i wneuthur hyn yn unig pan fyddo angenrheidrwydd mawr, a hynny hefyd gyda'r gostyngeiddrwydd, y parch, yr ufudd-dod a'r addfwynder mwyaf. Ac na ddywedwch, *hyn a'n gwna ni oll yn bregethwyr;* canys y mae pob Cristion da yn ddysgawdwr, ac enaid ei gymmydog wedi ei ymddiried iddo. Ac y mae pob dyn i fod yn *feddyg*, a phan fyddo'r archoll mor fechan, a'r clefyd mor ysgafn, fel y gall unrhyw ddyn ei iachau: ac yn yr unrhyw, neu'r cyffelyb amgylchiadau, rhaid i bob dyn fod yn athraw. Na ddigalonna, ac nac ammeu am y canlyniad, canys oni ddichon Duw roddi ffynniant i'r gwaith? Ac onid trwy foddion y mae'n

rhaid dwyn hyn a phob peth arall i ben? Na ddywedwch (i'r dyben o esgusodi eich hunain) na fyddai hynny ond *taflu gemmau o flaen y moch.* Pan y byddoch mewn perygl o gael eich rhwygo, Crist a'ch rhybuddia i ymattal. Ond pa beth yw hyn i chwi, pan na byddoch mewn dim enbydrwydd? Tra y byddo dynion yn foddlon i'ch gwrando, y mae i chwi annogaeth i lefaru, ac nid eu bwrw ymaith megis moch dirmygedig. Ac na ddywedwch chwaith, "Cyfaill ydyw hwn, yn yr hwn yr ydwyf yn mawr ymddiried, ac yn disgwyl llawer ar ei ol; ac os dywedaf wrtho ei bechod, ac y datguddiaf iddo ei drueni, myfi a allaf golli ei ewyllys da, ac felly fy nifetha fy hun." A ydyw ei ewyllys da ef yn fwy dymunol gennyt nâ'i ddiogelwch? neu, a ydyw dy elw a'th ddaioni dy hun yn fwy gwerthfawr yn dy olwg na iachawdwriaeth ei enaid anfarwol? Neu, a fynnit ti gyd-ddwyn â'i ddamnedigaeth, neu ddioddef iddo fyned i golledigaeth o herwydd ei fod yn gyfaill i ti? Ai hyn yw'r daledigaeth oreu a fedri di roi iddo am ei garedigrwydd? A ewyllysit ti iddo losgi dros byth yn uffern, yn hytrach nâ cholli ei ewyllys da, neu'r elw a'r gynhaliaeth yr ydwyt yn ei dderbyn, neu yn ei ddisgwyl oddiwrtho.

§ 10. (III.) Ond fel y byddo i bob un sydd yn ofni Duw gael ei gymmell i ymegnio, hyd eithaf ei allu, i gynnorthwyo eraill i gael yr orphwysfa fendigedig honno, gadewch i mi erfyn arnoch i ystyried yr annogaethau canlynol: megis, mai nid yn unig natur, ond gras yn fwyaf enwedigol, sydd yn tueddu yr enaid i gyfrannu daioni. Gan hynny, esgeuluso'r gwaith hwn sydd bechod yn erbyn natur a gras. Oni farnech chwi'r dyn hwnnw yn annaturiol, yr hwn a adawai i'w blant neu ei gymmydogion newynu yn yr heolydd, ac yntau a bwyd ganddo yn ei ymyl? Ac onid ydyw hwnnw yn fwy annaturiol, yr hwn a ddioddefai iddynt fyned i ddinystr tragywyddol, ac ni fynnai agor ei enau i'w hachub? Anghenfil, neu furgyn o beth yw pob dyn calon-galed, annhrugarog, ac yn haeddu cael

ei gasâu gan bawb. Pe buasai Duw yn gorchymyn i chwi rannu iddynt eich holl eiddo, neu roddi eich einioes i lawr i'w hachub, chwi (yn ddiau) a fuasech yn naccau, pan nad ydych yn foddlon i roddi ychydig anadl i'w hachub. Ac onid ydyw enaid gwr, neu wraig, neu blentyn, neu gymmydog, yn werth ychydig eiriau? Y mae creulondeb tuag at gyrph pobl yn bechod i'w gondemnio yn fawr: ond y mae creulondeb tuag at eu heneidiau yn waeth o lawer, gan fod yr enaid yn fwy gwerthfawr nâ'r corph, a thragywyddoldeb nac amser. Ychydig a wyddoch chwi gymmaint y mae llawer enaid yn awr yn ei ddioddef yn uffern, y rhai a fuant feirw yn eu pechodau o eisiau eich rhybuddion ffyddlon chwi. Ystyriwch gymmaint a wnaeth Crist er achub eneidiau. Efe a'u gwelodd yn werth ei waed, ac oni feddyliwn ni eu bod yn werth ein geiriau? Ac oni wnewch *chwi ychydig* lle y gwnaeth Crist cyn *gymmaint?* Ystyriwch y fath wrthrychau o dosturi yw dynion annuwiol. Y maent yn feirw mewn pechod a chamwedd. Nid oes ganddynt mor calonnau i fod yn deimladwy o'u trueni, nac i dosturio wrthynt eu hunain. Ac os na thosturia eraill wrthynt, ni thosturiant wrthynt eu hunain; canys eu clefyd sydd o'r cyfryw natur fel y mae yn eu gwneuthur yn ddidrugaredd tuag attynt eu hunain, ïe, yn hunan-ddihenyddion didrugaredd iddynt eu hunain. Ystyria mai hyn a fu dy gyflwr dithau unwaith. Rheswm Duw am gynghori yr Israeliaid gynt i fod yn garedig wrth *ddieithriaid*, oedd o herwydd eu bod hwy eu *hunain* wedi bod yn *ddieithriaid* yngwlad yr Aipht. Yn yr un cyffelyb fodd y dylech chwithau dosturio wrth y rhai sydd yn ddieithriaid i Grist, ac i obaith a chyssuron y saint, o herwydd eich bod chwi eich hunain wedi bod yn ddieithriaid iddynt. Ystyriwch hefyd y berthynas agos sydd rhyngoch. Dy *gymmydog*, dy *frawd* ydyw, yr hwn yr wyt yn rhwymedig i'w garu fel ti dy hunan. A'r hwn sydd *heb garu ei frawd* y mae yn ei weled beunydd, nid yw yn *caru Duw* yr hwn

nis gwelodd erioed. Neu, a ydyw hwnnw yn caru ei frawd, yr hwn sydd yn ei weled yn myned i uffern, ac heb geisio ei rwystro.

§ 11. Ystyria'r fath faich o euogrwydd y mae'r esgeulusdra yma yn ei osod ar dy enaid dy hun, canys yr ydwyt yn euog o farwolaeth a damnedigath yr holl eneidiau yr ydwyt fel hyn yn eu hesgeuluso—o bob pechod y maent yn awr yn ei wneuthur, o'r holl ddianrhydedd sydd yn cael ei roddi i Dduw trwy hynny, ac o'r holl farnedigaethau ag y mae eu pechodau yn eu tynnu ar y dref neu'r wlad lle y maent yn byw. Ystyriwch pa fath olwg a fydd edrych ar eich cyfeillion truenus mewn fflammau tragywyddol, a meddwl mai eich *hesgeulusdra chwi* a fu yn achos mawr o hynny; a phe darfyddai am danoch chwithau gyda hwy, fe fyddai hynny yn ychwanegiad nid bychan i'ch poenau. Ac os byddwch yn y nefoedd, fe fyddai hynny, yn ddiammeu, yn feddwl trwm (pe byddai bossibl i ddim tristwch ddyfod yno) i glywed lliaws o eneidiau truain yn gwaeddi allan dros byth, "Oh! pe buasech chwi yn dywedyd wrthyf, yn eglur, am fy mhechod a'm perygl, a'i osod attaf hyd adref, myfi a allaswn ddiangc rhag dyfod i'r poenau hyn, a bod yn awr yn yr orphwysfa! Y fath lais trwm a galarus a fydd hwn! Ar y llaw arall, ystyriwch y fath orfoledd a fyddai i chwi gyfarfod yn y nefoedd â rhai y buoch chwi yn foddion i'w dwyn yno! i weled eu wynebau, ac i gyduno â hwy yn dragywydd i glodfori Duw! a chwithau wedi bod mor ddedwydd a bod yn foddion o'u dwyn i ufudd-dod ac adnabyddiaeth o Iesu Grist! Ystyriwch pa sawl enaid a ddarfu i chwi (mae'n debygol) eu dwyn i ffordd colledigaeth, neu fod yn foddion i'w caledu mewn pechod! Yn amser ein hanwybodaeth yr oedd gennym ninnau gyfeillion mewn pechod, y rhai y darfu i ni eu llithio, neu eu hannog. Ac onid ydyw mor angenrheidiol i ni wneuthur cymmaint i achub dynion ag a wnaethom i'w dinystrio? Ystyriwch mor ddiwyd y mae gelynion yr eneidiau truain

hyn i'w tynnu i uffern! Y mae'r diafol yn eu temtio ddydd a nos. Y mae eu trachwantau anianol bob amser yn ceisio gweithio eu dinystr. Y mae'r cnawd yn wastad yn daer am ei ddigrifwch, a'u hen gyfeillion yn gwneuthur hynny a fedrant i ychwanegu eu casineb i sancteiddrwydd; ac os na fydd neb yn ddiwyd i'w cymmorth tua'r nefoedd, pa beth (yn ol pob tebygolrwydd) a ddaw o honynt!

§ 12. Ystyriwch mor ddwfn yr archolla'r esgeulusdra o'r ddyledswydd hon chwi pan ddeffroa eich cydwybod! Pan ddaw dyn i farw, cydwybod a ofyn iddo—Pa ddaioni a wnaethost ti yn dy fywyd? Achub eneidiau yw y pennaf o weithredoedd da; pa beth a wnaethost ti tuag at hynny? Gyda pha sawl un yr ydwyt ti wedi ymddwyn yn ffyddlon? Deliais sylw yn fynych, fod cydwybodau dynion yn eu cyhuddo ar eu gwely angau am esgeuluso hyn o waith. O'm rhan fy hun, rhaid i mi gyfaddef, pan y bum yn sâlw ac ym mron marw, yr oedd fy nghydwybod yn fy nghyhuddo am esgeuluso hyn yn fwy nag am un pechod arall. Hi a fyddai yn dwyn i'm cof y pryd hynny bob cymmydog annuwiol, i'r rhai ni ddangosaswn y perygl yr oeddent ynddo. Hi a ddywedai wrthyf, "Tydi a ddylesit fyned attynt yn ddirgel, a mynegu iddynt yn eglur pa fath gyflwr ofnadwy yr oeddent ynddo, hyd yn nod, yr amser oedd gennyt at fwyta neu gysgu, os nad oedd gennyt yr un hamdden arall." Cydwybod hefyd a adgofiai i mi fel yr oeddwn y pryd a'r pryd ynghymdeithas rhai anwybodus, neu yn marchogaeth ar hyd y ffordd gyda phechadur cyndyn a rhyfygus, a chennyf gyfleusdra addas i'w argyhoeddi, a minnau heb wneuthur hynny, o'r hyn lleiaf, nis gwnaethum ond mewn modd rhy dawel ac esmwyth. Yr Arglwydd a wnelo i mi ufuddhau cydwybod yn well tra y mae gennyf amser, fel y byddo ganddi lai o achwyniad yn fy erbyn yn awr angau! Ystyriwch pa fath amser cyfleus sydd gennych yn awr at y gwaith hwn. *Bu*, a geill *fod* etto, *amseroedd* ymha rai nid ellid siarad heb

berygl, ac y gallasai hynny *gostio* i chwi eich rhyddid neu eich bywyd. Heblaw hyn, eich cymmydogion ar fyr dro a fyddant feirw, ac felly chwithau hefyd;—dywedwch wrthynt, gan hynny, tra y mae amser yn canniattau. Ystyrwch hefyd, er fod hyn yn ddyledswydd o gariad, ac, mewn ystyr, o elusen hefyd, y geill pob un o honoch ei chyflawni, y tlottaf cystal a'r cyfoethog. Y mae gan bob dyn dafod i ymddiddan â'i gyd-bechadur, ac i argyhoeddi'r rhai halogedig a rhyfygus. Unwaith etto, ystyria'r canlyniadau dymunol o'r cyfryw waith, lle y cyflawnir ef yn ffyddlon. Gellwch fod yn offerynol i *achub eneidiau,* i'r hwn berwyl y daeth Crist i lawr ac y bu farw, ac ymha un y mae angylion Duw yn gorfoleddu. A'r eneidiau hynny a'ch bendithiant, yma ac ar ol hyn. Bydd hefyd glod lawer i Dduw oddiwrth hyn. Yr eglwys a chwanegir, ac a adeiledir drwy hynny; a'ch heneidiau eich hunain a dderbynant gynnydd, a nerth newydd mewn bywyd ysprydol a duwiol; a chwi a gewch fwy o heddwch cydwybod, a mwy o orfoledd yn yr Yspryd. O'r holl drugareddau a dderbyniais erioed i mi fy hun (yn nesaf at gariad Duw yn Nghrist) i'm henaid, rhaid i mi, gyda llawenydd a diolchgarwch, fendithio enw Duw, am lwyddiant fy ymdrechiadau er troedigaeth eraill. Oh! pa gymmaint ffrwythau, gan hynny, a allaswn weled, pe buaswn yn fwy ffyddlon? Myfi a wn yn dda y dylem fod yn dra gwyliadwrus ar ein calonnau twyllodrus, yn yr ystyr hyn rhag i'n gorfoledd darddu oddiar falchder. Wrth naturiaeth, nyni a chwennychem gael i ni ein *hunain y clod* am bob gweithred dda; er hynny, yn ddiammeu, dyledswydd pob plentyn i Dduw ydyw ceisio bod yn gyffelyb i'w Dad nefol mewn daioni a thrugaredd, a gorfoleddu yn y cyfryw raddau o honynt ac a allom gyrhaedd iddynt. Yr ydwyf, gan hynny, yn dywedyd wrthych fy mhrofiad fy hun i'r dyben o'ch *perswadio;* canys pe baech yn iawn ddeall pa fath waith hyfryd ydyw, chwi a'i canlynech nos a dydd trwy bob gwrthwyneb.

§ 13. Deffrowch, ac ymwrolwch gan hynny, bob un o honoch sydd â thafod, ac sydd yn was i Grist, a gwnewch ryw ràn o waith eich Meistr. I ba beth y rhoddodd efe i chwi dafod ond i lafaru yngwasanaeth eich Meistr? A pha fodd y gellwch ei wasanaethu ef, yn fwy effeithiol, na thrwy achub eneidiau? Efe, yr hwn a'ch datgan yn fendigedig yn y dydd diweddaf, ac a'ch gwahodda i mewn i'r deyrnas a *barottowyd i chwi*, o herwydd i chwi roddi bwyd iddo, a'i ddilladu ac ymweled ag ef, a hyn oll yn ei *aelodau tlodion*, a fydd, yn ddiau, yn sicr o'ch galw hefyd yn fendigedig am weithred mor ddaionus a dwyn eneidiau i'w deyrnas. Efe, yr hwn a ddywedodd, "*Y mae gennych y tlodion bob amser gyda chwi*," (Mat. 26 : 11,) a adawodd hefyd yr annuwiolion bob amser yn eich plith, fel y caffech le i wneuthur cymmwynas iddynt. Os oes gennych galonnau megis Cristionogion, neu ddynion, ceisiwch gael eu clywed yn cynnesu o'ch mewn o wir dosturi tuag at eich cymmydogion anwybodus ac annuwiol. Dywedwch, megis y gwyr gwahan-glwyfus o Samaria, "*Nid ydym yn gwneuthur yn iawn; y dydd hwn sydd ddydd llawen-chwedl, ac yr ydym ni yn tewi a son.*" Bren. 7 : 9. A ydyw Duw wedi dangos cymmaint trugaredd i chwi, ac oni ddangoswch chwithau beth trugaredd tuag at eich cymmydogion tlodion? Ond megis ag y mae'r ddyledswydd hon yn perthyn i bob Cristion, felly yn fwy *pennodol* i *rai*, megis ag y galwodd Duw hwy i hynny, ac a'u haddasodd at y gwaith. At y cyfryw rai, gan hynny, yn fwyaf pennodol, yr ydwyf yn cyfeirio'r cynghorion hyn.

§ 14. Y mae Duw yn disgwyl cyflawniad o'r ddyledswydd hon oddiar eich llaw chwi yn neillduol, i ba rai y mae efe wedi cyfrannu mwy o *ddysgeidiaeth* a gwybodaeth, ac wedi eich donio â gwell parabl a hyawdledd na'ch cymmydogion. Y rhai *cryfion* a drefnwyd i gynnorthwyo'r *gweiniaid*, a'r rhai sydd yn *gweled* i gyfarwyddo'r deillion. Y mae Duw yn disgwyl i chwi iawn ddefnyddio eich talentau, ac ymarfer eich doniau a'ch

rhoddion mewn modd ffyddlon; yr hyn, os esgeuluswch, gwell a fuasai i chwi fod heb eu derbyn, canys ni wnant ond ychwannegu eich barnedigaeth; a hwy a fyddant mor anfuddiol tuag at eich iachawdwriaeth eich hunain ag yr oeddent i eraill.

§ 15. Chwi, yn fwyaf pennodol, bawb sydd yn gydnabyddus â dynion annuwiol, a chenych achos mawr i ewyllysio eu llwyddiant, y mae Duw yn gofyn hyn o ddyledswydd ar eich llaw. Crist ei hun a fwyttaodd ac a yfodd gyda phublicanod a phechaduriaid, ond efe a wnaeth hynny i'r perwyl o fod yn *feddyg* iddynt ac nid yn gyfaill. Pwy a ŵyr nad i'r dyben hwn y rhoddes Duw y berthynas yma rhyngoch chwi a hwynt, fel y byddoch yn foddion o'u troedigaeth? Y rhai ni wnant gyfrif o eiriau y dyn dieithr, efallai, a wrandawant ar lais brawd neu chwaer, gwr neu wraig, neu gâr agos; heblaw fod rhwymyn cariad a chyfeillgarwch yn eich rhwymo i fwy o addfwynder a thosturi na chyffredin.

§ 16. *Meddygon*, y rhai sydd yn aml yn agos at ddynion seilion, a rhai ar drangcedigaeth, a ddylent, mewn modd neillduol, fod yn gydwybodol yn hyn o orchwyl. Y mae ganddynt *hwy* gyfleusdra neillduol, o achos eu bod hwy at law, a'u bod gyda dynion mewn clefydau a pheryglon, pan y mae'r glust yn fwy agored a'r galon yn fwy meddal nag amser iechyd, a bod dynion yn edrych ar y meddyg megis un y mae eu bywyd yn ei law, neu, o'r hyn lleiaf, un a eill wneuthur llawer i'w hachub, ac am hynny a fyddant yn fwy parod i wrando ei gyngor. Chwi, y rhai ydych o'r alwedigaeth anrhydeddus hon, na fydded i chwi ystyried y gwaith hwn megis peth heb fod yn perthyn i chwi, ac felly allan o'ch swydd, fel pe na b'ai hynny yn perthyn i neb ond i'r gweinidog; onid ydych yn barnu hefyd y perthyna i'ch swydd chwi fod yn dosturiol, yn drugarog, ac yn Gristionogol. Oh! cynnorthwywch, gan hynny, i addasu a pharottoi eich cleifion ar fedr byd arall, ïe, fel y derbynier hwy i'r nefoedd; a pha un byn-

nag y meddylioch eu bod yn fwyaf tebyg, i fyw neu i farw, dysgwch hwy pa fodd i fyw, a pha fodd i farw, ac felly y rhoddwch iddynt ychydig feddyginiaeth i'r enaid yn gystal ag i'r corph. Bendigedig fyddo Duw am fod llawer o feddygon pennaf yr oes hon, trwy eu hynod dduwioldeb, wedi amddiffyn eu galwedigaeth rhag yr anair a'r cyhuddiad o ddidduwiaeth, angrhediniaeth ac annuwioldeb.

§ 17. Gwyr mawr, goludog, a galluog, y rhai sydd â llawer o bobl dan eu hawdurdod, y mae gan y cyfryw gyfleusdra tra hynod i gyflawni'r ddyledswydd hon. Oh! pa ryfeddol ddaioni a allai arglwyddi a gwyr boneddigion wneuthur, pe gwelai Duw yn dda roddi iddynt galonnau i iawn ddefnyddio yr awdurdod sydd yn eu dwylaw! Gellir gofyn i'r cyfryw rai, onid oddiwrth Dduw y derbyniasoch eich holl olud a'ch anrhydedd? Ac onid ydyw Crist yn dywedyd, "*I bwy bynnag y rhoddwyd llawer, llawer a ofynnir ganddo?*" Luc, 12 : 48. Pe byddech mor ystyriol a llafaru wrth y rhai sydd dan eich haden, dros Dduw a'u heneidiau, *chwi* a gaech eich gwrando pan y byddai y gweinidog yn debyg o gael ei ddiystyru. Ond os ydych yn gweled anrhydedd Duw yn werthfawr; os ydych yn meddwl am eich cwmffwrdd eich hunain, ac iachawdwriaeth eneidiau anfarwol, defnyddiwch yr awdurdod sydd gennych ar eich deiliaid ac ar eich cymmydogion. Ymwelwch â hwynt yn eu tai, mynnwch wybod a fyddant yn addoli Duw yn eu teuluoedd, a chymmerwch bob achlysur i'w hannog i gyflawni pob dyledswydd Gristionogol. Na ddiystyrwch hwynt. Cofiwch "*nad yw Duw dderbyniwr wyneb.*" Gadewch i bawb weled eich bod chwi yn rhagori ar eraill mewn duwioldeb, tosturi, a diwydrwydd, yn ngwaith yr Arglwydd, megis ag yr ydych hefyd wedi cael eich bendithio â chyfoeth ac anrhydedd yn y byd. Yr ydwyf yn cyfaddef y byddech yn debygol o gael eich cyfrif yn *neillduol* iawn yn hyn; ond chwi a fyddech hefyd yn *neillduol,* neu yn hytrach, yn rhagorol

mewn clod a pharch ger bron Duw a dynion; canys *nid llawer o'r rhai galluog a alwyd.*

§ 18. Ond am weinidogion yr efengyl, gwaith pennaf eu galwedigaeth hwy yw cynnorthwyo eraill tua'r nefoedd. Byddwch, gan hynny, yn sicr o wneuthur hyn yn waith pennaf eich dysg a'ch gweinidogaeth. Hwnnw yw'r gweinidog medrus a chelfydd, yr hwn sydd yn fwyaf cyfarwydd yn y gelfyddyd o addysgu, argyhoeddi, rhybuddio, a chynghori dynion, ac yn ganlynol, ennill eneidiau; a honno yw'r bregeth oreu, yr hon sydd fwyaf tebygol i atteb y dybenion hyn. Os nid yr eiddo Duw, ond eich gogoniant eich hunain yr ydych yn ei geisio, yna Duw a'ch gwna chwi yn lleiaf ac yn ddistadlaf o'r gwyr. Y mae yr hyn a ddywedodd Crist am ein bywyd, yn wir hefyd am eich hanrhydedd a'ch llwyddiant yn hyn o orchwyl: "*Yr hwn sydd yn caru ei einioes a'i cyll.*" Gadewch i fywiogrwydd eich hannogaethau, a *zel* eich hathrawiaeth a'ch cynghorion, ddangos yn eglur i bawb eich bod yn deimladwy o bwys y gennadwri ar ba un y'ch danfonwyd. Pregethwch â'r cyfryw symlrwydd, difrifwch a gwresogrwydd, megis rhai ag sydd yn credu o'r galon yr athrawiaeth y maent yn ei thraddodi, ac yn gwybod, os na fydd i'w gwrandawyr gael eu hargyhoeddi a'u troi, y byddant yn sicr o fod yn golledig. Na thybiwch mai yn eich *pulpit* ac yn eich *study* y mae eich holl waith; canys *bugeiliaid* ydych, ac y mae'n rhaid i chwi adnabod pob dafad, a pha beth yw afiechyd pob un, a bod yn gydnabyddus â'u cyfeiliornadau, a gwneuthur a fedroch i'w hiachau a'u dwyn yn ol i gorlan Crist. Dysgwch gan St. Paul, nid yn unig i gynghori eich pobl ar gyhoedd, ond hefyd o dŷ i dŷ. Ymofynwch pa fodd y maent yn cynnyddu mewn gwybodaeth a sancteiddrwydd, ar ba sail y maent yn adeiladu eu gobaith o iachawdwriaeth, a pha un a ydynt yn rhodio yn uniawn, yn addas, ac yn ddiargyhoedd, ac yn cyflawni dyledswyddau eu hamryw sefyllfaoedd. Edrychwch a fyddant yn gwasanaethu Duw yn eu teuluoedd,

a hyfforddwch hwy pa fodd i wneuthur hynny. Byddwch gyfeillgar â hwynt, a charedig tuag attynt, fel y galloch gynnal i fynu eich hawdurdod a'ch llywodraeth, ac felly defnyddio hyn oll er gogoniant i Dduw. Mynnwch wybod hefyd ganddynt pa fudd ac adeiladaeth y maent yn ei dderbyn wrth wrando'r gair, a chlywed athrawiaethu cyhoeddus. Ac od oes rhai nad ydynt yn synnied pethau'r Yspryd ond ychydig, tosturiwch wrthynt, ond na ddiystyrwch hwynt. Os oes rhai yn rhodio yn afreolaidd, adferwch hwynt gyda diwydrwydd ac amynedd. Os anwybodus ydynt, gall hynny fod o achos eich hesgeulusdod chwi yn gymmaint neu yn fwy na'u bai eu hunain. Na fydded i chwi heppian a chysgu tra y mae y blaidd yn effro. Na fydded i chwi ymddwyn yn ysgafn nac yn esgeulus tuag at neb. Nid yw'r gweinidogion yn ewyllysio dywedyd yn eglur wrth eu gwrandawyr am eu pechodau, o herwydd eu bod yn wyr mawr, nac wrth eraill o herwydd eu bod yn broffeswyr, neu yn bobl dduwiol, megis pe na b'ai achos llafaru yn ddidderbyn wyneb wrth neb ond y tlodion a rhai annuwiol. Ond etto ymdrechwch i fod yn ddoeth ac yn gelfydd, fel y byddo'r moddion neu'r ymddygiad yn atteb rhagoroldeb y gwaith neu'r matter mewn llaw. Y mae gan bob enaid rhesymmol ddeall, gwybodaeth a serchiadau, ac y mae'n angenrheidiol i bob pregeth resymmol ac ysprydol gynnwys pob un o honynt. Astudiwch a gweddiwch, gweddiwch ac *astudiwch*, hyd oni ddeloch i fod yn "*weithwyr difefl*, (heb achos bod cywilydd arnynt,) *yn iawn gyfrannu gair y gwirionedd;*" (2 Tim. 2 : 15;) ac fel na byddo cywilydd i'r gwrandawwyr, ac na byddont yn blino yn eich gwrando. Gadewch i'ch bywyd, eich *buchedd*, a'ch hymarweddiad fod yn eu *dysgu* yn gystal a'ch *athrawiaeth*. Byddwch eich hunain, nid yn unig yn ddichlyn yn eich bywyd, ond hefyd yn *ofalus ar flaenori mewn gweithredoedd da;* (Tit. 3 : 8;) ac felly i fyw bywyd sanctaidd a nefol, yn gystal ac yn ymdrechgar i annog eraill i hynny. Gadewch i'ch ymad-

rodd (pregeth) fod yn adeiladol, yn fuddiol, ac yn ysprydol. Dioddefwch bob peth, neu un peth, yn hytrach nac i'r efengyl ac eneidiau gael dioddef. Gadewch i ddynion weled nad ydych yn arfer y weinidogaeth megis swydd i fyw wrthi, ond bod eich calonnau wedi eu gosod ar iachawdwriaeth eneidiau. Pa gymmaint bynag o addfwynder, iselfrydedd, gostyngeiddrwydd, hunan-ymwadiad, a fyddoch yn eu dysgu iddynt o'r efengyl, gwnewch hynny hefyd drwy eich *hesiampl* ddidwyll a diragrith. Ymegniwch ac ymdrechwch am undeb a thangnefedd. Os ewyllysiwch helaethu teyrnas Crist, a dwyn ymlaen iachawdwriaeth eich gwrandawyr, gwnewch hyn oll mewn ffordd o heddwch a chariad. Y mae yn waith mor anhawdd i chwi gynnal barn gywir, iawn ddealltwriaeth, cydwybod dyner, yspryd bywiog, grasusol, nefol, ac iawn hwyl yn mysg eich pobl, ac hefyd buchedd ac ymddygiad difeius, didramgwydd, ag ydyw cadw canwyll yn oleu mewn tymhestl fawr. *Gwyn ei fyd y gwas hwnnw, yr hwn y caiff ei Arglwydd ef, pan ddelo, yn gwneuthur felly.* Mat. 24 : 16.

§ 19. Chwithau bawb oll, i ba rai yr ymddiriedodd Duw ofal plant a gweision, myfi a ewyllysiwn eich hennill chwithau i'r gwaith mawr hwn o gymmorth eraill i fyned i mewn i'r orphwysfa nefol. Ystyriwch, gorchymynion eglur a phwysfawr Duw sydd yn gofyn hyn ar eich llaw. *A bydded y geiriau hyn, yr ydwyf fi yn eu gorchymyn i ti heddyw, yn dy galon; ac hysbysa hwynt i'th blant, a chrybwyll am danynt, pan eisteddych yn dy dy, a phan gerddych ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i fynu.*" Deut. 6 : 6, 7. "*Hyfforddia blentyn yn mhen ei ffordd : a phan heneiddio nid ymedy a hi.*" Diar. 22 : 6. "*Maethwch eich plant yn addyg ac athrawiaeth yr Arglwydd.*" Ephes. 6 : 4. "*Joshua a wnaeth adduned am dano ei hun, a'i dylwyth, y byddai iddynt wasanaethu yr Arglwydd.*" Jos. 24 : 15. A Duw ei hun sydd yn dywedyd am Abraham : "*Canys mi a'i hadwaen ef, y gorchym-*

*yn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt ffordd yr Arglwydd.*" Gen. 18 : 19. Ystyriwch mai dyledswydd i'ch plant ydyw hyn, yn ol pob cyfiawnder. Oddiwrthych chwi y derbyniasant lygredd, aflendid a thrueni eu natur, ac o herwydd hynny, y mae yn ddyledus arnoch roddi iddynt bob cymmorth a alloch tuag at eu hadferiad. Ystyriwch mor agos perthynas yw eich plant i chwi; y maent yn rhan o honoch eich hunain. Os byddant yn llwyddiannus yn y byd, wedi i chwi farw, chwi a ystyriech hynny yr un fath a phe baech *chwi* yn *fyw*, ac yn ffynnu yn eich plant; ac oni ddylech fod o'r un feddwl ynghylch eu cyflwr tragywyddol? Os amgen, chwi a fyddwch yn dystion yn erbyn eich heneidiau eich hunain. Eich gofal, a'ch poen, a'ch cost ynghylch eu cyrph, a ddeuant yn eich herbyn, o herwydd eich esgeulusdra a'ch diofalwch ynghylch eu heneidiau gwerthfawr ac anfarwol. Ië, yr holl grëaduriaid direswm a'ch condemniant? Canys pa rai o honynt hwy sydd heb fod yn ofalus dros eu rhai ieuaingc, ac yn dosturiol wrthynt? Ystyriwch fod Duw wedi rhoddi eich plant a'ch gweision dan eich gofal a'ch golygiad. Pob un a gyfaddef eu bod hwy dan ofal y gweinidog, megis eu bugail ysprydol; ac onid oes i chwi, megis penteulu, fwy o achos i ofalu am danynt na'r un gweinidog? Onid ymddiriedodd Duw eich plant a'ch gweision i'ch gofal neillduol chwi? Ac yn ddiau oddiar eich llaw chwi y gofyn efe waed eu heneidiau! Dyma y gofal mwyaf a ymddiriedwyd i chwi erioed; a gwae fydd i chwi os goddefwch hwy i fod yn anwybodus, neu yn ddrygionus, o herwydd i chwi esgeuluso eu dysgu a'u ceryddu. Ystyriwch gymmaint o waith sydd i chwi i wybod am eu hamryw dymmerau a'u hymddygiadau! Nid *un* pechod a ddylech chwi geisio (trwy ras) ei wrthwynebu a'i ddiwreiddio: ond y mae ynddynt *bechodau* etifeddawl wedi eu greddfu yn eu natur. A'r pethau y mae yn angenrheidiol i chwi eu dysgu iddynt, ydynt yn llwyr groes i'w serchiadau ac ewyllysiau'r cnawd; ac yn fyn-

ychaf hefyd, yngwrthwyneb i'r hyn a fyddo yn debyg i'w dyrchafu yn y byd. Yr Arglwydd a'ch dygo i weled ac i iawn ystyried y gwaith pwysfawr a'r gofal sydd yn gorphwys arnoch! Ystyriwch hefyd y tristwch, a'r poen, a'r gofid yr ydych yn ei ddarparu i chwi eich hunain trwy esgeuluso dysgu a cheryddu eich plant, pan y maent yn bur ieuangc, ac felly, fel gwialen ystwyth, yn hawdd eu plygu. Gan hynny, *os byddant yn ddrain* yn eich llygaid, chwi eich hunain a'u planodd. Ac os bydd i chwi edifarhau, a bod yn gadwedig, ai bychan gennych feddwl am eu colledigaeth *hwy*, a chwithau yn achos o hynny? Ond os meirw a fyddwch yn eich pechodau, pa fodd y gwaeddant allan yn eich herbyn yn uffern, "Hyn i gyd oll sydd o'ch achos chwi: eich dyledswydd oedd dysgu i ni well pethau, ond nis gwnaethoch; chwi a ddylasech ein hattal rhag pechu, a'n rhwystro i wneuthur drwg, ac hefyd ein ceryddu; ond hynny nis gwnaethoch." Pa fath ychwannegiad i'ch poenau a'ch trueni a fyddai'r cyfryw lefain ac achwyniadau galarus! Ar y llaw arall, meddyliwch y fath gyssur a fyddai i chwi, pe byddech ymdrechgar i gyflawni'n ffyddlon y ddyledswddd bwysfawr a ymddiriedwyd i chwi! A phe *methech* lwyddo yn ol eich dymuniad, etto eich heneidiau a fyddent *ddieuog*, a chwi a gaech *heddwch cydwybod.* Ond os ffynnu a wnaech, y cyssur a fyddai anrhaethol, a chwi a lonnid yn eu cariad a'u hufudd-dod; hwy a ddiwallent eich hangenrheidiau, ac a'ch difyrrant chwi ar eich taith tua'r gogoniant. Ië, yn ddiammeu, *un plentyn*, neu *was graslawn*, a allai fod o fendith i'r rhelyw o'r teulu. Ond y llawenydd mwyaf a faddai i chwi, pan allech ddywedyd, "*Arglwydd, wele fi, a'r plant a ymddiriedaist i mi;*" ac yna cael bod gyda hwy mewn gorfoledd i bob tragywyddoldeb. Ystyriwch gymmaint y mae daioni a llwyddiant y llywodraeth mewn gwlad ac eglwys yn ymddibynnu ar hyn o ddyledswydd! Y cyfreithiau goreu ni wnant ein gwellhau na'n cyfnewid, os na wna'r diwygiad ddechreu gyda ni ein hunain, sef

gartef yn ein tai a'n teulu. Hyn yw gwraidd ac achos ein holl drallodion, ac o'r holl bechod a'r aflendid ag sydd yn rhwygo'r deyrnas, sef eisiau addysgu a meithrin ein plant mewn crefydd. Yr ydwyf hefyd yn deisyfu i rieni ystyried y fath gyfleusdra rhagorol sydd ganddynt i fod yn foddion i achub eneidiau eu plant. Y maent gyda chwi pan y maent yn iraidd, yn dyner, ac yn hawdd eu plygu. Dyma'r amser i fod yn ddiwyd, ac i ymdrechu hau yr had, ac i weddio ar Dduw am roddi'r cynnydd. Ac fel hyn, yn ei mebyd, y mae gennych ganghen dyner i'w phlygu yn lle derwen. Nid oes neb yn y byd a chymmaint lle yn eu serchiadau a'u tad a'u mam. Y mae gennych hefyd lawn awdurdod arnynt. Y maent yn ymddibynnu yn hollol arnoch chwi am eu cynhaliaeth; chwi a wyddoch yn oreu am eu tymmerau a'u tueddiadau. Ac yr ydych gyda hwy agos yn wastadol, ac ni bydd arnoch un amser eisiau cyfleusdra. Ond chwychwi *fammau*, yn enwedig, cofiwch hyn, y rhai ydych yn amlach gyda'ch plant, tra y maent yn ieuangc, na'u tadau. Pa gymmaint o boen ydych yn gymmeryd ynghylch eu cyrph! Pa wewyr fydd yn dyfod arnoch wrth eu dwyn i'r byd. Ac oni chymmerwch gymmaint poen er achub eu heneidiau! Eich serchiadau ydynt dyner, ac oni chythryblir chwi yn fawr wrth feddwl iddynt fod yn golledig am byth! Yr ydwyf yn erfyn arnoch, er mwyn plant eich hymysgaroedd, addysgwch, cynghorwch, rhybuddiwch hwy, a gwyliwch dros eu heneidiau, ac na adewch iddynt heddwch na llonyddwch hyd oni ddygoch hwynt at Grist.

§ 20. Myfi a gaf orphen, gyda'r taer ddeisyfiad hwn, ar bob rhieni cristionogol, y rhai a ddarllenant y llinellau hyn, sef ar iddynt drugarhau wrth eneidiau truain eu plant anwyl, a bod yn ffyddlon yn y siars a ymddiriedwyd iddynt. Ac os na fedrwch wneuthur *cymmaint a ewyllysiech, etto gwnewch hynny a fedroch ac a alloch.* Y mae yr eglwys a'r llywodraeth, tref a gwlad, yn griddfan ac yn cwynofain dan yr esgeulusdra o'r ddyledswydd bwysfawr

hon. Eich plant nid adwaenant Dduw, na'i ddeddfau, na'i gyfreithiau, ond a gymmerant ei enw yn ofer, ac a esgeulusant ac a ddiystyrant ei addoliad, a chwithau nid ydych nac yn eu dysgu nac yn eu *ceryddu ;* ac am hynny, y mae *Duw* yn eich *ceryddu chwi* a hwythau. Yr ydych mor anwyl a thyner o honynt fel nad ydyw Duw mor dyner o honynt hwy na chwithau. Na ryfeddwch os gwna Duw i chwi ddioddef yn dost am bechodau'r plant, canys yr ydych chwi yn euog ac yn achos o'r holl bechodau y maent hwy yn eu gwneuthur o herwydd i chwi esgeuluso eich dyledswydd o'u ceryddu a'u diwygio. A wnewch chwi, gan hynny, addunedu o flaen Duw, i ymosod ynghylch y ddyledswydd hon yn ddioed, ac heb ei hesgeuluso yn hwy? Cofiwch yr hen Eli! Y mae eich plant, megis *Moses* ymysg yr hesg, ymron darfod an danynt os na chant gymmorth. Gan hynny, megis nad ewyllysiech gael eich barnu gan Dduw megis llofruddion eneidiau eich plant, a chan na ddymunech eu clywed yn gwaeddi allan yn eich herbyn yn y tân tragywyddol, byddwch ddiwyd a gofalus i'w dysgu pa fodd i ddiangc rhag myned yno, a dygwych hwynt i fynu mewn sancteiddrwydd ac ofn Duw. Yr ydwyf yn galw arnoch, ac yn eich tynghedu, ar eich hadduned o ufudd-dod i Dduw, ac megis ag y bydd i chwi atteb, ar fyrder, yn y farn olaf am yr esgeulusdra o honi, na fyddo i chwi na gwrthod nac esgeuluso'r cyfryw ddyledswydd dra anhebgorol ac angenrheidiol. Ac os nad ydych etto yn ewyllysgar i'w chyflawni, a chwithau wedi cael gwybod fel hyn y fath ddyledswydd bwysfawr ydyw, yna yr ydych yn dangos eich hunain yn wrthryfelwyr cyhoedd yn erbyn Iesu Grist, ac nid deiliaid ffyddlon iddo. Ond os ydych yn ewyllysgar, ac heb wybod pa fodd, myfi a ychwanegaf ychydig gyfarwyddiadau byrrion i'ch cynnorthwyo. Arweiniwch hwynt, trwy eich siampl eich hunain, i'r ymarferiad o weddio, darllen, a dyledswyddau cerfyddol eraill; goleuwch en dealltwriaeth; arferwch hwynt i

drysori yn eu cof amryw bennodau, a phethau buddiol eraill, gan eu dysgu ar eu tafod leferydd; uniawnwch eu hewyllysiau; bywiogwch eu serchiadau; cedwch eu cydwybodau yn dyner; attaliwch a ffrwynwch eu tafodau, dysgwch iddynt eiriau grasusol, ac araith weddus; diwygiwch eu bucheddau; a byddwch wyliadwrus ar eu hymddiddanion a'u hymddygiad. Ac i'r dybenion hyn, ceisiwch iddynt *Fiblau*, a llyfrau duwiol eraill, a chymmerwch ofal am iddynt eu darllen. Holwch hwynt yn aml ynghylch yr hyn y maent yn ei ddarllen, neu yn ei ddysgu. Cadwch hwynt allan o gymdeithas ddrwg, a gwnewch hwynt yn adnabyddus â dynion moesol a duwiol. Ond, yn enwedig, cymmerwch ofal ar iddynt ddysgu eu *catechism*. Ac yn bennaf oll, dysgwch iddynt yr angenrheidrwydd, y rhagoroldeb, y budd, yr hyfrydwch mawr, o ofni, caru, a gwasanaethu Duw, ac ymdrechwch i argraphu'r holl bethau hyn ar eu calonnau.

# PENNOD X.

## NID YW GORPHWYSFA'R SAINT I'W DISGWYL AR Y DDAEAR.

§ 1. I'r diben o ddangos y pechod a'r ffolineb o ddisgwyl gorphwysfa yma, § 2. (I.) Yr ystyrir y rhesymmoldeb o'n cystuddiau pressenol; sef, o herwydd, § 3. (1) Mai trwyddynt y mae'r ffordd i'r orphwysfa. § 4. (2) Y maent yn ein cadw rhag camgymmeryd ein gorphwysfa; § 5. (3) Rhag colli ein ffordd iddi; § 6. (4) Yn prysuro ein camrau tuag yno. § 7. (5) Yn gyffredin nid ydynt (sef ein cystuddiau) ond aflonyddwch i'r cnawd; § 8, 9. (6) Ac o danynt y byddis yn aml yn mwynhau y blaen-flas mwyaf melus o'r orphwysfa. § 10. (II.) Pa mor afresymmol yw gorphwys yn y mwynhad o bethau presennol a gweledig; § 11. (1) Mai eilunaddoliaeth yw hynny; § 12. (2) Bod hynny yn gwrthwynebu diben Duw yn eu rhoddiad; § 13. (3) Hon yw y ffordd iddo eu naccau, eu galw'n ol, neu eu gwneuthur yn fwy chwerw. § 14. (4) Y felldith fwyaf yw gadael i ni gymmeryd i fynu ein gorphwysfa yn y byd. § 15. (5) Ymofyn gorphwysfa a fyddai hyn lle nad ydyw; § 16. (6) Y gwnai'r creadur, heb Dduw, ychwanegu ein trueni. § 17. (7) A hyn oll a gadarnheir drwy brofiad. § 18. Y mae'r awdwr yn cwyno, er hynny, mai pechod cyffredin ydyw. § 19–23. (III.) Ystyrir yn helaeth mor afresymol yw ein hanewyllysgarwch i farw a meddiannu'r orphwysfa honno. § 24. Y mae'r awdwr yn ymesgusodi ei hun am ddywedyd cymmaint ar y pen hwn.

§ 1. Yr ydym ni etto heb ddyfod i'n gorphwysfa. A ydyw hi etto yn aros yn ol? Pa mor fawr, gan hynny, yw ein pechod a'n ffolineb, yn chwilio am dani ac yn ei disgwyl yma? Pe le y gallwn gael y Cristion nad yw yn haeddu hyn o gerydd? Nyni a ewyllysiem, bawb oll, gael llwyddiant gwastadol, o herwydd fod hynny yn esmwyth ac yn hyfryd i gig a gwaed, ond nid ydym yn ystyried mor afresymol yw'r cyfryw ddymuniad. A phan yr ydym yn meddiannu tai, tiroedd, eiddo, meddiannau, ac helaethrwydd o bethau eraill, y rhai a drefnodd Duw tuag at ein lles ysprydol, yna yr ydym yn dueddol i geisio

gorphwysfa yn y mwynhad o'r pethau hyn. Pa un bynnag ai mewn hawddfyd neu adfyd yr ydym, y mae'n bur eglur ein bod yn ceisio gorphwysfa yn y creadur. Ac oni fyddwn ni yn trachwennychu pethau'r byd yn fwy pan fyddom yn ymddifaid o honynt, nac yr ydym yn hiraethu am y mwynhad o Dduw ei hun? Ac oni fyddwn yn ymorfoleddu yn fwy, yn y mwyniant o honynt, nac yn y mwynhad o Dduw? A phan fyddom yn cael ein difeddiannu o honynt, oni fydd hynny yn ein blino'n fwy nâ cholli ffafr Duw? Onid ydyw yn ddigon eu bod hwy yn gynnorthwyon cyssurol i ni ar ein taith tua'r nefoedd? ac a raid i ni hefyd, gyda hynny, eu gwneuthur hwy yn *nefoedd?* Ddarllenydd cristionogol, myfi a ewyllysiwn yn fawr wneuthur i ti gydnabod fod hyn yn gymmaint pechod ag un bai arall yn y byd, pe medrwn hefyd gael gennyt weled hynny, canys yn hyn o bwngc, y mae gan Dduw'r cwyn mwyaf yn ein herbyn. Ac i'r dyben hynny, yr ydwyf yn taer erfyn arnat ystyried, y rhesymolrwydd o gystuddiau presenol—yr afresymmoldeb o orphwys yn y mwynhad o bethau gweledig—ac hefyd ein hanewyllysgarwch i farw fel y caffom fwynhau yr orphwysfa dragywyddol.

§ 2. (I.) I ddangos rhesymoldeb cystuddiau presenol, ystyria—hwynt-hwy yw'r ffordd i'r orphwysfa; y maent yn ein cadw rhag camgymmeryd ein gorphwysfa, a rhag colli ein ffordd iddi; y maent yn prysuro ein camrau tuag ati; y maent, yn fwyaf, yn aflonyddu ein cnawd; a thanynt y mae plant Duw fynychaf yn cael y blaen-brawf melusaf o'r orphwysfa.

§ 3. (1) Ystyria, mai poen a llafur yw'r ffordd fwyaf cyffredin i gael gorphwysfa, mewn ystyr naturiol ac ysprydol. A ydyw'n bosibl cael gorphwysdra heb flinder? Ac oni fyddwch chwi yn gweithio ac yn llafurio'n gyntaf, ac yna yn gorphwyso? Y dydd sydd yn gyntaf at waith, ac wedi hynny y mae'r nos yn canlyn at orphwyso. Paham yr ewyllysiem i ffordd gras gael ei chyfnewid yn fwy

na ffordd natur? Y mae hyn yn benderfyniad sefydlog; sef, *mai trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid i ni fyned i deyrnas Dduw.* Act. 14 : 22. *Ac os dioddefwn gyda Christ, ni a deyrnaswn hefyd gydag ef.* 2 Tim. 2 : 12. A phwy ydym ni fel y byddai i Dduw alw'n ol yr hyn a ordeiniodd yn drefn sefydledig, a hynny er ein mwyn ni yn unig?

§ 4. (2) Mae cystuddiau yn dra buddiol er ein lles i'n rhwystro rhag camgymmeryd ein gorphwysfa. Y mae gogwyddiad y Cristion tua'r nefoedd o'i wirfodd, ac nid yn erbyn ei ewyllys: a'r moddion mwyaf llesol yw y rhai sydd yn ychwanegu ei wybodaeth a'i ewyllys. Y camgymmeriad mwyaf peryglus i'n heneidiau ydyw, cymmeryd y creadur yn lle Duw, a'r ddaear yn lle'r nefoedd. Pa fath feddyliau brwdfrydus, hygar, serchog, awyddus, a hyfryd, sydd genym am y byd yn gyffredin, hyd oni byddo cystuddiau yn eu hoeri ac yn eu harafu! Cystuddiau, a fyddant yn llafaru yn effeithiol, a fynnant eu gwrando, pan na wrandewir ar bregethwyr. Llawer Cristion tlawd sydd weithiau yn troi ei feddyliau at olud, neu i foddio'r cnawd, neu i gael canmoliaeth, ac felly yn colli ei gariad at Grist, a'i flas at y llawenydd sydd uchod, hyd onis gwnel Duw dorri ar draws ei gyfoeth, neu ei ddifeddiannu o'i blant, neu weithio ar ei gydwybod, neu gymmeryd ymaith ei iechyd, ac felly torri i lawr y *mynydd* a farnai ef *mor gryf.* Ac yna, pan fyddo yn rhwym ynghadwyni Manasse, (2 Cron. 33 : 11,) neu yn gorwedd ar ei wely, mewn trwm glefyd, efe a dderfydd â'r byd, a phob peth dan haul a ymddengys yn ddiddim, ac efe a wêl y nefoedd yn ddymunol. Ac oni byddai i'n hanwyl Arglwydd roddi'r *drain* hyn dan ein *pennau*, nyni a *gysgem* ein holl fywyd, ac a gollem y gogoniant.

§ 5. (3) Cystuddiau ydynt hefyd y moddion mwyaf effeithiol yn llaw Duw i'n cadw rhag colli'r ffordd tua'r orphwysfa. Ac heb y clawdd drain yma ar eiu llaw ddehau ac ar yr aswy, ni fedrem ni, yn iawn, gadw'r ffordd tua'r

nefoedd. Os bydd onid un adwy yn agored, pa mor chwannog yr ydym i'w chanfod ac i droi allan o'r ffordd! Pan y chwennychom ymdrythyllu, neu fod yn fydol, neu yn falch, pa fodd y bydd clefyd, neu ryw gystudd arall, yn ein darostwng? Gall pob Cristion, megis *Luther* gynt, ddywedyd am gystudd, mai'r *ysgolfeistr* goreu ydyw; ac hefyd, gyfaddef gyda Dafydd, *Cyn fy nghystuddio, yr oeddwn yn cyfeiliorni; ond yn awr cedwais dy air di.* Salm 119 : 67. Llawer mil o bechaduriaid dychweledig a allant waeddi allan, "O! glefyd daionus! O! ofidiau cyssurus! O! golledion buddiol! O! dlodi cyfoethog! O! ddydd bendigedig, yn yr hwn y cefais fy nghystuddio! Y mae, nid yn unig y *porfeydd gleision a'r dyfroedd araf*, ond y '*wialen* a'i *ffon* hefyd yn *ein cyssuro.*'" Er mai'r *Gair* a'r *Yspryd* sydd yn gwneuthur y gwaith, etto y mae *cystuddiau* yn agor drws y galon yn y cyfryw fodd fel ag y mae'r gair yn cael rhwyddach ffordd i fyned i mewn.

§ 6. (4) Cystuddiau ydynt hefyd yn pryssuro ein cerddediad yn y ffordd i'r orphwysfa. Da fyddai pe b'ai cariad yn unig yn ein cymmell, a phe cymmerem ein *denu* tua'r nefoedd yn hytrach na'n *gyrru* tuag yno. Ond gan weled fod ein calonnau mor ddrwg, fel nad ydyw trugaredd ddim yn menu nac yn effeithio arnom, gwell i ni gael ein gyrru ymlaen â ffrewyllau nac oedi, megis y morwynion ffol, hyd oni chauir y drws. O! y fath ragoriaeth mawr sydd rhwng ein gweddiau mewn iechyd ac mewn clefyd, rhwng ein hedifeirwch mewn hawddfyd ac mewn adfyd! Och! oni b'ai ein bod ni weithiau yn cael teimlo'r swmbwl, neu'r yspardun, pa mor araf-dêg yr ymlwybrai'r rhan fwyaf o honom tua'r nefoedd. A chan fod ein natur lygredig yn gofyn hynny, paham y gorafunnem i Dduw wneuthur i ni ddaioni trwy foddion chwerwon? Bydded i ti feddwl a barnu ynot dy hun, O Gristion, ond fyddi yn myned ymlaen yn fwy cyflym, ac yn fwy gwyliadwrus, tua'r nefoedd, dan gystuddiau, na phan y byddi mewn cyflwr mwy esmywth a llwyddiannus yn y byd?

§ 7. Ystyria ymhellach, mai'r cnawd yn unig sydd yn cael ei flino a'i aflonyddu fwyaf dan gystuddiau. Yn y rhan fwyaf o'n cystuddiau a'n dioddefiadau mae yr enaid yn rhydd, oni fyddwn ni ein hunain yn ei boenidio o'n gwirfodd. Paham gan hynny, O fy enaid, yr ydwyt yn cymmeryd plaid y cnawd, ac yn cwyno fel ag y bydd yntau yn cwyno? Dy waith a ddylai fod yn ei ddarostwng a'i gadw danodd. Ac os Duw a wna hynny yn dy le, paham, gan hynny, nad ellai ei groesi a'i anfoddloni ychwanegu dy lawenydd? A ydyw yn beth gwaharddiedig i Paul a Silas ganu mawl i Dduw o herwydd fod eu traed yn y cyffion? Nid oedd eu hysbrydoedd yn rhwym yn y carchar. "Ah! enaid gwael, anniolchgar! ai hyn yw'r daledigaeth yr ydwyt yn ei rhoddi i Dduw am dy ddyrchafu a'th ddewis o flaen y corph? Canys pan fydd y corph yn pydru yn y bedd, tydi a fyddi yn gyfaill i ysprydion perffaith y rhai cyfiawn: ac yn y cyfamser, onid oes gennyt ddiddanwch na wyr y cnawd oddiwrtho? Na rwgnacha gan hynny, ac na fydd anfoddlawn i ymddygiad Duw tuag at dy gorph, canys pe buasai hyn o eisiau cariad tuag attat, ni fuasai yn ymddwyn yn yr un modd tuag at ei seintiau. Na fydded i ti ddisgwyl i'r cnawd gydnabod ac iawn esponio ystyr y *wialen.* Canys y cnawd a fydd yn dueddol i gamenwi pob peth, ac i alw *cariad* yn *gasineb*, a dywedyd fod Duw yn *dinystrio* pan y mae yn achub. Nid cymmwys i'r hwn sydd i dderbyn y gosp fod yn farnwr." Pe gallem ni unwaith gredu yn iawn yn Nuw, a barnu ynghylch ei ymweliadau â ni, yn ol ei air, ac yn ol buddioldeb y cystudd i'n heneidiau, heb golli golwg ychwaith ar yr orphwysfa, a phe medrem gau ein clustiau rhag holl achwynion y cnawd, yna y byddai gennym unionach barn am ein cystuddiau.

§ 8. (6) Unwaith yn ychwaneg, bydded i ti ystyried, mai anfynych y bydd Duw yn rhoddi i'w bobl y cyfryw flaen-brawf o'u gorphwysfa i ddyfod ag a fyddant yn ei gael yn eu blin gystuddiau. Efe a fydd yn cadw y gwin

goreu, eli'r galon (*cordial,*) erbyn yr amser y byddom mewn llewyg, neu lesmair, neu yn y perygl mwyaf. Efe a rydd y cyssuron hyn i'w bobl pan welo efe y byddant yn angenrheidiol, pan y byddant debyccaf o gael eu gwerthfawrogi, pan y bydd efe yn sicr o dderbyn diolchgarwch am danynt, a phan y bydd ei bobl yn fwyaf tebygol o lawenhau o'u herwydd. Yn enwedig, pan ddioddefom fwyaf dros ei achos, anaml y naccâ felysu y gwpan chwerw â gwin ei gariad. Y merthyron a dderbyniasant y cyssuron mwyaf, ac a gawsant fwynhau'r gorfoledd mwyaf. Pa bryd y traethodd Crist y cyfryw gyssuron i'w ddisgyblion, a phan yr oedd eu calonnau wedi tristâu o achos ei ymadawiad? Pa bryd yr ymddangosodd efe yn eu mysg, ac y dywedodd, "*Tangnefedd i chwi,*" ond pan yr oeddent wedi cau arnynt rhag ofn yr Iuddewon? Pa bryd y gwelodd Stephan y nefoedd yn agored, ond pan yr oedd efe yn rhoddi i fynu yr yspryd er tystiolaeth o'r Iesu? Onid hwnnw yw ein cyflwr mwyaf dedwydd, pan y byddom yn cael y mwynhad mwyaf o Dduw? I ba ddiben arall yr ydym yn ewyllysio cael dyfod i'r nefoedd? Os ydym yn edrych am nefoedd o ddifyrrwch cnawdol, nyni a gawn ein siommi. Gallwn benderfynu, gan hyny, nad yw cystuddiau cyn waethed, ag y mae llawer yn barod i feddwl, i'r saint ar eu ffordd tua'r orphwysfa. A ydym ni yn ddoethach nâ Duw? Oni wyr efe beth a fydd oreu er ein lles cystal neu well na ni ein hunain? ac onid ydyw mor ofalus am danom, ac i wneuthur i ni ddaioni, ag ydym ni ein hunain? Gwae fuasai i ni, pe buasai ef heb fod yn llawer mwy gofalus na ni; a phe na buasai iddo ef ein caru ni lawer mwy nac yr ydym ni yn ei garu ef na ni ein hunain!

§ 9. (7) Na ddywedwch, "gallaswn ddioddef unrhyw ymweliad ond hwn." Pe buasai Duw yn dy gystuddio yn y peth y buasit yn hawdd yn medru ei ddioddef, ni fuasai dy eilun yn cael ei symmud ymaith, na'r pechod mynwesol hwnnw yn cael ei ddynoethi. Na ddywed ychwaith,

"Pe gwelai Duw yn dda fy ngwared allan o hono, myfi a fyddwn foddlon i'w ddwyn." Ai bychan gennyt bod yr Arglwydd wedi dywedyd y byddai i hyn gyd-weithio er daioni i ti, ac onid ydyw'n ddigon gennyt y bydd i ti gael dy wared yn angeu? Na ddywed ychwaith, "Myfi a fuaswn yn medru dioddef, oni b'ai bod y cystudd hwn yn rhwystr ar fy ffordd i gyflawni fy nyledswyddau;" canys nid ydyw yn dy luddias rhag cyflawni'r ddyledswydd fwyaf buddiol er dy les; ac nid hynny yn unig, ond y mae hefyd y cymmorth mwyaf adfywiol a elli ddisgwyl. Ac ynghylch dy ddyledswydd i eraill, nid ydyw hynny mwyach yn ddyledswydd, pan y mae Duw yn gweled yn dda dy wneyd yn analluog i'w chyflawni. Fe allai y dywedi, "Y duwiolion ydynt yr achos o'm cystudd; pe'r annuwiolion a fuasent yn fy mlino, gallaswn yn hawdd ei ddwyn." Pwy bynnag ydyw'r offeryn, y cystudd sydd oddiwrth Dduw, a thydi dy hun yw'r achos haeddiannol; ac onid ydyw'n well disgwyl mwy wrth Dduw na meddwl am danat dy hun? Oni wyddit fod y dynion goreu etto, mewn rhan, yn bechadurus, neu yn ddarostyngedig i wendidau? Na fydded i ti ddadleu, a dywedyd, "Pe gallaswn gael y cyssur hwnnw, yr hwn y mae Duw (meddych chwi) yn ei gadw erbyn amser cystudd, myfi a fuaswn yn fwy boddlonus i ddioddef; ond nid ydwyf yn cael dim o'r fath ddiddanwch." Pa fwyaf a ddioddefoch yn achos cyfiawnder, mwyaf oll a ellwch ddisgwyl gael o'r bendithion hyn; a pha fwyaf a fyddoch yn ei ddioddef o achos eich drygioni, hwyaf oll y byddwch heb dderbyn y cyssur hwnnw. Ac onid ydyw'r cyssuron yr ydych yn eu chwennych, yn cael eu hesgeuluso neu eu gwrthwynebu? A ydyw eich cystuddiau wedi effeithio arnoch yn y cyfryw fodd, fel ag y maent wedi eich haddasu i dderbyn cyssur? Nid *dioddef* cystudd yn unig sydd yn eich haddasu i dderbyn cyssur, ond llwyddiant neu ffrwyth y cystudd ar eich calon?

§ 10. (II.) Ond i'r dyben o ddangos yr afresymmoldeb

o orphwys yn y mwynhad o bethau presennol, bydded i chwi ystyried bod hynny yn eilun-addoliaeth; ac y mae hyn hefyd yn gwrthwynebu dyben Duw yn eu rhoddi. Dyma'r ffordd hefyd iddynt gael eu hattal, eu cymmeryd oddiwrthym, neu gael eu chwerwi; canniattâd i gymmeryd i fynu ein gorphwysfa yma, yw'r felldith fwyaf; ceisio gorphwysfa a fyddai hynny lle nad ydyw i'w chael; y creaduriaid, heb Dduw, a ychwanegant ein blinfyd; ac i brofi hyn oll, nyni a allwn gofio ein profiad ein hunain, a phrofiad rhai eraill hefyd.

§ 11. (1) Eilun-addoliaeth o'r fath waethaf yw gwneuthur unrhyw greadur, neu ryw foddion, yn orphwysfa i ni. Hawl (*prerogative*) neillduol Duw yn unig yw bod yn orphwysfa i'r enaid. Megis y mae gosod ein gorphwysfa mewn golud ac anrhydedd yn eilun-addoliaeth amlwg, felly nid ydyw cymmeryd i fynu ein gorphwysfa mewn moddion gras tra rhagorol ond megis eilun-addoliaeth manylach neu gywreiniach. Mor anniolchgar y bydd i'r Arglwydd gymmeryd y fath ymddygiad oddiar ein llaw, pan y bydd iddo achos i achwyn yn ein herbyn, megis y gwnaeth yn erbyn y cyffelyb addolwyr gynt, gan ddywedyd fel hyn: "*Fy mhobl a fu fel praidd colledig; anghofiasant eu gorweddfa*," neu eu *gorphwysfa*. Jer. 1: 6. A pha mor alarus yw meddwl y bydd i'r Arglwydd achos i gwyno yn ein herbyn, a dywedyd fel hyn: "Fy mhobl a fedrant gael gorphwysfa ymhob peth yn hytrach nac ynof fi. Hwy a fedrant gael hyfrydwch yn fy nghreaduriaid, ac yn fy ordinhadau, ond nid ynof fi. Ië, maent yn ceisio gorphwysfa yn eu llafur-waith a'u dyledswyddau, ond nid ynof fi. Hwy a ddewisent fod yn rhywle, neu gyda rhyw beth arall, yn well na bod gyda mi. Ai y rhai hyn yw eu duwiau? Ai y rhai hyn a'u gwaredodd hwy? A fydd y rhai hyn yn well, neu yn ffyddlonach tuag attynt, nac a fum, neu a fyddwn i iddynt?" Pe byddai gennych wraig, neu wr, neu fab, y rhai a ddewisent fod yn rhywle arall yn well na bod yn eich cwmniaeth chwi, a'u bod yn

fwy llawen pan y byddont ymhell oddiwrthych, oni chymmerech chwi y fath ymddygiad yn angharedig iawn? Felly, yn ddiammeu, y derbyn Duw y cyfryw anniolchgarwch cywilyddus ar ein llaw ninnau!

§ 12. (2) Yr ydych yn gwrthwynebu dyben Duw yn rhoddi i chwi y mwynhad o'r pethau hyn. Efe a'u rhoddodd hwynt i chwi i'ch cymmorth ymlaen ar eich ffordd tuag atto ef? Efe a'u rhoddodd hwynt i fod yn gyssur ac yn ddiddanwch i chwi, ar eich taith, ac a ewyllysiech chwi aros a byw mewn rhyw letty, neu *dafarn*, ar y ffordd heb fyned ddim pellach? Gellir dywedyd am ein holl gyssuron a'n holl ordinhadau, megis y dywedir am yr Israeliaid, "*Ac arch cyfammod yr Arglwydd oedd yn myned o'u blaen hwynt i chwilio am orphwysfa iddynt.*" Num. 10: 33. Felly, yr un modd, y mae holl drugareddau yr Arglwydd yma. Nid hwynt hwy ydynt yr orphwysfa; megis yr addefodd *Ioan*, nad *efe* oedd y *Crist;* ond *llef rhai yn llefain yn niffeithwch* y byd ydynt hwythau, ac yn gorchymyn i ni barottoi'r ffordd, canys *teyrnas ein Duw ni*, sef y wir orphwysfa, sydd yn agos. Gan hynny, ceisio gorphwysfa yma a fyddai ceisio gwyrdroi bendithion yn wrthwynebol i'w dybenion, a chroesi ein lles a'n daioni ein hunain, a dinystrio ein hunain â'r pethau a ddylent fod er ein lles a'n cymmorth.

§ 13. (3) Dyma'r ffordd a fydd yn debyg o fod yn achos i Dduw, naill ai i naccau'r trugareddau yr ydym yn eu gofyn, neu i gymeryd ymaith y bendithion yr ydym yn eu mwynhau; neu, o'r hyn lleiaf, eu gwneuthur yn chwerw i ni. Nid ydyw Duw mor eiddigus mewn dim arall ag ydyw yn hyn. Pe byddai gennych was, yr hwn a gerid gan eich gwraig yn fwy nâ chwi, oni feddyliech hynny yn ddrwg ac yn fai mawr ynddi, ac oni throech y cyfryw was allan o'ch tŷ? Felly, os bydd Duw yn eich gweled yn dechreu ymsefydlu yn y byd, ac yn dywedyd, "*Yma y gorphwysaf;*" nid rhyfedd os bydd iddo, yn ei ddigofaint, yn fuan eich ansefydlu. Os ydyw efe yn eich caru, nid

rhyfedd os difeddianna efe chwi o'r pethau hynny, y rhai y mae yn eu rhagweled a fyddant er dinystr i chwi? Yr ydwyf wedi sylwi ar lawer, a hynny yn fynych, ac er's amryw flynyddoedd, pan fyddent yn barod i gymmeryd mewn llaw ryw weithydd mawrion, a phan fyddent, efallai, yn agos i'w gorphen: neu yn ymgais at bethau mawrion, neu ddyrchafiad yn y byd, ac newydd eu cael; neu wedi bod yn byw yn hir mewn helbul a thrafferth, ac yn agos a dyfod allan o honynt, ac yn dechreu edrych ar eu sefyllfa gyda boddlonrwydd, ac yn meddwl cael *gorphwysfa*, eu bod y pryd hynny yn agos i angau neu ddinystr. Pan y byddo dyn unwaith yn dechreu myned i yspryd y geiriau, "Enaid *gorphwys weithian*," y newydd cyntaf a fyddis yn debyg o glywed ar ol hynny fydd, "*O ynfyd, y nos hon*, neu'r *mis hwn*, neu'r *flwyddyn hon*, y gofynir dy enaid oddiwrthyt, ac yna eiddo pwy fydd y pethau a barottoaist?" Luc, 12 : 20. Pa dŷ lle nad ydyw'r cyfryw ynfyd yn aros? Gadewch i *ni*, sef chwi a minnau, ymholi rhag mai hyn yw ein cyflwr. Llawer gwas i Dduw a gymmerwyd ymaith oddiar y ddaear, o herwydd ei fod yn cael ei garu, ei barchu, a'i anrhydeddu yn ormodol. Y mae yn ddilys gennyf nad ydyw ein hanfoddlonrwydd a'n grwgnachrwydd, yn cyffroi digofaint Duw cyn gymmaint, ac nad ydynt ychwaith mor ddinystriol i'r pechadur, ag ydyw ein mawr hoffder a'n melus-fwynhad o bethau gweledig, ac ymorphwys yn y cyfryw fwyniant daearol. Os ydyw Duw yn eich croesi yn eich gwraig, eich plant, eich meddiannau, a'ch cyfeillion, naill ai trwy eu cymmeryd hwy ymaith neu'r *cyssur* o honynt, edrychwch rhag mai hyn yw yr achos; canys pa le bynnag y mae eich dymuniadau yn ymorphwys, a chwithau yn dechreu dywedyd, "*Yn awr yr ydwyf yn foddlon, neu yn happus, neu yn dda fy lle*," yr ydych yn gwneuthur y cyfryw sefyllfa yn *dduw* i chwi, ac felly yn ennyn eiddigedd a digofaint Duw yn erbyn y peth hwnnw. Pa un bynnag a ydych yn ofni ac yn caru Duw ai nid ydych, ni ellwch

ddisgwyl i Dduw adael i chwi gael hir, hyfryd, a heddychol fwyniant o'ch eilunod yma yn y byd.

§ 14. (4) Pe caniattëai Duw i chwi gymmeryd eich gorphwysfa yma, hynny a fyddai yn un o'r melldithion mwyaf a allai ddigwydd i chwi. Gwell a fyddai i ni fod heb un diwrnod o esmwythdra yn y byd, canys blinder a wnai i ni geisio'r wir orphwysfa. Ond os caniateir i chwi eistedd i lawr a gorphwyso yma, y mae'n bur debygol mai creadur heb orphwysfa a fyddwch i bob tragywyddoldeb. Gadael iddynt gael eu rhan yn y bywyd yma, yw'r hyn y mae'r Arglwydd yn ei roddi yn ei sorriant i'r pechaduriaid mwyaf cyndyn. Ai gweddus i Gristionogion ddisgwyl gwynfyd yma yn y byd? Ein gorphwysfa sydd yn y nefoedd; a pha le bynnag y byddwn yn cymmeryd ein gorphwysfa, yno hefyd y byddwn yn gwneuthur ein nefoedd. Ai'r cyfryw nefoedd ag sydd yma yn y byd, a dim gwell, a ewyllysiech chwi gael?

§ 15. (5) Ceisio gorphwysfa yw hyn lle nid ydyw i'w chael: ïe, llafurio'n ofer ydyw; ac os parhau a wnewch i wneuthur hyn, chwi a gollwch dragywyddol orphwysfa i'ch enaid hefyd. Ein gorphwysfa ni sydd yn sefyll yn unig yn y cyflawn fwynhad o ddiwedd ein gobaith; ond hynny nis gellir ei ddisgwyl yn y byd hwn; ac nid yw yr orphwysfa ychwaith i'w disgwyl yma. A ellir mwynhau Duw yn yr eglwys neu y gymmanfa oreu yma megys yn y nefoedd? Pa cyn lleied o Dduw y mae'r seintiau yn ei fwynhau yma, dan y moddion goreu, gadewch i'w hachwyniadau eu hunain dystiolaethu? Diddanwyr gwael ydyw'r ordinhadau goreu heb Dduw. A ydyw yn iawn i wr ar ei daith gymmeryd i fynu ei orphwysfa, neu ei drigfan ar y ffordd? Nac ydyw'n ddiammeu, o herwydd mai ei gartref yw pen ei daith. Pan yr ydych yn cael cymmaint a all creaduiaid a moddion ei roddi, a fyddwch chwi yn mwynhau yr hyn yr oeddech yn ei gredu, yn gweddio am dano, ac yn dioddef o'i achos? Meddyliwyf na feiddiwch ddywedyd hyn. Yr ydym yn gyffelyb i

blantos wedi crwydro oddicartref, ac y mae Duw yrwan yn ein dwyn adref, ac yr ydym ninnau yn barod i droi i bob tu, i ymdroi a chwareu gyda phob peth a welom ar y ffordd, ac i eistedd i lawr ar bob bryn glas, a llawer o helynt sydd i'n cael ni adref. Hefyd, yr ydym ynghanol ein llafur a pheryglon; ac a oes unrhyw orphwysfa yma? Y fath waith poenusfawr sydd yn gorwedd ar ein dwylaw? —i'n brodyr, i'n heneidiau, ac i'n Duw; a'r fath waith pwysig, gyda golwg ar bob un o'r rhai hyn, sydd yn aros o'n blaenau? Ac a allwn ni orphwyso ynghanol ein holl lafur? Yn wir, gallwn gael y fath orphwysdra ar y ddaear ag a gafodd yr Arch pan y dywedir iddi "orphwws yn nghanol yr Iorddonen,"—gorphwysdra byr a thros ychydig; neu fel y dymunai Abraham "i'r angelion droi i mewn a chymmeryd gorphwysdra," lle y buasai yn anhawdd ganddynt gymmeryd i fynu eu preswylfod. A fuasai Israel yn sefydlu eu gorphwysfa yn yr anialwch, yn yn mhlith seirph a gelynion, blinder a newyn? Ai iawn fuasai i Noah wneyd yr arch yn gartref, a bod yn anewyllysgar i ddyfod allan wedi i ddyfroedd y dylif dreio? A ddewisai y morwr wneuthur ei drigfa ar y môr, a chymmeryd ei orphwysfa yn nghanol creigydd, a thraethau, a thymhestloedd terfysglyd? A orphwysai y sawdiwr yn nghanol ei elynion? Ac onid y cyfryw bererinion, y cyfryw forwyr, y cyfryw filwyr, yw Cristionogion? Onid oes i chwi ofnau oddifewn, ac adfyd, helbulon, croesau, a blinderau oddiallan? Onid ydym ni mewn peryglon yn wastadol? Nis gallwn na bwyta, nac yfed, na chysgu, na gweithio, na gweddio, na gwrando, nac ymddiddan, ond yn nghanol hoenynnau a maglau; ac a gawn ni eistedd i lawr a gorphwys yma? O Gristion, canlyn ar dy waith, gwylia rhag y peryglon yr wyt ynddynt, a dilyn ymlaen hyd y diwedd: ennill y maes a thyred oddiyma, cyn i ti feddwl am orphwysfa barhaus? Pa bryd bynnag y byddi yn son am orphwysfa ar y ddaear, yr ydwyt, yn gyffelyb i Pedr ar y mynydd, heb wybod beth yr ydwyt yn ei

ddywedyd. Pe buasai Crist yn dywedyd wrth y lleidr edifeiriol, "Tydi a gei orphwysfa yma ar y groes gyda mi," yn lle dywedyd wrtho, "Heddyw y byddi gyda mi yn Mharadwys," oni fuasai yn meddwl mai cellwair yr oedd? Myfi a feddyliwn mai blin a gwael fyddai gorphwyso yn nghanol clefydau a gofidiau, erlidigaethau ac anghenion. Ac os na wna dim arall ein hargyhoeddi o'r fath ynfydrwydd, yn ddiau y mae gweddillion y pechodau hynny, y rhai sydd barod i'n hamgylchu, yn ddigon i foddloni pob gwir gredadyn nad yma y mae ei orphwysfa. Yr ydwyf yn dywedyd, gan hynny, wrth bob un ag sydd yn meddwl am orphwysfa yma ar y ddaear, "*Codwch, ac ewch ymaith, canys nid dyma eich gorphwysfa.*" Mica, 2 : 10. Nid yw yn naturiaeth y pethau hyn i Gristion gael gorphwysfa ynddynt. Y maent yn rhy dlodion i'n cyfoethogi; yn rhy *isel* i'n *dyrchafu* i happusrwydd ac anrhydedd; yn rhy *weigion* i *ddiwallu* ein heneidiau; ac yn rhy ddarfodedig i fod yn foddlonrwydd neu yn orphwysfa dragywyddol i ni. Os ydyw llwyddiant, a pha bethau bynnag a ddymunem yma, yn rhy ddirmygedig i wneyd duwiau o honynt, y maent yn rhy ddirmygedig i fod yn orphwysfa i ni. Y mae'n angenrheidiol i orphwysfa'r enaid fod yn ddigonol i gyfrannu boddlonrwydd parhaus. Ond y mae y diddanwch y mae creaduriaid yn ei roddi yn heneiddio, yn pylu, ac yn darfod, wedi cael ychydig fwyniant o hono. Pe gwelai Duw yn dda wlawio arnom ymborth angelion, nyni a fyddem, yn fuan iawn, yn barod i laru ar y manna nefol. Os na chawn ryw newydd-beth, a hynny yn fynych, i'n diddanu, nyni a fyddwn yn bur dueddol o ddiflasu yn fuan iawn ar ryw ddiddanwch, neu ddifyrrwch bydol a chnawdol. Y mae yr holl greaduriaid i ni yn debyg ag yw y blodau i'r wenhynen; nid oes ond ychydig fêl ar yr un o honynt, ac felly nyni a fyddwn yn sippian ychydig ar bob un, ac yn ehedeg at un arall. A pha mwyaf yr adnabyddom y creadur, lleiaf oll o gyssur fydd i'w gael oddiwrtho. A'r

rhai hynny a fyddant yn ei garu fwyaf, nid ydynt yn gweled ond ei harddwch allanol, ac heb ganfod ei wagedd a'i wrthuni tufewnol. Wedi i ni ddyfod i adnabod yn hollol gyflwr pobl eraill, ac wedi i ni ganfod y *drwg* yn gystal a'r *da*, a'u diffygion yn gystal a'u rhinweddau, nyni a fyddwn, wedi hynny, yn darfod synnu a rhyfeddu.

§ 16. (6) Meddiannu creaduriaid a moddion heb Dduw, sydd yn ychwannegiad ar ein trallod a'n trueni. Pe dywedai Duw wrthym, "Cymmerwch fy nghreaduriaid, fy ngair, fy ngweision, fy ordinhadau, hebof fi," a farnech chwi hynny yn happusrwydd? Pe byddai gennych *air Duw*, ond nid *y Gair* yr hwn sydd *Dduw*, neu *fara*'r Arglwydd, ond nid yr *Arglwydd* yr hwn yw'r *gwir Fara;* neu yn gallu gwaeddi, gyda'r Iuddewon, "Teml yr Arglwydd," ac etto heb *gael Arglwydd y deml;* yn ddiau, happusrwydd gwael fyddai hyn oll. Pa un ai happusach ai mwy truenus a fu trigolion Capernaum, o gael gweled y gweithredoedd nerthol y rhai a welsant, a chlywed geiriau Crist y rhai a glywsant? Yn ddiau yr hyn sydd yn ychwannegu ein pechod a'n trueni, nis gall fod yn orphwysfa i ni.

§ 17. (7) I gadarnhau hyn oll, gadewch i ni edrych ar ein profiad ein hunain a phrofiad eraill. Y mae myrddiynau wedi gwneyd ymgais, ond a *gafodd* un dyn erioed orphwysfa ddigonol i'w enaid ar y ddaear? Nid wyf yn gwadu na chawsant ryw *fath o fwyniant*, ond, yn ddiau, ni chawsant na *boddlonrwydd na gorphwysfa.* Ac a allwn ni ddisgwyl cael yr hyn ni chafodd yr un dyn erioed o'n blaen? Nid oedd ei deyrnas yn ymddangos o ddim gwerth yn ngolwg Ahab heb gael gwinllan Naboth, ac a foddlonodd hono ef wedi iddo ei chael? Ped edrychech ar hyd yr holl ddaear am orphwysfa, megis colommen Noah, chwi a ddychwelech yn ol, gan gyfaddef na allech ei chael. Dos, gofyn i Anrhydedd, A oes gorphwysfa yma? Yr un peth a fyddai i ti geisio gorphwysfa yn mhenau'r mynyddoedd mwyaf tymhestlog, neu yn fflammau tanllyd mynydd

Ætna. Gofynwch i Olud, A oes gorphwysfa yma? Attebai, "Cyffelyb i'r hyn a gaech ar wely o ddrain." Os gofynnwch am orphwysfa i Bleserau'r Byd, dywedant, mai yr un peth yw ag a gâ y pysgodyn pan yn llyngcu'r bach. Pan y mae'r pleser felusaf y mae angeu agosaf. Ewch at Ddysgeidiaeth, ïe, ac hyd yn nod at yr ordinhadau sanctaidd, a gofynwch, A ddichon eich heneidiau gael gorphwysfa ynddynt? Chwi a allech, yn wir, dderbyn oddiwrthynt gangen olewydden fel arwydd *gobaith*, ac fel y maent yn foddion tuag at gael yr orphwysfa, ac fel y maent yn perthynu i dragywyddoldeb; ond am ddim boddlonrwydd neu happusrwydd, ag sydd ynddynt, wrthynt eu hunain, chwi a fyddech mor anfoddlon ac anesmwyth ag o'r blaen. Pa mor union y gallai y rhai hyn oll ein hatteb, megis ag yr attebodd Jacob Rahel: "*A ydym ni yn lle Duw, fel y delech attom ni i gael gorphwysfa?* Gen. 30 : 2. Nis gall goruchafiaeth holl fawrion y byd, na llysoedd brenhinoedd, na phalasau'r holl wledydd, na threfydd, na dinasoedd, na masnachdai, na maesydd, trysorau, llyfr-gelloedd, bywyd unigol, neu ymysg pobl, darllen, myfyrio, a phregethu, nac un peth arall dan haul, roddi i ni'r fath beth a'r gyfryw orphwysfa. Pe gofynech i'r meirw dros yr holl genedlaethau, neu i'r rhai byw trwy holl deyrnasoedd y byd, hwy a ddywedent oll, "Nid oes yma orphwysfa." Neu os na foddlonwch ar brawf eraill, cymmerwch eich prawf eich hun. A ydych *chwi* yn cofio rhyw sefyllfa a roddodd i chwi gyflawn foddlonrwydd? Neu, os cawsoch ryw ychydig gyssur, a fu hynny o hir barhad? Yr ydwyf yn credu y gallwn oll ddywedyd am ein gorphwysfa ddaearol, megis y mae St. Paul yn dywedyd am ein gobaith, *Pe yn y byd hwn yn unig y byddai gennym obaith, truenusaf o'r holl ddynion a fyddem.*

§ 18. Os ydym, gan hynny, yn credu'r ysgrythyrau, neu reswm; neu os ydym yn coelio ein profiad ein hunain a'r holl fyd, nyni a allwn weled nad oes i ni, yma, yr un orphwysfa. Etto, pa mor aml y mae y rhàn fwyaf o honom

yn euog o'r pechod hwn, sef ceisio gorphwysfa yn y byd a'i bethau! Pa sawl gwaith y byddwn yn sefyll ac yn cloffi rhwng dau feddwl, cyn gwneuthur o honom yr Arglwydd yn orphwysfa i ni! Ymha fath fodd y gorfydd i'r Arglwydd ein gyrru, a'n llosgi allan, o bob lle, o bob cyflwr, rhag eistedd o honom i lawr, a gorphwys yno! Pan fyddo'r Arglwydd yn rhoddi i ni lwyddiant, neu gyfoeth, neu anrhydedd, nyni a fyddwn yn barod yn ein calonnau i ddawnsio o'u blaen, megis yr Israeliaid o flaen y llô aur, a dywedyd, *Da yw i ni fod yma.* Os bydd iddo chwerwi yr holl bethau hyn i ni, mór aflonydd ydym nes y melusir ein cyflwr, fel y caffom eistedd eilwaith, a gorphwys lle yr oeddym! Neu, os digwydd i'r Arglwydd fyned ymlaen i'n gwellhau o'r afiechyd hwn, ac felly gymmeryd ymaith y creadur oddiwrthym, fel y byddwn yn ymboeni, yn ymofidio, yn cwyno, yn gweddio, gan ddeisyfu arno adferu i ni ein *heilun* drachefn, fel y gorphwysom ynddo! A thra yr ydym wedi cael ein difeddiannu o'n heilun gynt, etto, yn hytrach na dychwelyd at Dduw, ni a fyddwn yn ymyfrydu yn y *gobaith* o'i ail-feddianu, ac yn gwneuthur y gobaith hwnw'n orphwysfa, neu byddwn yn chwilio o amgylch o greadur i greadur, fel y canfyddom rywbeth i lenwi ei le; ïe, ac os digwydd i ni fethu a chael un tegan arall yn ei le, etto gwell gennym drigo yn y cyfryw gyflwr truenus, a gwneuthur rhyw fath o orphwysfa felly, yn hytrach na gadael y cwbl oll a dychwelyd at Dduw. Oh! ein gwrthwynebrwydd melldigedig i garu Duw, i ymostwng iddo, ac ymorphwys ynddo. Pe byddai un lle yn uffern yn oddefadwy, gwell fyddai gan yr enaid orphwys yno na dyfod at Dduw. Ië, pan y mae efe yn ein dwyn ni atto ei hun, ac wedi ein gwneuthur ni yn wybyddus o werth ei ffyrdd a'i wasanaeth, y twyll diweddaf o'r cwbl sydd yma; gwell gennym ymsefydlu ar y ffyrdd hynny sydd yn llafaru am dano, ar y rhoddion hynny sydd yn deilliaw oddiwrtho, na dyfod drosodd yn hollol atto ef. Gyd-gristionogion, na ryfeddwch fy mod

yn dywedyd cymmaint ynghylch ymorphwys yn y creadur; yn hytrach, gochel, O ddarllenydd! rhag dy fod di dy hun yn euog o wneuthur felly. Meddyliaf dy fod wedi dy argyhoeddi cyn belled o wagedd golud, anrhydedd, a phleserau'r byd, fel y gelli, yn hawdd, ymwadu â'r holl bethau hyn: a da iawn, os felly yr ydwyt; ac etto nid ydwyt mor ofnus na drwg-dybus ynghylch moddion gras a thybied y gelli ymddigrifo gormod ynddynt, yn enwedig, gan dy fod yn gweled y byd yn eu diystyru, neu heb gymmeryd dim hyfrydwch ynddynt. Yr wyf yn gwybod fod yn rhaid eu caru a'u gwerthfawrogi; a'r hwn sydd yn cael cyssur mwy mewn un peth bydol nac ynddynt hwy, nid yw hwnnw yn Gristion. Ond pan y byddom yn ymfoddloni yn yr ordinhadau heb Dduw, ac yn well gennym fod yn gwrando pregeth nac yn y nefoedd, ac yn aelodau o'r eglwys weledig yma nag o'r eglwys orfoleddus a pherffaith uchod, yn ddiau nis gall hyn lai na bod yn gamsyniad mawr. Gall dy enaid gymmeryd hyfrydwch yn yr ordinhadau, cyn belled ag y mae Duw yn eu bendithio i ti, gan gofio, ar yr un pryd, mai nid y nefoedd, ond y *blaen-ffrwyth* o honi, yw'r pethau hyn. *Tra yr ydym yn gartrefol yn y corph, yr ydym oddicartref oddiwrth yr Arglwydd*, (2 Cor. 5 : 6,) a thra yr ydym oddicartref oddiwrtho ef, yr ydym oddicartref oddiwrth ein gorphwysfa. Pe byddai Duw mor foddlon i fod yn absennol oddiwrthym ni ag ydym ni oddiwrth ef, ac mor anewyllysgar i fod yn orphwysfa i ni ag ydym ni i orphwys ynddo ef, nyni a gaem ein gadael i ysgariaeth dragywyddol a diorphwys oddiwrtho. Mewn gair, megis ag yr ydych yn cydnabod mor anweddus yw bod yn duchanllyd ac yn anfoddlon i'ch cyflwr, felly bydded i chwi, yr un modd, weled mai pechod mawr yw ymfoddloni ac ymorphwys mewn dim arall ond yn Nuw yn unig: a bydded i chwi weddio ar yr Arglwydd am faddeu i chwi'r tueddiad drwg hwn o garu'r creadur yn fwy nâ'r Creawdwr. A bydded i chwi fod yn dra gofalus i wylio a gweddio

bob amser, rhag ymollwng o honoch i'r pechod mawr a thra chyffredin hwn, yn anad yr holl blâau sydd tu yma i uffern, sef, ymsefydlu neu ymorphwys mewn rhyw le neu ryw beth yn fyr o'r nefoedd, neu geisio gosod eich serch a'ch calonau ar ddim arall ond Duw yn unig, fel na byddo gan eich heneidiau yr un orphwysfa arall.

§ 19. (III.) Y peth nesaf i ni i'w ystyried, yw ein hanewyllysgarwch afresymmol i farw, fel y byddo i ni gael mwynhau gorphwysfa'r saint. Yr ydym yn hwyrfrydig i ymadael, megis Lot o Sodom, hyd oni byddo'r Arglwydd, o drugaredd tuag attom, yn ein llusgo ymaith yn erbyn ein hewyllys. Yr wyf yn cyfaddef nad yw angeu, ynddo ei hun, yn ddymunol, etto dyma'r ffordd gyffredin i'r orphwysfa honno sydd mor dra dymunol. Ond o herwydd nad ydym yn meddwl fawr am y pechod hwn, gan ei farnu yn drosedd bychan, gadewch i mi osod o'ch blaen chwi ei natur, ac hefyd ei feddyginiaeth mewn amryw ystyriaethau. Ymlaenaf, ac yn fwyaf enwedigol—y mae ynddo lawer gwreiddyn o anghrediniaeth. Canys pe gallem hollol gredu o'n calonnau mai sicraf air Duw sydd yn cynnwys yr addewid o'r orphwysfa, a bod Duw yn bwriadu gwneuthur yr hyn y mae efe yn ei addaw, ac y bydd efe yn sicr o gyflawni yr hyn a lefarodd : a phe gallem gwbl gredu fod y cyfryw wynfyd wedi ei ddarparu ar fedr y gwir gredinwyr, aros yn y bywyd hwn a fyddai, yn ddiau, yn fwy annioddefol ac ofnadwy gennym nac ofn marwolaeth, a meddyliem bob *dydd* yn *flwyddyn*, hyd onis deuai dydd ein cyfnewidiad. A ydyw yn bossibl ein bod yn credu y bydd i angeu ein symmud o gymmaint trallod a thrueni i'r cyfryw ragorol ogoniant, a'n bod ninnau, er hyn oll, mor anewyllysgar i farw? Ac os yr amheuaeth o'n rhàn a'n hawl yn y gogoniant hwnnw sydd yn peri i ni ofni, etto fe ddylai'r grediniaeth o *sicrwydd* â *godidawgrwydd* yr orphwysfa ein gwneuthur yn anesmwyth, yn ymofyngar, ac yn ymdrechgar, hyd onis caffom foddlonrwydd ynghylch ein hawl iddi. Canys er fod ffydd a

Christionogrwydd yn aml yn ein *genau*, etto, y mae lle i ofni, fod llawer o anghrediniaeth a phaganiaeth yn ein *calonnau*, a hyn yw'r achos mwyaf fod arnom gymmaint o ofn marw. Achos arall o hyn yw oerfelgarwch ein calonnau. Pe byddem yn caru rhyw gyfaill, nyni a ewyllysiem, yn ddiau, gael ei gwmpeini; ei bresennoldeb fyddai yn gysurus ac yn gomfforddus, a'i absennoldeb yn boenus gennym. A phan y byddo efe yn dyfod i ymweled â ni, nyni a'i derbyniwn ef yn llawen, a phan fyddo marw, nyni a fyddwn yn galaru, ac weithiau yn *rhy alarus* ar ei ol. A'r ysgariad oddiwrth gyfaill ffyddlon sydd gyffelyb i rwygiad un o'n haelodau oddiwrth ein corph. Ac oni fyddai ein dymuniadau tuag at Dduw yn gyffelyb i hyn pe byddem yn ei garu yn iawn? Yn hytrach, oni ddylai ein cariad tuag atto fod yn fwy na hyn o lawer, am ei fod yn llawer mwy ffyddlon a dymunol na'r cyfaill goreu? Yr Arglwydd a'n dysgo i edrych yn fanwl i mewn i'n calonnau, a chymmeryd mawr ofal rhag i ni dwyllo ein hunain yn yr ystyr yma! Pa beth bynnag yr ydym yn ei gymmeryd arnom, etto, os ydym yn caru tad neu fam, gwr neu wraig, plentyn neu gyfaill, golud y byd, na'n bywyd chwaith, yn fwy nâ Christ, yn ddiau, nid ydym yn ddisgyblion ffyddlon iddo. Pan ddeuir i'r profiad, y *cwestiwn* fydd, nid pwy a bregethodd fwyaf, neu pwy a wrandawodd fwyaf, neu pwy siaradodd fwyaf, ond pwy a garodd fwyaf. Canys ni fyn Crist gymmeryd pregethau, na gweddiau, nac ymprydiau, na rhoddi ein holl eiddo, na'n *cyrph chwaith i'w llosgi*, yn lle *cariad* tuag atto. A allwn ni fod yn ei garu, ac etto heb ofalu pa hyd y byddom oddiwrtho? A ydoedd yn gymmaint llawenydd i Jacob weled wyneb Joseph yn yr Aipht? Ac a fydd i ni ymfoddloni heb gael golwg ar Grist yn y gogoniant, ac er hynny ddywedyd ein bod yn ei garu? Ni feiddiaf benderfynu nad oes gennym *ddim* cariad atto, pan yr ydym mor anfoddlon i farw, ond hyn a allaf ddywedyd, pe byddai gennym *fwy o gariad*, nyni a fyddem yn *fwy ewyllysgar*

i farw. Pe byddai'r tân sanctaidd yma wedi ei ennyn yn iawn yn ein calonnau, nyni a fyddem yn barod i waeddi allan gyda Dafydd, "*Fel y brefa yr hydd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am danat, O fy Nuw. Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw: pa bryd y deuaf, ac yr ymddangosaf ger bron Duw?*" Salm 42 : 1, 2. Oddiwrth ein hanewyllysgarwch i farw, ymddengys nad ydym wedi blino ar bechod. Pe cymmerem bechod megis ein gelyn pennaf, nid ewyllysiem, yn ddiau, gael ei gyfeillach mor hir. O! galon ynfyd, bechadurus! a fuost ti mor hir yn lloches pob chwantau aflan, yn ffynnon yn bwrw allan, yn ddibaid, ddyfroedd chwerwon troseddiadau, ac nid ydwyt etto wedi blino! O enaid truan! a ydyw dy holl swydd-gynheddfau yn dechreu ammharu? a wyt ti yn gwaethygu mor druenus yn dy holl orchwylion? a ydyw dy galon wedi bod mor hir yn faes mor ffrwythlon i bob anwiredd? ac onid wyt ti etto yn flinderog? a fynnit ti aros etto mewn cyflwr mor ammherffaith, yn griddfan dan wendidau? a fu dy *bechod* o gymmaint budd ac elw i ti, yn fath waith mor hyfryd, fel ag yr wyt yn ofni gweled dydd dy ymadawiad? Ac onid allai Duw, yn gyfiawn, roddi i ti dy ddymuniadau, a *selio* i ti'r *lease* o ganiattad, i drigo ymhell oddiwrtho, ac felly *hoelio dy glustiau* wrth ddrysau *trueni*, a'th gau allan yn dragywydd o'i ogoniant rhagorol? Pan yr ydym mor wrthwynebus i glywed na meddwl am symmud oddiyma, dangosiad ac arwyddoccad ydyw hynny nad ydym yn canfod gwagedd y creadur. O! enaid ynfyd, truenus! a fydd y carcharor yn *ocheneidio yn llwythog*, gan fawr chwennych gollyngdod, a phob caeth yn hiraethu am *jubili*, a phob salw am iechyd, a phob newynog am fwyd, a thithau yn unig yn casâu gwaredigaeth? A fydd y morwr yn ewyllysio gweled y tir, y llafurwr yn dymuno gweled y cynhauaf, y gweithiwr i dderbyn ei gyflog, yr ymdeithydd yn hiraethu am ei gartref, y rhedegwr i ennill y gamp, a'r rhyfelwr i gael y maes, a thithau yn anewyllysgar i weled

dy waith wedi ei orphen, ac i dderbyn diwedd dy ffydd a'th ddioddefiadau? A oedd dy ddioddefiadau yn rhyw-beth amgen nâ breuddwydion? Os felly yr oeddent, tyb-iaf na ddylai fod arnat ofn deffroi bellach. Neu, yn hyt-rach, onid ydyw difyrrwch a gwagedd y byd yn gyffelyb i *hûn y boreu* neu *gysgodau'r hwyr*? Neu a ydyw'r byd, yn ddiweddar, wedi troi yn fwynach ac yn fwy caredig? Nyni a allwn, (ar antur megis,) trwy beryglu ein bywyd, ymfoddloni yma a gwneuthur cynghrair â'r byd; ond ar yr un pryd, nyni a allwn goelio hyn, na wiw *ymddiried* iddo, ac na fydd efe byth yn *bur* i ni. O! enaid annheil-wng, anniolchgar! yr hwn a ddewisit drigo mewn gwlad o *dywyllwch*, a chrwydro yma mewn *anialwch* gwyllt ac anffrwythlon, yn hytrach na bod mewn gorphwysfa gyda Iesu Grist! yr hwn a ewyllysit aros ymysg bleiddiaid, a dioddef beunydd frathiadau'r ysgorpionau, yn hytrach na moli Duw gyda llu'r nefoedd!

§ 20. Y mae'r anewyllysgarwch hwn i farw yn ein cy-huddo o fradwriaeth yn erbyn Brenin y gogoniant! Can-ys onid yw hyn yn ddewisiad o'r ddaear yn hytrach na Duw, a dewis pethau presennol a gweledig i fod i ni yn happusrwydd! ac felly eu gwneuthur hwy yn eilun, neu yn dduw i ni! Pe gwnaem, mewn gwirionedd, olygu Duw megis ein diben pennaf, megis ein gorphwysfa, ein hetifeddiaeth, ein tryssor, pa fodd y byddai bossibl, nad ewyllysiem ei fwynhau? Ac ymhellach, y mae hyn yn arwyddoccau rhyw ffûg a thwyll. Canys, a allech chwi ddisgwyl i ryw rai eich coelio, pan y byddoch yn galw'r Arglwydd eich *hunig obaith*, ac yn llafaru am Grist megis *oll yn oll*, ac yn son am y gorfoledd hwnnw sydd ger ei fron, ac etto, er hyn i gyd, yn dewis dioddef y bywyd cal-ettaf yn hytrach na marw a myned i'w bresennoldeb? Pa fath hunan-wrthddywediad yw hyn, i lafaru mor galed am y byd a'r cnawd, i ocheneidio a chwyno, o achos pechod a'n dioddefiadau, ac etto heb ofni'r un diwrnod yn fwy na hwnnw sydd i'n dwyn ni i'r rhyddid tragywyddol! Pa

fath ragrith yw hyn, sef cymmeryd arnom ymdrechu a milwrio am y nefoedd, pan nad ydym yn ewyllysio myned i mewn iddi! a threulio un awr ar ol y llall, mewn gweddi am y gwynfyd nid ydym yn chwennych ei fwynhau! Yn hyn o beth yr ydym yn gwneuthur cam â'r Hollalluog ac â'i addewidion, ac yn dwyn anghlod ar ei ffyrdd yngolwg y byd: fel pe byddem yn ewyllysio i ddynion ammeu, a ydyw Duw cyn gystal a'i air ai peidio, a pha un ai bod y cyfryw ogoniant ag y mae yr ysgrythyrau yn son am dano? Pan y mae'r byd yn gweled y rhai hynny mor anewyllysgar i ollwng eu gafael oddiwrth bethau gweledig, sef y rhai oeddent yn proffessu eu bod yn byw trwy ffydd, yn ymffrostio ynghylch eu gobaith mewn byd arall, ac yn arferol o lafaru gyda diystyrwch am bob peth dan haul, mewn cyffelybiaeth i'r pethau sydd uchod—pan y mae yr annuwiolion yn gweled hyn, y maent yn caledu mewn anghrediniaeth, a drygioni, a chwantau cnawdol! "Yn ddiau, (meddant,) pe byddai'r proffeswyr hyn yn disgwyl mwynhau'r cyfryw ogoniant, ac yn gwneuthur cyn lleied cyfrif o'r byd hwn ag y maent yn gymmeryd arnynt, yn sicr ni fyddent hwy eu hunain mor anewyllysgar i'w gyfnewid." Oh! pa fodd y gallwn wneyd i fynu, neu roddi rhyw iawn, am y cam a wnaethom â Duw ac ag eneidiau truain, trwy'r cyfryw ymddygiad gwarthus? Ac, ar y llaw arall, y fath anrhydedd i Dduw, y fath gadarnhad i gredinwyr, a'r fath argyhoeddiad i anghredinwyr, fyddai gweled Cristionogion yn atteb diben eu proffes yn hyn o beth, ac yn croesawu, gyda llawenydd, y newydd hwnnw, sef fod amser eu hymadawiad i'w gorphwysfa yn agoshau!—Y mae hyn hefyd yn dangos ein bod ni wedi treulio llawer o amser yn ofer, neu i ddim diben; canys oni chawsom ni holl amser ein bywyd i barottoi i farw? Cynnifer o *flynyddoedd* i ymbarottoi erbyn *un awr*, ac a ydym ni mor ammharod ac anewyllysgar etto! Pa beth a wnaethom? I ba ddiben y buom byw? A oedd gennym ni ryw bethau mwy pwysfawr i ofalu am danynt?

A allasem ni ddymuno cael mwy ac amlach rhybuddion? Pa mor fynych yr aeth angeu i mewn i drigfannau ein cymmydogion! Pa cyn amled y curodd wrth ein drysau ni! Pa gynnifer o glefydau a fu yn blino ein cyrph, fel ag y bu yn angenrheidiol arnom dderbyn dedfryd marwolaeth! Ac a ydym ni yn ammharod ac yn anewyllysgar ar ol y cwbl? O! bechaduriaid difraw, calon-gysglyd! O! ddynion diddaioni, a diystyrwyr rhybuddion Duw! O! ynfydion twyllodrus! y rhai a fradychasoch eich heneidiau eich hunain!

§ 21. Ystyriwch, bod heb brofi marwolaeth yw bod yn ol o happusrwydd dros byth.—Diangc rhag marwolaeth yw colli gwynfyd, onis gwelai Duw yn dda ein symmud megis Enoch ac Elias, yr hyn nis gwnaeth cyn nac wedi hynny. "Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yn Nghrist, truenusaf o'r holl ddynion ydym ni." 1 Cor. 15 : 19. Os na ewyllysiech farw, a myned i'r nefoedd, pa beth sydd gennych i'w ddisgwyl yn ychwaneg nag sydd gan un o'r *Epicureaid*,* neu anifail? Paham yr ydym yn gweddio, yn ymprydio, ac yn galaru; paham yr ydym yn dioddef diystyrwch y byd; paham y'n gelwir yn *Gristionogion*, ac nid yn *Baganiaid* neu anffyddiaid, os nad ydym yn disgwyl am y byd sydd ar ddyfod? A ewyllysit ti golli dy ffydd a'th lafur, O Gristion; gweled dy holl ddyledswyddau a'th ddioddefiadau yn myned yn ofer ac yn ddiles, a cholli diben dy fywyd, a Christ Iesu yn colli ei waed yn ofer? A elli di ddymuno gweled hyn oll, a thithau yn ymfoddloni cymmeryd yr un rhan ag un or bydolion, neu yn hytrach, marw fel anifail? Yn hytrach na hyn, bydded i ti ddywedyd, megis y dywedodd un ar ei wely angeu, pan ofynwyd iddo a oedd efe yn foddlon i farw ai nad oedd, "Gadewch i *hwnnw* fod yn

---

* Canlynwyr un *Epicurus*, barn pa un oedd mai pleserau'r byd a difyrwch cnawdol yw'r pen daioni. Y Groegiaid oeddent baganiaid cyn dyfodiad Crist i'r byd.

anfoddlon i farw nad yw yn ewyllysio bod gyda Christ." A ydyw Duw yn ewyllysio ein gogoneddu trwy angeu, a ninnau yn anwyllysgar i farw fel y caffom ein gogoneddu? Myfi a feddyliwn, pe byddai rhyw dywysog yn ewyllysio eich gwneuthur yn etifedd iddo, na fyddech, mewn un modd, yn anewyllysgar i dderbyn yr etifeddiaeth; canys y cyfryw haelioni a ddangosai yr anniolchgarwch eithaf, a'r anhaeddedigaeth mwyaf, megis y mae Duw wedi tystiolaethu am y rhai sydd yn barod i wneuthur rhyw esgusodion gwaelion rhag dyfod at Grist, *na chaiff yr un o'r gwyr hynny a wahoddwyd brofi o'i swpper;* (Luc, 14 : 24;) felly hefyd y mae yn gyfiawn iddo drefnu mewn perthynas i ninnau, y rhai ydym yn ymesgusodi rhag dyfod i'w ogoniant. Bu yr Arglwydd Iesu yn foddlon i ddyfod i lawr o'r nefoedd i'r ddaear er ein mwyn ni, ac a fyddwn ni yn anfoddlon i ymadael â'r ddaear a myned i'r nefoedd, er ei fwyn ef, ac er ein mwyn ein hunain? Gallasai ef ddywedyd: "Pa beth yw hynny i mi, os gorfydd i'r pechaduriaid hyn ddioddef? Os ydynt yn caru'r cnawd yn fwy nâ'r yspryd, a'u trachwantau pechadurus yn fwy na chariad fy Nhad; ac os ydynt yn dewis gwerthu eu heneidiau am ddim, pwy a ddylai fod yn golledwr? Ai myfi, gyda'r hwn y gwnaethant yn anghyfiawn? A gânt hwy, o'u gwirfodd droseddu fy neddfau, a minnau ddioddef y gospedigaeth? A oedd raid i mi ddisgyn i lawr o'r nefoedd i'r ddaear, a gwisgo gwisg o gnawd, cael poeri arnaf, a'm diystyru gan ddyn, ac wylo, dioddef, gwaedu, a marw marwolaeth felldigedig, a hyn oll er mwyn pryfaid truenus, y rhai a ddewisent golli eu bywyd a dinystrio eu heneidiau yn hytrach nac ymattal rhag bwytta un tammaid gwaharddiedig? A ddarfu iddynt hwy daflu eu hunain ymaith am gyn lleied gwerth, ac a raid i mi eu prynu drachefn â chymmaint pris?" Fel hyn nyni a welwn fod gan Grist reswm digonol i beri iddo fod yn anfoddlon; etto efe a ymddarostyngodd o'i wirfodd i fod yn Waredwr. Ond nid oes gennym ni yr un rheswm yn

erbyn dyfod atto ef, oni fydd i ni ymresymmu yn erbyn ein hunig obaith, a dadleu o blaid ein trallodion a'n gorthrymderau, fel y byddont yn barhaus. Daeth Crist i lawr i'n dwyn ni i fynu atto; ac a fynnem ni iddo golli ei waed a'i lafur, a dychwelyd yn ol hebddom? A brynodd efe ein gorphwysfa mor ddrud? A bwrcasodd efe ein hetifeddiaeth â'i waed? Ac a ydym ni, wedi'r cwbl, yn anewyllysgar i fyned i mewn iddi? Oh, ddynion! Crist Iesu, ac nyni, sydd ganddo fwyaf o achos i fod yn anewyllysgar. Yr Arglwydd a faddeuo i ni, ac a iachäo ein hanniolwch ynfyd!

§ 22. Onid ydym ni yn cyd-fradwrio â'n gelynion mwyaf creulon, a hynny yn eu hamcanion *mwyaf* dichellgar, pan yr ydym yn anewyllysgar i farw, a myned i'r nefoedd? Pa beth yw gwaith beunyddiol y diafol? Onid cadw ein heneidiau oddiwrth Dduw. Ac a fyddwn ni yn foddlon i hyn? Onid peth cyffelyb fyddai i ni ewyllysio un hanner o uffern i ni ein hunain, a dymuno bod yn absennol o'r nefoedd? Pa fath lawenydd i Satan ydyw hyn, fod yr un dymuniad i ti ac yntau, O Gristion! pan y mae yn gweled, er nad all dy gael *i uffern*, etto ei fod yn dy rwystro *i'r nefoedd*, ac yn dy wneuthur di dy hun yn ymbiliwr taer am hynny! O na foddia'r diafol cyn gymmaint i'th niwed dy hun! Onid ydyw ein hofnau beunyddiol o farwolaeth yn gwneuthur ein bywyd yn boen gwastadol i ni? Pa fodd yr ydym yn trymhau ein bywydau â dychryniadau disail, pan y gallem fod yn llawn o lawenydd mewn beunyddiol fyfyrdodau am y bywyd sydd i ddyfod, ac â meddyliau melus, hyfryd am y gwynfyd hwnnw! Fel hyn yr ydym yn difa ein cyssuron, ac yn yssu, yn ddiles, ein hyfrydwch pennaf! Pan y gallem orwedd i lawr, a chyfodi i fynu, a rhodio allan, gyda chalonnau yn llawn o orfoledd duwiol, yr ydym, yn lle hynny, yn llenwi ein hunain âg amrywiol ofnau gofidus! Canys yr hwn sydd yn ofni marw, sydd hefyd yn ofni yn wastadol; o herwydd fod iddo achos i ddisgwyl

angeu bob amser. A pha fodd y gall bywyd y dyn hwnw fod yn gyssurus, yr hwn sydd *bob amser* yn ofni colli ei gyssuron?—Onid ein dychymmygion ni ein hunain ydyw yr ofnau hyn o farwolaeth, neu ryw bethau disylwedd, y rhai yr ydym ni ein hunain yn eu creu i'n poeni ein hunain, fel pe na buasai Duw wedi trefnu digon o gystuddiau i'n rhan, ond bod yn rhaid i ni chwanegu attynt. Onid ydyw angeu, o hono ei hun, yn ddigon chwerw i gig a gwaed, ac a gawn ni ddyblu a threblu ei chwerwder? Y mae'r dioddefiadau a osodwyd i ni gan Dduw i gyd yn tywys i ryw ddibenion da; y maent yn tywys ymlaen trwy gystuddiau i amynedd, o amynedd i brofiad, ac o brofiad i obaith, ac oddiyno, yn y diwedd, i *ogoniant.* Ond y dioddefiadau yr ydym ni yn eu gwneuthur i ni ein hunain, ydynt, megis *cylch,* yn ddiddiwedd; o bechod i ddioddefiadau, ac o ddioddefiadau i bechod, ac oddiyno i gystuddiau drachefn. Ac nid hynny yn unig, ond y maent yn amlhau fel y maent yn myned ymlaen; ac y mae pob pechod yn fwy nâ'r un blaenorol, ac hefyd pob un o'n dioddefiadau yn yr un modd. Felly, os nad ydym yn meddwl fod Duw wedi ein gwneuthur i fod yn hunain-boenidwyr, nid oes i ni fawr achos i faethu a chynnwys yr ofnau hyn o farwolaeth!—Ac onid ofnau disail, afreidiol, ac anfuddiol ydynt! Canys, megis nas gall ein holl ofal wneyd un blewyn yn wyn neu yn ddu, nac ychwanegu un cyfydd at ein maintioli, felly hefyd nis gall ein hofnau leihau na rhwystro ein dioddefiadau, na chwaith oedi ein marwolaeth un awr: ewyllysgar neu anewyllysgar, bydd raid i ni fyned ymaith. Ofnau llawer un a fuont yn achos o brysuro ei ddiwedd, ond ni ddarfu i ofnau neb erioed droi marwolaeth heibio. Digon gwir, y mae ofn pwyllog mewn perthynas i'r perygl wedi angeu wedi bod o les i lawer, ac y mae yn hynod o fuddiol i ragflaenu y perygl; eithr i aelod o Grist, ac etifedd i'r nefoedd, arswydo anturio i'w etifeddiaeth ei hun, sydd ofn pechadurus ac afreidiol. Ac onid yw ein harswyd i farw, yn adnewyddu

grym llawer o'n profedigaethau? Beth wnaeth i Pedr wadu ei Arglwydd? Beth sydd yn gwneyd i wrthgilwyr mewn amseroedd erlidigaethus adael y gwir? Beth sydd yn gwneyd i ddalen werdd ffydd ddiwreiddiedig wywo o flaen gwres erlidigaeth? Gall ofn carchar a thlodi wneyd llawer o ddrwg, ond ofn angeu a wna lawer mwy. Cymmaint bynnag o ofn angeu fyddo arnom, cymmaint a hynny o lwfrdra a fyddwn, yn gyffredin, yn ei ddangos yn achos Duw; heblaw y lluaws dychymmygion ofergoelus, ac anfoddlonrwydd i drefniadau Duw, a meddyliau caledion am ei ragluniaethau, am ba rai y mae'r pechod hwn yn ein gwneyd yn euog.

§ 23. Gadewch i ni hefyd ystyried y fath amser cyfaddas y mae'r rhan fwyaf o honom wedi ei gael. Paham na fyddai'r dyn, yr hwn sydd yn meddwl marw ryw amser, mor foddlon i farw pan yn ddeg ar hugain neu ddeugain oed, a phan y byddo yn ddeg a thrugain neu bedwar ugain? Ni wna hir amser lwyr ddinystrio llygredigareth; canys ni fydd hwn, un amser, yn darfod neu yn diflanu gan oedran. Ond, yn hytrach, os na chwanegir ein grasusau cystal a'n hamser, yr ydym, wrth naturiaeth, yn myned yn waeth. "O fy enaid ymâd mewn heddwch." Ac fel nas gelli ewyllysio mwynhau golud ac anrhydedd yn ddiddiwedd, felly hefyd, na ddymuna fod dy amser yn y byd yn ddiderfyn. Pe byddai i ti iawn ystyried mor anhaeddiannol ydwyt o un awr o'r amynedd hwnnw y bu Duw mor hir yn ei ddangos tuag attat, tydi a gyfaddefit dy fod wedi cael *hir amser*. Onid Dwyfol ddoethineb sydd yn penderfynu'r amser? Ei ewyllys ef ydyw dwyn anrhydedd iddo ei hun, oddiwrth amrywiol bobl, ac mewn amrywiol oesoedd, ac nid oddiwrth un dyn nac un oes yn unig. A chan weled dy fod wedi cael amser i orphen dy waith, ac i redeg dy yrfa, mae'n rhaid i ti ymfoddloni i ddyfod i lawr fel y caffo eraill dy le, y rhai y mae mor angenrheidiol iddynt gael amser at y gwaith a thithau. Lle y mae amser mawr yn cael ei roddi, y mae dyled-

swydd fawr yn ofynol. Gweddia, gan hynny, am ras i'w defnyddio'n well; ond bydded i ti ymfoddloni i hynny o amser a welodd Duw yn dda ei roddi i ti. Tydi a gefaist hefyd bob peth angenrheidiol tuag at dy gynhaliaeth yn y byd. Hawdd y gallasai Duw wneuthur dy fywyd yn faich i ti, fel y buasai arnat gymmaint o ofn byw ac sydd arnat yrwan o ofn marw. Gallasai Duw adael i ti fyw mewn anwybodaeth dy holl ddyddiau, heb ddyfod i adnabyddiaeth o Grist; ond yn lle hynny, rhyngodd bodd iddo agor dy lygaid yn moreuddydd dy amser, a dysgodd i ti, mewn pryd, i ba ddiben yr anfonwyd di i'r byd. A ryngodd bodd hefyd i'th Dad nefol i'th goelbren syrthio yn *Ewrop*, ac nid *Asia*, *Affrica*, neu *America?* ac yn Lloegr, neu Gymru, yn hytrach nag yn yr *Yspaen* neu'r *Eidal?* A lanwodd yr Arglwydd dy holl fywyd â thrugareddau, ac a ydwyt ti yn awr yn gweled dy ran yn rhy fechan? Y fath nifer o oriau cysurus, o Sabbothau diddan, o fyfyrdodau hyfryd, o gyfeillion profiadol, o waredigaethau rhyfeddol, o oedfäon rhagorol, o lafur llwyddiannus, o newyddion cysurlawn, o brofiadau melusion, a rhagluniaethau rhyfeddol, y bu dy fywyd yn gyfranog o honynt! A ydyw dy fywyd wedi bod *mor felus*, fel nad ydwyt yn ewyllysgar i ymadael? Ai dyma dy ddiolchgarwch i'r hwn sydd yn dy dynnu fel hyn i fwynhau *ei felusder ei hun?* Oh, enaid diddeall! da fyddai i ti, pe byddit mor awyddus i fwynhau tragywyddoldeb o hyfrydwch, ag wyt i fwynhau bywyd darfodedig a diflannedig; pe byddit yn hiraethu cymmaint am bresennoldeb Duw mewn gogoniant, ag wyt i aros yma ar y ddaear! Canys yna y byddit yn barod i waeddi allan, "*Paham yr oeda ei gerbyd ddyfod? Paham yr arafodd olwynion ei gerbydau.*" Barn. 5 : 28. "Pa hyd, Arglwydd, pa hyd?" Beth pe b'ai Duw yn canniatau i ti fyw lawer o flynyddoedd, ond yn cymeryd ymaith y trugareddau hynny, y rhai y caniatâwyd i ti eu mwynhau hyd yn hyn, onid allai efe roddi i ti fywyd fel y rhoddodd y sofl-ieir i'r Israeliaid grwgnachlyd? Num.

11 : 33. Efe a allai roddi i ti fywyd, hyd onis byddai yn flin gennyt dy einioes, a chystal gennyt ymadael ag oedd gan Judas neu Ahitophel; ac efe a allai dy wneyd yr un fath a llawer o greaduriaid truenus yn y byd, y rhai ni fedrant ond prin ymatal rhag dieneidio eu hunain. Na fydd gan hynny mor daer am fywyd, yr hyn a all droi yn *farn* yn lle *bendith*. Pa sawl un o weision ffyddlon Duw, o bob gwlad ac oes, sydd wedi myned o'th flaen! Nid wyt ti i gerdded ffordd ansathredig: nid tydi yw'r cyntaf i dorri'r rhew. Oddigerth Enoch ac Elias, pa un o'r seintiau a ddihangodd rhag angeu? Ac a wyt ti yn well na hwy? Y mae myrddiynau o seintiau wedi marw, mwy nag sydd yn awr yn fyw ar y ddaear. Pa rifedi o'th gymdeithion anwyl, a'th gyfeillion mewn dyledswyddau, a'th ragflaenodd, a phaham yr wyt ti mor anewyllysgar i'w canlyn? Ac onid ydyw Iesu Grist ei hun wedi myned y ffordd hon? Ac onid ydyw ef wedi sancteiddio'r bedd i ni, ac wedi perarogli'r llwch â'i gorph ei hun, ac a wyt ti yn anewyllysgar i'w ganlyn ef hefyd? Yn hytrach bydded i ti ddywedyd, fel Thomas, "Awn ninnau hefyd, fel y byddom feirw gydag ef." Ioan, 11 : 16.

§ 24. Os nad ydyw'r hyn a lafarwyd yn ddigon i'th berswadio, nid oes ond ychydig bwys mewn rheswm nac ysgrythyrau. Ac yr wyf wedi dywedyd mwy ar y testun hwn, gan fy mod yn ei weled mor angenrheidiol i mi fy hun, ac eraill; gan fy mod yn canfod cyn lleied yn barod i farw, ymhlith yr holl Gristionogion, sydd mor ewyllysgar i wneuthur a dioddef cymmaint dros Grist a'i achos: ac ymysg y rhai hynny ag sydd, mewn ystyr, wedi darostwng eu llygredigaethau eraill, etto mor ychydig sydd wedi ennill hyn o fuddygoliaeth! Nid wyf yn ceisio perswadio yr *annuwiol* rhag ofni marwolaeth: canys y mae yn hytrach yn gryn ryfeddod, nad ydynt yn ei ofni yn fwy, ac nad ydynt yn treulio eu hamser mewn dychryn gwastadol.

# PENNOD XI.

## YR ANGENRHEIDRWYDD, A'R CANLYNIAD PWYSFAWR, O FYWYD NEFOLAIDD AR Y DDAEAR.

§ 1. Y rhesymmoldeb o lawenychu yn ein meddyliau am orphwysfa'r saint. § 2. Cristionogion yn cael eu cynghori i hynny, wrth ystyried § 3. (1) Y bydd hynny yn dangos eu duwioldeb diragrith; § 4. (2) Mai hynny yw'r rhagoriaeth mwyaf yn nhymmer y Cristion; § 5. (3) Y mae yn tywys i'r bywyd mwyaf cyssurus; § 6—9. (4) Hynny a fydd yr ymwared goreu yn erbyn temtasiynau i bechod; § 10. (5) A gyfnertha eu grasusau a'u dyledswyddau; § 11. (6) Hyn a fydd eu cyssur goreu mewn cystuddiau, § 12. (7) Ac a'u gwna yn dra buddiol i eraill; § 13. (8) Hwy a fyddant felly yn anrhydeddu Duw; § 14. (9) Heb hynny, nyni a fyddwn yn anufuddhau y gorchymynion, ac yn colli'r datguddiad mwyaf graslawn a hyfryd yngair Duw; § 15. (10) Y mae yn fwy rhesymmol i ni osod ein calonnau ar Dduw, o herwydd ei fod ef yn dangos cymmaint cariad tuag attom ni, § 16, 17. ac (11) at y nefoedd, lle y mae i ni gymmaint cymmundeb a pherthynas; § 18. (12) Heblaw hyn, nid oes dim arall yn y nefoedd a dal i ni osod ein calonnau arno. § 19. Myned ymlaen at destun y pen nesaf.

§ 1. A oes y fath orphwysfa yn aros i ni? Paham, gan hynny, na byddai ein meddyliau yn fwy arni? Paham na byddai ein calonnau yno yn wastadol? Paham na baem yn byw yno mewn myfyrdodau parhaus? Pa beth ydyw'r achos o'r esgeulusdra hwn? A ydym ni yn ymddwyn yn rhesymmol yn hyn ai nid ydym? A ydyw'r Duw tragywyddol wedi parottoi'r fath ogoniant, ac wedi addaw ein cymmeryd i fyw gydag ef, ac onid ydyw hyn yn werth meddwl am dano? Ac oni ddylai fod tueddiadau cadarnaf ein calonnau yn tynnu tuag atto? A ydym ni yn credu hyn, ac er hynny yn ei anghofio ac yn ei esgeuluso? Os na rydd Duw ganiatâd i ni nesâu at y goleuni hwn, pa beth yw diben ei holl daer wahoddiadau? Paham y mae efe yn condemnio ein tueddfryd daearol, ac yn gorchym-

myn i ni osod ein serch ar y pethau sydd uchod? O galonnau aflan! pe buasai Duw yn gwrthwynebu hynny, nyni a fuasem yn debycach o'i geisio, ond pan y mae efe yn gorchymyn ein calonnau tua'r nefoedd, yna nid ydynt yn chwannog i chwimio un fodfedd. Yr un fath a'r Israeliaid gwrthryfelgar o'n blaen, pan yr oedd Duw yn chwennych iddynt deithio ymlaen tua Chanaan, yna y byddent hwythau yn cyfodi terfysg ac ni fynnent gychwyn, a phan y byddai Duw yn peri iddynt aros yn llonydd, hwythau, yn y fan, a ddechreuent fyned ymlaen. Os dywed Duw, "*Na cherwch y byd na'r pethau sydd yn y byd,*" yna y byddwn ninnau yn eu tra hoffi, ac yn myned yn ffol am danynt. Pa mor hawdd, pa mor aml, y gallwn ni feddwl am ein pleserau,—am ein gorchwylion, am y cnawd a'i chwantau, am y cam yr ydym yn ei gael, am ein trallodion, ein hofnau, a'n dioddefiadau! Ond pa le y mae y Cristion ag sydd â'i galon ar ei orphwysfa? Pa beth yw yr achos o hyn? A ydym ni mor llawn o lawenydd, fel nad oes arnom eisiau dim yn chwaneg? Neu, a oes dim yn y nefoedd yn addas i'n meddyliau llawen? Neu, yn hytrach, onid ydyw ein calonnau yn gnawdol ac yn drymllyd!—Gadewch i ni ddarostwng y calonnau anianol hyn, y rhai nid oes ynddynt fwy o Grist a gogoniant. Pe'r byd hwn yn unig a fyddai testun ein hymddiddanion yn wastadol, pawb a'n cyfrifent yn annuwiol; paham, gan hynny, na farnwn fod ein calonnau yn annuwiol, pan y maent yn cael cyn lleied hyfrydwch yn Nghrist a'r nefoedd?

§ 2. Ond yr wyf yn llafaru yn unig wrth y rhai sydd â'u rhan yn y nefoedd, y rhai y mae eu gobaith yno, a'r rhai sydd wedi ymwadu â'r cwbl oll i fwynhau'r gogoniant hwn; ac a gymmeraf fi fy nigalonni rhag cynghori'r cyfryw rai i fod o feddyliau nefolaidd? Gyd-gristionogion, os na wnewch *chwi* wrando ac ufuddhau, pwy a wna? Hawdd y gallwn gymmeryd ein digalonni rhag cynghori y byd tywyll, annuwiol, a dywedyd, megis y dywedodd Moses, *Wele, plant Israel ni wrandawsant arnaf fi; a*

*pha fodd y'm gwrandawai Pharaoh?* Exod. 6 : 12. O ddarllenydd, yr wyf yn erfyn arnat, gan dy fod yn gobeithio cael rhan yn y gogoniant hwnnw, alw o honot dy galon i gyfrif, cerydda hi am ei dyeithrwch i Dduw, tro dy feddyliau oddiar ffordd gwagedd, gosod dy holl enaid i astudio tragywyddoldeb, pâr iddo fod yn ddiwyd yn nghylch y bywyd sydd i ddyfod, ymarfer dy hun â'r fath fyfyrdodau, ond trocha dy enaid yn nyddänwch y nefoedd; ac os dy enaid hwyrfrydig a ddechreu ddiffygio, a'th feddyliau wasgaru, galw hwy yn ol, dàl hwy at eu gwaith, na chyd-ddwyn a'u diogi, nac âg un esgeulusdod. A phan fyddi (mewn ufudd-dod i orchymmyn Duw) wedi profi, a dyfod yn gynnefin â'r gwaith, ac yn cadw gwyliadwriaeth ar dy feddyliau hyd oni byddont wedi ymarferu ag ufudd-dod, yna ti a ganfyddi dy fod wedi dyfod i gynteddau'r nef, a bod, mewn gwirionedd, felusder a hyfrydwch yngwaith a ffyrdd Duw, ac mai bywyd o lawenydd yw y bywyd neu'r fuchedd Gristionogol. Fel hyn y cai fwynhau digonolrwydd o'r cysuron y buost yn gweddio, yn hiraethu, ac yn griddfan am danynt, a'r cyfryw na fydd ond ychydig o Gristionogion, un amser, yn eu cyrhaedd yma yn y byd, o herwydd naill ai ni wyddant y ffordd i'w cael, neu ni fyddant yn cerdded ar hyd-ddi. Na ddywed, Yr ydym ni yn analluog i osod ein calonnau ar y nefoedd, rhaid i hynny fod yn waith Duw. Er mai Duw, yn ddiammeu, yw Pen-rheolwr ein calonnau, etto, *dano* ef, *chwi eich hunain* sydd â'r llywodraeth mwyaf arnynt. Er na ellwch (heb Grist) wneuthur dim, etto, dano ef, a thrwyddo ef, chwi a *ellwch*, a bydd raid i chwi, wneyd llawer, neu ynte bydd heb ei wneuthur, a chwithau a ddinystrir o achos eich hesgeulusdra a'ch diofalwch. Gristionogion, pe byddai eich heneidiau yn iachus ac yn gryfion, hwy a dderbynient annrhaethol fwy hyfrydwch a melusder yn y meddyliau gorfoleddus a chrediniol am y dedwyddwch sydd i ddyfod nac y mae y dyn mwyaf iachus, âg eisiau bwyd arno, yn ei gael yn ei ymborth, neu y

synwyrau cryfaf yn y mwynhad o'u gwrthrychau. Mor ysgafn, neu, yn hytrach, mor hyfryd fyddai'r gwaith hwn gennych. Etto, o herwydd fy mod yn gwybod, tra yr ydym yn y corph hwn o gnawd, a thra y mae ynom weddillion y meddylfryd anianol, neu synniad y cnawd, yr hwn sydd elyniaeth yn erbyn Duw, (Rhuf. 8 : 7,) ac hefyd yn elyniaethol i'r gwaith tra daionus hwn, o herwydd fy mod yn gwybod (meddaf) tra yr ydym yn y wisg hon o gnawd nad ydyw'r annogaethau mwyaf pwysfawr ond digon anneffeithiol, chwanegaf yma etto rai ystyriaethau, gan na fydd y cwbl a allwyf ddwyn ymlaen, ond digon bychan at hyn o orchwyl, y rhai, os bydd i chwi eu pwyso yn arafaidd yn eich meddyliau, gan geisio barnu yn ddiduedd, nid wyf yn ammeu nas gallant (gyda gras Duw) weithio'n effeithiol ar eich calonnau, a gwneuthur i chwi, o lwyr-fryd calon, ymroddi yn gwbl at hyn o ddyledswydd dra rhagorol. Yn fwyaf pennodol, ystyriwch y bydd hyn yn dystiolaeth o'ch duwioldeb diragrith; ei fod yn un o rinweddau pennaf y dymmer Gristionogol; a'r ffordd hefyd i fyw yn y modd mwyaf cyssurus; hyn a fydd yr ymwared goreu rhag temtasiynau i bechod; efe a wna i'ch grasusau a'ch dyledswyddau flaguro; hyn a fydd eich cyssur pennaf ymhob cystuddiau; hyn a'ch gwna yn fwy bendithiol ac adeiladol i eraill; felly yr anrhydeddwch Dduw; ac heb wneuthur hyn chwi a fyddwch yn anufuddhau gorchymmynion Duw, ac felly yn colli'r datguddiadau mwyaf grasol a hyfryd yngair Duw. Y mae hefyd yn fwy angenrheidiol a rhesymmol i chwi osod eich calonnau ar Dduw, gan ei fod ef wedi gosod ei serch, neu amlygu ei gariad, gymmaint tuag attoch chwi. Y mae yn rhesymmol hefyd i chwi osod eich serch ar bethau nefol, a dodi eich calonnau yn y nefodd lle y mae eich trysor, a lle y mae i chwi gymmaint rhan a pherthynas; ac heblaw hyn oll, ystyriwch nad oes dim arall yn y byd hwn yn werth eich cariad, neu a dâl i chwi osod eich calonnau arno.

§ 3. (1) Ystyriwch, os bydd eich calon wedi ei gosod ar y nefoedd, y bydd hynny yn dystiolaeth ddiamheuol o ffyddlondeb a diragrithrwydd eich proffes, ac yn brawf a datguddiad eglur o waith gwirioneddol gras iachusol ar eich heneidiau. Yr ydych yn gofyn yn aml, "Pa fodd y gallwn gael gwybod ein bod wedi ein gwir sancteiddio?" Dyma un arwydd anffaeledig a roddaf i chwi allan o enau Crist Iesu ei hun: *Lle y mae eich tryssor, yno y bydd eich calon hefyd.* Mat. 6 : 21. Duw yw tryssor a happusrwydd y saint, a'r nefoedd yw'r lle y cânt gyflawn fwynhad o hono. Nid yw calon, gan hynny, ag sydd wedi ei gosod ar y nefoedd ond un wedi ei gosod ar Dduw; ac yn ddiau, calon wedi ei gosod ar Dduw, trwy Grist, yw'r dystiolaeth fwyaf gwirioneddol o gadwedigol ras. Pan na fydd dysgeidiaeth yn brawf o ras; pan y bydd gwybodaeth, dyledswyddau a doniau yn methu; a rhesymmau, o dy enau neu'n ysgrifenedig, yn cael eu gwrthbrofi; etto fe fydd yr arwydd hwn o dueddfryd dy galon yn dy brofi dy fod yn ffyddlon ac yn ddiragrith. Cymmer i'th ystyriaeth un Cristion tlawd, un o ychydig wybodaeth, cof byr, a thafod ammharablus; etto y mae ei galon wedi ei gosod ar Dduw, ac wedi ei ddewis ef yn rhan iddo, ei feddyliau ydynt ar dragwyddoldeb, y mae ei serchiadau yno; ac y mae efe yn gwaeddi allan, *O na bawn i yno!* Efe a fydd yn cymmeryd y dydd hwnnw megis amser mewn carchar, ymha un ni chafodd un olwg gyssurus ar dragywyddoldeb. Ac fe fyddai yn well gennyf farw ynghyflwr y dyn hwn nac yn lle'r hwn, (er fod ei ddoniau yn rhagorol, ac yntau yn cael clod am ei weithrediadau,) etto sydd heb fod â'i galon wedi ei gosod ar Dduw fel y llall. Y dyn y bydd Crist yn ei chwilio, yn y dydd diweddaf, ac yn ei gael heb y wisg briodas, ac am hynny yn ei gondemnio, a fydd un heb fod â'i galon yn y cyfryw dymmer neu yspryd a hyn. Y *cwestiwn* y pryd hwnnw a fydd, nid pa gymmaint oeddech yn wybod, yn broffesu, neu yn siarad, ond pa gymmaint yr oeddech yn caru Crist Iesu,

neu pa le yr oedd eich calon? Gristionogion, megis yr ewyllysiech gael prawf o'ch hawl i'r gogoniant, ymdrechwch osod eich calonnau ar bethau sydd uchod; ac os na all Satan a phechod gadw eich serchiadau oddiyno, ni fedrant ychwaith, mewn un modd, eich rhwystro chwithau yno chwaith.

§ 4. (2) Bod â'ch calon yn y nefoedd yw un o'r rhinweddau mwyaf rhagorol yn nhymmer y Cristion. Megis y mae rhinweddau ymha rai y mae Cristionogion yn rhagori ar y byd, felly hefyd y mae cyfryw ardderchawgrwydd ysprydol, perthynol i rai, fel y maent yn rhagori ar eraill o'u Cyd-gristionogion. Ac megis mai y rhai hynny yw y rhai mwyaf rhagorol o'r holl greaduriaid ag sydd a'u hwynebau fwyaf tua'r ffurfafen; felly hefyd y rhai hynny yw'r Cristionogion goreu, y rhai sydd a'u serchiadau a'u calonnau fwyaf yn y nefoedd. Y cyfryw sant nefolaidd yw yr hwn sydd fel hyn yn cael ei dderchafu mewn yspryd a myfyrdodau at Dduw, ac sydd newydd gael y cyrfyw olygon gogoneddus ar Grist? Y fath ddatguddiadau a fydd y cyfryw un yn arferol o roddi i ni o'r trigfannau sydd uchod! Mor nefolaidd, ardderchog, a gogoneddus, a fydd ei ymadroddion! fel ag y maent yn ddigonol i wneuthur i unrhyw wrandawr ddeall a chredu ei fod wedi gweled yr Arglwydd, o herwydd na allasai un dyn lafaru'r cyfryw eiriau heb fod gyda Duw. *Hwn* (neu y cyfryw un a hwn) yw'r Cristion gwir ogoneddus! Y mynyddoedd mwyaf clodfawr, a'r coedydd mwyaf ardderchog, yw y rhai hynny ag sydd yn cyrhaedd nesaf at yr wybren; felly hefyd, yr un modd, hwnnw yw'r Cristion mwyaf rhagorol, yr hwn sydd â'i galon amlaf yn y nefoedd, ac yn cael y mwyaf o gyssur oddiyno. Pan fyddo rhyw ddyn wedi bod yn byw yn agos i'r brenin, neu wedi gweled Sultan gwlad *Persia*, neu ymerawdwr y *Tyrciaid*, y cyfryw ddyn a fyddai yn debygol o gael ei gyfrif radd yn uwch nâ'i gymmydogion. Pa beth, gan hynny, a allwn ni feddwl am y dyn hwnnw, yr hwn sydd beunydd yn ym-

deithio i'r nefoedd, ac yno wedi gweled Brenhin brenhinoedd, wedi cael ei dderbyn lawer gwaith i'r presennoldeb nefol, a'i enaid yn cael bwytta o bren y bywyd? O'm rhan fy hun, myfi a gyfrifwn hwnnw yn uwch na'r mwyaf ardderchog, y mwyaf goludog, a'r mwyaf doeth a dysgedig yn y byd.

§ 5. (3) Meddylfryd nefol yw'r ffordd oreu a'r ffordd debyccaf i fwynhau bywyd cyssurus. Y mae'r gwledydd nesaf at y gogledd yn oerion ac yn rhewllyd, oblegyd eu bod ymhell oddiwrth yr haul. A pha beth sy'n peri fod llawer o Gristionogion mor oerion a digyssur, ond o herwydd eu bod yn byw mor bell oddiwrth y nefoedd? A pha beth yw'r achos fod eraill mor wresog ac mor llawn o gyssuron, ond o herwydd eu bod yn byw yn agosach at Dduw, ac yn derbyn achles oddiwrth Haul y Cyfiawnde? Pan y bydd yr haul yn y gwanwyn yn nesâu at ein parth ni o'r ddaear, fel y bydd pob peth yn ymhyfrydu yn ei ddyfodiad! Y mae'r ddaear yn glasu, a'r coedydd yn deilio, y llysiau'n adfywio, yr adar yn canu, a phob peth yn llawenhau. Pe baem ninnau yn ceisio byw yr un modd gyda Duw, a gosod ein calonnau uchod, y fath ffynnon o orfoledd a gaem ei mwynhau! Fel y byddai i ni anghofio gofidiau'r gauaf! Mor foreu y cyfodem i ganu clod ein Creawdwr mawr! O Gristionogion! ceisiwch esgyn i fynu. Dyrchefwch eich meddyliau'n aml tua'r nefoedd! Y rhai a fuont yno a'i profasant ef fwyaf gwresog; ac nid ydwyf yn ammeu nad ydwyt tithau wedi profi hynny rai troion dy hunan. Pa bryd y byddi yn cael mwyaf o gyssuron? Onid pan fyddot wedi bod yn cymdeithasu â Duw, ac yn ymddiddan a thrigolion y byd uchod, wedi canfod eu trigfannau, ac wedi llenwi dy enaid â blaen-ffrwyth y gogoniant! Os gwyddost, trwy brofiad, pa beth yw'r gwaith hwn, gallaf hefyd ddywedyd y gwyddost pa beth yw llawenydd ysprydol. Os ydyw llewyrch wynebpryd Duw (fel y mae Dafydd yn tystio) yn rhoddi mwy o lawenydd i'r galon, na phan y mae eu hŷd

a'u gwin yn amlhau; (Salm 4 : 7;) yna yn ddiau y rhai sydd yn nesâu atto fwyaf, ac yn ei weled amlaf, fyddant fwyaf cyflawn o'r cyfryw orfoledd. Ar bwy y dylem roddi'r bai, gan hynny, ein bod mor amddifad o'r cyssuron hyn, ond ar ein calonnau difraw ein hunain? Y mae Duw wedi arfaethu i ni goron y gogoniant, ac wedi addaw ei gosod ar fyrder ar ein pennau, ac ni fynnwn gymmaint a meddwl am dani. Y mae efe yn gorchymmyn i ni edrych a llawenhau, ac ni fynnwn ni gymmaint a throi ein golygon tuag atti, ac er hynny yr ydym yn cwyno o eisiau cyssuron. Trwy *credu* yr ydym yn cael ein llanw â gorfoledd a thangnefedd, ond nid dim hŵy nag y byddom yn credu. Mewn gobaith y mae'r seintiau yn gorfoleddu, ond nid dim hŵy nag y byddo'r gobaith hwn ganddynt. Y mae Yspryd Duw yn gweithredu ynom y cyssuron hyn, gan osod ein hysprydoedd ni ar waith ynghylch yr addewidion, a chyfodi ein meddyliau tua'r lle, allan o ba un y mae ein cyssuron yn tarddu. Megis y mae yn hyfrydwch mawr i ddyn ariangar gael gweled aur, felly y mae Duw yn llonni ei bobl, gan eu harwain megis i'r nefoedd, a dangos ei hunan iddynt, a'u gorphwysfa gydag ef. Ond ni fyn efe gyfranu arnom y cyfryw orfoledd tra yr ydym yn segur ac anymofyngar, neu'n gofalu mwy am ryw bethau eraill. Y mae efe yn rhoddi ffrwythau'r ddaear, pan yn aredig, yn hau, yn chwynnu, ac yn dyfrhau, ac yn gwrteithio, ac yn trin, ac yn disgwyl gydag amynedd am ei fendith ef ar y cwbl oll; yr un modd y mae efe yn cyfrannu cyssuron i'r enaid. Yr wyf yn erfyn arnat, ddarllenydd, yn enw'r Arglwydd, ac fel ag yr ydwyt yn prisio bywyd o orfoledd gwastadol, ac megis ag yr ydwyt yn gwerthfawrogi cydwybod ddirwystr, yr hon sydd wledd wastadol, i ddechreu ar y gwaith hwn yn ddioed ac o ddifrif; a dysgu'r gelfyddyd o gynnwys ynot dy hun, bob amser, *dueddfryd nefolaidd;* a thi a ganfyddi yn fuan y bydd y cynnydd ar ei ganfed, ac y bydd yr elw a'r llesâd yn talu i ti yn helaeth am dy lafur. Ac er fod pob dyn

(o'i anian) yn casâu tristwch, ac yn caru'r bywyd mwyaf llawen a hyfryd, etto y cyfryw yw cyflwr truenus dyn fel nad oes ond ychydig iawn yn caru'r ffordd i gael gwir lawenydd; ac nid ydynt yn ewyllysgar i gymmeryd cymmaint o boen ag sydd angenrheidiol tuag at ei fwynhau; ond hwy a gymmerant i fynu gyda'r peth nesaf at law, ac a ymfoddlonant ar bleserau daearol, yn hytrach nac esgyn i'r nefoedd i gael llawenydd mwy pur, hyfryd, a pharhaus; ac etto, er hyn oll, bydd yn rhaid iddynt fyned yno yn y diwedd i'w geisio, (sef wedi darfod eu pleserau daearol,) neu fod yn amddifad o hono byth.

§ 6. (4) Ceisio gosod ein calonnau yn wastadol ar bethau nefol, yw un ffordd ragorol i'n cadw rhag temtasiynau i bechu. Hyn a geidw'r galon ar waith mewn ffordd amgenach, sef yngwasanaeth Duw. Canys pan fyddom yn segur, neu'n ysmala, nyni a fyddwn yn rhoddi lle i ddiafol i'n temtio, megis y mae diogi a seguryd yn gwneuthur llawer yn lladron. Y galon sydd yn y nefoedd a ddichon atteb i'r temtiwr, megis Nehemiah gynt, *Gwaith mawr yr ydwyf fi yn ei wneuthur; o herwydd hynny ni allaf ddyfod i waered.* Neh. 6 : 3. Nid oes gan y cyfryw un ddim hamdden i fod yn anllad, yn drythyll, yn drahäus, nac yn fydol. Pe byddech bryssur yn eich galwad gyfreithlon, ni fyddech mor debyg i wrando ar demtasiynau; a llai tebygol fyth pe byddech hefyd yn esgud ac yn ddiwyd ynghylch gwaith Duw, ac felly â'ch meddyliau yn y nefoedd. A fyddai rhyw ynad yn debygol o gymmeryd ei ddenu i gyfodi oddiar ei faingc i fyned i chwareu gyda phlant yn yr heolydd, ac yntau yn nghanol rhyw *dreial* pwysfawr ar fywyd neu angeu? Felly ni fyn yr un Cristion chwaith, pan y mae efe yn meddwl am ei orphwysfa dragywyddol, mewn un modd, roddi ei glust i wrando ar swynion a hudoliaethau y diafol. Nid iawn na gweddus fod gan blant y deyrnas ddim amser i ganlyn gwagedd, yn enwedig pan y maent yn bryssur ynghylch y pethau a berthynant i deyrnas Dduw; a bod

felly, yn ddyfal ynghylch y gwaith hwn, yw un o'r moddion goreu i gadw'r sant rhag cael ei demtio gan ddiafol.

§ 7. Buchedd nefolaidd yw'r un fwyaf rhydd oddiwrth bechod, canys y mae'r enaid sydd yn byw felly yn medru amgyffred pethau ysprydol yn well ac yn fwy eglur. Y mae'r cyfryw un yn cael golwg ddyfnach a mwy atgas ar ddrygioni pechod, gwagedd y creadur, a brynti ac aflendid chwantau cnawdol, fel nad ydyw temtasiynau'n cael fawr effaith arno. *Diau,* (medd Solomon,) *gwaith ofer yw taenu rhwyd yngolwg pob perchen aden.* Diar. 1 : 17. Ac, yn gyffredin, yn ofer hefyd y bydd Satan yn gosod rhwyd i faglu yr enaid hwnnw sydd yn ei gweled yn eglur. Y ddaear yw gorsedd profedigaethau'r diafol a *phethau'r byd* yw'r abwyd; a pha fodd y bydd i'r pethau hyn rwydo'r Cristion, yr hwn sydd wedi gadael y ddaear, ac yn rhodio gyda Duw? Os ymddiddan â'r doethion yw'r ffordd i wneuthur un yn ddoeth, pa faint mwy tebygol i hynny ydyw cymdeithasu â Duw? Os bydd teithwyr yn dychwelyd adref gyda mwy o brofiad a gwybodaeth, pa faint mwy y geill yr hwn fyddo yn ymdeithio i'r nefoedd? Os bydd ein cyrph, trwy ymgynnefino, yn cael eu haddasu i wres neu oerfel y wlad lle y byddom yn trigo ynddi, y mae'n iawn i feddwl y bydd gwybodaeth y Cristion hwnnw, yr hwn sy'n aros gyda Thad y goleuni, yn oleuach. Nid rhyfedd fod deall y rhai hynny wedi ei dywyllu, a bod Satan yn eu dal yn gaethion wrth ei ewyllys, sef dynion y byd hwn, y rhai ni ddysgasant unrhyw ymddiddanion eraill ond daearol. Pa fodd y gall pryfaid a gwaddod, neu dyrchod daear, *weled,* a hwythau yn byw bob amser dan y ddaear? Felly *dynion,* tra y mae llwch y byd yn eu llygaid, nid rhyfedd eu bod yn camsynied *elw* yn lle *duwioldeb, pechod* yn lle *gras,* y *byd* yn lle Duw, a'u *hewyllys eu hunain* yn lle *cyfraith Crist,* ac, yn y diwedd, *uffern* yn lle'r *nefoedd.* Ond pan fydd y Cristion yn ei ddiddyfnu ei hun oddiwrth y byd a meddyliau bydol, ac yn dechreu mwynhau cymmundeb â Duw yn y nefoedd,

fy meddwl am y cyfryw un yw, eifod, fel Nebuchodonosor, yn cael ei gymmeryd o blith anifeiliaid y maes, a'i osod ar yr orseddfaingc, a'i reswm yn dychwelyd atto. Dan. 4 : 34. Wedi iddo gael cip-olwg o dragywyddoldeb, ac yn edrych drachefn i lawr ar y byd, fel y bydd efe yn gosod ynfydrwydd yn ei erbyn ei hun am ei anghof o Grist, ac o herwydd iddo feddwl am bleserau cnawdol, ac o achos ei ofalon daearol? Ac oni fydd yn dywedyd am chwerthin, ynfyd yw; ac am lawenydd, pa beth a wna? Preg. 2 : 2. Ac oni fydd efe y pryd hwnnw yn barod i feddwl nad oes un dyn ym *medlam*, sef tŷ y rhai gwallgofus, mor ynfyd a'r pechaduriaid gwirfoddol a rhyfygus, a'r rhai sydd mor annoeth a diystyru Crist, ac esgeuluso ymdrechu i gael mwynhau gogoniant y nefoedd! Yr olwg a'r ystyriaethau hyn sydd yn gwneuthur dyn ar ei wely angeu, yn gyffredin, yn ddoethach nac eraill, o herwydd ei fod yn gweled tragywyddoldeb yn agos, a bod ganddo feddyliau mwy syml ynghylch hynny (ac yn effeithio mwy ar ei galon) nac a fu ganddo o'r blaen yn amser ei iechyd a'i lwyddiant. Dyma'r pryd y bydd llygaid llawer o elynion mwyaf llidiog y saint yn cael eu hagor, ac, megis Balaam gynt, hwy a fyddant yn gwaeddi allan, "Marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn; a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau." Num. 23 : 10. Ond pe rhyngai bodd i'r Arglwydd ganiattau i'r dynion hyn wellhau a chyfodi, yna collent eu holl ofnau ynghylch y byd sydd ar ddyfod, a hwy a gollant yn fuan hefyd eu deall a'u gwybodaeth ynghylch pethau ysprydol! Dywedwch wrth ddyn ar drangcedigaeth am olud ac anrhydedd, a phleserau'r byd, ac onid attebai, "Pa beth yw hyn oll i mi, pa lesâd a wnant i mi, gan fod yn rhaid i mi, ar fyr dro, ymddangos o flaen Duw, a rhoddi cyfrif o'm holl fywyd?" Ystyria, O Gristion! os bydd golygon agos o dragywyddoldeb yn gweithio'r cyfryw effeithiau ar yr annuwiolion, ac yn eu gwneuthur yn ddoethach nag o'r blaen, O pa fath effeithau daionus a fyddai'n debygol o

gael eu gweithredu ar dy galon di pe gellit fyw bob amser yngolwg Duw, a'th feddyliau yn cael eu dyrchafu yn aml i fyfyrio ar dy gyflwr tragywyddol! Ac yn ddiau, dichon credadyn, yr hwn sydd yn cynnyddu yn y ffydd, gael golygon mwy eglur a deffrous o'r bywyd sydd ar ddyfod, hyd yn nod yn amser ei iechyd, nag a ddichon yr angrhedadyn yn awr angeu.

§ 8. Y mae meddylfryd nefolaidd hefyd wedi ei gadarnhau yn erbyn profedigaethau, o herwydd fod y serchiadau wedi cael eu hollol ragfeddiannu â hyfrydwch byd arall. Yr hwn sydd yn *caru* fwyaf, ac nid yr hwn sydd yn *gwybod* fwyaf, a fydd debyccaf i wrthsefyll rhuthrau a chynhyrfiadau pechod. Y mae'r ewyllys yn hoffi meluswedd daioni gymmaint ag y mae rheswm yn caru'r gwirionedd; ac yn hyn y mae llawer o gryfder neu gadernid y Cristion yn sefyll. Pan fyddi newydd gael profiad melus o'r nefoedd, nid hawdd fydd dy hudo ymaith oddiwrtho. Ni fedrwch gael gan blentyn ymadael â rhyw beth melus tra byddo'r blas ar ei enau. O na byddech yn aml yn ymborthi ar y manna cuddiedig, ac yn profi yn fynych hyfrydwch y nefoedd! Yn y fath fodd y byddai i hyn gadarnhau eich bwriadau, a gwneuthur i chwi ddiystyru gwagedd ac ynfydrwydd y byd, fel y byddai'n ddirmygus gennych gymmeryd eich hudo a'ch twyllo gyda'r fath deganau gwael! Pe buasai'r diafol yn ymosod yn erbyn Pedr ym mynydd y gweddnewidiad, pan welodd efe Moses ac Elias yn ymddiddan â Christ, a fuasai mor hawdd ei demtio i wadu ei Arglwydd? Pa beth! a'r holl ogoniant hwnnw yn ei olwg! Na fuasai yn ddiammeu. Felly hefyd, pe digwyddai iddo ymosod yn erbyn enaid crediniol pan fyddo wedi ei gymmeryd i fynu i'r mynydd gyda Christ, pa beth a ddywedai'r cyfryw enaid? "*Dos yn fy ol i, Satan;* a fynnit ti fy hudo i ymaith oddiyma gyda rhyw wael bleserau, a dwyn fy nghalon allan o'm gorphwysfa? A fynnit i mi werthu'r gorfoledd hwn am ddim? A oes unrhyw anrhydedd neu hyfrydwch cyffelyb

i hwn? ac a ddichon *hynny* fod yn elw, am ba un y byddai raid i mi ymadael â hwn?" Ond y mae Satan yn aros hyd oni ddelom i lawr, ac hyd oni byddo archwaeth y nefoedd wedi ymadael â'n geneuau, a myned o'r gogoniant a welsom i anghof, ac yna, gyda rhwyddineb, efe a dwylla ein calonnau. Ac er i'r Israeliaid sydd yn y gwastadedd, fwytta ac yfed, a chyfodi i chwareu o flaen y ddelw, etto, Moses yn y mynydd ni wna felly; canys pe gallem fyfyrio mwy ar bethau nefol, a chadw ein calonnau mewn hwyl i foli Duw, â'r fath ddiystyrwch y gwrthodem ymborthi ar sothach pechod!*

§ 9. Heblaw hyn, pan fydd y galon wedi ei gosod ar y nefoedd, y mae dyn mewn modd neillduol, dan nawdd ac ymgeledd Duw. Ac os bydd i Satan ruthro arnom yn y cyfryw amgylchiad, y mae efe wedi ymrwymo i'n hamddiffyn, a bydd yn sicr o sefyll o'n plaid; ac efe a ddywed wrthym, "*Digon i ti fy ngras i.*" Pan y byddo y dyn yn ffordd bendithion Duw, y mae mewn llai perygl o gael ei demtio i bechod. Ynghanol dy holl brofedigaethau, O ddarllenydd Cristionogol! ymarfer yn fynych â'r feddyginiaeth nerthol hon—*Ymgadw yn agos at Dduw mewn meddylfryd nefol;* canlyn dy orchwyl i fynu gyda Christ, a thi a gei brofi fod hwn yn gymmorth cadarnach nag un arall. "*Ffordd y bywyd sydd fry i'r synwyrol, i ochel uffern obry.*" Diar. 15 : 24. Cofiwch fod Noah yn wr cyfiawn a pherffaith yn ei genhedlaeth, canys efe a rodiodd gyda Duw—a dywedyd o Dduw hefyd wrth Abraham, "*Rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith.*"

§ 10. (5) Bydd cadw eich calonnau yn ddyfal yn y nefoedd yn foddion i wneuthur i'ch grasusau flaguro, ac i roddi bywyd yn eich holl ddyledswyddau. Y Cristion *nefol* a fydd hefyd yn Gristion *bywiol.* Ein dieithrwch i'r

---

* Yn y Saesneg y mae fel hyn—Canys pe medrem gadw blas y melusder sydd uchod ar ein heneidiau, gyda pha fath ddiystyrwch y *poerem allan* abwydion pechod!

nefoedd sydd yn ein gwneuthur mor oeraidd a thrymllyd. Fel y bydd y milwr yn peryglu ei fywyd, a'r morwr yn rhuthro trwy dymhestloedd a thònau, pan y byddont yn disgwyl am ryw dryssor gwael, darfodedig! Y fath fywiogrwydd a roddai hyn i ymdrechiadau'r Cristion, sef meddwl yn fynych am ei dryssor tragywyddol! Rhedeg mor araf y byddwn, ac ymdrechu mor wan, o herwydd nad ydym yn meddwl nac yn gofalu llawer am y gamp neu'r gwobr. Daliwch sylw ar y dyn sydd yn aml yn y nefoedd, a chwi a gewch weled nad ydyw ef fel Cristionogion eraill; canys bydd rhyw ychydig o'r hyn a welodd uchod yn ymddangos yn ei holl ddyledswyddau a'i ymarweddiad. Ac os gweinidog yr efengyl a fydd y cyfryw un, pa mor nefolaidd a fydd ei bregethau! neu os rhyw Gristion arall, pa mor nefolaidd fydd ei ymddiddanion, ei weddiau, a'i ymarweddiad! Ymosodwch ynghylch y gorchwyl hwn, ac eraill a welant wynebpryd eich ymddygiad yn *disgleirio*, ac a ddywedant, "Yn ddiau bu hwn gyda Duw ar y mynydd." Ond os gorwedd a wnewch mewn marweidd-dra a difräwch, gan gwyno na fedrwch garu Crist, nac ymhyfrydu yn ei gariad, ac nad oes ynoch ddim bywyd i weddio, nac i gyflawni unrhyw ddyledswydd, ac ar yr un pryd yn esgeuluso'r gwaith hwnnw ag sydd yn foddion i roddi bywyd yn eich dyledswyddau, yr ydych eich hunain yn achos o'r cyfryw achwyniad a diffyg yn eich gwasanaeth. "*Onid ydyw eich bywyd wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw?*" Col. 3 : 3. Ac i ba le arall y gelli di fyned i'w geisio ond at Grist? a pha le yw hwnnw, ond y nefoedd, lle y mae Crist? "*Ni fynnwch ddyfod at Grist, fel y caffoch fywyd.*" Ioan, 5 : 40. Os ydych yn ewyllysio gwres a goleuni, paham na fyddech fwy yngwres yr haul? Ac o eisiau'r cymmundeb hwn â'r nefoedd, y mae dy enaid megis *lamp* heb olew na goleuni, a'th ddyledswyddau megis offrwm heb dân. Cymmer bentewyn beunydd o'r allor hon, ac edrych oni wna dy fflam losgi. Goleua dy lusern wrth y fflam hon,

a meithrina hi beunydd âg olew oddiyma, a thi a gei weled y llewyrcha hi yn ogoneddus. Cadw yn agos at y tân cyssurus, adfywiol hwn, a thi a gei weled y teimli dy serchiadau yn gwresogi. Pan fyddi'n amddifad o gariad Duw, edrych gyda llygad ffydd tua'r nefoedd, a gwel ei harddwch, myfyria ar ei odidawgrwydd a'i rinweddau, ac yna ti a ganfyddi y bydd i'w gariad a'i hawddgarwch gwbl feddiannu ac ennill dy galon. Megis y mae myned allan, marchogaeth, a cherdded, neu ryw waith ysgafn, yn dwyn iechyd i'r corph, felly hefyd y mae ymarferiad o'r dyledswyddau hyn yn foddion i gynnyddu mewn gras a bywyd ysprydol. Heblaw hyn, nid tân dieithr, neu dwyllodrus, a fyddwch chwi fel hyn yn ei gyrchu o'r nefoedd at eich hoffrymmau; ond fe fydd y *zel*, neu'r awyddfryd nefol, yr hwn a gynneuir neu a ennynir trwy ein myfyrdodau duwiol, yn bur debyg o fod yn *zel* sanctaidd a nefol. Canfyddir rhai dynion yn myned yn *zelog* iawn wrth ddarllen llyfrau, rhai o achos dioddef cystudd, rhai wrth glywed y pregethwr doniol, a rhai (gweinidogion) wrth weled eu gwrandawyr yn gwrando'n awyddus; ond yr hwn sydd yn gwybod y ffordd hon i'r nefoedd, ac yn medru tynnu dwfr beunydd o ffynnon y bywyd, a ddichon felly hefyd gael diwallu ei enaid â'r dwfr bywiol hwnnw, a chael ei ddyhuddo, a'i lonni, a'i fywhau hefyd, megis ag y mae'r seintiau yn cael eu cyssuro mewn modd neillduol. Trwy'r ffydd hon y gelli offrymmu, megis Abel, aberth mwy rhagorol na dynion yn gyffredin, a chael hefyd dystiolaeth drwy hynny dy fod wedi dy gyfiawnhau, a Duw, heblaw hynny, yn dwyn tystiolaeth i'th roddion eu bod yn gywir ac yn ddidwyll. Pan fydd eraill yn barod i dorri eu hunain, megis prophwydi Baal, o herwyed na fydd eu hoffrymmau yn llosgi, ti a elli anadlu yspryd Elias, ac yngherbyd dy fyfyrdodau esgyn i fynu hyd oni byddo dy enaid a'th aberth yn fflammio yn ogoneddus, er i'r byd a'r cnawd dywallt arnynt eu holl ddyfroedd rhwystr a gelyniaeth. Na ddywed, a all marwolion esgyn

i'r nefoedd? Y mae gan ffydd esgyll, a myfyrdod yw ei cherbyd. Ffydd sydd megis gwydr-llosgi, a myfyrdod fydd yn ei ddal yn wyneb yr haul i osod dy aberth ar dân; yn unig na chymmer ef ymaith yn rhy fuan, ond dal ef yno ychydig, a'th enaid a deimla yr hyfryd effeithiau. Ddarllenydd, oni fyddi'n meddwl, pan ganfyddi ryw Gristion *zelog* a bywiog, ac yn clywed ei weddiau gwresog, cyffrous, a'i ymadroddion adeiladol, "O y fath ddyn happus ydyw hwn! O na b'ai fy enaid innau yn y cyfryw gyflwr bendigedig!" Pa beth! yr ydwyf fi yma, oddiwrth Dduw, yn dy gynghori, gosod dy enaid yn gydwybodol ynghylch y gwaith hwn, ac ymolch yn aml yn yr Iorddonen hon, a'th enaid marw, gwahan-glwyfus a adfywia, a thi a gei wybod fod Duw yn Israel, ac y gelli dithau fyw bywyd iach, blagurus a gorfoleddus, os na fydd i ti ebargofi y trugareddau a'r bendithion sydd gennyt.

§ 11. (6) Cael mynych olygon crediniol o'r gogoniant, yw'r cyssuron mwyaf gwerthfawr ymhob cystuddiau. Ac fe fydd y golygon hyn, trwy lonni ein hysprydoedd, megis diod gadarn, yn gwneuthur ein dioddefiadau yn ysgafnach, ac yn ein cymmorth i'w dwyn gydag amynedd a gorfoledd, ac yn cadarnhau ein hymröadau mewn duwioldeb, fel na byddo i ni ymadael â Christ rhag ofn dioddef yn ei achos. Er i'r ffordd fod yn arw ac yn rhwystrus, etto a oes modd iddi fod yn flinderus, yn faith, ac yn anniben, a hithau yn tywys i'r nefoedd? Pa mor hyfryd, pa mor felus, y bydd afiechyd, gwaradwydd, erlidiau, a charcharau, ïe, angeu, os byddwn yn mwynhau ynddynt y rhagbrofiadau a'r blaen-ffrwythau hyfryd hyn o'n gorphwysfa honno i ddyfod! Hyn a fydd yn sicr o rwystro'r dioddefiadau i ddyfod ar yr enaid, fel nad allant ond yn unig aflonyddu'r cnawd. Ac oni buasai'r ychydig (ïe, rhy ychydig) flas hwnw, ag oedd gennyf tuag at fy ngorphwysfa, fy nioddefiadau a fuasent yn flinderus ac yn drymion, ac angeu yn fwy dychrynadwy. Gallaf ddywedyd hefyd, "*Diffygiaswn, pe na chredaswn weled daioni'r Arglwydd*

*yn nhir y rhai byw.* Salm 27 : 13. Ac oni buasai fod yr orphwysfa honno "*yn hyfrydwch i mi, yna y darfuasai am danaf yn fy nghystudd.*" Salm 119 : 92. "*Un peth a ddeisyfiais gan yr Arglwydd, hynny a geisiaf, sef caffael trigo yn nhy'r Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei deml: canys yn y dydd blin y'm cuddia o fewn ei babell, yn nirgelfa ei babell y'm cuddia; ar graig y'm cyfyd i: ac yn awr y dyrcha efe fy mhen goruwch fy nghelynion o'm hamgylch; am hynny yr aberthaf yn ei babell ebyrth gorfoledd; canaf, ïe, canmolaf yr Arglwydd.*" Salm 26 : 4, 6. Ni wna dioddefiadau na phrofedigaethau ddim blinder i ni, tra byddom yn cael y cyssuron a'r gorfoledd hyn i'n cynnal. Pan fyddo erlidigaethau ac ofnau wedi cau'r drysau, etto Crist Iesu a ddichon ddyfod i mewn a sefyll yn y canol, a dywedyd wrth ei ddisgyblion, "*Tangnefedd i chwi.*" Paul a Silas a allant fod yn y nefoedd, hyd yn nod pan y byddont wedi eu bwrw *i'r carchar nesaf i mewn, a'u cyrph wedi eu fflangellu â gwialenodiau lawer, a'u traed wedi eu gwneuthur yn sicr yn y cyffion.* Act. 16 : 24. Y mae'r merthyron yn cael gwell gorphwysfa yn y fflammau na'u herlidwyr yn eu holl rwysg a'u mawredd, o herwydd eu bod yn rhagweled y cânt ddiangc allan o'r tân, neu'n hytrach eu dwyn mewn cerbydau o dân i'w gorphwysfa nefol. Os Mab Duw a fydd yn rhodio gyda ni, nyni a fyddwn ddihangol yn y fflammau a losgant y rhai hynny a fyddant yn ein bwrw i mewn. Abraham a aeth allan o'i wlad, heb wybod i ba le yr ydoedd yn myned, o herwydd ei fod yn disgwyl dinas ag iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw. Moses hefyd a farnodd ddirmyg Crist yn fwy golud na thrysorau'r Aipht, "*canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gwobrwy:*" ac efe a adawodd yr Aipht, "*heb ofni llid y brenhin; canys efe a ymwrolodd fel un yn gweled yr anweledig.*" Heb. 11 : 26. "*Eraill a ddirdynwyd, heb dderbyn ymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell.*" Ië'r Iesu ei hun, awdwr a pherffeithydd

ein ffydd, yr hwn o herwydd y llawenydd a osodwyd o'i flaen, a ddioddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorsedd-faingc Duw. Dyma rhagorfraint anrhydeddus ffydd; hi a fedr edrych ar y moddion a'r cyflawniad o honynt ynghyd. Dyma'r achos mawr ein bod mor fyr ein hamynedd, a'n bod yn cwyno yn erbyn Duw, ac yn gweled bai ar drefn ei ragluniaeth, sef o herwydd ein bod yn edrych yn unig ar y brofedigaeth, ac heb ystyried y diben, na chyfodi ein golygon i fynu, gan edrych tu draw i'r holl bethau hyn. Y dynion hynny, y rhai ni welsant Grist ond yn unig ar y groes neu yn y bedd, a ysgydwasant eu pennau, gan feddwl fod y cwbl wedi myned drosodd, ac yntau wedi darfod am dano: ond Duw a'i gwelodd ef, nid yn unig yn marw ac yn cael ei gladdau, ond hefyd wedi adgyfodi, ac wedi ei ogoneddu, a hyn oll ar un golwg. Ac yn hyn, ffydd hefyd a ymdrecha i ganlyn siampl Duw, ac i wneuthur yr un peth, gan gymmeryd *gwydr* yr addewidion i gynnorthwyo ei golwg. Nyni a welwn Dduw yn ein claddu megis yn y ddaear, ond nid ydym yn canfod y gwanwyn pan y bydd i ni oll adfywio ac adgyfodi. Pe gallem ganfod yn eglur y nefoedd megis diben holl ymweliadau Duw tuag attom, yn ddiau nid ymddangosai ei ymweliadau yn drymion. Pe rhyngai bodd i'r Arglwydd ein dyrchafu i'r cyfryw fywyd a hyn, sef i fod â'n hymarweddiad yngwlad y goleuni, nyni a gaem wybod, er fod y nefoedd a phechod ymhell y naill oddiwrth y llall, etto nad ydyw carchar neu alltudiaeth mor bell oddiwrth y nefoedd ag y meddylia llawer un, a bod y ffordd i'r nefoedd o fol y morfil, neu o ffau'r llewod, yn agosach nag yr ydym ni yn tybied; ac felly hefyd, yr un modd, allan o glefyd nychlyd a marwol drwy angeu poenus. Ond megis y gwelodd Abraham ddydd Crist ac a lawenychodd, felly hefyd y gallwn ninnau, yn y cyflwr mwyaf amddifad a thosturus, ganfod y dydd ymha un y bydd i Grist roddi i ni orphwysfa oddiwrth ein holl lafur, a gorfoleddu o'r achos. Yr ydwyf yn

erfyn arnat, O Gristion! er anrhydedd i'r efengyl, ac er cyssur dy enaid, na fydded i ti fod yn dysgu'r gorchwyl hwn yn dy anghenion cyfyng, pan y bydd yn fwyaf angenrheidiol i ti wrthi, ac i ymarferu â'r gyfryw gelfyddyd nefolaidd. Yr hwn sydd, gyda *Stephan*, yn gweled gogoniant Duw, a'r Iesu yn sefyll ar ddeheulaw Duw, a ymfoddlona yn ewyllysgar i dderbyn y gawod gerrig. Gorfoledd ein Harglwydd yw ein cadernid; ac y mae'n angenrheidiol i ni seinio'r gorfoledd hwn allan o drigfan neu wlad ein *gorfoledd:* ac os bydd i ni geisio cerdded heb na nerth na chadernid, pa hyd y byddwn yn debyg o barhau i fyned ymlaen ar ein taith?

§ 12. (7) Hwnnw sydd â'i ymarweddiad yn y nefoedd yw'r Cristion sydd fwyaf tebygol o fod yn fuddiol ac yn adeiladol i bawb o'i amgylch. Pan fyddo dyn mewn rhyw wlad ddieithr, pa cyn gystal ganddo gael cymdeithas rhyw un o'i gydgenedl! Pa mor ddiddan a hyfryd fydd ganddynt ymddiddan am eu gwlad eu hun, am eu cydnabod, a phethau ag sy'n perthynu i'w cartref! Gyda pha fath hyfrydwch yr oedd Joseph yn ymddiddan â'i frodyr, ac yn ymofyn am ei dad a'i frawd Benjamin! Ac onid ydyw yn waith diddan a hyfryd, yr un modd, i Gristion ymddiddan â'i frodyr sydd wedi bod uchod, ac i ymofyn am ei Dad nefol a Christ ei Arglwydd? Pan na fydd y dyn bydol yn ewyllysio siarad am ddim ond y byd, na gwr o'r llys am ddim ond pethau a berthynant i'r llywodraeth, ac felly yr ysgolhaig ynghylch dysgeidiaeth, a rhyw broffeswr ynghylch ei ddyledswyddau; ond y dyn o feddylfryd nefolaidd, sy'n hoff ganddo ymddiddan am y nefoedd, a'r gogoniant rhagorol hwnnw a welodd trwy ffydd, ac ynghylch ein cyfarfod buan a bendigedig yn y fro nefolaidd honno. O mor llesol, ac adeiladol, a buddiol, yw ei ymadroddion! Yn y fath fodd y bydd ei eiriau'n trywanu ac yn toddi'r galon, ac yn cyfnewid ei wrandawyr i fod yn ddynion eraill, sef i fod yn fwy duwiol a rhinweddol! Pa fodd y bydd ei athrawiaeth yn defnynu fel

*gwlaw, ac ymadrodd yn dyferu fel gwlith, fel gwlith-wlaw ar irwellt, ac fel cawodydd ar las-wellt,* (Deut. 22 : 2,) tra fyddo ei wefusau yn cyhoeddi enw'r Arglwydd, ac yn rhoddi mawredd i'w Dduw? Onid ydyw ei ymddiddanion ynghylch y nefoedd mor beraidd, megis y blwch hwnnw o ennaint gwerthfawr, yr hwn, wedi ei dywallt ar ben ein Hiachawdwr Crist, a lanwodd y tŷ â pheraroglau? a phawb a ddeuant yn agos a allant gael eu llonni a'u hadeiladu. Dedwydd yw y bobl, y rhai sydd ganddynt weinidog nefolaidd! Dedwydd yw y plant a'r gweinidogion y rhai sydd iddynt dad neu feistr nefolaidd! Dedwydd yw y dyn y mae iddo gyfaill nefolaidd, yr hwn a wylia drosot, ac a'th gadarnha pan yr ydwyt wan, a'th ddiddana pan y byddi'n barod i ddiffygio, ac a'th gyssura â'r cyssuron â pha rai y cafodd efe ei hun ei gyssuro gan Dduw! Dyma'r un fydd, bob amser, yn chwythu gwreichionen dy fywyd ysprydol, ac yn tynnu dy enaid at Dduw, ac a ddywed wrthyt, megis y wraig o Samaria, "*Tyred a gwel un ag a ddywedodd i mi yr hyn oll o wnaethum,*" (Ioan, 4 : 29,) un a garodd ein heneidiau hyd angeu. Onid hwn yw y Crist? Onid bywyd tragywyddol yw adnabod Duw ac yntau? Onid gogoniant ei saint yw gweled ei ogoniant ef? Deuwch i dŷ'r cyfryw un, ac eisteddwch wrth ei fwrdd, ac efe a wledda eich heneidiau â danteithion y nefoedd. Cydymdeithiwch âg ef ar y ffordd, ac efe a'ch cyfarwydda ac a'ch pryssura ar eich taith tua'r nefoedd. Dos atto i fasnachu ynghylch pethau'r byd, ac efe a'th gynghora i brynu'r *perl* gwerthfawr o uchel bris. Ac os gwnei gam â'r cyfryw un, efe a faddeu i ti, gan gofio fod Crist wedi maddeu iddo yntau ei bechodau mawrion. Os ennyna dy ddigofaint tuag atto, efe a fydd yn addfwyn, gan gofio addfwynder ei Gynlluniwr nefol. Neu, os bydd rhyw amrafael rhyngoch, efe a fydd yn barod i ymgymmodi â thi, pan y cofio y byddwch yn gyfeillion tragywyddol yn y nefoedd. Dyma'r Cristion â'r gwir nôd, ac â'r iawn *argraph,* a phawb o'i amgylch a

fyddant gwell o'i blegid. Mor anfuddiol yw cyfeillach pob math arall o Gristionogion mewn cyffelybiaeth i hwn! Pe byddai dyn wedi dyfod o'r nefoedd, pa mor chwannog y byddai pawb i glywed pa hanes a roddai efe am fyd arall, pa beth a welodd, a pha beth y mae'r rhai cyfiawn a bendigedig yn ei fwynhau yno! Oni farnent hwy mai'r dyn hwn a fyddai'r cyfaill goreu, a'i ymadroddion ef yn rhai mwyaf buddiol ac adeiladol? Paham, gan hynny, nad ydych yn gwerthfawrogi cymdeithas y seintiau yn fwy, a phaham na fyddech yn ymddiddan mwy â hwy—yn eu holi, ac yn caru eu cymdeithas yn fwy? Canys pob sant, neu ddyn duwiol, a gaiff fyned i'r nefoedd wedi angeu; ac y mae efe hefyd yno yn awr yn aml yn ei yspryd, ac hefyd wedi mynych weled y wlad hyfryd honno trwy yspienddrych yr efengyl. O'm rhan fy hun, gwell fyddai gennyf gael cymdeithas Cristion o feddylfryd nefol, na chyfeillach yr ymadroddwr a'r dadleuwr mwyaf dysgedig, neu'r tywysogion neu'r llywodraethwyr mwyaf anrhydeddus.

§ 13. (8) Nid oes un dyn yn anrhydeddu Duw cyn gymmaint a'r hwn sydd â'i ymarweddiad yn y nefoedd. Onid ydyw yn waradwydd i'r tad fod ei blant yn ymborthi ar gibau'r moch, a'u dillad yn garpiog, ac yn cymdeithasu gyda phlant drygionus a fyddant yn cardotta? Ac oni fyddwn ninnau yn dianrhydeddu ein Tad nefol, pan fyddom ni, y rhai ydym yn galw ein hunain yn blant iddo, yn ymborthi ar bethau daearol, a'n hymddygiad yr un fath a phlant y byd, a'n calonnau yn glynu yn y pridd, ac yn ymlusgo hyd y ddaear, a'n golygon i lawr, yn lle sefyll yn wastadol yngŵydd ein Tad nefol. Yn ddiau, yr ydym yn byw yn îs, ac mewn modd mwy distadl, nag y gweddai i blant y Brenhin; nid ydym yn ymddwyn chwaith yn ol uchder ein gobaith, nac yn ol yr hyn a arlwywyd gan ein Tad nefol, neu'r wledd a barottödd ef i'w saint. Da fod gennym Dad mor dosturiol, yr hwn nid yw gywilydd ganddo arddel ei blant, hyd yn nod pan

fyddont yn ymddangos yn wael ac anolygus, a'u gwisg megis yn garpiog. Ac oni buasai iddo ef yn gyntaf honi hawl ynom, a'n harddelwi fel ei eiddo, ni buasem *ni*, na neb arall, yn medru gwybod ein bod yn bobl iddo. Ond pan fydd y Cristion yn medru byw uchod, a'i enaid yn llawenychu yn mhethau anweledig, y fath fodd y bydd Duw yn cael ei anrhydeddu yn y cyfryw un! A'r Arglwydd a ddwg iddo y gyfryw dystiolaeth a hon, "Y mae y dyn hwn yn credu ynof, ac yn fy nghymmeryd ar fy ngair; y mae efe yn gorfoleddu yn fy addewidion cyn eu meddiannu; y mae yn medru bod yn ddiolchgar am yr hyn nas gwelodd erioed â llygaid ei gorph; nid yw ei orfoledd yn y cnawd, ond ei galon sydd gyda mi; y mae efe yn hoffi fy mhresennoldeb, ac efe a fydd yn sicr o gael fy mwynhau yn fy nheyrnas yn dragywydd. Gwyn eu byd y rhai nis gwelsant ac etto a gredasant. Fy anrhydeddwyr a anrhydeddaf." Y fath fodd yr oedd Duw yn ystyried ei hun yn cael ei anrhydeddu gan Caleb a Joshua, pan yr aethant i wlad yr addewid ac y dygasant yn ol i'w brodyr flaen-brawf o ffrwythau'r tir, ac a lafarasant yn dda am y wlad, ac a wnaethant y bobl yn galonnog! Pa fath addewid a thaledigaeth a dderbyniasant?

§ 14. (9) Yr enaid hwnnw, yr hwn nid yw yn gosod ei *serch ar bethau sydd uchod,* sydd yn anufuddhau gorchymmynion Duw, ac yn colli'r amlygiadau mwyaf grasol a hyfryd o'i air. Yr un Duw a orchymynodd i ti gredu a bod yn Gristion, sydd hefyd wedi gorchymyn i ti "geisio y pethau sydd uchod, lle y mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw, a gosod ein serch ar y pethau sydd uchod, ac nid ar y pethau sydd ar y ddaear." Col. 3 : 1, 2. Yr un Duw, yr hwn a waharddodd i ti ladd, lladrata, godinebu, a waharddodd hefyd i ti esgeuluso'r ddyledswydd fawr hon, ac a feiddi di anufuddhau iddo yn fwriadol? a phaham na wnei'n gydwybodol o un yn gystal a'r llall? Efe a wnaeth hynny yn ddyledswydd yn gystal ac yn foddion o gyssur i ti, fel ag y byddo i'r cyfryw gwlwm

deüblyg dy rwymo, a'th rwystro i roddi i fynu ac yn ymwadu â'th werthfawr drugareddau. Heblaw hyn, ni fyddai'r holl ddarluniadau ardderchog o'r nefoedd, yr holl ddatguddiadau o'n gwynfyd gogoneddus i ddyfod, a'r holl addewidion gwerthfawr o'r orphwysfa honno ag sydd etto yn ol i bobl Dduw, ond ofer a diles i ti, tra fyddit yn esgeuluso'r ddyledswydd hon. Onid yr addewidion hyn yw'r ser yn ffurfafen yr ysgrythyr, a'r llinellau auraidd yn llyfr Duw? Tybiwyf na ddylit roddi i fynu un o'r addewidion hyn, hyd yn nod am yr holl fyd. Megis mai perffeithrwydd ein holl drugareddau yw'r nefoedd, felly hefyd yr addewid o honi yn yr efengyl, yw bywyd neu enaid yr efengyl. A ydyw *un gair* cyssurus o enau Duw o gymmaint gwerth fel nad ydyw holl gyssuron y byd yn gydwerth iddo? Ac a ydwyt ti yn esgeuluso, ac yn edrych heibio, neu yn diystyru cynnifer o honynt? Paham y mae Duw yn datguddio cymmaint o'i gyfrinach, ac yn rhagddywedyd i ni am y gorfoledd hwnnw a gawn ei etifeddu, ond fel y byddai i ni gael gwybod hynny er ein cyssur? Oni buasai ei fod yn ewyllysio ein llenwi â hyfrydwch drwy ragweled ac ystyried ein happusrwydd sydd i ddyfod, efe a allasai gadw yn ddirgel ei fwriad i'n dwyn ni yno, ac heb egluro hynny i ni hyd oni buasem yn dyfod yno i'w fwynhau.Ië, wedi i ni ddyfod i feddiant o'n gorphwysfa, efe a allasai gelu oddiwrthym barhad, neu dragywyddoldeb ein happusrwydd, ac felly yr ofnau o golli ein dedwyddwch a fuasai yn lleihau neu yn diddymmu hyfrydwch ein gorfoledd. Ond rhyngodd bodd i'n Tad nefol egluro i ni ei gyfrinach, a gadael i ni wybod bwriad ei galon, fel y byddai ein llawenydd yn gyflawn, ac fel y byddai i ni fyw megis aerod neu etifeddion y gyfryw deyrnas. Ac a gawn ni ddiystyru ac esgeuluso yr holl ragorfreintiau hyn? A gawn ni fyw yn llawn o ofalon a gofidiau'r bywyd hwn, ac heb lawenychu dim mwy yn y datguddiadau hyn na phe buasai Duw heb erioed eu rhoddi i ni yn ysgrifenedig yn ei air? Pe buasai i ryw

frenhin anfon i ti yr arglwyddiaeth ar ryw wlad, a'i sêl ei hun wrth yr ysgrifen, pa cyn amled y buasit yn edrych drosto, ac yn ei astudio, ac yn myfyrio arno gyda hyfrydwch, hyd onis cawsit ddyfod i feddiant o'r llywodraeth! Ac a ydyw wedi *selio patent*, neu rad-rodd i ti, o'r nefoedd, ac a ydwyt ti yn gadael iddo orwedd yn dy ymyl heb edrych unwaith drosto, fel pe buasit wedi ei anghofio? O na byddai ein calonnau cyn uched a'n gobaith, a'n gobaith mor uchel a'r addewidion nefol hyn!

§ 15. (10) Nid ydyw ond cyfiawn ac uniawn fod ein calonnau ni wedi eu gosod ar Dduw, pan y mae ei galon ef arnom ni. Canys os rhyngodd bodd i Arglwydd y gogoniant ymostwng mor isel a gosod ei galon ar lwch pechadurus, tybiaf y dylem ninnau gymmeryd ein perswadio'n hawdd i osod ein calonnau ar Grist a gogoniant, ac esgyn yn ein serchiadau beunyddiol atto ef, yr hwn sy'n ymddarostwng cyn gymmaint tuag attom ni. O Gristion! onid ydwyt yn gweled fod calon Crist wedi ei gosod arnat ti, a'i fod yn gofalu am danat gyda thyner gariad, hyd yn nod pan fyddi di yn dy anghofio dy hun ac yntau hefyd? Onid ydyw efe yn dy ddilyn â bendithion beunyddiol, yn ymsymmud ar dy enaid, yn darparu pethau angenrheidiol tuag at gynhaliaeth dy gorph, ac yn gofalu am bob un o'r ddau? Onid ydyw efe yn dy gynnal bob amser yn mreichiau ei gariad, ac wedi addaw y bydd i bob peth gydweithio er daioni i ti? Oni fydd efe yn golygu dy lesâd a'th ddaioni yn ei holl ymweliadau, ac yn rhoddi gorchymyn i'w angelion am danat? Ac a elli di fod mor bryssur ynghylch y digrifwch sydd isod, fel ag yr ydwyt yn anghofio dy Arglwydd, yr hwn nid yw yn dy anghofio di? Angharedig anniolchgarwch! Pan y mae efe yn llafaru am ei garedigrwydd, gwrando yr hyn y mae efe yn ei ddywedyd, "Dywedodd Sion, yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd. A anghofia gwraig ei phlentyn sugno, fel na thosturio wrth fab ei chroth? Ië, hwy a allant anghofio

etto myfi nid anghofiaf di. Wele, ar gledr fy nwylaw y'th argrephais; dy furiau sydd ger fy mron bob amser." Esay, 49 : 14, 15. Ond pan y mae efe yn son am ein hymddygiad ni tuag atto ef, y mae'r hanes fel arall, "A anghofia morwyn ei hardd-wisg, neu y briod-ferch ei thlysau? etto fy mhobl a'm hanghofiasant i ddyddiau aneirif." Jer. 2 : 32. Fel pe dywedasai, "Chwi a gofiwch bob boreu, pan gyfodoch, i guddio eich noethni, a dilladu eich hunain, ac nid anghofiwch eich gwisgoedd gwychion, ac a ydyw'r pethau hyn yn fwy gwerthfawr yn eich golwg nâ Duw? ac a ydynt yn fwy pwysfawr na bywyd tragywyddol? Nac ydynt yn ddiammeu. Etto yr ydych mor annoeth ag esgeuluso y rhai hyn o ddydd i ddydd." Na roddwch, gan hynny, achos i Dduw ymresymmu fel hyn â chwi; yn hytrach gadewch i'n heneidiau esgyn at Dduw, ac ymweled âg ef bob boreu, a gadewch i'n calonnau fod yn tueddu tuag atto bob munud.

§ 16. (11) Ac oni ddylai y rhan sydd gennym yn y nefoedd, a'r berthynas agos sydd i ni yno, gadw ein calonau yno bob amser? Yno y mae ein Tad nefol yn cadw llys ei ogoniant. Ac yr ydym ni yn ei alw (pan weddiom) "Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd," &c. Och, blant annheilwng! yr ydym mor bryssur ynghylch rhyw wagedd a choeg-ddigrifwch, fel yr ydym yn anghofio y cyfryw Dad trugarog. Yno hefyd y mae Crist ein Pen, ein Priod, a'n Brawd; ac oni chawn ni edrych tuag atto, ac anfon cennadwri atto, cyn amled ag y gallom, hyd onis caffom ei weled wyneb yn wyneb? A chan fod yn rhaid i'r "nefoedd ei dderbyn hyd amseroedd adferiad pob peth," gadewch iddynt hefyd gael derbyn a chadw ein calonnau gydag ef. "Yno hefyd y mae'r Jerusalem newydd, yr hon yw ein mam ni oll;" (Gal. 4 : 26;) ac yno hefyd y mae lluoedd o'n brodyr hynaf; yno y mae ein cyfeillion a'n cydnabod, cymdeithas pa rai, yn y cnawd, yr oeddem yn ei mawr hoffi a'i chwennychu, ac yn galaru o herwydd eu hymadawiad; ac onid oes dim tynniad i'th

feddyliau tua'r nefoedd yn yr ystyriaethau hyn? Pe buasent o fewn cyrhaedd i ti ar y ddaear, tydi a fuasit yn ymweled â hwynt, a phaham na bait yn ymweled â hwynt yn amlach yn dy yspryd, a gorfoleddu ymlaenllaw wrth feddwl y bydd i ti gael eu cyfarfod yno? Yr oedd *Socrates*, un o'r philosophyddion paganaidd, yn mawr chwennych marw, o herwydd ei fod yn credu y cai efe weled *Homer a Hesiod;* a dysgedigion clodfawr eraill. A pha faint mwy yr ydwyf fi yn gorfoleddu (ebe rhyw hen weinidog duwiol) pan yr ydwyf sicr y caf weled Crist fy Ngwaredwr, tragywyddol Fab Duw, fel ag yr ymddangosodd yma yn y byd,* heblaw aneirif lu o batriarchiaid, prophwydi ac apostolion doethion a sanctaidd. Felly hefyd y dylai pob credadyn edrych tua'r nefoedd yn yr un modd, ac ystyried cyflwr gwynfydedig y saint, a meddwl ynddo ei hun fel hyn, "Er nad ydwyf fi hyd yn hyn mor ddedwydd a bod gyda chwi, etto hyn yw fy nghysur beunyddiol, chwi yw fy mrodyr a'm cyd-aelodau yn Nghrist; a chan hynny eich llawenydd chwi yw fy llawenydd innau, a'ch gogoniant chwi (trwy'r berthynas agos yma) yw fy ngogoniant innau; yn enwedig gan fy mod yn credu yn yr un Crist, ac yn cynnal yr un ffydd a'r un ufudd-dod, trwy ba rai y'ch tra gogoneddwyd chwithau fel hyn; a chan fy mod yn cydorfoleddu â chwi yn yr yspryd, ac yn cydnabod eich happusrwydd bob dydd gyda diolchgarwch yn fy myfyrdodau."

§ 17. Heblaw hyn, ein tŷ a'n cartref sydd uchod. "Canys ni a wyddom, os ein daearol dŷ o'r babell hon a ddattodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o weith llaw, tragywyddol yn y nefoedd." 2 Cor. 5 : 1. Paham gan hynny na byddem yn edrych yn amlach tuag atto, gan ddwys ocheneidio, a deisyfu cael ein harwisgo â'n tŷ sydd yn y nef. Pe byddai ein cartref lawer gwaelach nag ydyw, yn ddiau ni a ddylem gofio am dano, o her-

* Yn y Saesneg fel hyn, "Yn y wisg o gnawd a gymmerodd."

wydd mai hwnnw yw ein cartref. Pe byddai i chwi gael eich halltudio i ryw wlad ddieithr, pa mor aml y byddai eich meddyliau gartref! a phaham nad ydyw felly gyda ni mewn perthynas i'r nefoedd? Onid ydyw'r fan honno, lle yr ydym yn gobeithio cael aros i bob tragywyddoldeb, yn fwy haeddiannol o'r enw *cartref* nâ'r byd hwn, allan o ba un yr ydym bob awr yn disgwyl cael ein galw, ac i'r hwn ni ddychwelwn, ac ni chawn ei weled byth mwyach. Dieithriaid ydym ni oll yma ar y ddaear, ac yn y nefoedd y mae ein cartref. Etifeddion ydym ni, ac yno y mae ein hetifeddiaeth, sef yr "etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflannedig, sydd ynghadw yn y nefoedd i ni." 1 Pedr, 1 : 4. Yr ydym yma bob amser mewn trallodion ac mewn eisiau; ac yno y mae ein golud, sef "golud gwell, ac un parhaus." Heb. 10 : 34. Ië, holl obaith ein heneidiau sydd yno; ein holl obaith o waredigaeth allan o'n trallodion, a'n holl obaith o happusrwydd; canys yma yr ydym yn llawn o helbul, a'r holl "obaith hwn a roddwyd i'w gadw i ni yn y nefoedd." Col. 1 : 5. A phaham, Gristionogion anwyl, gan fod i ni gymmaint perthynas yno, na byddai ein meddyliau hefyd yno yn amlach? A oes i ni yno berthynasau mor agos, a'n cariad ninnau cyn lleied tuag at y lle? A ydyw yn weddus i ni gymmeryd cymmaint digrifwch a hyfrydwch ynghwmpeini dieithriaid, fel ag yr ydym yn anghofio ein Tad a'n Harglwydd? neu i hoffi y rhai hynny ag sydd yn ein casâu, ac yn ein gofidio, ac anghofio ein cyfeillion agosaf ac anwylaf? neu garu rhyw deganau benthyg, ac anghofio ein golud, a'n tryssor, a'n hetifeddiaeth? neu i fod â'n meddyliau gymmaint ynghylch ein hangenrheidiau a'n dagrau, neu'r hyn ag sy'n peri tristwch i ni yn y byd hwn, fel ag yr ydym yn anghofio ein gorfoledd a'n gorphwysfa dragywyddol? Y mae'r Arglwydd yn gweled yn dda, yn ei air, son am ei bobl megis ei eiddo, ei feddiant, neu'r hyn a bwrcasodd efe; ac o herwydd hynny y mae efe mor hawddgar ag addaw gwneuthur iddynt ddaioni, sef o herwydd eu bod

hwy yn bobl iddo ef, y rhai a alwodd, neu a etholodd efe allan o'r byd. A phaham, gan hynny, os ydym ni'n wir Gristionogion, na baem ninnau yn *pleidio* ein hawl, neu ein rhan ynddo yntau, ac felly yn dyrchafu ein calonnau tua'r nefoedd, o herwydd mai yno y mae ein meddiannau, ac mai efe yw ein Duw? Y mae dynion, yn gyffredin, yn caru eu heiddo a'u meddiannau eu hunain yn ormodol, yn gosod mawr werth arnynt, ac yn cymmeryd gormod gofal am danynt. O na byddem ninnau mor ofalus am ein hetifeddiaeth, ac yn ei phrisio mor fawr ag y mae yn haeddu!

§ 18. (12) Unwaith etto, ystyriwch nad oes dim yn werth i ni osod ein calonnau arno ond y nefoedd. Ac os na roddwch eich calonnau i Dduw, i bwy y rhoddwch hwynt? Ac os na fydd i chwi ofalu am eich gorphwysfa, am ba beth y gofelwch? A ydych chwi wedi cael allan ryw dduw arall? neu ryw beth a wna'r tro, neu a wasanaetha yn lle'r orphwysfa? A ydwyt ti wedi cael allan happusrwydd, neu ddedwyddwch parhaus a thragywyddol, yma ar y ddaear? Ymha le y mae? O ba beth y'i gwnaethpwyd? Pwy oedd y dyn a gafodd y cyfryw dryssor? Pwy oedd yr hwn a'i mwynhaodd ddiweddaf? Ymha le yr oedd efe yn byw? Pa beth oedd ei enw? Neu, ai tydi oedd y cyntaf un erioed ag a gafodd hyd i'r nefoedd ar y ddaear? Oh ddyn truenus! nac ymddiried i'th gaffaeliad; nac ymffrostia yn y tryssor yr ydwyt yn tybied dy fod wedi ei gael allan, hyd oni byddi wedi cael iawn brofiad o hono; nac ymflina dy hun yn chwilio am yr hyn nid yw i'w gael ar y ddaear, rhag i ti ddinystrio dy enaid wrth geisio'r peth nid yw bossibl ei gael yn y byd hwn; ond yn hytrach bydded i ti ddysgu doethineb, heb gymmeryd y cyfryw boen afreidiol, a chred yr hyn sydd ysgrifenedig yngair Duw, lle yr ydwyt yn cael rhybuddion eglur, fod miloedd o eneidiau wedi eu colli wrth geisio happusrwydd lle nid yw i'w gael, sef yn y byd hwn yn lle yn Nuw. Pe byddai i Satan dy gymmeryd i fynu

i ben mynydd profedigaeth, a dangos i ti holl deyrnasoedd y byd a'u gogoniant, ni fedrai efe ddangos dim i ti yn haeddiannol o'th feddyliau chwaethach rhyw beth a dalai i'w ddewis o flaen dy orphwysfa. Yn wir, cyn belled ag y mae dyledswydd ac angenrheidrwydd yn gofyn, rhaid i ni ymfoddloni i ofalu am y pethau sydd isod; ond pwy, neu pa le y mae'r dyn hwnnw, sydd yn cynnwys ei hun tu fewn i'r terfynau hyn? Ië, er i ni fod yn ofalus i leihau ein gofalon, ac i gadw cadwraeth ar ein meddyliau, etto ceir gweled y rhan leiaf o'r gofalon hyn yn chwerwon, a mesur bychan yn drwm ac yn flinderog. Gristionogion, gwelwch wagedd pob peth dan haul, ac mor werthfawr yw'r pethau sydd uchod. Pe b'ai dy feddyliau, megis y wenhynen ddiwyd, yn crwydro dros holl gyrrau'r byd, o un blodeuyn at flodeuyn arall, ac o un creadur at greadur arall, ni fedrent hwy ddwyn dim mêl na melusder adref, ond cymmaint ag a allent gael oddiwrth eu perthynas i dragywyddoldeb. Er bod pob gwirionedd ag sy'n gynnwysedig yngair Duw yn werthfawr, ac yn ddyledus arnom ei amddiffyn, etto nyni a ddylem wneuthur hynny gyda golwg ar ein gorphwysfa, canys y mae'r hyn a nodir gan lawer yn rhy wir, sef "nad oes gan y dynion hynny ag sy'n hoffi dadleuon ynghylch crefydd, un wreichionen o gariad Duw yn eu calonnau." Ac mewn perthynas i'r llywodraeth mewn gwlad ac eglwys, nid ydyw'r pethau tymhorol hyn yn haeddiannol ofal y Cristion ddim pellach nag y maent yn amlygu rhagluniaeth Duw ynghylch llwyddiant yr efengyl, a theyrnas neu lywodraeth Crist ar y ddaear, ac felly yn offerynol ac yn foddion i achub ein heneidiau ein hunain, a'r genhedlaeth a ddel ar ein hol; felly nid oes i ni a wnelom â'r pethau tymhorol hyn, ond fel ag y maent yn perthyn i dragywyddoldeb. Ac felly hefyd ein holl fasnach â'r byd, megis prynu a gwerthu, rhyfel a heddwch, adeiladu, priodi, bwytta ac yfed, nid ydynt yn haeddiannol o feddyliau na sylw y Cristion, fel ag y maent yn tueddu i borthi'r cnawd, ond yn unig fel

ag y maent yn foddion i hwylio ymlaen lwyddiant yr efengyl ac iachawdwriaeth eneidiau. Ac bellach, onid ydyw dy gydwybod yn tystio nad oes dim ond y nefoedd, a'r ffordd i'w chyrhaeddyd, yn werth dy ofal, neu yn deilwng o'th feddyliau?

§ 19. Yn awr, Gristion anwyl, a ydyw'r rhai hyn yn ystyriaethau pwysfawr ai nid ydynt? A ydwyf fi wedi dangos a phrofi mai dy ddyledswydd yw gosod dy galon ar y pethau sydd uchod ai nid ydwyf? Os attebi, Nad ydwyf, y mae'n ddir gennyf dy fod yn gwrthddywedyd dy gydwybod. Ar y llaw arall, os cyfaddefi dy fod yn cydnabod yr angenrheidrwydd o wneuthur hynny, yna dy dafod dy hun, a'th gyfaddefiad dy hun, a fyddant dystion yn dy erbyn, a thi a fernir yn euog o esgeuluso yr hyn y cyfaddefaist ei bod yn ddyledswydd mor anghenreidiol. Ond os ydwyt wir ewyllysgar, y mae 'r gorchwyl wedi mwy na hanner ei gyflawni. Y mae genyf yn awr ryw ychydig o gyfarwyddiadau i'th gynnorthwyo i gyflawni y gwaith mawr a thra anghenreidiol; ond, ysywaeth, nid yw ond ofer i mi eu henwi onid ydwyt yn ewyllysgar i'w cyflawni. Pa un bynnag, myfi a'u rhoddaf i lawr o'th flaen, a'r Arglwydd a ostyngo dy galon i ymosod yn nghylch y gwaith.

# PENNOD XII.

## CYFARWYDDIADAU I ARWAIN BYWYD NEFOL AR Y DDAEAR.

§ 1. (I.) Rhaid gochel pob rhwystrau i hynny; megis, § 2. (1) Byw mewn unrhyw bechod adnabyddus; § 3. (2) Meddyliau daearol; § 4. (3) Cyfeillion annuwiol; § 5. (4) Crefydd y pen, yr hon sydd yn sefyll yn ein barn a'n mympwy, a'n dychymmygion ni ein hunain; § 6. (5) Yspryd balch, uchel; § 7. (6) Yspryd syrthlyd, difraw; § 8. (7) Ymorphwys mewn rhyw ymbarottoad tuag at fuchedd nefol, ac heb gyrhaedd y cyfryw fywyd. § 9. (II.) Y dyledswyddau cynnorthwyol i fuchedd nefol ydyw y rhai canlynol: § 10. (1) Ceisiwch goelio a chredu, yn ddiamheuol, mai'r nefoedd yw'r unig dryssor a'r unig happusrwydd; § 11, 12. (2) Ymdrechwch am gael adnabyddiaeth o'ch rhan ynddi, a'ch hawl iddi; 13. (3) Ac mor agos y mae; § 14. (4) Ymddiddanwch ynghylch eich gorphwysfa nefol honno yn aml ac yn ddifrifol; § 15. (5) Ymegniwch, ymhob dyledswydd, i godi eich serchiadau yn fwy agos atti; § 16. (6) Ac i'r diben hyn, defnyddiwch bob gwrthddrych, a phob damweiniau; § 17, 18. (7) Byddwch yn fynych yn y gwaith angelaidd o glodfori Duw; § 19. (8) Meddiennwch eich heneidiau â meddyliau crediniol am anfeidrol gariad Duw; § 20. (9) Ymwrandewch a daliwch sylw ar gynhyrfiadau Yspryd Duw, ac annogwch a maethwch hwynt o'ch mewn; § 21. (10) Nac esgeuluswch arfer pob moddion angenrheidiol i feithrin a chynnal iechyd y corph.

§ 1. Os ydwyt yn gwybod ac yn medru iawn werthfawrogi'r cyssuron ag sy'n deilliaw oddiwrth gymdeithas nefol ac ymddiddanion duwiol, yr ydwyf yn gorchymyn i ti, oddiwrth Dduw, ochel yn ofalus lawer o rwystrau peryglus, ac yn ganlynol, ymarfer, mewn modd diwyd a ffyddlon, â'r cyfryw ddyledswyddau ag a fyddant yn debygol, yn fwyaf enwedigol, i'th gynnorthwyo i arwain buchedd dduwiol. Ac yn (I.) y rhwystrau i'w gochel, gyda'r gofal mwyaf, ydyw y rhai canlynol: sef byw mewn unrhyw bechod adnabyddus—meddylfryd daearol—cym-

deithion annuwiol—crefydd ddychymmygol—yspryd balch, uchel, hunanol—yspryd diofal, difraw—ac ymorphwys mewn darpariadau tuag at y cyfryw fuchedd nefol, heb wybod dim yn brofiadol am y cyfryw fywyd.

§ 2. (1) Byw mewn unrhyw bechod adnabyddus, sydd un rhwystr mawr i ymarweddiad nefol. Pa fath ddifrod ac anrhaith a wna hyn yn dy enaid! O y llawenydd y mae hyn wedi ei ddinystrio! O pa fath golled a wnaeth ar rasusau dynion! y dyledswyddau (enaid-gynnorthwyol) a rwystrodd! Ddarllenydd Cristionogol, a ydwyt ti yn un ag sydd wedi gwneuthur cam â'th gydwybod? A ydwyt ti yn un ag sydd yn esgeuluso'n fwriadol unrhyw ddyledswydd gyhoeddus, deuluaidd, neu ddirgel? A ydwyt ti yn gaethwas i'th chwantau cnawdol a phechadurus, neu a ydwyt yn gwneuthur duw o'th fol? Neu a ydwyt ti, mewn balchder, yn golygu dy anrhydedd dy hun? Neu a ydwyt ti yn ddyn poethwyllt, llidiog, diamynedd ac annioddefgar, yn barod i ddigio a gwylltio ar y gair, neu'r edrychaid, neu'r trosedd lleiaf yn dy erbyn? A ydwyt ti yn un ag a fydd yn arferol o dwyllo dynion yn dy fasnach a'th fargeinion, neu yn chwennych ymgyfoethogi, cam neu cymmwys? Os ydwyt yn gyfryw un a hyn, gallaf ddywedyd yn hyf bod y nefoedd a'th enaid di yn ddieithriaid mawr i'w gilydd. Canys nis gelli edrych tua'r nefoedd tra y mae'r cyfryw drawst yn dy lygad, a'r pethau hyn oll a fyddant megis cwmmwl rhyngot a Duw. Canys pan fyddi yn ceisio meddwl am dragywyddoldeb, a myfyrio ar y pethau sydd uchod, ac yn chwennych cael rhyw gyssuron oddiwrth y bywyd sydd ar ddyfod, yna dy bechod a fydd barod i edrych yn dy wyneb, a dywedyd wrthyt, "Nid yw'r pethau hyn yn perthyn dim i ti. Pa fodd y gelli di ddisgwyl cael cyssur o'r nefoedd, yr hwn wyt yn ymhyfrydu cymmaint yn chwantau'r cnawd?" Ymha fath fodd y bydd i'r ystyriaeth hon oeri dy lawenydd, a gwneuthur i'r meddyliau yn nghylch y dydd, a'r cyflwr bendigedig hwnnw, fod yn

boen ac yn flinder yn lle bod yn gyssur i ti! Ac fe fydd pob pechod bwriadol a gwirfoddol yn cael yr un effaith ar dy gyssuron ag a fydd y dwfr yn gael ar y tân; pan fyddi yn meddwl am eu hadnewyddu a'u bywiogi, hyn a fydd yn eu diffoddi. Y cyfryw bechod a'th wna mor anaddas, ac mor analluog i esgyn i fynu mewn myfyrdod i'r nefoedd, ag ydyw aderyn i ehedeg wedi torri ei esgyll. Y mae pechod yn torri grym a gewyn bywyd nefolaidd. O ddyn, pa fath fywyd hyfryd yr ydwyt yn ei golli! Pa fath ddigrifwch a hyfrydwch beunyddiol yr ydwyt yn eu gwerthu am un trachwant aflan! Os gall nefoedd ac uffern gydgyfarfod, a Duw fod yn garwr pechod, yna y bydd rhyddid i tithau fyw yn dy bechod, a chael, ar yr un pryd, flaen-brawf o'r gogoniant, a bod â'th ymarweddiad yn y nefoedd, er dy fod yn cynnwys dy hun mewn aflendid. Cymmer ofal, gan hynny, rhag i'th bechod mynwesol dy gau di allan o'r nefoedd, megis ag y mae yn rhwystro dy galon i esgyn yno. Neu os ydwyt, hyd yn hyn, yn ddieuog, ac na wyddost am yr un hoff bechod ag sy'n llywodraethu arnat, etto meddwl am y canlyniadau galarus pe digwyddai i'r cyfryw aflwydd nychu dy enaid. Bydd wyliadwrus, gan hynny, a gwna lwyr benderfyniad ynot dy hun, (trwy gymmorth gras Duw,) ymgadw, o hyn allan, rhag pob profedigaeth i bechod. Pa mor angenrheidiol yw i ni weddio beunydd, *Nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg!*

§ 3. (2) Mae yn angenrheidiol hefyd gochelyd meddylfryd daearol, yr hwn sydd rwystr mawr arall. Nis dichon Duw a mamon, daear a nefoedd, gydfeddiannu dy galon. Pan y bydd y credadyn nefol yn ymfendithio ei hun yn ei Dduw, ac yn gorfoleddu yn y gobaith o'r gogoniant sydd i ddyfod, fe allai dy fod di yn ymfendithio dy hun yn dy lwyddiant bydol, ac yn llawenychu yn y gobaith o ffynnu yma ar y ddaear, ac ymgyfoethogi yn nâ y byd hwn. Pan y mae efe yn cyssuro ei enaid â golygon o Grist, ac angelion a seintiau, gyda'r rhai y bydd efe

byw yn dragywydd, dyna'r pryd y byddi dithau yn ymhyfrydu yn dy olud, yn edrych dros gyfrifon dy ysgrifenrwymau (*bonds,*) dy ysgrifen-weithredoedd, ac yn golygu byth feddiannau, da ddy bydol, dy wartheg a'th ddefaid, dy dai a'th diroedd, a'th adeiladau mawrion; ac yn meddwl am ffafr ac ewyllys da'r pennaethiaid, a'r mwyniant o feddiannu tiroedd lawer, a chasglu cynnysgaeth i'th blant ar dy ol, a'u cynnydd yn y byd, a lliosogrwydd dy ddeiliaid. Ac os ydyw Crist Iesu wedi mynegu i ni, mai *ynfyd* oedd y dyn hwnnw, yr hwn a ddywedodd wrth ei enaid, "Gorphwys, bwytta, ŷf a bydd lawen; y mae gennyt dda lawer ynghadw dros lawer o flynyddoedd;" pa faint mwy ynfyd ydwyt ti yr hwn yn fwriadol wyt yn llafaru'r un geiriau yn dy galon? Dywed i mi pa wahaniaeth sydd rhwng ymadroddion yr ynfyd hwnnw a'th feddyliau a'th serchiadau di? Cofia mai Chwiliwr y calonnau yw'r hwn sydd a wnelit âg ef. Yn ddiau, cyn gymmaint yr wyt ti yn ymhyfrydu, ac yn cymmeryd i fynu dy orphwysfa ar y ddaear, y mae dy gyssur a'th lawenydd yn Nuw o gymmaint a hynny yn llai. Dichon dy feddylfryd daearol gydsefyll â'th ddyledswyddau cyffredin a'th broffes allanol, ond nis gall mewn un modd gydsefyll â'r ddyledswydd nefol hon, o *osod dy serch ar y pethau sydd uchod.* Gwybod yr ydwyt yn dda pa mor anaml, pa mor oeraidd, ansefydlog, dirgelaidd a neillduol y mae dy feddyliau wedi bod ynghylch y gorfoledd sydd uchod, er, pan ddechreuaist fasnachu, mor awyddus am bethau'r byd hwn! O ynfydrwydd melldigedig! Y mae llawer ag sy'n cymmeryd arnynt fod yn grefyddol wedi dyrysu mewn cynnifer o ofalon a thrafferthion, ac wedi llwytho eu hunain â chynnifer o orchwylion, fel ag y maent mor anaddas i fwynhau cymmundeb â Duw, ac mor analluog i esgyn mewn myfyrdod tua'r nefoedd, ag ydyw i ddyn a mynydd ar ei gefn gerdded. Ac wedi iddynt golli'r cyfryw nefoedd ar y ddaear, yr hon a allasent ei mwynhau trwy gynnwys meddylfryd nefolaidd, yna y maent yn dechreu ceisio

profi (er na fedrant gyda rhyw ychydig resymmau gweiniaid) fod y cyfryw ymddygiad yn iawn ac yn gyfreithlawn; ac, ar y llaw arall, nad oes modd cyrhaedd i'r cyfryw radd o nefol fyfyrdod. Yr ydwyf yn dy gynghori di, O Gristion, yr hwn wyt wedi profi mawr hyfrydwch buchedd nefolaidd, fel ag yr ewyllysit brofi o'r cyfryw ddiddanwch drachefn, gochel y llyngclyn hwn o feddylfryd daearol. Canys os unwaith y caniattei i'r cyfryw feddylfryd neu fwriad ddyfod i'th feddwl, sef ceisio ymgyfoethogi deued a ddel, yn ddiau y syrthi (fel ag y mae'r apostol yn dywedyd) i *brofedigaeth, a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol.* 1 Tim. 6 : 9. Cadw gan hynny y pethau bydol hyn yn rhydd o'th gwmpas megis dy wisg uchaf, fel y gelli eu rhoddi heibio pryd y mynech, ond gâd i Dduw a gogoniant fod yn nesaf at dy galon. Cofia hefyd, yn wastadol, *fod cyfeillach y byd yn elyniaeth i Dduw. Pwy bynnag gan hynny a ewyllysio fod yn gyfaill i'r byd, y mae yn elyn i Dduw.* Iago, 4 : 4. *Na cherwch y byd, na'r pethau sydd yn y byd. O char neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef.* 1 Ioan, 2 : 15. Mae hyn yn hyspysiad digon eglur, a dedwydd yw'r hwn a'i derbynio'n ffyddlon!

§ 4. (3) Ymgadw rhag cyfeillach y rhai annuwiol. Ond nid ewyllysiwn chwaith dy luddais rhag ymddiddan â hwynt ynghylch pethau angenrheidiol, neu rhag gwneuthur iddynt unrhyw gymmwynas o gariad, ac yn enwedig ni fynnwn i ti ymattal rhag eu cynghori, a bod o ryw lesâd i'w heneidiau, tra y byddi yn cael cyfleusdra, a thra y byddo gennyt obaith o wneuthur iddynt ddaioni. Ac nid ewyllysiwn chwaith i ti, mewn modd yn y byd, eu galw yn *gŵn* ac yn *fôch* i'r diben o'th arbed dy hun rhag y ddyledswydd o'u cynghori, nac yn y mesur lleiaf eu barnu felly tra y gweli ryw obaith o'u diwygaid; llai o lawer y gallaf gymmeradwyo ymddygiad y rhai hynny a fyddant yn galw dynion yn *gwn* ac yn fôch, cyn iddynt erioed gynnyg eu rhybuddio a'u cynghori yn gyntaf mewn modd ffyddlon a charedig, neu, efallai, cyn iddynt erioed eu

hadnabod na siarad â hwy. Ond yr hyn yr ydwyf yn ei feddwl ydyw hyn, sef rhoi cynghor i beidio ymgyfeillachu â dynion annuwiol heb fod rhyw achos yn gofyn hynny, a rhag cymdeithasu gormod â phobl segur, di-ddaioni, y rhai ni fydd eu hymddiddanion ond ofer a diles, a'r rhai (yn ol pob tebygolrwydd) nid ydynt nac yn ofni Duw nac yn cilio oddiwrth ddrygoni. Y mae'n angenrheidiol iawn i bob dyn sobr, syml, a duwiol, ymgadw rhag cyfeillach pechaduriaid cyhoeddus, megis y tyngwr, a'r rhegwr, a'r meddwyn, yr aflan a'r godinebus, a phob un ag sy'n elyniaethol i wir gerfydd a duwioldeb; ac nid rhag y cyfryw yn unig, ond dymunol iawn a fyddai iddynt hefyd beidio ymgymdeithasu llawer â'r cyfryw ag a elwir yn ddynion moesol, ond etto o ymddiddanion gwag, ofer, bydol, ac anfuddiol, y rhai a fyddant yn debygol iawn o fod yn foddion i'w rhwystro rhag gosod eu serch ar bethau nefol a thragywyddol. Canys yr ydym ni, o honom ein hunain, yn ddigon hwyrfrydig ac anewyllysgar i feddwl am fyd arall, ac i fod â'n hymarweddiad yn y nefoedd, fel ag yr ydym yn gofyn pob cynnorthwyon a phob annogaeth i wneuthur hynny. Nid yw calon dyn, wrth naturiaeth, yn fwy parod nac addas i esgyn tua'r nefoedd nag ydyw carreg neu dywarchen i godi ac i ehedeg i'r awyr. Ac y mae yn agos mor hawdd cadw ein hysprydoedd rhag ymddyrchafu at ein gorphwysfa ag ydyw rhwystro'r creigiau rhag symmud o'u lle; gan hynny, y mae, nid yn unig yn angenrheidiol i ni weddio ar yr Arglywdd am gymmorth ei Lân Yspryd, ond hefyd arfer pob moddion tuag at hynny, yn enwedig cymdeithas y gwir dduwiolion. O meddyliwch am hyn gan hynny wrth ddewis eich cyfeillion! Ond pe byddai modd i chwi ddwyn eich hysprydoedd i'r cyfryw dymher a thueddiad nefolaidd, fel y byddent yn barod bob amser, megis fflam dân, i esgyn i fynu; yna yn wir ni byddai cymmaint angenrheidrwydd arfer cynnorthwyon, a bod yn ddichlyn ac yn ofalus yn newisiad eich cymdeithion; ond gan mai peth ammhossibl i chwi yw

gwneuthur hyn, cynghoraf chwi i ochelyd cwmpeini'r rhai annuwiol os ydych yn ewyllysio meithrin a choledd tueddfryd nefolaidd. A ddichon siarad ynghylch prisiau pethau yn y farchnad, neu'r tywydd, neu ryw newyddion gwag, fod o ryw fudd neu lesâd i'ch hwylio ymlaen mewn buchedd dduwiol? Canys hyn, neu'r cyffelyb, yw ymddiddanion dynion o feddylfryd daearol; ac, ysywaeth, nid yw ymadroddion proffeswyr ffurfiol fawr gwell, o'r hyn lleiaf, nid ydynt ond o ychydig adeiladaeth, sef son am ryw weinidog ei fod yn bregethwr doniol, neu am un arall ei fod yn Gristion rhagorol, neu yn ddyn hynod o dduwiol, neu bregeth, ei bod yn ddysgedig, yn iach mewn athrawiaeth, neu'n adeiladol, neu ynte mai dywenydd ganddynt wrando ar ryw ddadleuon dyrys ac anfuddiol. Etto, y rhan amlaf, dyma'r fath yw ymddiddanion ac ymddygiad llawer o broffeswyr allanol, oeraidd, a ffurfiol. A phe buasit newydd fod yn gwresogi dy galon gyda myfyrdodau, ar y llawenydd a'r gorfoledd sydd uchod, oni fuasai'r cyfryw ymadroddion a'r fath gymdeithas yn oeri dy serchiadau ac yn rhewi dy galon? Ac yn hyn o beth, nid wyf ond gofyn barn rhyw un a fydd yn arferol o ddal sylw ar dymher ei yspryd, ac felly, yn ddiau, wedi profi'r gyfryw gyfnewidiad ynddo ei hun; canys nid hawdd i ddynion ymddiddan am un peth tra byddo eu meddyliau ar beth arall, yn enwedig pethau mor wahanol, a chymmaint rhagoriaeth rhyngddynt. Ond chwychwi, ddynion ieuaingc, yn enwedig y rhai ydych fwyaf agored i'r gyfryw brofedigaeth, ystyriwch yn ddifrifol yr hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, a ddichon eich calonnau fod yn y nefoedd tra byddoch yn eistedd yn y *dafarn* ymysg eich cyfeillion afreolus? neu pan fyddoch mewn gweithdy gyda rhai fyddant yn arferol o dyngu, rhegu, siarad yn ofer, brynti, a diflasdod? Ond yn hytrach, gadewch i mi ddywedyd wrthych, os bydd i chwi ddewis y fath gymdeithion pan y gallech gael eu gwell, as os ydych yn ymhyfrydu yn eu cymdeithas, eich bod cyn belled o fod â'ch ymar-

weddiad yn y nefoedd, fel nad oes gennych (hyd yn hyn) ddim hawl iddi, ac yn ganlynol, nid ewch chwi byth yno heb gael eich troi a'ch cyfnewid. Pe buasai eich tryssor yn y nefoedd, ni fuasai eich calonnau ar bethau mor ddieithr iddi, ac mor bell oddiwrthi. Ar air, ein cymdeithion a fyddant ran o'n happusrwydd yno, ac a allant fod hefyd yn foddion hynod naill ai i'n hwylio ymlaen neu i'n rhwystro i'r nefoedd.

§ 5. (4) Gochelwch aml ddadleuon ynghylch gwirioneddau o ychydig bwys, a rhag y fath grefydd ag sy'n sefyll mewn opiniynau yn unig. Yr ymddadleuwyr mwyaf tanbaid ynghylch pethau amgylchiadol crefydd, yn gyffredin, ydynt yn gwybod lleiaf am fuchedd nefol. Y dyn hwnnw, yr hwn y mae ei grefydd yn sefyll yn gwbl mewn *opiniynau*, a fydd yn fwyaf arferol o osod allan ac hyspysu ei farn a'i eddwl ei hun, ynghylch amryw o byngciau crefydd a duwioldeb. Ar y llaw arall, yr hwn y mae ei grefydd yn sefyll mewn gwybodaeth o Dduw, a'i gariad yn Nghrist Iesu, a fydd yn ymddiddan gyda hyfrydwch am yr amser y bydd efe yn disgwyl mwynhau cymmundeb â Duw. Hwnnw sydd ddyn duwiol a Christion rhagorol, yr hwn sydd fwyaf cyfarwydd a medrus i iawn ddefnyddio gwirioneddau hollol adnabyddus. Gan hynny gadewch i mi eich cynghori chwi, y rhai ydych yn chwennych mwynhau bywyd nefol, i beidio treulio gormod o'ch hamser, o'ch zel, ac o'ch ymadroddion, na chwaith i osod eich bryd a'ch meddwl amrafaelion a dadleuon, y rhai nid ydynt yn perthynu i iachawdwriaeth eich heneidiau; ond yn hytrach, tra y mae rhagrithwyr yn ceisio ymborthi ar gregin neu gibau'r moch, bydded i chwi ymdrechu cael eich porthi â'r bara nefol, a llonni eich heneidiau â'r gorfoledd sydd uchod. Ar yr un pryd, myfi a ewyllysiwn i chwi fod yn medru amddiffyn pob gwirionedd yngair Duw, a *rhoddi rheswm am y gobaith sydd ynoch gydag addfwynder ac ofn:* (1 Pedr, 3 : 15;) ac i'r dyben hynny, bod o honoch yn ddiwyd a gofalus i ddarllen ac *astudio* llawer, etto chwennychwn i

chwi ystyried, yn fwyaf pennodol, wirioneddau pennaf a phyngciau mwyaf sylfaenol ein crefydd, ac nid dim a fyddai'n debygol o ddenu eich meddyliau ymaith oddiwrth dragywyddoldeb. Yn gyffredin y gwirioneddau hynny y mae lleiaf o ddadleu yn eu cylch, yw'r rhai mwyaf pwysfawr, a'r rhai mwyaf buddiol, adeiladol, ac angenrheidiol i eneidiau i ymdrin â hwynt. Gan hynny astudiwch a myfyriwch yn ddwys ar y cyfryw ysgrythyrau a'r rhai canlynol: *Yr hwn sydd wan yn y ffydd, derbyniwch attoch, nid i ymrafaelion rhesymmau.* Rhuf. 14 : 1. *Eithr gochel ynfyd ac annysgedig gwestiynau; gan wybod eu bod yn magu ymrysonau; ac ni ddylai gwas yr Arglwydd ymryson.* 2 Tim. 2 : 23, 24. *Eithr gochel gwestiynau ffol, ac achau, a chynhennau, ac ymrysonau ynghylch y ddeddf, canys anfuddiol ydynt ac ofer.* Tit. 3 : 9. *Od oes neb yn dysgu yn amgenach, ac heb gyttuno âg iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, ac â'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb, chwyddo y mae heb wybod dim, eithr ammhwyllo ynghylch cwestiynau, ac ymryson ynghylch geiriau; o'r rhai y mae cenfigen, ymryson, cableddau, drwg-dybiau, yn dyfod: cyndyn ddadleu dynion llygredig eu meddwl, heb fod y gwirionedd ganddynt, yn tybied mai elw yw duwioldeb; cilia oddiwrth y cyfryw.* 2 Tim. 6 : 3, 4, 5.

§ 6. (5) Gochel yspryd balch, uchel.—Y mae'r cyfryw gasineb rhwng Duw a'r pechod hwn fel na elli byth ddwyn dy galon yn agos atto, na chwaith ei gael ef yn agos at dy galon, tra fyddot yn cynnwys y fath yspryd. Os y pechod hwn a fwriodd yr angelion allan o'r nefoedd, yn ddiau efe a geidw dy galon dithau rhag esgyn yno. Os hwn a fwriodd ein rhieni cyntaf allan o Baradwys, ac a wnaeth ysgariaeth rhyngom ni a'r Arglwydd, ac a ddygodd felldith ar yr holl greaduriaid sydd yma isod, yn ddiau efe a luddia ein calonnau i Baradwys, ac a chwanega'r gelyniaeth melldigedig rhyngom ni a Duw. Cymmundeb â Duw a ddeil ddynion yn ostyngedig, a'r gostyngeiddrwydd yma a chwanega'r cymmundeb. Pan y mae dyn

yn gynnefin â bod gyda Duw, ac wedi bod yn myfyrio llawer ar ei briodoliaethau gogoneddus, yna y mae efe'n ffieiddio ei hunan mewn llwch a lludw; a'r cyfryw yspryd o hunan-ffieiddiad ac ymostyngiad yw'r darpariad goreu tuag at gael ei dderbyn drachefn i gymdeithas â Duw. Felly, ar ol dydd o enaid-ostyngiad, neu mewn amser o helbul a thrallod, pan y mae'r enaid yn fwyaf isel a gostyngedig, dyna'r amser y bydd yr enaid hwnnw yn cael mwyaf o gymmundeb â Duw, ac yn profi fwyaf o felusder y bywyd sydd uchod. Canys y mae Duw yn tystiolaethu fod ei hyfrydwch ef gyda'r rhai gostyngedig, gan ddywedyd, *Ond ar hwn yr edrychaf, sef ar y truan a'r cystuddiedig o yspryd, sydd yn crynu wrth fy ngair;* (Esay, 66 : 2;) a hyfrydwch y cyfryw enaid hefyd yw bod gyda Duw; a lle y byddo cariad a hyfrydwch o'r ddeutu, yno y bydd y derbyniad rhwyddaf, y croesaw mwyaf caredig, a'r gymdeithas amlaf. Ar y llaw arall, y mae Duw cyn belled oddiwrth breswylio yn yr enaid balch fel nad ydyw'n ewyllysio iddo nesâu atto, *canys y balch a edwyn efe o hirbell.* Salm 138 : 6. *Y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig.* 1 Pedr. 5 : 5. Y dyn balch sydd uchel mewn hunan-dyb ac ymffrost cnawdol, a'i holl ymgais am ddyrchafiad ac anrhydedd y byd; ond y dyn o yspryd isel, sydd uchel gyda Duw, a'i holl serchiadau yn uchel a nefolaidd. Y mae'r ddau fath o uchel-synied yn llwyr groes i'w gilydd—un yn uchel mewn hunan-dyb ac ymffrost, a'r llall yn uchel mewn meddylfryd nefolaidd; ac felly y maent yn elyniaethol y naill i'r llall, fel y mae rhyfeloedd yn fwyaf cyffredin rhwng tywysog a thywysog, ac nid rhwng tywysog ac arddwr neu wladwr. Wele, gan hynny, a ydwyt ti (yn dy farn dy hun) y cyfryw ddyn ag sydd yn haeddu parch a chymmeriad? A ydyw'n hyfryd gennyt glywed dy fod mewn derbyniad mawr gyda dynion? neu a fyddi yn gofidio pan ddealli eu bod yn dy ddiystyru? Ai y rhai hyny yr ydwyt yn eu caru fwyaf, y rhai sy'n dangos i ti fwyaf

o barch ? ac a fyddi di yn meddwl yn wael ac yn isel am y rhai hynny ni fyddant yn dy anrhydeddu, er eu bod hwy, efallai, yn bobl dduwiol a gonest ? A raid i'th ddymuniad a'th ewyllys di gael ei chyflawni, a'th farn di fod yn rheol, a'th air fel cyfraith i bawb o'th amgylch ? A fydd dy ddigofaint yn cyffroi, a'th natur ddrwg yn ennynnu, os bydd dy air, neu'th ewyllys yn cael eu croesi yn y mesur lleiaf ? A wyt ti'n barod i feddwl mai llwfrdra cywilyddus yw gostyngeiddrwydd ? Ac onid ydwyt yn medru ymostwng yn iawn i gyfaddefiad ufudd, isel, a gostyngedig o dy bechodau, pan y byddot wedi troseddu yn erbyn Duw, neu wedi gwneuthur cam âg un o'th gydgreaduriaid ? A ydwyt ti yn un a fydd yn edrych gyda diystyrwch ar y duwiol tlawd, ac agos yn gywilydd gennyt gymdeithasu âg ef ? Oni fedri di addoli Duw mewn lle isel, gwael yn gystal ac mewn adeilad fwy ardderchog ? Onid synwyr a chyfrwystra sydd yn dy rwystro rhag ymffrostio yn hytrach na gostyngeiddrwydd ? A ydyw yn hoff gennyt fod llygad pawb arnat, a'u clywed yn dywedyd, *Hwn yw efe ?* A ydwyt ti etto yn ddieithr i dwyll a drygioni dy galon ? A ydwyt ti yn fwy parod i ddangos dy ddiniweidrwydd, ac i'th wneuthur dy hun yn ddieuog, nac i'th gyhuddo dy hun, ac i gyfaddef dy fai ? A ydyw cerydd yn annioddefol i ti, ac ai nid cymmeradwy genyt y dyn a ddywedo wrthyt dy fai yn syml, eglur, a didderbyn wyneb ? Os felly y mae cyflwr dy galon, ac os ydyw yr arwyddion hyn yn ymddangos ynddi, yn ddiau dyn balch ydwyt, ac y mae gormod o uffern ynot i fod genyt ddim cymdeithas â'r nefoedd; dy enaid sydd rhy debyg i ddiafol, i gael dim cymmundeb â Duw. Y dyn balch sydd yn gwneuthur ei hun megis Duw, ac yn ei osod ei hun i fynu megis delw. Pa fodd gan hynny y gall ei serchiadau fod wedi eu gosod ar Dduw ? a pha fodd y dichon efe fod â'i galon yn y nefoedd ? Ei gof a'i ddychymmyg ei hun a allant roddi ymadroddion gostyngedig a nefol yn ei enau, ond yn ei yspryd nid oes mwy o'r nef-

oedd nag sydd o ostyngeiddrwydd. Yr wyf wedi traethu yn fwy helaeth am y pechod hwn, o herwydd mai hwn yw y mwyaf cyffredin a mwyaf peryglus, ac o herwydd ei fod yn meithrin anghrediniaeth. O Gristion! os ydwyt yn ewyllysio byw yn wastadol yn mhresenoldeb dy Arglwydd, gorwedd yn y llwch, ac efe a'th gyfyd i fynu. Bydded i ti ddysgu ganddo ef i fod yn addfwyn a gostyngnedig, a thi a gei orphwysdra i'th enaid. Mat. 11 : 29. Os amgen, dy enaid a fydd fel y môr yn dygyfor, pan na allo fod yn llonydd, yr hwn y mae "ei ddyfroedd yn bwrw allan dom a llaid." Esay, 57 : 20. Ac yn lle'r cyfryw ddiddanwch hyfryd yn Nuw, dy falchder a'th leinw âg anesmwythder diseibiant. Ac megis mai yr hwn a'i "gostyngo ei hunan fel bachgenyn, a fydd y mwyaf (*ar ol hyn*) yn nheyrnas nefoedd, (Mat. 18 : 4,) felly hefyd y bydd efe yn awr yn y blaen-ffrwyth o hono. *Canys Duw a breswylia gyda'r cystuddiedig a'r isel o yspryd, i fywhau y rhai isel o yspryd, ac i fywhau calon y rhai cystuddiedig.* Esay, 57 : 15. Gan hynny, *ymddarostyngwch ger bron yr Arglwydd, ac efe a'ch dyrchafa chwi.* Iago, 4 : 10. A phan ostynger eraill, yna y dywedi di, "Y mae goruchafiaeth, ac efe a achub y gostyngedig." Job, 22 : 29.

§ 7. (6) Yspryd swrth, musgrell, diofal, sydd rwystr arall i fywyd nefol. Ac yr ydwyf yn cwbl gredu nad oes dim yn rhwystro hyn yn fwy mewn dynion o synhwyr a gwybodaeth, na'r cyfryw yspryd difraw. Pe na byddai dim yn chwaneg yn angenrheidiol nac ysgogiad y corph, chwyfio'r gwefusau, neu blygu'r gliniau, fe fyddai dynion cyn barotted i fyned i'r nefoedd ag ydynt i ymweled â chymmydog. Ond yn hyn y mae'r anhawsdra, sef diddyfnu ein meddyliau a'n serchiadau oddiwrth y byd, tynu allan a defnyddio ein holl rasusau, a chadw pob un yn ei le, ac ynghylch ei briodol waith, hyd oni byddont yn blaguro ac yn ffynnu. Ddarllenydd, y mae'r nefoedd oddiuchod, ac a ydwyt ti yn meddwl y gelli esgyn i fynu heb na phoen, na llafur, nac ymdrech? A fedri di ddyrchafu

dy galon ddaearol i'r nefoedd, a chyfodi dy feddylfryd anewyllysgar a hwyrfrydig at Dduw, tra'r ydwyt yn eistedd yn llonydd ac yn cymmeryd dy esmwythdra? Pe gorwedd i lawr wrth droed y rhiw, ac edrych i fyny tua'i gopa, a dymuno ein bod yno, a wnelai'r tro, yna nyni a gaem ymdeithwyr beunyddiol tua'r nefoedd. Ond, medd ein Hiachawdwr, *Yr ydys yn treisio teyrnas nefoedd, a threiswyr sydd yn ei chipio hi.* Mat. 11 : 12. Y mae trais a duwiol ymdrech yn angenrheidiol i'r diben o fwynhau'r blaen-ffrwyth yma, yn gystal ag i gael cyflawn feddiant a mwynhad. Onid ydwyt yn brofiadol o hyn heb i mi ei fynegi i ti? A ydyw dy galon yn barod i esgyn i fynu heb i ti ei chymmell? Tydi a wyddost mai'r nefoedd yw dy holl obaith, ac nad oes dim daearol a rydd i ti orphwysfa. Ac ni ddichon y galon honno, yr hon ni fydd yn meddwl (ond yn bur anaml) am y nefoedd, gael ond ychydig gyssur oddiyno; etto, er hyn oll, oni fyddi'n esgeuluso llawer cyfleusdra, ac yn oedi isod, pan y dylit fod yn rhodio uchod, ac yn bwy gyda Duw? Oni fyddi yn canmol melusder bywyd nefol, ac yn barnu mai'r rhai hynny fydd yn ei arfer yw'r Cristionogion goreu, ac etto nid ydwyt ti dy hun yn ceisio ei brofi. Yn gyffelyb i'r diogyn cysglyd, yn ymestyn ei hun ar ei wely, ac yn gwaeddi, "O na b'ai hyn yn weithio!" felly yr ydwyt tithau yn siarad, yn segura, yn byw yn ddiofal, ac yn dywedyd, "O na allwn godi fy nghalon i'r nefoedd!" Pa sawl un sy'n darllen llyfrau ac yn gwrando pregethau, gan ddisgwyl clywed am ryw ffordd rwyddach i gael cyssur nag a fedrant gael yn yr ysgrythyrau! neu hwy a ofynnant am gyfarwyddiadau tuag at arwain buchedd nefol; ac os eu gwrando yn unig a wnelai'r tro, hwy a fyddent foddlon i fod yn Gristionogion nefolaidd; ond os dangoswn iddynt eu gwaith, ac os dywedwn wrthynt nas gallant gael y gorfoledd hwn ar îs ammodau na hyn, yna hwy a'u gadawant (megis y gwnaeth y gwr ieuangc ein Hiachawdwr) yn athrist. Gan hynny, ddarllenydd hynaws, os ydwyt yn cydnabod

fod y gwaith hwn yn angenrheidiol tuag at dy gyssur a'th ddiddanwch, cais gymmorth i ymosod yn ei gylch yn egniol ac yn ddioedi: ac os bydd dy galon yn tynnu yn ol, cymmell hi ymlaen gydag awdurdod rheswm; ac os bydd dy reswm yn barod i ddadleu, yna dangos orchymyn Duw, a'th angenrheidiau dy hun, gyda'r ystyriaethau eraill, a osodwyd i lawr yn y bennod o'r blaen. Na fydded i ti adael y fath dryssor digyffelyb i orwedd o'th flaen, a thithau â'th law yn dy fynwes; a phaham y gadewi i'th fywyd fod yn dristwch a gofid parhaus, pan y mae yn hawdd i ti fwynhau gwledd wastadol, a hynny hefyd am nad ydwyt yn ewyllysio, nac yn ymwroli, nac yn ymdrechu? Nac eistedd i lawr mewn yspryd digalondid tra y mae cyssuron yn tarddu i fynu yngŵydd dy lygaid, yn gyffelyb i ddyn ynghanol gardd o flodau heirdd, per-aroglaidd, yr hwn ni fyn gymmaint a chodi i fynu i'w casglu, a llonni ei hun â'u melusder. Hyn a wn, Crist yw'r ffynnon; ond y mae'r pydew yn ddwfn, a rhaid i ti gael y dwfr allan cyn y medri gael dy ddiwallu ag ef. Yr ydwyf yn gwybod hefyd, cyn belled ag yr ydych yn ysprydol, nid oes eisiau'r trais na'r ymdrech hyn; ond mewn rhan yr ydych yn gnawdol ac yn anianol, a thra y byddoch felly, mae ymdrechu ac ymwroli yn angenrheidiol. Yr oedd arfer ymysg y Parthiaid gynt i beidio rhoddi dim boreufwyd i'w plant cyn y caent weled chwys ar eu hwynebau, ar ol rhyw waith a osodid iddynt. A chwi a gewch weled hefyd mai hon yw ffordd Rhagluniaeth, sef nad yw'r Arglwydd yn ewyllysio rhoddi blaen-brawf o'r gwynfyd a'r dedwyddwch nefol i'w blant, hyd oni byddont wedi taer ymbil ac ymdrechu am danynt. Bydded i ti farnu gan hynny pa un sydd oreu ai buchedd nefol ai dy chwantau cnawdol; ac, megis dyn doeth, bydded i ti gymmeryd dy ddewis. Ië, gâd i mi hefyd ychwanegu, er dy gyssur a'th annogaeth, na fydd dim angenrheidrwydd i ti gadw dy feddyliau a'th serchiadau ar waith yn fwy nag yr ydwyt yn bressenol, ond yn unig eu gosod ar wrthddrychau

gwell a mwy hyfryd. Cais yn unig osod cynnifer o'th feddyliau mwyaf difrifol bob dydd ar dra rhagorol ogoniant y bywyd sydd ar ddyfod ag wyt yn osod ar bethau'r byd hwn, (ïe, ar wagedd ac oferedd,) ac felly dy galon a fydd yn fuan yn y nefoedd. Ar ol y cwbl, *maes y dyn diog sydd yn llawn o ddrain, a danadl yn ei guddio.* Diar. 24 : 30, 31. *Deisyfiad y diog hefyd a'i lladd; canys ei ddwylaw a wrthodant weithio.* Diar. 21 : 25. Y diog hefyd a fydd yn dywedyd, *Y mae llew mawr ar y ffordd; y mae llew yn yr heolydd. Fel y drws yn troi ar ei golyn, felly y try'r diog yn ei wely. Y diog a guddia ei law yn ei fynwes; blin ganddo ei hestyn at ei enau drachefn,* (Diar. 26 : 13, 15,) hyd y nod i'w borthi ei hun â bara'r bywyd. Pa beth ydyw hyn ond bwrw ymaith ein cyssuron, ac, yn ganlynol, y gwaed gwerthfawr a'n prynodd? Canys *y neb a fyddo diog yn ei waith, sydd frawd i'r treulgar.* Dair. 18 : 9. Cyfaddasa'r geiriau hyn attat dy hun, mewn ystyr ysprydol, a chais ddeall yr hyn a feddylir.

§ 8. (7) Ymfoddloni ar ryw ragddarpariadau yn unig tuag at fywyd nefolaidd, heb wybod dim am y cyfryw fywyd mewn profiad ac mewn gwirionedd, sydd rwystr arall tra pheryglus, dirgel, a chuddiedig. Pan fyddo dynion yn ymfoddloni ar *astudio* pethau nefol, a gwag ddychymmygion yn eu cylch, a chyda rhyw siarad dadleugar am y fath fywyd nefolaidd, gellid tybied eu bod yn barnu fod hyn yn ddigonol i'w gwneuthur yn nefolaidd. Nid oes neb yn fwy agored i'r cyfryw brofedigaeth na'r rhai hynny ag sy'n bennaethiaid, ac yn arferol o lywodraethu mewn lleoedd o addoliad, ac yn enwedig gweinidogion yr efengyl. O pa mor hawdd yw i'r cyfryw rai dwyllo eu hunain! Gan na fyddant yn gwneuthur dim ond darllen ac *astudio* ynghylch y nefoedd, pregethu, a gweddio, a siarad am y nefoedd, oni fyddant yn barod i feddwl mai hyn yw'r cwbl o fuchedd nefolaidd? Ond, Och! nid yw hyn oll ond y darpariad; nid yw hyn ond casglu'r defnyddiau, ac nid gweithio'r adeilad; casglu'r manna i eraill,

ac nid bwytta o hono ein hunain, a chael ein digoni. Megis y gall dyn fyddo yn eistedd gartref, dynnu lluniau cywraint o wledydd y rhai nis gwelodd, ac ni thrafaelodd mo honynt erioed, felly hefyd y gellwch chwithau ddarlunio gorfoledd y nefoedd i eraill, ac etto heb ddyfod yn agos yno yn eich calonnau eich hunain. Fe all dyn dall ddysgu ymddiddan a dadleu ynghylch goleuni a lliwiau; felly y gellwch chwithau osod allan i eraill y goleuni nefol hwnnw, yr hwn ni ddisgleiriodd erioed i'ch calonnau chwi, a dwyn y tân hwnnw o galonnau eich gwrandawyr, yr hyn ni wresogodd eich calonnau chwi erioed. Y fath ymadroddion nefolaidd oedd gan Balaam yn ei brophwydoliaethau, ac etto cyn lleied o hono yn ei yspryd! Ië, yr ydym ni dan brofedigaeth mwy dichellger na dim dynion eraill, i'n tynnu oddiwrth fuchedd nefol. Y mae *astudio* a phregethu ynghylch y nefoedd yn *tebygu* mwy i fuchedd nefol nag ydyw meddwl a siarad am y byd, ac y mae'r *tebygolrwydd* yma yn dueddol i'n twyllo. Hyn ydyw marw'r farwolaeth fwyaf truenus, sef newynu a llewygu ein hunain pan y mae bara ar ein bwrdd; a marw o syched, tra yr ydym yn tynnu dwfr i eraill; gan farnu hynny ein bod beunydd yn llafurio yn y gwaith er na fyddwn ni ein hunain un amser yn yfed o hono i ddiwallu ein heneidiau.

§ 9. (II.) Gan i mi, fel hyn, ddangos i ti pa rwystrau a fyddant yn debygol o'th luddias yn y gwaith, yr wyf yn disgwyl y bydd i ti ymwroli yn eu herbyn, a'u hystyried yn ddifrifol, a gwylio rhagddynt yn ffyddlon a gofalus, ac onide ni fydd dy lafur ond ofer. Y mae'n rhaid i mi hefyd hyspysu i ti, fy mod yma yn disgwyl dy addewid, fel ag yr ydwyt yn canfod mawr werth y blaen-ffrwythau hyn o'r nefoedd, fod o honot yn gydwybodol yn y cyflawniad o'r dyledswyddau canlynol—canys ni wna darllen am danynt, heb eu cyflawni, byth ddwyn y nefoedd i'th galon. Yn enwedig—cais argyhoeddi dy hun, mai'r nefoedd yw yr unig dryssor a'r unig happusrwydd—ac ymdrecha hefyd i gael gwybod ei bod yn eiddo i ti—a'i bod yn agos—

ymddiddan hefyd am dani yn aml ac yn ddifrifol—ymegnia hefyd i godi dy serchiadau yn agosach atti yn mhob dyledswydd—defnyddia hefyd bob gwrthrych, a phob damwain, i'r un dyben—ymarfer dy hun yn fynych yn y gwaith angelaidd o foli Duw—meddianna dy enaid â meddyliau crediniol o anfeidrol gariad Duw—dal sylw ar gynhyrfiadau Yspryd Duw, a bydd barod i'w derbyn a'u meithrin—ac nac esgeulusa bob gofal angenrheidiol tuag at gynnal iechyd y corph.

§ 10. (1) Bydded i ti gredu mai'r nefodd yw yr unig dryssor a'r unig ddedwyddwch, a gweddia yn daer am gael dy ddwyn i ganfod mawr werth y tryssor a'r dedwyddwch hwn. Canys os na fydd i ti gael dy ddwyn i ganfod mai hwn yw'r mwyaf a'r unig ddaioni, ni fyddi yn debygol chwaith o osod dy galon arno. Ac y mae'n rhaid i'r argyhoeddiad yma soddi i mewn i'th serchiadau; canys, os na fydd hyn ond rhyw ddychymmyg gwag yn unig yn y pen, ni fydd yn debygol o gael dim effaith ar dy galon. Pan feddyliodd Efe ei bod yn canfod mwy o werth yn y ffrwyth gwaharddiedig nag ynghariad Duw a'r mwynhad o hono, nid rhyfedd iddi osod ei chalon arno yn fwy na Duw. Ac os bydd i chwi, yn ol eich barn eich hun, ddewis chwantau'r cnawd o flaen hyfrydwch presennoldeb Duw, fe fydd yn ammhossibl i'ch calon fod yn y nefoedd. Megis mai anwybodaeth o wagedd y pethau sydd isod sy'n gwneuthur i ddynion eu hoffi yn ormodol, felly yr un modd, anwybodaeth o'r hyfrydwch sydd uchod yw yr achos bod dynion yn gofalu cyn lleied am danynt. Pe digwyddai i chwi weled côd yn llawn o aur, a chredu mai hatlingau oedd ynddi, ni fyddech yn debygol o'i mawr chwennychu. Nid rhagoriaeth rhyw beth yn unig ynddo ei hun, ond cael iawn wybodaeth a phrofiad o'r rhagoriaethau hynny, sy'n peri i ddynion ei hoffi a'i chwennychu. Pe digwyddai i ddyn anwybodus weled llyfr yn cynnwys dirgeledigaethau'r holl gelfyddydau, dwfn-ddysgeidiaeth, a gwybodaeth, ni ofalai am dano, ac nis chwennychai ef

mwy na rhyw lyfr cyffredin arall, o herwydd na wyddai werth yr hyn ag oedd ynddo; ond y dyn dysgedig sydd yn deall ac yn gwybod ei werth, ac o herwydd hynny y mae efe yn ei hoffi ac yn ei werthfawrogi yn fawr, ac a hebgor, yn ewyllysgar, fwytta ac yfed, a chysgu, er mwyn cael amser i'w ddarllen. Megis y lladdodd yr Iuddewon y Messiah, tra yr oeddynt yn disgwyl am dano, o herwydd nad oeddent yn ei adnabod; felly y mae'r byd yn gwaeddi allan am orphwysfa, ac yn prysur chwilio am gyssur a dedwyddwch, o herwydd nad ydynt yn eu hadnabod; o blegid pe gwybyddant yn drwyadl beth yw, nis gallent fel hyn ddiystyru y fath dryssor diddarfod.

§ 11. (2) Ymdrecha hefyd i gael tystiolaeth a boddlonrwydd ynot dy hun, y bydd i ti gael y fraint o fwynhau'r happusrwydd yma yn y nefoedd. Fe all dyn gyfaddef mai y nefoedd yw'r happusrwydd mwyaf, ac etto heb ddim gobaith o gael myned yno; ac efe a ddichon hefyd ei cheisio, a dymuno'r dedwyddwch hwnnw, os meddylia y bydd efe yn debyg o'i chael; ond ni fedrwn ni byth ymhyfrydu ynddi gyda llawenydd, oni chawn foddlonrwydd a thystiolaeth ynom ein hunain o'n hawl iddi. Canys pa gyssur i'r tlawd noethlwm edrych ar ddillad gwychion rhai eraill? Pa ddaioni i ddyn, heb le i roddi ei ben i lawr, weled trigfannau heirdd ac adeiladau têg ei gymmydogion? Ac oni fyddai'r pethau hyn oll yn debyg iawn o chwanegu ei ofid, a gwneyd iddo feddwl ei hun yn fwy truenus? Felly hefyd, yr un modd, pe byddai i ddyn wybod am ddedwyddwch a happusrwydd y nefoedd, ac heb wybod pa un a fyddai iddo byth gael eu mwynhau, ni roddai hynny iddo ond ychydig gyssur, er y gallai efe ei mawr chwennych a dymuno ei chael, ond etto heb ei cheisio â'i holl galon, o herwydd ofn ac ammheuaeth; canys pwy a osodai ei galon ar feddiannau un arall? Pe na byddai eich tai, eich meddiannau, eich gwartheg, eich plant, yn eiddo i chwi, nis byddech mor ofalus am danynt, ac nid ymhyfrydech ynddynt. Nac ymorphwys gan

hynny, Gristion anwyl, hyd onis gellych alw'r orphwysfa hon yn eiddo i ti, a chael gweled dy hawl iddi! Dwg dy galon o flaen y frawdle; gosod gymhwysiadau'r saint, a'r grasusau hynny ag sy'n eu haddurno, ar y naill law, a'th enaid dy hun ar y llaw arall, ac yna bydded i ti farnu pa debygolrwydd sydd rhyngddynt, a pha gymmaint sydd yn fyr ac yn ddiffygiol ynot. Y mae gennyt air Duw, yn awr, yn dy ddwylaw, wrth ba un y bydd i ti gael dy farnu yn y dydd diweddaf. Edrych, gan hynny—hola a phrawf dy hun; na fydded i ti gam-ddeall na chamsynied darluniad y saint a osodwyd i lawr yn yr ysgrythyrau, rhag i ti, trwy gamsynied, gyfiawnhau neu gondemnio dy hun mewn ffordd anghyfiawn a thwyllodrus. Canys megis y mae gobaith disail yn meithrin amryfusedd, ac yn achos o ddamnedigaeth i lawer; felly hefyd, ar y llaw arall, ammheuaeth a phetrusder disail a fyddant yn cythryblu'r saint, ac yn achos o lawer o'u gofid, eu helbul, a'u trallod. Gan hynny bydded i ti ddechreu ar iawn sylfaen, a myned ymlaen yn ofalus ac yn ddianwadal yn y gwaith; ac na fydded i ti roddi heibio y prawf, a'r ymofyniad hyd oni byddot wedi cael gwybod a oes gennyt hawl i'r orphwysfa ai nid oes. O! pe gwybyddai dynion, mewn gwirionedd, fod Duw yn Dad iddynt, a Christ yn Ben ac yn Iachawdwr iddynt, ac mai y rhai hynny uchod a fyddant yn breswylfeydd tragywyddol iddynt, ac mai yno y bydd raid iddynt aros, a bod yn ddedwydd yn dragywydd, pa fodd y medrant beidio gorfoleddu, gan ragweled y cyfryw ddedwyddwch rhagorol! Pe medrai'r Cristion edrych ar yr haul, a'r lleuad, a'r sêr, a chyfrif y cwbl yn eiddo iddo ef ei hun, yn Nghrist, gan ddywedyd, "Dyma'r bendithion a bwrcasodd fy Mhrynwr i mi, ïe, a phethau mwy rhagorol o lawer na'r rhai hyn;" y fath orfoledd nefolaidd a lanwai ei ysprydoedd!

§ 12. Y mae'r dynion hynny yn pechu yn fawr yn erbyn eu cyssuron eu hunain, ac yn erbyn gras yr efengyl, y rhai sy'n dadleu o blaid eu hanghrediniaeth, yn cynwys

meddyliau amheus am Dduw, ac yn barnu yn galed yn nghylch gwaith eu prynedigaeth; y rhai ydynt yn gosod allan y cyfammod megis o weithredoedd ac nid o ras, a Christ megis yn elyn yn hytrach nag yn Iachawdwr; fel pe buasai efe yn ewyllysio iddynt farw yn eu hanghrediniaeth, ac yntau wedi eu gwahodd mor aml ac mor garedig, ac wedi dioddef ing a loes angeu ag oedd yn ddyledus iddynt hwy. Y fath drueiniaid ydym ni! pan ydym yn parhau i fod yn eiddigeddus o'n Harglwydd a'n Hiachawdwr! yn ammeu ei ewyllysgarwch, pryd y dylem fod yn gorfoleddu yn ei gariad; fel pe gallasai unrhyw ddyn ddewis Crist cyn i Grist ei ddewis ef, neu fod unrhyw ddyn yn fwy ewyllysgar i fod yn happus nag y mae Crist i'w wneuthur felly. Ymaith, gan hynny, â'r cyfryw feddyliau camweddus a chableddus. Os darfu i ti erioed gynnwys y cyfryw feddyliau yn dy galon, bwrw hwynt allan, a chymmer ofal i beidio rhoddi lle iddynt mwyach. Y mae Duw wedi ysgrifennu enwau ei bobl yn y nefoedd fel y bydd dynion yn ysgrifennu eu henwau a'u nodau ar eu meddiannau, ac a gawn ni geisio eu dileu allan a'u hysgrifennu ar ddrysau uffern? Ond bendigedig fyddo Duw, *y mae cadarn sail Duw yn sefyll*; (2 Tim. 2 : 9;) "yr hwn hefyd sydd yn ein cadw â'i fawr allu, trwy ffydd i iachawdwriaeth." 1 Pedr, 1 : 5.

§ 13. (3) Ymdrecha i amgyffred mor agos yw dy orphwysfa. Fe fydd y peth hynny a fyddwn yn ei dybied yn bur agos attom, yn debyg o gael mwy o effaith arnom na'r hyn a fyddwn yn ei farnu ymhell oddiwrthym; megis barnedigaethau neu drugareddau,—pan fyddant ymhell oddiwrthym, nyni a fyddwn yn ymddiddan am danynt gyda difrifwch, ond pan fyddant yn nesâu attom, nyni a fyddwn yn dychrynu rhag y naill ac yn ymhyfrydu yn y llall. A hyn sy'n peri i ddynion fod mor anystyriol yn nghylch y nefoedd, sef o herwydd eu bod yn tybied ei bod ymhell oddiwrthynt. Y maent yn meddwl ei bod hi ugain, neu ddeg ar hugain, neu ddeugain mlynedd oddiwrthynt.

Pa gymmaint gwell fyddai i ni "dderbyn barn angeu ynom ein hunain," (2 Cor. 1 : 9,) ac edrych ar dragywyddoldeb megis yn agos i law! A thra yr ydwyf yn meddwl ac yn ysgrifennu am dano, y mae yn brysio attaf; ac yr ydwyf yn myned i mewn iddo yn gynt nag y meddyliwyf. A thra yr ydwyt yn darllen hyn, pwy bynnag wyt, y mae amser yn brysio ymlaen, a'th einioes a dderfydd megis y chwedl a draethir. Pe gallech sicr gredu y byddech farw y fory, pa mor ddwys a difrifol y meddyliech heno am y nefoedd! Pan ddywedodd Samuel wrth Saul, *Y fory y byddi di gyda mi*, (1 Sam. 28 : 19,) hynny a'i tarawodd at ei galon. A phe dywedai Crist wrth enaid crediniol, "Y fory y byddi gyda mi," hynny a'i dygai mewn yspryd i'r nefoedd ymlaen llaw. Gan hynny meddyliwch am danoch eich hunain eich bod yn wastad ar fin myned i mewn i'r nefoedd; a hyn a'ch cynnorthwya yn fawr i feddwl am hynny yn ddifrifol ac yn aml.

§ 14. (4) Pan fyddi gan hynny ymysg y rhai a allant lefaru o'u calonnau, ag sydd eu hunain wedi eu cynnysgaeddu âg anian nefol, gad i'th orphwysfa dragywyddol fod yn destun dy ymddiddanion gwastadol a difrifol. Gresyn fod Cristionogion, un amser, yn cyfarfod yn nghyd heb ryw ymddiddanion yn nghylch eu cyfarfod drachefn yn y nefoedd, neu am y ffordd sy'n tywys yno, cyn iddynt ymadael y naill oddiwrth y llall. Gresyn hefyd fod cymmaint o amser yn cael ei dreulio mewn ymddiddanion ofer a dadleuon anfuddiol, heb un gair pwysfawr am y nefoedd. Meddyliwn y dylem ni gyfarfod ynghyd, i'r diben o wresogi ein hysprydoedd âg ymddiddanion am ein gorphwysfa. Canys, yn wir, pe clywem ryw Gristion yn gosod allan wynfyd y cyflwr gogoneddus hwnnw, gyda bywyd ac awdurdod, a hynny allan o addewidion yr efengyl tybiaf y gwnai hynny i ni waeddi allan, "*Onid oedd ein calonnau yn llosgi ynom tra yr oedd efe yn agoryd i ni yr ysgrythyrau.*" Luc, 24 : 32. Os crynodd Ffelics wrth glywed ei farn yn cael ei thraethu gydag awdurdod, paham

na fyddai i'r credadyn gael ei adfywio wrth glywed un yn ymadroddi ynghylch ein gorphwysfa dragywyddol? Y mae dynion drwg yn ymhyfrydu i ymddiddan am eu drygioni, ac oni ddylai pob gwir Gristion fawr hoffi clywed ymddiddan am Grist, ac etifeddion y nefoedd garu clywed son am eu hetifeddiaeth? Hyn a ddylai fywiogi ein hysprydoedd a llonni ein calonnau, megis y bywiogodd yspryd Jacob pan ganfu'r cerbydau (Gen. 46 : 27) a anfonasai Joseph i'w ddwyn i wlad Gosen. O na byddem oll wedi ein cynnysgaeddu â medrusrwydd, ac ymroad, a chwbl fwriad i droi ymddiddanion cyffredin dynion at yr ystyriaethau hyfryd, gogoneddus, a nefol hyn, fel y byddo megis afon yn ffrwythloni pob lle! fel pan fyddom yn clywed dynion yn ymddiddan am bethau anfuddiol, y medrem ninnau daflu gair i mewn am y nefoedd, a dywedyd, megis Pedr am ymborth y corph, *Nid felly, canys ni fwyttëais i un amser ddim cyffredin neu aflan.* Act. 10 : 14. O y daioni a fedrem wneuthur, a'r llesâd a allem dderbyn, wrth ganlyn y rheol hon! Oni buasai ei fod yn ewyllysio ein rhybuddo rhag ymarfer âg ymddiddanion ofer ac anfuddiol, ni fuasai ein Hiachawdwr Crist yn dywedyd, "*mai am bob gair segur a ddywedo dynion, y rhoddant hwy gyfrif yn nydd y farn.*" Mat. 12 : 36. Dywedwch, gan hynny, megis y Salmydd, pan fyddoch mewn rhyw gymdeithas, *Glyned fy nhafod wrth daflod fy ngenau, oni chodaf Jerusalem goruwch fy llawenydd pennaf.* Salm 137 : 6. Ac yna y cewch wybod mai gwir yw'r geiriau hynny o eiddo Salomon, *Pren y bywyd yw tafod iach.* Diar. 15 : 4.

§ 15. (5) Ymdrecha, ymhob dyledswydd, i gyfodi dy serchiadau yn agosach i'r nefoedd. Diben yr Arglwydd pan ordeiniodd efe ei ordinhadau, oedd eu gwneuthur hwy yn risiau neu raddau i'n dyrchafu ni tua'r nefoedd, ac fel y gallem esgyn yno beunydd mewn ufudd-dod i Grist. A bydded dy fwriad dithau felly wrth ymarfer â hwynt, ac yna, yn ddiau, ni fyddant yn ddiles nac yn anfuddiol. Pa gymmaint fu eich gorfoledd, lawer tro, i

dderbyn llythyr, neu ychydig linellau oddiwrth gyfaill, yr hwn ni byddai modd i chwi gael ei weled wyneb yn wyneb! Ac onis gallwn gael cymmundeb â Duw yn ei ordinhadau, er ein bod ni etto ymhell oddiwrtho? Ac onis gall ein hysprydoedd gael eu hadfywio wrth ddarllen y llinell hynny sydd yn cynnwys ein *hawl* (*charter*) i'r nefoedd, a'r rhoddion a adawodd efe i ni? Gyda pha fath lawenydd a gorfoledd y gallwn ni ddarllen yr ymadroddion o'i gariad nefol, a chlywed son am ein gwlad nefolaidd, er nad ydym hyd yn hyn wedi cael yr happusrwydd o'i gweled! Y dynion hynny a wahanwyd oddiwrth eu gilydd dros fôr a thir, a allant, er hynny, ddwyn ymlaen fasnach a marsiandïaeth mawrion ac ennillfawr trwy lythyrau. Ac onid all y Cristion, drwy ddoeth ac iawn drefnu a defnyddio ei ddyledswyddau, garrio ymlaen yr un fath fasnach am ei orphwysfa? Deuwch, gan hynny, ac ymwedwch â phob ffurfioldeb ac arferion gau, neu obaith o gael parch a chymmeriad yn y byd, a syrthiwch i lawr ar eich gliniau, mewn naill ai gweddi ddirgel neu gyhoeddus, gyda gobaith o gael eich calon yn agosach at Dduw cyn cyfodi o honoch i fynu. Pan agorych dy *Feibl*, neu ryw lyfr arall, disgwylia gael cyfarfod â rhyw ymadroddion o air y gwirionedd, a'r gyfryw fendith o eiddo yr Yspryd gyda hwynt, ag a roddo i ti fwy o flaen-brawf o'r nefoedd. A phan fyddi'n myned i dŷ Dduw, dywed ynot dy hun, "Yr ydwyf yn gobeithio cael derbyn rhyw beth oddiwrth Dduw a gyfoda fy serchiadau tua'r nefoedd cyn i mi ddychwelyd; yr ydwyf yn gobeithio y bydd i'r Yspryd fy nghyfarfod, a llonni fy nghalon â chyssuron nefol; gobeithiaf yr ymddengys Crist i mi yn y ffordd honno, a llewyrchu o'm hamgylch â goleuni o'r nef; a gadael i mi glywed ei lais i'm bywiogi a'm hyfforddi, a gwneuthur i'r cén syrthio oddair fy llygaid fel y gwelwyf ychwaneg o'r gogoniant hwnnw nag a welais erioed o'r blaen; gobeithiaf y bydd i'r Arglwydd, cyn i mi ddychwelyd, ddwyn fy nghalon i gael golwg ar fy ngorphwysfa honno, a'm gosod

felly ger bron presennoldeb ei Dad, fel y byddo i mi ddychwelyd, megis y bugeiliaid o'r weledigaeth nefol, yn gogoneddu ac yn moliannu Duw, am yr holl bethau a welais ac a glywais." Pan welodd yr Indiaid fod y Saeson yn medru ymgyfrinachu trwy anfon llythyrau y naill at y llall, hwy a dybiasant fod rhyw yspryd yn gynnwysedig yn y papyr. Felly hefyd y geill yr edrychwyr neu'r gwrandawyr eraill, pan fydd y gwir Gristion yn cael y fraint o fwynhau cymmundeb â Duw mewn dyledswyddau, ryfeddu pa beth oedd yn yr ysgrythyrau hynny, yn y bregeth, neu yn y weddi, i lenwi eu calonnau mor gyflawn o lawenydd, ac felly yn eu tra-dyrchafu allan o honynt eu hunain, ac yn uwch na'r byd. Ac yn ddiammeu ni fyddai i Dduw ein sommi yn ein dyledswyddau oni b'ai ein bod ni yn ein siommi ein hunain. Cofiwch, gan hynny, weddio dros eich gweinidog, ar i Dduw roddi rhyw gennadwri yn ei enau, a adawo ryw archwaeth nefol ar eich hysprydoedd.

§ 16. (6) Defnyddia bob gwrthddrych, a phob damwain a digwyddiad, i'r diben o adgofio dy eneid o'i orphwysfa sy'n agoshau. Ac megis ag y mae pob rhagluniaeth, a phob un o roddion yr Hollalluog, yn foddion i'n dwyn i'r orphwysfa, felly hefyd y maent yn ein cyfeirio at honno megis eu pwrpas a'u diben. Ni fyddai trefn Rhagluniaeth tuag attom, a'r cymmundeb hwnnw ag sydd rhwng y duwiolion a Duw, ddim hanner mor felus, oni b'ai eu bod yn ernes ac yn flaen-brawf o gymmundeb mwy melus a gwerthfawr sydd i ddyfod. Nid wyt ti ond cymmeryd yr ernes bychan, gwael, ac yn esgeuluso swm y tryssor, neu yn derbyn y llog yn lle'r hawl, pan yr wyt yn barod i ymfoddloni ac ymorphwys yn y trugareddau hyn, ac yn anghofio coron ddiddiflanedig y gogoniant. O na byddai Cristionogion yn gywraint ac yn gyfarwydd yn y gelfyddyd nefol hon, sef dysgu i ddarllen yngwaith y greadigaeth, ac yn ffyrdd rhagluniaeth, am Dduw a'r gogoniant sydd i ddyfod, yn gystal ag yn eu Beiblau. Fel hyn y gallem gael gwell blaen-archwaeth o Grist a'r nefoedd, ymhob

pryd o fwyd, nac y mae llawer yn ei gael wrth dderbyn yr ordinhad.* Os byddi yn ffynnu yn y byd, bydded i hynny dy roddi mewn cof am dy lwyddiant tragywyddol. Pan fyddi'n lluddedig ar ol dy waith a'th lafur, gâd i hynny wneuthur y meddyliau o'th dragywyddol orphwysfa yn fwy melus. Os bydd dy amgylchiadau yn troi allan yn groes ac yn aflwyddiannus, bydded i hynny wneuthur dy ddymuniadau yn fwy taer ac hiraethlawn i ddarfod â phob tristwch, a gofid, a dioddefiadau dros byth. Pan fyddo dy gorph wedi cael ei adfywio a'i adgyfnerthu trwy gwsg neu ymborth, bydded i ti gofio am hyfrydwch annhraethol y wledd, a'r diddanwch tragywyddol a fydd gyda Christ yn y nefoedd. A phan fyddi'n clywed rhyw newyddion da, cofia y fath gyssur a fydd i ti glywed udgorn Duw, a'r cyfarchiad croesawus a gei glywed o enau Crist. Od ydwyt ti yn ymhyfrydu ynghymdeithas y gwir dduwiolion, meddwl am y cyfarfod hyfryd, a'r cymmundeb perffaith a pharhaus, gyda'r seintiau yn y nefoedd. O bydd yr Arglwydd weithiau yn ymostwng mor isel ag i ymgymdeithasu â'th yspryd, cofia am yr amser y bydd i ti gael dy ddyrchafu mor uchel, a phan fydd y cymmundeb hwnnw a'th orfoledd yn gyflawn. A fyddi di yn clywed twrf cynddeiriogrwydd yr annuwiolion a therfysg y byd? yna meddwl am y tawelwch sydd tu draw i'r bedd, a'r tangnefedd, a'r cydundeb, a'r cariad sydd yn y nef. O byddi yn clywed rhyferthwy rhyfeloedd, cofia am y dydd y byddi, mewn perffaith heddwch, dan adenydd Tywysog tangnefedd yn dragywydd. Fel hyn y mae pob cyflwr a phob creadur yn rhoddi i ni addysgiadau a hyfforddiant i arwain bywyd nefol, pe byddai gennym galonau i'w hiawn ddefnyddio.

§ 17. (7) Ymarfer yn aml â'r gwaith angelaidd o foli Duw, canys pa fwyaf nefolaidd fyddo'r gwaith, o gymmaint a hynny y bydd yr yspryd yn fwy nefolaidd. Moli Duw

* Cymmun, Sacrament, neu swper yr Arglwydd.

yw gwaith yr angelion a'r seintiau yn y nefoedd; a hynny hefyd a fydd ein gwaith ninnau yn dragywydd. A phe byddem yn amlach yn y gwaith hwnnw yn awr, yna y byddem yn fwy cyffelyb i'r hyn a fyddwn y pryd hynny. Megis y mae dymunaid, ffydd, a gobaith yn llai parhaus na chariad a llawenydd, felly hefyd pregethu, gweddio, a'r sacramentau, a phob moddion eraill i eglurhau a chadarnhau ein ffydd a'n gobaith, a ddarfyddant, pan y bydd ein harwyddion gorfoleddus o gariad a llawenydd yn parhau'n dragywydd. Y cynllun mwyaf cywir o'r nefoedd, a wn i am dano ar y ddaear, yw cynnulleidfa o bobl dduwiol wedi ymgyfarfod ynghyd dan ddwys ymdeimlad o haelioni a daioni'r Arglwydd, ac yn cyduno, âg un genau ac âg un galon, i glodfori Duw, ac i ganu mawl i'w enw gogoneddus. Ac y mae'r hyfrydwch, a'r diddanwch, a'r gorfoledd, ag y maent yn ei gael yn y gwaith, (yr un fath a thystiolaeth yr Yspryd,) yn dangos yn eglur eu bod o Dduw, ac yn dwyn hefyd gyda hwynt arwyddion diamheuol o'n hachau nefolaidd.

§ 18. Ychydig a wyddom gymmaint o gam yr ydym yn ei wneuthur â ni ein hunain, pan fyddom yn esgeuluso rhoddi diolchgarwch i Dduw yn ein gweddiau, ac ar yr un pryd, yn faith ac yn helaeth yn ein cyfaddefiadau a'n herfyniau. Ddarllenydd, yr ydwyf yn deisyfu arnat gofio hyn, gâd i fawl a diolchgarwch gael mwy o le yn dy ddyledswyddau, a bydded i ti ymhelaethu ar yr amryw ystyriaethau ag sy'n gofyn diolchgarwch, yn gystal ag ar yr hyn sy'n dy gymmell i wneuthur cyfaddefiadau a gofynion. Ac i'r diben hynny ystyria yn ddwys ddaioni ac haelioni yr Hollalluog yn gystal a'th eisiau, a'th ddiffygiadau, a'th hollol anhaeddiant, a chofia am y bendithion a dderbyniaist, yn gystal a'r rhai sydd dan addewid, pan fyddi'n adgoffa y pechodau hynny, y rhai y buost yn euog o honynt. *I'r rhai uniawn gweddus yw mawl. Yr hwn a aberthо foliant, a'm gogonedda i. Molwch yr Arglwydd, canys da yw'r Arglwydd; cenwch i'w enw, canys hyfryd*

*yw.* Salm 135 : 1, 3 ; 50 : 23. *Gadewch i ni gan hynny offrymmu aberth moliant yn wastadol i Dduw, yr hyn yw ffrwyth ein gwefusau, yn clodfori ei enw ef.* Heb. 13 : 15. Onid oedd gan Ddafydd yspryd nefolaidd pan yr oedd efe cyn amled yn y gwaith nefolaidd hwn? A phan fyddwn yn darllen cân Moses a Salmau Dafydd, oni fydd hynny yn codi ein calonnau? A phe byddem fedrus ac yn aml yn y gwaith ein hunain, pa faint mwy y byddai i hynny godi ac adfywio ein calonnau! O ynfydrwydd ieuengctyd, y rhai sy'n treulio holl nerth a galluoedd eu cyrph a'u heneidiau ar wag ddifyrrwch a chwantau cnawdol, y rhai sydd mor anwyddus i fod yn ddewiswaith a hyfrydwch dynion sydd â rheswm ganddynt! Ac, O bechadurus wiriondeb llawer o seintiau neu wir Gristionogion, y rhai sy'n boddi eu hysprydoedd mewn tristwch gwastadol, y rhai sy'n treulio eu dyddiau mewn wylofain ac ocheneidiau, ac felly yn eu gwneuthur eu hunain, mewn corph ac enaid, yn anaddas i'r gwaith melus a nefolaidd hwn! Yn lle cyduno â phobl Dduw i'w glodfori, y maent yn dra phryssur yn ammeu eu teilyngdod, ac yn myfyrio ar eu trallodion a'n blinderau, ac felly yn difeddiannu Duw o'i ogoniant, a hwy eu hunain o'u gorfoledd. Ond yr hyn sy'n dinystrio ein cyssur fwyaf yn y ddyledswydd hon, yw ein bod yn ymfoddloni ar y dôn, neu'r gynghanedd a'r beroriaeth, a gadael i'r galon fod yn segur, yr hon a ddylasai gymmeryd y rhan fwyaf o'r gwaith, ac arfer y beroriaeth i'w hadfywio a'i llonni ei hun.

§ 19. (8) Meddianna dy enaid, bob amser, gyda meddyliau crediniol o annherfynol gariad Duw.—Cariad sydd yn ennill cariad. Nid oes ond ychydig mor anfad a dirmygedig na charant y rhai a'u câr hwythau. Yn ddiau, angeu i'n bywyd nefolaidd yw cynnwys meddyliau caledion am Dduw, a meddwl am dano megis un yn fwy parod i'n damnio na'n hachub. Ni fyddai hyn (gyda pharch y dywedwyf) ond gosod allan y Duw bendigedig ar lun Satan; canys wedi i ni, fel hyn yn ein hanwybodaeth a'n

nanghrediniaeth, dynnu darluniad afluniaidd o Dduw yn ein tyb ein hunain, yna yr ydym yn dechreu cwyno na fedrwn mo'i garu nac ymhyfrydu ynddo. Dyma ymddygiad llawer o filoedd o Gristionogion. Och, ein bod ni fel hyn yn medru cablu Duw, ac yn diddymu ein llawenydd ein hunain! Y mae'r Ysgrythyr Lân yn ein sicrhau ni—*Duw cariad yw;* (Ioan, 4 : 16;) ac, *nad oes lidiawgrwydd ynddo.* Esay, 27 : 4. *Nad yw yn ymhoffi yn marwolaeth yr annuwiol, ond troi o'r annuwiol oddiwrth ei ffordd a byw.* Ezec. 33 : 11. Mwy o lawer y tystiolaethodd efe ei gariad tuag at ei rai dewisol, a'i lawn fwriad i'w hachub. O na fedrem ni, bob amser, feddwl am Dduw megis am gyfaill! megis am un ag sydd yn ein caru yn ddiffuant, hyd yn nod yn fwy nag yr ydym yn ein caru ein hunain, a'i galon wedi ei gosod arnom i wneuthur i ni ddaioni, ac hefyd wedi parottoi i ni drigfan dragywyddol gydag ef ei hun! Ni fyddai, gan hynny, mor anhawdd i ni gadw ein calonnau gydag ef bob amser! Canys lle byddom yn caru â'n holl galon, yno hefyd y bydd ein meddyliau a'n serchiadau yn hoffi aros. Ofni yr ydwyf fod y rhan fwyaf o Gristionogion yn meddwl mwy am gariad cyfaill hawddgar nag am gariad Duw. A pha ryfeddod, gan hynny, os ydynt yn caru eu cyfeillion yn fwy na Duw, ac yn ymddiried mwy ynddynt, ac yn fwy dewisol ganddynt fyw gyda hwynt na chyda Duw.

§ 20. (9) Deliwch sylw ar gynhyrfiadau Yspryd Duw, a choleddwch hwynt. Os bydd i'th enaid fyth esgyn yn uwch nâ'r ddaear, a dyfod yn gydnabyddus â'r bywyd nefol hwn, rhaid i Yspryd Duw fod i ti megis y cerbyd i Elias; ïe, rhaid iddo fod i ti yn elfen, neu'r egwyddor fyw honno, trwy ba un y mae i ti symmud ac esgyn i fynu. O, gan hynny, na thristâ dy arweinydd, na ddiffodda dy fywyd, na thynn ymaith olwynion dy gerbyd! Ychydig yr ydych yn ei feddwl, pa gymmaint y mae bywyd eich grasusau, dedwyddwch eich heneidiau, yn sefyll ar eich hufudd-dod ewyllysgar ac o'r galon i Yspryd Duw. Pan

fydd yr Ysbryd yn dy gymmell i weddi ddirgel, ac yn gommedd i ti dy droseddiadau adnabyddus, neu yn dangos i ti y ffordd y dylit rodio ynddi, a thithau heb ystyried, nid rhyfedd fod y nefoedd a'th enaid dithau yn ddieithriaid i'w gilydd. Os ydwyt yn anewyllysgar i ddilyn yr Ysbryd pan y mae yn chwennych dy dynnu at Grist a'th ddyledswydd, pa fodd y dichon dy dywys i'r nefoedd, a dwyn dy galon i bresenoldeb Duw! Ac, ar y llaw arall, y fath gymmorth goruwch-naturiol, y fath ddyfodfa hyderus i mewn, a ddichon yr enaid hwnnw gael wrth nesâu at Dduw, yr hwn sy'n wastad yn ufuddhau i'r Ysbryd! Pa mor ddifraw a diymgais, a pha mor euog a chywilyddgar, y bydd yr enaid hwnnw wrth geisio nesâu at Dduw, gan gofio pa mor aml y tynnodd efe yn ol oddiwrth yr Ysbryd, ag oedd yn chwennych ei dywys! Ddarllenydd Cristionogol, oni fyddi yn teimlo ynot dy hun dueddiad cryf, ar rai amserau, i dynnu o'r neilldu, megis allan o'r byd, fel y caffech gyfleusdra i nesâu at Dduw? Na fydd anufudd, gan hynny, ond derbyn y cynnygiad, a chyfod dy hwyliau i'r gwynt tra y mae'r awel fendigaid yn parhau. Po mwyaf y gwrthwynebom yr Ysbryd, dyfnaf fydd yr archoll, a pho mwyaf ac amlaf y byddom yn ufuddhau i'w gynhyrfiadau, mwyaf buan y bydd ein heddwch a'n hiachad, a mwyaf cyflym ein camarau tua'r nefoedd.

§ 21. (10) Rhoddaf gyngor i ti hefyd ymhellach, megis un cymmorth yn chwaneg tuag at fuchedd nefolaidd; nac esgeuluswch ofal cymhedrol am iechyd y corph. Y mae y corph yn weinidog buddiol, os rhoddi iddo yr hyn sydd ddyledus, a dim yn ychwaneg; ond gormeswr ysglyfaethus a fydd os caniattei iddo yr hyn y mae efe mor afresymmol yn ei chwennychu: ac ar y llaw arall, y mae megis cyllell neu erfyn difin, os gommeddi iddo, heb achos, yr hyn sydd mor angenrheidiol tuag at ei gynhaliaeth. Pan yr ystyriom pa cyn amled y mae dynion yn troseddu yn y naill yn gystal a'r llall, a pha gyn lleied rhifedi sydd

yn arferu eu cyrph yn iawn, nid oes achos i ni ryfeddu os byddant yn cyfarfod âg aml rwystr yn eu cymmundeb â'r nefoedd. Y rhan fwyaf o ddynion ydynt gaethion i'w trachwantau, ac ni fedrant ond prin iawn ommedd dim i'r cnawd, ac o herwydd hynny y maent yn cael eu pryssuro ymaith at eu difyrrwch, eu helw bydol, neu eu cyfeillion ofer, pryd y dylent gyfodi eu meddyliau at Dduw i'r nefoedd. Gan hynny, megis ag yr ydych yn caru eich heneidiau, "na wnewch ragddarbod dros y cnawd er mwyn cyflawni ei drachwantau;" (Rhuf. 13 : 14;) ond cofiwch hyn, "Synniad y cnawd marwolaeth yw; o blegid synniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw; canys nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw, o blegid nis gall chwaith: a'r rhai sydd yn y cnawd ni allant ryngu bodd Duw. Am hynny, frodyr, dyledwyr ydym, nid i'r cnawd i fyw yn ol y cnawd; canys os byw yr ydych yn ol y cnawd, meirw fyddwch; eithr os ydych yn marweiddio gweithredoedd y corph trwy'r Yspryd, byw fyddwch." Rhuf. 8 : 6--8, 12, 13. Y mae hefyd rai ag sy'n attal eu gorfoledd nefol, trwy ommedd i'r corph yr hyn y mae yn ei ofyn i ddiwallu ei angenrheidiau, ac felly yn ei wneuthur yn analluog i'w gwasanaethu. Pe byddai'r cyfryw yn gwneuthur cam â'r cnawd yn unig, ni fyddai hynny ond o ychydig bwys; eithr y maent hefyd yn troseddu yn erbyn eu heneidiau, fel ag y mae'r hwn sy'n tori tŷ'n yspeilio'r trigolion. Pan fyddo'r corph yn salw, a'r ysprydoedd yn weiniaid, pa mor fusgrell a diymadferth a fyddwn yn ein holl ddyledswyddau, yn methu dyrchafu ein meddyliau tuag at orfoledd y nefoedd.

# PENNOD XIII.

## NATUR NEFOL FYFYRDOD, YNGHYD A'R AMSER, Y LLE, A'R DYMHER FWYAF ADDAS AT HYNNY.

§ 1. Y mae'r ddyledswydd o nefol fyfyrdod yn cael ei chymmeradwyo i'r darllenydd, § 2. Ac yn cael ei darlunio. § 3—6. (I.) Y mae'r darluniad yn cael ei egluro trwy esiamplau; § 7. (II.) A'r amser mwyaf addas at hynny yn cael ei ddangos, megis, § 8. (1) Bod yn angenrheidiol pennu amser neillduol at hynny, § 9—12. (2) yn fynych, § 13. ac yn (3) brydlawn, bob dydd, ond yn enwedig ar ddydd yr Arglwydd; § 14—17. Ac yn fwyaf neillduol pan fyddo ein calonnau wedi eu cynnesu gydag ymsyniad o bethau Dwyfol, neu pan fyddom dan gystuddiau neu brofedigaethau, neu yn agos i farwolaeth. § 18. (III.) Y lle mwyaf addas at hynny yw'r lle mwyaf dirgel, § 19. (IV.) a'r dymher fwyaf addas § 23. (1) pan fyddo ein meddyliau fwyaf rhydd oddiwrth y byd; § 21. (2) a phan fyddom fwyaf dwys, meddylgar a difrifol.

§ 1. Unwaith yn ychwaneg yr ydwyf yn deisyfu arnat, ddarllenydd hawddgar, os ydwyt yn ewyllysio gwneuthur cydwybod o ddyledswyddau eglur a datguddiedig, ac os na elli, o'th fodd, wrthwynebu'r yspryd; megis yr ydwyt yn gwerthfawrogi hyfrydwch y saint, a'r gwaith diddan, cyssurfawr o fyfyrio ar bethau nefol, yr hyn sydd yn mawr-lonni'r enaid, cais ymosod dy hun, yn ddioedi, ynghylch astudio a chyflawni'r cyfarwyddiadau canlynol. Ac os na fydd i ti, trwy'r moddion hyn, gael profi chwanegiad o'th holl rasusau; os na fydd i ti gynnyddu yn fwy na mesur cyffredin corpholaeth pob Cristion; os na fydd i ti gael dy wneuthur yn fwy buddiol ac adeiladol yn dy le a'th sefyllfa, ac yn fwy gwerthfawr yngolwg pob dyn sydd â dim gwybodaeth ynddo; os na fydd i'th enaid gael mwy o gymmundeb â Duw, a'th fywyd fod yn llawnach o gyssur, fel ag y bydd hyn oll o fawr fudd a llesâd i ti yn awr

angeu; yna y rhoddaf gennad i ti fwrw oddiwrthyt y cyfarwyddiadau hyn, a gwaeddi allan yn fy erbyn megis twyllwr.

§ 2. Y ddyledswydd a chwennychwn yn fawr ei chynnyg i'th ystyriaeth, a'th gyfarwyddo i'w chyflawni, ydyw hyn, sef, Y dwys, defodol, a difrifol ymosodiad o holl alluoedd dy enaid ynghylch y gwaith o fyfyrio ar dy dragywyddol orphwysfa, a'r ymarferiad beunyddiol o hynny. Ond i'r diben o egluro natur y ddyledswydd yn well, myfi a gaf, yn y lle cyntaf, ymhelaethu ychydig ar y darluniad o honi.—ac yna dangos yr amser, y lle, a thymmer fwyaf addas y meddwl neu yr yspryd at hynny.

§ 3 (1) Ni fydd yn ammerthynasol i ymhelaethu ychydig ynghylch natur y gwaith ac esponio'r ddyledswydd o feddwl yn aml am bethau ysprydol, a myfyrio arnynt. Y mae hyn yn cael ei gyfaddef yn ddyledswydd gan bawb, ond yn cael ei gwadu mewn gweithred gan y rhan fwyaf o ddynion. Y mae llawer a fyddant yn gwneuthur cydwybod o ddyledswyddau eraill, etto yn esgeuluso hon. Y mae'n flin ganddynt os byddant yn esgeuluso pregeth, neu ympryd, neu weddi, naill ai yn gyhoeddus neu yn ddirgel, etto, er hyn i gyd, ni fydd dim anesmwythder ar eu meddyliau, er eu bod wedi esgeuluso myfyrdod, fe allai, eu holl fywyd, hyd yr awr hon, er fod hon yn ddyledswdd trwy ba un y mae'r holl ddyledswyddau eraill yn cael eu maethu, eu gwellhau a'u hadfywio, a thrwy'r hon hefyd y mae'r enaid yn defnyddio yr holl wirioneddau eraill er ei fawr gynnydd a'i ddiddanwch. Hyn oedd gorchymyn Duw i Joshua: *Nac ymadawed llyfr y gyfraith hon o'th enau; eithr myfyria ynddo ddydd a nos, fel y cedwych ar wneuthur yn ol yr hyn sydd ysgrifenedig ynddo.* Joshua, 1 : 8. Megis ag y mae'r ymborth a dreulir yn y cylla yn cael ei droi yn sûg (*gaul*) a gwaed er cryfder ac iechyd i'r corph; felly y mae y gwirioneddau a glywsom, tra'r ydym yn eu cofio ac yn myfyrio arnynt, yn meithrin cariad gwresog, ymroad cadarn, a sanctaidd ymarweddiad.

§ 4. Y cyfryw dduwiol fyfyrdod a fydd yn rhoddi holl alluoedd yr enaid ar waith. Gwaith y byw ydyw, ac nid y marw. Gwaith ydyw hwn hefyd ag sy'n fwy ysprydol a dyrchafedig na'r un arall, ac am hynny nis gall yr un galon anianol a daearaol ei gyflawni yn iawn. Ac y mae yn rhaid bod gan ein calonnau ryw berthynas i'r nefoedd, cyn y gallom gael mynych gymdeithas yno. Ac yr ydwyf yn cymmeryd yn ganiattaol, eu bod hwy y fath Gristion-ogion ag sydd a hawl ganddynt i'r orphwysfa, pan yr wyf yn eu hannog i orfoleddu yn y myfyrdod o'r orphwysfa. A chan fy mod yn tybied dy fod di yn Gristion, yr ydwyf dy gymmell i fod yn Gristion mewn *gweithred a gwirion-edd* yn gystal ac mewn *enw* a *phroffes*. A gwaith yr en-aid yr ydwyf yn dy annog i'w gyflawni; *Canys i ychydig y mae ymarfer corphorol yn fuddiol*. 1 Tim. 4 : 8. Ac y mae yn angenrheidiol i'r cyfryw fyfyrdod feddiannu holl alluoedd yr enaid, gan fod hyn yn wahaniaeth rhyngddo a myfyrdod ysgolhaig neu astudiwr; canys nid yw'r deall yn cynnwys y cwbl o'r enaid, ac felly nid ydyw chwaith yn ddigonol i'r gwaith. Megis yn y corph, y mae'r cylla yn troi yr ymborth yn sûg (*gaul*,) ac felly yn ei barottoi i'r afu, a'r afu (neu'r iau) a'r cleddyf bleddyn yn ei droi yn waed, ac yn ei wneuthur yn addas i'r galon a'r ymen-ydd; felly hefyd yn yr enaid, y mae'n angenrheidiol i'r deall dderbyn y gwirioneddau, a'u cymmeradwyo i dder-byniad yr ewyllys, a'r ewyllys drachefn i'r serchiadau. Y mae yn Nghrist, ac yn y nefoedd, amryw ragoriaethau, ac o herwydd hynny y mae Duw wedi cynnysgaeddu yr enaid â gwahanol alluoedd i amgyffred ac i werthfawrogi y rhagoriaethau hynny. Pa elw a gawsem ni oddiwrth yr holl flodau peraroglaidd, oni buasai i Dduw ein cynnys-gaeddu â'r gynneddf o *arogli*? neu pa fudd fuasai iaith, (neu ymadrodd,) neu *fiwsig* i ni, oni buasem yn medru clywed? neu pa hyfrydwch a allasem gael mewn bwyd-ydd a diodydd, heb allu o honom i archwaethu? Felly, yr un modd, pa lesâd a allasai holl ogoniant y nefoedd ei

wneuthur i ni, neu pa bleser a fuasem yn ei gael ymherffeithrwydd Duw ei hun, pe buasem yn amddifaid o'r serchiadau o gariad a llawenydd? Neu, pa fodd y bydd i ti gael dy gyfnerthu, neu fwynhau melusder wrth fyfyrio ar dragywyddoldeb, pan nad ydwyt yn feddiannol o gyfryw serchiadau'r enaid, (neu o'r hyn lleiaf heb ymarfer â hwynt,) fel y byddai i ti fwynhau y cyfryw hyfrydwch, a derbyn nerth i'th ymgryfhau? Camsynniad Cristionogion ydyw meddwl mai gwaith y deall a'r cof yn unig yw myfyrdod; pan, ar yr un pryd, y gall pob ysgolhaig wneuthur hyn, a'r rhai hynny hefyd ag sy'n casâu'r pethau ag y maent yn meddwl am danynt; ac felly, yn ol barn y cyfryw, nid oes dim ychwaneg yn angenrheidiol i gyflawni'r ddyledswydd hon na chofio a meddwl am y nefoedd. Ond y mae yn angenrheidiol i holl alluoedd yr enaid gael eu gosod ar waith yn y ddyledswydd hon; megis ag y mae amryw fath o weithydd yn gofyn i ddynion arfer, nid yn unig y traed neu'r dwylaw, ond hefyd nerth ac ymegniad yr holl gorph. Ac megis y mae serchiadau pechaduriaid, yn gystal a'u rheswm a'u deall, wedi syrthio oddiwrth Dduw, ac wedi eu gosod ar bethau'r byd hwn, ac wedi eu troi at eilunod, felly y mae'n angenrheidiol i'n dealldwriaeth a'n serchiadau gael eu dwyn yn ol, a'u gosod ar Dduw yn unig; ac megis ag yr oedd yr holl enaid o'r blaen yn llawn o bechod, felly y mae'n rhaid i eneidiau y ffyddloniaid gael eu cyflenwi â holl gyflawnder Duw. Darllenwch ddarluniad y dyn duwiol, bendigedig, fel ag y mae wedi ei osod allan gan Ddafydd yn y Salm gyntaf: "Canys y mae ei ewyllys a'i hyfrydwch ynghyfraith yr Arglwydd, ac y mae yn myfyrio ynddi ddydd a nos."

§ 5. Y mae yn angenrheidiol cyflawni'r ddyledswydd hon, nid yn unig mewn modd syml a difrifol, ond hefyd fod rhyw amser pennodol wedi ei neillduo at y gwaith. Megis ag y mae amser gosodedig i weddio, pan y byddom yn ymosod yn hollol at y gwaith, er y bydd y Cristion yn dyrchafu erfyniau dirgel yn aml i'r nefoedd; felly

hefyd yr un modd, dymunol iawn fyddai fod gennym amserau pennodol a gosodedig at Fyfyrdod, gan ymroddi ein hunain yn hollol i'r gwaith, heblaw y rhwymedigaeth sydd arnom i ddyrchafu ein meddyliau yn aml at Dduw, ynghanol ein gorchwylion bydol. Megis y mae gweddi gyhoeddus, naill ai yn gylchynol ar ryw amserau pennodol, neu ynte ar ryw achosion pwysfawr, felly hefyd y dylai fod ein myfyrdodau duwiol. Yn awr, er y chwennychwn yn fawr eich cymmell i ymarferu â'r fath fyfyrdodau yn nghanol eich gorchwylion bydol, ac hefyd â'r cyfryw ag a fyddant yn ofynnol ar ryw achosion neillduol; etto, er hyn oll, myfi a ewyllysiwn i chwi wneuthur y ddyledswydd hon yn waith cylchynol a beunyddiol, ac hefyd ei harfer ar amserau pennodol, yr un fath ag y byddwch yn arferol o wrando, a gweddio, a darllen gair Duw; ac ar yr un pryd heb gymmysgu hyn â dyledswyddau eraill, mwy nag y gwnaech hynny gyda'ch gweddiau ar ryw achosion cyhoeddus.

§ 6. A'r myfyrdod hwn hefyd a ddylai fod ar dy dragywyddol orphwysfa. Ni fynnwn i chwi fwrw heibio, neu gwbl ymwadu â'ch myfyrdodau eraill; ond yn ddiau, megis ag y mae'r nefoedd yn rhagori mewn perffeithrwydd, felly hi a ddylai gael y lle blaenaf yn ein myfyrdodau. Canys yr hyn a'n gwna ni yn fwyaf happus yn y meddiant o hono, a'n gwna hefyd yn fwyaf gorfoleddus wrth fyfyrio am dano. Y mae myfyrdodau eraill mor amrywiol a lliosog, ag ydyw'r llinellau yn yr ysgrythyrau, neu'r creaduriaid yn y greadigaeth, neu'r rhagluniaethau neillduol yn llywodraeth y byd. Taith yw hon i fynydd *Seion;* allan o deyrnasoedd y byd hwn i deyrnas y saint; o'r ddaear i'r nefoedd; o amser i dragywyddoldeb: hyn yw rhodio goruwch haul, a lleuad, a'r ser, yngardd a pharadwys Duw. Geill ymddangos megis ymhell oddiwrthych; ond yr ysprydoedd ydynt gyflym; pa un bynnag ai yn y corph, ai allan o'r corph, eu symmudiad a'u hysgogiadau sydd fuan. Nid oes achos i chwi ofni, megis

pobl y byd; gwna'r meddyliau hyn chwi yn wallgof neu'n ynfyd. Yn y nefoedd, ac nid yn uffern, yr ydwyf yn eich cymmell i rodio: a gorfoledd ac nid tristwch, yr ydwyf yn eich annog i ymarferu âg ef. Nid ydwyf yn eich cymmell i edrych ar ryw wrthddrychau gwrthun; ond ar ogoniant tra chyssurus a gogoneddus y saint; ac ar annhraethol ragoriaethau Duw'r gogoniant, a'r pelyderau disglaer sy'n tywynu o wynebpryd ei Fab. A fydd synwyrau dynion yn arferol o rwystro wrth fyfyrio ar eu happusrwydd? A fydd yn gythryblus i'r truenus feddwl am gael trugaredd, neu i'r carcharor ragweled ei waredigaeth, neu yn siommedigaeth i'r tlawd feddwl am y golud a'r goruchafiaeth a ddarparwyd iddo? Meddyliwyf yn hytrach, y byddai dyn yn fwy tebyg i anhwylio, wrth feddwl am fyw mewn byd o drallod, a bod mewn tlodi a chlefyd, ymysg cynddaredd dynion drwg, annuwiol, nag wrth feddwl am fyw gyda Christ mewn gwynfyd! "Ond doethineb a gyfiawnheir gan bawb o'i phlant." Luc, 7 : 35. Nid oes ond yr anwybodus yn elyn i wybodaeth. Ni ddywedodd neb erioed yn erbyn yr *yrfa nefol* hon, ond y rhai nid adwaenent hi, neu'r rhai hynny nis ymarferasant â hi. Ofni yr ydwyf esgeulusdod y rhai sy'n ei chymmeradwyo yn fwy na gwrthwynebiad a rhesymmau y rhai sy'n ei herbyn.

§ 7. (II.) Ynghylch yr amser mwyaf addas a pherthynasol i'r gwaith nefolaidd hwn, sef myfyrdod, gadewch i mi yn unig eich cynghori, ar iddo fod ar amserau pennodol a gosodig,—yn aml,—ac yn brydlawn.

§ 8. (1) Dyro amser pennodol i'r ddyledswydd hon. Os bydd i ti addasu'r amser at fuddioldeb y gwaith, ac etto heb feddwl fod crefydd yn gydgyssylltiedig â'r adeg, neu yn perthynu i'r amser, ni fydd yr un achos i ti ofni bod yn goelgrefyddol. Y mae amser gosodedig a chylchynol megis clawdd o amgylch y ddyledswydd, ac yn ei chadw rhag y brofedigaeth o esgeulusdod. Ond y mae rhai nad yw eu hamser at eu llaw, neu yn eu meddiant eu hunain,

ac o herwydd hynny, nis gallant gadw rhyw awr bennodol, ac y mae rhai eraill cyn dlotted, fel nad ydyw angenrheidiau eu teuluoedd yn caniattau iddynt y cyfryw ryddid. Dyledswydd y cyfryw rai yw bod yn ddiwyd ac yn wyliadwrus, i *brynu'r amser* gymmaint ag a fedrant, a chymmeryd pob cyfleusdra a allant gael, neu fel ag y digwyddo, ac yn enwedig i ymarfer myfyrdod a gweddi gymmaint ag y bydd modd iddynt, pan y byddont gyda'u gorchwylion, neu ynghylch eu hamrywiol alwedigaethau. Ond am y rhai hynny nad ydyw eu hangenrheidiau bydol yn gofyn eu holl amser, yr ydwyf yn eu cynghori i roddi heibio ryw amser pennodol i'r ddyledswydd hon. Ac mewn gwirionedd, pe byddai pob rhan o'r dydd yn cael ei waith perthynol, a'n holl amser wedi ei neillduo i ryw orchwyl neu ddyledswydd bennodol, nyni a fyddem yn fwy diwyd a deallgar yn prynu ein hamser ac yn cyflawni ein dyledswyddau.

§ 9. (2) Bydded i chwi hefyd ei chyflawni yn aml, yn gystal ag ar amserau neu oriau pennodol. Pa cyn amled y dylai pob Cristion ei chyflawni, nis medraf farnu'n iawn, o herwydd fod llawer o wahaniaeth mewn amgylchiadau dynion. Ond, yn gyffredin, y mae'r ysgrythyr yn gofyn ei bod yn aml pan y mae yn dywedyd am *fyfyrio ddydd a nos*. Cynghoraf, gan hynny, y rhai a allant, yn hawdd, hebgor gorchwylion eraill i gyflawni'r ddyledswydd hon, o'r hyn lleiaf, unwaith yn y dydd. Y mae bod yn fynych mewn nefol fyfyrdod o'r pwys a'r canlyniad mwyaf.

§ 10. Bod yn aml yn y ddyledswydd hon a fydd yn debygol hefyd o ragflaenu pob diofalwch ac oerfelgarwch yn dy enaid tuag at Dduw. Aml gymdeithas a fydd yn meithrin rhwyddineb, a hyfdra, a chynnefindra; a hyn a fydd yn magu cariad ac hyfrydwch; a'r rhai hynny, drachefn, a'n dysgant i nesâu yn *hyderus at orsedd-faingc y gras*. Ystyr pennaf a diben mwyaf y ddyledswydd hon, ydyw maethu adnabyddiaeth a chymdeithas rhyngom ni a Duw; gan hynny, os na fydd i ti ddyfod ond yn anaml at y gwaith,

tydi a gedwi dy hun fyth yn ddieithr iddo. Pan y mae dyn yn cael ei ddwyn yn brofiadol i ganfod eisiau Duw, ac i weled yr angenrheidrwydd o'i gymmorth mewn amser adfyd, yna y byddai'n gyssur ac yn annogaeth mawr, i nesâu at Dduw yr ydym yn ei adnabod, ac i fyned atto megis at Dad tirion. "O, (medd y Cristion nefol) mi a wn i ba le, ac at bwy yr ydwyf yn myned. Myfi a fum yn myned y ffordd hon lawer gwaith o'r blaen. Dyma'r Duw yr ydwyf yn arferol o gymdeithasu âg ef; ac ar hyd y ffordd hon y mae fy ymdaith feunyddiol: a'r Duw hwn a'm hadwaen yn llwyr; ac yr ydwyf finnau, mewn rhan, yn ei adwaen yntau." Ar y llaw arall, pa fath rwystr a dychryndod a fyddai i'r enaid hwnnw geisio nesâu at Dduw mewn cyfyngder, gan ddywedyd, "Och! nis gwn i ba le i fyned; nid aethum erioed y ffordd hon o'r blaen: nid oes gennyf ddim cydnabyddiaeth yn llys y nefoedd: fy enaid nid adwaen y Duw hwnnw y chwennychwn gymdeithasu âg ef; ac ofni yr ydwyf nad ydyw yntau yn ewyllysio arddel fy enaid innau." Ond yn enwedig pan y bydd awr angeu yn nesâu attom, ac y bydd yn rhaid i ni, yn ddiymaros, ymddangos ger bron Duw, gan obeithio cael ein derbyn i'w dragywyddol orphwysfa; yna y rhagoriaeth a ymddengys yn eglur; yna pa fath lawenydd a fydd iddo feddwl, "Yr ydwyf yn myned i'r lle hwnnw yr oedd fy nghymdeithas feunyddiol ynddo; i'r fan lle y profais y cyfryw ragorol gyssuron; ac at y Duw hwnnw y rhyngodd bodd iddo gyfarfod â mi mor aml yn fy myfyrdodau. Y mae fy ngalon wedi bod yn y nefoedd lawer gwaith o'r blaen, ac wedi cael ei llonni âg annhraethol gyssuron a diddanwch; ac os cafodd fy llygaid eu goleuo, a'm hysprydoedd eu llonni, cyn gymmaint pan yr oeddwn ond yn unig megis yn profi'r blaen-ffrwyth, pa faint mwy a fydd fy hyfrydwch a'm gorfoledd, pan gaf ymborthi yn helaeth ac yn ddiddiwedd ar y manna nefol?" Ac ar y llaw arall, y fath ddychryndod a fydd iddo feddwl, "Rhaid i mi farw, a myned nis gwn i ba le; o'r fangre yr ydwyf yn gydnab-

yddus, i wlad lle nad oes gennyf na pherthynas na chydnabod!" Y fath ddychryndod ofnadwy fyddai i ddyn ar drangcedigaeth fod heb wybod dim am y nefoedd, a bod yn ddieithr i Dduw, a chynnwys meddyliau celyd am dano! y mae yn ddigonol gennyf mai'r esgeulusdod o'r ddyledswydd hon sy'n gwneuthur angeu mor annymunol ac anghyssurus i lawer o ddynion duwiol. Gan hynny, yr ydwyf yn eich cymmell i fod yn aml yn y ddyledswydd hon: canys hynny a gymmerai ymaith yr ofnau, a'r anewyllysgarwch ag sydd ynot i nesâu at Dduw.

§ 11. Ac hynny hefyd a dynnai ymaith bob anfedrusrwydd yn y ddyledswydd. Pa mor anfedrus y bydd dynion yn ymosod ynghylch rhyw waith y byddont yn anghynnefin âg ef! Ond bod yn aml ac yn fynych yn y gwaith, a gynnefinai dy galon âg ef, ac a'i gwnelai yn fwy esmwyth a hyfryd. Yr allt, neu'r rhiw, a wnaeth i ti chwythu a dyheu cyn gymmaint wrth ei hesgyn y tro cyntaf, a fydd yn haws ei cherdded wedi i ti ymfarferu, fel y gelli, yn y diwedd, redeg i'w phen yn ddiboen.

§ 12. Wrth wneuthur hyn hefyd, ti a ymgedwi dy hun rhag colli'r bywyd a dderbyniaist, a'r cynnesrwydd, neu'r *zel*, a fu unwaith ynot. Pe byddai i ti gymmeryd ymborth ond unwaith mewn dau neu dri diwrnod, tydi a fyddit yn debygol iawn o golli dy nerth a'th gryfder yn gynt nag y derbynit hwynt. Felly hefyd mewn sanctaidd fyfyrdod, os bydd i ti nesâu at Grist, a chynnesu dy galon gyda thân ei gariad, ac ar ol hynny dyfod atto ond yn anaml, yna yn ddiau dy oerfelgarwch gynt a ddychwelai attat drachefn, yn enwedig gan fod y gwaith mor ysprydol, ac yn groes i elfen ein natur lygredig. Gwir yw y gallai cymmysgu rhyw ddyledswyddau eraill, yn enwedig gweddi ddirgel, gynnorthwyo llawer tuag at gynnal dy galon i fynu, a'i chadw yn y nefoedd; ond myfyrdod yw bywyd y rhan fwyaf o'n dyledswyddau eraill; a chael golwg ar y nefoedd yw bywyd myfyrdod.

§ 13. (3) Dewis hefyd yr amser mwyaf cyfaddas a chyf-

leus. Pob peth a wneir yn brydlawn ac yn ei amser sydd hardd, gweddus, a rhagorol. Penu adeg anghyfleus a ddichon fod yn rhwystr i'r gwaith, a throi dyledswydd yn bechod. Un awr a all fod yn gyfleus i un, ac yn anghyfleus i un arall. Bydd raid i weinidogion a gweithwyr gymmeryd yr awr a'r pryd fyddo hawddaf iddynt ei hepgor; naill ai pan fyddont gyda'u gwaith, neu ar eu taith, neu yn effro yn y nos. A'r rhai hynny sydd mewn sefyllfa i ddewis yr awr a fynnont, a ddylent gadw at yr amser hwnnw, pan fyddo eu hysprydoedd yn arferol o fod yn fwyaf bywiog, ac felly yn fwy addas at fyfyrdod. Am danaf fy hun, yr ydwyf wedi profi mai'r amser mwyaf cyfaddas i mi yw yr hwyr, o fachlud haul hyd y cyfnos. Yr ydwyf yn sylwi ar hyn yn fwyaf pennodol o herwydd mai hyn oedd profiad gwr oedd ddoethach a gwell na mi; canys y mae'r ysgrythyr yn coffhau'n bennodol am Isaac: "Efe a aeth allan i fyfyrio yn y maes ym min yr hwyr." Gen. 24 : 63. Dydd yr Arglwydd sydd hefyd yn bur addas a chyfleus at y gorchwyl hwn; canys pa bryd y gallwn yn well fyfyrio ar ein gorphwysfa nag ar y dydd hwnnw sy'n ei dal allan ac yn ei phortrëadu i ni? A chan fod y dydd Sabbath wedi ei neillduo at ddyledswyddau ysprydol, yn ddiau ni ddylem esgeuluso'r ddyledswydd hon, yr hon sy'n dra rhagorol ysprydol. Credu'r ydwyf mewn gwirionedd, mai hon yw'r ddyledswydd fwyaf arbenig ac angenrheidiol ar y Sabbath Cristionogol, ac mai hyn sydd fwyaf cyttunol âg ystyr a diben ei osodiad. Canys pa amser sy fwy cyfaddas i gymdeithasu â Duw na'r dydd Sabbath? Pa ddydd sydd fwy cyfaddas i esgyn i'r nefoedd na'r hwn y derchafodd ein Harglwydd o'r ddadar, ac y buddugoliaethoddar angeu ac uffern? Y dymmer oreu i bob gwir Gristion, megis Ioan, yw bod "yn yr yspryd ar ddydd yr Arglwydd." Dat. 1 : 10. A pha beth a ddichon ein dwyn ni i'r llawenydd hwnnw yn yr yspryd, ond cael gweled y gogoniant hwnnw (ag sydd ar ddyfod) yn yr Yspryd? Deliwch sylw ar hyn, chwi sy'n treulio'r dydd

Sabbath i segura, rhodianna, ac ymddiddanion ofer, pe profech, ac y gwybyddech hyfrydwch y ddyledswydd o nefol fyfyrdod, nid ewyllysiech yr un difyrrwch arall; chwi a feddyliech y dydd hwyaf yn ddigon byr, a blin fyddai gennych fod y nos wedi byrhau eich hyfrydwch. Gristionogion, gadewch i'r nefoedd gael mwy o ran yn eich Sabbathau, canys yno y byddwch ar fyrder yn cadw eich tragywyddol Sabbath. Arferwch eich Sabbathau megis grisiau tua'r gogoniant, hyd oni byddwch wedi eu treulio oll, ac wedi dyfod yno. Ond yn enwedig, chwychwi dlodion, y rhai ni ellwch gael amser yn yr wythnos, (fel yr ewyllysiech,) byddwch ofalus i iawn-ddefnyddio'r dydd hwn; ac megis ag y mae eich cyrph yn gorphwyso oddiwrth eu llafur, bydded i'ch hysprydoedd hefyd geisio gorphwysfa gan Dduw.

§ 14. Heblaw y cyfleusderau beunyddiol, (ond yn enwedig ar y dydd Sabbath,) y mae hefyd amseroedd eraill mwy pennodol i'w neillduo at nefol fyfyrdod.—Yn enwedig:

§ 15. Pan fyddo Duw wedi cynnesu dy yspryd yn dra helaeth â thân oddiuchod, yna y gelli ddyrchafu i fynu gyda mwy o ryddid. Ychydig lafur a ollwng dy galon yn rhydd, ar y cyfryw amser a hyn, pan, ar ryw bryd arall, y gelli gymmeryd llawer o boen, a hynny i ychydig ddiben. Dal sylw ar awelon yr Yspryd, ac ymha fodd y bydd Yspryd Crist yn cynhyrfu dy yspryd di. "Heb Grist ni fedrwn wneuthur dim;" gan hynny, gadewch i ni weithio tra y mae yntau yn gweithio; a chymmerwch ofal na fyddoch o'r ffordd, neu yn cysgu, ar ei ddyfodiad. Pan fydd yr Yspryd yn cael dy galon, megis Pedr yn y carchar, ac yn dy daro, ac yn dywedyd, "Cyfod ar frys, a chanlyn fi," bydd ofalus i gyfodi a'i ganlyn, a thi a gei glywed dy gadwyni yn syrthio ymaith, a'r holl ddrysau yn agor, a thi a fyddi yn y nefoedd cyn prin ddeffroi o honot.

§ 16. Amser arbenig arall at y ddyledswydd hon ydyw, pan fyddi dan ddioddefiadau, neu mewn amgylchiadau

cyfyng, neu dan brofedigaeth. Pa bryd y cymmerwn ryw beth i godi ein calonnau ac i'n cyssuro, ond pan fyddom dan wasgfa, ac ymron digalonni ac ymollwng? Pa amser sydd well i gerdded i'r nefoedd, na'r pryd nas gwyddom ymha gongl o'r byd i fyw mewn cyssur? A pha bryd y mae yn fwy gweddus i ni fod a'n meddyliau a'n hymarweddiad uchod, na phan nad oes gennym ddim ond tristwch a gofid yma isod? A pha le gwell na'r arch i golommen Noah, pan fo'r dyfroedd yn gorchuddio'r ddaear, a hithau heb fedru cael lle i wadn ei throed? Am ba le arall y meddyliem ond am dŷ ein Tad, pan na fyddo gennym hyd yn nod gibau'r byd i ymborthi arnynt? Duw'n ddiau a fydd yn anfon cystuddiau i'r diben hwn; a gwyn dy fyd, O ddyn tlawd, os dy dlodi a rydd i ti'r cyfryw addysg! a thithau'r claf a'r cystuddiedig, os dy glefyd a ddysg i ti'r cyfryw ddoethineb! Y mae'n amser i ni fyned i wlad yr addewid, pan y mae ein beichiau wedi eu hychwanegu yn yr Aipht, a ninau mewn cyfyngderau yn yr anialwch. Ddarllenydd, pe gwyddit y fath gyssur, yn dy gystuddiau, a fyddai i ti gael golygon hyfryd o'r gogoniant hwnnw, tydi a ofnit yn llai yr helbulon diniwed hyn, ac a arferit yn fwy, ac yn amlach, y feddyginiaeth gyssurlawn a gwaredigaethus honno o eiddo Dafydd: "Yn amlder fy meddyliau o'm mewn, dy ddiddanwch di a lawenycha fy enaid." Salm, 94 : 19. Ac medd St. Paul, "O blegid yr ydwyf yn cyfrif nad yw dioddefiadau yr amser hwn, yn haeddu ei gyffelybu i'r gogoniant a ddatguddir i ni." Rhuf. 8 : 18. "O herwydd paham nid ydym yn pallu, eithr er llygru ein dyn oddiallan, er hynny y dyn oddimewn a adnewyddir o ddydd i ddydd; canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd odidog ragorol, yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni, tra na byddom yn edrych ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir; canys y pethau a welir sydd dros amser, ond y pethau ni welir sydd dragywyddol. 2 Cor. 4 : 16, 18.

§ 17. Tymmor arall neillduol addas at y ddyledswydd

nefolaidd hon, ydyw, pan fydd cennadau Duw yn ein rhybuddio fod ein diwedd yn nesâu. A pha bryd y dylem ni fod yn fwy diwyd i bereiddio ein heneidiau â meddyliau crediniol am fywyd arall, na phan fo'm yn canfod fod ein bywyd yn y byd hwn ymron a darfod? Nid oes neb dynion mewn mwy o eisiau cynnorthwyon tangnefedd a gorfoledd yn yr enaid na'r rhai hynny ag sydd ar eu gwely angeu; a'r llawenydd hwn sydd raid iddynt ei gymmeryd oddiwrth ein gorfoledd tragywyddol hwnnw. Megis ag y mae cyssuron nefol yn fwyaf melus pan na fyddo dim daearol yn gymmysgedig â hwynt, felly hefyd y mae cyssuron llawer Cristion ar ei wely angeu yn fwy melus nag a brofodd erioed o'r blaen. Pa fath fendithion prophwydoliaethol a gafodd Isaac a Jacob i'w plant ychydig cyn eu marwolaeth! A'r fath gân nefol, a duwiol fendithion, y diweddodd Moses ei fywyd! Y fath gynghorion nefol, gyda gweddi, (at ei Dad drostynt,) a gafodd y disgyblion gan ein Harglwydd bendigedig, pan yr oedd efe ar ymadael oddiwrthynt! Pan yr oedd Paul yn barod i gael ei offrwm i fynu, y fath addysgiadau a chynghorion nefolaidd a roddodd efe i'r Philippiaid, i Timotheus, ac i henuriaid Ephesus! Mor agos i'r nefoedd yr oedd Ioan yn Patmos, ychydig cyn iddo gael ei drosglwyddo yno! Tymmer gyffredin y saint yw bod yn fwyaf nefolaidd, pan fyddant yn fwyaf agos i'w hymadawiad yno. A thithau, ddarllenydd, os oes gennyt achos i feddwl fod awr angeu yn agosâu attat, O ystyria, pa le y dylai dy galon fod ond gyda Christ! Tybiaf dy fod yn ei weled yn sefyll yn agos attat, a thithau yn nesâu atto, megis dy Dad, dy Briod, dy Feddyg, a'th Gyfaill. Meddyliaf y dylit fod megis yn gweled yr angelion o'th amgylch, yn disgwyl cael cyflawni'r weithred ddiweddaf i'th enaid—yr angelion hynny, nid oedd yn waradwydd ganddynt ddwyn enaid Lazarus i fynwes Abraham, ac a ymlawenychent i ddwyn dy enaid dithau yno hefyd. Ystyria dy boen a'th glefyd megis yr ystyriai Jacob gerbydau Joseph, a bydded i'th

yspryd ymlonni ac adfywio o'th fewn, gan ddywedyd, "Digon yw, y mae Crist fy Mhrynwr etto yn fyw; ac o herwydd mai byw yw efe, byw fyddaf finau hefyd." A ydwyt ti yn sefyll mewn angen o'r cyssuron mwyaf dewisol a gwerthfawr? Y mae yma rai nas dichon "y byd eu rhoddi" na'u cymmeryd ymaith chwaith. Y mae yma holl lawenydd y nef, sef y weledigaeth o Dduw a Christ; a pha bethau bynnag y mae'r gwaredigion yn eu mwynhau yma, y mae Crist, â'i law ei hun, yn cynnyg i ti'r danteithion hyn; y mae efe wedi ysgrifenu yr addysg, neu y cyfarwyddyd, yn addewidion yr efengyl; ac y mae efe wedi parottoi'r feddyginiaeth yn y nefoedd; yn unig estyn allan law ffydd, ac ymbortha arnynt, a gorfoledda, a bydd fyw. Y mae yr Arglwydd yn dywedyd wrthyt ti, megis wrth Elias gynt, *Cyfod a bwytta, o herwydd y daith sydd ry fawr i ti.* Ac er nad ydyw'n faith, etto y mae'r ffordd yn flin ac yn rhwystrus; gan hynny bydd ufudd i'r alwad; "Cyfod a bwytta, a thrwy rym y bwyd hwnnw y gelli gerdded i fynydd Duw, a marw (megis Moses) yn y mynydd yr esgynaist iddo:" a dywedyd o honot, gyda Simeon, "Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd; canys â llygad ffydd y gwelais dy iachawdwriaeth." Luc, 2 : 29, 30.

§ 18. (III.) Ynghylch y lle mwyaf cyfaddas i nefol fyfyrdod, digon yw dywedyd mai y lle mwyaf unig a dirgel yw'r fan oreu i'r diben. Y mae ar ein hysprydoedd eisiau pob cynnorthwy, a chael eu rhyddhau hefyd oddiwrth bob rhwystr i'r gwaith. Os yn ein gweddiau dirgel y mae Crist yn dywedyd wrthym, am "fyned i mewn i'r ystafell a chau'r drws," a bod ein Tad nefol yn ein gweled yn y dirgel; (Mat. 6 : 6;) felly hefyd y dylem wneuthur yn ein myfyrdodau. Pa mor aml yr aeth Crist ei hun o'r neilldu, i'r mynydd, i'r anialwch, neu i ryw le unig, dirgel, neu anial! Nid ydwyf yn rhoddi'r cyngor hwn megis yn angenrheidiol i fyfyrdod yn gyffredinol, ond yn unig pan fyddis yn pennu rhyw le cyfaddas, ac amser beu-

nyddiol at y gwaith. Ar y cyfryw amser, da a buddiol fyddai i ti fyned o'r neilldu allan o bob cymdeithas, ïe, o fysg hyd yn nod dynion duwiol, fel y byddo i ti gael mwynhau cymdeithas dy Arglwydd. Canys os na all astudiwr, yr hwn nid ydyw'n angenrheidiol iddo arferu dim ond ei gof a'i synwyrau, astudio na dysgu yn iawn mewn tyrfa, pa faint mwy anhawdd yw i ti gael holl alluoedd dy enaid yn rhyddion (mewn cynnulleidfa) at waith goruwchnaturiol, sef myfyrio ar holl weithredoedd yr Arglwydd. Yr ydym ni wrth geisio ymgadw rhag gaugrefydd, a ffoi rhag ofergoelion pabaidd,* wedi myned i ormod pellder o'r tu arall, ac felly ni fynnwn dynnu i le dirgel, gymmaint ag i'r diben o fwynhau duwiol addoliad a myfyrdod. Anaml iawn yr ydym yn darllen i Dduw, nac un o'i angelion, ymddangos i un o'r prophwydi, neu'r seintiau gynt, mewn tyrfa, ond yn fynych pan fyddent yn unig, o'r neilldu, ac wrthynt eu hunain. Ond edrych yn gyntaf, ac ystyria ynot dy hun, pa le fydd yn cyttuno oreu â'th yspryd—pa un ai yn y tŷ ai allan; ond myfi a feddyliwn mai myned allan i'r maes, megis Isaac, a fyddai oreu ar eu lles, i'r rhan fwyaf. Ein Harglwydd bendigedig a arferai gyrchu o'r neilldu i ryw ardd yr hon a adwaenai Judas yn dda; *o blegid mynych y cyrchasai yr Iesu a'i ddisgyblion yno.* Ioan, 18 : 1, 2. Ond er iddo gymmeryd ei ddisgyblion yno gydag ef, etto efe a *giliodd oddiwrthynt i weddio.* Luc, 22 : 41. Ond er nad oes dim son yn eglur am fyfyrio, etto gellir casglu hynny oddiwrth y geiriau, *Y mae fy enaid yn athrist hyd angeu;* (Marc, 14 : 34, 35;) canys wrth hyn yr ymddengys ei fod yn rhagfyfyrio ar ei ddioddefiadau a'i farwolaeth, ac wedi hynny efe a syrthiodd ar y ddaear, ac a weddiodd. Oddi-

---

* Yn y 3edd a'r 4edd ganrif, yr oedd y Meudwyaid a'r Didryfwyr yn ymdynnu allan o fysg pobl, ac o ddadwrdd y byd, ac yn byw mewn ogofeydd, ynysoedd, a mynyddoedd, a lleoedd anial, i'r dyben o gael mwy o hamdden i addoli Duw.

wrth hyn yr ymddengys fod gan ein Hiachawdwr Crist le dirgel i fyfyrio a gweddio, ac i ba un y cyrchai yn fynych; a chan fod ganddo ef le pwrpasol a phennodol, i ba un y cyrchai hyd yn nod oddiwrth ei ddisgyblion, felly hefyd y dylai fod gennym ninnau. Yr oedd ei fyfyrdodau yn treiddio'n ddyfnach na'i feddyliau, canys yr oedd ei galon a'i enaid yn athrist; ac yn yr un modd y mae'n rhaid i'n myfyrdodau ninnau fod. Ond yr oedd rhagoriaeth mawr rhwng sylwedd myfyrdodau ein Hiachawdwr a'n rhai ni; canys Crist oedd yn myfyrio ar y gospedigaeth a'r dioddefiadau oedd haeddiannol i'n pechodau ni; fel ag yr oedd digofaint ei Dad yn myned trwy ei enaid: ond yr hyn yr ydym ni i fyfyrio arno, ydyw'r gogoniant a bwrcasadd efe, fel y byddo i gariad y Tad a llawenydd yr Yspryd feddiannu ein meddyliau, adfywio ein serchiadau, a gorlenwi ein heneidiau.

§ 19. (IV.) Yr ydwyf, yn y lle nesaf, i'th gynghori yn nghylch parottoi dy galon tuag at y myfyrdod nefolaidd hwn: y mae llwyddiant y gwaith yn sefyll, mewn rhan fawr, ar dymmer dy galon. Pan nad oedd dim ynghalon dyn i dristâu ei yspryd, yna yr oedd yn drigfan hyfryd y Creawdwr; ac nid ymadawodd Duw oddiyno hyd oni throdd dyn ef allan trwy brofedigaethau mawrion. Nid oedd mewn dyn ddim ofn nac euogrwydd, ac nid oedd Duw yn diystyru'r cyfryw breswylfod hyd onid aeth ei galon yn aflan ac yn llygredig trwy bechod, ac felly yn bydew rhy ffiaidd a gwrthun i Dduw ymhyfrydu ynddi. Ond pe byddai i'r enaid yma gael ei ddwyn yn ol i'r cyflwr hwnnw o ddiniweidrwydd ag yr oedd ynddo gynt, yna Duw hefyd a ddychwelai yn fuan i'w drigfan gynt; ïe, ac hyd yn nod yn awr, pan y mae yr enaid wedi ei adnewyddu, a'i sancteiddio trwy'r Yspryd, a'i lanhau oddiwrth aflendid ei drachwantau, a'i addurno â delw yr Arglwydd, efe a'i harddelai ef etto megis ei eiddo ei hun; Crist hefyd a ddatguddiai ei hun i'r enaid hwnnw, a'r Yspryd Glân a'i cymmerai yn deml ac yn drigfan iddo ei

hun. Cyn belled ag y mae'r galon wedi cael ei haddasu i fwynhau cymmundeb â Duw, cyn belled a hynny y mae hi yn cael y fraint o fwynhau ei gymdeithas. Gan hynny "Cadw dy galon yn dra diesgeulus, canys allan o honi y y mae bywyd yn dyfod." Diar. 4 : 23

§ 20. (1) Ceisia gael dy galon mor rhydd ag y medri oddiwrth y byd. Rhaid i ti hefyd roddi heibio, yn gwbl, bob meddyliau ynghylch dy waith, dy alwedigaeth, dy helbulon, dy drafferthion, dy ddifyrrwch a'th ddigrifwch, a phob peth a fyddo'n debyg o gymmeryd lle yn dy enaid. Cais dy enaid mor rhydd ac mor wag ag y mae dichon iddo fod, fel y byddo yn fwy addas i gael ei lenwi â Duw. Pe buasai yn bossibl i ti gyflawni rhyw ddyledswydd allanol gyda *rhan* o'th galon, tra fyddai'r rhan arall yn absennol, etto, sicr ydwyf, nad oes dim modd i ti gyflawni hon felly yn anad yr un arall. Canys wedi i ti esgyn i fynydd myfyrdod, tydi a fyddi'n gyffelyb i'r cybydd ariangar ynghanol y pentwr aur, yr hwn, pan yr oedd yn rhydd iddo gymmeryd cymmaint ag a allai, oedd yn gofidio nas gallasai ddwyn ymaith ychwaneg: felly tithau, ti a gei ganfod cymmaint o Dduw, a'r gogoniant hwnnw, ag a ddichon dy galon gyfyng gynnwys; ac ni fydd dim yn rhwystro i ti gael cyflawn fwynhad, ond yn unig anallu dy yspryd i'w dderbyn. Yna y meddyli ac y dywedi, "O na fedrai fy nghwybodaeth a'm serchiadau amgyffred ychwaneg! fy annheilyngdod fy hun, ac nid dim arall, yw yr achos nad yw y fan yma gystal a nefoedd i mi. Duw sydd yn y lle hwn, ac nis gwyddwn i. Y mynydd hwn sy'n llawn o gerbydau tanllyd, ond fy llygaid sydd gauedig, ac nis gwelaf hwynt. O, yr ymadroddion o gariad sydd gan Grist i'w llefaru, a'r rhyfeddodau o gariad sydd ganddo i'w hamlygu, ond nis gallaf eu hamgyffred hwy yr awr hon! Y nefoedd sy'n barod i mi, ond nid ydyw fy nghalon i yn barod i'r nefoedd." Gan weled, gan hynny, fod dy fwynhad o Dduw, yn y cyfryw fyfyrdodau a hyn, yn sefyll (i fesur mawr) ar dymmer a thueddiad dy galon,

bydded i ti ymdrechu i'w geisio ef â'th *holl* galon; ac na fydded i ti geisio troi Crist, megis o'r neilldu i'r ystabl ac i'r preseb, fel pe byddai gennyt well gwahoddedigion i'r ystafelloedd uchaf. Dywed wrth dy holl orchwylion a'th feddyliau bydol, fel ag y dywedodd Crist wrth ei ddisgyblion, *Aroswch chwi yma, tra yr elwyf fi a gweddio accw.* Neu megis y dywedodd Abraham wrth ei weision, pan yr oedd efe yn myned i offrymmu Isaac, "Aroswch chwi yma, ac mi a âf ac a addolaf accw, ac a ddychwelaf attoch." 2 Cron. 26 : 20. Megis y gwnaeth yr offeiriaid i'r brenin Uzziah frysio allan o'r deml, pan darawyd ef â gwahan-glwyf, o herwydd iddo ryfygu arogldarthu, felly hefyd bydded i tithau droi'r meddyliau hynny allan o deml dy galon, y rhai sydd heb nod Duw arnynt yn arwydd eu bod yn gymmeradwyol.

§ 21. (2) Bydd yn ofalus i ymosod ynghylch y gwaith hwn, gyda'r ymsyniad dyfnaf o bwys y gorchwyl, a chyda'r difrifwch mwyaf o galon ac yspryd. Nid oes dim ysgafnder na chellwair i fod mewn pethau sanctaidd. "Duw a sancteiddir (medd ei air) yn y rhai a nesânt atto." Lef. 10 : 3. Y mae'r dyledswyddau ysprydol, rhagorol, enaid-ddyrchafus hyn, yn dra buddiol os iawn arferir hwynt; ond, ar y llaw arall, os ymdrinir â hwynt yn anffyddlon, yn dra pheryglus. Llafuriwch, gan hynny, i gael yr ymsynniadau dyfnaf o hollbressenoldeb Duw, ac o'i anfeidrol fawredd. Os nad oedd caniattâd i'r frenhines Esther nesau at y brenid hyn onid estynnai allan y deyrn-wialen aur, (Esther, 5 : 2;) ystyriwch ynte, gyda'r fath barchedig ofn y dylech nesâu atto Ef yr hwn a wnaeth y bydoedd â gair ei enau; yr hwn sy'n dal y ddaear megis ar gledr ei law; yr hwn sy'n cynnal yr haul, y lloer, a'r ser, yn eu cylchoedd, ac yn gosod terfynau i ymchwydd y môr. Yr ydwyt yn myned i gymdeithasu â'r Bod hwnnw, ger bron yr hwn y cryna'r ddaear, ac y dychryna'r cythreuliaid, ac o flaen brawdle pa un y bydd raid i ti, a'r holl fyd, ymddangos ar fyrder i gael eu barnu. A dywed

fel hyn, yn dy feddyliau: "Y pryd hynny y bydd ynof synniadau bywiog o fawrhydi'r Hollalluog: fy ysprydoedd syrthlyd a marwaidd a fyddant, y pryd hynny, yn cael eu deffroi âg ymsynniad o'i fawredd, a pharchus ofn ei enw a fydd yn meddiannu fy enaid!" Ymdrecha hefyd amgyffred mawredd y gwaith yr wyt yn ei gymmeryd mewn llaw, ac i gael synniadau dwfn a pharchus o fawredd a rhagoroldeb y gwaith. Pe gorfyddai i ti atteb am dy fywyd o flaen brawdle ddaearol, ac amddiffyn dy hnn, ti a fyddit yn bruddaidd ac yn ddifrifol: ac etto ni fyddai hynny ond matter o ychydig bwys mewn cyffelybiaeth i hyn. Neu pe byddit ar gymmeryd mewn llaw yr unrhyw gyffelyb ymdrech ag a fu rhwng Dafydd a Goliah, a bod llwyddiant y deyrnas yn sefyll ar hynny, ni fyddai'r cyfryw waith, ynddo ei hun, ond llai na dim mewn cyffelybiaeth i hwn. Neu gâd dy fod yn myned i'r fath ymdrech ag y bu Jacob ynddo, neu yn myned i gael y fath olwg ag a welodd y tri disgybl yn y mynydd, gyda pha fath ddifrifwch, gyda'r fath anrhydeddus a pharchus ofn, y byddai i ti nesâu ac edrych! Pe byddit yn disgwyl ond yn unig angel o'r nef i'th gyfarfod, yn y cyfryw fan, ar amser dy fyfyrdod, â'r fath barchus ofn y byddai i ti gael dy lenwi! Ystyria, gan hynny, â'r fath yspryd y dylit gyfarfod â Duw, ac â'r fath syndod, difrifwch, a pharchus ofn, y dylit geisio cymdeithasu ag ef! Ystyria hefyd ganlyniad bendigedig y gwaith os iawn gyflawnir ef. Os llwyddo a wna, geill fod yn foddion i ti gael dy dderbyn megys i bressenoldeb Duw, ac yn ddechreuad, ar y ddaear, o'th wynfyd tragywyddol yn y nefoedd. Ac heblaw hyn, gall fod yn fodd hefyd i'th ddwyn di i fyw raddau yn uwch, a a gwell na phobl eraill, a gwneuthur dy gyflwr yn fwy ardderchog a sanctaidd, ac, mewn ystyr, yn debyg i'r angelion, fel y gellit fyw a marw yn happus ac yn llawen, ac mewn heddwch â Duw. Canys gan fod y gamp yn uchel ac yn ogoneddus, dylai'r parottoad fod yn gyfattebol i hynny. Nid oes neb ar y ddaear yn byw y fath fywyd

bendigedig, a llawn o lawenydd, a'r rhai hynny sy'n gydnabyddus â'r cyfryw gymmundeb nefol ac ysprydol. I'w cymharu â hwn nid yw llawenydd pobl eraill ond megis teganau plant, neu chwerthiniad yr ynfyd, neu freuddwyd dyn claf am iechyd. Yr hwn sy'n masnachu am y nefoedd yw'r unig elw-wr, a'r hwn sy'n esgeuluso hyn yw'r unig golledwr. Pa mor fyfyriol a difrifol gan hynny y dylai'r gwaith hwn gael ei gyflawni!

## PENNOD XIV.

### Y DEFNYDD Y MAE NEFOL FYFYRDOD YN EI WNEUTHUR O YSTYRIAETH, SERCHIADAU, HUNANYMDDIDDANIAD, A GWEDDI.

§ 1. Y darllenydd a wahoddir i gymmeryd mewn llaw'r gorchwyl o nefol fyfyrdod; § 2. Ac i'r diben hynny y mae efe (I.) Yn cael ei gyfarwyddo pa fodd i ymarferu ystyriaeth; § 3–8. A'r mawr effaith y mae yn ei gael ar ein calonnau a osodir allan mewn amryw siamplau: § 9. Ac wedi hynny, (II.) y dangosir pa fodd y mae nefol fyfyrdod yn cael ei chynnorthwyo gan y serchiadau; yn enwedig, § 10–12. (1) trwy gariad, § 13. (2) trwy ddymuniadau, § 14. (3) trwy obaith, § 15. (4) trwy ddewrder a hyder, § 16–18. a thrwy (5) lawenydd. § 19. Ychwanegir cynghor i fod yn ofalus ynghylch y cyfryw ymarferiad o'r serchiadau. § 20–22. (III.) Y mae'r pen hwn yn diweddu gyda dangosiad o fuddioldeb hunan-ymchwiliad a gweddi yn y gwaith o nefol fyfyrdod.

§ 1. Wedi gosod y galon fel hyn mewn hwyl, rhaid i ni, yn y lle nesaf, ymosod ynghylch y gwaith, neu'r gynghanedd.* Ar ol codi chwant bwyd, buddiol fyddai i ti

* Yn Saesneg, Music; Cymraeg, Alaw.

nesâu at y wledd, ac ymhyfrydu dy enaid â mêr ac â brasder. *Deuwch, canys weithian y mae pob peth yn barod.* Y mae'r nefoedd a Christ, a'r rhagorol bwys gogoniant, o'ch blaen chwi. Na fydded yn ddiystyr gennyt y gwahoddiad, ac na ddechreu wneuthur esgusodion. Y mae'r gwahoddiad i bawb, pa un ai tlawd ai cyfoethog, pa un ai mewn elusendai ai mewn claf-dai (*hospitals*,) pa un ai yn y prif-ffyrdd ai'r caeau. Yr ydwyf wedi fy awdurdodi i'ch cymhell os yw bosibl, a thrwy drais eich dwyn chwi i mewn; a gwyn ei fyd yr hwn a fwyttao fara yn nheyrnas nefoedd! Y mae'r manna yn gorwedd o amgylch eich pebyll; ewch allan, a chesglwch, a dygwch adref, ac ymborthwch arno. Ac i'r diben hyn, yr ydwyf ar fedr eich cyfarwyddo pa fodd i ymarferu eich ystyriaeth, (neu'ch meddyliau,)—eich serchiadau—hunan-ymholiad, a gweddi.

§ 2. (I.) Ystyriaeth yw'r offeryn trwy ba un y mae'r gwaith nefol hwn yn cael ei ddwyn ymlaen; ac y mae'n rhaid i hyn fod yn ewyllysgar, ac nid o anfodd. Y mae rhai yn cael eu dwyn i ystyried eu ffyrdd yn erbyn eu hewyllys. Felly y dwg Duw yr annuwiolion i ystyried eu pechodau, pan y bydd iddo "eu gosod mewn trefn o flaen eu llygaid." Salm 50 : 21, 22; 90 : 8. Fel hyn y bydd i'r damnedigion ystyried rhagoriaethau Crist Iesu yr hwn a ddiystyrasant, a'r llawenydd tragywyddol a gollasant yn eu mawr annoethineb. Mawr iawn hefyd yw grym ystyriaeth i gynhyrfu'r serchiadau, ac i wasgu pethau at ein calonnau, fel yr ymddengys oddiwrth yr ystyriaethau canlynol:—

§ 3. (1) Ystyriaeth sy'n agor y ddôr megis rhwng y pen a'r galon. Wedi i'r deall dderbyn gwirioneddau, y mae yn eu tryssori yn y cof, ac ystyriaeth sy'n eu trosglwyddo oddiyno i'r serchiadau. Pa fath ragoroldeb a fyddai mewn dysg a gwybodaeth, pe byddai'r rhwystrau rhwng y pen a'r galon wedi eu symmud ymaith, a'r serchiadau yn cyfatteb i'r pwyll neu'r rheswm! Hwnnw yn gyffredin yw'r ysgolhaig goreu, yr hwn y mae ei ddeall

yn gyflym ac yn fywiog, yn oleu ac yn gofus: ond hwnnw yw'r *Cristion* goreu, yr hwn y mae ei ddealltwriaeth yn fwyaf dwfn a serchiadol, a chanddo'r ffordd rwyddaf, nid o'r glust i'r ymennydd, ond o'r glust i'r galon; ac felly bod rhyw gydgymdeithas agos rhyngddynt. Ac er mai'r Yspryd Sanctaidd yw'r gwraidd a'r achos mwyaf o hyn, etto y mae ar ein rhan ni i geisio agor y ffordd a'r cymmundeb yma trwy ystyriaeth.

§ 4. (2) Ystyriaeth sy'n arddangos i'r serchiadau y pethau hynny ag sy'n fwyaf pwysfawr. Ni fydd y gwrthddrych mwyaf hyfryd yn rhoddi difyrrwch, lle nad yw yn ymddangos, na'r newydd mwyaf gorfoleddus yn rhoddi diddanwch i'r hwn nid yw yn ei glywed: ond ystyriaeth sy'n dwyn i'n golwg y pethau hynny ag sydd megis yn absennol, ac yn eu dwyn at lygad a chlust yr enaid. Onid ydyw Crist a gogoniant yn wrthddrychau serchiadol? Ac oni wnaent ryfeddodau ar yr enaid, pe medrem eu canfod yn eglur, a ninau yn gallu eu hamgyffred mewn mesur cyfattebol i'w gwerth? Ystyriaeth neu feddylfryd sydd yn eu dangos i ni. Dyma yspïenddrych y Cristion, trwy ba un y mae efe yn medru canfod y nefoedd o'r ddaear.

§ 5. (3) Ystyriaeth sy'n dangos y pethau mwyaf pwysfawr yn y modd mwyaf hygar a serchiadol. Y mae ystyriaeth yn ymresymmu'r matter gyda chalon dyn. Pan yr ewyllysiai rhyw gredadyn ymresymmu ei galon at nefol fyfyrdod, pa gynnifer o resymmau sy'n sefyll o'i blaid oddiwrth Dduw a Christ, ac oddiwrth berffeithrwydd y Dwyfol Fawrhydi; oddiwrth ein cyflwr gynt, a'n cyflwr pressennol; oddiwrth addewidion Duw, oddiwrth ein cystuddiau a'n cyssuron presennol, o'r nefoedd ac o uffern!—Y mae pob peth yn cynnyg ei hun i chwanegu ein gorfoledd; ac ystyriaeth yw'r llaw ag sy'n eu tynnu oll allan, ac felly yn chwanegu rheswm ar ol rheswm, hyd hyd oni fyddo'r glorian yn mantoli. A hyn y mae'n ei wneuthur pan y mae yn ein hannog i orfoledd; a chan ddistewi pob ofnau a thristwch, hyd oni byddo'r ffordd yn

ymddangos yn rhwydd, a'r achos o lawenydd yn eglur. Os bydd ymresymmiad rhyw un arall yn cael effaith arnom, pan nas gwyddom pa un a fydd yn ceisio ein cyfarwyddo ai ein twyllo, pa faint mwy y dylai ein hymresymmiad ein hunain lwyddo gyda ni, pan yr ydym yn deall y diben mor dda! A pha faint mwy y dylai ymresymmiad yr Hollalluog effeithio arnom pan y gwyddom nad ydyw efe yn chwennych ein twyllo ni, ac yntau nis gellir ei dwyllo. Yn awr, nid yw ystyriaeth ond darllen drosodd, ac ail-adrodd rhesymmau Duw i'n calonnau ni ein hunain. Megis ag yr oedd gan y mab afradlon lawer o resymmau cedyrn i gymhell ei hun i ddychwelyd i dŷ ei dad; felly hefyd y mae gennym ninnau i annog ein serchiadau i esgyn i drigfannau ein Tad nefol.

§ 6. (4) Ystyriaeth (neu feddyliad) sydd yn derchafu rheswm i'w awdurdod priodol, ac yn gymhorth i'w wared allan o gaethiwed y serchiadau, (synniad y cnawd,) ac yn ei osod drachefn ar orsedd yr enaid. Pan y mae rheswm yn tewi, y mae, yn fwyaf cyffredin, mewn caethiwed; canys pan y mae rheswm yn cysgu, y mae'r serchiadau (neu'r anian lygredig) yn llywodraethu. Ond ystyriaeth sy'n deffroi ein rheswm, hyd oni byddo, megis Samson, yn ymysgwyd ac yn torri rhwymau'r synniadau anianol hyn, ac yn darostwng trachwantau ac hudoliaeth y cnawd. Pa gryfdwr a ddengys y llew pan fydd yn cysgu? Pa faint gwell ydyw brenin nâ rhyw ddyn arall, wedi ei ddifeddiannu o'i awdurdod, a'i dynnu oddiar ei orsedd? Rheswm ysprydol, wedi ei gymhell trwy fyfyrdod, ac nid mympwy, neu synniad y cnawd, sy'n ofynol i fod yn barnu ynghylch ein nefol orfoledd. Ystyriaeth sy'n derchafu gwrthddrychau ffydd, ac felly yn darostwng (yn gyfattebol i hynny) wrthddrychau'r anian lygredig. Peth rhy hawdd a rhy gyffredin yw pechu yn erbyn gwybodaeth, ond yn erbyn ystyriaeth sobr, gref, ddiysgog, anaml iawn y bydd dynion yn troseddu.

§ 7. (5) Ystyriaeth sy'n gwneuthur rheswm yn gryf ac

yn fywiog. O'r blaen yr oedd megis marw-ddwfr, ond yn awr megis afon lifeiriol, yn cippio ymaith bob peth o'i blaen. Yr ydoedd gynt megis carreg yr afon, ond yr awr fel carreg Dafydd yn y ffon-dafl, yn taro'r Goliah hwnnw o anghrediniaeth yn ei dalcen. Megis y mae dynion annuwiol yn parhau felly, o herwydd nad ydynt yn ymarferu eu rheswm, nac yn caniattau iddo wneuthur ei briodol waith, felly hefyd y mae dynion duwiol yn anghyssurus o herwydd eu bod hwy yn gadael i'w rheswm a'u ffydd gysgu, ac heb geisio ganddynt ymwroli trwy'r gwaith hwn o fyfyrdod. Oni fydd ofnau, tristwch, a llawenydd, yn effeithioli arnom yn ein breuddwydion, a pha faint mwy effaith a fyddai difrifol fyfyrdod yn debygol o gael arnom?

§ 8. (6) Ystyriaeth a ddichon fyned ymlaen, a pharhau yn y gorchwyl rhesymmol hwn. Y mae myfyrdod yn cadw rheswm a ffydd ar waith, ac yn chwythu'r tân hyd oni byddo'n cwbl gynneu. Ni chynnesa dyn wrth redeg ychydig o gamrau, ond wedi iddo gerdded am awr efe ddichon wresogi; ac felly *meddwl* am y nefoedd yn awr ac yn y man, ni ddichon godi ein serchiadau i wres ysprydol, ond myfyrdod a eill weithio ar ein serchiadau hyd oni byddo ein calonnau wedi eu hennynu â gwres neu zel ysprydol. Fel hyn y gwelwch nerthol effaith ystyriaeth ar yr enaid i'w ennynu a'i godi i nefol fyfyrdod.

§ 9. (II.) Yn y lle nesaf, gadewch i ni weled ymha fodd y mae'r gwaith nefol hwn yn cael ei ddwyn ymlaen trwy weithrediad y serchiadau.—Trwy ystyriaeth yr ydym yn medru dwyn ar gof yr athrawiaethau nefol hynny, y rhai yr ydym yn bwriadu eu gwneuthur yn swm a sylwedd ein myfyrdod, megis yr addewidion o fywyd tragywyddol, hanes a darluniad y seintiau, yr adgyfodiad, &c. &c. Gwedi hynny nyni a fyddwn yn eu troi yn ein meddyliau, ac yn ceisio barnu yn ddiduedd yn eu cylch, yn ol gwybodaeth a rheswm, ac ynghylch perffeithrwydd ein nefol happusrwydd, yn erbyn holl wrthddywediadau cig a

gwaed, ac felly yn cael ein dwyn i fawrhau'r Arglwydd yn ein calonnau, hyd oni byddom yn cael ein llenwi â syndod a rhyfeddod sanctaidd. Ond y gorchwyl mwyaf pwysfawr ac angenrheidiol ydyw, nid yn unig ymarferu ein barn a'n deall, ond ein ffydd, ynghylch gwirionedd ein tragywyddol orphwysfa, sef (yr hyn yr ydwyf yn ei feddwl yw) *gwirionedd yr addewidion*, ac ynghylch ein rhan ynddynt, a'n hawl iddynt. Canys pe gallem gredu yn ddiysgog, ac mewn gwirionedd, fod y cyfryw ogoniant, ac ymhen ychydig ddyddiau y byddai i'n llygaid gael ei ganfod, O pa fath ddymuniadau a serchiadau duwiol a fyddai'n cyfodi o'n mewn! O pa fath ryfeddol ymsyniadau am y bywyd hwnnw a barent ynom! Pa fath gariad, pa fath hiraeth a fyddai yn codi o'n mewn! O, ymha fodd y byddai'n effeithio ar bob un o'n serchiadau! Ymha fodd y byddai i ni gael ein gorlenwi â llawenydd, gyda'r olwg neu'r gobaith lleiaf o'n hawl i'r gogoniant hwnnw! Na ddisgwyliwch i gariad a llawenydd weithredu ynoch, tra fyddo ffydd yn sefyll yn llonydd, yr hon a ddylai arwain y ffordd. Gan hynny, ymarferwch ffydd beunydd, a gosodwch o'i blaen radlonrwydd yr addewidion, ac fel y mae Duw yn cymhell pawb i'w derbyn, mor hawddgar a graslawn yw Crist, a'i ewyllysgarwch i dderbyn pob pechadur gwir edifeiriol, a'i ffyddlondeb i'w addewidion, a'r arwyddion o'i gariad ag yr ydym ni wedi eu profi ynom ein hunain; a bydded i ti gydgasglu'r holl bethau hyn at eu gilydd, ac ystyried, onid ydynt yn arwyddion digonol o ewyllys da'r Hollalluog am ein hiachawdwriaeth, ac hefyd ei bod yn ddyledus arnom eu gosod i fynu yn dystion yn erbyn ein hanghrediniaeth. Fel hyn, wedi i'n deall farnu, a ffydd wedi canfod, ac yn dal gafael yngwirionedd a sicrwydd ein happusrwydd, yna y dichon myfyrdod fyned ymlaen i godi ein serchiadau, megis cariad, dymuniadau, gobaith, dewrder neu hyfdra, a llawenydd.

§ 10. (1) Cariad yw un o'r serchiadau cyntaf a ddylem geisio godi a'i gyffroi mewn nefol fyfyrdod. A gwrthddrych

y cariad yma yw daioni. Dyma y rhan enaid-adfywiol o'r gwaith. Cais ymofyn â'th gôf, â'th ddeall, ac â'th ffydd, ac oddiwrthynt hwy ymchwilia ynghylch rhagoriaethau dy orphwysfa, a dangos y rhai hyn drachefn i serch dy gariad, a thi a ganfyddi dy hun megis mewn byd arall. Llefara allan, a chariad a glyw; datguddia'r pethau hyn, a chariad a'u gwel. Cariad ysgrublaidd y byd hwn yw'r un ag sy'n ddall, ond cariad Dwyfol sy'n bur graff ei olwg. Gâd i'th ffydd gael gafael ar dy galon, a dangos iddi adeiladau gwychion dy drigfan dragywyddol, ac addurniadau gogoneddus tŷ dy Dad, sef y trigfannau y mae Crist yn eu parottoi, ac anrhydedd ei deyrnas. Gâd i'th ffydd dywys dy galon i bresennoldeb Duw, ac mor agos atto ag y mae'n bossibl, a dywed wrthi, "Wele'r hen Ddihenydd, yr Arglwydd Jehofa, a'i enw yw YDWYF. Dyma yr un a wnaeth yr holl fydoedd â'i air, yr hwn sy'n cynnal y ddaear ac yn llywodraethu'r cenhedloedd; yr hwn sy'n trefnu pob digwyddiadau; yr hwn sy'n darostwng ei elynion; yr hwn sy'n rheoli ymchwydd tonnau'r môr; yr hwn sy'n gorchymyn i'r gwyntoedd, a hwythau yn ufuddhau iddo; efe sy'n peri i'r haul redeg ei yrfa, ac yn cadw y ser yn eu graddau. Dyma'r un a'th garodd o dragywyddoldeb, a'th luniodd yn y groth, a roddodd i ti enaid, a'th ddygodd i'r byd, a ddangosodd i ti y goleuni, ac a'th ordeiniodd yn bennaf o'i holl greaduriaid; yr hwn a'th gynnysgaeddodd â rheswm a gwybodaeth, ac a'th brydferthodd â rhoddion; yr hwn sy'n cynnal dy fywyd a'i holl gyssuron, ac wedi gwneuthur i ti ragori ar y truenusaf a'r gwaelaf o ddynion." O dyma wrthddrych haeddiannol o'th gariad! Pe b'ai modd i ti dywallt dy enaid mewn cariad, fe fyddai yn ammhossibl i ti garu gormod. Dyma'r Arglwydd a'th fendithiodd â'i ewyllys da, yr hwn a drefnodd dy fwrdd yngŵydd dy elynion, ac a wnaeth i'th gwppan redeg drosodd! Dyma yr hwn y mae angelion a seintiau yn ei ogoneddu, a llu'r nefoedd yn ei fawrhau yn dragywydd! Fel hyn bydded i ti ymhelaethu ar

foliant yr Arglwydd, gan ddatguddio ei ragoriaethau i'th galon, hyd oni byddo tân sanctaidd cariad yn dechreu ennynu yn dy fynwes.

§ 11. Ac os nad ydwyt etto yn teimlo dy gariad yn llosgi, dwg dy galon ymhellach, a dangos iddi Fab y Duw byw, yr hwn y mae ei enw yn Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragywyddol, Tywysog tangnefedd; a dangos iddi Frenhin y seintiau ar orsedd ei ogogiant; y Cyntaf a'r Diweddaf, yr hwn sydd, yr hwn a fu, a'r hwn sydd i ddyfod; yr hwn sydd fyw, ac a fu farw, ac wele byw y mae yn oes oesoedd; yr hwn a wnaeth dy heddwch trwy waed y groes, ac a barottodd i ti drigfan o heddwch gydag ef ei hun. Ei swydd ydyw gwneuthur heddwch; a'i deyrnas yw teyrnas heddwch; a'i efengyl yw newyddion o heddwch; a'i lais i ti, yn awr, yw llais heddwch! Tyred yn agos, ac edrych arno. Onid ydwyt yn clywed ei lais? Yr hwn a barodd i Thomas ddyfod atto i weled ôl yr hoelion, a rhoddi ei fysedd yn yr archollion, efe yw yr hwn sydd yn galw arnat, "Tyred yn agos, a gwel dy Arglwydd a'th Iachawdwr, ac na fydd anghredadyn, ond credadyn; tangnefedd i ti, nac ofna, myfi yw." Edrych yn graff arno. Onid ydwyt yn ei adnabod? Efe yw yr hwn a'th ddygodd i fynu o bwll uffern, a alwodd yn ol ddedfryd dy gondemniad, a ddioddefodd y felldith a ddylesit ti ei dioddef, a'th adferodd i'r bendithion hynny a gollaist, ac a bwrcasodd y dyrchafiad a fydd i ti ei etifeddu yn dragywydd. Ac onid ydwyt etto yn ei adnabod ef? Ei ddwylaw a hoeliwyd, ei ben, ei ystlys, a'i galon a drywanwyd, fel y byddai i ti, wrth y nodau hyn, ei adnabod ef bob amser. Onid ydwyt yn cofio, pan gafodd efe di yn gorwedd yn dy waed, ac a dosturiodd wrthyt, ac a drwsiodd dy archollion, ac a'th ddygodd adref, ac a ddywedodd wrthyt, "Bydd fyw?" A anghofiaist pa fodd yr archollwyd ef i'th iachâu di, ac y gollyngwyd ei waed ef fel na thywelltid dy waed di? Os nad wyt yn ei adnabod wrth ei wyneb, ei lais, a'i ddwylaw, tydi a elli ei adnabod

wrth ei galon; y galon honno sydd mor barod i dosturio wrth eneidiau colledig; ei galon ef, yn ddiau, yw hon; canys cariad a thosturi yw'r arwyddion diamheuol o galon Crist. Dyma yr un a ddewisodd dy einioes di, o flaen ei fywyd ei hun; yr hwn sydd yn dadleu ei waed ger bron y Tad, ac yn eiriol drosom yn wastadol. Ac oni buasai iddo ef ddioddef yn dy le, pa mor fawr a fuasai dy gospedigaeth! Nid oedd ond megis cam rhyngot ac uffern, pan y cymmerodd dy le, ac y derbyniodd y dyrnod! Ac onid oes yma ddigon o ddefnyddiau i borthi dy gariad? Ac onid ydyw dy galon ddrylliedig yn ewyllysio aros yma i orphwyso ychydig, ac, megis Joseph, yn ceisio lle i wylo? Neu, onid ydyw dagrau cariad yn gwlychu y llinellau hyn? Cerdda ymlaen, gan hynny, canys maes cariad sydd helaeth; dy waith tragywddol fydd edrych ar yr Anwylyd hwnnw, a'i garu; ac nid rhaid bod arnat eisiau gwaith i'th fyfyrdod presennol.

§ 12. Pa sawl gwaith y cafodd dy Arglwydd di, megis Hagar, yn eistedd ac yn wylo, ac yn barod i roddi i fynu dy enaid megis i fod yn golledig, ac a agorodd i ti ffynnon diddanwch, ïe, efe a agorodd dy lygaid hefyd i'w gweled! Pa sawl gwaith, pan yr oeddit yn ewyllysio marw a myned allan o'th ofid, megis Elias, yr huliodd efe fwrdd yn annisgwyliadwy o'th flaen, ac a'th anfonodd allan at ei waith, wedi cael dy ddiwallu a'th gyssuro! A pha sawl gwaith, pan yr oeddit, megis gweision y prophwyd, yn gwaeddi allan, "Och! pa beth a wnawn gan y llu sydd yn ein hamgylchu," yr agorodd efe dy lygaid i weled fod mwy trosot nag oedd yn dy erbyn? Pa sawl gwaith, pan yr oeddit, megis Jonah, yn cwyno ac yn flin gennyt dy einioes, y dywedodd efe wrthyt yn garedig, *Ai da yw'r gwaith ymddigio o honot*, a chwyno yn fy erbyn? Pa sawl gwaith y gwnaeth efe i ti ymosod ynghylch gwylio, gweddio, edifarhau, a chredu, a phan ddychwelai attat, yn dy gael di yn cysgu, ac er hynny yn cuddio dy ddiofalwch â mantell cariad, ac yn garedig yn dadleu dros-

ot, *bod yr yspryd yn barod, ond y cnawd yn wan!* Ac a ddichon dy galon fod yn oeraidd pan feddyliot ti am hyn? A fedri ymattal pan y byddi yn cofio ei dosturiaethau diderfyn? Dal allan fel hyn, O ddarllenydd, anfeidrol ddaioni Crist o flaen dy galon; dadleu fel hyn gyda'th galon rewllyd, hyd onis gelli ddywedyd gyda Dafydd, "Gwresogodd fy nghalon o'm mewn; a thra yr oeddwn yn myfyrio, ennynodd tân." A phe na byddai hyn yn ddigon i gyffroi dy gariad, y mae gennyt holl ragoriaethau personol Crist i ychwanegu attynt, a'i holl drugareddau neillduol i ti dy hun, ei holl berthynasau melus ac agos i ti, a happusrwydd dy drigfan dragywyddol gydag ef mewn gogoniant. Yn unig canlyn ar hyn, a gwasga hwy yn ddwys at dy galon; a bydded i ti ymddwyn tuag attynt megis ag y gwnaeth Crist tuag at Pedr pan ofynnodd efe iddo deirgwaith, *A wyt ti yn fy ngharu i?* hyd oni thristâodd efe, ac atteb iddo, *Ti a wyddost fy mod i yn dy garu di.* Felly hefyd bydded i tithau dristâu a chywilyddio dy galon allan o'i hanystyriaeth, hyd onis gelli ddywedyd, *Myfi a wn, a'm Harglwydd a wyr, fy mod i yn dy garu.*

§ 13. (2) Un o'r serchiadau nesaf i'w gyffroi mewn nefol fyfyrdod ydyw dymuniad. Ei wrthrych ydyw daioni absennol, ac heb ei fwynhau. Os cariad a fydd yn wresog, dymuniad ni bydd oeraidd. Meddwl gyda thi dy hun, Pa beth a welais! O, y gogoniant anfeidrol ac annirnadwy! O, y tra rhagorol harddwch! O, gwyn eu byd yr eneidiau sydd yn awr yn ei fwynhau! y rhai sydd yn canfod, fil o weithiau yn fwy eglur, yr hyn a welais i o bell, ac megis trwy gymmylau tewion, tywyll. Pa gymmaint y rhagoriaeth rhwng eu cyflwr hwy a minnau! Yr ydwyf fi yn ocheneidio, a hwythau yn canu; yr ydwyf fi yn troseddu, a hwythau yn moliannu Duw. Yr ydwyf fi yn wrthddrych o dosturi, megis rhyw Job neu Lazarus, a hwythau yn berffaith a difeius. Yr ydwyf fi yma yn cael fy maglu â chariad y byd, a hwythau yn ymhyfrydu yn nghariad Duw; y maent hwy yn rhyddion oddiwrth bob

gofalon ac ofnau, ac ni fyddant, fel yr ydwyf fi, yn wylo yn y dirgel; ni fyddant yn curio dan dristwch; a Duw a sycha ymaith bob deigryn oddiar eu llygaid. O eneidiau dedwydd! ïe, dedwydd fil o weithiau! Och! fod yn rhaid i mi gyfanneddu mewn cnawd pechadurus, tra y mae fy mrodyr a'm cyfeillion yn trigo gyda Duw. Mor bell allan o olwg, ac o gyrhaedd eu mwyniant uchel yr ydwyf fi yma yn byw! Y fath feddyliau gwaelion, gweiniaid, sydd genyf fi am Dduw! Y fath serchiadau oerion tuag atto! Pa mor lleied sydd gennyf fi o'r bywyd, o'r cariad, o'r llawenydd, ymha un y maent hwy yn byw yn wastadol! A pha mor fuan y bydd yr ychydig hynny yn diflannu, ac yn fy ngadael mewn dudew dywyllwch! Weithiau y bydd gwreichionen yn disgyn ar fy nghalon, a thra byddwyf yn syllu arni, y mae yn diflannu, neu, yn hytrach, y mae fy nghalon oeraidd yn ei diffoddi. Ond y maent hwy yn mwynhau goleuni o'i oleuni ef, ac yn yfed yn wastadol allan o ffynnon llawenydd. Yma yr ydym yn aflonyddu'r naill y llall âg ymrafaelion ac ymrysonau, tra y maent hwy, o un galon ac un genau, beunydd yn seinio allan Haleluia'r nefoedd, mewn cyssondeb perffaith. O, y fath wledd a ganfu fy ffydd, er hynny y fath newyn sydd yn fy yspryd! O, eneidiau gwynfydedig! nid yw yn iawn, ac ni feiddiaf eiddigeddu wrthych o herwydd eich happusrwydd; ïe, yn hytrach yr ydwyf yn gorfoleddu o herwydd llwyddiant fy mrodyr; a hyfryd yw gennyf feddwl am y dydd y bydd i mi gael fy nerbyn i'ch cymdeithas. Nid ewyllysiwn eich difeddiannu, ond yn unig bod o honnof mor happus a chael bod gyda chwi. Paham y rhaid i mi aros, ac wylo, a disgwyl! Y mae fy Arglwydd wedi myned ymaith; ymadawodd ef â'r ddaear, ac a aeth i mewn i'w ogoniant: fy mrodyr a ymadawsant; fy nghyfeillion sydd yno; fy nhŷ, fy ngobaith, ïe, fy holl dryssor sydd yno. Pan yr ydwyf mor bell oddiwrth Dduw, na ryfeddwch ac na ofynnwch, Paham yr wyt yn cwyno? neu "beth a ddarfu i ti? canys Micah anwybodus a wnaeth

gymmaint a hyn am ei ddelw;" (Barn. 18 : 24;) ac oni wna fy enaid fwy nâ hyny dros y Duw byw? Pe na byddai gennyf obaith am fwynhad, myfi a awn ac a ymguddiwn yn yr anialwch, ac a orweddwn ac a udwn yn y diffeithwch, ac a dreuliwn fy nyddiau mewn dymuniadau diles; ond gan mai gwlad fy ngorphwysfa addawedig ydyw, a'r cyflwr y caf fi fy hun fy nyrchafu iddo, a chan fod fy enaid yn tynnu yn agos atto, ac ymron myned yno, myfi a garaf ac a hiraethaf, myfi a edrychaf ac a chwennychaf, myfi a anadlaf allan, "Pa hyd, Arglwydd! pa hyd y gadewi i'm henaid frefu ac ocheneidio; oni agori i mi sydd yn disgwyl ac yn hiraethu am gael bod gyda thi!" Bydded i'th feddyliau (O ddarllenydd Cristionogol!) flysio fel hyn am gynteddau yr Arglwydd, a hiraethu am ei bresennoldeb, hyd oni byddi yn barod i ddywedyd gyda Dafydd, "O na roddit i mi yfed o ffynnonau iachawdwriaeth!" ac hyd onis gelli ddywedyd fel yntau, "Hiraethais, O Arglwydd, am dy iachawdwriaeth." Ps. 119 : 176. Ac fel yr anfonodd ei fam a'i frodyr at Grist, pan na allent ddyfod atto, o blegid y dyrfa, gan ddywedyd, "Dy fam a'th frodyr sydd yn sefyll allan, gan chwennych dy weled." Felly tithau, bydded i ti anfon yr un gennadwri atto, ac efe a'th arddela; canys efe a ddywedodd, "Y rhai sydd yn gwrando gair Duw ac yn ei wneuthur, y rhai hynny yw fy mam a'm brodyr." Luc, 8 : 20, 21.

§ 14. (3) Un arall o'r serchiadau i'w arferu mewn duwiol fyfyrdod, yw gobaith. Canys hwn sy'n cymhorth yr enaid i ymgynnal dan ddioddefiadau, yn gwneuthur iddo ymwroli yn erbyn y cyfyngderau a'r anhawsderau mwyaf, yn rhoddi iddo sadrwydd a chadernid yn y treialon mwyaf cyfyng, yn ei fywiogi yn ei ddyledswyddau, a hwn yw llygad y ffynnon, allan o ba un y mae'r holl ddyfroedd yn rhedeg. Canys pwy a gredai, neu a ymdrechai am y nefoedd heb y gobaith o'i mwynhau? Pwy a weddiai, oni b'ai y gobaith o lwyddo gyda Duw? Os marw a wna eich gobaith, meirw hefyd a fydd eich dyledswyddau;

eich hymdrechiadau a fyddent feirw, eich gorfoledd a fyddai marw, a'ch henaid hefyd a fyddai marw. Ac os na fydd eich gobaith yn fywiog ac yn effro, ond yn hytrach yn cysgu, ail yw hynny i fod yn farw. Gan hynny, ddarllenydd Cristionogol, pan fyddi yn ceisio ymddyrchafu dy serchiadau tua'r nefoedd, nac anghofia roddi un codiad i'th obaith. Meddwl ac ymresymma fel hyn â'th galon dy hun:—Paham na fydd i mi hyderus a chyssurus obeithio, pan y mae fy enaid yn nwylaw Iachawdwr mor drugarog, a phan y mae y deyrnas yn meddiant ac yn rhoddiad Duw mor haelionus? A ddarfu iddo ef erioed ddangos yr anewyllysgarwch lleiaf i wneuthur i mi ddaioni, neu ewyllys i'm drygu? Ac onid ydyw efe wedi tyngu "nad ydyw yn ymhoffi yn marwolaeth y marw, ond yn hytrach troi o hono a byw?" Ac onid ydyw ei holl ymweliadau yn tystiolaethu yr un peth? Oni rybuddiodd efe fi o'm perygl lawer gwaith, pan nad oeddwn yn ofni, a hynny i'r diben i mi warchod a diangc rhagddo? Ac oni adgofiodd efe fi o'm happusrwydd, pan nad oeddwn yn meddwl am dano, o herwydd ei fod yn ewyllysio i mi ei fwynhau? Pa sawl gwaith y tynnodd fi atto, ac at ei Grist ef, pan yr oeddwn i yn tynnu yn ol! a pha fodd yr oedd ei Yspryd, yn wastadol, yn cymhell ac yn taer erfyn fy nghalon! A fuasai efe yn gwneuthur hyn oll, pe buasai yn ewyllysio i mi fod yn golledig? Canys pe buasai rhyw un o'm cydgreaduriaid yn addaw rhoddi i mi ryw beth ag oedd yn ei feddiant, oni buasai gennyf ryw obaith y buasai yn cyflawni ei addewid? A pha faint mwy y gallaf hyderu a gobeithio, gan fod gennyf gyfammod a llŵ y digelwyddog Dduw? Gwir yw, y mae'r gogoniant hwnnw allan o'n golwg, ac nis gwelsom etto drigfan y seintiau; er hynny, ystyriwch, onid ydyw addewid Duw yn fwy sicr a dianwadal na'n golwg ni? Nid wrth olwg y mae i ni fod yn gadwedig, ond trwy obaith: "Eithr y gobaith a welir, nid yw obaith; o blegid y peth y mae un yn ei weled, i ba beth y mae etto yn ei obeith-

io?" Rhuf. 8 : 24, 25. Cefais achos i gywilyddio lawer gwaith am i mi ymddiried mewn braich o gnawd, ond gobaith yn addewidion Duw *ni chywilyddir*. Rhuf. 5 : 5. Yn fy nioddefiadau mwyaf y dywedaf, "Yr Arglwydd yw fy rhan i, (medd fy enaid,) am hynny y gobeithiaf ynddo. Daionus yw yr Arglwydd i'r rhai a ddisgwyliant wrtho, ac i'r enaid a'i ceisio. Da yw gobeithio a disgwyl yn ddistaw wrth iachawdwriaeth yr Arglwydd; o blegid nid yn dragywydd y gwrthyd yr Arglwydd; ond er iddo gystuddio, etto efe a dosturia, yn ol amlder ei drugareddau." Galar. 3 : 24–26, 31, 32. Er i mi ddadwino, a dihoeni, a marw, etto mi a obeithiaf: *canys y cyfiawn a obeithia pan fyddo yn marw*. Diar. 14 : 32. Er i mi orwedd i lawr yn y llwch a'r tywyllwch, etto, hyd yn nod yno hefyd, *fy nghnawd a orphwys mewn gobaith*. Salm, 16 : 9. A phan na bydd gan fy nghnawd ddim i ymorfoleddu ynddo, etto *mi a gadwaf fy hyder a gorfoledd fy ngobaith yn sicr hyd y diwedd;* (Heb. 3 : 6;) *canys gobaith y cyfiawn fydd llawenydd*. Diar. 10 : 28. Yn ddiau, pe buasai yn ofynol arnaf fi fy hun wneuthur iawn i gyfiawnder Dwyfol, yna ni buasai dim gobaith; ond Crist Iesu *a ddygodd i mewn obaith gwell, trwy'r hwn yr ydym yn nesâu at Dduw*. Heb. 7 : 19. Neu pe buasai i mi ymwneud â chreadur gwan fel mi fy hunan, nid allasai fod gennyf fawr obaith; canys pa fodd y gallai y cyfryw un gyfodi'r corph hwn o'r llwch, a fy nyrchafu yn uwch na'r haul? Ond pa mor hawdd fyddai hyn i'r gallu Hollalluog, yr hwn a wnaeth y nefoedd a'r ddaear o ddyddim ddefnydd! Ac onis gall y *gallu* hwnnw a gyfododd Grist o feirw fy nghyfodi innau, a'r hwn a ogoneddodd y Pen ogoneddu yr aelodau hefyd? Diau "trwy waed y cyfammod, Duw a ollwng y carcharorion gobeithiol o'r pydew heb ddwfr ynddo;" ac o herwydd hynny, *y troaf i'r amddiffynfa, megis carcharor gobeithiol*. Zec. 9 : 12.

§ 15. (4) Dewrder, neu hyfdra, yw un arall o'r serchiadau i'w harferu mewn nefol fyfyrdod. Y mae yn tywys

i ddyhewyd neu benderfyniad, ac yn diweddu mewn gweithrediad. Wedi i chwi gyffroi eich cariad, eich dymuniadau a'ch gobaith, ewch ymlaen a myfyriwch fel hyn â chwi eich hunain: "Ai gwir yw y preswylia Duw gyda dyn ar y ddaear?" 2 Cron. 6 : 18. A oes y cyfryw ogoniant o fewn cyrhaedd gobaith? Pa beth gan hynny yw yr achos nad ydwyf yn cymmeryd gafael ynddo? Pa le y mae grym ac ymegnïad siriol fy yspryd? Paham nad wyf *yn gwregysu lwynau fy meddwl?* 1 Pedr, 1 : 13. Paham nad ydwyf yn ymosod yn erbyn fy ngelynion o bob cwr, ac yn dewrwych dorri i lawr bob rhwystrau? Pa beth a ddichon fy lluddias neu fy mrawychu? A ydyw Duw gyda mi neu yn fy erbyn yn y gwaith? A wna Crist Iesu sefyll o'm plaid ai nis gwna? Ac *os Duw* a Christ a fydd *gyda mi, pwy a all fod i'm herbyn?* Rhuf. 8 : 31. Yngwasanaeth pechod y mae'n agos i bob peth yn barod i'n cynnorthwyo, a neb ond Duw a'i weision yn ein herbyn, ac etto yn y fath fodd y bydd y gwaith hwnnw yn llwyddo yn ein dwylaw! ond ar fy nhaith i'r nefoedd, y mae ymron bob peth yn fy erbyn, ond Duw sydd gyda mi; ac am hynny oni fydd i'r ymdrech droi allan yn llwyddiannus? Pa un ai yn fy nerth fy hun, neu ynghadernid Crist a'm Harglwydd, yr ydwyf yn barod i ymosod ynghylch y gwaith hwn? Ac onis *gallaf fi bob peth trwy Grist yr hwn sydd yn fy nerthu i?* Phil. 4 : 13. Ac a gafodd efe erioed ei orchfygu gan un gelyn? Y diafol yn ddiau a'i temtiodd, ond pa elyn erioed a'i gorchfygodd? Paham gan hynny y mae'r cnawd yn ceisio fy nigalonni, gan honni mawr anhawsdra'r gwaith? A oes un peth yn anhawdd i'r Hollalluog? Oni ddichon Pedr rodio ar y môr yn hyderus, ond yn unig i Grist orchymmyn iddo? Ac os oedd efe yn dechreu soddi, pa un ai o achos gwendid ei ffydd, ynte o herwydd rhyw anallu yn Nghrist yr oedd hynny? Onid wyf yn haeddu cael fy nhroi i uffern, os dichon gwg a bygythion y byd wneuthur hynny? Onid ydwyf yn haeddu cael fy nghau allan o'r nefoedd, os bydd

i mi gymmeryd fy nychrynu gan waradwydd tafodau rhag ymdrechu i fyned yno? Pe byddai i dad neu fam, gwr neu wraig, neu un o'm perthynasau agosaf yn y byd, (os perthynas y gellir galw y rhai hynny a fynnent fy nhynu i ddamnedigaeth,) geisio fy rhwystro at Grist, onid fy lle fyddai ymwadu ac ymadael â'r cwbl oll er ei fwyn ef? A fyddai eu cariad, a'u cyfeillach, a'u hewyllys da hwy'n ddigon o iawn i mi am golli cariad Duw a bod yn ddarostyngedig i'w ddigofaint, neu fy mod wedi cadw eu cyfeillach hwy, ar y cyfryw ammodau, yn rhyw gyssur i'm henaid colledig? A gaf fi ufuddhau ac ymostwng i ewyllys dynion, a chaledu fy hun yn unig yn erbyn Duw? Yr ydwyf yn bwriadu gan hynny, trwy gymhorth Duw, pe byddai iddynt ddeisyfu arnaf ar eu gliniau, na wnaf, mewn modd yn y byd, aros i wrando nac i edrych arnynt, ïe, cauaf fy llygaid rhag eu gweled, a'm clustiau rhag eu clywed: gadewch eu bod yn gwenieithio, neu yn gwgu arnaf, neu'n estyn allan en tafodau, neu yn tynnu eu cleddyfau yn fy erbyn, er hynny myfi a âf ymlaen ar fy nhaith tua'r nefoedd; ac yr ydwyf yn llawn fwriadu, yn nerth Crist, i dorri trwy bob rhwystrau, ac i edrych ar fy ngelynion megis llwch y llawr. A phe byddai iddynt fy nhemtio â goruchafiaeth, neu gynnyg i mi holl deyrnasoedd y byd, er hynny nis gofalwn, ac nis edrychwn arnynt, ond megis tom y ddaear. O! orphwysfa fendigedig! O! gyflwr gogoneddus! Pwy a'th werthai am freuddwydion a chysgodau? Pwy ond ynfyd a gymmerai ei hudo neu ei ddychrynu oddiwrthyt? Pwy ni ymdrechai, ac ni ymladdai, ac ni wyliai, ac ni redai, a hynny a'i holl egni, ac hyd at ei anadliad diweddaf, i gael dy fwynhau? Yn ddiau, ni wrthodai neb wneuthur hyn oll, ond y rhai nis adwaenant, ac nid ydynt yn credu fod y cyfryw ogoniant.

§ 16. (5) Llawenydd yw'r diweddaf o'r serchiadau sydd angenrheidiol ei ymarferyd mewn nefol fyfyrdod. Cariad, dymuniad, gobaith, dewrder neu galondid, ydynt oll yn tueddu i godi llawenydd. Y mae llawenydd mor ddy-

munol gan bob dyn wrth naturiaeth, ac mor hollol angenrheidiol tuag at chwanegu ein happusrwydd, fel nad ydyw'n angenrheidiol, gobeithiaf, dywedyd dim i'ch cymhell i'r hyn ag sydd yn gwneuthur ein bywyd yn hyfryd. Gan gymmeryd yn ganiattaol gan hynny eich bod yn cydnabod fod pleserau'r cnawd yn aflan, yn anifeilaidd, ac yn ddarfodedig, a'ch bod yn gweled mai o'r nefoedd yn unig y mae i chwi gael mwynhau llawenydd gwirioneddol a pharhaus, myfi a gaf (yn lle eich annog) fyned ymlaen i'ch cyfarwyddo yn hyn o waith. Ddarllenydd, os ydwyt wedi iawn ddefnyddio'r gwaith blaenorol, yr ydwyt wedi dyfod i olwg yr orphwysfa; yr ydwyt yn credu'r gwirionedd neu'r sicrwydd o honi; yn cydnabod ei rhagoriaethau, ac felly wedi syrthio mewn cariad â hi; yr ydwyt yn hiraethu am dani, yn gobeithio am dani, ac wedi penderfynu anturio ymlaen yn galonnog am dani. Ond a ydyw hyn yn waith a ddichon ddwyn llawenydd? Nyni a fyddwn yn ymhyfrydu yn y daioni sydd yn ein meddiant. Daioni presennol ydyw gwrthddrych llawenydd, a thithau a ddywedi, *Och! yr ydwyf yn amddifad o hono.* Ond bydded i ti feddwl ychydig ymhellach â thi dy hun. Ai megis dyddim y cyfrifir gennyt roddion Duw? Ac onid ydyw ei addewidion sicr ac anffaeledig yn ddigon o sail i'th orfoledd? Ai gwael beth yn dy olwg ydyw byw mewn beunyddiol ddisgwyliad o fyned i mewn i'r deyrnas? Ac onid yw llawn sicrwydd o gael fy ngogoneddu ar ol hyn yn ddigon o achos llawenydd anrhaethadwy? Onid ydyw yn hyfrydwch i etifedd y deyrnas feddwl am yr hyn fydd mor fuan yn ei feddiant, er nad ydyw, o ran ei gyflwr presennol, yn rhagori fawr ar was? Onid oes gennym orchymmyn a siamplau hefyd, i orfoleddu yn y *gobaith o ogoniant Duw.* Rhuf. 5 : 2.

§ 17. Yma gan hynny, ddarllenydd, cymmer dy galon unwaith etto, a dwg hi i ben y mynydd mwyaf uchel, a dangos iddi deyrnas Crist a'i gogoniant, a dywed wrthi, Hyn oll a rydd yr Arglwydd i ti, yr hwn y credaist

ynddo, a bod yn addolwr iddo: "Canys rhyngodd bodd i'th Dad roddi i ti y deyrnas hon." Luc, 12 : 32. A weli di y tra rhagorol ogoniant accw sydd goruwch i ti? Hwn accw oll yw dy etifeddiaeth di. Eiddot ti yw'r goron hon; y pleserau hyn ydynt eiddot ti; y lle tra hyfryd hwn, y gymdeithas ogoneddus hon, yr holl bethau hyn, ydynt eiddot ti! a'r gwreiddiol achos o hyn oll yw, o herwydd dy fod di yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo tithau! Pan yr unwyd ac y cysylltwyd ti âg ef, ti a dderbyniaist yr holl bethau hyn gydag ef. Dwg dy galon fel hyn i wlad yr addewid; dangos iddi'r bryniau hyfryd, a'r dyffrynoedd ffrwythlon; dangos iddi y grawnsyppiau gwin y rhai a gesglaist i brofi'r fath wlad ddedwydd ydyw, *yn llifeirio* o bethau gwell na *llaeth a mêl.* "Ewch i mewn i byrth y ddinas sanctaidd; rhodiwch hyd heolydd y Gaersalem Newydd; amgylchwch Seion, ac ewch o'i hamgylch hi; rhifwch ei thyrau hi; ystyriwch ei rhagfuriau, edrychwch ei ffalasau, fel y mynegoch i'th enaid." Salm 48 : 12, 13. Onid oes ynddi ogoniant Duw, ac onid ydyw ei goleuni yn ddisglaer, megis meini gwerthfawr, fel maen *iaspis* neu *risial?* Gwel ddeuddeg seiliau mûr y ddinas, ac arnynt enwau deuddeg apostol yr Oen. Ac adeilad ei mûr hi oedd o faen *iaspis;* a'r ddinas sydd aur pur, yn debyg i wydr gloyw; a seiliau mûr y ddinas ydynt wedi eu harddu â phob rhyw faen gwerthfawr; a'r deuddeg porth deuddeg perl ydynt; a phob un o'r pyrth o un perl; a heol y ddinas o aur pur fel gwydr gloyw. A theml nid oes ynddi, canys yr Arglwydd Dduw Hollalluog a'r Oen yw ei theml hi: a'r ddinas nid rhaid iddi wrth yr haul na'r lleuad i oleuo ynddi; canys gogoniant Duw a'i goleua hi, a'i goleuni ydyw'r Oen; a'r rhai cadwedig o'r holl genhedloedd a rodiant yn ei goleuni hi. Y geiriau hyn sydd ffyddlon a chywir. Ac Arglwydd Dduw y prophwydi sanctaidd a anfonodd ei angelion, a'i Fab ei hun, i ddangos i'w weision y pethau sydd raid iddynt ddyfod i ben ar fyrder. Dat. 21 : 11, 24. a 22 ; 6. A dywed

wrthi am yr holl bethau hyn, Dyma dy orphwysfa di, O fy enaid! ac yma y bydd raid fod dy drigfan dragywyddol! Bydded i holl feibion Seion lawenychu, a merched Jerusalem orfoleddu! canys mawr yw yr Arglwydd a chanmoladwy iawn yn ninas ein Duw ni, ym Mynydd ei sancteiddrwydd. O! harddwch ei sefyllfa! mynydd Seion yw llawenydd yr holl ddaear. Duw a adwaenir yn ei phalasau yn amddiffynfa. Salm 48 : 1, 2, 3.

§ 18. Dos ymlaen etto. Canys yr enaid sydd yn caru'r Gaersalem nefol, a fydd yn esgyn yno yn aml, ac yn rhedeg trwy ei heolydd fel un yn gynnefin â'r lle, ac yn ymweled â'r patriarchiaid a'r prophwydi, yn cyfarch yr apostolion, ac yn rhyfeddu wrth edrych ar lu y merthyron. Tywys dithau dy galon fel hyn o heol i heol, a dwg hi i mewn i lŷs y Brenhin mawr; arwain hi megis o ystafell i ystafell. Dywed wrthi, yma y llettyaf; yma y byddaf byw; yma y byddaf yn clodfori; yma y byddaf yn caru yr hwn a'm prynodd, ac yn cael fy ngharu ganddo yntau; byddaf finnau, ar fyrder, yn un o'r nefol gantorion, a byddaf yn fwy hyddysg yn y gân ddiderfyn. Ymysg y gymdeithas fendigedig honno y byddaf finnau yn cymmeryd fy lle; a byddaf yn cyduno fy llais i wneuthur i fynu y bereidd-sain. Y pryd hynny y sychir ymaith fy nagrau; fy ngriddfannau a droir yn ganu; a'r babell hon o glai a wneir yn llŷs brenhinol a gogoneddus; ac yn lle carpiau gwael y carchar hwn y caf fy nilladu â gynau disglaer, harddwych, megis y rhai hyn; ac yna y caf ddiosg y wisg lygredig hon o gnawd, a gwisgo corph ysprydol, disglaerwyn fel yr haul; "o blegid y pethau cyntaf a aethant heibio." Dat. 21 : 4. "Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti, O ddinas Duw!" Salm 87 : 3. Pan edrychwyf ar y lle gogoneddus hwn, y fath dommen a'r fath bydew ffiaidd yw'r ddaear hon yn fy ngolwg! O! gymmaint y rhagoriaeth rhwng dyn gwan, dolurus, yn griddfan, yn marw, yn pydru yn y bedd, ac un o'r seintiau disglaer, gorfoleddus hyn! Yma y caf yfed o afon ei hyfrydwch,

ffrydiau pa un sy'n llawenhau dinas Duw. Salm 36 : 8. A oedd yn rhaid i Israel, dan gaethiwed y ddeddf, "wasanaethu yr Arglwydd gyda llawenydd a hyfrydwch calon am amldra pob dim?" Deut. 28 : 47. Yna yn ddiau y caf fi ei wasanaethu â llawenydd a hyfrydwch calon am ragoroldeb y gogoniant! A fyddai'r seintiau, pan erlidid hwy, yn cymmeryd eu hyspeilio o'r *pethau oedd ganddynt yn llawen?* Heb. 10 : 34. Ac oni fydd i mi gymmeryd yn llawen y fath gyflawn daledigaeth am fy ngholledion? Oni fyddai hwnnw yn ddydd hynod ymysg yr Iuddewon gynt, pan fyddent yn gorphwyso oddiwrth eu gelynion, o herwydd ei fod yn cael ei droi o dristwch i lawenydd, ac o alar yn ddydd daionus? Esther, 9 : 22. Pa fath ddydd gan hynny a fydd hwnnw i'm henaid, yr hwn y bydd ei orphwysfa a'r cyfnewidiad yn annrhaethol fwy hyfryd a rhagorol! Cyn gynted ag y gwelodd y doethion y seren oedd i'w tywys at Grist, "hwy a lawenychasant a llawenydd mawr dros ben;" (Mat. 2 : 10;) ond ar fyrder myfi a gaf ei weled Ef, yr hwn ei hun yw'r *Seren foreu eglur.* Dat. 22 : 16. Os oedd y disgyblion yn myned oddiwrth y bedd gyda llawenydd mawr pan yr oeddent ond yn unig wedi clywed ei fod ef wedi cyfodi o feirw, (Mat. 28 : 7, 8,) pa gymmaint fydd fy llawenydd i, pan gaf ei weled ef yn llywodraethu mewn gogoniant, a minnau wedi fy nyrchafu i gymmundeb bendigedig gydag ef! Yna yn wir y caf "ogoniant yn lle lludw; olew llawenydd yn lle galar; gwisg moliant yn lle yspryd cystuddiedig; a Seion a wneir yn ardderchawgrwydd tragywyddol, ac yn llawenydd i'r holl genedlaethau." Esay, 51 : 3, a 60 : 15. Paham gan hynny nad ydwyf yn cyfodi o'r llwch, ac yn darfod â'm hachwynion? Paham nad ydwyf yn diystyru gwagedd, ac yn sathru ar wael ddigrifwch, ac yn ymborthi ar hyfrydwch y gogoniant yr ydwyf yn ei ragweled? Paham na b'ai fy mywyd yn un ystod o lawenydd, ac archwaeth y nefoedd yn wastad ar fy yspryd?

§ 19. Ond gadewch i mi sylwi yma, nad oes un angen-

rheidrwydd i ymarferu'r holl serchiadau hyn, naill ai yn ol y drefn y gosodwyd hwynt i lawr yma, neu oll ar yr un pryd. Weithiau y bydd rhyw un o'th serchiadau'n gofyn mwy o gymhelliad, neu ynte y geill un fod yn fwy bywiog na'r lleill; neu os bydd dy amser yn fyr, y gelli ymarferu un o honynt ar un diwrnod, ac un arall ar ddiwrnod arall; a hyn i gyd a adawaf i'th reswm a'th wybodaeth i'w sefydlu. Gelli hefyd gael cyfleusdra, os ewyllysi wneyd hynny, i ymarferu serchiadau eraill, mwy cymmysg a chroes i'w gilydd, neu o wahanol naturiaeth; megis, *casineb i bechod*, yr hwn a fynnai ddifeddiannu dy enaid o'r llawenydd anfarwol hwnnw;—*duwiol ofn* rhag i ti gam-arferu ei drugareddau;—*duwiol gywilydd* a thristwch am i ti wneuthur hynny;—*edifeirwch diffuant;—hunan-ddigllonedd;—eiddigedd* dros dy galon;—a *thosturi* dros y rhai hynny ag sydd mewn perygl o golli y llawenydd tragywyddol hwnnw.

§ 20. (III.) Yr ydym hefyd i sylwi pa fodd y mae i ni gynnyddu nefol fyfyrdod trwy hunan-holiad a gweddi. Er mai *ystyriaeth* yw yr offeryn pennaf yn y gwaith hwn, er hynny (o hono ei hun) nid yw mor debygol i effeithio ein calonnau. Yn yr ystyr yma, y mae myfyrdod yn debyg o bregethu, pan nad yw y gwirioneddau a'r dyledswyddau a draethir yn cael cymmaint effaith ag yw'r addasiad neu'r cymhwysiad o honynt at y gydwybod, yn enwedig pan y taer ymbilir ar i'r Ddwyfol fendith fod yn cydfyned â'r cyfryw gymhwysiad o honynt.

§ 21. (1) Trwy hunan-ymddiddaniad, neu ddadleu yr achos â thi dy hun, y mae yn rhaid i ti gyffroi dy galon i fyfyrdod. Ac i'r diben hynny, dechreu ddadleu yn ddifrifol â hi; ïe, dadleu â hi yn yr iaith fwyaf tyner, pwysfawr, a hawddgar, a chymhell hi â'r rhesymmau cryfaf a chadarnaf. Canys dyma yr hyn a wnaeth pobl Dduw yn mhob oes; megis Dafydd, "Paham y'th ddarostyngir, fy enaid? a phaham y terfysgi ynof? Ymddiried yn Nuw, canys etto y moliannaf ef, sef iachawdwriaeth fy wyneb

a'm Duw." Salm 42 : 11. Ac mewn Salm arall, "Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, a chwbl sydd ynof ei enw sanctaidd ef! Fy enaid, bendithia'r Arglwydd, ac nac anghofia ei holl ddoniau ef," &c. Salm 103 : 1, 2. Y mae yr hunan-ymddiddan yma i gael ei arferu yn ol amryw serchiadau'r enaid, ac yn ol ei amryw angenrheidiau. Math o bregeth i ni ein hunain ydyw; canys megis ag y mae pob meistr, neu dad duwiol, yn bregethwr da i'w deulu ei hun, felly hefyd y mae pob gwir Gristion yn bregethwr da i'w enaid ei hun. Gan hynny fe ddylai pob Cristion geisio canlyn yr un drefn wrth ymddiddan â'i enaid ei hun ag a fydd gan weinidog yr efengyl wrth bregethu i eraill. Deliwch sylw ar sylwedd pregethau, a'r modd o ymadroddi, ag y mae'r gweinidog mwyaf calonddenol a llwyddiannus yn eu harferu, a gadewch i hynny fod yn siampl i chwithau, a chymmerwch yr un ffordd gyda'ch calon ag y mae ef gyda'i wrandawyr. Gwnewch hyn yn eich nefol fyfyrdod; esponia i ti dy hun y pethau yr ydwyt yn myfyrio arnynt; cadarnha dy ffydd ynddynt allan o'r Ysgrythyr Lân; ac yna cyfaddasa hwynt at dy gyflwr dy hun, yn ol eu trefn a'u natur, fel y maent yn berthynol i'th gyflwr a'th angenrheidiau. Nid oes achos i ti ddadleu yn erbyn hyn, gan honni dy anwybodaeth a dy anallu. Onid ydyw Duw yn gorchymmyn i ti ddysgu yr ysgrythyrau yn ddiwyd ac yn ofalus i'th blant, a "chrybwyll am dynynt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan gerddych ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan gyfodych i fynu." Deut. 6 : 7. Ac os ydwyt yn addas i addysgu eraill, yn ddiau ti elli ddysgu dy hun; ac os medri ymddiddan âg eraill ynghylch pethau nefol, paham na elli wneyd yr un peth â'th galon dy hun?

§ 22. (2) Nefol fyfyrdod hefyd a gynnorthwyir ac a hwylir ymlaen trwy ymbil ac ymdrechu â Duw mewn *gweddi*, yn gystal a thrwy ymddiddan â ni ein hunain. Gellir arferu gweddi *fyfyriol*, pan y byddom yn dyrchafu yn ein calonnau i'r nefoedd, ac yn ymdrechu â Duw yn

ein meddyliau; ac felly cyd-dymheru a chymmysgu cyfryw weddi y meddyliau â'n myfyrdodau ysprydol. Pa gan amled, yn yr un Salm, yr ydym yn cael Dafydd yn ymddiddan weithiau â'i enaid ac weithiau yn ymbil â Duw? Ac y mae'r apostol yn ein cynghori i "lefaru â'n gilydd mewn psalmau, a hymnau, ac odlau ysprydol, gan ganu a phyncio yn ein calonnau i'r Arglwydd;" (Ephes. 5 : 19;) ac yn ddiammeu nyni a allwn hefyd lefaru â Duw yn yr un modd. Hyn a duedda yn fawr i gadw yr enaid mewn ymsyniaeth gwastadol o'r Dwyfol bresennoldeb, (cynnrychioldeb,) ac hefyd i'w fywiogi a'i ddyrchafu tua'r nefoedd. Ac megis mai Duw yw'r gwrthddrych mwyaf gogoneddus y gallwn ni osod ein meddyliau arno; felly hefyd edrych arno, ymddiddan, a dadleu ag ef, sydd yn dyrchafu'r enaid, ac yn cyffroi'r serchiadau, yn fwy nag un rhan arall o nefol fyfyrdod. Ac er i'n calonnau barhau heb i ddim effeithio fawr arnynt, tra fyddom fel hyn yn dadleu â ni ein hunain, etto wedi i ni droi ein hymadroddion megis at Dduw, hynny a ddichon ein taro â braw ac â synnedigaeth; a'r ystyriaeth o'i sancteiddrwydd a'i fawredd a fydd yn debygol i wneyd i sylwedd ein myfyrdod, a'r geiriau a fyddom yn eu harferu, dreiddio yn ddyfnach at ein calonnau. Lle'r ydym yn darllen i Isaac fyned allan i fyfyrio yn y maes, ar ymyl y ddalen dywedir *i weddio*, canys y mae'r gair Hebraeg yn arwyddoccau'r ddau. Felly, yn ein myfyrdodau, gellir cydymarferu hunan-ymddiddan â gweddi fyfyriol; hynny yw, bod i ni weithiau ymddiddan â'n calonnau, ac weithiau ymbil ac ymddadleu â Duw; ac yn fy meddwl gwael i, dyma y cam uchaf y medrwn ni ddyfod iddo yn y gwaith nefol hwn. Ac nid oes yr un achos chwaith i ni feddwl y gallwn gymmeryd i fynu â gweddi yn unig, ac felly esgeuluso myfyrdod. Canys dyledswyddau gwahanol ydynt, ac y mae'n rhaid i'r ddwy gael eu cyflawni. Mae pob un o honynt yn angenrheidiol er ein lles, ac am hynny nyni a wnawn gam â ni ein hunain os bydd i ni esgeuluso un o'r

ddwy. Heblaw hyn, eu cymmysgu a'u cyd-dymheru â'u gilydd, megis cyd-gerdd (*music*) a fyddai'n fwy hyfryd a dymunol, o herwydd fod pob un o honynt yn fuddiol i roddi mwy o fywyd yn y llall. Buddiol hefyd a dymunol fyddai i'r cyd-ymddiddan hwn â ni ein hunain, mewn myfyrdod, fod yn rhagflaenu ein herfyniadau at Dduw mewn gweddi. Ac o eisiau cadw'r cyfryw drefn, bydd llawer o ddynion yn dadleu â Duw mewn gweddi, gyda llawer llai o barch nac y gwnaent ymddiddan ag angelion pe digwyddai iddynt ymddangos iddynt, a chyda llai o barchedig ofn nag y gwnaent â'r barnwr, pe gorfyddai iddynt sefyll i gael eu barnu am eu bywyd. Llefaru wrth DDUW y nefoedd mewn gweddi sydd yn orchwyl mwy pwysfawr nag y mae rhai dynion yn ei feddwl.

## PENNOD XV.

### NEFOL FYFYRDOD YN CAEL EI CHYNNORTHWYO GAN WRTHDDRYCHAU GWELEDIG, AC YN CAEL EI HAMDDIFFYN RHAG CALON DWYLLODRUS.

§ 1. O herwydd bod yn anhawdd cadw ymsynniad bywiog o bethau nefol, gan hynny, § 2. (I.) myfyrdod dduwiol a ddichon gael ei chynnorthwyo gan wrthddrychau gweledig, § 3. (1) os bydd i ni dynnu casgliadau cedyrn oddiwrth bethau gweledig, ac § 4—11. (2) os bydd i ni gymharu gwrthddrychau daearol neu weledig â gwrthddrychau ffydd, amryw siamplau o ba rai a roddir yma. § 12. (II.) Nefol fyfyrdod a ellir hefyd ei hamddiffyn yn erbyn calon dwyllodrus, trwy ystyried § 13, 14. (1) mawr anewyllysgarwch y galon i'r ddyledswydd hon; § 15. (2) trwy fod yn wammal, yn ysgafn, ac yn ysmala yn y gwaith; § 16. (3) yn crwydro ac yn cilio oddiwrtho; § 17. (4) ac yn rhoddi diben arno, neu yn diweddu'r gwaith yn ddisymmwth.

§ 1. Y rhan fwyaf anhawdd o'r gwaith mewn duwiol fyfyrdod ydyw cynnal ymsynniad bywiog o bethau

nefol ar ein calonnau. Y mae'n fwy hawdd *meddwl*, yn unig, am y nefoedd trwy'r dydd na bod yn fywiog a serchog yn y cyfryw feddyliau am un chwarter awr. Ffydd sydd ammherffaith, canys nid ydym wedi ein hadnewyddu ond mewn rhan, ac am hynny y mae byd o anhawsderau yn ein herbyn; ac o herwydd ei bod yn oruwch-naturiol, y mae hi yn dueddol iawn i lesgâu ac adfeilio oni chyffroir hi yn aml. Y synniad anianol sydd gryf, yn ol nerth y cnawd; ac o herwydd ei fod yn naturiol, y mae yn parhau tra y mae natur yn parhau. Gwrthddrychau ffydd sydd bell oddiwrthym, ond gwrthddrychau'r cnawd ydynt agos attom. Y mae'n rhaid i ni fyned cyn belled a'r nefoedd am ein llawenydd. Llawenychu yn yr hyn nis gwelsom erioed, (ac nis adwaenom y dyn a'i gwelodd,) a hynny hefyd yn unig ar addewidion yr ysgrythyrau, sy fwy anhawdd o lawer na llawenychu yn yr hyn yr ydym yn ei weled ac yn ei feddiannu. Duwiol ddoethineb, gan hynny, ydyw galw i mewn bethau gweledig i gynnorthwyo ein ffydd. Gwaith buddiol iawn, gan hynny, ydyw ceisio gwneuthur cyfeillion o'r gelynion naturiol hyn, a'u gwneuthur yn foddion i gyfodi ein serchiadau at Dduw, yn lle eu bod yn achlysurol, fel ag y maent yn gyffredinol, i'n tynnu oddiwrtho. Paham y rhoddodd Duw i ni synwyrau a gwrthddrychau cyfattebol, oni buasai modd eu gwneuthur yn wasanaethgar tuag at chwanegu a dyrchafu ei glod? Paham y mae yr Yspryd Glân yn darlunio gogoniant y Jerusalem Newydd mewn ymadroddion ag sydd mor hyfryd a dymunol gan gig a gwaed? Ai i'r diben o beri i ni feddwl fod y nefoedd wedi ei gwneuthur o aur neu feini gwerthfawr, neu fel y byddai i ni dybied fod y seintiau a'r angelion yn bwytta ac yn yfed? Nage, yn ddiammeu; ond i'n cynnorthwyo ni i ddeall ac i amgyffred ynghylch y pethau anweledig hynny gystal ag y medrom, trwy arfer geiriau perthynol i bethau gweledig, fel y gallom ganfod y pethau nefol hynny cystal ag y mae modd i ni yn y byd hwn, megis mewn drych, a diau,

yn ammherffaith iawn; ond etto rhaid i ni ymfoddloni ar hyn hyd oni lyngcir yr hyn sydd farwol gan fywyd, ac y troir ein ffydd yn fwynhad, ac y cawn weled ein Hiachawdwr fel y mae, a bod yn gyffelyb iddo.—Ac heblaw dangos pa fodd y mae i nefol fyfyrdod gael ei chynnorthwyo gan bethau gweledig, y pen hwn hefyd a ddengys ymha fodd y mae iddi gael ei chadw rhag calon wibiog, grwydredig.

§ 2. (I.) Fel y byddo i nefol fyfyrdod gael ei chynnorthwyo gan wrthddrychau gweledig, gâd i mi dy gynghori, yn unig, i dynnu casgliadau neu ganlyniadau eglur a chedyrn oddiwrth bethau gweledig, ac felly eu cymharu â gwrthddrychau ffydd.

§ 3. (1) I'r diben o gynnorthwyo dy serchiadau mewn myfyrdod nefol, bydded i ti dynnu'r ystyriaethau cadarnaf oddiwrth y pethau hynny ag y mae ein synwyrau a'n serchiadau yn gynnefin â hwynt; a bydded i ti ddychymmygu am y llawenydd sydd uchod yn y fath fodd cyflawn a dymunol ag y mae yr ysgrythyr wedi ei osod allan. Dwg i lawr dy amgyffrediadau i gyrhaedd dy ddealltwriaeth. Cariad a llawenydd a ychwanegir ac a helaethir trwy gyflawn gydnabyddiaeth a chynnefindra. Pan fyddom yn ceisio meddwl am Dduw a gogoniant mewn rhyw ffordd arall, heblaw yr un y maent yn cael eu gosod allan yn yr ysgrythyrau, yr ydym fel pe baem yn colli arnom ein hunain, ac yr ydym megis heb ddim i osod ein meddyliau arnynt. Yr ydym fel hyn yn ceisio eu gosod mor uchel fel ag y maent allan o'n cyrhaedd, ac y maent megis yn ddieithr i'n meddyliau, fel ag yr ydym yn barod i ddywedyd, "Nid yw'r pethau sydd gymmaint uwchlaw i ni yn perthyn i ni." Canys ni wna meddwl am Dduw a gogoniant, fel pethau uwchlaw ein hamgyffred, ennill ond ychydig o'n cariad, neu dybied eu bod uwchlaw ein cariad, greu ynom ond ychydig lawenydd. Gan hynny na fwriwch Grist ymaith oddiwrthych ymhellach nag y mae efe ei hun wedi eich hyfforddi, rhag i'r natur Ddwyfol fod

etto y anhawdd nesâu atto; ond yn hytrach meddyliwch am Grist, megis yn ein natur ni, a honno wedi ei gogoneddu; a meddyliwch am y seintiau gogoneddus megis dynion wedi eu perffeithio. A bydded i ti dybied am danat dy hun, dy fod megis yn gydymaith i Ioan yn ei daith i'r Gaersalem Newydd, a dychymmyg ynot dy hun, dy fod yn gweled y gorseddfeingciau, y mawrhydi, y llu nefolaidd, a'r llewyrch disglaer a welodd efe. Meddwl am danat dy hun, megis yn bod yn gydymdeithydd âg ef i'r deynas nefol honno, a'th fod wedi canfod y seintiau gogoneddus yn eu gynau gwynion, a phalmwydd yn eu dwylaw, a'th fod di wedi clywed y caniadau hyfryd hynny, sef cân Moses a chân yr Oen. Canys pe buasit, mewn gwirionedd, wedi gweled a chlywed y pethau hyn oll, oni fuasit yn llesmeirio gan lawenydd! A pha fwyaf pwysfawr a difrifol y gelli gymhwyso yr ystyriaethau hyn attat dy hun, mwyaf oll y bydd i ti godi dy galon mewn myfyrdod. Ond na fydded i ti, megis y Pabyddion, dynnu eu lluniau, ond yn unig dychymmygu yn dy feddwl y darluniadau mwyaf eglur o honynt ag a fedri, gan ddwys-ystyried yr hanes ysgrythyrol am danynt, hyd onis gelli ddywedyd, "Myfi a feddyliwn fy mod yn canfod ychydig o lewyrch y gogoniant hwnnw! Tybied yr ydwyf fy mod yn clywed adsain y llawenydd a'r gorfoledd, a'm bod yn sefyll yn agos i Abraham, a Dafydd, a Phedr, a Phaul, ac eneidiau gorfoleddus eraill! Meddyliaf fy mod yn gweled Mab Duw yn ymddangos ar gymmylau'r nef, a'r holl fyd yn sefyll o flaen y frawdle fawr i dderbyn eu dedfryd, a'm bod yn ei glywed yn dywedyd, 'Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad!' a'u gweled hwythau yn myned dan orfoleddu i mewn i lawenydd eu Harglwydd! Hyd yn nod fy mreuddwydion am y pethau hyn a fuont, ar droion, yn effeithio yn fawr arnaf, a pha gymmaint mwy effaith a ddylai yr hanes wirioneddol am danynt gael arnaf? Pa beth a wnaethwn pe buaswn, gyda St. Paul, yn gweled y pethau anrhaethadwy hynny? Neu, megis Stephan, yn

gweled y nefoedd yn agored, a Christ yn eistedd ar ddeheulaw Duw? Yn ddiau yr oedd yr un olwg honno yn werth y gawod gerrig! Beth pe buaswn, fel Micaia, yn gweled yr Arglwydd yn eistedd ar ei orsedd, a holl lu'r nefoedd yn sefyll ar ei ddeheulaw, ac ar ei aswy? Y cyfryw bethau a hyn a welodd y dynion duwiol hyn; ac myfi a gaf, ar fyrder, weled llawer ychwaneg nag a welsant hwy erioed hyd onis disogasant y wisg hon o gnawd, megis ag y caf finau cyn b'o hir." Fel hyn chwi a welwch pa fodd y mae ein serchiadau yn cael eu heffeithio yn y gwaith nefol hwn, wrth ystyried y darluniadau ysgrythyrol o bethau nefol, a dychymmygu lluniau eglur a dealladwy o honynt yn ein meddyliau, oddiwrth wrthddrychau gweledig. Ac fel hyn y mae yr Yspryd Glân wedi ein cyfarwyddo, pa fodd y gallwn gael rhyw wybodaeth am bethau anweledig ac ysprydol oddiwrth bethau gweledig a naturiol, fel ag y mae'r naill yn gosod allan, yn darlunio, ac yn esponio'r llall: ac fel hyn y mae ein dealltwriaeth gwan yn cael ei gynnorthwyo, mewn rhyw ystyr, ac mewn modd ammherffaith, i amgyffred pethau nefol ac anweledig.*

§ 4. (2) Ffordd arall, ymha un y dichon ein synwyrau hwylio ymlaen y gwaith nefol hwn, ydyw hyn, sef trwy gymharu, neu gydgyffelybu gwrthddrychau'n synwyrau â gwrthddrychau ein ffydd. Megis fel y canlyn—Chwi a ellwch ymresymmu yn y modd cadarnaf a mwyaf effeithiol â'ch calonnau oddiwrth ymddygiad dynion anianol, a'u mawr serch tuag at eu pleserau cnawdol, pa fodd y dylech chwithau garu a hoffi pethau nefol.—Meddyliwch ynoch eich hunain—a ydyw yn gymmaint hyfrydwch i'r pechadur wneuthur drygioni? ac oni fydd yn fil mwy hyfryd i'r dyn duwiol gael trigo gyda Duw? A oes gan y meddwyn gymmaint cariad at ddiod gadarn, fel nad

---

* Yma ychwanegwyd rhyw ychydig eiriau, i wneuthur meddwl yr awdwr yn fwy dealladwy i rai darllenwyr annysgedig.

yw ofn damnedigaeth yn ddigon i wneuthur iddo ymwadu â'r pechod o feddwdod? A ydyw yn fwy dewisol gan y godinebwr golli ei enw da, ei olud, a'i gyfoeth, ïe, hyd yn nod dinystrio ei enaid anfarwol, nac ymadael â'i drachwantau cnawdol ac anifeilaidd? Os geill y ffordd i uffern roddi cymmaint pleser i'r annuwiolion, pa faint mwy hyfrydwch a fydd i'r seintiau fwynhau yn y nefoedd! Os ydyw'r cybydd a'r goludog yn cael cymmaint pleser yn eu golud, a'r rhai sy'n chwennych goruchafiaeth yn ymhyfrydu mewn mawredd, a llywodraeth a swyddau uchel, pa faint mwy hyfrydwch fydd i'r seintiau, mewn golud parhaus, a thrysorau diderfyn, a nefol ogoniant, a mawrhydi, a lle byddant yn cael eu dyrchafu uwchlaw tywysogaethau àc awdurdodau, ac y cânt eu gwneuthur yn ddyweddi i Grist Iesu! Os yw'r glwth a'r anllad yn cael cymmaint pleser mewn gwledda, gloddest, a meddwdod, ac yn canlyn trachwantau'r cnawd, a'r rhai sydd yn ymhyfrydu twyllo eraill mewn chwareuyddiaeth, yn medru eistedd i fynu nosweithiau a dyddiau gyda'u *cardiau* a'u disiau, pa faint mwy hyfrydwch a fydd i'r seintiau, pan ddelont i'w gorphwysfa, a chael y fraint hefyd o ganfod wynebpryd gogoneddus y Duw byw, a chael ei glodfori ef a'r Oen yn oes oesoedd! Cydgymherwch hefyd y digrifwch sydd uchod, a'r hyn sydd ganiattaol a chyfreithlon, â'r pethau hynny ag yr ydym yn ymhyfrydu fwyaf ynddynt yn y byd hwn; a meddwl ynot dy hun,—Pa mor flasus yw ymborth i'm genau, pan fydd arnaf chwant bwyd! yn enwedig os bydd (megis y dywedodd Isaac) y fath a garwyf! A pha mor annrhaethol fwy fydd fy hyfrydwch i ymborthi ar Grist, y bara bywiol, pan gaf fwyta gydag ef, wrth ei fwrdd, yn ei deyrnas! A oedd un phiolaid o gawl mor flasus gan Esau, fel y gwerthodd efe ei enedigaeth-fraint am dani? Pa mor fawr gan hynny y dylwn i werthfawrogi y bwyd ni dderfydd? Pa mor ddymunol yw diod pan fydd mawr syched arnom, ïe, mor werthfawr ydyw fel nas gellir yn hawdd ei draethu! can-

ys yspryd Samson a ddychwelodd, ac efe a adfywiodd drachefn wedi yfed dwfr, pan yn sychedig. O pa mor annhraethol fwy hyfryd, gan hynny, a fydd i'r seintiau gael yfed o Ffynnon y dyfroedd byw, a'r rhai a yfant o honi ni sychedant mwyach! O pa mor ddymunol yw peraroglau i'r ffroenau, peroriaeth i'r clustiau, a gwrthddrychau heirdd i'r llygaid! Ond pa mor ragorol fwy hyfryd a fydd arogl peraidd yr enaint gwerthfawr a dywalltwyd ar ben ein gogoneddus Iachawdwr, ac a dywelltir hefyd ar bennau'r holl seintiau, fel ag y bydd yr holl le wedi ei lenwi â'i ber-aroglau! Pa gymmaint mwy hyfryd yw peroriaeth y llu nefolaidd! Pa gymmaint mwy dymunol harddwch a phrydferthwch y trigfannau hyfryd sydd uchod! Pa mor dra gogoneddus yr adeilad yn yr hwn y mae Duw ei hun yn preswylio, "sef tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd!" Pa mor hardd yr olwg ar ddinas Duw, y baradwys nefol!

§ 5. Cymherwch hefyd yr hyfrydwch sydd uchod â'r mawr bleser y mae llawer yn ei gael mewn dysgediaeth a gwybodaeth o bethau naturiol yn y byd hwn—ac y mae'r rhai hyn yn ddiau yn rhagori llawer ar bleserau'r cnawd —ond etto y mae happusrwydd a dedwyddwch y nef yn anfeidrol fwy hyfryd a gogoneddus na'r rhai hyn. Gan hynny meddwl, "A allai un Archimedes* gael ei lyngcu i fyny gymaint â'i ddyfeisiau rhifyddol, fel nas gellai bygythion angeuol wneyd iddo eu rhoddi heibio, ond efe a fyddai farw yn nghanol ei fyfyrdodau? Ac oni ddylai hyfrydwch a digrifwch y nef fod yn fwy anwyl a dymunol gennyf fi, fel ag yr ewyllysiwn farw â'r cyfryw fyfyrdodau duwiol ar fy meddwl! yn enwedig pan yr ystyriwyf y byddai i farwolaeth fy nhrosglwyddo allan o drueni'r byd hwn i fwynhau'r gogoniant hwnnw, ac, ar y llaw arall, bod holl ddyfeisiau a dychymmygion Archimedes yn

* Philosophydd dysgedig, a daear-fesurwr hynod, ag oedd yn byw ynghylch dau cant o flynyddau cyn geni Crist, yn ynys Sicily.

marw gydag ef! Pa mor hyfryd gan rai dreiddio i ddyfnderoedd dirgeledigaethau'r holl greadigaeth, a chwilio allan ddirgelion yr holl gelfyddydau a chywreinwaith, yn enwedig os digwydd iddynt gael allan ryw ddyfais neu ddychymmyg newydd! Ac os bydd dynion yn cael y fath ddywenydd yn nysgeidiaeth a gwybodaeth y byd hwn, pa faint mwy hyfryd a rhagorol yw gwybodaeth o Dduw a Christ! Os ydyw dysgeidiaeth ddynol yn ymddangos mor hardd, fel nad ydyw trachwantau'r cnawd ond gwael, distadl, a dirmygedig, mewn cyffelybiaeth iddi, pa gymmaint mwy gogoneddus yw gwybodaeth o Dduw a dirgelion teyrnas nefoedd! Pan fydd rhyw un ag sy'n caru dysgeidiaeth, ac yn hoff ganddo ddarllen, yn cael hyd i ryw lyfr difyr, buddiol, a dysgedig, mor awyddus a fydd i'w astudio nos a dydd, hyn oni byddo'n anghofio bwyd, a diod, a chysgu! Y fath hyfrydwch, gan hynny, fydd ar ddeheulaw Duw, lle y cawn wybod ar unwaith bob peth ag sydd i'w wybod!" Cydgyffelyber hefyd ddywenydd moesoldeb a serchiadau naturiol â hyfrydwch y nef. Pa ddigrifwch a gafodd llawer o ethniciaid dwys a myfyriol, yn y rheolau a'r ymarferiad o'r dyledswyddau moesol, fel ag y cyfrifent hwnnw, yn unig, yn ŵr gonest, yr hwn a wnai yn dda, ac a fyddai fyw yn gyfiawn, yn unig o gariad at rinwedd, ac nid rhag ofn cospedigaeth. Ië, cymmaint oedd gwerth rhinwedd moesol yn eu golwg, fel y tybient mai yn hynny yr oedd y daioni pennaf yn sefyll! Meddwl, gan hynny, y fath ragoriaeth a fydd yn ein nefol berffeithrwydd, ac hefyd yn nigrëedig berffeithrwydd Duw, yr hwn a gawn ei weled! Pa mor hoff a hyfryd yw'r ymarferiad o gariad naturiol, pa un ai tuag at ein plant, ein rhieni, ein gwyr, neu ein gwragedd, neu ein perthynasau agosaf ac anwylaf! Os oedd Dafydd yn medru dywedyd am Jonathan, "Rhyfeddol oedd dy gariad i mi, tu hwnt i gariad gwragedd," ac os oedd "enaid Jonathan wedi ymgylymmu wrth enaid Dafydd," (1 Sam. 18 : 1,) ac os oedd gan Crist ei hun un disgybl yr hwn a fawr gerai, ac

a fyddai arferol o bwyso ar ei fynwes, ac os ydyw cariad ein cyfeillion a'n perthynasau daearol mor hoff a dymunol gennym, pa faint mwy hyfryd a fydd cariad, a chymdeithas, ac ewyllys da'r Goruchaf, a'n perthynas agos i Iesu Grist, a'n cymmundeb ag ef, a'r cariad a'r cyfeillgarwch a fydd rhyngom â'r seintiau yn y nefoedd? Yn ddiau, fe fydd hwn yn amgenach cyfeillgarwch, a'r rhai hyn yn gyfeillion mwy dymunol a pharhaus, nac un a fu erioed dan haul, ac fe fydd ein serchiadau tuag at ein Tad nefol a'n Hiachawdwr bendigedig (ond yn enwedig eu cariad hwy tuag attom ni) yn rhagori ar ddim a welwyd yma erioed. Os ydyw cadernid angelion gymmaint mwy na nerth dynion, fel y gallai un angel ddinystrio lliaws mawr o bobl, felly hefyd yn ddiau y bydd y serchiadau ysprydol a gawn ni y pryd hynny, yn alluog i garu fil o weithiau yn fwy pur, gwresog, a ffyddlon, nag y gallwn ni yrawn. Ac megis ag y mae holl briodoliaethau a gweithredoedd Duw yn anolrheinadwy ac uwchlaw amgyffred dyn, felly hefyd, yn yr un modd, y mae ei gariad; ac efe a'n câr ni yn anfeidrol fwy na'n cariad mwyaf perffaith ni tuag atto ef. A pha mor fawr a fydd ein dedwyddwch yn y gwaith o garu Duw, a chael ein caru ganddo!

§ 6. Cymherwch hefyd holl ragoriaethau'r nefoedd â gweithredoedd gogoneddus y greadigaeth y rhai y mae ein llygaid yn eu canfod. Y fath ddoethineb, a gallu, a daioni, sydd i'w gweled ymhob peth! Ymha fath fodd rhyfeddol y mae mawredd y Creawdwr yn ymddangos ynghreadigaeth y byd! Pa mor fawr yw ei weithredoedd yn ngolwg pawb a'u hoffant! Salm 111 : 2. Y fath gywreinrwydd Dwyfol sydd i'w weled yngwneuthuriad cyrph dynion ac anifeiliaid! Y fath ryfeddol gywreinrwydd sy'n ymddangos ymhob planhigyn! a godidawgrwydd ymhob llysieuyn y maes! Y fath harddwch mewn blodau! Gymmaint amrywioldeb a buddioldeb mewn llysiau, dail, planhigion, ffrwythau, a mwn metteloedd! Y rhyfeddodau dirifedi sydd *yn* ac *o fewn* y ddaear, a'r aneirif

greaduriaid sy'n byw *ynddi* ac *arni!* Gynnifer o greaduriaid sy'n tramwyo llwybrau'r moroedd! Y fath ryfeddodau yn eigion y dyfnder mawr! a chynhyrfiad y dyfroedd, y rhai *nid allant fod yn llonydd;* y llanw a'r trai; anfesuredig ddyfnder a meithder y môr; cyfnewidiad ac adganlyniad tymhorau'r flwyddyn, y gwanwyn a'r hydref, haf a ganaf! Meddwl, gan hynny, am y pethau hyn oll, y rhai nid ydynt ond megis gweinidogion i ddyn pechadurus; ac os ydyw'r rhai hyn mor llawn o ryfeddodau, buddioldeb, a daioni, pa faint mwy rhyfeddol a gogoneddus yw preswylfod y Duw byw, a'r lle a barottowyd i'r rhai cyfiawn wedi eu perffeithio gyda Christ! Y fath addurniant a gogoniant sydd yn y lleiaf o'r ser uchod! Y fath gyrph ysplennydd anfeidrol yw'r lleuad a phob un o'r planedau! Y fath ddisgleirdeb gogoneddus, ac uwchlaw amgyffred dyn, sydd i'r haul! Ond pa beth yw'r rhai hyn oll i'w cyffelybu â gogoniant y nefoedd! Yr haul disglaer uchod y pryd hynny a droir heibio megis afreidiol; canys ni fydd ei oleuni ond tywyllwch i'w gyffelybu â gogoniant tŷ ein Tad nefol. Ië, myfi fy hun a gaf y fraint o fod mor ogoneddus a'r haul accw. Nid yw'r holl ddaear ond troedfaingc fy Nhad nefol. Nid yw'r tarannau mwyaf dychrynadwy ddim i'w cyffelybu i'w lais arswydus ef. Nid ydyw'r gwyntoedd mwyaf nerthol ddim eilfydd i anadl ei enau. Os ydyw'r Arglwydd mor rhyfeddol a derchafadwy yn ei weithredoedd tymhorol, yn anfon y cynnar a'r diweddar wlaw, a pheri i'w haul godi, a thywynnu, a machludo ar y drwg a'r da, ar y cyfiawn a'r anghyfiawn, pa faint mwy rhyfeddol a gogoneddus a fydd efe, pan na fyddo haul mwyach, ond efe ei hun a fydd yn oleuni'r lle, ac a fydd yn tywynnu ar angelion a seintiau yn unig! Bydded i ti hefyd gydgymharu'r mwyniant a'r gwynfyd sydd uchod â rhyfeddodau Rhagluniaeth yn yr eglwys ac yn y byd. Onid oedd yn rhyfeddod mawr gweled y môr yn sefyll megis mûr ar y llaw ddehau ac ar yr aswy, a'r tir sych yn ymddangos yn y canol, a phlant Israel yn myned trwodd

yn ddiogel, a Pharaoh a'i holl luoedd yn boddi yn y dyfroedd? neu weled plâau'r Aipht, neu'r dwfr yn pistyllio allan o'r graig, neu wlawio manna a sofl-ieir o'r nefoedd, neu weled y ddaear yn agor ac yn llyngcu'r annuwiolion hynny (a'u cynnulleidfa) Corah, Dathau, ac Abiram? Etto nyni a gawn weled pethau llawer mwy rhyfeddol na'r rhai hyn; ac nid yn unig mwy rhyfeddol, ond hefyd mwy hyfryd a dymunol. Canys ni fydd yno ddim gwaed na digofaint yn gymmysg â'r gweithredoedd hynny; ac ni fydd achos i ni waeddi allan gyda gwyr Beth-semes, "Pwy a ddichon sefyll yn wyneb yr Arglwydd Dduw sanctaidd hwn?" 1 Sam. 6 : 20. Mor rhyfedd oedd gweled yr haul yn sefyll yn llonydd yn y ffurfafen, neu weled deial Ahas yn myned ddeg o raddau yn ei hol! Ond nyni a gawn weled pethau mwy na'r rhai hyn oll; canys nyni a gawn fyw yn dragywydd, pan fydd yr haul hwn wedi darfod; a gweled yr hyn a fydd yn haul mwy rhagorol, ac yn oleuni a gogoniant y nefoedd. Y fath ddynion rhyfeddol a fyddem yn y byd pe medrem gael gwlaw neu sychder wrth ein gweddiau; neu alw tân o'r nefoedd, megis Elias, i ddinystrio ein gelynion; (2 Bren. 1 : 12;) neu wneuthur gwyrthiau, iachâu clefydau, neu siarad amryw ieithoedd, megis yr apostolion! Etto ni fyddai'r holl bethau hyn ond llai nâ dyddim at y rhyfeddodau a gawn ni eu gweled, a'r gwyrthiau a gawn ni eu gwneuthur, a bod yn feddiannol o honynt, pan yr awn i gyfanneddu gyda Duw; a'r rhai hynny a fyddant i gyd oll yn rhyfeddodau o ddaioni, a gwyrthiau o gariad. Ië, nyni ein hunain a fyddwn yn wrthddrychau o drugaredd, a haelioni, a chariad mwy rhyfeddol na'r rhai hyn i gyd oll. Jonah a gyfodwyd wedi iddo fod ond yn unig dridiau yn mol y morfil; ond nyni a gyfodir wedi i ni fod lawer o flynyddoedd yn pydru yn y llwch; a'r llwch hwnnw a ddyrchefir i fod yn fwy gogoneddus a disglaer na'r haul; a'r gogoniant hwnnw ni dderfydd, ond a bery i bob tragywyddoldeb! Yn ddiau, ped ystyriem ond rhagluniaethau

beunyddiol a chyffredin, sef cylchdroad y rhodau mawrion hynny, yr haul a'r lleuad, a'r ddaear, a'r gallu anfeidrol ag sy'n eu cynnal yn eu lle; ymchwydd a gosteg y môr, gan lanw a thrai, neu dymhestloedd; dyfrhau'r ddaear â gwlaw megis gardd yr Arglwydd; rheoli a llywodraethu'r byd terfysglyd, afreolus, pechadurus hwn; a rhyfeddodau mawrion eraill, dirifedi, o waith y Creawdwr mawr. Ond pa beth ydyw y rhai hyn mewn cymhariaeth i *Seion* Duw, a chael golwg ar y Dwyfol Fawrhydi, a sefyllfa, a threfn, a graddau yr holl lu nefolaidd? A chwanega at y rhai hyn yr amryw ragluniaethau neillduol, y rhai a dderbyniaist ti dy hunan yn dy fywyd, a chennyt fawr achos i gadw coffa am danynt; ac ystyria, er mor werthfawr oeddent, na fyddant yn haeddu eu cyffelybu *i'r gogoniant a ddatguddir i ni*, y bendeithion annhraethol mwy gwerthfawr sydd uchod. Bwrw olwg dros y trugareddau a dderbyniaist yn dy ieuengctyd, mewn canol oed, yn amser hawddfyd ac adfyd, mewn amryw leoedd a sefyllfa, a llawer o honynt, nid yn unig i ti dy hun, ond hefyd i'th berthynasau! Onid oeddent oll yn rhagorol ac yn aneirif, yn werthfawr ac yn ddymunol? Mór felus fu i ti pan gymerodd Duw ymaith dy amheuon; y gwasgarodd dy ofnau; y rhagflaenodd yr anghyfleusderau i ba rhai y buasai dy gynghor dy hun yn dy fwrw; yr esmwythaodd dy ofidiau; yr iachäodd dy afiechyd; ac y cododd di i fyny megis o angeu a'r bedd! ac ystyria ynot dy hun, "A oedd yr holl bethau hyn mor felus, mor anwyl a gwerthfawr, fel ag y buasai fy mywyd hebddynt yn un ystod parhaus o helbul a thrallod? A ddarfu i'w ragluniaethau ef, ar y ddaear, fy nghyfodi mor uchel, a'i diriondeb fy nyrchafu? Ac os oedd y pethau hyn mor ddymunol ar y ddaear, pa faint mwy hyfryd a dymunol a fydd ei bresenoldeb gogoneddus ef yn y nefoedd! A pha mor uchel y bydd i'w gariad tragywyddol fy nyrchafu! A pha mor fawr y caf fy anrhydeddu, pan gaffwyf fy nerbyn i gymmundeb gwastadol gydag ef! Ac os ydwyf yn mwynhau y fath drugareddau a bendithion

gwerthfawr, ar fy nhaith a'm pererindod, ac yngwlad fy ngelynion, pa mor annhraethol fwy gwerthfawr a gogoneddus a fydd y rhai hynny y caf fy ngwneuthur yn gyfrannog o honynt pan ddelwyf i'm cartref, a phan y caf fyned i mewn yn fuddugoliaethus i breswylfod tragywyddol fy Nhad nefol? Ac os ydyw Duw yn cyfrannu cymmaint i mi sydd bechadur, yma yn y byd, pa faint mwy a rydd efe i mi, pan fyddwyf yn sant wedi fy mherffeithio mewn gogoniant! Os ydwyf wedi derbyn cymmaint, a minnau mor bell oddiwrtho, pa faint mwy a gaf eu derbyn pan ddelwyf i'w ŵydd ac i'w bressenoldeb gogoneddus, a lle y caf sefyll yn dragywydd o flaen ei orseddfaingc!"

§ 7. Cymhara hefyd y cyssuron hynny a dderbyniaist yma oddiwrth yr ordinhadau sydd yn dy ddwylaw â'r llawenydd hwnnw a fwynheir gan y seintiau yn y nef. Onid ydyw'r Bibl wedi bod yn ffynnon agored, allan o ba un y mae cyssuron yn rhedeg ddydd a nos? A pha gyssuron, addas i'th gyflwr, a ddaethant i'th feddyliau, fel y gellit ddywedyd gyda Dafydd, "Oni b'ai fod dy ddeddf yn hyfrydwch i mi, yna darfuasai am danaf yn fy nghystudd!" Meddwl ynte,—os yw ei air mor llawn o gyssuron, pa faint mwy y ffynhonnau dihyspydd hynny ag sydd ynddo ef ei hun! Ac os ydyw ei lythyrau mor ddymunol a hyfryd, pa mor ogoneddus fydd ei bresennoldeb! Os ydyw ei addewidion mor anwyl a chyssurus, pa faint mwy a fydd y cyflawniad o honynt! Os ydyw testament (ewyllys) ein Harglwydd, a *siarter* (ysgrifen-fraint) y deyrnas mor werthfawr a dymunol, pa faint mwy a fydd y cyflawn fwynhad a'r meddiant o honi! Ystyria ymhellach y fath gyssur a hyfrydwch a gefais wrth wrando pregethiad y gair! pan yr oeddwn yn eistedd dan weinidogaeth dysgawdwr duwiol a ffyddlon, llym ac argyhoeddiadol, yn iawn gyfrannu gair y gwirionedd, ac yn ei addasu at bob achos a chyflwr; y modd yr oedd fy nghalon yn cynhesu wrth dderbyn budd, a lleshad, a chyssur i'm henaid! Meddyliais, lawer tro, fy mod megis ynghyntedd y nefoedd. Pa

sawl gwaith yr aethum i'r gynnulleidfa gydag yspryd cystuddiedig, ac y dychwelais yn orfoleddus! Pa sawl gwaith yr aethum i wrando'r gair yn llawn o amheuon, ac y gwelodd yr Arglwydd yn dda fy anfon adref, gan hyderus gydnabod ei gariad yn Nghrist! Y fath gyssur (*cordial*) a chymhorth a gefais i'm bywiogi ymhob ymdrech! Ac os oedd gwyneb Moses mor ddisglaer, (Exod. 34 : 30,) pa faint mwy gogoneddus a fydd gwyneb Duw! Ac os oedd traed y rhai hynny ag oedd yn "efengylu ac yn cyhoeddi heddwch mor weddaidd," (Esay, 52 : 7,) pa faint mwy hyfryd a siriol a fydd gwyneb Tywysog tangnefedd! Ac os yw'r tryssor hwn, mewn llestri priddion, mor werthfawr, pa faint mwy a fydd hwnnw ag sydd ynghadw yn y nefoedd! Gwyn fyd y llygaid sydd yn gweled y pethau a welir yno, a'r clustiau sydd yn clywed y pethau a glywir yno! Yno y caf glywed Elias, Esay, Jeremiah, Ioan, Pedr, a Phaul, nid yn pregethu i'r rhai fu yn gwrthwynebu, mewn carcharau, mewn ymlid, mewn gwaradwydd, ac amharch, ond yn buddugoliaethu ac yn ymorfoleddu, gan glodfori yr hwn a'u dyrchafodd i'r fath anrhydedd a gogoniant. Meddwl hefyd, mor fawr yw'r fraint a'r hyfrydwch o gael nesâu at Dduw mewn gweddi, a chael derbyniad ganddo! fy mod yn cael myned bob amser at Dduw, a lledu fy achos ger ei fron, ac agor fy holl galon o'i flaen, megis i'r cyfaill ffyddlonaf! Ond pa gymmaint mwy fydd fy llawenydd, ac mor annhraethol fy ngorfoledd, pan y caf dderbyn pob bendithion heb eu gofyn, ac y bydd i'm holl angenrheidiau gael eu diwallu, a'm holl drueni a'm gofidiau gael eu symmud ymaith, ac y bydd Duw ei hun yn rhan ac yn etifeddiaeth i'm henaid! Ond am yr ordinhad honno, sef y cymmun neu swpper ein Harglwydd, y fath fraint yw cael fy nerbyn i eistedd wrth ei fwrdd, a chael ei gyfammod wedi ei selio i mi yno! Ond nid yw'r holl ymborth a'r cyssur sydd i'w cael yno, ond i'm sicrhau o'r cyssuron mwy pur a gwerthfawr hynny a gaf eu mwynhau yn y nefoedd! O! pa mor anfeidrol

y rhagoriaeth rhwng swpper diweddaf Crist ar y ddaear a swpper priodas yr Oen yn y dydd mawr hwnnw! Ei ystafell y pryd hynny fydd nefoedd y gogoniant; a'r rhai a fyddant yn gweinyddu iddo, fydd yr holl luoedd o angelion a seintiau gogoneddus! Ni fydd yno yr un Judas, nac un heb y wisg briodas; ond y gwir gredinwyr isel a gostyngedig a gânt eistedd gydag ef, a'u gwledd a fydd cydgaru a chydorfoleddu! Ac ynghylch cymmun y saint, meddwl ynot dy hun fel hyn,—Pa mor fawr yr adeiladaeth a'r hyfrydwch o gydfyw â Christionogion profiadol, duwiol, a gwybodus! ac am y cyfryw y mae Dafydd yn dywedyd, "Yn y rhai y mae fy holl hyfrydwch!" O mor hyfryd y cymmundeb, mor rhagorol y gymdeithas, a gaf eu mwynhau uchod! Pe buaswn yn cael gweled Job ar y dommen, y fath ryfeddol amynedd! ond pa faint mwy fydd fy llawenydd o gael ei gyfarfod mewn gogoniant! Mor hyfryd fuasai clywed Paul a Silas yn canu yn y cyffion! ond gymmaint hyfrytach fydd eu clywed yn canu yn y nefoedd! Y fath beroriaeth hyfryd a soniarus a wnaeth Dafydd ar y delyn! ond pa faint mwy hyfryd fydd clywed peraidd ganiedydd Israel yn y côr nefolaidd! Gymmaint fuaswn yn ei roddi am un awr o hyfryd ymddiddan gyda Phaul, pan oedd newydd ddisgyn o'r drydedd nef! ond ar fyrder caf weled y pethau hynny oll fy hunan, a mwynhau yr hyn oll a welaf! Unwaith yn chwaneg, meddwl am yr hyfrydwch y mae'r duwiolion yn ei gael wrth ganu mawl i Dduw:—Beth pe buaswn yn lle'r bugeiliaid, y rhai a welsant ac a glywsant y llu nefolaidd yn canu, "Gogoniant i Dduw yn yr uchelder, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da! ond myfi a gaf weled a chlywed pethau mwy gogoneddus na'r rhai hyn. Mor ddedwydd y buaswn yn cyfrif fy hun, pe buaswn yn clywed Crist yn diolch i'w Dad! ond pa faint mwy dedwydd a fyddaf pan ei clywaf yn fy ngalw yn fendigedig! Os oedd cymmaint gorfoledd wrth ddwyn yr arch yn ol, neu wrth adeiladu'r deml, pa faint mwy a fydd yn y Jerusa-

lem Newydd! Os rhwygai'r ddaear gan swn y bobl yn canu ac yn llawenychu pan goronwyd Solomon, (1 Bren. 1 : 40,) pa fath floeddio a chanu gorfoleddus fydd pan ymddangoso Brenhin yr eglwys! Os, pan "sicrhawyd sylfeini'r ddaear, y cyd-ganodd ser y boreu, ac y gorfoleddodd holl feibion Duw," (Job, 3 : 87,) pa fath gân orfoleddus a fydd y pryd hynny, pan fydd byd y gogoniant yn cael ei sylfaenu a'i orphen, pan fydd ei maen uchaf yn cael ei osod, a phan fydd y ddinas sanctaidd wedi ei haddurno megis dyweddi, sef gwraig yr Oen!

§ 8. Bydded i ti hefyd gyffelybu neu gystadlu y llawenydd y mae'r seintiau yn ei gael yma ar y ddaear, a'r blaen-brawf o'r gwir hyfrydwch hwnnw ag y maent yn ei gael yma yn y byd, â'r gorfoledd a'r dedwyddwch parhaus a gânt ei fwynhau yn y nefoedd. Pa bryd y datguddiodd Duw yr ychydig lleiaf o hono ei hun i un o'i seintiau, nad oedd llawenydd ei galon yn gyfattebol i'r datguddiad? Yn y fath lesmair (*ecstacy*) o synnedigaeth yr oedd Pedr ar y mynydd, pan weddnewidiwyd yr Iesu! ac y dywedodd wrtho, "O Feistr, da yw i ni fod yma; gwnawn dair pabell, un i ti, un i Moses, ac un i Elias." Luc, 9 : 33. Fel pe buasai yn dywedyd,—Na fydded i ni ddisgyn i lawr oddiyma i fyned i fysg y fintai anfad, erlidgar accw; na ddychwelwn oddiyma i'n cyflwr gwael, helbulus gynt. Onid gwell o lawer i ni fod yma? Onid oes yma gymdeithas well, a llawer mwy hyfryd a difyr? —Yn y fath fodd y tra-dyrchafwyd Paul gan yr hyn a welodd! Fel yr oedd gwyneb Moses yn disgleirio, wedi ei fod yn llefaru â'r Arglwydd yn y mynydd! Yr oedd y rhai hyn oll yn rhyw *ernes*, neu rag-brofiad, o'r gorfoledd, ond nid oeddent ond megis cysgodau o'r gwir a'r hyfryd fwynhad a'r gyflawn weledigaeth a gaf fi a'r holl seintiau eu mwynhau yn nefoedd y gogoniant. Pa cyn amled yr ydym wedi darllen a chlywed am seintiau, ar eu gwely angeu, mor llawn o orfoledd ag a allai eu calonnau gynnwys; a phan fyddai eu cyrph mewn dygn boen a blin-

der, eu heneidiau a fyddent mor llawn o ddiddanwch, a'u hysprydoedd o orfoledd, nes yr oedd eu llawenydd yn rhagori cymmaint ar eu gofid, fel na fyddent yn teimlo oddiwrth eu dioddefiadau! Ac os ydyw marworyn oddi-ar yr allor mor ogoneddus, hyd yn nod mewn môr o helbulon, pa faint mwy a fydd y gogoniant ei hun? O! y gorfoledd a gafodd y merthyron ei brofi yn y fflammau! Cig a gwaed oeddent hwy fel ninnau; a pha mor werthfawr a rhagorol oedd y gras hwnnw ag oedd yn llenwi eu hysprydoedd â llawenydd, pan yr oedd eu cyrph yn llosgi! Meddwl, O ddarllenydd, yn dy fyfyrdodau,—Yn ddiau, rhyw rag-brofiad hynod o'r gogoniant hwnnw oedd yn gwneuthur fflammau'r tân yn ddiniwed, a brenhin y dychryniadau yn ddymunol. Pa mor annhraethol hyfryd gan hynny yw'r gogoniant ei hun! Pa mor fendigedig yw'r orphwysfa honno, pan yr oedd y meddwl am dani'n gwneuthur i Paul ewyllysio ymadael a bod gyda Christ; ac yn tynnu serchiadau'r seintiau yn y cyfryw fodd, fel na fyddent yn barnu eu hunain yn gyflawn happus, hyd oni byddent wedi meirw! A gaiff Saunders gofleidio'r pawl, a gwaeddi, *Croesaw'r groes!* ac oni chaf fi groesawu fy nedwyddwch mewn modd mwy hyfryd, a gwaeddi, *Croesaw'r goron?* A gaiff Bradford* gusanu'r ffagodau, (neu syppiau briwydd,) ac oni chaf fi gusanu'r Iachawdwr? Ac a oedd un ferthyres dlawd arall yn gorfoleddu ei bod wedi cael rhoddi ei thraed yn yr un cyffion, lle yr oedd Mr. Philpot wedi bod o'i blaen hi! ac oni fydd i mi orfoleddu y bydd i'm henaid gael cyd-gyfanneddu mewn gogoniant gyda Christ a'i apostolion, y rhai a'm rhagflaenasant! Ac a oedd tân a ffagodau, carcharau ac alltudiaeth, gwatwar creulon a fflangellau, yn fwy dymunol gan y duwiolion gynt, nag ydyw Crist a gogoniant i mi? *Na atto Duw.*

---

* O barthed y gwyr uchod, gwel Lyfr y Merthyron.

§ 9. Cydgymhara ogoniant yr eglwys yma ar y ddaear â gogoniant teyrnas Crist yn y nefoedd, a chyflwr isel a gostyngedig Crist yn y byd â'i ddyrchafiad gogoneddus yn y nefoedd. Os oedd yr hyn a ddioddefodd Crist yma yn y byd yn lle pechaduriaid mor rhagorol ac anrhydeddus, pa faint mwy gogoneddus yw efe yn ei ddyrchafiad ar ddeheulaw'r Tad! Os ydyw'r eglwys yn ymddangos mor hardd a gogoneddus, pan y mae hi'n ddarostyngedig i bechod, ac ymysg ei gelynion yma yn y byd, pa faint mwy hardd a gogoneddus a fydd hi ymhriodas yr Oen! Mor rhyfeddol yr oedd Mab Duw pan gymmerodd arno agwedd gwas! Canys pan ei ganed, rhaid oedd i seren newydd ymddangos, a thywys y dieithriaid i'w addoli yn y preseb; a rhaid oedd i lu nefolaidd ganu a chlodfori o herwydd ei enedigaeth; a phan yr oedd yn blentyn, yr oedd yn rhaid iddo holi ac atteb y doctoriaid, a dadleu â hwynt; a phan ddechreuodd ei swydd, efe a drodd y dwfr yn win; efe a borthodd filoedd âg ychydig dorthau ac ychydig bysgod; efe a lanhaodd y gwahan-gleifion, efe a iachaodd y cleifion a'r cloffion, a roddodd olwg i'r deillion, ac a gyfododd y meirwon. Pa gymmaint mwy rhagorol gan hynny a fydd ei nefol ogoniant! Os torrasant gangau o'r gwŷdd, ac os taenasant hwynt, ynghyda'u dillad, ar hyd y ffordd, gan waeddi Hosanna, pan oedd efe yn myned i mewn i Jerusalem, gan eistedd ar asyn, pa gymmaint fydd gorfoledd y saint, pan ddaw efe yngogoniant ei Dad, gyda'i angelion sanctaidd? Os bu i'r rhai hynny a'i clywsant ef yn pregethu efengyl y deyrnas, gyfaddef, "Ni lefarodd neb erioed fel y dyn hwn," oni fydd i'r rhai hynny, a welant ei fawrhydi yn y deyrnas, ddywedyd, Nis gwelwyd erioed ogoniant fel y gogoniant hwn? Os syrthiodd ei elynion i lawr pan ddaethant i'w ddal, ac os crynodd y ddaear pan roddodd efe i fynu'r yspryd, ac y rhwygodd llen y deml, y bu diffyg ar yr haul, a thywyllwch ar yr holl ddaear, ac y cyfododd cyrph y saint; ac os cyfaddefodd y rhai oedd yn sefyll yno, "Yn wir,

Mab Duw ydoedd hwn," O! y fath ddydd a fydd hwnw, pan y bydd raid i'r meirw gyfodi o'u beddau, a sefyll ger ei fron; pan y bydd iddo ef "etto unwaith gynhyrfu, nid yn unig y ddaear, ond y nef hefyd;" (Heb. 12:26;) pan fydd i'r haul gael ei gymmeryd o'r ffurfafen, a chael ei orchuddio yn dragywyddol gan dra-rhagorol lewyrch ei ogoniant ef; a phan y bydd i bob tafod ei gyffesu ef yn Arglwydd ac yn Frenhin! Os collodd angeu a'r bedd eu hawdurdod pan gyfododd Crist o feirw, ac os dychrynodd y ceidwaid, ac yr aethant megis dynion meirwon pan dreiglai'r angylion ymaith y maen; ac os aeth rhai a dywedyd hyn i'r disgyblion; ac os esgynodd efe i'r nefoedd yn eu gŵydd hwy; os oedd efe mor rhyfeddol a hyn, pan yr oedd ar y ddaear, pa gymmaint mwy gallu, a goruchafiaeth, a gogoniant, y mae efe yn eu meddiannu yn y nefoedd, a'r rhai y cawn ninnau hefyd y fraint o'u cyd-feddiannu âg ef yn dragywydd! Ac os oedd ychydig bysgodwyr tlodion, a gweithwyr pebyll, ar ol ei ymadawiad oddiwrthynt, yn gwneuthur gwyrthiau yn ei enw, yn iachau'r cloffion, y deillion, y cleifion, a'r anafus, yn agor carcharau, yn gorchfygu y rhai anufudd, yn codi'r meirw, ac yn gwaradwyddo eu gwrthwynebwyr, y fath fyd rhyfeddol a fydd hwnnw, lle y bydd pob un yn gallu gwneyd gweithredoedd mwy na'r rhai hyn! Os oedd y fath awdurdod yn cydfyned â phregethiad yr efengyl, fel ag yr oedd yn egluro bwriadau'r calonnau, yn darostwng y pechadur balch, ac yn gwneyd i'r cyndyn a'r gwargaled grynu; os oedd yn gwneuthur i'r swynwyr losgi eu llyfrau, i eraill werthu eu tiroedd, a dwyn yr arian a'u gosod wrth draed yr apostolion; os oedd pregethiad yr efengyl yn argyhoeddi ac yn troi miloedd, ac yn aflonyddu'r byd, a'r carcharor wrth amddiffyn ei hun yn gwneud i'r barnwr grynu ar y faingc; os oedd gan Grist a'i apostolion y fath awdurdod yma ar y ddaear; ac os oeddent yn y cyfryw anrhydedd yn amser eu darostyngiad, a'r pryd yr oeddent wedi ymostwng i ddioddef a chael eu dianrhydeddu;

pa mor ardderchog fydd yr olwg arnynt! pa mor ddiderfyn eu llywodraeth! pa mor fawr eu dyrchafiad yn eu teyrnas a'u gogoniant!

§ 10. Bydded i ti ystyried hefyd y rhagoriaeth mawr rhwng y cyfnewidiad gogoneddus a fydd arnat yn nydd dy oruchafiaeth yn y nefoedd, â'r cyfnewidiad hwnnw a wnaeth Duw ar dy galon trwy ei ras, a gweithrediad ei Lân Yspryd, yn y byd hwn. Meddwl fod y gronyn lleiaf o wir ras ag sydd ynot o fwy gwerth na golud yr India, a phob dymuniad ac ochenaid am Grist ag sy'n dyfod o'r galon, yn fwy gwerthfawr na theyrnasoedd y byd. Natur newydd, gyfnewidiedig, yw delw Duw wedi ei hailargraphu ar ein calonnau, a Christ yn preswylio ynom, ac Yspryd Duw yn aros o'n mewn! Pelydr o ogoniant ydyw o wyneb Duw, a had Duw yn trigo ynom; a hyn yw harddwch mwyaf yr enaid rhesymmol. Y mae hyn yn dyrchafu dyn yn fwy na phob urddas ac na phob pendefigaeth; yn ei addasu i ddeall ewyllys ei Wneuthurwr, i gyflawni ei orchymynion, ac i gael ei ddyrchafu i ogoniant. Ac os ydyw'r gronyn had mwstard hwn mor werthfawr, pa faint gwerthfawrocach yw Pren y bywyd yn nghanol paradwys Duw! Os ydyw gwreichionen o fywyd, yr hon sydd yn ymdrechu yn erbyn ein llygredigaethau, a'r hon sy'n goleuo allan ychydig ddymuniadau ac ocheneidiau, o gymmaint gwerth, pa faint mwy pur, sanctaidd, a gogoneddus yw Ffynnon y bywyd ei hun! Os crewyd dyn ar ddelw Duw, ac os ydyw efe etto, (wedi i'r ddelw honno gael ei hadnewyddu mewn rhan ar ei enaid,) mewn ystyr, yn tebygu i'w Greawdwr, er ei fod yn cael ei bwyso i lawr gan gorph pechod, pa faint harddach, a gogoneddusach, a thebycach i'r Duwdod a fyddwn, wedi i ni fyned yn gwbl rydd oddiwrth wendidau, ac na fydd ynom ddim pechod! Os yw'r ewyllys i fyned i'r nefoedd, a'r cariad tuag atti, mor rhagorol, pa faint mwy a fydd y lle ei hun! Os ydyw ein llawenydd, yr hwn sy'n rhagweled ac yn credu'r pethau hyn, mor hyfryd a dymunol,

pa faint mwy a fydd y llawenydd o gyflawn fwynhad! Pa mor llawen y mae'r Cristion, pan y mae yn teimlo ei galon yn dechreu toddi a meddalhau ,ac yn ymddattod o'i fewn, wrth feddwl am anniolchgarwch ac anfwyneidd-dra pechadurus dynion! canys y mae'r cyfryw alar yn rhoddi rhyw fath o drist lawenydd. Ond, O! pa faint mwy fydd ein llawenydd, y pryd hynny, pan y cawn wybod, caru, llawenychu, a gorfoleddu, a hynny heb ddim i'n blino nac i'n haflonyddu! Meddwl ynot dy hun,—Y fath gyfnewidiad mawr oedd i mi gael fy nghymmeryd allan o'r cyflwr y ganed fi ynddo, ac ymha un yr oeddwn wedi ymsefydlu trwy hir ymarfer, pan yr oedd miloedd o bechodau yn barod i gyfodi i'm herbyn; a phe buaswn farw yn y cyflwr hwnnw, myfi a fuaswn yn golledig am byth! Y fath ryfeddol gyfnewidiad oedd i mi gael fy nghyfiawnhau oddiwrth yr holl droseddau mawrion hyn, a'm gwared oddiwrth yr holl blâau echryslon hynny, a'm gwneuthur yn etifedd y nefoedd! Pa gyn amled, pan y byddwn yn meddwl am fy adenedigaeth, y gwaeddais allan, O ddydd gwynfydedig! Diolch i'r Arglwydd i mi erioed ei weled! Yn y fath fodd, gan hynny, y bydd i mi waeddi allan yn y nefoedd, O! fendigedig dragywyddoldeb! a bendigedig fyddo Duw, yr hwn a'm dygodd i yno.—A oedd angelion Duw yn gorfoleddu wrth weled fy nhroedigaeth? (canys y mae gorfoledd yn y nef am un pechadur a edifarhao.) Yn ddiau ynte, hwy a lawenychant yn fy iachawdwriaeth, a phan y'm derbynir i mewn i dŷ fy Nhad nefol.—Nid yw gras ond gwreichionen wedi ei chodi o'r lludw, ac wedi ei dilladu â chnawd, o olwg y byd, ac weithiau wedi ei chuddio â llygredigaeth o'm golwg fy hun; ond ni fydd fy nhragywyddol ogoniant hwnnw fel hyn dan gwmmwl, na'm goleuni dan lestr, ond fel dinas ar fryn, sef ar fynydd Seion, mynydd Duw.

§ 11. Unwaith yn chwaneg, cymhara'r llawenydd a gei di fwynhau uchod â'r blaen-ffrwyth a'r blaen-brawf o hono ag y mae'r Yspryd wedi ei roddi i ti yma. Onid egluròdd

Duw ei hun mewn modd rhyfeddol i'th enaid rai troion? ac onid ollyngodd efe ddefnyn o'i ogoniant i syrthio arnat? ac onid oeddit yn barod i ddywedyd, O na byddai fel hyn bob amser ar fy enaid! Oni ddarfu i ti erioed waeddi allan, gyda'r merthyr hwnnw, (ar ol hir a galarus ddisgwyliad,) "Y mae efe wedi dyfod! y mae efe wedi dyfod!" Oni ddarfu i ti erioed, pan yr oeddit dan bregeth ddeffrous am y nefoedd, neu yn dy fyfyrdodau dirgel ynghylch y lle bendigedig hwnnw, deimlo dy ysprydoedd gweiniaid yn adfywio, a'th galon wan yn llonni, fel ag y bu i ti gyfodi dy ben, a goleuni o'r nefoedd yn llewyrchu ar dy enaid? A bydded i ti ystyried ynot dy hun, pa beth yw'r ychydig ernes hyn i'w chyffelybu i'r etifeddiaeth neu'r cyflawn fwynhad! Och! nid ydyw yr holl oleuni yma, ag sy'n peri i mi synnu a gorfoleddu, ond megis canwyll fechan, i'm goleuo tua'r nefoedd trwy dywyllwch y byd hwn. Os cafodd rhai dynion duwiol eu gorchfygu yn y fath fodd gan lawenydd nefol, fel ag y gorfu iddynt waeddi allan, "Aros, Arglwydd, attal dy law; nis gallaf gynnwys chwaneg!" pa gymmaint, gan hynny, a fydd fy llawenydd yn y nefoedd, pan y bydd fy enaid wedi ei addasu i weled ac i fwynhau Duw, a hynny yn y fath fodd, fel pe byddai ei oleuni yn ddeng mil mwy na goleuni yr haul, y gallai fy llygaid edrych arno yn dragywydd! Neu os nad ydwyt etto wedi profi'r cyfryw ragarchwaeth, (o herwydd nid yw pob credadyn yn cael ei phrofi,) yna ymarfer â'r cyfryw gyssuron a hyfrydwch ag a gefaist, a meddwl am danynt, fel y gwybyddot yn well ymha fodd y gelli ddirnad, mewn rhyw fesur, y gwynfyd hwnnw a fydd i ti ei fwynhau ar ol hyn.

§ 12. (II.) Yn awr yr wyf i ddangos ymha fodd y mae i nefol fyfyrdod gael ei hamddffyn rhag calon ddiofal, wibiog, grwydredig. Ein gwaith pennaf, a mwyaf angenrheidiol tuag at hynny, ydyw canfod y perygl yr ydym ynddo, a hynny a'n cyfarwydda at y feddyginiaeth oreu a mwyaf addas. Y galon ei hun a fydd yn achos o'r rhwystr

mwyaf yn y gorchwyl nefolaidd hwn,—naill ai trwy anewyllysgarwch atto,—neu trwy fod yn wammal ac yn an wadal,—neu trwy fod yn crwydro yn aml, ac yn myned ar gyfeiliorn at ryw wrthddrychau eraill,—neu trwy ddiweddu'r gwaith yn ddisymmwth, cyn ei fod ond prin wedi dechreu. Gan hynny, os ydych yn gwybod ac yn gweled gwerth y cyssur sydd i'w gael yn y gwaith, rhaid i chwi wrthsefyll yn ffyddlon y drygau a'r rhwystrau hyn.

§ 13. (1) Tydi a ganfyddi'n fuan fod dy galon mor anewyllysgar i'r gorchwyl hwn ag i un gwaith arall yn y byd. O! y fath esgusodion a wna! y fath ddichellion a ymarfera! y fath oedi a gwrth-ddadlu, hyd yn nod wedi iddi orfod cyfaddef buddioldeb y gwaith! Er hynny hi a fydd yn cymmeryd arni ymofyn ac ymholi, pa un a ydyw hynny yn ddyledswydd arnom ai nad ydyw; neu, os digwydd iddi gyfaddef fod hyn yn ddyledus ar eraill, etto hi a ymgais i'w hesgusodi ei hun. Fe allai y dywed wrthyt, Gwaith ydyw hwn ag sydd yn berthynol i weinidogion yr efyngyl, y rhai nid oes ganddynt ddim arall i'w wneuthur, neu i'r rhai hynny ag sydd ganddynt fwy o amser nag sydd gennyt ti. Ac os gweinidog fyddi, hi a ddywed wrthyt, Dyledswydd y gwrandawyr ydyw hon; digon yw i ti fyfyrio i'r diben i'w dysgu, a'u gwaith hwythau yw myfyrio ar y pethau a glywsant; megis pe byddai hynny yn unig dy ddyledswydd di, sef parottoi a thrin y bwyd, a'i osod ar y bwrdd, a'u gwaith hwythau ei fwytto, ei dreulio, (sef myfyrio arno,) a byw arno. Ac os gwel na fydd hyn yn gwneuthur y tro, neu yn atteb y diben, yna dy galon a fydd yn sicr o'th adgofio am ryw waith arall â mwy o eisiau ei wneuthur, neu hi a'th esyd ynghylch cyflawni rhyw ddyledswydd arall, canys gwell ganddi bob dyledswydd na hon. Fe allai y dywed wrthyt, y mae amryw ddyledswyddau eraill ag sydd fwy pwysfawr na hon; ac o herwydd hynny, rhaid i hon roddi lle i eraill, o achos nad oes gennyt amser digonol at y ddau waith. Gorchwylion cyhoeddus sydd fwy pwysfawr na

hon: astudio a phregethu, i'r diben o achub eneidiau, sydd raid eu dewis a gofalu am danynt, o flaen y myfyrdodau dirgel, neillduol hyn; fel pe na buasai gennyt hamdden i ofalu am dy iachawdwriaeth dy hun, gan dy fawr ofal am eneidiau eraill; neu o herwydd fod dy dosturi tuag at eraill mor fawr, fel ag yr ydwyt yn gorfod esgeuluso dy iachawdwriaeth dragywyddol dy hun. Ond ystyria, nad oes yr un ffordd well i ni fod yn fuddiol i eraill, na thrwy osod siampl dda, a gwneuthur ein hunain y pethau ag yr ydym yn eu pregethu i eraill, ac felly profi gwirionedd ein hathrawiaeth. Canys yn ddiau goleuni'r nefoedd yw'r lle goreu i ni oleuo ein canwyll wrtho; a'r nefoedd (neu bethau nefol) yw'r llyfr goreu i bob dyn duwiol ei astudio. A phe cymmerem ein perswadio i astudio pethau nefol yn amlach, yna y byddai'r eglwys yn debyccach o gael ychwaneg o oleuadau nefol, (sef gweinidogion duwiol.) Canys pan fyddom yn astudio pethau nefol, a'n hysprydoedd yn nefol, yna ein pregethau a fyddant yn nefol, a'r gweinidogion a ellir eu galw yn dduwinyddion yn wir. Neu os na fydd gan dy galon ddim i'w ddywedyd yn erbyn y gwaith, er hynny hi a wna i ti fwrw'r amser heibio mewn oedi a difrawch, a thi a fyddi yn bwriadu heddyw ac y fory, ac etto fyth yn cadw oddiwrth y gwaith. Neu fe allai y rhydd i ti nag a gwrthodiad hollol, gan haeru ei hanewyllysgarwch yn erbyn rheswm. Hyn oll yr ydwyf yn ei ddywedyd am y galon, cyn belled ag y mae hi etto yn *gnawdol;* canys yr ydwyf yn gwybod, am gymmaint o honi ag sydd ysprydol, hi a feddylia am y gwaith hwn, ei fod yn fwy melus a hyfryd nac un peth arall yn y byd.

§ 14. Pa beth gan hynny sydd i ti i'w wneuthur? A wnei di hynny, os dywedaf i ti? Canys oni ddywedit tithau, yn y cyfryw amgylchiad, pa beth a fyddai yn iawn i mi i'w wneuthur â gwas a fyddai yn anewyllysgar i weithio? neu â cheffyl a fyddai yn naccau trafaelio? A gadwaf fi hwynt i ddim arall ond i edrych arnynt? Bydd

ffyddlon, a gwna yr un modd â'th galon; cymhell hi i'r gwaith, ac na chymmer nag; cerydda hi o herwydd ei hanewyllysgarwch a'i hoerfelgarwch, ac arfer dduwiol drais gyda hi. Onid oes gennyt lywodraeth ar dy feddyliau dy hun? Ac onid gwaith a ellych di ei ddewis neu ei adael heibio gan hynny ydyw myfyrdod, gan fod dy feddyliau fel hyn dan lywodraeth dy bwyll a'th synwyr? Diammeu fod Duw wedi rhoddi i ti (gyda'th natur newydd) ryw awdurdod ar dy feddyliau. Neu, a ydwyt ti etto yn gaethwas i'th natur lygredig? Cymmer gan hynny yn llaw yr awdurdod ar dy fwriadau a'th feddyliau. Galw i mewn attat gymhorth a chyfarwyddyd Yspryd Crist, yr hwn ni fydd anewyllysgar i waith mor dda, ac ni naccâ ei gymhorth yn y fath achos cyfiawn, a dywed wrtho, "Arglwydd, yr ydwyt wedi fy nghynnysgaeddu â rheswm i lywodraethu fy meddyliau a'm serchiadau: yr awdurdod a dderbyniais arnynt sydd oddiwrthyt ti; ac yn awr, wele y maent yn naccau ufuddhau i'th awdurdod. Yr ydwyt wedi gorchymmyn i mi eu gosod hwy at y gwaith o nefol fyfyrdod, ond y maent yn gwrthryfela ac yn gyndyn yn naccau cyflawni'r ddyledswydd. Cymhorth fi gan hynny i roddi mewn grym yr awdurdod a roddaist i mi arnynt. O! anfon i lawr dy Yspryd, i'w darostwng i gyflawni dy orchymmyn, a'u cymhell, yn effeithiol, i ufuddhau i'th ewyllys!" Fel hyn y cei weled y bydd i'th galon ymostwng, ai gwrthwynebgarwch gael ei ddarostwng, a'i hanewyllysgarwch ei droi i ymostyngiad ac ufudd-dod llawen.

§ 15. (2) Dy galon a fydd yn debygol hefyd 'th fradychu trwy fod yn adwadal, yn ddiofal, ac yn esgeulus, yn lle bod yn synn-fyfyrio ac yn gofalu am y gwaith. Fe allai, pan fydd gennyt awr o hamddem at fyfyrdod, y bydd yr amser wedi myned heibio cyn i ti fedru cael dy galon mewn hwyl, ac i fod yn ddiwyd a difrifol yn y gwaith. *Gwneuthur*, fel megis *heb wueuthur*, (neu beidio a chyflawni'r ddyledswydd yn iawn,) sy'n gwneuthur cymmaint

o ddrwg a phe buasit heb ei gyflawni, canys fel hyn y mae llawer yn dinystrio eu hunain. O herwydd hynny bydded dy lygad bob amser ar dy galon. Nac edrych ar yr amser a fyddi'n dreulio yn y gwaith gymmaint ag *ymha fodd* y byddi yn ei gyflawni, sef dy fod yn gwneuthur hynny yn y modd mwyaf duwiol a difrifol. Chwi a ellwch wybod oddiwrth ei waith pa un a fu eich gwas yn ddiwyd ai na bu. Gofynnwch i chwi eich hunain, "Pa serchiadau yr ydwyf wedi eu hymarferu? pa faint agosach i'r nefoedd yr ydwyf wedi dyfod? Ac na feddwl, ac na ddywed ynot dy hun, o herwydd fod fy nghalon mor anwadal a gwammal, myfi a'i gadawaf yn llonydd, na ni cheisiaf ganddi ymosod ynghylch y fath waith; canys fel hyn ti a fyddit yn bur debyg o ddileu ymaith bob duwiol ufudd-dod; o herwydd, gan nad ydyw'r calonnau goreu ond wedi eu sancteiddio mewn rhan, hwy a fyddant yn sicr o fod yn wrthnysig, ac felly anufuddhau, cyn belled ag y maent yn gnawdol. Ond yn hytrach ystyria yn dda lygredigaeth dy natur, ac nad ydyw annhueddiadau pechadurus, neu anewyllysgarwch ein calonnau drwg, ddim i'w gosod mewn gwrthwynebiad i orchymynion Duw; canys nid gweddus gwneuthur un pechod yn esgus am y llall. Canys y mae Duw wedi trefnu moddion i annog a bywiogi ein serchiadau mewn duwioldeb a phob gweithred dda. Ac nid oes dim moddion gwell i ennynu a chynnyddu ein cariad tuag at Dduw na'r ddyledswydd nefol hon o hunan-ymresymmu a hunan-ystyriaeth, sef duwiol fyfyrdod. Gan hynny nac ymattal ac nac ymgadw oddiwrth y ddyledswydd, hyd oni byddi'n teimlo cariad yn dy gymhell i'r gwaith, mwy nag y gwnelit aros ymhell oddiwrth y tân hyd oni byddit yn teimlo dy hun yn gynnes neu yn wresog; ond yn hytrach ymafael yn y gwaith â'th holl egni, hyd oni byddo cariad yn ennynu; ac wedi hynny, y cariad hwn a'th gymhell i ddwbl ddiwydrwydd ac i gyflawni'r ddyledswydd hon yn fwy cydwybodol.

§ 16. (3) Dy galon a fydd hefyd yn dueddiol iawn i

fyned ar gyfeiliorn, ac i grwydro oddiwrth y gorchwyl o nefol fyfyrdod at ryw bethau eraill. Hi a fydd megis gwas segur, diog, yn barod bob amser i droi allan o'r ffordd i ymddiddan â phob un fyddo'n myned heibio. Pan na ddylai fod dim ar dy feddyliau, ond y nefoedd yn unig, dy galon fydd yn dueddol iawn i'th ddenu i feddwl am dy alwedigaeth, dy gystuddiau, neu am bob aderyn, neu goeden, neu le, a fyddai yn ei weled. Yr un yw'r feddyginiaeth yn erbyn y gwendid hwn â'r un blaenorol,—ymarfer wyliadwriaeth a thrais duwiol. Ymresymma â'th galon, a dywed fel hyn, "Pa beth! a ddaethum i yma i feddwl am fy ngalwedigaeth, am bethau bydol, am ryw ddynion, neu leoedd, neu newyddion, neu ryw wagedd, neu am ryw beth arall heblaw'r nefoedd? 'Oni elli di wylio un awr?' A ydwyt ti'n ewyllysio cael preswylio yn dragywydd gyda Christ yn y nefoedd, wedi i ti ymadael â'r byd hwn? ac a ydwyt ti'n anewyllysgar i aros un awr gyda Christ mewn myfyrdod? Ai hyn yw dy gariad tuag at dy Brynwr? Ac oni ydwyt yn caru Crist, a'r drigfan lle y byddi yn preswylio yn dragywydd, yn well na hyn?" Os bydd i'r adar ysglyfaethus hynny, sef meddyliau crwydredig, ddifa'r myfyrdodau nefol hyn, y maent felly yn difetha bywyd a llawenydd dy feddyliau; gan hynny dychryna hwynt i ffordd oddiwrth dy aberth, a chadw dy galon yn fanwl at y gwaith.

§ 17. (4) Ffordd arall y bydd dy galon yn debyg i'th dwyllo, a fydd trwy ddiweddu dy fyfyrdodau yn ddisymmwth. A thydi a elli yn hawdd ganfod y tueddiad hwn yn dy galon mewn dyledswyddau eraill. Oni fydd dy galon, mewn gweddi ddirgel, yn dy annog i'w thorri yn fer, ac yn fynych yn dy gymhell i ddiweddu? Felly, yr un modd, mewn nefol fyfyrdod, dy galon a fydd wedi blino ar y gwaith, ac a fynnai attal dy gerddediad nefŏl cyn i ti gael amser i fod yn wresog yn y gwaith. Ond bydded i ti orchymmyn iddi yn gaeth, a'i thynghedu yn enw Duw, i aros, ac na wnelo hi'r cyfryw orchwyl yn anffyddlon, (a

hannerog.) Dywed wrthi, "O galon ynfyd! os bydd i ti, dros ychydig amser, ddeisyfu elusen, a myned o honot ymaith cyn derbyn, oni fyddai dy holl ymbiliau a'th weddiau yn ofer? Ac os bydd i ti sefyll ar y ffordd cyn dyfod i ben dy daith, oni fydd dy waith yn ofer? Yr ydwyt wedi dyfod yma mewn gobaith o gael golwg ar y gogoniant, yr hwn yr wyt yn disgwyl ei etifeddu, ac a fydd i ti sefyll yn ol, wedi dyfod yn agos i ben y mynydd, a dychwelyd cyn cael o honot olwg ar wlad yr addewid? Tydi a ddaethost yma i'r diben o lefaru â Duw; ac a fydd i ti fyned ymaith cyn ei weled? Tydi a ddaethost i ymdrochi yn ffrydiau diddanwch, ac i'r diben hynny tydi a ddiosgaist dy hun o'th feddyliau daearol; ac a fydd i ti ddychwelyd yn ol wedi dyfod i ymyl yr afon? Tydi a ddaethost i yspïo gwlad yr addewid; na ddychwel yn dy ol gan hynny heb un o'r grawn-syppiau i'w dangos i'th frodyr er eu cyssur. Gâd iddynt weled dy fod wedi profi o'r gwin, wrth weled llawenydd dy galon; a'th fod wedi cael dy enneinio âg olew, wrth ganfod hyfrydwch dy wynebpryd; a'th fod wedi profi o'r llaeth a'r mêl, wrth arafwch dy yspryd a melusder dy ymddiddanion. Y tân nefol hwn a fyddai'n debyg o doddi dy galon oer, rewllyd, a'i phuro a'i hysprydoli; ond rhaid iddo gael amser i effeithio arni." Fel hyn bydded i ti ganlyn ar y gwaith hyd oni fyddo rhywbeth wedi ei wneuthur fel y byddo dy rasusau yn ymddangos, a'th serchiadau yn cael eu cyfodi, a'th enaid yn cael ei adfywio a'i ddiddanu â'r hyfrydwch sydd uchod; neu, os nas gelli gyrhaedd y dybenion hyn ar unwaith, bydd fwy diwyd y tro nesaf. *Gwyn ei fyd y gwas hwnnw yr hwn y caiff ei Arglwydd ef, pan ddel, yn gwneuthur felly.*

# PENNOD XVI.

## SIAMPLAU NEU ENGHRAIFFTIAU YN CAEL EU RHODDI YN GYNNORTHWYON TUAG AT GYFLAWNI'R DDYLEDSWYDD O NEFOL FYFYRDOD; A'R HOLL WAITH YN CAEL EI ORPHEN.

§ 1. Ystyriaeth y darllenydd yn cael ei gyffroi tuag at yr esiampl ganlynol o fyfyrdod. § 2. Ardderchawgrwydd yr orphwysfa nefol; § 3. ei hagosrwydd; § 4. mor ddychrynadwy a fydd i bechaduriaid, § 5. a gorfoleddus i'r seintiau; § 6. mor ddrud y pwrcaswyd hi; § 7. y mawr wahaniaeth sydd rhwng yr orphwysfa honno a'r ddaear. § 8. Ymresymmiad ac ymbiliad â'r galon. § 9. Anghrediniaeth yn cael ei deol ymaith. § 10. Yr awdwr yn tosturio wrth fyd difraw ac anystyriol. § 11–13. Yr orphwysfa nefol yn wrthddrych o'n cariad § 14–21. ac o'n gorfoledd. § 22. Galarnad o herwydd anewyllysgarwch ac annhueddrwydd ein calonnau i'r nefol orfoledd hwn. § 24–27. Yr orphwysfa nefol yn wrthddrych ein dymuniad. § 28. Y cyfryw fyfyrdod a hon yn cael ei chymmeradwyo a'i chymhell ar y darllenydd: § 29. Y drwg ganlyniad o'i hesgeuluso; § 30. a'r dedwyddwch o'i chyflawni. § 31. Ac yn diweddu gyda gweddi yr awdwr am lwyddiant y gwaith.

§ 1. Yn awr, ddarllenydd, gwna ymarferiad beunyddiol a chydwybodol o'th rasusau yn y ddyledswydd o fyfyrdod yn gystal a gweddi, yn ol y cyfarwyddiadau rhagflaenol. Cilia o'r neilldu i ryw le dirgel, ar ryw amser a fyddo mwyaf cyfleus; ac wedi rhoddi heibio bob meddyliau bydol, gyda phob difrifwch a pharch, edrych i fynu tua'r nefoedd, a chofia mai yno y mae dy orphwysfa dragywyddol; ac ystyria yr ardderchawgrwydd a'r sicrwydd o honi; a bydded i ti ddyrchafu oddiwrth ffydd at olwg, trwy gymharu gorfoledd y nefoedd â llawenydd y byd hwn. Yna cymmysga saethweddïau â'th hunan-fyfyrdodau; fel wedi dadleu dy achos yn ostyngedig gyda Duw, ac yn ddifrifol gyda'th galon, y byddi wedi ymddadleu dy hun o fod yn delpyn pridd i fod yn fflam; o fod yn bechadur anghofus,

a charwr y byd, i fod yn wresog garwr Duw; o fod yn llwfrddyn ofnus i fod yn Gristion cadarn; mewn gair, nes y byddi wedi ymddadleu dy galon o'r ddaear i'r nefoedd; oddiwrth ymddyddanion bydol, i rodio gyda Duw; ac hyd onid elli osod dy galon i orphwys, megis yn mynwes Crist, trwy ryw gyffelyb fyfyrdod ar dy dragywyddol orphwysfa, a'r hon a osodwyd i lawr yma er dy gymhorth a'th gyfarwyddyd.

§ 2. "Gorphwysfa! Pa mor felus y gair! Y mae yn beroriaeth i'm clustiau! Y mae yn gorwedd megis diod gyssurlawn yn agos i'm calon, i'm hadfywio a'm llonni, ac yn anfon allan oddiyno ryw ysprydoedd ag sydd yn curo trwy holl bibelli fy enaid! Gorphwysfa! nid y fath orphwysfa a'r garreg yr hon sy'n gorphwys ar y ddaear, neu'r un fath ag y bydd y corph hwn yn gorphwys yn y bedd, neu'r fath ag y mae'r byd annuwiol yn ei ddymuno. O orphwysfa fendigedig! lle ni byddir yn 'gorphwys ddydd na nos, gan ddywedyd, Sanct, sanct, sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog!' Lle y cawn orphwys oddiwrth bechod, ond nid oddiwrth addoli; oddiwrth boen a thristwch, ond nid oddiwrth lawenydd! O ddydd bendigedig! pan y caf orphwyso gyda Duw! pan y caf orphwys yn mynwes fy Arglwydd! pan y caf orphwyso, gan adnabod, a charu, a gorfoleddu, a chlodfori! Pan y bydd i'm henaid a'm corph gael eu perffeithio a chydfwynhau, yn y modd mwyaf perffaith, y Duw perffaith! Pan y bydd i Dduw, yr hwn sydd gariad ei hun, fy ngharu yn y modd mwyaf perffaith, a gorphwyso yn ei gariad tuag attaf, megis ag y caf finnau orphwyso yn fy nghariad tuag atto ef, ac y bydd iddo orfoleddu trosof â gorfoledd, ac y byddant yn llawenhau drosof â chanu megis ag y caf finnau orfoleddu ynddo ef!

§ 3. "Pa mor agos yw'r diwrnod tra bendigedig a hyfryd hwnnw! Y mae yn nesâu ar frys. A'r hwn sy'n dyfod a ddaw, ac nid oeda. Er bod fy Arglwydd megis pe byddai yn oedi ei ddyfodiad, eto yn mhen ychydig bach ac

efe a fydd yma. Pa beth yw ychydig gannoedd o flynyddoedd wedi iddynt fyned heibio? Pa mor sicr yr ymddengys ei arwydd! Pa mor ddisymmwth y daw efe a'r warthaf byd difraw, pechadurus, megis ag y daw y fellten o'r dwyrain, ac y tywynna hyd y gorllewin! Yr un modd ag yr aeth efe oddiyma, felly y daw! Meddyliwyf fy mod yn clywed bloedd ei udgorn! Meddyliwyf fy mod yn ei weled yn dyfod ar y cymmylau, gyda'i angelion sanctaidd, mewn gallu a gogoniant mawr!

§ 4. "O bechaduriaid difraw! beth a wnewch chwi yn awr? Pa le yr ymguddiwch? pa beth a'ch cuddia chwi o'i ŵydd? Y mynyddoedd a ddarfuant; y nefoedd a'r ddaear, y rhai a fuant, a aethant ymaith; y tân dinystriol a ddifäodd y cwbl oll ond chwi eich hunain; ac yn awr bydd raid i chwi fod yn gynnyd i'r tân yn dragywydd. O na allech chwithau gael eich difa yr un fath a'r ddaear, ac ymddattod a thoddi ymaith fel y nefoedd! Och nid yw'r dymuniadau hyn ond ofer a diles! Yr Oen ei hun a fuasai yn amddiffynfa i chwi; efe a fuasai yn eich caru, yn eich llywodraethu, ac yn awr yn eich gwaredu; ond ni fynnech y pryd hynny, ac yn awr y mae yn rhy ddiweddar. O! na fydded i ti wrthod yn awr, rhag dy gael y pryd hynny yn gweiddi, *Arglwydd! Arglwydd!* pan y bydd yn rhy hwyr galw am drugaredd. Ofer fydd i ti y pryd hynny edrych o'th amgylch am ymwared: canys ni fydd neb a ddichon dy achub y pryd hynny; ac ni fydd yr un lle diogel i'w gael i ddiangc iddo; ac ni fedr neb dy guddio o ŵydd y Barnwr. O greadur truenus, yr hwn a'th ddygaist dy hun i'r cyfryw gyflwr ofnadwy a pheryglus!

§ 5. "O seintiau gogoneddus a bendigedig, y rhai a gredasoch ac a ufuddhasoch! Dyma ddiwedd eich ffydd a'ch hamynedd. Dyma'r hyn y gweddiasoch ac y disgwyliasoch am dano. A ydyw yn edifar gennych yn awr eich dioddefiadau, a'ch galar, a'ch tristwch, a'ch hunan-ymwadiad, a'ch rhodiad sanctaidd? Pa un ai melus ai chwerw

yw eich dagrau o edifeirwch yn awr? Gwelwch fel y mae'r Barnwr yn gwênu arnoch; y mae ei olygon yn llawn cariad; y mae'r enwau anwyl *Iachawdwr*, *Priod*, *Pen*, yn ysgrifenedig yn ei wyneb disglaer a bendigedig. Gwrandewch, y mae yn eich galw! y mae efe yn gorchymmyn i chwi sefyll yma ar ei law ddehau; nac ofnwch, canys dyna'r lle y mae efe yn gosod ei ddefaid. O farn orfoleddus! "Deuwch, chwi fendigedigion blant fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barottowyd i chwi er seiliad y byd." Y mae efe yn eich derbyn i mewn, y drysau tragywyddol sy'n agored, a'r deyrnas sydd iddo ef, ac am hynny mae yn eiddo chwithau. Wele eich lle chwi ger bron ei orseddfaingc! Y Tad a'ch derbynia megis priodasferch ei Fab, ac a'ch croesawa yno, gan roddi i chwi goron y gogoniant. Er annheilynged ydych, chwi a gewch dderbyn y goron. Dyma arfaeth cadwedigol ras; dyma drefn y cariad tragywyddol. O fendigedig ras! O fendigedig gariad! O fel y bydd cariad a llawenydd yn ymorfoleddu! Ond nis medraf ei adrodd, nis gallaf ei amgyffred!"

§ 6. "Dyma'r gorfoledd a gafwyd trwy dristwch, y goron a ennillwyd wrth ddwyn y groes. Fy Arglwydd a wylodd, fel y byddai i'm dagrau i gael eu sychu ymaith; efe a gollodd ei waed, fel y byddai i mi gael gorfoledd; a phawb a'i gadawsant ef, fel na byddai iddo ef yn awr fy nghadael i; efe a fu farw yr amser hwnnw, fel y byddai i mi yn awr gael byw. O drugaredd rad sydd yn gallu dyrchafu creadur mor annheilwng! Rhad i mi, ond drud i Grist! Rhad ras a'm dewisodd i, pan yr oedd miloedd yn cael eu gadael! Pan fydd fy nghymdeithion mewn pechod yn llosgi yn uffern, rhaid i mi orfoleddu yma mewn gorphwysfa! Ië, caf fwy gyda'r holl seintiau hyn! O gyssurus gyfarfod â'm hen gyfeillion, gyda'r rhai y bum yn gweddio, yn wylo, yn dioddef, ac yn ymddiddan gynt, am y lle a'r diwrnod hwn! Mi a welaf nas gallasai'r bedd eich cadw yn ol! yr un cariad a'ch prynodd a'ch gwaredodd hefyd!

§ 7. "Nid yw hwn yn gyffelyb i'n tai o glai, ein carcharau, ein daearol drigfannu. Nid yw'r *llef gorfoledd* hyn yn debyg i'n hen duchan a'n galar, ein hachwyniadau gynt, ein griddfannu a'n hocheneidiau annioddefus; ac nid yw'r clodfori a'r moliannu periadd a hyfryd hyn, yn debyg i'r gwatwar, a'r difenwad, a'r tyngu, a'r rhegu y byddem yn eu clywed yn aml ar y ddaear. Nid yw'r corph hwn fel ein corph gynt, na'r enaid, na'r bywyd, yr un fath a'r rhai o'r blaen. Yr ydym wedi cyfnewid ein lle a'n cyflwr, ein gwisg a'n meddyliau, ein wynebpryd, ein hiaith a'n cyfeillion. Gynt, y Cristion a fyddai yn wan ac yn cael ei ddiystyru, ond yn awr mor happus a gogoneddus yw un o'r seintiau! Pa le yn awr y mae'r corph hwnnw o bechod, yr hwn a fyddai yn eu gofidio hwy a phawb o'u hamgylch? Pa le yn awr y mae ein hamryw farnau (*opinions*,) yr enwau enllibus, diystyrllyd, pan nas gwyddem yn iawn o ba yspryd yr oeddem, a'n gwŷniau a'n hanwydau drwg wedi eu cyffroi, ein wynebpryd dieithr, ein golygon ffromllyd, ein barn enllibus? Ond yn awr yr ydym oll o'r un farn, o'r un enw, o'r un galon, o'r un annedd o'r un gogoniant. O felus gymmod! dedwydd gyttundeb! Ni ddianrhydeddir yr efengyl mwyach trwy ein hannoethineb ni. Fy enaid, ni fydd achos i ti mwyach gŵyno o herwydd dioddefiadau'r Cristionogion, dinystr yr eglwys, na galaru o herwydd dioddefiadau dy gyfeillion, nac wylo uwchben eu gwelyau marwolaeth na'u beddau. Ac ni fydd achos i ti mwyach ofni cael dy demptio gan Satan, na'r byd, na'r cnawd. Y mae dy holl boen a'th glefyd wedi eu hiachâu, a'th gorph ni'th lwytha mwyach â blinder na gwendidau; mae dy ben a'th galon ddolurus, dy newyn a'th syched, a'th gwsg a'th lafur, i gyd wedi darfod. O! y fath gyfnewidiad rhyfeddol yw hwn, o'r dommen i'r orsedd! oddiwrth bechaduriaid erlidgar i fysg seintiau gorfoleddus! allan o gorph marwol, llygredig, i un sy'n disgleiro fel disgleirdeb y ffurfafen! allan o gyflwr o ymdeimlad o ddigofaint Duw i'r perffaith fwynhad o

hono mewn cariad! allan o'm holl ofnau ac amheuon, i'r mwynhad yma sydd yn fy ngosod allan o afael amheuaeth! oddiwrth fy holl ofnau o farwolaeth i'r bywyd gorfoleddus hwn! O hyfryd gyfnewidiad! Yn iach bellach i bob tristwch a phechod dros byth; cefais gwbl ymadawiad oddiwrth galon galed, falch, anghrediniol; oddiwrth fy nghalon fydol, anianol, gnawdol; a chroesaw bellach fy natur nefol a sanctaidd. Yn iach i edifeirwch, ffydd, a gobaith; a chroesaw gariad, gorfoledd, a chlodfori. Bellach caf y cynhauaf heb na hau nac aredig; caf lawenydd heb na phregethwr nac addewid; a'r cwbl oddiwrth wynebpryd Duw ei hun. Pa beth bynnag yw'r cymmysgedd sydd yn y ffrydiau, nid oes dim yn y ffynnon. Yma y mae tragywyddoldeb yn fy amgylchynu, ac yma y caf fyw a chlodfori Duw yn oes oesedd! Yma ni fydd crychni yn fy wyneb na'm gwallt yn gwynnu, canys gwisgir y "llygredig hwn âg anllygredigaeth, a'r marwol hwn âg anfarwoldeb; ac angeu a lyngcir mewn buddugoliaeth! O angeu, pa le (yn awr) y mae dy golyn? O fedd, pa le y mae dy fuddugoliaeth?" Nid rhaid i mi bellach aflonyddu fy hun rhag dyfod terfyn i'm gwynfyd, ac nid rhaid i mi ddychrynu fy hun rhag ofn angeu, na lleihau fy ngorfoledd gan ofn ei golli. Canys wedi yr êl heibio fyrdd myrddiwn o oesoedd, ni fydd fy ngwynfyd a'm llawenydd ond dechreu. Y mae pob dydd (yma) fel canol dydd, a phob mis fel canol haf, pob blwyddyn yn jubili, pob oed megis canol oed, a'r cyfan hyn sydd un tragywyddoldeb. O hyfryd dragywyddoldeb! gorfoledd fy ngorfoledd! perffeithrwydd fy mherffeithrwydd!

§ 8. "O galon drymllyd, gysglyd, ddaearol! mor oeraidd yr ydwyt yn meddwl am y dydd hyfryd hwnnw! Ai dewisach gennyt eistedd i lawr mewn budreddi na rhodio ym mhalas Duw? A ydwyt ti yn awr yn meddwl am dy orchwylion beunyddiol, am dy chwantau cnawdol, dy bleserau daearol, a'th gwympeini difyr? A ydyw yn well bod yma na bod uchod gyda Duw? A ydyw'r cwmpeini

yn well, a'r pleserau yn fwy? Tyred ymaith; nac oeda, ac na wna esgusodion ofer; y mae Duw yn gorchymmyn i ti; ac yr ydwyf finnau yn deisyfu arnat; gwregysa dy lwynau; esgyn i'r mynydd; edrych o'th amgylch gyda ffydd a difrifwch. Nac edrych yn ol tua ffordd yr anialwch, oni fydd hynny yn unig i gymharu'r diffeithwch erchyll hwnnw â gwynfyd y nefoedd, er cael gweled cymmaint y mae'r naill yn rhagori ar y llall. Wele accw ogoniant dy Dad! I'r trigfannau gogoneddus uchod, (O fy enaid!) y cei di dy ddwyn, wedi ymadael o honot â'r corph llygredig hwn; a phan fydd iddo gael ei gyfodi drachefn trwy allu dy Arglwydd, a thithau gael dy uno âg ef, yna y cei breswylio accw gyda Duw i bob tragywyddoldeb. Yno y mae'r Jerusalem newydd ogoneddus, y pyrth o berl, a'r sylfaeni perl ydynt, a'r heolydd a'r palmant o aur pur. Yr haul sydd yn goleuo'r byd hwn nid yw yn angenrheidiol yno; ïe, tydi dy hun a fyddi mor ddisglaer a goleuni'r haul; Duw a fydd yn lle haul, a Christ yn oleuni, ac yn ei oleuni ef y cei dithau oleuni.

§ 9. "Oh fy enaid! a ydwyt yn ammeu addewid Duw drwy dy anghrediniaeth? Yr ydwyf yn mawr ofni dy fod. Canys pe buasit yn credu mewn gwirionedd, yn ddiau fe fuasai'r effeithiau yn ymddangos yn dy fywyd. Onid yw yr addewid trwy lŵ, ac megis o dan law a sel y digelwyddog Dduw? Ac o ddichon Efe, yr hwn yw'r gwirionedd ei hun, dy siommi? 'Canys nid dyn yw Duw, i ddywedyd celwydd; na mab dyn, i edifarhau: a ddywedodd efe, ac onis cyflawna? a lefarodd efe, ac oni chywira?' Num. 23 : 19. Pa achos sydd iddo dy dwyllo, neu wen ieithio i ti? Pa angenrheidrwydd sydd iddo addaw mwy nag y mae yn bwriadu ei gyflawni? Na feddwl osod hyn yn erbyn y Duw doeth, ffyddlon, a Hollalluog. Pa sawl un o'r addewidion a gyflawnwyd yn dy droedigaeth? A fuasai efe yn caniattau i air twyllodrus gael ei gyflawni, neu gael y fath effaith? O galon druenus o anghrediniaeth! A roddodd efe i ti addewid o orphwysfa, ac a gei di fod

yn ol o honi? Mwy tebygol o lawer i dy lygaid, dy glustiau, a'th holl synwyrau dy siommi a'th dwyllo, nag i un o addewidion Duw fod heb ei chyflawni. Siccrach i ti o lawer yr hyn sydd ysgrifenedig yngair Duw, na'r hyn yr ydwyt yn ei weled â'th lygaid, neu yn ei deimlo â'th ddwylaw. A ydwyt yn sicr dy fod yn fyw, neu mai daear yw'r hon yr ydwyt yn sefyll arni, neu fod dy lygaid yn gweled yr haul? Mor sicr a hynny fod gogoniant eto yn ol i blant Duw; ac mor sicr y byddaf yn uwch na'r ser uchod, ac y byddaf byw yn dragywydd yn y ddinas sanctaidd, ac y caf seinio clod fy Ngwaredwr gyda llef gorfoledd; os na fydd i mi gael fy nghau allan gan y galon ddrwg hon o anghrediniaeth, yn gwneuthur i mi ymado oddiwrth y Duw byw.

§ 10. "Ac a ydyw yr orphwysfa hon mor felus ac mor sicr? Gan hynny pa beth y mae'r byd difraw yn ei feddwl? A wyddant hwy pa beth y maent yn ei esgeuluso? A glywsant hwy erioed am yr orphwysfa honno, neu a ydynt hwy yn cysgu neu yn feirw? A wyddant hwy yn sicr fod coron o'u blaen, tra y maent hwy naill ai yn eistedd yn llonydd neu yn canlyn gwagedd? Yn ddiau allan o'u synwyr y maent, pan y maent yn gofalu cymmaint ynghylch eu cynhaliaeth ar y ffordd, pan y maent yn prysuro mor gyflym tua byd arall, a'u hiachawdwriaeth dragywyddol mewn cymmaint enbydrwydd. Pe byddai un wreichionen o synnwyr neu reswm ynddynt, ni werthent eu gorphwysfa am boen a llafur, na'u gogoniant am wagedd y byd, ac ni ddewisent bleserau pechadurus a darfodedig yn lle'r nefoedd. O ddynion anghall! na wnaech unwaith ystyried pa gymmaint yr ydych yn ei beryglu, ac yna chwi a ddiystyrech y cyfryw hudoliaethau gwael a thwyllodrus! Bendigedig yn dragywyddol a fyddo'r cariad a'm gwaredodd i allan o'r fath dywyllwch dinystriol a thwyllodrus!

§ 11. "Nesâ yma, O fy enaid! gyda'th gariad mwyaf gwresog. Dyma wrthddrych yn haeddu dy serch! dyma

beth a dâl ei garu! O gwel y fath harddwch sydd yn ymddangos ynddo! Onid ydyw glendid yr holl fyd wedi ei gasglu ynghyd a chyfarfod yn hwn? Onid anferthwch a gwrthuni ydyw pob prydferthwch arall? A ydyw etto yn angenrheidiol dy gymhell i'w garu? Dyma wledd i'th lygaid, ac i holl alluoedd dy enaid; a ydyw yn angenrheidiol dymuno arnat ymborthi arni? A elli di garu ychydig o bridd disglaer, (aur neu arian, &c.) neu lwch neu glai yn cerdded, (sef mab neu ferch?) ac oni elli di garu y Duw hwnnw, yr Eneiniog hwnnw, (Iesu Grist,) neu y gogoniant hwnnw sydd mor dra dymunol a hyfryd! Tydi a elli garu dy gyfaill, o herwydd ei fod ef yn dy garu di; ac a ydyw cariad y cyfaill goreu yn gyffelyb i gariad Crist? Nis gall na galar na dagrau dy gyfeillion ysgafnhau dy ddolur, (pan fyddi mewn clefyd,) na sychu ymaith dy ddagrau, ond y mae'r fath rinwedd yngwaed Crist fel y dichon dy lanhau oddiwrth bob pechod. O fy enaid! os ydyw cariad yn gofyn cariad yn daledigaeth, pa fath gariad anfeidrol oedd cariad Crist! Dyma le i ti dywallt dy holl gariad allan, a'th holl serchiadau; ond ni fydd y cwbl oll ddim yn ddigon. Yna y byddit yn barod i ddywedyd, 'O na fedrwn garu yn fwy, ïe, miloedd o weithiau yn fwy nag ydwyf.' Cofia mai'r hwn a'th garodd di'n gyntaf sydd yn gofyn i ti ei garu o flaen pawb, ac yn fwy na neb arall. Gâd iddo ef, gan hynny, gael dy gyntaf-anedig, sef cynnyrch dy enaid; canys yr oedd ei gariad ef tuag attat ti mor fawr, fel y rhoddodd efe ei fywyd i lawr yn ewyllysgar er dy fwyn di. O fy enaid! a wyt ti yn caru rhagoroldeb, sef ardderchawgrwydd a gogoniant Wele accw (uwchben) y mae gwlad goleuni, ond yma y mae trigfannau tywyllwch. Y ser sydd megis yn gwreichioni uchod, a'r lleuad sydd yn goleuo'r nos, a'r haul disglaer, tanbaid, llugyrn (neu lanterni) ydynt yn ymddangos allan o dŷ ein Tad nefol, i'th oleuo tra yr ydwyt ar dy daith trwy'r byd tywyll hwn; ond pa mor ychydig a wyddost am y gogoniant a'r dedwyddwch sydd oddimewn! A elli di garu

un a fyddo cyfaddas i ti? Pwy sydd mor gyfaddas a Christ? Ystyria ei Dduwdod a'i ddyndod; ei gyflawnder hollddigonol, ac etto i'w gael mor rhad; ei ewyllysgarwch, y mae yn hoffi trugarhau! y mae efe yn anghyfnewidiol, yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd! Pa gyfaill a ddichon gyflawni dy ddiffygiadau, a rhoddi i ti bob peth ag sy'n angenrheidiol arnat, ond Crist Iesu yn unig? Pa beth sydd mor angenrheidiol i ddyn truenus a thrugaredd? beth sydd well i bechadur aflan na chael ei buro a'i sancteiddio, ac yna ei ddyrchafu i'r gogoniant? pa le sydd fwy hyfryd a dymunol na'r nefoedd? A ddichon y byd hwn roddi i ti bob peth yr ydwyt yn ei ddymuno? A ddichon y gwir Gristion garu teganau'r byd hwn, neu ymhyfrydu ynddynt? O fy enaid! oni chefaist ddigon o brofiad ar bethau'r byd? Onid gwagedd yw'r cwbl oll? Neu a wyt ti yn ewyllysio caru o herwydd *perthynas?* Pa le y mae dy berthynasau agosaf? a pha le y mae dy holl gyfeillion duwiol ond yn y gogoniant? a pha le y mae dy dryssor ond yn y nefoedd?

§ 12. "A ydwyt ti'n caru o herwydd perthynas a chydnabyddiaeth? Er nas gwelaist erioed yr Arglwydd Iesu â llygaid dy gorph, etto ti a glywaist ei lais, ti a dderbyniaist ei roddion, ac a fuost byw yn ei fynwes; efe a'th ddysgodd i'th adnabod dy hun, a'i adnabod yntau hefyd; efe a agorodd dy lygaid gyntaf i edrych tua'r nefoedd. A anghofiaist ti mor fuan a hyn, fel yr oeddit yn cysgu mewn anystyriaeth pan ddaeth efe i'th ddeffroi; ac mor galed oedd dy galon, ac efe a'i meddalhaodd; mor gyndyn a gwargaled yr oeddit, ac efe a'th wnaeth yn ufudd yn nydd ei nerth; fel yr oeddit yn byw mewn anystyriaeth a heddwch twyllodrus, ac efe a'th wnaeth yn ofidus, ac yn ofalus ynghylch iachawdwriaeth dy enaid; fel yr oedd dy galon yn iach, ac efe a'th archollodd, ac a'th iachaodd drachefn? A anghofiaist ti yr amseroedd pan y'th gafodd mewn dagrau; pan y clywodd dy ddirgel riddfannau a'th ucheneidiau, ac y daeth i'th gyssuro? pan y cymmerodd efe di,

megis yn ei freichiau, ac y gofynodd i ti, 'Enaid truan, beth sy'n dy flino? A ydwyt *ti* yn wylo, a *minnau* wedi wylo cymmaint? Cymmer gyssur, dy friwiau a'th archollion nid ydynt farwol, ond er iachawdwriaeth dy enaid; myfi yr hwn a'th glwyfais a'th iachâf drachefn.'Ië, yn ddiau, yr ydwyf yn cofio ei lais: mor dirion, mor dosturiol, y cymmerodd efe fi yn ei freichiau! ac y rhwymodd fy archollion! Meddyliwyf fy mod yn ei glywed etto yn dywedyd wrthyf, 'O bechadur tlawd! er dy fod wedi ymddwyn yn anniolchgar tuag ataf, ac yn ewyllysio fy mwrw i ymaith, eto nis gwnaf fi felly â thi. Ac er dy fod wedi fy niystyru, a dirmygu fy holl drugareddau, er hynny byddaf fi a hwythau oll yn eiddot ti. Pa beth yr ydwyt yn ei ewyllysio, ag a fedraf fi ei roddi? a pha beth sy'n eisiau arnat, nas *gallaf* ei roddi? Ac os oes rhywbeth ag sydd gennyf fi a ddichon wneuthur llesâd i ti, tydi a'i cai. A ydwyt yn dymuno cael maddeuant? Yr ydwyf yn ewyllysio maddeu i ti yr holl ddyled. A fynnit ti gael gras a thangnefedd? Rhoddaf i ti bob un o'r ddau. A ewyllysit fy nghael i fy *hun?* Wele yr ydwyf yn eiddot ti, dy Gyfaill, dy Arglwydd, dy Frawd, dy Briod, dy Ben. Trwof fi y mae i ti ddyfod at y Tad; myfi a'th ddygaf di atto ef, a thi a'i cai ef yn a thrwof fi.' Y cyfryw a hyn oedd ymadroddion cyssurus fy Arglwydd. Ac wedi'r cwbl, pan yr oeddwn yn ammeu ei gariad, tybiwyf fy mod etto yn cofio ei resymmau anwrthwynebol: 'A ddarfu i mi, O bechadur! wneuthur cymmaint i dystiolaethu a dangos fy nghariad tuag attat, ac er hynny a ydwyt ti yn ammeu? A fum *i* mor hir yn cynnyg fy hun a'm cariad i ti, ac a ydwyt ti etto yn ammeu fy ewyllysgarwch i fod yn eiddot ti? Ymha ffordd arall mwy pryd a chostus y gallaf ddywedyd neu ddangos i ti fy mod yn dy garu? Onid oedd fy nirfawr ing, a'm chwys gwaedlyd, a'm dioddefaint ar y groes, yn arwyddion a phrawf digonol o'm cariad? A wnaethum i fy hun yn yr efengyl yn llew i'th elynion, ac yn oen i ti, ac a ydwyt ti yn edrych heibio neu yn ang-

hofio fy naturiaeth honno o addfwynder tuag attat? Pe buaswn yn ewyllysio i ti fod yn golledig, pa angenrheidrwydd a fuasai i mi wneuthur a dioddef cymmaint? Pa achos oedd i mi dy ganlyn â thaerni ac amynedd? Paham yr adroddi dy angenrheidiau o'm blaen? Onid oes genyf gyflawnder a digonedd o bob peth, digon i ti a minnau? Neu paham y soni am anheilyngdod? canys pe buasit ti yn *deilwng*, ni fuasai arnat eisiau fy nheilyngdod i. A wahoddais neu a achubais i erioed y rhai *teilwng* a'r rhai *cyfiawn?* Neu a *oes* y cyfryw rai ar y ddaear? A ydwyt ti heb feddu dim? A ydwyt ti yn golledig, neu yn druenus, ac yn ddigymhorth, ac yn ddiymgeledd? A ydwyt ti yn credu fy mod i yn Iachawdwr hollddigonol? ac a ydwyt ti yn ewyllysio fy nghael? Wele eiddo ti ydwyf; cymmer fi os ydwyt yn ewyllysio; yr ydwyf fi'n foddlon; ac ni chaiff na phechod na Satan dori'r cyttundeb.' Y rhai hyn (neu'r cyfryw a'r rhai hyn) a lefarodd ei Yspryd wrthyf o'r efengyl, hyd onis gwnaeth i mi daflu fy hun wrth ei draed a gwaeddi allan, 'Fy Iachawdwr a'm Harglwydd, tydi a ddrylliaist, tydi a iachëaist fy nghalon; tydi a orchfygaist, tydi a ennillaist fy nghalon; cymmer hi, eiddo ti ydyw; os dichon y cyfryw galon ryngu dy fodd, neu fod yn dderbyniol, cymmer hi fel ag y mae, a gwna hi yn gyfryw ag yr ewyllysit ei bod.' Fel hyn, O fy enaid! y gelli gofio'r gymdeithas felus a fu rhyngot a Christ; ac os ydyw cyfeillgarwch yn cynnyddu serch a chariad, yna gosod dy holl galon arno ef. Efe a safodd wrth dy wely, pan yr oeddit mewn afiechyd; efe a esmwythâodd dy boenau, a'th adfywiodd o'th flinder, ac a gymmerodd ymaith dy ofnau. Yr oedd efe bob amser yn barod, pan y ceisit ef â'th holl galon; efe a'th wrandawodd, ac a ddaeth i'th gynnorthwyo, yn ddirgel ac yn gyhoeddus; efe a gafwyd gennyt yn y gynnulleidfa, yn dy dŷ, ac yn dy ystafell; yn y maes, ac yngwyliadwriaethau'r nos; mewn peryglon, ac yn dy amgylchiadau cyfyngaf.

§ 13. "Ac os ydyw haelioni a thosturi yn maethu cariad

ac yn tynnu serch, nis gellir amgyffred pa gymmaint yr ydwyf fi yn rhwymedig o'i garu! Y mae'r trugareddau mawrion hynny, ag oedd yn fy nghanlyn trwy fy holl fywyd, a'r holl leoedd y bum yn byw ynddynt, yr holl gymdeithasau y bum ynddynt, a'r bobl y bum yn gydnabyddus â hwynt, fy holl orchwylion a'm perthynasau, pob sefyllfa y bum ynddi, a phob cyfnewidiad yr aethum trwyddynt, oll yn cyhoeddi haelioni yr Arglwydd, ac yn tystiolaethu mai efe yw Ffynnon pob trugaredd. O Arlgwydd, y fath swm o gariad sydd arnaf i ti! Y mae fy nyled (yn yr ystyr yma) yn fwy nag y medraf byth ei dalu! Ac y mae fy nyled yn chwanegu o hyd! Pa fodd y gallaf fi garu digon arno ef, yr hwn a'm carodd i mor fawr? Ond pa beth a ddywedaf, a fyddaf fi mor annoeth a meddwl gwneuthur i fynu iddo ef, neu dalu yn ol, ei holl gariad tuag attaf fi? A ddichon fy hatling i fod yn ddigon o daledigaeth am y mwngloddiau o aur pur a gyfrennaist ti i mi? neu fy nymuniadau, neu fy niolchgarwch egwan i, am dy haelioni parhaus a diderfyn? yr ychydig a allaf fi, ac nid yw eiddo fi chwaith, am dy ddaioni a'th haelioni anfeidrol, a'r cwbl yn eiddot ti? A feiddiaf fi ymgystadlu â thi mewn cariad, neu osod fy ngwreichionen fenthyciol, wàn, yn erbyn yr haul o gariad? A allaf fi garu mòr uchel, mòr ddwfn, mòr llydan, mòr hir, a Chariad ei hun? gymmaint a'r hwn a'm gwnaeth, ac a wnaeth i mi garu, ac a roddes i mi yr oll sydd gennyf? Gan nas gallaf ymgystadlu â thi mewn gweithredoedd nerthol, na chreu, na chynnal, na rhëoli y bydoedd; dim mwy na hynny y gallaf ymgystadlu â thi mewn cariad. Na allaf, Arglwydd, yr wyf yn gildio; yr wyf wedi fy ngorchfygu! O oruchafiaeth fendigedig! dos ymlaen yn llwyddiannus, a gorchfyga, ac ymorfoledda yn dy gariad. A chaethglud dy gariad a gyhoedda dy fuddugoliaeth: pan fyddi yn fy arwain yn fuddugoliaethus, o'r ddaear i'r nefoedd, o farwolaeth i fywyd, o'r carchar a'r frawdle i'r orsedd, myfi, a phawb a'th welant, a gyfaddefwn dy fod wedi llwyddo; a phawb a ddy-

wedant y pryd hynny, *Gwelwch fel ag yr oedd yn ei garu!* Etto gâd i mi garu mewn ufudd-dod i'th gariad di, megis un a waredaist o'r gaethglud, ond nid megis dy gymhar. Ai ni chaf fi garu dim, o herwydd nas gallaf garu yn gyf-attebol i'th fesur di? O nas gallwn ddywedyd yn brof-iadol, 'Yr ydwyf yn dy garu, fel ag yr ydwyf yn caru un o'm cyfeillion, neu gymmaint ag yr ydwyf yn fy ngharu fy hun! Er nas gallaf ddywedyd fel yr apostol, '*Ti a wyddost fy mod yn dy garu*,' er hynny gallaf ddywed-yd, 'Ti a wyddost, Arglwydd, fy mod yn *ewyllysio* dy garu.' Ac yr ydwyf yn edliw i'm calon, am nad ydyw yn dy garu yn fwy; yr ydwyf yn ei cheryddu, ac er hynny ni fydd yn gwellhau. Myfi a fyddaf yn ymresymmu â hi, ac a ewyllysiwn ei pherswadio hi; ac er hynny ni fyddaf yn ei theimlo hi yn symmud; myfi a fyddaf yn ei deffroi a'i chynhyrfu trwy fyned i'r ordinhadau ac arfer moddion eraill, ond ni fyddaf yn ei theimlo yn cynesu ond pur ych-ydig. O galon anheilwng! onid ydyw dy lygad, yn awr, ar yr unig wrthddrych hawddgar? Onid ydwyt yn canfod tra-ardderchog ogoniant y saint? Ac oni fedri garu? Onid ydwyt yn enaid rhesymmol; ac oni ddylai dy reswm ddywedyd wrthyt, nad ydyw'r ddaear ond megis pydew neu garchar i'w chyffelybu â'r nefol ogoniant? O fy en-aid! onid yspryd ydwyt; ac oni ddylit garu Duw yr hwn sydd Yspryd a Thad yr ysprydoedd? Paham yr ydwyt yn caru'r corph priddlyd hwn cyn gymmaint, ac yn caru y nefol ogoniant cyn lleied? Ac oni fydd i ti garu pan ddeui di yno? Pan y bydd i'r Arglwydd gymmeryd dy gorph marwol allan o'r bedd, a gwneuthur i ti lewyrchu fel yr haul yn oes oesoedd, a fyddi di yn caru y pryd hyn-ny ai ni fyddi? Onid hwnnw yw'r lle y bydd y rhai sydd yn caru yn cyfarfod ynghyd? Onid bywyd o gariad fydd y bywyd hwnnw? Onid dydd mawr priodas yr Oen fydd y dydd hwnnw? Onid y gwaith yno a fydd caru? a lle bydd yr eneidiau ag sydd gyda Christ yn cael eu llenwi a'u digoni â chariad? O fy enaid! gan hynny dechreu yma.

Bydd yn glaf o gariad yma, fel y byddot yn iach i garu yno. Gweddia am gael dy gadw yma yngkariad Duw, ac na byddo i fywyd, nac angeu, na dim arall, dy wahanu oddiwrtho, a thi a gai dy gadw ynghyflawnder cariad yn dragywydd, ac ni chaiff dim chwerwi na lleihau dy hyfrydwch; canys yr Arglwydd a barottodd ddinas o gariad, a lle i gyfrannu cariad i'w etholedigion, a'r rhai a garant ei enw a drigant yno.

§ 14. "Deffro, gan hynny, O enaid cysglyd!. canys afresymol iawn yw i ti gysgu dan oleuni gras; a pha faint mwy, pan y mae goleuni'r gogoniant hwnnw yn agosâu! Tyred allan, O fy yspryd trwm a rhewllyd! dy Arglwydd sydd yn peri i ti 'lawenhau, *ac etto llawenhewch.'* Yr ydwyt wedi bod yn gorwedd ddigon o hyd yn dy garchar cnawdol, lle y mae Satan wedi bod yn geidwad y carchar; gofalon oeddent y gefynnau a'r cadwyni, ac ofnau y fferwyllau, a'th luniaeth oedd bara ing a dwfr cystudd; dy letty oedd ynghanol gofidiau; a'th bechodau, a'th elynion, yn gwneuthur dy wely; a'th galon ddrwg o anghrediniaeth oedd y pyrth heiyrn, a'r cloiau, a'r barrau, y rhai oeddynt yn dy gadw i mewn: ac yn awr y mae Angel y cyfammod yn gorchymmyn i ti gyfodi a'i ganlyn ef. Cyfod i fynu, O fy enaid! ac ufuddha iddo yn llawen, a'th gadwyni a syrthiant oddiam danat, a phyrth dy garchar a ymagorant; a chanlyn yr Oen pa le bynnag yr elo. A oes i ti achos i ofni canlyn y fath Arweinydd? A ddichon yr haul dy dywys i dywyllwch? A ddichon yr hwn a fu farw yn dy le, i'th achub rhag angeu, dy dywys i farwolaeth? Canlyn ef, ac efe a ddengys i ti baradwys Duw; efe a'th ddwg i'r Jerusalem newydd, a thi a gei brofi o bren y bywyd. Tyred allan, O fy enaid galarus! a dyro heibio dy wisg auafaidd, a gad i bawb wybod fod y gwanwyn wedi dyfod, wrth ganfod gwisgoedd llawenydd a moliant am danat; ac megis ag yr ydwyt yn awr yn gweled dy gyssuron yn *leision*, ti a'u canfyddi, ar fryder, yn *wynion*, ac yn aeddfed i'r cynhauaf; a'r pryd hynny, tydi a gei dy

alw i fedi, ac i gasglu, ac i gymmeryd meddiant. A ydyw yn angenrheidiol i mi aros, ac oedi fy llawenydd hyd y pryd hynny? Onid iawn i lawenydd y gwanwyn ragflaenu llawenydd y cynhauaf? Ac onid yw hawl o ryw werth i'r diben o gael meddiant? Ai nid yw'r etifedd ddim gwell nâ chaethwas? Y mae fy Arglwydd wedi gorchymmyn i mi lawenhau mewn gobaith o'r gogoniant, ac wedi dysgu i mi pa fodd i'w weled trwy ffenestri a barrau'r carchar. Canys pan y'm herlidir o achos cyfiawnder, y mae efe wedi gorchymmyn i mi lawenhau a gorfoleddu, o herwydd y byddai fy ngwobr yn y nef yn fawr. Myfi a wn yr ewyllysiai i'm llawenydd fod yn fwy na'm tristwch; ac er cymmaint y mae efe yn ymhyfrydu yn y gostyngedig a'r drylliedig o galon, etto y mae efe yn ymhyfrydu mwy yn y sawl sy'n ymhyfrydu ynddo ef. A ydyw fy Arglwydd wedi arlwyo i mi fwrdd yn yr anialwch, ac wedi rhoddi i mi addewidion o dragywyddol ogoniant, ac wedi gosod o'm blaen fara angelion? Ac a ydyw efe wedi fy ngwahodd mor daer ac mor aml i eistedd wrth ei fwrdd, a bwytta ac yfed heb arbed? Ac a ydyw efe, i'r diben hynny, wedi fy nghynnysgaeddu â rheswm ac a ffydd, ac â thymher lawen a diolchgar? Ac a ydyw yn debygol nad yw yn ewyllysio i mi lawenhau? Onid ei orchymmyn ydyw i ti orfoleddu yn yr Arglwydd, ac y rhydd i ti ddymuniad dy galon? Onid oes cynghor i ti *fod yn wastad yn llawen*, ïe, i *ganu* a *chrechwenu* o lawenydd, a bloeddio a chroch-lefain? Zeph. 3 : 14; Esay, 12 : 6. Paham, gan hynny, y byddaf ofnus, ac y'm digalonnir? Y mae fy Nuw yn barod i'm derbyn pe byddwn ewyllysgar i ddyfod atto. Y mae efe yn ymhyfrydu yn fy hyfrydwch. Efe a ewyllysiai fy mod yn wastad mewn hwyl, a bod hynny yn waith beunyddiol gennyf, saf nesâu atto mewn myfyrdodau crediniol, a'm bod yn byw yn y meddyliau mwyaf melus am ei ddaioni. O waith hyfryd a bendigedig, addas i feibion Duw! Ond, O fy Arglwydd! nid yw'r wledd o ddim llesâd i mi, heb ewyllys ac heb ddymuniad. Yr yd-

wyt wedi gosod danteithion y nefoedd o'm blaen, ond Och! yr ydwyf yn ddall, ac nid ydwyf yn gweled eu gwerth; yr ydwyf yn glaf, ac nid allaf eu harchwaethu; yr ydwyf megis y dyn hwnnw yn y parlys, â'm llaw wedi gwywo, ac nis gallaf ei hestyn allan. Yr ydwyf, gan hynny, yn ostyngedig, yn erfyn dy ras a'th drugaredd, fel megis ag yr ydwyt wedi agor y nefoedd i mi yn dy air, deilyngu o honot hefyd agor fy llygaid i weled peth o'i harddwch a'i gogoniant, fel y byddo i'm calon ei hoffi ac ymhyfrydu ynddi, onidê ni fydd y nefoedd ei hun ddim yn nefoedd i mi. O tydi Yspryd y bywyd! anadla ar y grasusau ag sydd ynof; cymmer afael yn fy llaw, a chyfod fi o'r ddaear, fel y gwelwyf y gogoniaut a barottoaist i'r rhai a'th garant.

§ 15. "Ymaith â chwi, gan hynny, enaid-boenidiog ofalon ac ofnau; a thithau dòr-calon dristwch, dos ymaith! neu, o'r hyn lleiaf, gadewch lonydd i mi dros ychydig amser; aroswch yma isod tra fyddwyf yn esgyn uchod i weled fy ngorphwysfa. Y mae'r ffordd yn ddieithr i mi, ond nid i Grist. Yno yr oedd preswylfod tragywyddol ei Dduwdod; ac yno hefyd y mae efe wedi esgyn gyda'i gorph gogoneddus. Ei waith ef oedd pwrcasu'r orphwysfa hon; efe a'i parottodd, ac efe yn unig a ddichon fy ngwneuthur innau yn addas i'w mwynhau, a'm dwyn iddi. Tragywyddol Dduw'r gwirionedd a roddodd ei addewid, ei sel, ai lŵ, na chyfrgollir mo honof, (os bydd gennyf ffydd i gredu yn Nghrist,) ond yn hytrach y caf etifeddu bywyd tragywyddol. Yno ar fyrder y trosglwyddir fy enaid, a'm corph yn fuan ar ol hynny. Ac a ddichon fy nhafod ddywedyd, y caf, mewn byr amser, yn ddiau fyw gyda Duw, a'm calon heb neidio o'm mewn? A allaf fy fi ddywedyd hynny gyda ffydd, ac heb lawenydd? O ffydd, yr ydwyf yn awr yn cydnabod, yn deimladwy, gymmaint yw dy wendid! Ond er i anghrediniaeth dywyllu fy ngoleuni, a thrymhau fy mywyd, a gorthrymmu fy llawenydd, etto ni chaniatta'r Arglwydd iddo fy ngorchfygu na'm dinystrio; ac er iddi (anghrediniaeth)

warafun i mi fy nghyssuron, etto (er gwaethaf iddi) caf fwynhau ychydig ddiddanwch yma; ac oni b'ai fy anghrediniaeth, pa gymmaint ychwaneg a allwn eu mwynhau! Ië, goleuni'r nefoedd a dywynnai i mewn i'm calon, a myfi a allwn fod agos mor gynnefin yno ag ydwyf ar y ddaear. Tyred ymaith, gan hynny, O fy enaid! cau dy glustiau yn erbyn iaith dwyllodrus ac anwybodus anghrediniaeth; tydi a fedri atteb ei holl wrthddadleuon annoeth; neu, os na elli, sathra hwynt dan dy draed. Tyred ymaith, na fydded i ti sefyll yn edrych ar bedd yna, neu yn troi'r esgyrn, neu yn darllen dy *wers* yn awr yn y llwch; y llinellau yna a gânt yn fuan iawn eu dileu ymaith. Ond cyfod dy ben i fynu, ac edrych tua'r nefoedd, a gwel dy enw yn ysgrifennedig yn llyfr bywyd yr Oen a laddwyd. Beth pe dywedai angel wrthynt fod preswylfod wedi ei pharottoi i ti yn y nefoedd, ac yn ddiau y bydd yn eiddot ti yn dragywydd, oni wnelai'r cyfryw gennadwri di yn llawen? Ac a elli di ddiystyru digelwyddog air yr addewid, yr hwn a lefarwyd trwy gyfarwyddyd Glân Yspryd Duw, ac a roddwyd i ti hefyd gan y Mab ei hun? Beth pe gwelsit gerbyd o dân yn dyfod i dy gyrchu a'th ddwyn i fynu i'r nefoedd, megis Elias gynt, oni wnai hynny di yn llawen? Ond y mae dy Arglwydd yn tystio, fod llu o angelion yn dwyn enaid Lazarus i fynwes Abraham. A gaiff y meddwyn fod yn llawen yn ei ddiod, a'r glwth yn ei wleddoedd a'i ddanteithion, ac oni chaf fi lawenhau a minnau yn gobeithio bod mor fuan yn y nefoedd? A fydd i mi fawr hoffi diod pan fyddo syched arnaf, neu ymhyfrydu mewn ymborth pan fyddo arnaf chwant bwyd? a fydd i mi gymmeryd pleser mewn gerddi têg, a rhodfeydd hyfryd, ac anneddau heirdd a chyfleus? a ydyw gwrthddrychau heirdd a hyfryd i'm llygaid, ac aroglau peraidd i'm ffroenau, a pheroriaeth a chynghanedd i'm clustiau? ac oni fydd i'r meddylfryd am happusrwydd tragywyddol yn y nefoedd roddi i mi bleser a hyfrydwch? Myfi a feddyliwn y gallwn fod yn foddlon i

dreulio fy holl amser ymysg fy llyfrau, a chanu'n iach i'r byd a'i deganau, ac edrych i lawr megis gyda thosturi ar y mawrion a'r cyfoethogion, y rhai ni wyddant fawr am y cyfryw hapusrwydd; pa faint mwy, gan hynny, a fydd fy nedwyddwch yn y nefoedd lle y bydd fy ngwybodaeth yn berffaith? Os daeth brenhines Seba o eithafoedd y ddaear i glywed doethineb Solomon, ac i weled ei ogoniant, pa mor fawr y dylwn i ewyllysio myned o'r ddaear i'r nefoedd i weled gogoniant y Mawrhydi tragywyddol, ac i gael mwynhau perffeithrwydd gwybodaeth, i'w gymharu â'r hwn nid yw y rhai doethaf ar y ddaear ond annoethion, ynfydion, ac anwybodus! Beth pe buasai Duw wedi fy ngwneuthur yn llywodraethwr ar yr holl ddaear, a phe buaswn yn medru symmud mynyddoedd, iachâu clefydau â gair neu gyffyrddiad, neu pe gallaswn fwrw allan gythreuliaid, oni fuaswn yn mawr lawenychu yn y cyfryw anrhydedd ac awdurdod? Ac oni chaf fi lawenhau llawer mwy oherwydd fod fy enw yn ysgrifennedig yn y nefoedd? Nis gallaf yma, yn y byd hwn, fwynhau cyfeillach fy rhieni, a'm perthynasau, a'm caredigion, heb deimlo llawer o hyfrydwch; a phan fyddwn yn cael fy hun yn rhydd i ddywedyd fy holl gyfrinach wrth gyfaill ffyddlon a mynwesol, y fath ddywenydd mawr oedd hynny! O, gan hynny, pa faint mwy dedwydd a fyddaf i fyw yn wastadol ynghariad Duw! Pa mor hyfryd yw fod brodyr yn byw ynghyd mewn cariad brawdol yma yn y byd! Hyfryd a dymunol iawn yw gweled teulu yn byw mewn heddwch a chariad, gwr a gwraig, plant a gwasanaethwyr, i gyd yn ufudd, yn gymmwynasgar, ac yn garedig y naill i'r llall! Pa mor hyfryd a dymunol fyddai gweled tref, neu bentref, yn byw ynghyd mewn cariad a thangnefedd, heb ddim llid, na malais, na chenfigen, na swn, na bloedd, na thwrf, nac ymrafaelio, nac ymrysson, na chyfreithio, nac ymbleidiau, nac ymranniadau—ond pob un yn caru ei gymmydog fel ef ei hunan, gan feddwl nas gallant fyth wneuthur gormod y naill i'r llall, pawb yn

ceisio rhagori ar eu gilydd mewn cariad—y fath olwg hyfryd a chyssurus fyddai hyn! Ond, O! pa mor rhagorol mwy gwynfydedig, hapus, a bendigedig fydd gogoneddus gynnulleidfa'r gwaredigion yn y nefoedd, trigolion tangnefeddol y Jerusalem newydd, lle nad oes rhwyg nac ymranniad, ymbleidio nac ymrafaelio; lle nad oes yr un o wahanol farn oddiwrth y llall; lle nad oes dim twyll, na rhagrith, na chenfigen; lle nad yw eu cariad yn oeri; lle nad ydynt nac yn disodli nac yn bradychu eu gilydd; dim un gair croes, nac un yn edrych yn ddig ar y llall; ond pawb yn un â Christ, yr hwn sydd yn un â'r Tad; a phawb yn byw yn ei gariad ef, yr hwn ei hun sydd gariad! Y mae'r enaid cyn amled, a chyn gymmaint yn y lle y mae'n caru, ag ydyw yn y lle y mae'n byw yn y corph. Pa mor agos y bydd fy enaid, wedi ei uno a'i gyssylltu â Duw, pan y caf ei garu yn wastadol â'm holl egni, ac â'm holl galon! Och! galon ddrwg, druenus o anghredin-iaeth, yr hon a ddichon feddwl am y cyfryw ddydd, a gwaith, a bywyd a hwnnw, â'r fath ychydig lawenydd egwan! Ond, yn ddiau fe fydd y mwynhad ar ol hyn yn fwy bywiog a chyssurus.

§ 16. "Mor ddifyr ac mor hyfryd yw i mi ganfod ac astudio gwaith y Creawdwr ynghreadigaeth y byd! Y fath adeilad hardd yw hwn yr ydym yn byw ynddo! y llawr wedi ei harddu â blodau ac a choedydd, a'i ddyfrhau âg afonydd a ffynhonnau! y nen mor uchel ac mor helaethfawr, ac wedi ei haddurno a'i phrydferthu mor rhyfeddol! Y fath ryfeddodau sy'n gynnwysedig yn yr haul a'r lleuad, y ser a'r planedau, y moroedd mawrion, a'r gwyntoedd nerthol! Ac a ddarfu Duw ddarparu'r fath dŷ i gnawd llygredig, i'r enaid mewn carchar? Ac a gyfrannodd efe y fath fyrddiynau o ryfeddodau ar ei elynion? O! y fath breswylfod, gan hynny, a ddarparodd efe i'w anwyl blant! A pha gymmaint y bydd gogoniant y Jerusalem newydd yn rhagori ar ardderchawgrwydd y creaduriaid yn bresennol! Cyfod, gan hynny, O fy enaid! ac

esgyn i fynu yn dy fyfyrdodau; a bydded i'th feddyliau am y gogoniant hwnnw ragori yr un modd mewn melusder ar dy feddyliau isel am bethau daearol a gweledig. Nac ofna fyned allan o'r corph, ac o'r byd hwn, gan fod yn rhaid i'r cyfnewidiad fod mor hapus a gogoneddus; ond yn hytrach bydded i ti ddywedyd fel y gwr hwnnw wrth farw, 'Y mae yn hyfryd gennyf, ac yr ydwyf yn neidio o lawenydd, fod yr amser wedi dyfod pan fydd i'r Jehofah tragywyddol a gogoneddus, mawredd yr hwn y bum yn ei ryfeddu mewn pethau gweledig, ac y bum yn synnu wrth weled ac ystyried ei ddaioni, a'r hwn y bum mor hir yn ei ddymuno ac yn hiraethu am dano—yr ydwyf yn mawr lawenhau, meddaf, y bydd iddo yn awr ddatguddio ei hun i mi, ac y caf y fraint o'i weled wyneb yn wyneb.

§ 17. "Mor rhyfeddol hefyd yw gwaith Rhagluniaeth! Mor ddymunol, mor hyfryd a chyssurus, yw gweled y Duw mawr, doeth, a daionus, mor ofalus a gwyliadwrus ynghylch diogelwch a llwyddiant ychydig o bobl o isel radd, y rhai a fyddant yn gweddio yn aml, ac etto yn cael eu diystyru, sef y gwir Gristionogion! Mor hyfryd hefyd yw i mi edrych yn ol, gyda diolchgarwch, ar yr amrywiol a'r mawrion drugareddau a gyfrannodd Duw i mi yn neillduol yn fy mywyd, ac a'm cyssurodd â hwynt ar fy nhaith trwy'r byd! Pa cyn amled y gwrandawodd fy ngweddiau, yr ystyriodd fy nagrau, ac y cyssurodd fy enaid galarus, pan yr oeddwn mewn profedigaeth, neu dan ofnau ac amheuaeth! A pha sawl gwaith y dywedodd fy Arglwydd wrthyf, *Cymmer gyssur: nac ofna!* Y fath gynhaliaeth a fu'r profiadau hyn i mi, sef y cyfryw dystiolaeth eglur o gariad fy Nhad nefol! Pa fodd y byddent yn cyssuro fy nghalon pan y byddai'n barod i ymollwng dan anghrediniaeth! O, gan hynny, y fath ddiwrnod bendigedig a fydd hwnnw, pan y bydd i mi gael mwynhau pob trugaredd, ïe, a *pherffeithrwydd* o bob trugaredd; a chael hefyd gyflawn fwynhad o'r Arglwydd

ei hun, yr hwn yw ffynnon, ac awdwr a rhoddwr pob trugaredd ; pan y caf sefyll ar y làn, ac edrych yn ol ar ymchwydd y môr a'r tymhestloedd, a'r peryglon, a ddihengais, neu y deathum trwyddynt ! pan y caf adolygu ac ailystyried y cystuddiau a'r gofidiau a gefais yn y byd, yr ofnau a'r dagrau a fuant yn fy ngofidio, a'r modd y dygodd yr Arglwydd fi allan o honynt oll i fwynhau'r gogoniant hwn, yr hwn oedd y diwedd o honynt oll ! Ac os bydd ond megis un defnyn o wir ffydd yn gymmysgedig â'r ystyriaethau hyn, y fath galon o nefol hyfrydwch a fyddai i mi gael ei meddiannu o'm mewn ! Myfi a ewyllysiwn gredu ynot, credu dy air a'th addewidion : O Arglwydd, cymhorth fy anghrediniaeth !

§ 18. " Y fath hyfrydwch a gefaist lawer tro, O fy enaid, mewn moddion gras—pa mor felus oeddent ! Y fath gyssur mewn gweddi, a diolchgarwch dan bregethau nefol ac adeiladol, ac ynghymmundeb y saint, sef cymdeithas y duwiolion, ac wrth weled yr Arglwydd yn chwanegu at yr eglwys y rhai a fyddent gadwedig ! Pa fodd, gan hynny, y dichon fy nghalon amgyffred y llawenydd a gaf ei fwynhau, pan welaf yr eglwys wedi ei pherffeithio yn y nef, ac y caf fy nerbyn i'r deml nefol honno, a, chyda'r llu a berffeithiwyd, glodfori Duw yn dragywydd ? Os oedd gair Duw yn felusach gan Job na'i ymborth beunyddiol, a chan Dafydd na'r mêl, ïe, ac na diferiad y diliau mêl ; ac os oedd ei air hefyd yn llawenydd ac yn hyfrydwch calon i Jeremiah y prophwyd, pa fath ddiwrnod hyfryd a bendigedig a fydd hwnnw, pan y cawn gyflawn fwynhau Arglwydd y gair hwn, a phan na fydd arnom mwyach eisiau'r gorchymynion a'r addewidion ysgrifenedig hyn, na chwaith ddarllen un llyfr ond gwyneb y gogoneddus Dduw ! Os oeddent hwy, y rhai a glywsant Grist yn llefaru ar y ddaear, yn synnu wrth ei ddoethineb a'i attebion, ac yn rhyfeddu o herwydd yr holl eiriau grasusol oedd yn dyfod allan o'i enau, pa faint mwy hyfrydwch a rhyfeddod fydd i mi i'w weled yn ei fawredd a'i ogoniant yn y nefoedd.

§ 19. "A oedd golwg ar y gogoniant hwn yn ddigon i wneuthur i eraill roesawu'r groes, ac hyd yn nod gwrthod gwaredigaeth; ac oni ddichon hynny dy wneuthur di, O fy enaid! yn foddlon dan ddioddefiadau llai? A allasai yr ystyriaeth a'r golwg o'r gogoniant hwnnw felusu'r fflammau i'r merthyron, ac onid allant felusu dy fywyd, dy glefyd, neu dy farwolaeth di? Onid yn yr un nefoedd y byddant hwy a minnau yn byw? Onid yr un Duw, yr un Crist, yr un goron ag sydd ganddynt hwy a gaf finnau eu mwynhau? Ac a gaf fi edrych ar yr holl ogoniant hwnnw â llygad môr wàn, calon môr drymllyd, a golwg môr drist? Yr ydwyf fi fy hun wedi cael rhyw ychydig flaenbrawf o wynfyd a dedwyddwch y saint yn y nefoedd; a pha faint hyfryttach oedd hyn na dim sydd ar y ddaear! a pha mor rhagorol gan hynny, a chymmaint mwy hyfryd, a fydd y perffaith fwynhad!

§ 20. "Môr ddymunol yw cael mwynhau grasusau yr Yspryd yma yn y byd; a'r fath harddwch sydd ynddynt er eu bod yn ammherffaith! Ond Och! pa gan lleied yw y rhai hyn, mewn cyffelybiaeth i'r hyn a gawn ei fwynhau yn ein cyflwr perffaith hwnnw yn y nefoedd! Pa mor hapus y byddai fy mywyd, pe medrwn garu Duw gymmaint ag yr ewyllysiwn; pe gallwn fod i gyd oll yn gariad, ac yn caru Duw bob amser! O fy enaid! pa gymmaint a roddit am gael mwynhau'r cyfryw fywyd? Pe gallwn amgyffred a deall pob peth sydd ysgrifenedig yn ngair Duw cyn gystal ag yr ewyllysiwn; pe gallwn gwbl ymddiried ynddo yn mhob cyfyngder; pe medrwn fod mor fywiog a selog ag yr ewyllysiwn ymhob dyledswydd; pe gallwn wneuthur Duw fy nymuniad a'm hyfrydwch gwastadol, ni chenfigennwn wrth neb o achos byr fwyniant anrhydedd a phleserau gwael y byd a'r bywyd hwn! Ond, O fy enaid! y fath gyflwr bendigedig y byddi ynddo ar fyrder, pan y cei fwynhau llawer mwy o'r rhai hyn nag a fedri yn awr feddwl nac amgyffred, ac y cei ymarferu dy rasusau perffaith, ymhresenoldeb Duw ei hun, ac

nid yn y tywyllwch, ac ymhell oddiwrtho, megis ag yr ydwyt yn awr!

§ 21. "A ydyw eglwys Crist, yn ei chyflwr pechadurus, cystuddiol ac erlidus yma yn y byd, yn rhagori llawer ar ryw un Cristion, neu un enaid grasol? Etto, pa gymmaint mwy gogoneddus y bydd yr eglwys oll, wedi iddi gael ei chasglu ynghyd yn ei chyflwr gogoneddus yn y nefoedd; wedi iddi esgyn i fynu, o ddyffryn dagrau ac wylofain, i fynydd Seion, pan na fydd iddi na phechu na dioddef mwyach! Ni fydd gogoniant yr *hen* ond tywyllwch, a gwrthuni, ac aflunieidd-dra mewn cyffelybiaeth i ogoniant a harddwch y Jerusalem *newydd.* Y fath achos fydd gennym y pryd hynny i floeddio a chrechwenu o lawenydd, pan ganfyddom mor ogoneddus fydd y deml nefol, wrth gofio gwaeledd yr eglwys ar y ddaear!

§ 22. "Ond Och! mor fawr yw fy ngholled ynghanol fy myfyrdodau! Yr oeddwn yn tybied fod fy nghalon yn canlyn fy meddyliau, ond yn awr y gwelaf nad oedd. A pha fywyd sydd mewn meddyliau gweigion, a geiriau ofer, heb serchiadau'r galon? Nid ydyw Duw, na minnau chwaith, yn ymhyfrydu ynddynt. Ymha le yr oeddit, galon anhawddgar, pan yr oeddwn yn ceisio agor i ti'r trysorau tragywyddol? Onid oes arnat gywilydd cŵyno cymmaint o herwydd dy fywyd anghyssurus; a grwgnach yn erbyn Duw am ddyfod cymmaint tristwch i'th ran, pan y y mae efe yn cynnyg i ti ddedwyddwch angelion, a thithau yn ei wrthod? Pe buasit yrwan yn fy nghanlyn yn fy myfyrdodau, ti a fuasit yn adfywio, ac heb fedru ymattal rhag neidio o lawenydd, gan anghofio dy holl boen a'th ofid. A allaswn i feddwl fod fy nghalon mor anewyllysgar i orfoleddu!

§ 23. "O Arglwydd, yr ydwyt yn cadw fy mherffaith lawenydd hyd onis delwyf i'r nefoedd; cymhorth fi, gan hynny, i ddymuno hyd y pryd y caf ei fwynhau; a gâd i mi hiraethu pan na allaf lawenhau fel ag yr ewyllysiwn. O fy enaid! ti a wyddost (er dy ofid) nad ydwyt eto wedi

dyfod i'th orphwysfa. Pa bryd y caf ddyfod i'r porthladd diogel a thawel hwnnw, lle nad oes tymhestloedd, na thonnau, na pheryglon; pan na chaf mwyach yr un diwrnod blin, na noswaith anesmwyth? Y pryd na bydd fy mywyd mwyach y fath gymmysgedd o obaith ac ofnau, o lawenydd a thristwch; a phan na fydd rhyfel mwyach o'm mewn rhwng y cnawd a'r yspryd; na ffydd ac anghredininiaeth, gostyngeiddrwydd a balchder, yn ymryson yn wastadol. O! pa bryd y derfydd yr ofnau enaid-boenydiol hyn? yr holl ofalon a'r gofidiau hyn? Pa bryd y caf ymadael â'r cnawd sydd yn gwrthryfela yn erbyn yr enaid, ac mor dwyllodrus yn ei fradychu; ac hefyd â'r corph llygredig hwn, a'r byd ofer a phrofedigaethus? Och! bod yn rhaid i mi sefyll, a gweled eglwys Crist a'i achos yn cael eu taflu megis yn ol ac ymlaen gan ymryssonau, ac yn cael eu gwneuthur yn wasanaethgar gan rai tuag at fudr elw, a chan eraill yn cael eu troi a'u cyfnewid yn ol eu mympwy, neu eu dychymmygion gwag ac ofer hwy eu hunain! Nid oes yn y Jerusalem nefol ddim afreolaeth o'r fath hyn; ond yno y caf weled cynnulleidfa pereiddgân a hyfrydlais o eneidiau perffaith yn cyduno i ufuddhau ac i glodfori'r Brenhin tragywyddol. O, pa faint gwell cadw'r drws yn nhŷ Dduw, na bod yn ben-llywodraethwr ar yr holl fyd terfysglyd hwn! A phaham na byddwn yn fwy blin o'r blinder yma? Paham yr ydwyf fi fel hyn yn anghofio fy ngorphwysfa? Cyfod i fynu, gan hynny, O fy enaid, yn dy ddymuniadau mwyaf gwresog ac ardderchog! Ac nac aros hyd oni fyddo'r cnawd hwn yn cyd-ewyllysio â thi; na ddisgwyl i'r anian lygredig gydamgyffred dy wrthddrychau nefolaidd, neu ddisgwyl iddi ddywedyd wrthyt pa *bethau* neu pa *bryd* i ddymuno. Onid ydyw difrawch ac oerfelgarwch dy feddyliau am yr orphwysfa, yn dy gyhuddo o ffiaidd anniolchgarwch ac ynfydrwydd? A oedd raid i'th Arglwydd bwrcasu i ti orphwysfa o gymmaint gwerth, a thithau mor ddiystyr o honi? A oedd raid iddo ef fyned ymlaen i barottoi an-

neddle mor ogoneddus i greadur mor wael, ac a ydwyt ti mor anewyllysgar i fyned i'w meddiannu? A ydyw yn weddus fod Arglwydd y gogoniant yn chwennychu dy gymdeithas, a thithau heb ewyllysio myned atto? Ac a raid i'r ddaear gael ei gwneuthur megis yn uffern i ti, cyn i ti foddloni i fyned at Dduw? Edrych ar y creadur mwyaf hawddgar, a'r cyflwr mwyaf dymunol, a dywed i mi pa le yr ewyllysit fod os nad gyda Duw? Mae tlodi'n faich, a chyfoeth yn fagl; clefyd yn anhyfryd; iechyd yn ansicr; gwg y byd yn sigo dy sawdl, a'i wên yn dy archolli yn dy galon: pa cyn belled bynnag y byddys yn caru'r byd, ac yn ymhyfrydu ynddo, cymmaint a hynny y mae yn dolurio ac yn peryglu'r carwr; ac os nas gellir ei garu heb berygl, paham yr ewyllysir ef mwyach? Os byddi yn cael dy ganmol, y mae'r cyfryw glod yn anadlu plâ dinystriol i ti; os byddi'n cael dy ddifrio neu dy ammharchu, meddyliwn na ddylai hynny ennill dy serch. Ac os ydyw dy lafur llwyddiannus, a'th gyfeillion duwiol, yn fwy gwerthfawr yn dy olwg na byw gyda Duw, y mae yn llawn bryd iddo eu cymmeryd oddiwrthyt. Ac os buost yn cael hyfrydwch wrth astudio, oni chefaist hefyd lawer o chwerwder yn y cyfryw fyfyrdodau dyfnion? Ac am y goreu o'r cyfryw bethau, nid ydynt mewn un modd i'w cyffelybu i'r hyfrydwch o fod yn wastadol ymhresennoldeb Duw'r gwirionedd. Os bu dy gyfeillion yma yn hyfrydwch, oni fuont hefyd yn achos o flinder a gofid i ti? Y mae ynddynt beth arwydd gras, efallai, ond er hynny onid ydynt yn bechadurus? Y maent, efallai, yn garedig, etto onid ydynt yn hawdd eu digio? Y maent, mae yn debygol, yn ostyngedig; ond Och! onid oes ynddynt hefyd lawer o falchder? Y mae eu grasusau yn felus, a'u doniau yn gynnorthwyol, etto onid ydyw eu llygredigaethau yn chwerwon, a'u hammherffeithrwydd yn niweidiol? Ac a wyt ti mor anewyllysgar i fyned oddiwrthynt at dy Dduw?

§ 24. "O fy enaid, edrych uwchlaw'r byd hwn a'i ofid.

iau! A fuost ti cyhyd yn dioddef dan wialen cerydd, ac etto heb ddeall ei diben yn well? Onid ystyr pob gwialenod yw dy yrru oddiyma? Onid yr un yw eu llais a'r hwn a ddaeth at Elias, 'Beth a wnei di yma?' A wyt ti yn anghofio rhagddywediad ein Harglwydd, 'Yn y byd gorthrymder a gewch,' ond ynof fi y cewch dangnefedd? O anwyl Arglwydd, yr ydwyf yn dechreu deall ystyr y ceryddon tadol, caredig hyn; y maent yn ysgrifennedig megis yn fy nghnawd, ac wedi eu cerfio ar fy esgyrn. Ceisio fy nghalon yr ydwyt; dy wialen sydd yn *gyrru*, a rhwymyn sidan dy gariad sydd yn *tynnu;* a hyn oll i'r diben i'w dwyn attat. O Arglwydd, a ddichon y gyfryw galon fod yn werth i ti ei chael? Gwna hi yn deilwng, ac yna y bydd yn eiddot ti; cymmer hi i ti dy hun, ac wedi hynny derbyn finnau. Y mae bywyd yn y telpyn pridd i symmud, ond nid i gyfodi i fynu. Megis y plentyn gwan yn edrych ar ei anwyl fam, felly yr ydwyf finnau yn disgwyl wrthyt ti, ac yn estyn allan fy llaw, ac yn chwennych i ti fy nghymmeryd i fynu, Ac er nas gallaf ddywedyd, 'fy enaid sydd yn hiraethu am danat,' etto medraf sicrhau fy mod yn ewyllysio cael y fath galon hiraethlawn. 'Yr yspryd sydd barod, ond y cnawd sydd wàn.' Y mae fy yspryd yn gwaeddi, Deued dy deyrnas, neu derbyn fi i'th deyrnas; ond y cnawd sydd yn ofni i ti glywed fy ngwaedd, a'm cymmeryd yn ol fy ngair. O! bendigedig fyddo dy ras, sydd yn arfer fy llygredigaethau i'w dinystrio eu hunain! canys yr ydwyf yn ofni fy ofnau, ac yn tristâu o herwydd fy nhristwch, ac yn hiraethu am ychwaneg o hiraeth; ac fel hyn y mae'r moddion poenus o gyrhaedd fy nymuniadau'n chwanegu fy mlinder, a hynny drachefn sy'n peri i mi hiraethu i gael gorphwysdra.

§ 25. "Mewn gwirionedd, Arglwydd, y mae yn gyfyng iawn arnaf o ran fy enaid, a pha un i'w ddewis nis gwn, ond ti a wyddost pa un i'w roddi. Ymadael a bod gyda thi sydd lawer gwell; ond aros yn y cnawd sy'n ymddangos yn angenrheidiol. Ti a wyddost nad ydwyf wedi blino

ar dy waith, ond cystudd a phechod sydd yn faich gennyf; yr ydwyf yn barod i aros tra yr ydwyt ti yn rhoddi i mi waith, a chyflawni yr hyn a roddaist yn fy nwylaw; ond yr ydwyf yn deisyfu arnat nac aros yn hwy, wedi i mi orphen hyn; a thra yr ydwyt ti yn gweled yn dda i mi fod yma, gâd i mi fod yn cynnyddu beunydd mewn gras a duwioldeb, a sancteiddrwydd, ac felly yn aeddfedu i'r deyrnas; gwna fi yn well o ddydd i ddydd, a chymmer fi pan fyddwyf oreu. Nis anturiaf fod mor anamyneddgar a deisyfu arnat dorri ar fy amser, a'm cymmeryd oddiyma'n ammharod; o herwydd fy mod yn gwybod fod fy nghyflwr tragywyddol yn sefyll, mewn mesur mawr, ar y modd y byddom yn defnyddio ein hamser yn y bywyd hwn. Ac nid ewyllysiwn chwaith aros yma wedi gorphen fy ngwaith, a bod yma yn pechu, pan y mae fy mrodyr yn buddugoliaethu ac yn gorfoleddu. Y mae dy lwybrau (sef dirgel ffyrdd Rhagluniaeth) yn sathru pryfyn gwael o'm bath i, tra y mae'r gwaredigion yn disgleirio fel y ser mewn gogoniant. Etto yr wyf yn hyderus gredu fy mod yn blentyn i ti yn gystal a hwythau, ac y mae Crist yn Ben i mi yn gystal ac iddynt hwy; paham gan hynny y mae cymmaint o wahaniaeth a rhagoriaeth rhyngom? Ond yr ydwyf yn cydnabod dy fod yn gyfiawn yn hyn, yn gystal a'th holl ffyrdd; ac er ein bod ni i gyd yn blant i ti, etto myfi yw'r mab afradlon; ac felly y mae'n iawn i mi, yn y wlad bell yma, fod yn ymborthi ar gibau'r moch, tra y maent hwy yn wastad gyda thi, ac yn mwynhau dy ogoniant. Hwy a fuont unwaith yn fy nghyflwr i, ac ar fyrder minnau a gaf fod yn gyffelyb iddynt hwy. Yr oeddent hwy yn eistedd yn y lle isaf, cyn iddynt gael eu dyrchafu i'r lle uchaf; hwy a fuant yn dioddef, ac yn cael eu ceryddu, cyn iddynt gael teyrnasu; a'r rhai hynny ag sydd yn awr o flaen yr orseddfaingc, a ddaethant allan o'r cystudd mawr: ac oni fyddaf fi foddlon i ddyfod i feddiannu'r goron yr un ffordd, ac yn yr un modd a hwythau, ac yfed o'r un gwppan a hwythau, cyn i mi gael eistedd gyda hwy yn

dy deyrnas? Arglwydd, yr ydwyf yn foddlon i ddisgwyl dy amser di, a myned y ffordd yr ydwyt ti yn ewyllysio, ond yn unig i ti fy nyrchafu yn dy amser, a'm cymmeryd i'th ysgubor, pan weli fy mod yn aeddfed. Ond yn y cyfamser gâd i mi hiraethu, ond etto heb anfoddloni; gâd i mi gredu ac ewyllysio, ac etto heb frysio mewn modd pechadurus, sef bod yn anamyneddgar; yr wyf yn foddlon i aros dy amser, ond nid i'th golli; a phan fyddi yn fy ngweled yn rhy ddifraw, ac yn barod i foddloni yn dy absenoldeb, yna bywioga fy nymuniaduu llaesion, a chwytha i fynu y gwreichionyn marw o gariad, ac nac ymâd oddiwrthyf, hyd y pryd y gallwyf ddywedyd yn brofiadol, 'Fel y brefa yr hydd am yr afonydd dyfroedd, felly yr hiraetha fy enaid am danat ti, O Dduw: sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw; pa bryd y deuaf ac yr ymddangosaf ger bron Duw?' Salm 42 : 1. 'Fy ymarweddiad sydd yn y nefoedd, o'r lle yr ydwyf yn disgwyl yr Iachawdwr. Y mae fy serch wedi ei osod ar bethau sydd uchod, lle y mae Crist yn eistedd, a'r lle y mae fy mywyd yn guddiedig.' Yr ydwyf yn ceisio 'rhodio wrth ffydd, ac nid wrth olwg; yn chwennych yn hytrach bod oddicartref o'r corph, ac yn gartrefol gyda'r Arglwydd.'

§ 26. "Pa rwymyn sydd rhyngof fi â'r byd gwael, gwag, ofer hwn? a pha hawddgarwch sydd ynddo, fel y tynnai fy serchiadau oddiwrth Dduw, neu fy ngwneuthur mor anfoddlon i ymadael? Myfi a feddyliwn, pan yr edrychwyf arno â llygad syml, nad ydyw'r byd hwn ond 'diffeithwch gwag, erchyll,' (Deut. 32 : 10,) a'r rhan fwyaf o'i drigolion ddim amgen na dreigiau creulon, anwar. Gallaf edrych ar ei harddwch megis aflunieiddrwydd, a boddi ei holl bleserau mewn ychydig ddagrau edifeiriol, neu wynt uchenaid, a'u chwythai hwynt ymaith. O na fydded i'r cnawd hwn hudo fy enaid, na gwneuthur i mi ddewis y bywyd blin hwn, o flaen y llawenydd sydd ger bron dy orseddfaingc! Ac er fod angeu ynddo ei hun yn annymunol i natur, er hynny bydded i'th ras di wneuthur i'th

ogoniant ymddangos mor hyfryd, fel ag y byddo brenhin y dychryniadau yn gyffelyb i genadwri o lawenydd! Na fydded i ti fwrw allan dy enaid trwy drais, na'i ddifeddiannu o'i babell yn erbyn ei ewyllys; ond tyn ef attat dy hun trwy ddirgel effaith dy gariad, megis ag y bydd gwres yr haul yn y gwanwyn yn tynnu allan amryw greaduriaid o'u llochesau gauafaidd; felly bydded gwiw gennyt ei gyfarfod hanner y ffordd, a thynnu a denu fy enaid attat, megis ag y bydd yr ehedfaen (*loadstone*) yn tynnu'r dur atto, a'r fflam fawr yn sugno'r fechan i mewn! Gwasgara gan hynny y cymmylau sy'n cuddio dy gariad oddiwrthyf; neu symmud ymaith y cén hynny oddiar fy llygaid, y rhai sy'n rhwystro i mi weled! Canys nid oes dim arall ond llewyrch dy wynebpryd siriol a hawddgar, a blaenbrawf melus o'th ryfeddol iachawdwriaeth, yn ddigonol i wneuthur i'r enaid ddywedyd yn serchiadol, 'Yr awr hon, O Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol dy air.' Ond ni fydd dy ddatguddiadau cyffredin ddim yn ddigon yma; canys fel y mae'r gwaith yn fwy, felly y mae'n angenrheidiol cael mwy o'th gymhorth. O! gan hynny, tro yr ofnau hyn yn ddymuniadau cryfion, a'r ammharodrwydd hwn i farw yn hiraeth cryf am danat! A thra y mae'n rhaid i mi fod yn absennol oddiwrthyt, pâr i'm henaid ocheneidio, mor ddwys ag y bydd y corph dan glefyd trwm! Ac os oes i mi chwaneg o amser i'w dreulio yn y byd, gâd i mi fyw ynot ti, megis pe bawn allan o'r byd, megis y bum byw weithiau yn y byd hebot ti! Tra fyddwyf yn meddiannu meddwl i ystyried, na âd i mi dy anghofio; a thra fyddo gennyf dafod i lefaru, bydded i mi goffa dy enw gyda hyfrydwch a diolchgarwch; neu tra fo anadl ynof, gâd i mi anadlu ar dy ol, a hiraethu am danat; neu liniau gennyf i blygu, gâd i mi ymostwng beunydd wrth droedfaingc dy draed; a phan y bydd i ti fy nghaethiwo âg afichyd, cyweiria fy ngwely, cyfrif fy symmudiadau, a bydded i ti roddi *fy nagrau yn dy gostrel!*' Salm 56 : 8.

§ 27. "Megis ag yr oedd fy nghnawd yn chwennychu'r peth yr oedd fy yspryd yn ei gasâu, felly yn awr bydded i fy yspryd chwennychu'r dydd y mae fy nghnawd yn ei ofni; ac fel na byddo i'm cyfeillion a'm perthynasau ddisgwyl gyda chymaint tristwch am ymadawiad fy enaid, ag y bydd fy enaid gyda hyfrydwch a llawenydd yn disgwyl am ei ymadawiad ei hun! Yna 'marw a wnelwyf o farwolaeth yr uniawn, a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntau;' (Num. 23 : 10,) sef cael o honof symmud i'r gogoniant hwnnw, ar yr hwn ni bydd diwedd! Wedi hynny, caniatta i osgordd o'th angelion ddwyn fy enaid ymadawol i fysg ysprydion y rhai cyfiawn a berffeithiwyd, ac felly canlyn fy nghyfeillion anwyl a fuant feirw yn yr Arglwydd Iesu o'm blaen; a thra byddo fy mherthynasau mewn tristwch yn wylo uwchben fy medd, gâd i'm hyspryd gael ei dderbyn i'th orphwysfa; a thra byddo fy nghorph yn gorwedd ac yn pydru mewn tywyllwch, bydded i'm henaid gael gorfoleddu wrth feddiannu etifeddiaeth y saint yn y goleuni! O dydi, yr hwn wyt yn cyfrif hyd yn nod gwallt fy mhen, bydded i ti gyfrif hefyd yr holl ddyddiau y bydd fy nghorph yn gorwedd yn y llwch! a thydi'r hwn wyt 'yn ysgrifenu fy holl aelodau yn dy lyfr,' (Salm 139 : 16,) O cyfrifa hefyd fy esgyrn gwasgaredig! O fy Iachawdwr, prysura amser dy ddychweliad, anfon allan dy angelion, a chaned yr udgorn ofnadwy (etto hyfryd i mi) hwnnw! Nac oeda rhag i'r byw roddi i fynu eu gobaith; nac oeda, rhag i'r ddaear, mewn amser, fyned yn debyg i uffern, a thrwy ymraniadau gael ei malu yn chwilfriw; nac oeda, rhag i'th elynion drechu dy ddiadell, a rhag i falchder, rhagrith, anian lygredig y thrythyllwch, ynghyda digywilydd anghrediniaeth, lwyddo yn erbyn y gweddill bychan sydd i'w gael, a rhannu dy holl etifeddiaeth yn eu musg eu hunain, ac i tithau ar dy ddyfodiad, fod heb gael ffydd ar y ddaear; nac oeda, rhag i'r bedd ymfawrhau yn ei fuddugoliaeth, ac wedi dysgu (gan ei gyfaill) i wrthryfela yn dy erbyn, iddo wrthod rhoddi i

i fynu ei feirw! O prysura ddydd mawr yr adgyfodiad, pan y bydd i'th orchymmyn fyned allan, a'r pryd ni feiddia neb anufuddhau; pan y bydd i'r mor a'r tir roddi i fynu eu gwystlon, ac i bawb sydd yn eu beddau glywed y llais, ac yna'r meirw yn Nghrist a gyfodant yn gyntaf; a phan y bydd i'r hyn a heuir mewn llygredigaeth gyfodi mewn anllygredigaeth; a'r beddau a dderbyniasant bydredd a llwch, roddi yn ol i ti ser disglaer fel yr haul! Gan hynny, onid allaf yn hyderus orchymmyn fy nghorph i'r pridd, gan ei ymddiried, nid i'r bedd, ond i ti; ac o herwydd hynny, fy nghnawd a orphwys mewn gobaith hyd y pryd y bydd i ti ei gyfodi i gael meddiannu gorphwysfa dragywyddol. Dychwel, Arglwydd, pa hyd? O deued dy deyrnas! Y mae dy briodas-ferch anrhaethiedig yn dywedyd, Tyred! canys y mae dy Yspryd o'i mewn yn dywedyd, Tyred! ac yn ei hyfforddi i weddio felly âg ocheneidiau annrhaethadwy; ïe, yr holl greadigaeth sydd yn dywedyd, Tyred, gan ddisgwyl gwaredigaeth allan o gaethiwed llygredigaeth, a'i dwyn i ryddid gogoneddus plant Duw. Tydi dy hun a ddywedaist, 'Yn wir yr ydwyf yn dyfod ar frys. Amen. Felly, tyred, Arglwydd Iesu!'"

# GORPHENIAD.

§ 28. Fel hyn, ddarllenydd, y rhoddais i ti y cynghor goreu a allwn i'r diben o gynnal i fynu nefol ymarweddiad. Os na elli fyfyrio fel hyn yn gyflawn ac yn rheolaidd, etto gwna hynny gystal ag y medri; ond yn unig cymmer ofal i'w wneud yn aml ac yn ddifrifol. Cais wneuthur dy hun yn gydnabyddus â'r gwaith hwn, ac wedi hynny ti a fyddi, mewn rhyw ystyr, yn gydnabyddus â Duw; dy lawenydd a fydd ysprydol, hylwydd a pharhaus, yn ol natur ei gwrthddrych bendigedig, a thi a gei gyssur yn mywyd ac angeu. Heb bresenoldeb neu gymhorth unrhyw gyfaill, heb weinidog yr efengyl, ac heb lyfr, a phan fyddys yn gwarafun i ti bob moddion, er hynny gelli gael cyssur cryf a sylweddol. Dy rasusau a fyddant yn gadarn, yn fywiog, ac yn fuddugoliaethus; a'r llawenydd beunyddiol a fyddi yn ei dynnu fel hyn o'r nefoedd, a fydd yn dy nerthu i fyned ymlaen. Tydi a fyddi yn gyffelyb i ddyn yn sefyll ar ben mynydd tra uchel, yr hwn sy'n edrych ar y byd megis ymhell odditanodd; meusydd a choedwigoedd, dinasoedd a threfydd, a fyddant yn ymddangos iddo megis rhyw fân frychau. Ac felly hefyd yr edrychi dithau â'r un fath ddiystyrwch ar bob peth yma ar y ddaear. Y tywysogion mwyaf galluog ac ardderchog a fyddant yn dy olwg megis ceiliogod rhedyn; a'r byd traffethus, ymrysongar, ac ariangar, yr un fath a thwmpath o forgrug. Ni fydd bygythion dynion o ddim dychryndod i ti; nac anrhydedd y byd ond annogaeth a thaledigaeth gwael; a themtasiynnau a fyddant yn fwy diniwed, o herwydd eu bod wedi colli eu grym; a chystuddiau yn llai gofidus, o achos bod eu colyn wedi ei dynnu; a phob trugaredd a

ymddengys yn fwy gwerthfawr, gan dy fod yn canfod dy hun yn llwyr annheilwng o honi. Y mae yn awr yn dy ddewisad dy hun, (dan nodded a chymhorth Duw,) pa un ai byw y bywyd bendigedig hwn ai peidio a wnei; neu pa un a fydd i'r holl boen a'r drafferth a gymmerais i'th hyfforddi lwyddo neu fyned yn ofer. Ac os bydd y cwbl oll yn ddiles, trwy dy ddiogi a'th ddifrawch, tydi dy hun a fydd y colledwr mwyaf. O ddyn! pa beth sydd yn fwy angenrheidiol i ti eu ceisio, neu feddwl am danynt, na Duw a'r nefoedd? Onid ydwyt yn bur agos allan o'r byd hwn yn barod? Oni fyddi yn edrych o'th amgylch, ac fel yn disgwyl i ryw glwyf neu glefyd ddwyn dy gorph i'r ddaear, ac felly bod yn achos o ymadawiad dy enaid? Onid ydyw'r bedd yn aros i gael ei wneuthur yn lletty i ti, a'r pryfed yn disgwyl ymborthi ar dy wyneb a'th galon? Pa beth os bydd i'th waed ymguro tippyn etto yn dy wthiennau, cyn i ti dynnu dy anadl diweddaf; neu ychydig nosweithiau yn chwaneg i gysgu, cyn i ti huno yn y pridd? Och! pa gan lleied a fydd hyn wedi yr elo heibio? Ac onid ydyw yn bur agos a diangc ymaith eisoes? Ar fyrder ti a gei weled dy awrwydr (*hour-glass*) wedi rhedeg allan, ac yna y dywedi ynot dy hun, "Fy mywyd a ddarfu; a'm hamser a ddaeth i fynu! Nis gellir ei alw yn ol; ac nid oes yn awr ond naill ai nefoedd ai uffern o fy mlaen!" A pha le gan hynny y dylai dy galon fod ond yn y nefoedd? A phe gwyddit y fath beth ofnadwy yw bod amheuaeth yn dy feddwl ynghylch y nefoedd pan fyddi ar dy wely angeu, yn ddiau 'yr ystyriaeth a fyddai'n ddigon i'th gyffroi i ymchwilio ac ymholi. A pha beth arall ond ammeu a ddichon y dyn hwnnw wneuthur, yr hwn ni feddyliodd yn iawn ac yn ddifrifol erioed o'r blaen am y nefoedd?

§ 29. Rhai dynion sy'n dywedyd, "Nid yw yn werth cymmaint o amser a thrafferth i feddwl gymmaint a fydd y llawenydd a'r gwynfyd uchod, ond i ni geisio gwneud yn sicr o honynt, a chael eu mwynhau, canys ni a wyddom

eu bod yn fawr." Ond megis nad ydyw y dynion hyn yn ufuddhau gair Duw, yr hwn sydd yn gofyn i ni fod â'n hymarweddiad yn y nefoedd, ac yn gorchymmyn i ni osod ein serch ar y pethau sydd uchod; felly hefyd y maent, o'u gwirfodd, yn gwneuthur eu bywyd eu hunain yn druenus, gan eu bod yn gwrthod yr hyfrydwch a'r diddanwch a osododd Duw o'u blaen. A phe hynny yn unig a fyddai y cwbl o'r drwg ganlyniad, ni fyddai ond o bwys bychan; ond gwelwch pa faint o ddrwg ganlyniadau eraill sydd yn tarddu oddiwrth esgeulusdod o'r cyfryw hyfrydwch nefol. Y fath esgeulusdra a oera, os na lwyr ddiffodda, eich cariad tuag at Dduw; ac ni fydd yn ddymunol gan y cyfryw ddynion feddwl nac ymddiddan am Dduw a'i wasanaeth; y mae yn tueddu i wyrdroi eu barn ynghylch ffyrdd ac ordinhadau Duw; y mae yn eu gwneuthur yn anianol, ac i chwennychu ymlenwi â thrachwantau'r cnawd; y mae yn eu gadael dan lywodraeth pob cystudd a phrofedigaeth, ac y mae megis yn ddechreuad hollol wrthgiliad; hynny hefyd a'u gwna hwy yn anewyllysgar i ymadael â'r byd, ac i ofni marwolaeth. Canys pwy a ewyllysiai fyned i le neu at Dduw nad ydyw yn ymhyfrydu ynddo? Pwy a ymadawai â'i wynfyd yn ei fywyd, os na fyddai ganddo well lle i fyned iddo? Pe buaswn yn gosod yn unig ryw yrfa o ofnau o'ch blaen, a digalondid, a thristwch, chwi a allasech yn gyfiawn wrthddadleu yn fy erbyn. Ond ni ellwch gael dedwyddwch, na llawenydd sylweddol a pharhaus, ond un nefol. Ond y mae Duw yn ewyllysio i chwi rodio beunydd gydag ef, a thynnu eich cyssuron allan o'r ffynnon dragywyddol; ac os ydych yn anewyllysgar, rhaid i chwi ddioddef y golled: a phan y deloch i farw, bydd raid i chwi geisio cysur o'r lle y medroch ei gael, a chwi a gewch weled a erys eich pleserau cnawdol gyda chwi y pryd hynny; a'ch cydwybod a ddwg ar gof i chwi eich bod unwaith wedi cael eich perswadio i ganlyn ffordd arall, yr hon a fuasai yn sicr o ddwyn i chwi bleserau llawer amgenach; ïe, pleserau a fuasent

yn eich canlyn chwi trwy angeu, ac yn parhau i bob tragywyddoldeb.

§ 30. Ond am danoch chwi, y rhai y mae Duw wedi denu eich calonnau oddiwrth bob peth daearol, yr ydwyf yn gobeithio y cewch eich dwyn i werthfawrogi y fath fywyd nefolaidd fwy fwy, a cheisio rhodio unwaith (o'r hyn lleiaf) bob dydd, yn y Jerusalem Newydd. Duw yw eich cariad a'ch dymuniad, a chwi a ewyllysiech gael eich gwneuthur yn fwy adnabyddus â'ch Prynwr; ac yr ydwyf yn gwybod mai eich gofid pennaf yw, na byddai eich calonnau yn fwy agos atto, ac o herwydd na charent ef yn well, ac nad ymhyfrydent yn fwy ynddo. O! deuwch, profwch y cyfryw fyfyrdod hyfryd ynghylch gorphwysfa nefol! Dyma'r mynydd ar ba un y dichon arch ansefydlog eich heneidiau gael gorphwysfa. Gadewch i'r byd weled, wrth eich nefol ymarweddiad, fod crefydd yn beth llawer rhagorach nag *opiniynau*, ymddadleuon, a gwag-ymddiddanion ynghylch dyledswyddau allanol. Os bydd y Cristion, un amser, yn debyg iddo ei hun, ac yn atteb i'w egwyddorion a'i broffes, y pryd y bydd felly yw, pan fyddo fwyaf bywiog a difrifol ynghylch y ddyledswydd hon. Ac fel ag yr aeth Moses, cyn ei farw, i ben mynydd Nebo, i gael golwg ar wlad Canaan; felly y mae y Cristion yn esgyn i fynydd Myfyrdod, a thrwy ffydd yn gweled ei orphwysfa. Y mae efe yn edrych ar y trigfannau gogoneddus, ac yn dywedyd, "Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti, (a hynny'n haeddiannol iawn,) O ddinas Duw!" Y mae efe megis yn clywed sain y côr nefolaidd, ac yn dywedyd, "Gwyn eu byd y bobl y mae felly iddynt; ïe, gwyn eu byd y bobl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddynt!" Y mae efe yn edrych ar y trigolion gorfoleddus, ac yn dywedyd, "Gwynfydedig wyt, O Israel: pwy sydd megis ti, O bobl gadwedig gan yr Arglwydd, tarian dy gynnorthwy, yr hwn hefyd yw cleddyf dy ardderchawgrwydd!" Deut. 33 : 29. A phan fydd yn edrych ar yr Arglwydd ei hun, yr hwn yw eu gogoniant,

y mae yn barod i syrthio i lawr, ac i addoli gyda hwynt yr hwn sydd yn byw bob amser, ac i ddywedyd, "Sanct, sanct, sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog, yr hwn oeddit, a'r hwn wyt, a'r hwn sydd i ddyfod! Teilwng wyt ti, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu!" A phan y bydd yn edrych ar yr Iachawdwr gogoneddus, y mae yn barod i ddywedyd "Amen" i'r gân newydd honno, "Y fendith, a'r gogoniant, a'r anrhydedd, a'r gallu, a'r nerth, a fyddo i'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfaingc, ac i'r Oen, yn oes oesoedd: canys ti a laddwyd, ac a'n prynaist ni i Dduw trwy dy waed, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl; ac a'n gwnaethost ni, i'n Duw ni, yn frenhinoedd ac yn offeiriaid!" A phan fydd yn edrych yn ol ar anialwch y byd hwn, y mae yn bendithio'r Cristionogion crediniol, amyneddgar, a dirmygedig; ac y mae efe yn llawn tosturi tuag at y byd anwobodus, cildynus, a thruenus; ond am dano ei hun, y mae'n dywedyd, fel Pedr, "Da yw i mi fod yma;" neu megis Asaph, "Nesâu at Dduw sydd dda i mi; canys difethir y rhai a bellhant oddiwrthyt!" Ac megis Daniel yn ei gaethiwed, yr hwn a agorodd ei ffenestr bob dydd tua Jerusalem, er ei bod ymhell allan o'i olwg, pan y byddai efe yn nesâu at Dduw mewn addoliad; felly y dichon yr enaid crediniol ynghaethiwed y cnawd, edrych tua'r Jerusalem sydd uchod. Ac fel ag yr oedd Paul gyda'r Colossiaid, felly y dichon y credadyn fod gyda'r ysprydoedd a ogoneddwyd, "er ei fod yn absennol yn y cnawd, etto geill fod gyda hwy yn yr yspryd," yn llawenychu, wrth weled eu trefn nefolaidd. Ac megis ag y bydd yr uchehedydd yn canu yn felus tra y bydd yn esgyn i fynu i'r awyr, ac yn tewi yn ddisymmwth drachefn pan y bydd yn disgyn i'r ddaear; felly hefyd y bydd tymher yr enaid yn hyfryd a nefolaidd tra fyddo yn ceisio cynnal ei hun i fynu, ac yn dal ei olygon ar Dduw mewn myfyrdod. Ond och! ni fyddwn yn aros felly ond ychydig iawn o amser, yna'n syrthio i lawr drachefn, ac yn colli ein cân a'n hwyl nefolaidd!

§ 31. Ond, O tydi, Dad trugarog yr ysprydion, denwr y cariad, a dyfnder yr hyfrydwch, tyn i fynu attat dy hun y calonnau hyn sydd yn llawn alcan ac ammhuredd, a phura, a sancteiddia, ac ysprydola hwy yn hollol; a chynorthwya a llwydda ymdrechiadau gweiniaid dy was, a darostwng galonnau y rhai a fyddant yn darllen y llinellau hyn, a thuedda hwynt i'r ymarferiad beunyddiol o'r gwaith hyfryd, nefolaidd hwn! Ac O na fydded i ti ganiattau i enaid dy was annheilwng fod yn ddieithr i'r cyssur a'r llawenydd hynny, y rhai y mae efe'n ceisio eu canmol a'u cymhell i eraill; ond bydded i ti fy nghadw tra fyddwyf byw ar y ddaear mewn hiraeth beunyddiol a gwastadol am danat, ac i ymegnio, trwy gymhorth dy ras, i rodio trwy ffydd mewn cariad gyda thi! Ac ar dy ddyfodiad, bydded i ti fy nghael yn gwneuthur felly; nid yn gwasanaethu'r cnawd, na chwaith yn heppian, a'm lamp heb olew ac heb ei thrwsio, ond yn disgwyl ac yn hiraethu am ddyfodiad fy Arglwydd! A bydded i'r rhai hynny a ddarllenant y cyfarwyddiadau nefol hyn, nid yn unig ddarllen ffrwyth fy llafur, ond meddiannu hefyd anadliad hiraethlawn fy ngobaith a'm cariad bywiog, fel (pe byddai modd i'm calon fod yn agored i'w golwg) y gallent yno hefyd ddarllen yr un peth, wedi ei gerfio yn ddwfn â phelydr disglaer oddiwrth wynebpryd Mab Duw; ac na fyddo iddynt ganfod dim gwagedd, nac anlladrwydd, na balchder o'm mewn, pan y mae geiriau'r bywyd yn ymddangos oddiallan; ac fel na byddo i'r llinellau hyn dystiolaethu i'm herbyn; eithr fel ag y maent yn dyfod o galon yr ysgrifenydd, y byddo iddynt hefyd gael effaith parhaus, trwy dy ras di, ar galon y darllenydd, a bod o honynt yn arogl bywyd iddynt hwy a minnau! Amen.

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw; ar y ddaear tangnefedd; i ddynion ewyllys da.

DIWEDD.

[illegible]

Deacidified using the Bookkeeper proces
Neutralizing agent: Magnesium Oxide
Treatment Date: Nov. 2005

PreservationTechnologies
A WORLD LEADER IN PAPER PRESERVATIO

THE LIBRARY OF CONGRESS

LIBRARY OF CONGRESS
0 017 054 147 9